Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries
and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

# CORPH CYNNWYSFAWR

# O DDUWINYDDIAETH:

GAN

*ALEXANDER SMITH PATERSON, A.M.*

WEDI EI GYFIEITHU,

GAN Y PARCH. OWEN JONES, MANCHESTER:

AIL ARGRAFFIAD.

WYDDGRUG:

ARGRAFFEDIG, CYHOEDDEDIG, AC AR WERTH

GAN HUGH JONES.

ELIAS JONES, 48, GREGSON STREET, EVERTON, LIVERPOOL.

HUGHES A BUTLER, 15, ST. MARTIN LE GRAND, LLUNDAIN.

1367 f. 7.

BIBLIOTHECA · BODLEIANA

# HYSBYSIAD.

AWDWR y gwaith canlynol, Mr. ALEXANDER SMITH PATERSON, ydoedd fab henaf y diweddar Barch. Alexander Paterson o Dundee, a nai y Parch. Dr. Paterson, un o weinidogion Montrose. Efe a dderbyniodd ei ddysgeidiaeth yn yr Ysgol Rammadegol, ac Athrofa Aberdeen, lle y preswyliai ei deulu wedi marwolaeth ei dad. Er ei fod yn efrydydd llafurus annghyffredin, nid ychydig oedd ei bryder a'i ofn wrth feddwl am ymddangos i gael ei holi o flaen yr henaduriaeth. Yr ofn yma mewn mesur mawr a fu yn achlysur iddo i grynhoi sylwadau manwl ar Hanesyddiaeth Eglwysig, y rhai a gyhoeddwyd wedi ei farwolaeth ef dan yr enw "Hanes yr Eglwys o greadigaeth y Byd hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg."

Y gwaith hwn hefyd a gyfansoddwyd i'r cyffelyb ddyben; a thybir fod yr ymröad meddwl dirfawr, a'r hwn yr ymdrechai i gwblhau y gorchwylion hyn, wedi bod yn achlysur i radd fawr i brysuro ei farwolaeth anamserol, yr hyn a fu ar y 12fed o Fedi, 1828, yn y 25ain flwydd o'i oedran.

Gadewid y gwaith hwn ar yr "Holwyddoreg Feraf," wedi ei lwyr barottoi i'r wasg gan Mr. Paterson: ond dros beth amser lluddiwyd ei gyhoeddiad gan amryw amgylchiadau. Dangosid y Gwaith yn ysgrifenedig i amryw weinidogion enwog, y rhai wedi ei ddarllen yn fanol, a ddatganent eu cymeradwyaeth

mwyaf trwyadl o hono. Yn enwedig y Parch. Dr. Brewster o Craig, a'i darlunniai "fel un o'r dëongliadau cywiraf, cyflawnf, a phrydferthaf ar yr Holwyddoreg Feraf, ar a ymddangosodd erioed;—gan ei fod yn cynnwys dadblygiad meddwl yr atteb-ion i bob holiad gydag eglurder a manylrwydd na's gwelwyd ei gyffelyb o'r blaen mewn gweithiau o'r fath yma."

Boneddwr arall, tra chyfarwydd ar lëenyddiaeth, a ddywedai "ei fod wedi ei barottoi gydâ'r fath ofal dybryd, fel wedi ei ddarllen drwyddo yn y modd mwyaf manwl, na's gallai efe gry-bwyll un gair y buasai yn ddymunol ei ychwanegu atto, neu ei dynu oddiwrtho."

Er cryfed ydyw y tystiolaethau uchod, y mae y Cyhoeddwr yn hyderus y gwêl y Cymry erbyn y darllenant y Gwaith eu hunain, na fynegodd neb yn rhy dda am dano.

WYDDGRUG, 1856.

# Y CYNNWYSIAD.


TU DAL.

ARWEINIAD CYFFREDINOL.

Prif ddyben creadigaeth dyn .. .. .. .. 11
Yr Ysgrythyrau yn unig rëol ffydd a dyledswydd .. 14
Y ddau brif destyn o ymdriniaeth yn yr Ysgrythyrau, yn cael eu hegluro yn Nau Ddosparth yr Holwyddoreg .. 19

## RHAN GYNTAF.

PA BETH SYDD I NI I'W GREDU AM DDUW.

### PENNOD I.

AM DDUW O'I YSTYRIED YNDDO EI HUN.

Natur Duw a'i briodoliaethau .. .. .. .. 22
Undod Duw .. .. .. .. .. .. 35
Trindod o bersonau yn y Duwdod .. .. .. 37

### PENNOD II.

AM ATHRAWIAETHAU DUW MEWN PERTHYNAS I'W GREADURIAID.

ADRAN I.—Am natur a nodwedd Arfaethau Duw .. .. 43

ADRAN II.—Am gyflawniad Arfaethau Duw .. .. 47
Yn Nghreedigaeth y Byd .. .. .. .. 48
„ Nghreedigaeth dyn .. .. .. .. 51
„ Natur a nodwedd Rhagluniaeth Gyffredinol Duw .. 53

ADRAN III.—Am Ragluniaeth Neillduol Duw tuag at ddyn yn ei greadigaeth a'i gwymp.

Y Cyfammod gweithredoedd,—ei bleidiau a'i ammodau .. 56
Anufudd-dod dyn a'i gwymp drwy bechod .. .. 60
Natur pechod yn gyffredinol .. .. .. .. 63
Natur pechod Adda yn neillduol .. .. .. 64
1. Ehangder y cwymp .. .. .. .. 67
2. Canlyniadau y cwymp .. .. .. .. 69
3. Pechadurusrwydd cyflwr dyn trwy y cwymp .. 70
4. Trueni cyflwr dyn trwy y cwymp .. .. 73

ADRAN IV.—Am Ragluniaeth Neillduol Duw tuag at ddyn yn y Prynedigaeth.

*Dos.* 1.—Trefu y prynedigaeth .. .. .. 76
Person a nodwedd y Prynwr .. .. 84
Y Prynwr yn ymgymeryd â Natur Ddynol .. 88
Swyddau y Prynwr .. .. .. 90
1. Y swydd Brophwydol .. .. .. 94
2. Y swydd Offeiriadol .. .. .. 96
3. Y swydd Freninol .. .. .. .. 103

*Dos.* 2.—Y sefyllfeydd yn y rhai y cyflawnai y Prynwr ei dair swydd.
Sefyllfa o ddarostyngiad .. .. .. 107
Sefyllfa o ddyrchafiad .. .. .. 111

*Dos.* 3.—Am gymhwysiad y Prynedigaeth
Y Gweithredydd trwy yr hwn y cymhwysir y Prynedigaeth. .. .. .. .. 117
Y moddion a ddefnyddir er cymhwysiad y Prynedigaeth mewn galwedigaeth effeithiol .. 120
Dull a threfn cymhwysiad y Prynedigaeth mewn galwedigaeth effeithiol. .. .. .. 123

*Dos.* 4.—Am Ddoniau y Prynedigaeth.
Doniau y Prynedigaeth yn y fuchedd hon .. 129
1. Am Gyfiawnhad .. .. .. 132
2. Am Fabwysiad .. .. .. 140
3. Am Sancteiddhad .. .. .. 144
4. Am Ddoniau ychwanegol .. .. 148
Doniau y Prynedigaeth yn angau .. .. 157
Bendithion y Prynedigaeth yn yr adgyfodiad .. 160

## AIL RAN.

### Y DDYLEDSWYDD A OFYNA DUW GAN DDYN.

RHAGLITH.—Natur dyledswydd dyn yn gyffredinol .. .. 164

### PENNOD I.

ADRAN I.—Am y ddeddf Foesol, yn rhwym ar bob creadur rhesymol, fel y mae wedi ei chrynhoi yn y Deg Gorchymyn.
Am y Ddeddf Foesol .. .. .. 169
Crynodeb o'r Ddeddf Foesol .. .. .. 174
Swm y Deg Gorchymyn .. .. .. 179
Rhagymadrodd i'r Deg Gorchymyn .. .. 182

ADRAN II.—Ein dyledswyddau i Dduw, cynnwysedig yn y pedwar Gorchymyn cyntaf.

*Dos.* 1.—Y gorchymyn Cyntaf .. .. .. 186
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 186
Y pechodau a waherddir .. .. .. 189
Am yr ymadrodd "Ger fy mron I" .. .. 192

*Dos.* 2.—Yr Ail Orchymyn .. .. .. .. 194
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 194
Y pechodau a waherddir .. .. .. 197
Y rhesymau a gyssylltir .. .. .. 200

*Dos.* 3.—Y Trydydd Gorchymyn .. .. .. 202
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 203
Y pechodau a waherddir .. .. .. 208
Y rheswm a gyssylltir .. .. .. 211

*Dos.* 4.—Y Pedwerydd Gorchymyn .. .. .. 214
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 214
Newidiad y Sabbath .. .. .. 220
Sancteiddiad y Sabbath .. .. .. 223
Y pechodau a waherddir .. .. .. 226
Y rhesymau a gyssylltir .. .. .. 229

ADRAN III.—Y dyledswyddau gofynol genym at ddyn—cynnwysedig yn y chwe' Gorchymyn olaf o'r Ddeddf.

*Dos.* 1.—Y Pummed Gorchymyn .. .. .. 232
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 232
Y pechodau a waherddir .. .. .. 241

*Dos.* 2.—Y Chweched Gorchymyn
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 246
Y pechodau a waherddir .. .. .. 249

*Dos.* 3.—Y Seithfed Gorchymyn
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 252
Y pechodau a waherddir .. .. .. 254

*Dos.* 4.—Yr Wythfed Gorchymyn
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 256
Y pechodau a waherddir .. .. .. 259

*Dos.* 5.—Y Nawfed Gorchymyn
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 263
Y pechodau a waherddir .. .. .. 265

*Dos.* 6.—Y Degfed Gorchymyn
Y dyledswyddau a ofynir .. .. .. 269
Y pechodau a waherddir .. .. .. 272

## PENNOD II.

Y RHAGDRAITH.

Anallu dyn i gadw y Ddeddf .. .. .. .. 276
Amryw raddau o euogrwydd yn nhroseddiad y Ddeddf .. 279
Teilyngdod pob trosedd o'r Ddeddf .. .. .. 283

DYLEDSWYDDAU NEILLDUOL A OFYNIR GAN DDYN DAN OBUCHWYLIAETH YR EFENGYL.

ADRAN 1.—Ffydd yn Iesu Grist .. .. .. .. 289

ADRAN 2.—Edifeirwch i Fywyd .. .. .. .. 309

ADRAN 3.—Dyfal arferiad o foddion gras .. .. .. 315

*Dos.* 1.—Am Air Duw fel moddion gras
1. Effeithiau Gair Duw .. .. .. 319
2. Defnyddiad priodol o Air Duw .. .. 324

*Dos.* 2.—Am y Sacramentau fel moddion gras
1. Am natur y Sacramentau .. .. 327
2. „ effeithiolrwydd y Sacramentau .. .. 331
3. „ Sacramentau y Testament Newydd .. 334
4. „ natur a defnydd Bedydd .. .. 338
5. „ ddeiliaid Bedydd .. .. .. 346
6. „ natur a defnydd Swpper yr Arglwydd .. 353
7. „ iawn gyfrannogiad o Swpper yr Arglwydd 363

*Dos.* 3.—Am Weddi fel moddion gras
1. Am natur Gweddi .. .. .. 376
2. „ y rhëol er cyfarwyddyd i weddio .. 384
3. „ y rhagymadrodd i Weddi yr Arglwydd .. 387
4. „ yr Eirchiad Cyntaf .. .. .. 391
5. „ yr Ail Eirchiad .. .. .. 395
6. „ y Trydydd Eirchiad .. .. .. 399
7. „ y Pedwerydd Eirchiad .. .. .. 403
8. „ y Pummed Eirchiad .. .. .. 407
9. „ y Chweched Eirchiad .. .. .. 414
10. „ ddiweddglo Gweddi yr Arglwydd .. 421

# CORFF CYNNWYSFAWR

O

# DDUWINYDDIAETH,

## WEDI EI DDOSRANU A'I EGLURO.

### ARWEINIAD CYFFREDINOL.

LLE Y DANGOSIR PA BETH OEDD PRIF DDYBEN CREEDIGAETH DYN.—MAI YR YSGRYTHYRAU YW YR UNIG REOL I FFYDD A DYLEDSWYDD—A'R DDAU BRIF DESTYN A PHA RAI YR YMDRINIR YN YR YSGRYTHYRAU, A'R RHAI A EGLURIR YN NAU DDOSBARTH YR HOLWYDDOREG.

### *Y prif ddyben o greëdigaeth dyn.*

HOLIAD 1. BETH YW DYBEN PENAF DYN?

Dyben penaf dyn yw gogoneddu Duw, a i fwynhau ef dros byth.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai dyben penaf crëedigaeth dyn, gyda golwg ar Dduw, oedd ei ogoneddu ef. 1 Cor. 10. 31. "Pa un bynag gan hyny ai bwyta ai yfed, ai beth bynag a wneloch, gwnewch bob peth er gogoniant i Dduw."

2. Mai dyben penaf crëedigaeth dyn, gyda golwg arno ei hunan, oedd mwynäad o Dduw dros byth. Ps. 73. 25, 26. "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi.—Nerth fy nghalon a'm rhan yw Duw yn dragywydd."

EGLURHAD.

Sylw 1.—*Dyben penaf crëedigaeth dyn, gyda golwg ar Dduw, oedd ei ogoneddu ef.*

Fe wahaniaethir gogoniant Duw yn gyffredin, i'w ogoniant *hanfodol*, a'i ogoniant *mynegol.*

1. *Gogoniant hanfodol* Duw, yw yr hyn yw efe ynddo ei hunan. "Ydwyf yr hwn ydwyf." Exod. 3. 14. Dyma y gogoniant hwnw sydd ganddo ef ynddo ei hunan, yr hwn ni ddyru efe i arall. Mae y gogoniant hwn yn anfeidrol, tragywyddol, ac annewidiol; ac o ganlyniad, ni's gellir ei chwanegu na'i leihau. Job 35. 7; Ps. 16. 2.

2. *Mae gogoniant mynegol* Duw yn gynnwysedig yn ei amlygiad o'i ogoniant i, trwy, ac yn y creaduriaid a wnaeth efe.

Mae y *creaduriaid afresymol*, bywiol a difywyd, yn gogoneddu Duw yn *oddefol*, trwy weinyddu defnydd mawl i Dduw, eu gwneuthurwr. Ps. 19. 1. Ond nyni, ei greaduriaid *rhesymol* ef, a ddylem ei ogoneddu ef yn *weithredol*,—trwy lwyr roddi ein calonau arno,—trwy ddefnyddio pob peth yn ddarostyngedig i'w ogoniant ef, ac yn unig fel moddion i ddatgan ei foliant ef yn fwy perffaith,—trwy fod yn foddlawn i ymadael â phob peth anwyl genym, yn hytrach na bod heb ddal allan ei ogoniant ef,—a thrwy ddefnyddio yr holl alluoedd a'r doniau a dderbyniasom ganddo ef, i'r perwyl yma, (1 Cor. 6. 20; Mat. 5. 16,)—trwy ufuddhau i'w holl orchymynion,—a thrwy gydnabod ei holl berffeithiau.

Mae Duw i gael ei ogoneddu yn *mhob peth.* 1 Cor. 10. 31; 1 Pedr 4. 11. Nyni a ddylem ei ogoneddu ef yn ein holl weithredoedd, pa un bynag ai *naturiol*, megys bwyta ac yfed, &c.; ai *gwladol*, megys yn negeseuon cyffredin y fuchedd hon; neu *foesol a chrefyddol*, yn y dyledswyddau gofynol oddiwrthym i Dduw. "Nid oes un gronyn o wir ddaioni yn y gweithredoedd rhagoraf a gyflawnir heb un golwg ar ogoniant Duw. Ni ddichon y byd ddeall hyn; ond fe ymddengys yn dra rhesymol i'r rhai a gymerant eu golygiadau am Dduw allan o'r Ysgrythyrau, y rhai a deimlasant eu hangen am iachawdwriaeth, ac a brofasant lesäad o honi."

Nyni a ddylem wneuthur gogoniant Duw ein *dyben penaf* yn ein holl weithredoedd.—1. Am mai dyma oedd dyben penaf Duw yn ein crëedigaeth, ein cynhaliaeth, a'n prynedigaeth. 2. Oblegyd fod Duw wedi ein gwneyd yn gymhwys i'w ogoneddu ef. 3. Fe ddylai diolchgarwch ein cyffroi i wneuthur hyn ein dyben penaf. Ps. 100. 3; Diar. 16. 4; Ps. 66. 8, 9; 1 Cor. 6. 19, 20; Ps. 103. 1—5.

Nyni a allwn sylwi yma, na all un dyn ogoneddu Duw yn

gymeradwy hyd oni chredo yn Iesu Grist; canys heb ffydd anmhossibl yw rhyngu ei fodd ef; a pha beth bynag nid yw o ffydd, pechod yw. Heb. 11. 6; Rhuf. 14. 23. Ac ni's gallwn ogoneddu Duw o honom ein hunain; canys ni's gallwn ni wneyd dim da o honom ein hunain; Ioan 15. 5. Ond, gan fod Duw wedi addaw gras yr Ysbryd, nid gweddus i ni ddiffygio yn gwneuthur daioni.

Sylw 2.—*Dyben penaf crëedigaeth dyn, gyda golwg arno ei hunan, oedd mwynhau Duw dros byth.*

*Mwynhau Duw*, yw ymorphwys yn Nuw fel y daioni penaf, gydag ymhyfrydiad; neu deimlo yn annrhaethol ddedwydd yn ei wydd, Ps. 116. 7.

Mae credinwyr yn mwynhau Duw yn y byd hwn cystal ag yn yr hwn a ddaw, Gen. 5. 24; 1 Ioan 1. 3; 1 Cor. 1. 9. Ond, y mae gwahaniaeth mawr rhwng y mwynhad o Dduw *yma*, a'r mwynhad o hono *ar ol hyn*. Yn y byd yma mae y mwynhad o Dduw yn *gyfryngol*; hyny yw, y mae ei ordinhadau rhyngom ag ef: ond, yn y byd a ddaw, fe fydd yn *ddigyfrwng*; nid adwaenir ordinhadau yno—a moddion ni bydd mwy. Nid yw y mwynhad o Dduw ond *dechreu* yma; yno, bydd yn *gyflawn*. Yma, y mae *o ran*; yno, y'i *perffeithir*, 1 Cor. 13. 12; Ps. 16. 11.

Mae mwynhad o Dduw yn y byd hwn yn gynnwysedig mewn *undeb â Duw yn Nghrist*, trwy ffydd ynddo ef; ac oddiyma y llifeiria cymmundeb âg ef yn y byd hwn.

Y *moddion allanol* trwy y rhai y dylem ymofyn am y mwynhad yma, ac yn y rhai y cynhaliwn gymmundeb â Duw, ydynt yr *ordinhadau a osododd efe*, cyhoeddus, neillduol, a dirgel; megys gweddi, myfyrdod, darllen; pregethu a gwrando y gair, a'r sacramentau, &c.

Mae y mwynhad o Dduw yma yn wystl o lawn fwynhad o o hono ar ol hyn mewn gogoniant; pan dderbynir y credinwyr i'w wyddfod gogoneddus ef, lle y cânt brofi yn gyflawn o'i gariad, ac ymddigoni ac ymorphwys yn gyflawn ac yn dragywyddol ynddo ef, gyda hyfrydwch a llawenydd perffaith ac annirnadwy, 1 Cor. 13. 12; Ps. 16. 11.

Nyni a ddylem yn gyntaf geisio a dymuno am fwynhad o Dduw dros byth, am mai efe yw y daioni penaf, ac yn y mwynhad o hono ef y mae dedwyddwch penaf dyn yn gynnwysedig; a hefyd, am na's mwynheir Duw ond yn anmherffaith ac anwadal yma, ac na's gallwn fod yn berffaith ddedwydd hyd oni's mwynhawn ef yn dragywyddol yn y nef, Ps. 4. 6, 7; 1 Cor. 13. 9, 10; Ps. 16. 11.

Gellir sylwi yma, y bydd credinwyr yn y byd a ddaw, nid

yn unig yn mwynhau cymmundeb â Duw yn Nghrist, ond â'r angylion hefyd, ac â'u brodyr o ddynolryw, y rhai a brynwyd o fysg y cenhedloedd.

Sylw 3.—*Mae gogoneddu Duw a'i fwynhau ef yn gyssylltiedig anysgaredig.*

Mae gogoneddu Duw a'i fwynhau ef wedi eu cyssylltu yma fel un prif ddyben, am fod Duw wedi eu cyssylltu yn anysgaredig; ac ni's gall neb wir fwriadu a cheisio y naill, heb ei fod, ar yr un pryd, yn bwriadu ac yn ceisio y llall: ac ni a allem sylwi yma, fod gogoneddu Duw yn cael ei roddi yma o flaen ei fwynhau ef yn dragywydd, er dangos mai y blaenaf yw y moddion trwy yr hwn y cyrhaeddir yr olaf; y rhaid i sancteiddrwydd ar y ddaear ragflaenu gogoniant a dedwyddwch yn y nef, ac na chaiff neb fwynhau Duw dros byth, nad ydynt yn dymuno ei ogoneddu ef yn y byd hwn. Heb. 12. 14; Matt. 5. 8.

CASGLIADAU.

Oddiwrth yr hyn a fu dan ein sylw, dysgwn,—1. Fod genym achos mawr i alarau, am fod Duw a'i ogoniant mor anfynych yn destun ein myfyrdod. 2. Yr angenrheidrwydd i ni holi ein hunain, a ddarfu *i ni* erioed olygu gogoniant Duw fel *ein* dyben penaf? pa un a ydym *ni* yn gwir ddymuno gwneuthur yr hyn a orchymyna efe, ac ymattal oddiwrth yr hyn a wahardda efe? 3. Y dylem fod wedi ein hargyhoeddi na's gallwn o honom ein hunain ogoneddu Duw, ac am hyny fod yn hollol angenrheidiol i ni weddio am Ysbryd Duw, i'n galluogi i'w ogoneddu ef yn ein cyrph ac yn ein hysbrydoedd, y rhai ydynt eiddo ef. 4. Bod enaid dyn yn anfarwol; canys yn gymaint a bod dymuniad am ddedwyddwch yn naturiol iddo, ac na's gall dim ddiwallu ei ddymuniad ond Duw, mae yn amlwg y rhaid i ni briodoli anfarwoldeb i'r rhan benaf o ddyn. 5. Etifeddiaeth ardderchog pobl Dduw tu draw i'r bedd. 6. Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd. 7. Na ddylai y credadyn ddigaloni ar gyfrif y rhwystrau y dichon iddo eu cyfarfod ar y ffordd i'r nefoedd, gan nad ydynt ond o fyr barhad—nad ydynt ond byr ysgafn gystudd, Rhuf. 8. 18. *Yn olaf.* Y dylem amcanu tra yn y byd hwn, yn nerth Dwyfol ras, i ogoneddu Duw yn mhob peth, fel y gallom ei fwynhau dros byth yn y byd a ddaw.

## *Yr Ysgrythyrau yn unig Reol ffydd a dyledswydd.*

HOL. 2. PA REOL A RODDES DUW I'N CYFAR-

WYDDO AM Y MODD I'W OGONEDDU A'I FWYNHAU EF?

Gair Duw, yr hwn a gynnwysir yn Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, yw yr unig reol i'n cyfarwyddo ni am y modd i'w ogoneddu a'i fwynhau ef.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. O'r angenrheidrwydd am reol i'n cyfarwyddo pa fodd i ogoneddu Duw a'i fwynhau. Jer. 10. 23. "Nid eiddo dyn ei ffordd: nid ar law gwr a rodio y mae llywodraethu ei gerddediad." Gwel hefyd Act. 2. 37.

2. Mai gair Duw yw yr Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd. 2 Tim. 3. 16. "Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi trwy ysbrydoliaeth Duw." Gwel hefyd 2 Pedr 1. 21.

3. Mai gair Duw yw yr *unig* reol i'n cyfarwyddo pa fodd i ogoneddu Duw a'i fwynhau. Esa. 8. 20. "At y gyfraith ac at y dystiolaeth: oni ddywedant yn ol y gair hwn, hyny sydd am nad oes oleuni ynddynt.

EGLURHAD.

Sylw 4.—*Mae yn rhaid i ni wrth reol i'n cyfarwyddo pa fodd i ogoneddu Duw a'i fwynhau.*

Mae yn wir fod goleuni natur, a gweithredoedd crëedigaeth a rhagluniaeth, yn dangos fod Duw; a bod y Duw yma yn anfeidrol yn ei hanfod, ei ddoethineb, ei allu, a'i ddaioni; ac y dylai gael ei addoli a'i ogoneddu gan ei greaduriaid. Ond ni's gallant hwy wneyd amlygiad cyflawn ac achubol o Dduw; ni's gallant ddatguddio ei gariad a'i drugaredd at bechaduriaid yn ei Fab; ni's gallant ddatguddio pa fodd y y dylai efe gael ei ogoneddu a'i addoli; ac ni's gallant ein cyfarwyddo ni pa fodd i'w fwynhau ef yn y byd hwn, na'r hwn a fydd, Rhuf. 1. 20; a 2. 14; 1 Cor. 1. 21; Heb. 11. 6; Rhuf. 10. 17; Act. 4. 12.

Sylw 5.—*Mai gair Duw, neu ddatguddiad o'r nef, ydyw Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd.*

Mae y gair *Ysgrythyrau* yn arwyddo *ysgrifeniadau.* Ac y mae gair Duw yn cael ei alw felly mewn modd arbenig am ei fod ynddynt wedi *ysgrifenu* pethau mawrion ei gyfraith a'i gyfammod i ni, Hos. 8. 12.

*Testament* sydd ysgrifen, neu weithred wirfoddol un yn

sicrhau cymmun-roddion i'r sawl a enwir gan y testamentwr, yr hyn ni's gall gael ei weinyddu cyn ei farwolaeth ef, Heb. 9. 16.

Gelwir ysgrifeniadau Moses a'r Prophwydi, *Yr Hen Destament, neu y cyntaf;* oblegyd mai y Testament neu y Cyfammod Gras, a wnaethai Duw â dyn, a ddatguddir ynddo, ac yn ei oruchwyliaeth; yn yr hon y mae Crist, y testamentwr, a hen gyfryngwr y cyfammod, yn cael ei arddangos trwy gysgodau a chyffelybiaethau; ac am y gofynid ynddo amrywiol gyflawniadau blinion, ac ordinhadau cnawdol y ddeddf seremoniol.

Gelwir ysgrifeniadau yr Efengylwyr a'r Apostolion, yn *Destament Newydd,* neu *yr ail;* oblegyd fod Testament Duw, neu y cyfammod o ras, yn cael ei arddangos ynddo dan yr oruchwyliaeth newydd o hono, yn yr hon y mae Crist, yr hwn yn awr wedi ymgnawdoli, a ddatguddir heb gysgodau a lluniau; a chan ei fod ef wedi rhoddi pen ar y ddeddf seremoniol, a rhyddhau ei bobl oddiwrth yr iau caethiwed hono, —y mae efe yn awr yn gofyn addoliad mwy ysbrydol yn ei lle.

Gellir dangos mai *datguddiad o'r nef* yw yr Ysgrythyrau, trwy resymau neu brofion, allanol a thufewnol.

1. *Y profion allanol,* y rhai a ddangosant fod yr Ysgrythyrau yn air Duw, ydynt a ganlyn:—Eu hynafiaeth digyffelyb —nodweddiad da yr Ysgrifenwyr Sanctaidd—y gwyrthiau trwy ba rai y'u cefnogid—cyflawniad manol eu prophwydoliaethau—yr effeithiau a gynnyrchid drwyddynt—y gwrthwynebiadau a ddaliasant ac a orfuasant—a'r bri a roddir arnynt gan y gorau o ddynion.

2. *Y prawfion tufewnol,* a brofant bod yr Ysgrythyrau yn air Duw, ydynt a ganlyn:—Nid yw eu holl gynnwys yn gwrthdaro dim mewn natur na gwir reswm; ond yn cadarnhau pob ffaith resymol—mae llawer o wirioneddau pwysig yn cael eu datguddio ynddynt na's gallasent byth gael eu darganfod gan natur na rheswm—purdeb perffaith eu hathrawiaethau, eu dyledswyddau, eu gorchymynion, a'u holl gynnwys—cyssondeb eu hamryfal ranau—eu cyfaddasrwydd i'n cyflwr ni—yr amlygiad cyflawn a pherffaith y maent yn ei wneyd o unig ffordd iachawdwriaeth—mawrhydi eu dulliaith (*style*)—eu heffeithioldeb i argyhoeddi a deffroi y gydwybod, i ddychwelyd a throi y galon i fywhau dynion o'u marwolaeth ysbrydol, ac i ddyddanu y galon dan y trallod dwysaf—eu tuedd i roddi y gogoniant i Dduw, ac i ddarostwng y pechadur—a'r pofiad a fedd gwir gredinwyr o'u gwirionedd.

Ymddengys oddiwrth y pethau canlynol, nas gallasai

*dynion* nac *angelion* fod yn *awdwyr* yr Ysgrythyrau:— 1. Ni's gallai *dynion da* fod eu hawdwyr, gan y byddai iddynt fel y cyfryw yn fynych honi iddynt eu hunain yr hyn sydd anfeidrol uwchlaw eu gallu. 2. Ni's gallai *dynion drwg* fod yn awdwyr o honynt, gan nad allent ysgrifenu y fath iaith; ac ni's gallasai eu calon ddychmygu am y fath nefolrwydd ysbryd ag sydd yn cael ei arddangos drwy bob rhan o honynt. 3. Nis gallasai *angelion da* fod yn awdwyr o honynt, gan na's gallent feddu y dymuniad i dwyllo neb; ac oblegyd y dywedir eu bod hwy yn chwenychu edrych i mewn i'w dirgeledigaethau; ac ni ellir tybied y buasent hwy yn ysgrifenu yr hyn ni's deallent yn drwyadl, 1 Pedr 1. 12. 4. Ni's gallasai fod *angelion drwg* yn awdwyr iddynt, gan eu bod yn mhob rhan yn gwrthsefyll teyrnas Satan, ac yn dangos y modd y'i llwyr ddymchwelir yn y diwedd.

Sylw 6.—*Yr Ysgrythyrau yw yr unig reol i'n cyfarwydd• am y modd i ni ogoneddu Duw a'i fwynhau ef.*

Yr Ysgrythyrau ydynt *unig* reol ffydd a dyledswydd gan na's gallasai neb ond Duw, eu hawdwr, ddangos y ffordd yn yr hon y mae efe ei hun i gael ei ogoneddu a'i fwynhau, gan bechaduriaid cwympedig o ddynolryw, Mic. 6. 6—9; Matt. 11. 25—28. Gwelir hyn yn fwy eglur, pan ystyriom,

1. Eu bod yn rheol *ddigonol*. Mae yr Ysgrythyrau yn unig yn ddigonol heb gymmorth ysgrifeniadau dynol, i roddi i ni y cyfryw adnabyddiaeth o Dduw a'i ewyllys, ag sydd angenrheidiol er iachawdwriaeth. Gal. 1. 8; Ioan 5. 39.

2. Eu bod yn rheol *berffaith*. Mae holl gynghor Duw am bob peth angenrheidiol er ei ogoniant ef ac iachawdwriaeth dyn, ffydd ac ymarweddiad, naill ai wedi ei roddi i lawr yn eglur a phenderfynol, neu i'w casglu yn naturiol ac esmwyth oddiwrth yr Ysgrythyr, 2 Tim. 3. 15—17; Gal. 1. 8, 9. Y gellir defnyddio casgliadau naturiol oddiwrth yr Ysgrythyr, fel rhan o'r rheol, cystal ag Ysgrythyrau penodol, a welir yn amlwg oddiwrth esiampl ein Harglwydd yn profi athrawiaeth yr adgyfodiad yn erbyn y Saduceaid, Matt. 22. 31, 32.

3. Eu bod yn rheol *eglur*. Mae yn ddiau fod yn yr Ysgrythyrau ryw bethau anhawdd eu deall o herwydd eu cyfeiriad at amser a lle; ac y mae ynddynt ddirgeledigaethau tu hwnt i ddirnadaeth bodau crëedig: ond, y mae gwirioneddau sylfaenol yr Efengyl, gyda golwg ar ffydd ac ymarweddiad, yn eithaf eglur i'r rhai ydynt dan ddylanwadau goleuedig yr Ysbryd Glan. Canys y mae pob peth angenrheidiol er iachawdwriaeth wedi ei osod i lawr yn yr Ysgrythyr mor eglur,

fel y gallo pob un a ddefnyddio y moddion cyffredin gyrhaedd gwybodaeth ddigonol o honynt.

Y rheswm pa ham y gadawodd Duw ranau o'i air yn *dywyll ac anhawdd eu deall*, yw,—1. Fel yr argyhoedder ni mai efe yn unig a all beri i ni ddeall yr Ysgrythyrau; a bod yn rhaid i ni weddio am yr Ysbryd Glan i agoryd ein deall. 2. Fel y byddo yr Ysgrythyrau yn destun ein myfyrdodau mynych, os mynem adnabod lleferydd Duw ynddynt. 3. Fel y'n cadwer yn ostyngedig; ac fel y'n harweinier i weled a chydnabod nad yw doethineb dyn onid ffolineb. 4. Fel y rhoddem fawr fri ar y gair,—yr hwn, pe buasai oll yn eglur,a hawdd ei ddeall, a allasai fod yn llai ei fri yn ein golwg. 5. Fel y gwerthfawrogom weinidogaeth y gair yr hon a ordeiniodd Duw yn ei eglwys er ei wneyd yn hysbys a'i ddysgu i ddynion. 6. Fel y gwybyddo y byd, nad trwy ddoethineb dyn, ond trwy ddysgeidiaeth yr Ysbryd Glan, y gwneir dynion yn ddoeth i iachawdwriaeth.

Y deonglydd gorau ar yr Ysgrythyr, yw yr *Ysgrythyr ei hunan;* canys y mae yn eglur y rhaid mai Ysbryd Duw yw y deonglydd gorau ar yr hyn a ddatguddiwyd ganddo ef ei hunan, 1 Cor. 2. 11.

Sylw 7.—*Er fod yr Ysgrythyrau yn rheol ddigonol, berffaith, ac eglur, er cyfarwyddyd i ni, nid ydynt o honynt eu hunain yn ddigonol i'n gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth.*

I'r perwyl yma, rhaid eu dilyn â nerth anfeidrol *Ysbryd Duw;* canys heb hyn, ofer fydd darlleniad a phregethiad y gair, 1 Cor. 2. 14. Pe na byddai dysgeidiaeth yr Ysbryd Glan yn angenrheidiol, yna y canlyniad a fyddai, fod y cyfryw ranau o'r Ysgrythyr ag Esa. 54. 13; Jer. 31. 34, yn ddiangenrhaid; haeru yr hyn a fyddai yn eithaf cabledd. Mai y rhai mwyaf dysgedig yn mhethau y byd hwn a fyddai y mwyaf cyfarwydd a'r Ysgrythyrau; yr hyn nid yw yn bod, Mal. 11. 25; 1 Cor. 1. 21. Pe byddem yn alluog o honom ein hunain i ddeall pethau Duw, byddai yr addewid o'r Ysbryd i agoryd llygaid y deillion, yn ofer. Ac fe fyddai gweddiau pobl Dduw am ddwyfol oleuni, megys Ps. 119. 18, &c., yn llwyr ddifudd.

Sylw 8.—*Ysgrifenwyd yr Ysgrythyrau ar y dechreu yn yr ieithoedd Hebraeg a Groeg.*

Yr Hen Destament, (oddieithr ychydig ranau a ysgrifenwyd yn *Caldaeg*,) a ysgrifenid ar y cyntaf yn *Hebraeg*, yr iaith gyntaf yn y byd; a'r iaith fwyaf adnabyddus yn yr eglwys ar y pryd y rhoddwyd y datguddiad; a'r Testament Newydd, oddieithr yr Efengyl gan Matthew, yr hon, fel y tybir, a ysgrifenwyd yn *Hebraeg*, oedd wedi ei ysgrifenu gyntaf yn yr

iaith *Roeg*, yr hon y pryd hyny oedd y fwyaf cyffredin ac adnabyddus i Iuddewon a Chenedloedd: trwy yr hyn y'n dysgir fod yr holl genhedloedd i gael yr Ysgrythyrau yn yr iaith a ddaellir ganddynt. Y rhanau o'r Hen Destament a ysgrifenasid yn y Galdaeg, yw yr unfed adnod ar ddeg o'r ddegfed bennod o brophwydoliaethau Jeremiah; o'r ail adnod yn y bedwaredd bennod o lyfr Daniel, hyd diwedd yr unfed bennod ar ddeg; a'r bedwaredd, y bummed, a'r chweched bennod o lyfr Ezra.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol dysgwn,—1. Y ddyledswydd a'r angenrheidrwydd o chwilio yr Ysgrythyrau, y rhai trwy ddylanwad yr Ysbryd Glan, ydynt yn abl i'n gwneuthur yn ddoeth i iachawdwriaeth, Ioan 5. 39. 2. Bod yn rhaid i ni gredu mai gair Duw yw yr oll a gynnwysir ynddynt. 3. Y dylem, dan ystyriaeth o'n hanwybodaeth ein hunain, ymgyrhaedd am wybodaeth mwy ehang o wirioneddau achubol yr Ysgrythyrau, nag a feddwn etto. 4. Bod gwneuthur y gair i ddilyn ei wybod, Ioan 13. 17. 5. Daioni Duw yn rhoddi datguddiad o'i ewyllys i ni. 6. Yr angenrheidrwydd am oleuni Dwyfol, fel y gwelom bethau rhyfedd o'r Ysgrythyrau, Ps. 119. 18. 7. Mai gair Duw yw unig reol ffydd ac ufudd-dod; ac mai yma yn unig y'n dysgir i'w ogoneddu ef yn y byd hwn, fel ag i ddyfod i gyflawn fwynhäad o hono ef yn y byd a ddaw.

## *Y ddau brif destyn a drinir yn yr Ysgrythyrau, ac a eglurir yn y ddau ddosbarth o'r Catecism.*

HOL. 3. PA BETH Y MAE YR YSGRYTHYRAU YN EU DYSGU YN BENAF?

Mae yr Ysgrythyrau yn benaf yn dysgu pa beth y mae dyn i'w gredu am Dduw, a pha ddyledswyddau y mae Duw yn ei ofyn gan ddyn.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod yr Ysgrythyrau yn dysgu i ni ryw bethau heblaw gwybodaeth o Dduw, a dyledswydd dyn a'i ddedwyddwch. Gwel Mat. 23. 23.

2. Eu bod yn benaf yn ein dysgu pa beth yr ydym i'w gredu am Dduw. Deut. 31. 12. "Fel y dysgont, ac yr ofnont yr Arglwydd eich Duw, ac yr edrychont am wneuthur

holl eiriau y gyfraith hon." 2 Tim. 1. 13. "Bydded genyt ffurf yr ymadroddion iachus, *mewn* ffydd a chariad."

3. Eu bod hefyd yn dysgu yn benaf y ddyledswydd a ofyna Duw gan ddyn. Ps. 119. 105. "Llusern yw dy air i'm traed, a llewyrch i'm llwybrau." Gwel hefyd Luc 10.25,26.

EGLURHAD.

Sylw 9.—*Mae yr Ysgrythyrau yn dysgu i ni pa beth a gredom am Dduw.*

*Credu*, yw cydsynio, neu roddi coel i wirionedd ar awdurdod un arall.

*Credu yr hyn a ddysgir yn yr Ysgrythyrau*, yw cydsynio, neu roddi coel i'r gwirioneddau a ddatguddir ynddynt, ar awdurdod Duw, gair yr hwn yw yr Ysgrythyrau. Dyma sydd yn cyfansoddi ffydd ddwyfol; ac fe'i cynnyrchir yn enaid dyn, nid trwy unrhyw allu o'r eiddo ei hun, ond trwy nerthol weithrediad Ysbryd Duw. Gal. 5. 22; Eph. 2. 8.

Y pethau a ddysgir yn yr Ysgrythyrau am Dduw, ac ydynt i'w credu genym ni, ydynt yn dwyn perthynas â'i natur a'i briodoliaethau, personau y Duwdod, bwriadau Duw, a chyflawniad ei fwriadau ef, Heb. 11. 6; 1 Ioan 5. 7; Act. 15. 14, 15—18; a 4. 27, 28.

Nid ydym i gredu dim mewn pwnc o ffydd, ond yr hyn a ddysg yr Ysgrythyr i ni; oblegyd mai dyma yr unig lyfr yn y byd sydd ag awdurdod Ddwyfol iddo; ac o ganlyniad, yr unig un sydd yn hollol anffaeledig, Esa. 8. 20.

Sylw 10.—*Mae yr Ysgrythyrau yn ein dysgu pa ddyledswyddau a ofyna Duw gan ddyn.*

Wrth y *dyledswyddau a ofyna Duw gan ddyn*, yr ydym i ddeall, yr hyn sydd deilwng i Dduw, neu, yr hyn sydd ddyledus arnom iddo ef, ac yr ydym yn rhwym fel ei greaduriaid, ei ddeiliaid, a'i blant, i'w wneuthur.

Nid ydym yn rhwym i wneuthur dim mewn ymarferiad ond a ofynir yn yr Ysgrythyrau; oblegyd fod gorchymynion a chyfreithiau Duw, a ddatguddir ynddynt, yn dra ehang, yn cyrhaedd meddyliau a bwriadau y galon, cystal a gweithredoedd y fuchedd, fel nad yw yn gyfreithlawn i ni wneuthur dim ond y'n cyfarwyddir atto yno, naill ai yn uniongyrchol neu achlysurol, Esa. 8. 20.

Sylw 11.—*Dywedir bod yr Ysgrythyrau yn ein dysgu yn benaf am yr hyn yr ydym i'w gredu a'i ymarfer, oblegyd fod y pethau hyn o'r pwys mwyaf, ac yn angenrheidiol anhebgorol er iachawdwriaeth.*

Er mai gair Duw yw yr holl Ysgrythyr, ac o ganlyniad, ei

bod oll mor eirwir, ac nad oes un ran o honi islaw teilyngu ein sylw, eto, nid yw pob beth yn ogyhyd bwysig, nac mor gyssylltiedig âg iachawdwriaeth dragywyddol. Y pethau hyny y mae dyn yn rhwym i'w credu a'u gwneuthur, fel pethau yn nglŷn wrth iachawdwriaeth, ydyw y pethau y mae yr Ysgrythyrau yn eu dysgu yn *benaf.* A gallwn sylwi yn mhellach, er fod y pethau hyn yn cael eu dysgu yn eglur yn yr Ysgrythyrau, eto rhaid eu dilyn gan Ysbryd Duw, yr hwn yn unig a all eu dysgu yn effeithiol er iachawdwriaeth.

Sylw 12.—*Ffydd neu gred yw sail ufudd-dod.*

Mae hyn yn amlwg oddiwrth drefn eu gosodiad yma. Gwneir ffydd neu gred yn *sail* dyledswydd neu ufudd-dod, ac nid dyledswydd neu ufudd-dod yn sail ffydd; neu, mewn geiriau eraill, gosodir y pethau i'w *credu*, o flaen y pethau i'w *hymarfer*, Tit. 3. 8. A gwneir hyn am y rheswm canlynol, sef—fel y gwahaniaether trefn pethau yn y *cyfammod gras*, oddiwrth eu trefn yn y *cyfammod gweithredoedd.* Dan y cyfammod o weithredoedd addawid bywyd, fel gwobrwy o berffaith ufudd-dod, Rhuf. 10. 5. Ond dan y cyfammod gras, y mae bywyd yn cael ei addaw yn rhydd, ac i'w dderbyn yn rhydd; ac y mae eu hufudd-dod i'r ddeddf i gael ei gyflwyno oddiar gariad a diolchgarwch, Jer. 31. 18, 19. Felly ni's gall fod ffydd gadwedigol, yr hon na's dilynir gan ufudd-dod; nac ufudd-dod cymeradwy nad yw yn dylifo o ffydd.

Nyni a gawn brawf ychwanegol o'r trefniad yma ar yr athrawiaeth, yn y dull y cyfleid yr unrhyw gan yr apostol Paul, yr hwn a'n hysbysa am bob ufudd-dod gwir efengylaidd, mai *ufudd-dod y ffydd* ydyw, Rhuf. 16. 26. Ac yn ganlynol, yn ei Epistolau, ni a'i cawn ef yn gosod i lawr yn mlaenaf yr athrawiaethau i'w credu; ac yna, ar y sail hòno, efe a â rhagddo i gymhell y dyledswyddau i'w hymarfer.

Nid yw y trefniad yma yn gwneuthur y ddeddf yn ofer, nac yn gwanhau ein rhwymedigaeth i gydsynio â'i gorchymynion. Yn hytrach, y mae yn cadarnhau y ddeddf, trwy osod ein rhwymedigaeth i'r ddyledswydd ar ei sail briodol, Rhuf. 3. 31.

Pan y dywedir, "O gadw gorchymynion Duw y mae gwobr lawer;" a, "Diau fod ffrwyth (neu *wobr*) i'r cyfiawn,"—yr ydym i ddeall wrth *wobr* yma, ac mewn rhanau cyffelyb, nid *gwobr o ddyled*, ond, *o ras.* Y rhai a wobrwyir ydynt gredinwyr yn Nghrist. Rhaid i'w personau gael eu cymeradwyo trwy undeb âg ef yn gyntaf, cyn y gall Duw gymeradwyo dim o'u gweithredoedd yn gyfiawn, Heb. 11. 6. Gwel hefyd Gen. 4. 4, y rhan olaf.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn dysgwn,—1. Y dylem ymarfer llawer â darllen yr Ysgrythyrau. 2. Yr angenrheidrwydd o weddio am yr Ysbryd, yr hwn a lefarodd yr Ysgrythyrau, a'r hwn yn unig a all beri i ninnau eu deall, ac ufuddhau iddynt. 3. Bod gweithredoedd dyn di ffydd yn weithredoedd meirwon; ac o ganlyniad, ni's gallant ryngu bodd Duw. Heb. 11. 6. 4. Yr angenrheidrwydd am fod wedi ein huno â Christ trwy ffydd, fel y mae y gangen yn y winwydden; ac o fod wedi ein hadeiladu arno ef, fel y sylfaen a osododd Duw yn Sïon.

# RHAN GYNTAF.

## BETH YDYM I'W GREDU AM DDUW.

## PENNOD I.

AM DDUW, DAN YR YSTYRIAETH O'R HYN YDYW YNDDO EI HUNAN,—SEF O BARTH EI NATUR A'I BERFFEITHIAU—EI UNDOD—A THRINDOD O BERSONAU YN Y DUWDOD.

### *Natur Duw, a'i Briodoliaethau.*

HOL. 4. BETH YW DUW?

Ysbryd yw Duw, anfeidrol, tragywyddol, annghyfnewidiol, yn ei fôd, ei ddoethineb, ei allu, ei sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, ei ddaioni, a'i wirionedd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai Ysbryd Duw. Ioan 4. 24. "Ysbryd yw Duw?"

2. Ei fod ef yn anfeidrol yn ei fôd a'i briodoliaethau. Job 11. 7. "A elli di wrth chwilio gael gafael ar Dduw? A elli di gael yr Hollalluog hyd berffeithrwydd?"

3. Ei fod yn dragywyddol yn ei fôd a'i briodoliaethau.

Ps. 90. 2. "Ti hefyd wyt Dduw, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb."

4. Ei fod yn anghyfnewidiol yn ei fôd a'i briodoliaethau. Mal. 3. 6. "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Gwel hefyd Iago 1. 17.

5. Ei fod yn anfeidrol ddoeth. Ps. 147. 5. "Aneirif yw ei ddeall."

6. Ei fod yn anfeidrol alluog. Job 42. 2. "Myfi a wn y gelli di bob peth." Gwel hefyd Dat. 4. 8.

7. Ei fod yn anfeidrol sanctaidd. Dat. 15. 4. "Tydi yn unig wyt sanctaidd."

8. Ei fod yn anfeidrol gyfiawn. Deut. 32. 4. "Duw gwirionedd, a heb anwiredd; cyfiawn ac uniawn yw efe." Gwel hefyd Zeph. 3. 5.

9. Ei fod yn anfeidrol ddaionus a thrugarog. Exod. 34. 6. "Jehofah, Jehofah, y Duw trugarog a graslawn; hwyrfrydig i ddig, ac aml o drugaredd a gwirionedd."

10. Ei fod ef yn anfeidrol mewn gwirionedd. Deut. 32. 4. "Duw gwirionedd, a heb anwiredd; cyfiawn ac uniawn yw efe."

EGLURHAD.

Sylw 13.—*Y pwnc cyntaf o grefydd a ddysgir yn yr Ysgrythyrau yw, bod Duw.* Heb. 11. 6.

Ni's gellir gwadu bod Duw, heb ar yr un pryd wadu ein bodoliaeth ein hunain, a phob peth o'n hamgylch.

Gellir profi bodoliaeth Duw,—1. Oddiwrth weithredoedd y greadigaeth, Ps. 19. 1; a 100. 3. 2. Oddiwrth gynhaliaeth pob peth, a llywodraethiad rheolaidd y byd, Gen. 8. 22. 3. Oddiwrth fodoliaeth cydwybod o'n mewn, a hefyd oddi wrth farnau amlwg a weinyddir ar y drygionus yn angau, heblaw attalfeydd cydwybod. 4. Oddiwrth y gwaredigaethau rhyfeddol a weithredir i'r eglwys yn mhob oes. 5. Oddiwrth gydsynied pob cenedl. Rhaid fod yr hyn y cydsynia holl ddynolryw arno, yn cael ei ddysgu gan natur, o ganlyniad, rhaid ei fod yn wirionedd. 6. Oddiwrth Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd. 7. Oddiwrth gyflawniad y prophwydoliaethau, ac ymddatguddiad mynych Duw i feibion dynion, megys Noah, Abraham, Moses, &c.

Sylw 14.—*Mae amrywiol enwau a theitlau wrth y rhai yr adnabyddir Duw yn yr Ysgrythyr.*

O'r cyfryw, y mae a ganlyn yn ychydig:—

**1. Al, yr hwn a ddynoda hollbresenoldeb Duw,—hyny yw, bod ei allu a'i wybodaeth yn cyrhaedd pob peth, Gen. 17. 1.**

2. ALEHIM, yr hwn a'i darlunia fel y gwir, y priodol, a'r unig wrthddrych addoliad a mawl, Gen. 1. 1.

3. SHADDAI, yr hwn a'i dynoda yn hollalluog, ac olldigonol, Gen. 17. 1; Exod. 6. 3.

4. ADON, enw a'i darlunia fel Arglwydd a Barnwr pawb, Ps. 110. 1.

5. JAH, enw yn dynodi ei hunan-hanfodiad,—ei fod yn meddu ei fôd ynddo ei hunan, ac yn ei roddi i bob bôd arall, Esa. 26. 4.

6. JEHOFAH, yr hyn a ddynoda ei hunan-hanfodiad, ei anymddibyniaeth, ei dragywyddoldeb annewidiol; a'i fod yn sicr o gwblhau yr addewidion a wnaed ganddo.

7. EHIEH, "Ydwyf," neu "Ydwyf yr hyn ydwyf,"—yn dynodi ei anymddibyniaeth trwyadl, a'i drawywyddoldeb annewidiol, Exod. 3. 14.

8. KURIOS a THEOS, y cyntaf yn dynodi ei hunan-fodoliaeth, a'i allu llywodraethol ar bob peth; a'r ail yn ei ddarlunio fel yr un a wnaeth, ac sydd yn sylwi ar bob peth.

Gwneir Duw yn adnabyddus yn yr Ysgrythyrau trwy lawer o ffyrdd eraill hefyd:—

1. Fe'i darlunir dan amrywiol ymadroddion cyffelybiaethol, megys craig, amddiffynfa, astalch, haul, a tharian, &c., oll yn dynodi pa beth yw Duw i'w bobl a ymddiriedant ynddo.

2. Fe'i darlunir dan luaws o enwau perthynasol,—megys Duw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist—Tad y trugareddau—Duw yr heddwch—Duw pob gras—Duw yr amynedd—Duw pob dyddanwch—Duw y gobaith—Duw iachawdwriaeth, &c., &c.

Sylw 15.—*Ysbryd yw Duw.*

Ysbryd sydd sylwedd anfarwol, annefnyddiol, meddyliol a thragywyddol.

Ysbryd yw Duw,—hyny yw, bôd, neu sylwedd anweledig, annefnyddiol, anllygredig, annghorphorol, anfeidrol, tragywyddol, annewidiol, digrëedig, &c. Exod. 33. 20; Ioan 1. 18; a 4. 24; a 5. 37; a 6. 46; Col. 1. 15; 1 Tim. 1. 17; a 6. 16.

Mae ysbrydolrwydd Duw, a'r eiddo angelion ac eneidiau dynion, yn gwahaniaethu yn y pethau canlynol:—Ysbrydion *creëdig* yw angelion ac eneidiau dynion, ac megys y'u gwnaed o ddim, gellid eu dychwelyd i ddifodiant eto; ond Ysbryd *digrëedig* ydyw Duw. *Meidrol* ydynt hwy; ond y mae Duw yn *anfeidrol:* maent hwy yn *ymddibynol;* ond y mae Duw yn *anymddibynol.*

Er ein bod yn gweled bod *rhanau corphorol*, neu *aelodau*, yn cael eu priodoli i Dduw yn yr Ysgrythyr, megys llygaid, clustiau, dwylaw, &c.; a *nwydau* neu *serchiadau*, megys dymuniad, gobaith, cariad, digofaint, llawenydd, &c., nid yw y pethau hyn onid arluniau o'i briodoliaethau a'i weithrediadau ysbrydol ef, wedi eu defnyddio er ymostwng at wendid dynol. Fe briodolir y pethau uchod iddo yn gyffelybiaethol. Fel hyn, pan briodolir llygaid a chlustiau i Dduw, y maent yn dynodi ei hollwybodaeth; dwylaw a ddynodant ei allu; a'i wyneb, yr amlygiad o'i ffafr,—ac felly am y gweddill.

Gellir cyrhaedd cymmaint o wybodaeth am Dduw, fel Ysbryd, ag sydd yn gyrhaeddadwy yn y byd hwn, yn y modd canlynol:—1. Trwy symmud pob anmherffeithrwydd a ganfyddwn ni ynom ein hunain, oddiwrtho ef, cawn adnabyddiaeth o Dduw yn y priodoliaethau hyny na's gellir eu canfod i unrhyw radd mewn bodau crëedig,—megys hunan-fodolaeth, anymddibyniaeth, anfeidroldeb, tragywyddoldeb di olynu, annewidiol, &c. 2. Trwy briodoli iddo y radd benaf o ba ragoriaeth bynag a ganfyddir mewn creadur, cyrhaeddwn adnabyddiaeth o Dduw yn y priodoliaethau hyny ydynt yn lled ymddangos yn y creaduriaid,—megys gwybodaeth, doethineb, gallu, sancteiddrwydd, cyfiawnder, daioni, a gwirionedd.

Sylw 16.—*Mae priodoliaethau neu ragoriaethau Duw yn cael eu dosbarthu yn gyffredin i rai cyfrannogol ac annghyfrannogol, neu rai y gellir ymdebygu iddynt, a'r rhai ni's gellir ymdebygu iddynt.*

1. Priodoliaethau *annghyfrannogol* Duw ydynt ei anfeidroldeb, ei dragywyddoldeb, a'i annewidioldeb; ac fe'u gelwir felly, am na's gellir olrhain dim cyffelyb iddynt yn y creaduriaid.

2. Priodoliaethau *cyfrannogol* Duw ydynt ei fodoliaeth, gallu, doethineb, sancteiddrwydd, cyfiawnder, daioni, a gwirionedd; ac fe'u gelwir felly, am fod rhyw gyffelybrwydd gwan, ond anmherffaith o honynt i'w cael yn mysg y creaduriaid.

Er fod yn rhaid i ni, o herwydd ein gwendid a'n hanmherffeithrwydd, lefaru a meddwl am y priodoliaethau Dwyfol ar wahan, eto nyni a ddylem gofio bob amser, nad ydynt yn wahaniaethol oddiwrth yr hanfod Ddwyfol ei hunan, nac yn ysgaredig y naill oddiwrth y llall; ond eu bod oll yn nghyd, yn *un perffeithrwydd mawr* y natur Ddwyfol.

Sylw 17.—*Bod Duw yn anfeidrol yn ei fôd a'i briodoliaethau.*

*Anfeidroldeb* Duw yw y perffeithrwydd hanfodol hwnw o'i natur, trwy yr hyn y gwybyddir fod pob peth yn ei sylwedd neu ei fôd, yn annfesuredig ac annarluniadwy. Am hyny y mae ei fôd a'i berffeithiau yn anamgyffredadwy.

Mae Duw yn anfeidrol o ran ei fôd; canys ni all ein deall meidrol ni ffurfio unrhyw ddirnadaeth gyfaddas am ei natur. Y mae efe hefyd yn anfeidrol yn ei holl briodoliaethau gogoneddus,—ei ddoethineb, ei allu, ei sancteiddrwydd, ei gyfiawnder, ei ddaioni, a'i wirionedd, Rhuf. 11. 33; Job 26. 14; a 42. 2; Esa. 6. 3; Dat. 4. 18; a 15. 4; Deut. 32. 4; Dat. 15. 31; 1 Cron. 16. 34; Exod. 34. 6; Ps. 145. 9; Num. 23. 19; Deut. 7. 9; Ps. 119. 89, 90; a 146. 6.

Mae y pethau canlynol yn gynnwysedig yn anfeidroldeb Duw:—1. Ei fod yn *anamgyffredadwy;* neu ei fod yn anfeidrol tu hwnt i ddirnadaeth ehangaf dynion ac angelion, o ran ei hanfod a'i briodoliaethau, Ps. 145. 3; Job 36. 26. Ei fod yn *annherfynol;* neu fod y fath berffeithrwydd yn perthyn i'w natur, fel y mae efe yn mha le bynnag y gall fod lle neu greadur. Ac o ganlyniad,—3. Cynnwysa ei *hollbresenoldeb;* neu y perffeithrwydd hyny a berthyna i'w natur, trwy yr hyn y mae efe yn bresenol yn y modd mwyaf trwyadl gyd a'i holl greaduriaid, yn mhob lle; ac yn llenwi pob lle ar unwaith,—nefoedd,daear,ac uffern,—â'i bresenoldeb hanfodol, 1 Bren. 8. 27.

Er fod Duw yn bresenol o ran ei hanfod yn mhob man, eto y mae efe yn amlygu ei bresenoldeb mewn modd neillduol yn y *nefoedd.* Y mae efe yn bresenol mewn modd neillduol hefyd gyd a'i *eglwys ar y ddaear,* yn ei sefydliadau a'i ordinhadau, Mat. 18. 20. Gyd a'i *saint,* trwy breswyliad ei Ysbryd ynddynt, a'i amlygiad o'i ffafr rasol iddynt er eu cynhaliaeth, Eph. 2. 22. A chyd a'r *eglwys anweledig,* trwy yr amlygiadau gogoneddus a digyfrwng o'i ddaioni a'i ragoriaethau. Gallwn sylwi yma hefyd, ei fod ef yn bresenol yn *uffern,* lle yr amlyga allu a'i gyfiawnder ofnadwy, ar gythreuliaid a dynion drygionus, trwy eu cynnal mewn bodoliaeth diderfyn, fel y dyoddefont effeithiau ei lid dros byth, Mat. 25. 46.

Sylw 18.—*Bod Duw yn dragywyddol yn ei fod a'i briodoliaethau.*

*Tragywyddoldeb* Duw yw y briodoledd hòno o'i natur, trwy yr hon y mae efe yn bod yn barhaus, heb ddechreu na diwedd, nac olyniad paräad, Ps. 90. 2; a 102. 12—27; a 90 4; 2 Pedr 3. 8.

Dywedir yn yr Ysgrythyr fod Duw yn *dragywyddol*, o herwydd na bu iddo ddechreuad; a'i fod ef yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd; a hefyd, am ei fod ef yn Awdwr paräad tragywyddol i eraill.

Mae tragywyddoldeb Duw, a'r eiddo angelion ac eneidiau dynion, yn gwahaniaethu yn y pethau canlynol:—Wrth dragywyddoldeb angelion ac eneidiau dynion, y golygir yn unig, na bydd diwedd iddynt; ond wrth dragywyddoldeb Duw y golygir, na bu iddo ddechreuad, nad oes iddo olyniad, ac na bydd iddo ddiwedd. Nid yw tragywyddoldeb angelion ag ysbrydion yn hanfodol, yn hollol, nac yn annibynol; ond y mae tragywyddoldeb Duw yn hanfodol, yn hollol, ac yn annibynol, Ps. 90. 2—4; a 102. 27; 2 Pedr 3. 8.

Sylw 19.—*Bod Duw yn annewidiol yn ei fôd a'i briodoliaethau.*

*Anghyfnewidioldeb* Duw yw y briodoledd hòno yn ei natur, trwy yr hon y mae yn anmhossibl iddo gael ei newid yn y radd leiaf, ond y paräa yr un bob amser.

Gellir profi fod y rhagoriaeth yma yn Nuw, trwy reswm ac Ysgrythyr. 1. Mae rheswm yn ein dysgu, pe byddai Duw yn gyfnewidiol, y byddai raid ei fod er gwell neu er gwaeth. Ond y mae annghyssondeb yn deillio oddiar bob un o'r cyfryw dybiau. Pe byddai y cyfnewidiad er gwell, byddai yn annghysson â pherffeithrwydd Duw, yr hwn sydd yn gweled y diwedd o'r dechreu, a'r hwn y mae ei holl weithredoedd wedi eu gwneuthur mewn doethineb perffaith. Pe er gwaeth, byddai hyny hefyd yn ddiraddiad ar ei berffeithrwydd, yn gymaint ag yr arwyddai, na's gwyddai efe o dragywyddoldeb pa beth a gymerai le mewn amser; haeru yr hyn a fyddai yr un a gwadu ei fod. 2. Profir hyn yn y rhanau canlynol o'r Ysgrythyrau, ac eraill:—Num. 23. 19; 1 Sam. 15. 29; Esa. 46. 10; Mal. 3. 6; Heb. 6. 17, 18; Iago 1. 17.

Mae Duw yn annewidiol,—1. Yn ei hanfod. Ni's gall beidio bod, 1 Tim 1. 17; a 6. 16. 2. Yn ei natur, neu ei sylwedd; ni's gall beidio bod yr hyn ydyw yn mhob perffeithrwydd. 3. Yn ei amcanion, Esa. 46. 10; a 14. 24. 4. Yn ei addewidion i'w bobl; yn ei fygythion yn erbyn y rhai drygionus; ac yn ei holl ragfynegiadau, Num. 23. 19. 5. Yn ei baräad, Ps. 102. 27. Er fod angelion ac ysbrydion gogoneddedig yn annghyfnewidiol, cystal a Duw; eto y mae eu hannewidioldeb hwy yn gwahaniaethau oddiwrth yr eiddo ef yn hyn,—eu bod hwy wedi derbyn eu hannewidioldeb oddiwrtho ef, ac nid yn ei feddu yn eu natur eu hunain.

Mae yn wir y dywedir mewn amryw fanau o'r Ysgrythyr, (megys Gen. 6. 6; Jonah 3. 10; a 1 Sam. 15. 11.) fod Duw yn *edifarhau*; ond wrth *edifeirwch* yn y lleoedd yna a'u cyffelyb, y golygir yn unig, *gyfnewidiad yn nyoruchwyliaeth allanol ei ragluniaeth*, yn ol ei adnabyddiaeth o bethau yn mhob perthynas ac amgylchiad cyssylltiedig â hwy. Ni ddylem ar un cyfrif briodoli iddo ef *gyfnewidiad meddwl;* canys yn y golygiad yma, nid yw yn bossibl i Dduw gyfnewid, Job 23. 13. Nid yw pob cyfnewidiad a briodola yr Ysgrythyrau iddo ef, namyn cyfnewidiad yn y creadur mewn gwirionedd.

Sylw 20.—*Mai Duw yn unig sydd yn anfeidrol, dragywyddol, ac annewidiol, yn ei fôd.*

*Bod* neu *hanfôd* Duw yw ei natur dra gogoneddus, trwy yr hyn y mae efe yr hyn ydyw—yn anfeidrol wynfydedig ynddo ei hunan, ac yn anamgyffredadwy i bawb ond ei hunan; canys ni all meidroldeb gynnwys anfeidroldeb.

Perffeithrwydd penaf bôd yw yr hyn ni's gellir ei gynyddu na'i leihau, a'r hyn sydd yn anymddibynol ar unrhyw fôd arall, Job 35. 6—8.

Ni's gellir priodoli *bodoliaeth*, yn ol ystyr fanol y gair, i neb ond Duw yn unig; canys er fod nefoedd a daear, angelion a dynion, yn meddu bôd, eto nid oes un bôd anfeidrol, tragywyddol, ac annewidiol, ond Duw yn unig. Efe yn unig a all ddywedyd, "Ydwyf yr hwn ydwyf." Exod. 3. 14.

Sylw 21.—*Bod Duw yn anfeidrol ddoeth.*

*Doethineb* Duw yw y rhagoriaeth hwnw o eiddo ei natur, trwy yr hyn y mae efe yn adnabod ei hunan yn berffaith, a phob peth a fu, sydd, ac a fydd, neu a all fod, yn nghyd a'r rhesymau am hyny.

Mae doethineb Duw yn cynnwys,—1. Ei *wybodaeth*, neu y rhagoriaeth hòno o'i natur, trwy yr hon y mae efe yn canfod gwrthddrychau, neu trwy yr hyn y mae efe yn adnabod pob peth, Diar. 15. 3; Gen. 6. 5. 2. Ei *ddoethineb*, a elwir felly yn briodol, neu y perffeithrwydd hwnw yn ei natur, trwy yr hyn y mae yn goruwch lywodraethu pob peth i'r dybenion gorau, ac i'r dybenion hyny i ba rai y rhoisid bod iddynt, Act. 15. 18.

Nyni a allwn sylwi, fod Duw yn gwybod pob peth; nid fel y mae dyn yn eu gwybod, trwy olyniad meddylddrychau, ond trwy un drem y meddwl craffus, yn eglur, cynnwysfawr, ac yn eu holl gyssylltiadau yn anffaeledig.

Ymddengys doethineb Duw,—1. Yn ngwaith y grëedigaeth; yn nhrefn brydferth, ac amrywiaeth pob peth, Ps. 104.

24; a 136. 5; Diar. 3. 19. 2. Yn ngoruchwyliaeth ei ragluniaeth: yn cynnal pob beth mewn bod, ac yn eu trefnu yn y fath fodd ag i gwblhau ei holl ewyllys. 3. Yn ngwaith y prynedigaeth; o ran ei luniad, ei gweithrediad, a'i chymhwysiad.

Sylw 22.—*Bod Duw yn anfeidrol alluog.*

*Gallu* Duw yw y perffeithrwydd hwnw yn ei natur, trwy yr hyn y mae efe yn alluog i wneyd pob peth, neu wneuthur pa beth bynag y dichon iddo ei ewyllysio; neu trwy yr hyn y gall efe wneuthur yr hyn oll a fyddo da yn ei olwg, yn y nef, ar y ddaear, yn y moroedd a'r holl ddyfnderau, Ps. 135. 6; Dan. 4. 35.

Mae gallu Duw yn cael dweyd am dano yn yr Ysgrythyrau,—1. Yn *benodol,* Ps. 62. 11; Gen. 17. 1; Job 42. 2; a 9. 4; a 37. 23: Ps. 35. 10. 2. Yn *naccäol;* neu trwy dynu oddiwrtho ef bob anmherffeithrwydd mewn gallu, neu bob gwendid, Gen. 18. 14: Jer. 32. 17; Luc 1. 37. 3. Yn *drawsenwawl;* trwy ei fraich, Ps. 98. 1; ei ddeheulaw, Ps. 63. 8; braich estynedig, Exod. 6. 6; braich ei nerth, Esa. 62. 8; a braich ogoneddus, Esa. 63. 12, &c.

Mae gallu Duw yn cael ei amlygu,—1. Yn nghreadigaeth y byd a phob peth sydd ynddo, Rhuf. 1. 20; Ps. 33. 9. 2. Mewn rhagluniaeth, Col. 1. 17; Heb. 1. 3; Ps. 76. 10. Ac yma, nyni a allwn sylwi, fod gallu Duw wedi ei amlygu yn cyfodi eglwys yn y byd, ac yn ei chadw er yr holl erledigaethau a'r dyoddefiadau y'i darostyngwyd danynt. 3. Yn ngwaith y prynedigaeth trwy Iesu Grist; yn ei ymgnawdoliad; yn uniad gwyrthiol y ddwy natur yn ei berson; yn y gwyrthiau lluosog a gyflawnodd efe; yn nghynaliad ei natur ddynol dan y llwyth ofnadwy o ddigofaint oedd ddyledus i ni am ein camweddau; ac yn ei gyfodiad ef o feirw. 4. Yn argyhoeddiad a dychweliad pechaduriaid,—canys y mae yr un gallu yn ofynol i gyfodi pechadur marw mewn camweddau, i fywyd ysbrydol, ag oedd yn ofynol i gyfodi Crist o feirw; ac i gynnal grasusau ei bobl yn nghanol eu holl gystuddiau a'r profedigaethau y maent yn agored iddynt, 1 Pedr 1. 5.

Nyni a allwn sylwi yma hefyd, er fod rhyw bethau na's gall Duw eu hewyllysio na'u gwneuthur, nad yw hyny yn dynodi un anmherffeithrwydd yn ei allu ef. Ni's gall efe wneyd yr hyn sydd yn groes i'w natur; megys peidio a bod, neu ei ddystrywio ei hunan. Ni's gall wneuthur nac ewyllysio y cyfryw bethau a ddynodo wendid neu anmherffeithrwydd; megys bod yn gelwyddog, neu ei wadu ei hun, Tit. 1. 12; 2 Tim. 2. 13.

Sylw 23.—*Bod Duw yn anfeidrol sanctaidd.*

*Sancteiddrwydd* Duw yw y briodoledd hanfodol hòno o'i natur, drwy yr hon yr ymhyfryda yn mhurdeb dihalog ei hanfod; gan garu cyfiawnder, a chasau y drwg, fel y peth tra phechadurus y mae ei enaid yn ei ffieiddio.

Mae y rhagoriaeth yma yn y Duwdod, yn cael ei ddarlunio yn fanol yn yr Ysgrythyrau; canys fe elwir pob peth a berthyn i Dduw yn *sanctaidd*. Priodolir *sancteiddrwydd* i bob un o'r personau yn y Duwdod; a mynych y mae y trydydd person yn cael ei alw yr Ysbryd Glan, neu yr Ysbryd Sanctaidd, Ioan 17. 11; Ps. 16. 10. Gelwir y nefoedd yn drigle ei *sancteiddrwydd*, ac annedd ei *sancteiddrwydd*, Deut. 26. 15; Esa. 63. 15. Gelwir y Sabbath yn *sanctaidd*, dan amrywiol enwau; megys, y Cyssegr Sanctaidd, Lef. 16. 33; Tŷ Sanctaidd, Lef. 27. 14. Gelwir pobl Dduw yn *sanctaidd*, Dan. 12. 7. Gelwir ei angelion yn *sanctaidd*, Matt. 25. 31. Ei weinidogion a elwir yn *sanctaidd*, 2 Pedr 1. 21. A llawer o bethau eraill perthynol i Dduw a elwir yn sanctaidd, Ps. 14. 5, 17; 1 Sam. 2. 2.

Nyni a allwn sylwi yma, fod Duw yn rhoddi anrhydedd arbenig ar ei sancteiddrwydd; canys nyni a'i cawn ef yn ei neillduo, fel y briodoledd wrth yr hon y tyngai i gyflawni yr hyn a lefarasai, Ps. 89. 35; Amos 4. 2.

Ymddengys sancteiddrwydd Duw,—1. Yn ngwaith y greadigaeth; canys gwnelid pob creadur cyfaddas i dderbyn argraffiadau sancteiddrwydd, yn berffaith: gwnaed angelion yn sanctaidd, a dyn yr un modd, Gen. 1. 27; Preg. 7. 29. 2. Yn ngweithredoedd ei ragluniaeth; yn bwrw yr angelion a bechasant allan o'r nefoedd; ac yn troi dyn a wrthryfelasai i'w erbyn, allan o Baradwys; yn nystryw yr hen fyd trwy ddwfr diluw, a Sodoma a Gomorah trwy dân a brwmstan; yn ei waith yn ceryddu yr Israeliaid yn yr anialwch, yn ninystr Jerusalem gan y Rhufeiniaid; ac yn ei ymddygiad tuag at ei bobl ei hun, pan y troseddent ei orchymynion cyfiawn a sanctaidd. 3. Yn ei air, neu yr Ysgrythyrau, y rhai a elwir yr Ysgrythyrau Sanctaidd, Rhuf. 1. 2. Y mae ei Air ef yn sanctaidd yn ei orchymynion, yn ei addewidion, ac yn ei fygythion, Ps. 105. 42; 2 Pedr 1. 4. 4. Yn ngwaith y prynedigaeth. Nid yw yr holl enghreifftiau a roddes Duw o'i gasineb at bechod, ond dyddim wrth eu cydmaru â'r amlygiad a wnaeth efe o'i sancteiddrwydd, yn nyoddefiadau ac angau ei Fab ei hun, yr hwn oedd ei hyfrydwch o dragywyddoldeb!

Sylw 24.—*Bod Duw yn anfeidrol gyfiawn.*

*Cyfiawnder* Duw yw y perffeithrwydd hwnw yn ei natur, trwy yr hyn y mae efe yn anfeidrol uniawn ynddo ei hunan, a chyfiawn yn ei holl weithredoedd a'i ffyrdd tuag at ei holl greaduriaid a wnaeth efe.

Mae cyfiawnder Duw yn cael ei ddarlunio yn yr Ysgrythyrau,—1. Yn *gadarnhäol;* pan y mae Duw yn cael ei alw mewn modd pendant, 'y Cyfiawn,' Deut. 32. 4; Esa. 45. 21; Act. 7. 52. 2. Yn *naccäol;* pan y diheurir ef oddiwrth anghyfiawnder o bob rhyw, a phob gradd, Rhuf. 3. 5; Deut. 32. 4; Heb. 1. 10; Ps. 92. 15. 3. Y briodoledd yma a ddarlunir hefyd, pan ddywedir ei fod yn rhoddi i bob un yn ol ei weithredoedd, &c., Deut. 6. 30; Job 33. 26; Jer. 17. 10, &c.

Bu Dwyfyddion yn gwahaniaethu cyfiawnder Duw i amryfal rywiau; megys,—

1. Ei gyfiawnder fel *deddfwr,* yn rhoddi cyfreithiau cyfiawn i'r greadigaeth resymol, trwy yr hyn y'i rhoddes dan rwymau i ufuddhau ac ymostwng i'w ewyllys yn mhob peth.

2. Ei gyfiawnder *cyfraniadol,* yn cyfranu i'w holl greaduriaid rhesymol yr hyn sydd ddyledus iddynt yn ol cyfraith, heb dderbyn wynebau dynion, Job 34. 11; 1 Pedr 1. 17.

3. Ei gyfiawnder *gwobrwyol,* yn gwobrwyo ufudd-dod diffuant, er yn anmherffaith, ei bobl i'w ddeddf fel rheol bywyd, â mwynhâd o hono ei hunan mewn gogoniant. Ond eto, y mae y gwobr yma yn hollol o rad ras, ac nid o ddyled. Nid ar gyfrif unrhyw deilyngdod yn eu hufudd-dod hwy y'u gwobrwyir, ond yn unig ar gyfrif yr hyn a deilyngodd Crist trwy ei ufudd-dod a'i ddyoddefiadau ef, Heb. 5. 9; 1 Tim. 4. 7; Ps. 58. 11; a 19. 11; Rhuf. 4. 4, 5; Ps. 115. 1; 1 Pedr 2. 5.

4. Cyfiawnder *dialeddol* Duw, yw ei waith yn cosbi pechod yn y pechadur, ac yn ymddïal ar y rhai nad ufuddhant i'w orchymynion cyfiawn a sanctaidd.

Mae cyfiawnder Duw yn cael ei amlygu mewn amryw ffyrdd. 1. Fe'i hamlygir yn rhagluniaeth; yn y farn a wna, Ps. 9. 16. 2. Fe'i hamlygwyd mewn modd nodedig yn nyoddefiadau a marwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Ni's gall Duw yn unol â'i briodoliaethau, ac ni fŷn, faddeu pechod heb iawn. 3. Fe'i hamlygir mewn modd neillduol yn y farn gyffredinol: canys efe a osododd ddiwrnod, yn yr hwn y barna efe y byd "mewn cyfiawnder," Act. 17. 31. 4. Gwneir amlygiad o hono yn nghosbedigaeth dragywyddol angelion syrthiedig, a phechaduriaid o ddynolryw, a gollfernir yn y dydd diweddaf, Judas 6; 2 Pedr 2. 4.

Sylw 25.—*Mae Duw yn anfeidrol ddaionus a thrugarog.*

*Daioni* Duw yw y perffeithrwydd hwnw o'i natur, trwy yr hyn y mae efe yn anfeidrol dda ynddo ei hunan, ac yn cyfranu i'w holl greaduriaid yr hyn a allant ei dderbyn o'i ddaioni yn y byd hwn, Ps. 145. 9; a 136. 1.

Gwahaniaethir daioni Duw yn gyffredin i'w ddaioni naturiol, a'i ddaioni perthynasol.

1. *Ei ddaiani naturiol,* yw y daioni hwuw sydd yn hanfodol i'w natur, yr hwn ni's gall ei gyfranu i neb. 2. *Ei ddaioni perthynasol,* yw yr hyn y mae efe yn ei gyfranu i'w greaduriaid.

Mae daioni Duw yn cael ei wahaniaethu drwy amrywiol enwau yn yr Ysgrythyrau, yn ol dull ei weithrediad, a'r gwrthddrychau ar ba rai y'i gweithredir. Fel y mae yn ei dueddu i beri dedwyddwch ei greaduriaid, ac ymhyfrydu ynddynt, fe'i gelwir *cariad.* Fel y mae yn ei dueddu i gyflenwi eu heisiau, i'r hyn nid oes rwymau arno, fe'i gelwir *haelioni,* Ps. 116. 7. Fel y'i tuedda i'w amlygu ei hunan i'r annheilwng, neu y sawl nad yw yn haeddu dim ond drwg, fe'i gelwir *gras,* Rhuf. 3. 24. Fel y'i tuedda i beidio gweinyddu barn yn ebrwydd ar bechadur, ond oedi dros amser, fe'i gelwir *amynedd,* neu *ddyoddefgarwch,* Exod. 34. 6; 2 Pedr 3. 9; 1 Pedr 3. 20, &c.

Amlygir daioni Duw,—1. Yn ngwaith y greadigaeth: yn rhoddi bod i gynnifer o bethau, y rhai nid oedd arno angen am danynt, a heb y rhai yr oedd efe yn anfeidrol ddedwydd. Ond, yn enwedig yn nghreadigaeth dyn; yn ei wneuthur yn gymhwys i'w addoli a'i wasanaethu ef yn y byd hwn, ac i'w fwynhau ef yn y byd a ddaw. 2. Yn ngweithredoedd rhagluniaeth: yn y rhai y gellir ei olygu naill ai yn *gyffredinol* ai yn *neillduol. Daioni cyffredinol* Duw yw yr hyn y mae yn ei gyfranu i'w holl greaduriaid, rhesymol ac afresymol, heb wahaniaeth, Ps. 33. 5; a 36. 6; Matt. 5. 45. Ei *ddaioni neillduol* yw yr hyn y mae efe yn ei amlygu at ryw nifer neillduol o ddynolryw colledig, yn eu prynedigaeth trwy Iesu Grist, Ioan 3. 16; a 15. 13. 3. Fe amlygir daioni Duw yn dra gogoneddus, yn y dydd diweddaf, Ps. 31. 19; Matt. 25. 34; 1 Cor. 2. 9.

Sylw 26.—*Mae Duw yn anfeidrol eirwir a ffyddlawn.*

*Geirwirdeb,* neu *ffyddlondeb* Duw, yw y briodoledd hòno o'i natur, trwy yr hon y mae efe yn eirwir ynddo ei hunan, ac y mae yn anmhossibl iddo beidio cyflawni yr hyn oll a addawodd efe, neu ddwyn i ben ba beth bynag a fwriadodd efe, Deut. 32. 4; Exod. 34. 6.

Nyni a allwn sylwi yma, fod y briodoledd hon o'r Duwdod yn golygu yn benaf y datguddiad o'i ewyllys yn yr Ysgrythyrau, Matt. 5. 18.

Amlygir gwirionedd Duw,—1. Yn ngweithredoedd ei ragluniaeth. Nid oes un weithred ragluniaethol sydd yn galw sylw lluaws o ddynolryw, yn cymeryd lle yn y byd, nad yw yn seiliedig ar hysbysiadau ei air, Gen. 8. 22; Ps. 25. 10; a 111. 7—9. 2. Yn ei air; ei addewidion a'i fygythion, Matt. 24. 35; 1 Bren. 8. 56; Num. 23. 19; Esa. 46. 11; Jer. 4. 28; 2 Sam. 7. 28; Esa. 25. 1; Ezec. 12. 25; Heb. 10. 23. a 11. 11; 2 Cor. 1. 20. 3. Fe amlygir gwirionedd a ffyddlondeb Duw yn gyflawn yn y farn ddiweddaf. Bydd i'w holl addewidion i'w bobl yn y byd yma, a'i holl fygythion yn erbyn yr annuwiol, gael eu dwyn megys i gydgyfarfod yno.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth yr athrawiaeth yma dysgwn y pethau canlynol:—

Oddiwrth ysbrydolrwydd Duw, dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o'i addoli ef mewn ysbryd ac mewn gwirionedd. 2. Y dylem son am Dduw gyda pharch. 3. Y pechadurusrwydd o ffurfio unrhyw ddarluniad o hono ef yn allanol neu dufewnol. 4. Mai Duw yn unig a all fod y daioni penaf i'n heneidiau, gan mai ysbrydion ydynt.

Oddiwrth anfeidroldeb Duw, a'r priodoliaethau cynnwysedig yn hyny, dysgwn,—1. Na's gall unrhyw gystudd na phrofedigaeth ddisgyn i ran y cyfiawn heb ei fod ef yn ei ganfod, ac yn barod i'w gynnorthwyo. 2. Bod Duw yn berffaith hysbys o ddirgel leoedd mwyaf cuddiedig pechadur. 3. Os rhagddo yr â pechadur yn ei anwiredd, y bydd Duw yn bresenol gydag ef yn y gosbfan dragywyddol, i amlygu ei gyfiawnder ofnadwy dros byth.

Oddiwrth dragywyddoldeb Duw, dysgwn,—1. Bod gan y cyfiawn destyn llawenhau, am fod ei Dduw yn byw, ac yn teyrnasu yn oes oesoedd. 2. Bod i'r annuwiol achos mawr i grynu; y mae *tragywyddoldeb* yn air a dŷr galonau pechaduriaid yn y lle na ddaw trugaredd o fewn ei ffiniau byth.

Oddiwrth annewidioldeb Duw, dysgwn,—1. Ei fod yn ffynhonell cysur cryf i'r cyfiawn, fod Duw yn ymlonyddu yn ei gariad; ei fod yn caru gwrthddrychau ei gariad hyd y diwedd. 2. Y fath arswyd a all yr ystyriaeth o annewidioldeb bwriad mewn perthynas i'r annuwiol, grëu yn eu mynwesau!

Oddiwrth fod Duw, dysgwn,—1. Y bydd e yn sicr o gyflawni ei holl amcanion i'w bobl. 2. Yr angenrheidrwydd o feddu hawl yn y Duw hwn, enw yr hwn yw "Ydwyf," a'r hwn sydd yn aros yr un, yn annewidiol.

Oddiwrth ddoethineb Duw, dysgwn,—1. Na's gall un niweid gyfarfod â'r cyfiawn, yr hwn ni bydd iddo weithredu er ei ddaioni ysbrydol, Job 5. 13; Rhuf. 8. 28. 2. Bod Duw yn hysbys â meddyliau calon, ac â dirgel bechodau yr annuwiol, er mor guddiedig a fyddont oddiwrth y byd, Heb. 4. 13. 3. Yr angenrheidrwydd o addoli Duw mewn ysbryd ac mewn gwirionedd; gan ei fod ef yn gwybod pa un a yw ein calonau yn uniawn ger ei fron ai peidio. 4. Diolchgarwch i Dduw am yr amlygiad rhyfeddol o'i ddoethineb yn nhrefn y prynedigaeth.

Oddiwrth allu Duw, dysgwn,—1. Y bydd iddo gyflawni yr hyn oll a addawodd efe. 2. Y dylai pobl Dduw ymddiried ynddo ef yn y cyfyngderau mwyaf. 3. Dysgu gwneuthur daioni; peidio gwneuthur drwg: bod Duw yn alluog i achub, ac yn meddu awdurdod i ddystrywio. 4. Y dylai pechaduriaid gymeryd rhybudd i ffoi rhag y digofaint sydd ar ddyfod, Job 9. 4. 5. Y dylem ni ochel gwneyd cam â gallu Duw, trwy roddi terfyn i Sanct yr Israel, Ps. 78. 19—41.

Oddiwrth sancteiddrwydd Duw, dysgwn,—1. Mor groes yw pechod i'w natur ddifrycheulyd ef. 2. Mawr berygl y rhai ydynt yn estroniaid i sancteiddrwydd, neu yn caru ffyrdd pechod. 3. Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd efengylaidd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd, 2 Cor. 6. 17. 4. Yr angenrheidrwydd o'n bod yn cashau pechod â chasineb perffaith, o'n bod yn rhodio yn ffyrdd Duw, ac yn ufuddhau i'w orchymynion ef. 5. Yr angenrheidrwydd o feddu rhan yn Iesu Grist, yn nghyfiawnder yr hwn yn unig y gallwn ni sefyll yn hyderus ger bron Duw.

Oddiwrth gyfiawnder Duw, dysgwn,—1. Y dylem gydnabod fod ei holl ffyrdd ef tuag attom ni wedi bod yn gyfiawnder a gwirionedd. 2. Na's goddefa efe i bechod fod yn ddigosb. 3. Y mawr berygl o fod yn anedifeiriol. 4. Gwirionedd yr athrawiaeth am y farn gyffredinol. 5. Y dylem ni ymdrechu i ymdebygu i Dduw mewn cyfiawnder, Mica 6.8; Matt. 22. 21.

Oddiwrth ddaioni Duw, dysgwn,—1. Mai Duw yn unig yw rhan yr enaid. 2. I ochel camddefnyddio ei ddaioni. 3. I fod yn ddiolchgar iddo am y daioni y mae yn ei gyfranu i ni. 4. Ymostwng i holl oruchwyliaethau ei ragluniaeth ef. 5. Y dylem ymdebygu i Dduw yn y rhagoriaeth yma.

Oddiwrth eirwirdeb Duw, dysgwn,—1. Ein bod yn meddu y seiliau mwyaf diogel i gredu y bydd i'r hyn a ddywedodd Duw gael ei gyflawni. 2. Bod gan bechaduriaid diofal a hunan-ddiogel achos i ofni. 3. I ochelyd rhagrith yn addoliad Duw, a thwyll yn ein hymdrafod â'r byd. 4. Y dylem ninnau ymdrechu i ymdebygu i Dduw yn y briodoledd hon, Mica 6. 8.

Oddiwrth y cyfan, dysgwn,—1. Fod perffeithiau Duw yn ffynhonell dyddanwch annhraethol i'w bobl, a braw annarluniadwy i'r annuwiol. 2. Y dylem lafurio mwy fwy am adnabyddiaeth o Dduw, fel y mae wedi ei ddatguddio ei hunan yn ei air, ac o'i Fab ef Iesu Grist; gan mai hyny yw y bywyd tragywyddol, Ioan 17. 3.

## *Undod Duw.*

### HOL. 5. A OES MWY NAG UN DUW?

Nid oes ond un Duw yn unig, y gwir a'r bywiol Dduw.

#### DOSBANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Nad oes ond un Duw. 1 Cor. 8. 4. "Nid oes un Duw arall ond un." Gwel hefyd Deut. 6. 4.

2. Mai efe yw yr unig wir a bywiol Dduw. Jer. 10. 10. "Yr Arglwydd ydyw y gwir Dduw; efe yw y Duw byw a'r Brenin tragywyddol."

#### EGLURHAD.

Sylw 27.—*Nid oes ond un Duw.*

Gellir profi hyn oddiwrth Ysgrythyr a rheswm.

1. Fe'i profir o'r Ysgrythyr yn *gadarnhäol*, lle y mae yr Ysgrythyrau yn datgan yn bendant mai un Duw sydd, Deut. 6. 4.; Gal. 3. 20; Ps. 86. 10; 1 Cor. 8. 6: ac yn *naccäol*, pan y datganant nad oes duwiau eraill ond un, Deut. 32. 39; Esa. 43. 10. a 43. 6—8. a 45. 5, 6. Y mae yn eglur hefyd oddiwrth y *gorchymyn* yn yr Ysgrythyr i addoli *un Duw* yn unig, Matt. 4. 10. Pe byddai yn bossibl fod dau o dduwiau, ni's gallem garu y ddau yn benaf, rhaid a fyddai i'n cariad fod yn rhanedig; ac ni's gallem lwyr roddi ein calonau i Dduw, yn ol ei orchymynion.

Mae rheswm yn ein dysgu na's gall fod ond un achos, a dyben eithaf i bob peth; ac na's gall fod dau fôd anfeidrol, tragywyddol, hollalluog, hunan-hanfodol. Pe byddai ddichonadwy fod mwy nag un Duw, ni's gellid rhoddi rheswm pa ham na byddai *myrddiwn* o dduwiau, neu gynnifer ag sydd o dywod ar lan y môr.

Sylw 28.—*Mai Duw yw y gwir a'r bywiol Dduw.*

1. Gelwir Duw y *Duw byw.*—(1.) Mewn cyferbyniad i bob peth arall a elwir yn Dduw. (2.) Oblegyd ei fod ef yn

hunan-hanfodol, ac yn awdwr pob bywyd, naturiol, ysbrydol, a thragywyddol, Act. 17. 28; Eph. 2. 2; Col. 3. 3, 4.

2. Gelwir Duw y *gwir Dduw*, i'w wahaniaethu ef oddiwrth gau dduwiau. Ystyr y gair *gwir* yn y fan yma, yw, fod Duw yn bod mewn gwirionedd, ac nid mewn dychymyg yn unig: na's gellir dweyd am dano ef megis y dywedir am eilunod, nad yw Dduw: ond, mai efe yw yr unig wir Dduw, heblaw yr hwn nid oes, ac ni all fod neb arall.

Mae yr enwau *gwir* a *bywiol* yn cael eu cyssylltu yma, oblegyd eu bod yn unedig anysgaredig yn natur y Duwdod. Yr hwn yw y Duw byw, yw yr unig wir Dduw; a'r hwn yw yr unig wir Dduw, ydyw yr unig Dduw byw, 1 Thess. 1. 9.

Mae eraill yn cael eu galw yn dduwiau yn yr Ysgrythyrau, heblaw y gwir a'r bywiol Dduw, 1 Cor. 8. 5. Gelwir *Moses* yn *dduw* i Pharaoh, oblegid ei ddanfon atto gan y Duw byw, i gwblhau ei ewyllys arno ef; ac oblegyd ei fod yn offeryn i wneyd yr hyn ni's gallasai yr un bôd crëedig ei ddadwneyd, Exod. 7. 1. Gelwir *barnwyr* a *llywodraethwyr yn dduwiau*, oblegyd eu bod yn gweithredu yn enw Duw yn y byd hwn, ac o herwydd ein bod yn rhwym i ufuddhau iddynt, Ps. 82. 6; Rhuf. 13 2. Gelwir *eilunod* yn *dduwiau*, oblegyd bod eilunaddolwyr yn meddwl eu bod yn dduwiau, ac yn eu haddoli fel y cyfryw. Gelwir y *bol* yn *dduw*, oblegyd fod rhai yn gofalu mwy am dano nag am Dduw, Phil. 3. 19.

A gelwir *diafol* ei hunan yn *dduw yn y byd hwn*, oblegyd y gallu hwnw ar yr annuwiol, a phlant anufudd-dod, a roddwyd iddo yn y byd hwn gan y gwir a'r bywiol Dduw, 2 Cor. 4. 4.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth yr athrawiaeth hon dysgwn.—1. Y perygl o fyned ar ol duwiau eraill, Ps. 16. 4. 2. Gan nad oes ond un Duw, gwelwn y rhaid i'n gweddiau gael eu cyfeirio atto ef yn unig. 3. Y dylem ei garu ef uwch law pawb, Ps. 73. 25. 4. Bod genym achos i fendithio Duw am iddo drefnu ein rhan yn ngwlad goleuni, lle yr ydym yn cael clywed am yr unig wir a bywiol Dduw. 5. Gan mai y Duw hwn yw y Duw byw, gwelwn y gall ei bobl lawenhau, am ei fod ef yn aros gyda hwynt yn dragywydd. 6. Y dylem gyflwyno ein cyrph yn aberthau byw, sanctaidd a chymeradwy iddo ef, yr hyn yw ein rhesymol wasanaeth ni, Rhuf. 12. 1. Gan mai Duw a roddes fywyd i ni, nid yw ond rhesymol i'r bywyd hwnw gael ei gyssegru iddo ef. 7. Gan mai dyma yr unig wir Dduw nyni a ddylem ei addoli ef mewn ysbryd ac mewn gwirionedd; canys y mae efe yn caru gwirionedd oddi mewn, ac yn ymhyfrydu mewn addoliad ysbrydol. 8. Y dylem ochelyd

syniadau atheistaidd; gwadu Duw mewn calon neu fuchedd; a phob rhyw opiniwnau a arweiniant i Atheistiaeth, ac i fwrw ofn Duw ymaith o'r meddwl.

## *Trindod o bersonau yn y Duwdod.*

HOL. 6. PA SAWL PERSON SYDD YN Y DUWDOD?

Y mae tri pherson yn y Duwdod, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan; a'r tri hyn, un Duw ydynt, un mewn sylwedd, a gogyfuwch mewn gallu a gogoniant.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod tri o bersonau yn y Duwdod. 1 Ioan 5. 7. "Y mae tri yn tystiolaethu yn y nef, y Tad, a'r Gair, a'r Ysbryd Glan."

2. Bod y Tad yn Dduw. Ioan 1. 18. "Ni welodd neb Dduw erioed, yr uniganedig Fab, yr hwn sydd yn mynwes y Tad, hwnw a'i hysbysodd ef."

3. Bod y mab yn Dduw. Heb. 1. 8. "Ond wrth y Mab y dywedodd efe, Dy orseddfainc di, O Dduw, sydd yn oes oesoedd."

4. Bod yr Ysbryd Glan yn Dduw. Act. 5. 4, (wedi chydmaru âg adn. 3.) "Ni ddywedaist ti gelwydd wrth ddynion, ond wrth Dduw."

5. Nad yw y tri pherson yma, y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, ond un Duw. 1 Ioan 5. 7. "A'r tri hyn un ydynt." Gwel hefyd Deut. 6. 4.

6. Bod y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, er eu bod yn bersonau gwahaniaethol, yr un mewn natur neu sylwedd. Ioan 10. 30. "Myfi, a'r Tad, un ydym." Ioan 15. 26. "Ysbryd y gwirionedd, yr hwn sydd yn deilliaw oddiwrth y Tad." Gwel hefyd 1 Ioan 5. 7.

7. Eu bod yn ogyfuwch mewn gallu a gogoniant. Matt. 18. 19. "Ewch gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan." Gwel hefyd Ioan 5. 21.

EGLURHAD.

Sylw 29.—*Mae lluosogrwydd o bersonau yn y Duwdod.*

Gellir profi hyny oddiwrth y rhanau canlynol o'r Ysgrythyrau :—

1. Gen. 1. 26. Gwnawn ddyn ar *ein* delw *ni*, wrth *ein* llun *ein hunain*." Ni's gellir rhoddi un rheswm boddhäol pa ham y mae y gair a arferir am Dduw yn cael ei gyfnewid mor ddisymwth o'r rhif unigol i'r luosawg, heb ei olygu yn rhyw amnaid o luosogrwydd personau yn undod yr hanfod Ddwyfol.

2. Gen. 3. 22. "Wele y dyn sydd megis *un o honom ni*." Mae hyn yn rhoi ar ddeall yn amlwg fod lluawsrif o bersonau yn y Duwdod.

3. Gen. 11. 7. "Deuwch, disgynwn, a chymmysgwn yno eu hiaith hwynt," sef iaith adeiladwyr Babel. Ni wneir un crybwylliad o neb yn yr holl gyf-destyn yr hwn y gallem olygu Duw yn ei gyfarch fel yn y testyn; yr hyn a ddengys fod lluawsrif o bersonau yn y Duwdod. Gwel hefyd Gen. 19. 24.

4. Job 35. 10. "Pa le y mae Duw yr hwn a'm gwnaeth i? neu, yn ol yr iaith wreiddiol, "*fy Ngwneuthurwyr*."

5. Preg. 12. 1. "Cofia yn awr dy Greawdwr," neu yn ol yr iaith wreiddiol, "*dy Greawdwyr*."

6. Esa. 6. 8. "Pwy a anfonaf? a phwy a â drosom ni? Mae y traws symudiad yma o'r rhif unigol i'r lluawsrif yn dra amlwg, ac yn cyfeirio yn eglur at luawsrif o bersonau yn y Duwdod.

Sylw 30.—*Y mae tri, ac nid oes ond tri o bersonau yn y Duwdod.*

Nyni a allwn sylwi yma, na allesid byth gael allan *athrawiaeth y Drindod* wrth oleuni anian, neu reswm digynnorthwy; canys y mae yn athrawiaeth uwchlaw dirnadaeth ddynol: ac am hyny y mae yr apostol yn ei galw yn *ddirgelwch*. Col. 2. 2.

Ond y mae yr athrawiaeth hon yn dra eglur oddiwrth y rhanau canlynol o'r Ysgrythyrau:—

1. Psalm 33. 6. "Trwy air yr Arglwydd y gwnaethpwyd y nefoedd; a'u holl luoedd hwy trwy ysbryd ei enau ef." Yma fe gyfeirir yn eglur at dri pherson:—Y Tad,—y Gair, neu Fab Duw,—ac ysbryd ei enau ef, yr hwn ni's gall fod yn amgenach na'r *Ysbryd Glan*. Gwel hefyd Job 32. 8. a 33. 4.

2. Oddiwrth yr hanes a gawn ni o waredigaeth plant Israel o dir yr Aipht. Os olrheiniwn ni amrywiol ranau y waredigaeth fawr hon; cenhadwriaethau Duw at Pharaoh, a'r bygythion a gyhoeddid yn ei erbyn; yn nghyd a'i addewidion i'w bobl ei hunan; rhaid i ni benderfynu fod *tri pherson* yn cydweithredu i'w dwyn o'r Aipht i dir yr addewid. Gwel Exod. 3. 2. a 23. 20. a 32. 34; lle ni's gallwn olygu wrth yr *angel* a

grybwyllir mor fynych, unrhyw angel crëedig; canys fe brïodolir iddo bethau na's gellid eu dywedyd am neb ond Duw. Gwel Exod. 14. 19, wedi eu cydmaru â pen. 13. 21. Gwel Esa. 63. 7—10.

3. Esa. 61. 1—3, lle y crybwyllir am dri o bersonau gwahaniaethol,—*Yr Arglwydd Dduw*, *a'r Ysbryd* yn ei anfon ac yn ei ordeinio *ef*, sef *Crist*, Luc 4. 18.

4. Hag. 2. 4, 5, lle y crybwyllir am *dri*; *Arglwydd y lluoedd*; y *Gair*, neu Iesu Grist; ac *Ysbryd Duw*. Gwel Esa. 41. 14; Ps. 45. 7.

5. Math. 3. 16, 17, lle y crybwyllir tri o bersonau gwahaniaethol,—Y *Tad*, y *Mab*, a'r *Ysbryd Glan*, Ysbryd Duw.

6. Math. 28. 19, lle y gallwn sylwi fod y cyssylltair â'r o flaen pob un o'r personau a grybwyllir, trwy yr hyn yr amlygir Trindod o bersonau yn ddiddadl. Y mae undod y Duwdod yn cael ei nodi yn amlwg yma hefyd:—yn *enw*, *&c.*, nid yn *enwau*.

7. 2 Cor. 13. 14: y fendith apostolaidd, lle y mae crybwylliad neillduol o *dri* o bersonau. Y tair bendith am y rhai y gweddïa yr apostol, ydynt ddynodawl o weithrediadau gwahaniaethol y personau hyn yn ngwaith yr iachawdwriaeth; cariad Duw, yn eu rhaglunio; gras ein Harglwydd Iesu Grist yn pwrcasu bendithion iachawdwriaeth; a chymundeb yr Ysbryd Glan yn nghynwysiad y prynedigaeth, yr hyn bethau ni's gellir eu priodoli i neb ond Duw.

8. Ioan 14. 16, 17, 26. a 15. 26, lle y crybwyllir am *dri* o bersonau gwahaniaethol, y *Tad*, y *Mab*, a'r *Dyddanydd*.

9. Eph. 2. 18, lle y crybwyllir am y *Tad*, *at* yr hwn y mae i ni ddyfodfa;—am y *Mab*, yr hwn y llafarai yr apostol am dano, *trwy* yr hwn y mae i ni ddyfodfa;—ac am yr *Ysbryd Glan*, *yn* yr hwn y mae i ni ddyfodfa. Gwel hefyd Eph. 3. 14, &c. Gal. 4. 4, &c.

10. Dat. 1. 4, 5, lle y crybwyllir am y Tad, yr hwn a ddarlunir trwy ei dragywyddol fodoliaeth, "Yr hwn sydd, a'r hwn a fu, a'r hwn sydd ar ddyfod;" am yr Ysbryd Glan, yr hwn a ddarlunir fel y "saith Ysbryd sydd ger bron ei orseddfainc ef," a elwir felly ar gyfrif amrywiaeth ei ddoniau, ei ddylanwadau, a'i weithrediadau; ac am Iesu Grist, yr hwn a grybwyllir yma yn olaf, oblegyd fod yr apostol yn bwriadu ymhelaethu i sylwi ychwaneg ar y darluniad o hono ef a'i berson fel y'i hamlygwyd yn y cnawd, ac fel un yr oedd efe yn dra chyfeillgar ag ef tra ar y ddaear.

Gellir dangos oddiwrth waith y prynedigaeth, fod angenrheidrwydd anhebgorol am fod *tri o bersonau* yn y Duwdod. Rhaid oedd i'r hwn a fyddai yn Gyfryngwr rhwng Duw a

dan wahanol enwau:—Weithiau fe'u gelwir *Cyngor yr Arglwydd*, Ps. 33. 11; lle hefyd y'u gelwir *meddyliau ei galon ef.* Weithiau fe'u gelwir mewn modd penderfynol *y ddeddf*, (neu yn ol y *Saes.* 'yr arfaethau'), Ps. 2. 7.—*Arfaeth*, Rhuf. 8. 28.—*Arfaeth dragywyddol*, Eph. 3. 11. Weithiau *llaw Duw*, Act. 4. 28.—*Ei ewyllys ef*, Eph. 1. 5.—*Ewyllys da y Tad*, Luc 12. 32. Ac weithiau, *rhagluniad*, Rhuf. 8. 29, 30.

Bod i Dduw ei arfaethau, sydd amlwg oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Oddiar ystyriaeth o'r rhanau uchod o'r Ysgrythyrau, wedi eu cydmaru â'r rhai canlynol, Eph. 1. 4; Rhuf. 9. 22, 23, 33; Heb. 5. 17; Exod. 33. 12, 17; Jer. 1. 5; Rhuf. 11. 2; 2 Tim. 2. 19; 1 Pedr 1. 2, &c.

2. Oddiwrth berffeithiau Duw; megys ei hollwybodaeth, Act. 15. 18. Mae y wybodaeth hon yn deillio oddiar ei ragluniad o bob peth; canys am iddo eu rhaglunio y maent.

3. Oddiwrth *annibyniaeth* Duw, a *dibyniaeth* pob peth ar ryw achos cyntaf.

4. Oddiwrth *reswm*, trwy yr hwn y'n dysgir, pe y cyflawnai Duw ddim mewn amser na's gwyddai, ac na's bwriadai er tragywyddoldeb, na's byddai yn anfeidrol ddoeth, ac na's gallai fod yn annewidiol, yr hyn sydd wrthwyneb i wir natur y Duwdod, Iago 1. 17.

Er ein bod yn son am yr arfaethau Dwyfol fel pe byddent yn llawer, ac amryw, ar gyfrif yr amrywiol wrthddrychau a arfaethwyd, eto nid yw arfaethiad o du Dduw ond un weithred syml; oblegyd symledd, unoldeb, neu annyblygrwydd perffaith ei natur ef, o herwydd yr hyn ni's gallai lai nag arfaethu pob peth ar unwaith; o herwydd fod pob peth yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef, Heb. 4. 13. Ac o herwydd ei annewidioldeb, Mal. 3. 6.

Sylw 35.—*Mae i arfaethau Duw amryw briodoliaethau.*

1. Maent yn anfeidrol *ddoeth*, Rhuf. 11. 33.

2. Maent yn hollol *rydd* a phenarglwyddiaethol, Eph. 1. 11; Rhuf. 9. 17, 18; Exod. 33. 19.

3. Maent yn berffaith *sanctaidd*, Rhuf. 9. 14.

4. Maent yn *dragywyddol*, Act. 15. 18.

5. Maent yn *anamgyffredadwy*, Rhuf. 11. 34.

6. Maent yn *berffaith*, Deut. 32. 4.

7. Maent yn *raslawn*. Gwaredu y sawl a ddewisodd, yw y bwriad sydd ganddo i'w gyflawni, er mawl gogoniant ei ras; a buasai ei arfaethau yn anfeidrol raslawn pe na buasai wedi bwriadu achub ond un enaid, o hil lluosog Adda, o afael pechod a'i ganlyniadau.

8. Maent yn *benderfynol.* Nid ydynt yn dibynu ar ddim ond ewyllys Duw, Esa. 46. 10; Dan. 4. 34, 35; Ps. 135. 6.

9. Maent yn *annewidiol,* fel Duw ei hunan: ac y mae hyn yn tarddu oddiar eu bod yn benderfynol, ac oddiar anymddibyniaeth Duw, Mal. 3. 6; Heb. 6. 17, 18; Ps. 33. 11; Num. 23. 19; 2 Tim. 2. 19.

10. Maent yn *anmhleidiol,* Rhuf. 9. 21; Matt. 11. 25. Nid *pechod* o ran y rhai nad etholwyd i fywyd, na *sancteiddrwydd* o ran y rhai a etholwyd, yw yr achos fod Duw wedi gadael y naill, a dewis y llall. Yr achos o'r ddau yw ei ewyllys da penarglwyddiaethol ef, Rhuf. 9. 18, 22, &c.

Sylw 36.—*Gwrthddrych arfaeth Duw yw pob peth.*

Y mae yn cyrhaedd *pob peth;* ond dynion ac angelion yw ei gwrthddrychau mwyaf neillduol.

1. Y mae holl weithredoedd y creadur, pa un bynag a fyddont ai da ai drwg, yn dyfod o fewn cylch arfaeth Duw, Act. 2. 23; a 4. 27; Gen. 45. 8.

2. Yr holl bethau a ymddangosant i ni yn *ddamweiniol,* ydynt yn disgyn o fewn bwriad tragywyddol Duw, Matt. 10. 29; Diar. 16. 33; 1 Bren. 22. 34.

3. Pob peth perthynol i ni,—ein sefyllfa yn y byd, pa un bynag a fyddo ai llwyddiannus neu aflwyddiannus;—ein galwedigaeth yn y byd, &c., ydynt yn disgyn o fewn bwriad tragywyddol Duw, 1 Thess. 3. 3, &c.

4. Amser, lle, a dull marwolaeth pob dyn, yn nghyd a phob amgylchiad cyssylltiedig â hyny, sydd yn wrthddrychau arfaeth Duw, Job 7. 1; Gen. 16. 12. a 95. 23; Barnwyr 13; 2 Sam. 7. 12; 1 Bren. 13. 2; Esa. 45. 1, &c., a 7. 14; Mic. 5. 2; Mal. 3. 1, &c.; Gen. 19. 3; 2 Sam. 12. 14; 2 Bren. 14. 12, 22, 28. a 21. 22; Dan. 5. 25, 26, &c.

5. Mae sefyllfa dragywyddol angelion a dynion wedi ei threfnu gan Dduw, 1 Tim. 5. 21; 2 Pedr 2. 4; Judas 6. Gwel hefyd Rhuf. 9. 21, &c., a 8. 29, &c.; Eph. 1. 4; Ioan 15. 19; Dat. 21. 27; Matt. 7. 23; Dat. 17. 8; Judas 4; 2 Tim. 2. 19, &c.

Sylw 37.—*Mae Duw wedi arfaethu pob peth er ei ogoniant ei hun.*

Dyben arfaeth Duw yw ei *ogoniant* ei hun, yr hwn sydd ddyblyg, naill ai gogoniant ei ras a'i drugaredd, neu ogoniant ei gyfiawnder ofnadwy, Eph. 1. 6, 12; Diar. 16. 4; Rhuf. 11. 36; Dat. 4. 11; Rhuf. 9. 15—23.

Sylw 38.—*Mae yr athrawiaeth am arfaethau Duw wedi ei bwriadu er daioni i'r cyfiawn a'r drygionus.*

1. Mae yn cyffrôi y cyfiawn i hunan-ymholiad, ac i ddilyn adnabod yr Arglwydd. Nid oes ynddi ddim a duedda i'w gwneyd yn ddiofal yn y defnyddiad o foddion iachawdwriaeth: canys "Duw a'u dewisodd hwy i iachawdwriaeth trwy sancteiddiad yr Ysbryd, a ffydd i'r gwirionedd," 2 Thes. 2. 13.

2. Mae wedi ei bwriadu i arwain y drygionus i ystyried ei ffyrdd, i adael eu pechodau trwy edifeirwch, ac na adawont orphwysdra i Dduw, hyd oni ffurfier Crist, gobaith y gogoniant, yn eu heneidiau.

Sylw 39.—*Nid arfaethau Duw ydynt reol ein hymddygiad ni.*

Dyma y rheol wrth yr hon y gweithreda Duw ei hun,—"Y dirgeledigaethau ydynt eiddo yr Arglwydd ein Duw," Deut. 29. 29. Y "pethau amlwg yn unig a roddwyd i ni." Gan hyny, ni's dylem ymrwystro gydag arfaeth Duw, mewn perthynas i gredu er iachawdwriaeth ein eneidiau, mwy nag mewn bwytta ac yfed, a gweithredoedd cyffredin einioes. Gellir sylwi yma, ein bod ni yn gweithredu yn y byd hwn, mor *rydd* a phe na buasai *arfaeth*; ac mor *anffaeledig* a phe na byddai ryddid.

CASGLIADAU.

Oddiwrth yr athrawiaeth hon, dysgwn,—1. Nad oes dim yn cymeryd lle heb fod Duw yn ei wybod, na dim trwy ddamwain; fel nad yw llafaru am bethau felly, yn ysgrythyrol. 2. Yr angenrheidrwydd am amynedd, ac ymostyngiad i'n rhan yn y byd hwn, yr hyn sydd wedi ei drefnu gan Dduw. 3. Penarglwyddiaeth Duw. 4. Y rhaid i ni olrhain pob rhan o'n hiachawdwriaeth i fwriad tragywyddol Duw. 5. Ein dyledswydd i ofalu am ogoniant Duw, yr hyn yw ei ddyben ef ei hunan yn ei holl ffyrdd. 6. Annewidioldeb cariad Duw. 7. I ba beth y dylem briodoli pob amgylchiad. 8. Bod pob peth yn cydweithio er daioni y credadyn, ac yn dwyn i ben amcanion y Nefoedd mewn perthynas iddo. 9. I fod yn ddyfal yn y defnyddiad o'r moddion a drefnwyd er iachawdwriaeth. Gwel Phil. 2. 12, 13; 2 Pedr 1. 10.

ADRAN II.—AM GYFLAWNIAD ARFAETHAU DUW YN NGWAITH CREADIGAETH A RHAGLUNIAETH:—DAN YR HYN YR YSTYRIR CREADIGAETH Y BYD, A DYN; A RHAGLUNIAETH DUW YN GYFFREDINOL A NEILLDUOL.

## *Cyflawniad Arfaethau Duw.*

**HOL. 8. PA FODD Y MAE DUW YN CYFLAWNI EI ARFAETHAU?**

Mae Duw yn cyflawni ei arfaethau yn ngwaith y greadigaeth, a rhagluniaeth.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Duw yn cyflawni ei arfaethau yn ngwaith y greadigaeth. Dat. 4. 41. "Ti a greaist bob peth; ac o herwydd dy ewyllys di y maent ac y crewyd hwynt."

2. Fod Duw yn cyflawni ei arfaethau yn ngwaith rhagluniaeth. Dan. 4. 35. "Yn ol ei ewyllys ei hun y mae yn gwneuthur â llu y nef, ac â thrigolion y ddaear." Gwel hefyd Ps. 103. 19.

### EGLURHAD.

Sylw 40.—*Mae Duw yn cyflawni ei arfaethau trwy grëedigaeth a rhagluniaeth.*

Mae Duw yn cyflawni ei arfaethau pan y mae yn eu dwyn i ben; neu, pan y mae yn rhoddi bod gweithredol mewn amser i'r hyn a fwriadodd efe o dragywyddoldeb, Esa. 46. 10.

1. Cyflawnodd Duw ei arfaethau trwy greadigaeth, yn yr hon y gwnelai bob peth megys y'u rhagluniasai i'w gwneuthur, o dragywyddoldeb.

2. Mae Duw yn cyflawni ei amcanion yn ngwaith rhagluniaeth, yn yr hon y mae efe yn cynnal ac yn llywodraethu pob peth yn ol ei dragywyddol gyngor.

Y gwahaniaeth rhwng cyflawniad gwaith y greadigaeth a gwaith rhagluniaeth gan Dduw, yw hyn:—Cyflawnai waith y greëdigaeth yn hollol heb foddion; tra y mae efe yn cyflawni gwaith rhagluniaeth yn gyffredinol trwy foddion. Ond, pa ddefnydd bynag a all Duw wneyd o ail achosion er cyflawni ei amcanion, nid ydynt oll ond offerynau yn ei law ef er cyflawni ei amcanion gogoneddus, Act. 4. 27, 28.

CASGLIADAU.

Oddiwrth yr athrawiaeth hon, dysgwn,—1. Fod pob peth a wnaeth Duw yn y byd, a phob peth a gymerodd, neu a gymer le yn rhagluniaeth, yn ffrwyth ei fwriad tragywyddol ef. 2. Y cyflawnir ei holl addewidion ef yn ddi-feth, Marc 13. 31.

## *Creadigaeth y Byd.*

### HOL. 9. BETH YW GWAITH Y GREADIGAETH?

**Gwaith y greadigaeth yw gwaith Duw yn gwneuthur pob peth o ddim, trwy air ei nerth, mewn yspaid chwe diwrnod, ac oll yn dda iawn.**

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Duw wedi crëu pob peth. Gen. 1. 1. "Yn y dechreuad y creodd Duw y nefoedd a'r ddaear." Gwel hefyd Ioan 1. 3.

2. Fod Duw wedi gwneyd pob peth o ddim. Heb. 11. 3. "Nid o bethau gweledig y gwnaed y pethau a welir."

3. Fod Duw wedi gwneyd pob peth trwy air ei nerth. Heb. 11. 3. "Wrth ffydd yr ydym yn deall wneuthur y bydoedd trwy air Duw." Gwel hefyd Ps. 33. 6.

4. Bod Duw wedi gwneyd pob peth mewn chwe diwrnod. Exod. 20. 11. "Mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nefoedd a daear." Gwel Gen. 1. 31.

5. Bod Duw wedi gwneyd pob peth yn dda iawn. Gen. 1. 31. "A Duw a welodd yr hyn oll a wnelsai, ac wele da iawn ydoedd."

EGLURHAD.

Sylw 41.—*Duw a greodd, neu a wnaeth bob peth o ddim.*

Wrth greadigaeth yr ydym i ddeall cynnyrchiad rhywbeth o ddim; neu roddi bod i'r hyn nad oedd yn meddu bod; neu luniad defnydd a feddai fod o'r blaen (yr hyn sydd waith hollalluogrwydd), ac yna lluniad y cyfryw ddefnydd i'r amryfal bethau a welwn ni yn bresenol, Heb. 11. 3.

Duw, yr achos cyntaf o bob peth, a greodd *y byd*, a *phob peth oll*, oddieithr ei hunan, yr hwn sydd ddigrëedig, Gen. 1. 1; Diar. 3. 19; Job 26. 7; Col. 1. 16; Neh. 9. 6; Ps. 89. 11; Esa. 34. 1; Ps. 33. 6; Heb. 3. 4.

Ni's gall fod y byd yn *dragywyddol*, fel y tybia rhai; canys yna byddai mewn bod o angenrheidrwydd, ac heb fod yn

ddarostyngedig i unrhyw gyfnewidiad dichonadwy. Ond, y mae profiad a sylw beunyddiol yn ein dysgu fod y byd yn myned trwy lawer o gyfnewidiadau; ac yr ydym yn gwybod yn sicr ei fod eisoes wedi myned trwy lawer; yr hyn a ddengys nad yw yn dragywyddol.

Ni allasai angelion na dynion greu y byd, ac ni's gallasai ymffurfio ei hunan. Canys, 1. Eu creu a gafodd angelion a dynion eu hunain; a chan fod creadigaeth yn waith hollalluogrwydd, ni's gall y naill greadur roddi bod i'r llall. 2. Creadur yw y byd; ac o ganlyniad, pe buasai y byd wedi ei ddwyn ei hunan i fod, buasai yn greadur a chreawdwr, yr hyn a fuasai yn ynfydrwydd penaf.

Er mai Duw a greodd bob peth, eto ni chreodd efe *bechod.* Efe a oddefodd iddo gymeryd lle, i ddybenion doethion; ond ni's gellir dywedyd ei fod wedi cynnyrchu pechod, fel y cyfryw. Gwnaeth Duw angelion a dynion yn uniawn; ond hwy a'u gwnaethant eu hunain yn gythreuliaid a phechaduriaid.

Bod pob peth wedi ei wneyd *o ddim* sydd eglur, oblegyd y dywedir eu bod wedi eu gwneyd *yn y dechreuad,*—hyny yw, pan nad oedd dim ond Duw, y Creawdwr, a phryd nad oedd mesur amser gan ddim, Gen. I. 1.

Sylw 42.—*Fe greodd Duw bob peth trwy air ei nerth.*

Dug Duw bob peth i fod *trwy ei air nerthol;* llefarodd yn unig, a hyny a fu, gorchymynodd, a phob peth a safodd. Gall hyn hefyd fod yn arwyddo Person y Gair; canys fe ddywedir yn Ioan 1. 3, wneuthur "pob peth trwyddo ef, a hebddo ef ni wnaethpwyd dim ar a wnaethpwyd." Gwel Ioan 1. 1—3.

Sylw 43.—*Gwnaeth Duw bob peth mewn chwe diwrnod.*

Gallasai Duw, yr hwn sydd yn hollalluog, greu pob peth mewn mynyd o amser; ond efe a dreuliodd chwe diwrnod yn y gwaith, fel y gallem ni amgyffred trefn y greadigaeth yn well, ac am ei fod yn ei weled yn fwy er ei ogoniant ei hunan a daioni dynolryw, i roddi iddynt esiampl o weithio chwe diwrnod, a gorphwys ar y seithfed.

1. Ar y dydd *cyntaf,* creodd Duw y nefoedd uchod, neu y drydedd nef; yr angelion, y rhai a elwir lluoedd y nef, a meibion Duw, Job 38. 7; tryblith (*chaos*) y ddaear, a'r dwfr, a'r goleuni. Efe a wahanodd y goleuni oddiwrth y tywyllwch; gan alw y blaenaf yn *ddydd,* a'r olaf yn *nos,* Gen. 1. 1—5.

2. Ar yr *ail* dydd creodd Duw y ffurfafen, yr hon tebygid o gynnwysai y nefoedd serenawl ac awyrawl. Efe a wahanodd y dyfroedd oddiar y ffurfafen hefyd oddiwrth y dyfroedd odditan y ffurfafen, Gen. 1. 6—8.

Mae dyn yn gynnwysedig o ddwy ran—*enaid* a *chorph.*

Nid oedd yr enaid fel y corph wedi ei lunio o'r ddaear, ond sylwedd ysbrydol ydoedd, a anadlid iddo gan Dduw, Gen. 2. 7; am ba achos y gelwir Duw yn *Dad yr ysbrydoedd*, a *Duw ysbrydoedd pob cnawd*, Heb. 12. 9; Num. 16. 22. a 27. 16.

Mae enaid dyn yn gwahaniaethu oddiwrth ei gorph yn mhob golygiad, o ran ei *natur* a'i *barhad.* Mae y corph yn *weledig*, ond yr enaid yn *anweledig ;* y corph yn *farwol*, ond yr enaid yn *anfarwol.*

Sylw 47.—*Crewyd dyn ar ddelw Duw, yr hon sydd yn gynnwysedig mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a sancteiddrwydd.*

Wrth *ddelw* Duw yr ydym i ddeall y cyffelybrwydd, neu debygolrwydd i Dduw, Gen. 1. 26. Ond nid yw y cyffelybrwydd neu y tebygolrwydd yma yn gynnwysedig mewn unrhyw debygolrwydd allanol a gweledig; (canys Ysbryd yw Duw, ac ni's gellir ei weled); ond yn nghyffelybrwydd tufewnol ei enaid i Dduw, mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a sancteiddrwydd, Col. 3. 10; Eph. 4. 24.

Mae y ddelw Ddwyfol yma mewn gwybodaeth, cyfiawnder, a sancteiddrwydd, yn cynnwys uniondeb perffaith a chyffredinol yr holl enaid :—

1. *Gwybodaeth* yn y deall. Yr oedd Adda yn gwybod llawer mwy am natur a phriodoliaethau Duw, ac o'i ddyledswydd ei hun tuag atto, nag y mae yn bosibl i ddyn cwympedig ei wybod yn awr.

2. *Cyfiawnder* yn yr ewyllys.—Yn ei gyflwr cyntefig yr oedd dyn yn meddu tuedd at bob peth oedd uniawn. Nid oedd dim ynddo ond perffeithrwydd hyd yr eithaf.

3. *Sancteiddrwydd* yn y serchiadau.—Yr oedd serchiadau dyn ar y dechreu yn sanctaidd a phur; wedi eu gosod ar y gwrthddrychau sancteiddiaf, goruchaf, a godidocaf; yr oedd ei ddymuniadau yn benaf am Dduw, a'i hyfrydwch yn benaf ynddo ef. Yr oedd efe yn abl i fwynhau Duw yn ddigyfrwng; gan nad oedd dim ynddo ydoedd yn annymunol gan Dduw, na dim trwy yr hyn y dianrhydeddid ei ogoniant ef.

Sylw 48.—*Crewyd dyn âg arglwyddiaeth ar y creaduriaid.*

Yr oedd dyn, pan y'i crewyd, yn meddu arglwyddiaeth, nid yn unig arno ei hunan a'i serchiadau ei hun, ond hefyd ar y creaduriaid israddol. Cyn y cwymp, yr oedd holl greaduriaid y byd hwn yn ddarostyngedig i ddyn; ond er y pryd hyny y maent hwy wedi dyfod yn ddychryn iddo ef, neu efe iddynt hwy.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn, dysgwn,—1. Y dylem ymostwng yn ddirfawr, gan mai o'r pridd y daethom, ac mai i'r pridd y dychwelwn. 2. Y cyfnewidiad y mae pechod wedi ei gynnyrchu ar yr holl ddyn. 3. Y dylem garu Duw, gan ein bod ar y dechreu wedi ein gwneyd ar ei ddelw ef; ac y dylem garu ein gilydd, gan ein bod yn blant yr un rhïaint cyffredinol. 4. Yr angenrheidrwydd am ein creu o newydd yn Nghrist Iesu, a'n cydffurfio âg ef, "yr hwn yw delw y Duw anweledig."

## *Natur a nodweddiad Rhagluniaeth gyffredinol Duw.*

HOL. 11. PA BETH YW GWEITHREDOEDD RHAGLUNIAETH DUW?

Ei waith yn cynnal ac yn llywodraethu ei holl greaduriaid, a'i holl weithredoedd, mewn modd sanctaidd, doeth, a nerthol.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod Duw yn cynnal ei holl greaduriaid. Ps. 145. 15. "Llygaid pob peth a ddysgwyliant wrthyt ti, ac yr ydwyt yn rhoddi eu bwyd iddynt yn eu bryd." Gwel hefyd Heb. 1. 3.

2. Bod Duw yn llywodraethu ei holl greaduriaid, a'u holl weithredoedd. Ps. 103. 19. "Ei freniniaeth ef sydd yn llywodraethu ar bob peth." Diar. 16. 19. "Calon dyn a ddychymyg ei ffordd; ond yr Arglwydd a lywodraetha ei gerddediad ef."

3. Bod gweithredoedd rhagluniaeth Duw yn dra sanctaidd. Ps. 145. 17. "Cyfiawn yw yr Arglwydd yn ei holl ffyrdd, a sanctaidd yn ei holl weithredoedd."

4. Bod gweithredoedd Duw yn ei ragluniaeth yn ddoeth iawn. Esa. 28. 29. "Arglwydd y lluoedd, yr hwn sydd ryfedd yn ei gyngor, ac ardderchog yn ei waith."

5. Bod gweithredoedd rhagluniaeth Duw yn nerthol iawn. Ps. 66. 7. "Efe a lywodraetha trwy ei gadernid byth." Dan. 4. 35. "Nid oes a attalio ei law ef."

EGLURHAD.

Sylw 49.—*Y mae rhagluniaeth Ddwyfol.*

Wrth *ragluniaeth* yr ydym i ddeall y nerth hollalluog, trwy

yr hwn y mae Duw mewn sancteiddrwydd a doethineb, er ei fawl a'i ogoniant, yn cynnal ac yn llywodraethu y nefoedd a'r ddaear, a phob peth sydd ynddynt, o'r lleiaf hyd y mwyaf.

Gellir profi bod rhagluniaeth, yr hon sydd yn llywodraethu ar bob peth, oddiwrth y pethau canlynol:

1. Oddiwrth *reswm;* trwy yr hwn y'n dysgir, pe y gadewsid pob peth iddynt eu hunain, y buasent yn methu eu nôd amcanedig.

2. Oddiwrth *gydwybod;* yr hon trwy gyhuddo neu esgusodi, sydd yn dal allan dystiolaeth nodedig i ragluniaeth.

3. Oddiwrth *Ysgrythyr;* yn mhob taflen o'r hon o'r braidd y cawn brofion o hyn. Gwel Col. 1. 17; Neh. 9. 6; Heb. 1. 3; Ps. 119. 91; Gen. 8. 21, 22; Act. 17. 28; Ps. 136. 25; Job 12. 10; Matt. 10. 29, 30; Act. 14. 17, &c.

4. Mae yr un rhesymau ag a brofant fodoliaeth Duw, yn profi bod rhagluniaeth; canys ni all y naill fod heb y llall.

Sylw 50.—*Mae gweithrediad Duw mewn rhagluniaeth yn gynnwysedig mewn cynnal a llywodraethu ei greaduriaid a'u gweithredoedd.*

1. Yn *nghynnaliad* ei greaduriaid. Mae yn gwneyd hyn trwy eu cadw neu eu cynnal mewn bod, a thrwy arlwy pethau angenrheidiol er eu cadwraeth, Ps. 119. 89—91. a 145. 15, 16. Gwel hefyd Heb. 1 3; Col. 1. 17.

2. Yn *llywodraethiad* ei greaduriaid a'u gweithredoedd. Y mae yn gwneuthur hyn drwy eu goruwchreoli, a'u trefnu, a'u cyfeirio i'r dyben y'u hamcanai, Ps. 66. 7; Diar. 16. 9. Gwel hefyd Act. 17. 28; Ps. 59. 13; Job 34. 13, a 36. 22, 23; Eph. 1. 11; Job 33. 13.

Sylw 51.—*Gwrthddrychau rhagluniaeth Duw ydynt ei holl greaduriaid, a'u holl weithredoedd.*

1. Y mae yn cyrhaedd *yr holl greaduriaid*, rhesymol ac afresymol, bywiol a difywyd, mawr a bach, Heb. 1. 3; Ps. 103. 19; Matt. 10. 29, 31. a 6. 26, 28, 30.

2. Y mae yn cyrhaedd *i'w holl weithredoedd:*—Pob gweithredoedd naturiol, Act. 17. 28. Pob gweithredoedd damweiniol, Exod. 21. 12, 13. Pob gweithred dda mewn ystyr foesol, Ioan 15. 5. Pob gweithredoedd drwg mewn ystyr foesol; mae Duw yn *goddef* gweithredoedd pechadurus; ond y mae yn angenrheidiol i ni gofio am oddefiad Duw o bechod, nad fel goddefiad yn unig y mae i'w gyfrif, fel pe na's gallasai ei attal i gymeryd lle, neu fel pe na buasai yn sylwi arno; ond ei fod yn dwyn perthynas â'i lywodraethiad o'r byd, ac â'r dybenion a gymerodd iddo ei hunan, a'r rhai a derfynant yn

ei ogoniant ef. Gall gweithred a fyddo fel hyn dan oruwchreolaeth rhagluniaeth yr Arglwydd, fod yn dda, yn y cyssylltiad hwnw, tra ar yr un pryd, y mae yn un dra phechadurus, fel y mae yn deillio o ddyn; y cyfryw ydoedd gwerthiad Joseph i'r Aipht, a chroeshoeliad ein Harglwydd ei hunan. Gwel Gen 1. 15—20; Act. 2. 23, 28; Rhuf. 8. 32.

Sylw 52.—*Mae rhagluniaeth Duw yn dra sanctaidd, doeth, a galluog.*

Priodoliaethau rhagluniaeth Duw ydyw a ganlyn:—

1. Mae yn *dra sanctaidd*, Ps. 145. 17. Mae sancteiddrwydd a phurdeb anfeidrol yn weledig yn ei holl weinyddiad o'i ragluniaeth. Ymddengys hyn yn ei waith yn dwyn gogoniant i'w drugaredd a'i gyfiawnder ei hun o bechod, yn gwneyd y penaf o bechaduriaid yn rhagoraf o'r saint, 1 Tim. 1. 12, 13; ac yn ngweinyddiad ei farnedigaethau ar bechaduriaid, hyd yn nod yn y byd hwn, Ps. 9. 16.

2. Un *dra doeth* ydyw. Mae Duw yn gwneyd pob peth yn ddarostyngedig i'r dybenion y'u bwriadodd, Rhuf. 8. 28; Ps. 104. 24; Esa. 28. 29.

3. Mae yn *dra galluog*, fel na's gall neb wrthsefyll ewyllys Duw, Dan. 4. 35; Ps. 135. 6. a 66. 7. a 62. 11.

Sylw 53.—*Gwahaniaethir rhrgluniaeth Duw yn gyffredinol, i naturiol a goruwchnaturiol, cyffredinol a neillduol.*

1. Rhagluniaeth *naturiol* Duw, yw ei waith yn cadw at drefn pethau a osodwyd ganddo o'r dechreuad, Hos. 2. 21, 22.

2. Rhagluniaeth *oruwchnaturiol* yw ei waith yn myned tu hwnt, neu yn gweithredu yn wrthwyneb i drefn naturiol pethau, a'r cyfryw amgylchiadau a elwir yn wyrthiol.

3. Ei ragluniaeth *gyffredinol*, yw ei ofal am yr holl greaduriaid a wnaeth efe, heb wahaniaeth, Neh. 9. 6; Act. 17. 28. Hyn a elwir llywodraeth naturiol Duw.

4. Ei ragluniaeth *neillduol*, neu ei lywodraeth foesol, yw ei ofal am y greadigaeth resymol yn unig; a gellir cyfyngu hon etto i'w ofal neillduol dros ei bobl ei hun yn y byd hwn.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn, dysgwn,—1. Gan fod rhagluniaeth yn goruwchlywodraethu, fe fydd i bod peth gydweithio er daioni i bobl Dduw.—2. Y dylem ymostwng i ragluniaeth Duw.—3. Na ddylem ei gyfrif yn rhyw beth dyeithr fod y drygionus yn blaguro, a'r cyfiawn yn cael ei erlid. 4. Mai y rhai y mae yr Arglwydd yn Dduw iddynt sydd yn bobl ddedwydd. 5. Y ddyledswydd o ddal sylw ar ragluniaethau Duw. Gwel Ps. 107. 43.

ADRAN III.—AM RAGLUNIAETH NEILLDUOL DUW TUAG AT DDYN YN EI GREADIGAETH A'I GWYMP: DAN YR HYN YR YSTYRIR Y CYFAMMOD GWEITHREDOEDD, CWYMP DYN, EHANGDER Y CWYMP, A'I GANLYNIADAU.

## *Y Cyfammod Gweithredoedd—Ei Rannau a'i Ammodau.*

HOL. 12. PA BETH OEDD RHAGLUNIAETH NEILLDUOL DUW TUAG AT DDYN YN Y CYFLWR Y CREWYD EF?

Wedi i Dduw greu y dyn, efe a wnaeth ag ef gyfammod bywyd, ar ammod o ufudd-dod perffaith; gan wahardd iddo fwytta o bren gwybodaeth da a drwg, dan boen marwolaeth.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgia yma,—

1. Fod Duw wedi myned i gyfammod ag Adda. Hos. 6. 7, (ymyl y ddalen.) "Y rhai hyn, fel Adda, a dorasant y cyfammod."

2. Ei fod yn gyfammod bywyd. Rhuf. 7. 10. "A'r gorchymyn yr hwn ydoedd i fywyd."

3. Mai ammod y cyfammod hwn oedd ufudd-dod perffaith. Rhuf. 10. 5. "Y dyn a wnel y pethau hyny a fydd byw trwyddynt." Gwel hefyd Gen. 3. 3.

4. Y gwaherddid i ddyn fwytta o bren gwybodaeth da a drwg. Gen. 2. 17. "Ond o bren gwybodaeth da a drwg, na fwytta o hono."

5. Mai y gosb a fygythid yn y cyfammod hwn oedd marwolaeth. Gen. 2. 17. "Yn y dydd y bwyttei o hono, gan farw y byddi farw."

EGLURHAD.

Sylw 54.—*Fe wnaed cyfammod gweithredoedd âg Adda.*

Mae y gair *cyfammod* yn dynodi peth *gosodedig, sefydlog.* Gwel Jer. 33. 25, lle y darllenwn am gyfammod yr Arglwydd â'r dydd a'r nos. Ond, yn y cyffredin y mae yn golygu *cyttundeb* a wneir rhwng pleidiau.

Fe ymddengys yn eglur fod cyfammod gweithredoedd wedi ei wneuthur rhwng Duw ac Adda fel cynnrychiolwr dynolryw,

tra yr oedd yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd, neu pan y'i crewyd, oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Mae yr hyn a wnaed rhwng Duw a dyn yn cynnwys pob peth angenrheidiol a gofynol mewn cyfammod; megys pleidiau, ammod, addewid, a bygythiad.

2. Fe'i gelwir cyfammod yn bendant, Gal. 4. 24; Hos. 6. 7.

3. Yr oedd arwyddion a seliau wedi eu cyssylltu âg ef, y rhai a roddent rym ynddo, ac a'i cadarnhäent fel cyfammod. Y rhai hyn oeddynt bren gwybodaeth da a drwg, a phren y bywyd.

4. Yn yr Ysgrythyr yr ydym yn darllen am *ddwy ddeddf*, y naill yn wrthwyneb i'r llall, sef deddf gweithredoedd a deddf ffydd. Gwel Rhuf. 3. 27, lle y deallwn, o angenrheidrwydd, wrth *ddeddf ffydd*, y *cyfammod gras;* ac wrth *ddeddf gweithredoedd*, y *cyfammod gweithredoedd;* canys y mae yr hyn a ddywedir am y naill yn cael ei ddweyd hefyd am y llall.

5. Nid oes dim yn profi yn fwy effeithiol fod cyfammod gwirioneddol a phriodol wedi ei wneyd âg Adda, na'r *cyfrifiad o'i gyfammod cyntaf* i'w holl had naturiol. Gwel Rhuf. 5. 12, 17, 18.

Sylw 55.—*Y pleidiau yn y cyfammod gweithredoedd oeddynt Dduw a dyn.*

1. Ar un llaw, yr oedd Duw, y Tad, Mab, ac Ysbryd Glan, Crëydd dyn, a'i Ben Arglwydd, yr hwn yw y Deddfwr mawr, ac Awdwr pob da i'w greaduriaid.

2. Ar y llaw arall yr oedd dyn, creadur Duw,—Adda, yn cynnrychioli holl ddynolryw, ac yn cyfammodi â Duw, nid yn unig drosto ei hunan, ond dros ei holl had hefyd, fel tad naturiol pawb, a'r un a osodasid yn ben cyfammoddol iddynt.

Nid oedd Cyfryngwr yn y cyfammod hwn, ac nid ydoedd angen am un; canys yr oedd dyn y pryd hyny yn gyfaill Duw; a'i wasanaeth, tra y parhaodd yn ei ddiniweidrwydd, ydoedd gymeradwy ganddo, gan ei fod yn gyflawn gydffurf â'i gyfraith.

Sylw 56.—*Ammod y cyfammod gweithredoedd oedd ufudddod perffaith.*

Wrth *ammod* y cyfammod hwn y deallwn ni yr hyn a ofynai Duw gan Adda er rhoddi hawl iddo, ar ei ran ei hun, ac ar ran ei holl had, o fywyd tragywyddol, yr hyn oedd y gwobrwy addawedig.

Yr *ufudd-dod* a ofynid oedd parch i holl gyfraith Duw,—yr oedd y gyfraith hòno wedi ei hysgrifenu ar galon dyn yn ei greadigaeth: ac hefyd i'r gorchymyn pendant a roddes efe

iddo, sef, "peidio bwytta o bren gwybodaeth da a drwg;" a hyn oll oddiar barch dyledus i'r awdurdod Ddwyfol. Gelwid y pren hwn yn bren gwybodaeth da a drwg, am mai pan fwyttäodd o hono y gwybu Adda, trwy brofiad, pa beth oedd y daioni a gollasai, a'r drwg a ddygasai arno ei hun a'i hiliogaeth.

1. Yn berffaith o ran ei *egwyddor*. Yr oedd i darddu oddiar gariad at Dduw, yr hwn sydd yn gofyn, nid yn unig ufudd-dod allanol, ond tufewnol hefyd, neu ufudd-dod y galon.

2. Perffaith o *rannau*. Yr oedd i gyrhaedd holl orchymynion Duw, am y meddyliau, y geiriau, a'r gweithredoedd.

3. Perffaith o *raddau*. Yr oedd pob gweithred o ufudd-dod i fod yn berffaith o radd; heb ddim yn ddiffygiol ynddi o'r perffeithrwydd a ofynai y ddeddf. Yr oedd i garu yr Arglwydd ei Dduw â'i holl galon, a'i holl enaid, â'i holl nerth, ac â'i holl feddwl.

4. Perffaith o *barhad*,—heb attalfa, tra y mynai Duw ei gadw mewn cyflwr o brawf, Gal. 3. 10.

Dyma oedd ammod y cyfammod gweithredoedd. Ni allasai Adda ar unrhyw ammodau eraill gyrhaedd bywyd tragywyddol trwyddo, neu gael ei gyfiawnhau ger bron Duw. Felly fe ymddengys na allasai ufudd-dod diffuant fod yn gymeradwy oddieithr ei fod yn berffaith, ac nad oedd le i edifeirwch dan y cyfammod hwn. Y bygythiad oedd, "Yn y dydd y bwyttei o hono, gan farw y byddi farw." Mae y cyfryw fygythiad pendant yn cau allan bob gobaith, ac yn gwneyd edifeirwch yn aneffeithiol.

Sylw 57.—*Y gwobrwy a addewid yn y cyfammod gweithredoedd oedd bywyd.*

Mae y geiriau, "Yn y dydd y bwyttei o hono gan farw y y byddi farw," yn rhoi ar ddeall yn amlwg y buasai bywyd yn cael ei gadw pe na chollasid diniweidrwydd.

Y gwobrwy a addawid oedd bywyd yn ei ystyr helaethaf, yn y byd hwn, a'r hwn a ddaw; ac am hyny y gelwir y cyfammod hwn, *cyfammod bywyd*. Y bywyd addawedig ydoedd,—

1. *Bywyd naturiol*, yr hyn oedd gynnwysedig yn undeb enaid a chorph.

2. *Bywyd ysbrydol*, yr hyn oedd gynnwysedig yn undeb yr enaid â Duw, y daioni penaf.

3. *Bywyd tragywyddol*, yr hyn sydd gynnwysedig yn nedwyddwch perffaith, annghyfnewidiol, a thragywyddol enaid a chorff yn y nefoedd dros byth.

Sylw 58.—*Cosb y cyfammod gweithredoedd, neu y bygythiad a gyhoeddid am anufudd-dod oedd marwolaeth.*

"Yn y dydd y bwyttei o hono," sef o bren gwybodaeth da a drwg, *gan farw y byddi farw.*" Cynnwysa hyn,—

1. *Farwolaeth naturiol*, neu farwolaeth y corph; i'r hyn y daeth dyn yn agored y fynyd y pechodd. Gwel Rhuf. 6. 23.

2. *Marwolaeth ysbrydol;* yr hyn sydd gynnwysedig yn ysgariad yr enaid oddiwrth Dduw.

3. *Marwolaeth dragywyddol*, neu ysgariad enaid a chorph oddiwrth Dduw am byth, yn y lle sydd wedi ei barottoi i weithredwyr anwiredd. Hyn hefyd a elwir, *Yr ail farwolaeth;* ac y mae yn cynwys ynddi golli yn berffaith a thrwyadl bob peth dyddanus gyda golwg ar y fuchedd hon, cystal a'r hon a ddaw.

Nid ellir dweyd yn briodol mai gweithred noeth o eiddo *ewyllys* Duw ydyw y gosb am droseddu deddf gweithredoedd; ond y mae yn deillio oddiar ei briodoliaethau; canys os ystyriwn ni natur Duw, nyni a welwn ei fod yn anhebgorol angenrheidiol fod y cyfryw gosb fanol ac ofnadwy.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Gariad Duw yn ymostwng i fyned i gyfammod a'i greadur ei hun. 2. Mor ddyrchafedig oedd dyn yn ei ogoniant cyntefig, gan ei fod yn gymhwys i fod yn blaid mewn cyfammod â Duw ei hunan; a chan fod Duw yn ei wneuthur megys ei gydradd. 3. Pa beth yw dyn yn ei gyflwr cwympedig. 4. Y gyfran bwysig sydd i ni oll yn y cyfammod hwn: y mae pechod Adda yn bechod i ni. 5. Pa beth a gymeradwya Duw, sef yr un ufudd-dod ag a ofynid gan Adda, naill ai yn ein personau ein hunain, neu yn mherson machnïydd. 6. Yr angenrheidrwydd anhebgorol am Gyfryngwr, gan fod y cyfammod hwn, yr hwn a wnelsid âg Adda, yn awr wedi ei dori, a ninau wedi ein dystrywio trwyddo. 7. Y perygl o anufudd-dod; a bod Duw yn dân ysol i'r pechadur. 8. Na's gellir gwaredu neb rhag melldith y cyfammod hwn ond trwy Iesu Grist, yr hwn a gyflawnodd ei ammod, yr hwn a ddioddefodd ei gosb yn ei holl ehangder, a'r hwn sydd yn awr yn cael ei ddal allan fel iawn cyfiawn dros gamwedd. 9. Yr angenrheidrwydd o hunan-ymholiad, pa un a waredwyd ni oddiwrth felldith y ddeddf, neu a ydym ni eto dan y ddeddf fel cyfammod gweithredoedd, ac o dan awdurdod pechod, Gal. 3. 10.

## *Anufudd-dod dyn a'i gwymp trwy bechod.*

HOL. 13. A ARHOSODD EIN RHIENI CYNTAF YN Y CYFLWR Y CREWYD HWYNT YNDDO?

Naddo; ond wedi eu gadael i ryddid eu hewyllys eu hunain, hwy a syrthiasant o'r cyflwr y crewyd hwynt ynddo trwy bechu yn erbyn Duw.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod ein rhieni cyntaf wedi eu gadael i ryddid eu hewyllys eu hunain. Gen. 3. 6. "A phan welodd y wraig mai da oedd ffrwyth y pren yn fwyd, ac mai teg mewn golwg ydoedd, hi a gymmerth o'i ffrwyth ef, ac a fwyttaodd, ac a roddes i'w gwr hefyd gyda hi, ac efe a fwyttaodd." Gwel hefyd Gen. 3. 13.

2. Eu bod wedi cwympo o'r cyflwr yn mha un y'u creasid, trwy bechu yn erbyn Duw. Rhuf. 5. 12. "Trwy un dyn y daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod." Gwel hefyd Gen. 3. 8; Preg. 7. 29.

### EGLURHAD.

Sylw 59.—*Gadawwyd ein rhieni cyntaf i ryddid eu hewyllys eu hunain.*

Wrth *ryddid ewyllys* yr ydym i ddeall, rhyddid yn yr ewyllys, trwy yr hyn, heb unrhyw orfodaeth neu drais allanol, y dewisa neu y gwrthyd yr hyn a osodir o'i flaen. Y mae tair ffordd yn y rhai y gellir dywedyd fod yr ewyllys yn rhydd:—

1. Gellir dywedyd ei fod yn rhydd i ddaioni yn unig pan na byddo yn cael ei yru neu ei orfodi, ond yn dewis yr hyn sydd dda yn unig. Fel hyn y mae ewyllys Duw, (a llafaru yn ddynol) ewyllys yr angelion sanctaidd, a'r saint mewn gogoniant, yn rhydd i ddaioni yn unig.

2. Gellir dywedyd bod yr ewyllys yn rhydd i ddrwg yn unig, pan na byddo yn cael ei orfodi, ond yn dewis yn rhydd yr hyn sydd ddrwg neu bechadurus. Fel hyn y mae ewyllys y diafol a dynion diadgenhedledig, yn rhydd i bechod yn unig.

3. Gellir dywedyd bod yr ewyllys yn rhydd i dda a drwg, pan y dewiso weithiau yr hyn sydd dda, ac weithiau yr hyn sydd ddrwg. Y cyfryw yw ewyllys y rhai a adgenhedlwyd yn

y byd hwn. Maent yn rhydd i ddewis yr hyn sydd dda, trwy egwyddor o ras sydd wedi ei phlanu ynddynt gan Ysbryd Duw, ond weithiau trwy weddill llygredigaeth, y mae eu hewyllys yn cael ei dueddu at yr hyn sydd bechadurus.

Yr oedd y rhyddid ewyllys oedd gan ddyn yn ei gyflwr crëedigol yn rhyddid at dda a drwg hefyd. Yr oedd tuedd naturiol ei ewyllys yn unig at yr hyn oedd dda; ond gan ei fod wedi ei greu yn ddarostyngedig i gyfnewidiad, gallasai trwy demtasiwn, neu ryw amgylchiad allanol, gael ei gyfnewid, a dyfod yn ogwyddedig at ddrwg. Rhagoriaeth Duw yn unig yw gallu dywedyd, "Myfi yr Arglwydd ni'm newidir." Mal. 3. 6.

Nid yw yr ymadrodd, "Wedi eu *gadael* i ryddid eu hewyllys eu hunain," yn arwyddoccâu bod Duw wedi tynu yn ol ddim o'r gallu a roddasai efe iddynt ar y dechreu; canys dïedifarus yw doniau a galwedigaeth Duw,—*h. y.*, nid yw efe yn galw ei ddoniau yn ol. Rhuf. 11. 29. Iago 1. 13. Ond, y mae yn amlwg ei fod yn arwyddoccâu, na roddes efe fwy o nerth i'n rhïeni cyntaf, nag a roddasai efe iddynt pan y'u crëodd. Rhaid i ni gofio yn wastadol nad yw Duw yn rhwym mewn un modd i roddi i neb o'i greaduriaid, yr hyn na's gwel ei fod er ei ogoniant ei hunan, pa mor wasanaethgar a buddiol bynag y gallai fod iddynt hwy.

Sylw 60.—*Fe gwympodd ein rhieni cyntaf o'r cyflwr yn yr hwn y'u creasid, trwy bechu yn erbyn Duw.*

Dyma fu y canlyniad o'u gadael i ryddid eu hewyllys eu hunain. Trwy demtasiwn y diafol; trwy awydd i borthi blys, trwy ddymuniad i fod yn ddoeth, ac megys Duw, a thrwy obaith dïanc rhag y gosb a fygythid, hwy a anturiasant fwytta o'r pren gwaharddedig, yn erbyn gorchymyn pendant Duw. Gen. 3. 4—6.

Bod ein rhieni cyntaf wedi cwympo o'u cyflwr o ddiniweidrwydd yn yr hwn y'u crewyd, a ymddengys,—

1. Os ystyriwn ni yr amgylchiadau fel y'u cawn gan yr hanesydd sanctaidd yn y drydedd bennod o Genesis.

2. Os ystyriwn ni yr addewid rasol o Waredwr a wnaeth Duw iddynt, ni's gallwn ddatgan amheuaeth am eu cwymp o'u cyflwr gwreiddiol.

3. Ond, nid oes dim a brawf y gwirionedd yma mor eglur a'r hyn a ganfyddwn beunydd yn y byd o'n deutu; sef, canlyniadau pechod; megys ymbellâad oddiwrth Dduw yn mhob ystyr, a marwolaeth, yr hyn yn mhob lle sydd yn ei amlygu ei hun yn gyflog pechod. Rhuf. 6. 23.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Wendid dyn pan y'i gadewir iddo ei hun. Onid arhosodd Adda yn ei ddiniweidrwydd pan yr oedd wedi derbyn digon o nerth, mor fach a fedd dyn yn awr i ymffrostio o hono gyda golwg ar ei allu a'i gymhwysder i ufuddhau! 2. Yr angenrheidrwydd o wyliadwriaeth yn mha gyflwr bynag y byddom wedi ein gosod ynddo yn y byd yma. 1 Cor. 10. 12. 3. Yr angenrheidrwydd am Waredwr hollalluog, yr hwn a all ein cyfodi o adfeilion y codwm, ac adferu i ni y rhagorfreintiau, yr anrhydedd, a'r dedwyddwch a gollasom.

## *Natur pechod yn gyffredinol.*

HOL. 14. PA BETH YW PECHOD?

Diffyg cydffurfiad â chyfraith Duw, neu drosedd o honi.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod unrhyw ddiffyg o gydffurfiad a chyfraith Duw, yn bechod. Gal. 3. 10. "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau sydd ysgrifenedig yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt."

2. Bod unrhyw drosedd o gyfraith Duw yn bechod, 1 Ioan 3. 4. "Annghyfraith yw pechod."

EGLURHAD.

Sylw 61.—*Fod unrhyw ddiffyg o gydffurfiad a chyfraith Duw yn bechod.*

Wrth *gyfraith Duw* yr ydym i ddeall y gorchymynion a roddes Duw, y Creawdwr mawr, a'r Brenin, a'r Deddfwr Goruchaf i bob dyn, y rhai ydynt ei greaduriaid a'i ddeiliaid, fel rheol eu hufudd dod.

Mae y gyfraith hon i'w chanfod mewn rhan, er yn dywyll, yn ysgrifenedig ar galonau holl ddynolryw. Rhuf. 2. 15; ond y mae yn fwy cyflawn ac eglur yn ysgrifenedig yn Ngair Duw, neu Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd.

Fe grybwyllir yn yr Ysgrythyrau am dair o gyfreithiau;— 1. Y *gyfraith farnol*, yr hon oedd yn dwyn perthynas yn benaf a'r genedl Iuddewig, ac nad yw yn mhob ystyr yn rhwymedig ar genhedloedd eraill. 2. Y *gyfraith seremonïol*, yr hon nid oedd yn rhwymedig ar neb ond yr Iuddewon, nac arnynt hwythau onid dros amser yn unig, sef hyd oni ddeuai Crist,

gan yr hwn yr oedd i gael ei chyflawni a'i difodi. 3. Y *gyfraith foesol*, yr hon sydd yn rhwymedig yn barhaus ar holl ddynolryw, hyd ddiwedd y byd; ac at y gyfraith hon y cyfeirir yn benaf yn y lle hwn.

Wrth *ddiffyg cydffurfiad* a'r gyfraith yr ydym i ddeall annghyfatteboirwydd i'r gyfraith, neu annghyttundeb a hi mewn unrhyw ystyr; neu osgöad oddiwrthi yn ei manylrwydd, ei hysbrydolrwydd, a'i heangder.

Mae diffyg cydffurfiad a'r gyfraith yn cynnwys,—

1. Pechod gwreiddiol, a gelyniaeth naturiol y galon i gyfraith Duw, Rhuf. 8. 7. Yr hyn yw diffyg cydffurfiad y galon.

2. Pob pechod o ommeddiad, yr hyn yw diffyg cydffurfiad y fuchedd a chyfraith Duw.

Sylw 62.—*Mae pob trosedd o ddeddf Duw yn bechod.*

Mae y gair trosedd yn arwyddo myned dros y terfynau neu y ffiniau a osodid i un.

*Troseddu cyfraith Duw* yw myned dros, neu dori y terfynau a osododd efe i'n holl weithredoedd; neu wneuthur yr hyn a fyddo yn annghyson a, neu wrthwyneb i'r gyfraith, mewn meddwl, gair, neu weithred; yr hyn sydd bechod yn erbyn Duw.

Mae *drwg* pechod yn gynnwysedig yn benaf yn y dianrhydedd y mae yn ei wneuthur i Dduw, yn ei wrthwynebrwydd i'w natur a'i ddeddfau. A gellir ei ganfod,—1. Yn y dianrhydedd a ddyru ar briodoliaethau gogoneddus y Duwdod. 2. Yn yr hyn a wnaeth Duw er ei olchi ymaith. 3. Yn effeithiau ofnadwy pechod, yr hwn os parheir ynddo heb faddeuant, a ddilynir a thrueni tragywyddol.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Bod yn ofynol i ni mewn trefn i weled pa beth ydym, ein chwilio ein hunain wrth gyfraith Duw. 2. Bod cyfraith Duw yn dra ehang, yn gofyn ufudd-dod gan bawb, naill ai yn eu personau eu hunain, neu yn mherson machnïydd. 3. Y dylem gasâu pechod yn benaf, fel tarddell pob gwae, a ffynhonell pob trallod. 4. Bod angen am Iachawdwr i'n gwaredu oddiwrth bechod, yr hwn yw y drwg gwaethaf, ac na ddylem orphwyso hyd oni chaffom ein golchi, ein cyfiawnhau, a'n sancteiddio, yn enw yr Arglwydd Iesu, a thrwy Ysbryd ein Duw ni.

## *Natur pechod Adda yn neillduol.*

HOL. 15. PA BETH OEDD Y PECHOD TRWY BA UN Y SYRTHIODD EIN RHIENI CYNTAF O'R CYFLWR YN YR HWN Y CREWYD HWYNT?

Y pechod drwy yr hwn y cwympodd ein rhieni cyntaf o'r cyflwr y'u creasid ynddo, oedd bwytta y ffrwyth gwaharddedig.

DOSRANIAD A PHROFION.

**Fe'n dysgir yma,—**

**1. Mai pechod cyntaf, a chamwedd neillduol Adda oedd bwytta y ffrwyth gwaharddedig. Gen. 3. 6. "Hi a gymmerth o'i ffrwyth ef, ac a fwyttaodd, ac a roddes i'w gwr hefyd gyda hi, ac efe a fwyttaodd."**

**2. Mai bwytta y ffrwyth gwaharddedig oedd yr achos o gwymp Adda. Rhuf. 5. 17. "Trwy gamwedd un y teyrnasodd marwolaeth trwy un."**

EGLURHAD.

Sylw 63.—*Mai dyn wedi cwympo o'i gyflwr gwreiddiol.*

Yr oedd cyflwr dyn ar y dechreu yn gyfryw, nad ellid ychwanegu dim atto, i'w wneyd yn fwy perffaith neu yn fwy dedwydd.

Bod dyn wedi cwymp o'i gyflwr gwreiddiol, sydd eglur oddiwrth y pethau canlynol,—

1. Os edrychwn i ddyn ei hunan, nyni a gawn brawf digonol; canys y mae pechod yn mhob man yn nodi ei gamrau, a phob peth o'i fewn yn dangos nad yw e yn awr yr hyn oedd ef unwaith.

2. Os edrychwn ar Dduw, y mae yr un gwirionedd yn ymddangos; canys y mae yr hwn oedd unwaith yn gyfaill i ddyn, yn elyn i'r rhai na's mynant ef eu oll yn oll.

3. Os edrychwn o'n hamgylch yn y byd, nyni a ganfyddwn brofion o'n codwm; canys pa beth yw yr holl gystuddiau, y trallodau, a'r marwolaethau a ganfyddwn, ag yr ydym yn ddarostyngedig iddynt, ond ffrwyth pechod?

4. Os edrychwn i'r byd a ddaw, nyni a gawn brawf hefyd o'n gwrthgiliad oddiwrth Dduw; canys pe na buasai droseddwr, ni buasai na chosbedigaeth, na lle o dragywyddol wae.

Sylw 64.—*Y pechod cyntaf a neillduol, yr hwn a fu yn achos o gwymp Adda, oedd bwytta y ffrwyth gwaharddedig.*

Yr oedd y gorchymyn a roddes Duw i Adda, i brofi ei

ufudd-dod, yn orchymyn pendant i beidio bwytta o ffrwyth pren neillduol, yr hyn oedd ynddo ei hun yn beth dibwys, fel y gallai weled bod ei ufudd-dod i droi ar ewyllys Duw, yr hyn oedd y prawf goreu o'i ufudd-dod.

Y ffrwyth o'r hwn y bwyttaodd ein rhieni cyntaf, a elwid y ffrwyth gwaharddedig, nid am fod unrhyw ddrwg ynddo fel ffrwyth, canys yr oedd hyn yn anmhosibl, yn gymmaint a bod pob peth wedi ei wneyd yn dda iawn; ond yn unig am fod Duw wedi gorchymyn i Adda beidio a bwytta o hono, er prawf o'i ufudd-dod.

Nid bwytta y ffrwyth gwaharddedig oedd y *pechod cyntaf* a gyflawnodd dyn yn ein byd, canys cyn i'n rhieni cyntaf gymeryd yn weithredol o'r ffrwyth gwaharddedig, yr oeddynt yn euog o'r pechod o *annghrediniaeth*, yr hwn yw gwreiddyn pob pechod arall; canys credasant y diafol, yr hwn a ddywedai, "Ni byddwch chwi feirw ddim," yn hytrach na Duw, yr hwn a ddywedasai, Gan farw y byddent feirw, os cyffyrddent ag ef." Gen. 3. 3, 4. Ond

*Bwytta y ffrwyth gwaharddedig* oedd y *pechod cyntaf* a *orphenwyd*, ac a ddug farwolaeth a phob gwae i'r byd.

65.—*Yr achlysur o bechod ein rhieni cyntaf oedd, temtiad Satan.*

Satan, neu ddiafol, yr hwn a elwir y sarph, ar gyfrif ei ddichell, a gymerai arno ei fod yn gofalu llawer mwy am eu dedwyddwch nag yr oedd Duw ei hunan; ac felly efe a geisiau eu perswadio, pa faint bynag o gariad y cymerai Duw arno fod yn ei feddu attynt, yr ewyllysai gyfyngu ar eu dedwyddwch yn yr ardd. Ac yn hyn efe a fu yn rhy lwyddiannus. Gen. 3. 4, 5.

Ymddangosai dichell Satan yn y demtasiwn hon,—

1. Yn ei waith yn ymosod ar Efa, yr hon oedd y llestr gwanaf, pan oedd ar wahân oddiwrth ei gwr.

2. Yn ei waith yn ymgyflwyno o'i blaen mewn amrywiol anwireddau.

3. Yn ceisio dinystrio dyn mor fuan wedi greu.

Sylw 66.—*Bod pechod ein rhieni cyntaf yn cynnwys trosedd o'r holl ddeddf.*

Er fod amryw o orchymynion y ddeddf foesol, y rhai ni's gallasai ein rhieni cyntaf mewn cyflwr o ddiniweidrwydd eu troseddu yn eglur; eto, wrth ystyried yr amgylchiadau, nyni a ganfyddwn, bod eu pechod mewn rhyw olygiadau yn cynnwys trosedd o'r cwbl.

1. Gwnaethant eu hunain yn dduwiau newyddion,

Gwasanaethant yr Arglwydd yn ol cyngor eu calon eu hunain, a mynent roddi iddo y cyfryw addoliad ag a ymddangosai yn dda yn eu golwg ei hunain.

3. Halogent briodolaethau eu Crëwr, a diystyrent ordinhadau eu Duw.

4. Annghyfaddasent eu hunain i'w addoli ef ar y seithfed dydd, ar yr hwn y gorphwysai efe oddiwrth ei holl weithredoedd.

5. Nid anrhydeddent eu Tad yr hwn sydd yn y nefoedd, ond annghofient ef, yr hwn oedd eu cymmwynaswr, ac yr oeddynt yn ddiffygiol yn eu dyledswydd y naill i'r llall.

6. Llofruddient eu hunain a'i holl had.

7. Nid oedd ganddynt ddim i'w wneyd er cuddio eu noethni, ond gwnïo dail y ffigysbren.

8. Yr oeddynt yn euog o ladrad; canys cymerent yr hyn ni pherthynai iddynt.

9. Dygent gam dystiolaeth yn erbyn yr Arglwydd; a rhoddasant fwy o goel ar gelwydd, nag ar wirionedd Duw.

10. Grwgnachent yn erbyn eu cyfran, ac nid ymfoddlonent i'w sefyllfa; canys ni allai dim eu boddloni hyd oni chymerent yr hyn a gadwasai Duw iddo ei hunan.

A'r Apostol Iago a ddywaid, "Yr hwn a droseddo mewn un pwnc, sydd euog o'r cwbl.

Sylw 67.—*Yr oedd pechod ein rhieni cyntaf yn dra ysgeler yn ngolwg Duw.*

Gwelwn hyn os ystyriwn ni,—

1. Y *person euog:* dyn, yr hwn a greasid mewn cyflwr o ddiniweidrwydd, ac yn feddiannol ar allu digonol i aros yn y cyflwr hwnw.

2. Y *nifer* a gynnwysid yn y trosedd; pechodd Adda yn erbyn Duw i'w ddinystr ei hun, a'r eiddo ei holl hiliogaeth naturiol.

3. Yr *amser* y'i cyflawnid; sef yn fuan ar ol ei gyfleu yn Mharadwys.

4. Y *lle* y cyflawnid y pechod; sef Paradwys, yr hwn oedd dra hoff gan Dduw, gan ei fod wedi ei barottoi ganddo yn drigle ei greadur diniwed.

5. *Gwrthddrych* y demtasiwn; yr hyn o ran ymddangosiad nid oedd o nemawr bwys; dim ond ffrwyth pren, yr hyn yn yn ddiau ni ddylasai ddylanwadu arno i beri iddo gyflawni y fath bechod, gan fod ganddo gyflawnder o bob rhyw ffrwyth arall, ac o bob peth angenrheidiol er ei ddedwyddwch.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn, dysgwn,—1. Y fath greadur egwan yw dyn, pan fo ar y goreu. 2. Pe y'n gadewid i ni ein hunain, y byddai i ninnau fel ein rhieni cyntaf ddewis angau yn ebrwydd. 3. Yr angenrheidrwydd o wyliadwriaeth a gweddi. 4. Mor anesgusodol yw pawb a bechasant yn erbyn Duw; ac mor annigonol a fydd pob dadl pan gyfodo Duw i farn. 5. Nad oes un pechod yn fach yn ngolwg Duw. 6. Mor effro a bywiog yw Satan i ddystrywio yr enaid. 7. Yr angenrheidrwydd o hunan-ymwadiad. 8. Yr angenrheidrwydd am Iesu Grist, fel Gwaredwr oddiwrth bob pechod,—oddiwrth bechod y natur cystal a throseddau gweithredol.

*Pechod Adda yn neillduol.—1. Ehangder y cwymp.*

HOL. 16. A SYRTHIODD HOLL DDYNOLRYW YN NGHAMWEDD CYNTAF ADDA?

Do: gan fod cyfammod wedi ei wneuthur âg Adda, nid yn unig drosto ei hun, ond hefyd ei hiliogaeth, holl ddynolryw yn deillio o hono ef trwy genhedliaid naturiol, a bechasant ynddo, ac a gwympasant gydag ef yn ei gamwedd cyntaf.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod y cyfammod gweithredoedd a wnaed âg Adda, drosto ei hun a'i hiliogaeth. Rhuf. 5. 14. "Eithr teyrnasodd marwolaeth o Adda hyd Moses, ie arnynt hwy y rhai ni phechasant yn ol cyffelybiaeth camwedd Adda, yr hwn yw ffurf yr un oedd ar ddyfod."

2. Bod holl ddynolryw, deilliedig o Adda trwy genhedliad naturiol, wedi pechu ynddo, a chwympo gydag ef. Rhuf. 5. 12. "Trwy un dyn daeth pechod i'r byd, a marwolaeth trwy bechod; ac felly yr aeth marwolaeth ar bob dyn, yn gymmaint a phechu o bawb." 1 Cor. 15. 22. "Yn Adda y mae pawb yn meirw."

3. Mai yn nghamwedd cyntaf Adda y pechasom ac y cwympasom. Rhuf. 5. 18. "Trwy gamwedd un dyn (neu trwy un camwedd,) y daeth barn ar bod dyn i gondemniad."

EGLURHAD.

Sylw 68.—*Yr oedd y cyfammod a wnaed âg Adda, nid yn unig drosto ei hunan, ond dros ei holl had hefyd.*

Bod Adda yn ben cyfammodol a chynnyrchiolwr holl ddyn-

2. Y mae yn *gyflwr truenus*, o herwydd, yn ol bygythiad y ddeddf, fod marwolaeth a melldith yn ei amgau yn mhob rhyw drueni, Rhuf. 5. 12. Mae pechod a thrueni yn gyssylltiedig anysgaredig. Pe na byddai bechod ni's gallai fod trueni; canys pechod yw yr achos cynnyrchiol o bob trueni.

Mae cyflwr pechadurus a thruenus dyn yn cael ei ddarlunio yn yr Ysgrythyr, drwy gyflwr o dywyllwch, Eph. 5. 8; cyflwr o bellder, Eph. 2. 13; cyflwr o gollfarn a digofaint, Ioan 3. 18, 36; cyflwr o gaethiwed, Esa. 49. 24; a chyflwr o farwolaeth gyfreithiol ac ysbrydol, Eph. 2. 1.

Ni's gall un dyn ei waredu ei hun o'r cyflwr pechadurus a thruenus yma; Iesu Grist yn unig a all wneyd, canys efe yn unig a allai foddloni gofynion deddf a droseddasai dyn.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Gan fod yr holl fyd yn euog ger bron Duw, rhaid i bob genau fod yn gauedig am byth, ie, pe buasai yn gadael holl ddynolryw i fod yn golledig dragywyddol gyd a'r angelion cwympedig, Rhuf. 3. 19. 2. Rhyfeddwn gariad anfeidrol Duw, yn anfon ei Fab anwyl, i'n gwaredu oddiwrth bechod, yr hon yw yr unig ffordd i gael gwaredigaeth o drueni, Heb. 2. 14, 16.

## 3. *Pechadurusrwydd cyflwr dyn trwy y cwymp.*

HOL. 18. YN MHA BETH Y MAE PECHADURUSRWYDD Y CYFLWR Y SYRTHIODD DYN IDDO YN GYNNWYSEDIG?

Mae pechadurusrwydd y cyflwr y cwympodd dyn iddo, yn gynnwysedig yn euogrwydd camwedd cyntaf Adda, y diffyg o gyfiawnder gwreiddiol, a llygriad ei holl natur, yr hyn a elwir yn gyffredin pechod gwreiddiol; yn nghyd a'r holl droseddau gweithredol a darddant o hyny.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod pechadurusrwydd cyflwr cwympedig dyn yn gynnwysedig yn euogrwydd camwedd cyntaf Adda. Rhuf. 5. 18. "Trwy gamwedd un y daeth barn ar bob dyn i gondemniad." Gwel hefyd adn. 19.

2. Fod pechadurusrwydd cyflwr cwympedig dyn yn gyn-

nwysedig mewn diffyg o gyfiawnder gwreiddiol. Rhuf. 3. 10. "Nid oes neb cyfiawn, nac oes un."

3. Mae pechadurusrwydd cyflwr cwympedig dyn yn gynnwysedig yn llygriad ein holl natur, neu yr hyn a elwir pechod gwreiddiol. Ps. 51. 5. "Wele, mewn anwiredd y'm lluniwyd, ac mewn pechod y beichiogodd fy mam arnaf."

4. Bod ein holl droseddau gweithredol, yn y rhai hefyd y mae pechadurusrwydd ein cyflwr yn gynnwysedig, yn deillio oddiar bechod gwreiddiol. Matt. 15. 19, 20. "O'r galon y mae meddyliau drwg yn dyfod allan, lladdiadau, tor priodasau, godinebau, lladradau, camdystiolaethau, cablau. Dyma y pethau sydd yn halogi dyn."

EGLURHAD.

Sylw 72.—*Mae y fath beth a phechod gwreiddiol.*

Pechod gwreiddiol yw y pechod hwnw yr ydym ni yn ei feddu o'n dechreuad a'n genedigaeth; o'r hwn y mae pob troseddau gweithredol yn tarddu.

Bod y fath beth a phechod gwreiddiol, a ellir ei brofi,—

1. Oddiwrth amryfal ranau o'r Ysgrythyr, Gen. 5. 3, lle y dywedir i Adda genhedlu mab *ar ei lun a'i ddelw ei hun.* Mae y geiriau hyn yn arwyddoccau yn amlwg, fod y mab a anwyd iddo, wedi dyfod i'r byd â'r un ddelw lygredig ag a ddygai ef ei hunan wedi y cwymp, Gen. 6. 5,—oddiwrth yr hyn y mae yn amlwg y rhaid fod rhyw ffynhonell lygredig, o'r hon y deillia yr holl ddrygioni, pe amgen, ni's gallai fod holl fwriad meddylfryd calon dyn yn *unig yn ddrygionus*, a hyny *bob amser.* Ond, fe draethir yn gyflawnach ar hyn yn pen. 8. 21, —"bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuenctyd;" yr hyn sydd yn cyfeirio ein sylw at y llwgr gwreiddiol fel y ffynhonell o'r cyfan. Gwel hefyd Job 14. 4; Iago 3. 11; Job 15. 14; Ioan 3. 6; Ps. 51. 5.

2. Oddiwrth *enwaediad* dan yr Hen Destament, a *bedydd* dan y Newydd, y rhai y gellir eu golygu, nid yn unig fel seliau y cyfammod, ond hefyd fel wedi eu hamcanu i ddynodi anmhurdeb a halogedigaeth pawb yn eu dyfodiad i'r byd, a'r angenrheidrwydd am ein glanhau, neu ein hadgenhedlu, er ein cymhwyso fel gwir blant Duw trwy gyfammod i fwynhad o hono ef.

3. Oddiwrth ymddygiad plant; oddiwrth y cystudd, y poenau, a'r angau ei hunan, i'r hyn y maent yn ddarostyngedig pan y maent yn dyfod i'r byd yma; ac oddiwrth amrywiaeth eu tymherau a'u tueddiadau, cyn y gallant amlygu eu rheidiau.

4. Oddiwrth brofiadau pobl Dduw, y rhai ydynt yn ystyried pechod gwreiddiol fel ffynhonell eu holl drallodau, eu gofidiau, a'u profedigaethau yn y byd hwn.

5. Oddiwrth yr ystyriaeth na's gallwn roddi rheswm yn y byd am ddrygedd dyn, os gwadwn ei fod yn llifeirio o'r ffynhonell lygredig yma.

Sylw 73.—*Mae y pechod gwreiddiol yn gynnwysedig yn euogrwydd camwedd cyntaf Adda, y diffyg o gyfiawnder gwreiddiol, ac ymlygriad yr holl natur.*

Mae yn gynnwysedig,

1. Yn *euogrwydd camwedd cyntaf Adda.* Wrth hyn yr ydym i ddeall ein bod ni oll dan euogrwydd camwedd cyntaf Adda, yr hwn a wneir yn eiddo i ni trwy gyfrifiad. Fel y mae cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i'w holl had ysbrydol, felly y mae pechod Adda yn gyfrifedig i'w holl had naturiol, Rhuf. 5. 19.

2. *Mewn diffyg o gyfiawnder gwreiddiol.* Wrth hyn yr ydym i ddeall y diffyg o'r purdeb natur hwnw a feddai Adda pan y'i crewyd, ac oedd gynnwysedig mewn cyddffurfiad cyflawn a pherffaith o holl alluoedd ei enaid â natur ddifrycheulyd Duw, ac â'r ddeddf sanctaidd oedd ysgrifenedig ar ei galon, Preg. 7. 29.

3. *Yn llygriad yr holl natur.* Wrth hyn yr ydym i ddeall llygriad a halogiad cyffredinol corph ac enaid; yn aelodau y naill, a galluoedd a chynheddfau y llall, Esa. 1. 5, 6.

Nid yw Duw yn *trosglwyddo* pechod i'r enaid wrth ei greu. Fel Barnwr cyfiawn, a Duw cyfiawnder, y mae yn unig yn attal y cyfiawnder gwreiddiol hwnw a feddai Adda yn y dechreuad, a ninnau ynddo ef; a'r hyn nid yw efe dan unrhyw rwymedigaeth i'w gyfranu. Gan fod Adda wedi ei fwrw ymaith ar y dechreu, y mae Duw yn awr yn ei ommedd, fel cosb am bechod, a gweithred o gyfiawnder.

Sylw 74.—*Mae pechod gwreiddiol, o ran ei natur yn gyffredinol, yn ei amlygu ei hun lle y dysgwylid leiaf, y mae yn rhwystr mawr yn ffordd sancteiddrwydd, yn ffynhonell pob pechodau gweithredol, ac yn ein darostwng yn agored i ddigofaint Duw.*

1. Y mae yn *gyffredinol.* Nid yn unig y mae pob dyn wedi ymlygru, ond pob rhan o bob dyn,—holl aelodau y corph, a holl gynheddfau a galluoedd yr enaid,—y deall, yr ewyllys, y serchiadau, &c. Gwel Rhuf. 3. 10, 12, 23; Esa. 1. 5, 6; Jer. 4. 22; 1 Cor. 2. 14; Rhuf. 8. 7; Hos. 11. 7; Ioan 5. 40; Tit. 1. 15; Ps. 116. 13, 21.

2. *Y mae yn ei amlygu ei hun pan ddysgwylid leiaf.* Mae nid yn unig yn ymdori allan yn y pechaduriaid mwyaf; ond hefyd yn y saint enwocaf, mewn ffordd hollol annysgwyliadwy a sydyn, Jer. 17. 9; Matt. 26. 69—75; 2 Sam. 11; Jonah 1; Gen. 9. 21, &c.; 2 Bren. 8. 12.

3. *Y mae yn rhwystr yn ffordd sancteiddrwydd.* Mae yn attal yr enaid rhag rhedeg yn ffordd gorchymynion Duw; y mae yn barod i'n hamgylchu; ac yn peri attalfa nodedig ar gymmundeb ysbrydol â Duw, Rhuf. 7. 19, &c.

4. *Mae yn ffynhonell pob troseddau gweithredol.* O'r ffynnon yma y mae yr holl ddrygau sydd yn y byd yn tarddu; canys pe na byddai pechod gwreiddiol, ni byddai pechod gweithredol. Gwel Matt. 15. 18, &c.

5. *Mae yn ein darostwng yn agored i ddigofaint Duw.* Mae pawb wrth naturiaeth yn blant digofaint, Eph. 2. 3.

### CASGLIAAU.

Oddiwrth y testyn hwn gwelwn,—1. Wreiddyn a ffynnon pob pechod, a phob trallod i'r hyn y gallwn fod yn agored, yn y byd hwn ac yn yr hwn a ddaw. 2. Bod rhieni a phlant yn gyd stad gyda golwg ar lwgr gwreiddiol. 3. Yr angenrheidrwydd am ein cymeryd o'n cyflwr anianol, a'n himpio i Grist, yr ail Adda. 4. Yr angenrheidrwydd anhebgorol am adenedigaeth, ac Ysbryd Crist, yr hwn a all wneyd pob peth o newydd, Ioan 3. 3, 5.

## 3. *Trueni cyflwr dyn trwy y cwymp.*

HOL. 19. PA BETH YW TRUENI Y CYFLWR Y SYRTHIODD DYN IDDO?

Holl ddynolryw trwy y cwymp a gollasant gymmundeb â Duw, ydynt dan ei ddigofaint a'i felldith, ac felly wedi eu darostwng i bob trueni yn y byd hwn, i farwolaeth ei hun, ac i boenau uffern yn dragywydd.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod holl ddynolryw trwy y cwymp wedi colli cymmundeb â Duw. Gen. 3. 8. "Ac ymguddiodd Adda a'i wraig o olwg yr Arglwydd Dduw yn mysg prenau yr ardd." Adn. 24. "Felly efe a yrrodd allan y dyn." Gwel hefyd Esa. 59. 2; a Rhuf. 8. 7.

2. Bod holl ddynolryw wrth natur dan ddigofaint Duw a'i

felldith. Eph. 2. 3. "Ac yr oeddym ni wrth naturiaeth yn blant digofaint." Gal. 3. 10. "Melltigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau a ysgrifenir yn llyfr y ddeddf, i'w gwneuthur hwynt."

3. Bod holl ddynolryw trwy y cwymp wedi eu darostwng i bob trueni yn y byd hwn. Job 5. 7. "Dyn a aned i flinder, fel yr eheda gwreichionen i fynu." Gwel hefyd Gen. 3. 17.

4. Bod holl ddynolryw trwy y cwymp wedi eu darostwng i farwolaeth. Rhuf. 6. 23. "Cyflog pechod yw marwolaeth."

5. Bod holl ddynolryw trwy y cwymp wedi eu darostwng i boenau uffern. Ps. 9. 17. "Y rhai drygionus a ymchwelant i uffern, a'r holl genhedloedd a annghofiant Dduw.

6. Bod poenau uffern yn dragywyddol. Matt. 25. 46. "Y rhai hyn a ânt i gosbedigaeth dragywyddol." Gwel hefyd Esa. 33. 14; Marc 9. 43, 44; a 2 Thess. 1. 9.

### EGLURHAD.

Sylw 75.—*Mae dyn trwy y cwymp wedi colli cymmundeb â Duw.*

Yr oedd y cymmundeb a fwynhai dyn mewn diniweidrwydd, yn gynnwysedig mewn mwynhad didor o bresenoldeb Duw a'i ffafr rasol, yn nghyd a'r cyfeillgarwch agosaf âg ef yn ngardd Eden.

Bod dyn wedi *colli* y cymmundeb hwn sydd amlwg oddiwrth ei fod yn cael ei ddarlunio fel un "heb Dduw yn y byd," ac fel un "wedi ymddyeithrio oddiwrth fuchedd Dduw," Eph. 2. 12; a 4. 18. Gwel hefyd Gen. 3. 8, 23, 24.

Trwy golli y cymmundeb hwn cafodd dyn y golled fwyaf; gan mai Duw yw y daioni penaf, a bod dedwyddwch penaf dyn yn gynnwysedig mewn cymmundeb âg ef.

Sylw 76.—*Mae dyn dan ddigofaint a melldith Duw.*

1. Mae dyn dan *ddigofaint* Duw. Bod dan ddigofaint Duw yw bod dan ei wg yn ei effeithiau ofnadwy, pa un bynag a fyddont yn weledig i ni, neu yn guddiedig rhagom, Ioan 3. 36; Eph. 2. 3; Ps. 11. 5.

2. Mae dyn dan *felldith* Duw. Bod dan felldith Duw, yw bod dan felldith ei gyfraith gyfiawn ef, yr hon sydd yn cyhoeddi pob gwae uwch ben y pechadur. Gal. 3. 10; Ps. 90. 11; Deut. 28. 15, &c.: Ps. 7. 11; Rhuf. 1. 18; Ioan 3. 18, 36.

Sylw 77.—*Mae dyn yn ddarostyngedig i bob rhyw drueni a marwolaeth yn y byd hwn.*

1. Mae dyn yn ddarostyngedig i *holl drueni y fuchedd hon,*

yn yr hyn a berthyn i'r *corph*. Megys, barnau ac adfydau cyffredinol o bob math; y trallodau, y cystuddiau, a'r anhwylderau y mae y corph dynol yn ddarostyngedig iddynt; y colledion, croesau, a siomedigaethau, a'r camwri y mae dynion yn ddarostyngedig iddynt yn barhaus; a'r holl dlodi, cyfyngderau, gwasgfeuon, ac anghenion, ydynt yn disgyn i ran llaweroedd yn eu cyflwr presenol.

2. Mae dyn yn ddarostyngedig i *holl drueni y fuchedd hon* yn yr hyn a berthyn i'r *enaid;* megys, dallineb meddwl, Eph. 4. 18; meddwl annghymeradwy, Rhuf. 1. 28; amryfusedd cadarn, 2 Thess. 2. 11; caledrwydd calon, Rhuf. 2. 5; dychryn cydwybod, Esa. 33. 14; Gen. 4. 13; Matt. 27. 4; gwyniau gwarthus, Rhuf. 1. 26, &c.

3. Mae dyn yn ddarostyngedig i *angau* ei hunan, neu ysgariad yr enaid oddiwrth y corph, Heb. 9. 27; Rhuf. 6. 23; Ezec. 18. 4.

Gellir sylwi yma, gyda golwg ar oruchwyliaeth allanol Rhagluniaeth, bod yr holl drueni allanol a grybwyllwyd uchod yn dygwydd i'r cyfiawn a'r drygionus; ond fe'u hanfonir arnynt i ddybenion tra gwahanol. I'r cyfiawn nid ydynt namyn ceryddon tadol, ac y maent yn cydweithio er daioni iddynt, tra y maent yn dyfod i'r drygionus mewn ffordd o ddigofaint dialeddol, ac yn rhag-redegwyr trallod tragywyddol, onid edifarhant. I'r blaenaf y maent yn cael eu sancteiddio, a'u gwneyd yn foddion cynydd mewn sancteiddrwydd; ond i'r lleill y maent yn ddechreuad digofaint ar gyfrif eu pechodau, yr hwn a ddatguddir yn ei amser priodol.

Sylw 78.—*Mae dyn yn ddarostyngedig i boenau uffern yn y byd a ddaw.*

Wrth *boenau uffern* yr ydym i ddeall cosbedigaeth yr annuwiol, yr hyn sydd gynnwysedig,—

1. Yn y gosb o *golled;* colli Duw, yr hwn yn unig yw, ac a all fod daioni penaf yr enaid; colli Crist, presenoldeb yr hwn sydd well na'r bywyd; colli cymmundeb angelion a saint; colli yr enaid; colli pob possibilrwydd i ddïanc.

2. Yn y gosb o *deimlad;* yr hon a ddarlunir yn yr Ysgrythyr trwy "fwrw i'r tywyllwch eithaf;" "llyn yn llosgi o dân a brwmstan, yr hyn yw yr ail farwolaeth;" "y pryf na bydd marw, a'r tân na's diffydd;" "dinystr tragywyddol oddi ger bron yr Arglwydd, ac oddiwrth gogoniant ei gadernid ef," &c.

Sylw 79.—*Mae poenau uffern yn dragywyddol.*

Y bydd cosbedigaeth yr annuwiol yn dragywyddol sydd eglur oddiwrth yr Ysgrythyr, lle y'n sicrheir y bwrir y dryg-

ionus i'r tân *tragywyddol*—yr ânt hwy i gosbedigaeth *dragywyddol*—y cosbir hwy â dinystr *tragywyddol*—ac y poenir hwy ddydd a nos *yn oes oesoedd*. Nid yw yr ymadroddion hyn yn gadael un lle i ammeu ar y pen hwn.

Nid yw *tragywyddoldeb* y gosbedigaeth yn hanfodol i'r bygythiad, neu ddedfryd gosbawl y ddeddf; canys be buasai felly, ni allasai fod iawn am bechod byth. Ond y mae yn deillio oddiar *natur y creadur*, yr hwn gan ei fod yn feidrol, ni's gall byth roddi iawn o anfeidrol wiwdeb. Felly, mae yn rhaid i gosbedigaeth yr annuwiol fod yn dragywyddol, cystal a gwynfydedigrwydd y saint, yr hyn sydd ar gyfrif anfeidrol wiwdeb iawn Crist yn eu lle.

CASGLIAAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Mor ddrwg, a chwerw, ac atgas yw pechod, yr hwn a ddylynir gan y fath ganlyniadau, ac a ddwg i'w ganlyn y fath drueni, oni's golchir ef ymaith y ngwaed Crist. 2. Pa mor felus bynag y gall pleserau pechod ymddangos yn awr, y prawf e yn chwerw yn y diwedd. 3. Yr angenrheidrwydd i ffoi at y dyn Crist Iesu rhag dialydd y gwaed; i ffoi at gyrn yr allor, fel na'n dinystrier trwy bechod. 4. Gwerthfawrogrwydd yr Efengyl, a gwerth yr enaid; a thrueni annirnadwy y rhai oll ydynt yn nghyflwr natur.

ADRAN IV.—RAGLUNIAETH NEILLDUOL DUW TUAG AT DDYN MEWN PRYNEDIGAETH:—DAN YR HON YR YSTYRIR TREFN Y PRYNEDIGAETH, CYMHWYSIAD Y PRYNEDIGAETH, A LLESION Y PRYNEDIGAETH.

## *Dosparth* 1.—*Trefn y Prynedigaeth.*

HOL. 20. A ADAWODD DUW HOLL DDYNOLRYW I FOD YN GOLLEDIG, MEWN CYFLWR O BECHOD A THRUENI?

Gan i Dduw o'i wir ewyllys da, er tragywyddoldeb ethol rhai i fywyd tragywyddol, efe a wnaeth gyfammod o ras i'w gwared hwynt o gyflwr o bechod a thrueni, a'u dwyn i gyflwr o iachawdwriaeth trwy Waredwr.

DOSBANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Duw wedi ordeinio neu ethol rhai dynion i fywyd tragywyddol. Act. 13. 48. "A chynifer ag oedd wedi eu hor-

deinio i fywyd tragywyddol a gredasant." Gwel hefyd 2 Thess. 2. 13.

2. Bod bwriad Duw o etholedigaeth, o dragywyddoldeb. Eph. 1. 4. "Megys yr etholodd efe ni ynddo ef cyn seiliad y byd."

3. Bod etholedigaeth Duw yn ffrwyth ei ewyllys da ef ei hun. Eph. 1. 5. "Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef."

4. Bod Duw wedi myned i gyfammod gras â Christ ar ran yr etholedigion. Ps. 89. 3. "Gwnaethum ammod â'm hetholedig."

5. Mai dyben y cyfammod hwn oedd gwaredu yr etholedig o'u cyflwr gwreiddiol o bechod a thrueni, a'u dwyn i afael iachawdwriaeth gyflawn trwy Waredwr. Rhuf. 8. 1. "Nid oes gan hyny yn awr ddim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu, y rhai sydd yn rhodio, nid yn ol y cnawd, eithr yn ol yr Ysbryd." Rhuf. 5. 18. "Trwy gyfiawnder un y daeth y dawn ar bob dyn i gyfiawhad bywyd." Gwel hefyd Matt. 1. 21; 1 Thess. 1. 10; Tit. 3. 5; Diar. 23. 2.

EGLURHAD.

Sylw 80.—*Mae Duw wedi ethol, neu ordeinio rhai dynion i fywyd tragywyddol.*

Wrth *etholedigaeth* yr ydym i ddeall bwriad cariad a gras Duw tuag at rai pechaduriaid o ddynolryw, pan y gallasai eu gadael oll, heb eithriad, i ddarfod am danynt yn eu pechodau, Act. 13. 48; Matt. 20. 16; Luc 12. 32.

Yr hyn y dewisir yr etholedigion iddo yw *bywyd tragywyddol.* Fe'u dewisir hefyd i'r moddion sydd yn arwain i'r dyben hwn; canys y mae y moddion a'r dybenion mor gyssylltiedig, fel na's gellir eu hysgaru, Act. 13. 48; 2 Thes. 2. 13.

Nid yw yr etholedigion a'r credinwyr yn ogymmaint yn bresenol; ond hwy a fyddant yn berffaith ogymmaint; canys fe ddygir y rhai oll a etholwyd i fywyd tragywyddol, mewn iawn bryd o'u cyflwr pechadurus a thruenus i feddiant o iachawdwriaeth gyflawn.

Sylw 81.—*Yr oedd bwriad Duw o etholedigaeth o dragywyddoldeb.*

Ffurfiodd Duw ei fwriad yn ngylch yr etholedigion o dragywyddoldeb. Ni bu dechreu iddo erioed; canys efe a'u carodd o dragywyddoldeb, Jer. 31. 3; Eph. 1. 4; 2 Thess. 2. 13. Mae dywedyd nad yw Duw yn dewis neb hyd ddydd y credu, fel pe dywedasid na's gwyddai efe o dragywyddoldeb pwy a

gredai, a pha beth a fyddai mewn amser; ac os gwadwn ei hollwybodaeth a'i ragwybodaeth, yr ydym yn gwadu ei fod.

Sylw 82.—*O'i ewyllys da ef ei hun y tarddodd etholedigaeth.*

1. Nid arfaeth etholedigaeth Duw ydoedd achub y sawl a *gredai* ac a *barhai* mewn cyflwr o sancteiddrwydd; canys, pe felly, gwnelsid y weithred hon o eiddo Duw yn llwyr ansicr; canys, pe ymddibynai ar yr amgylchiad yma, ni byddai sicrwydd a gredai neb, ac o ganlyniad ni byddai sicrwydd a achubid neb.

2. Ni ddewisodd Duw ddynion i fywyd tragywyddol oddiar *ragweled* eu ffydd a'u sancteiddrwydd. Nid yw yr Ysgrythyr byth yn priodoli etholedigaeth i ffydd a sancteiddrwydd mewn rhagwelediad, neu i'w hamlygiad wedi hyny yn y saint. Ond i'r gwrthwyneb, y mae y pethau hyn yn wastad yn cael eu dal allan fel *ffrwythau* ac *effeithiau* etholedigaeth; ac o ganlyniad, ni's gellir eu golygu fel yr *achos* o honi; canys ni all yr un peth fod byth ar yr un a'r unrhyw bryd yn achos ac effaith hefyd. Gwel Eph. 1. 4, 5.

3. Nid *Iesu Grist* yw yr *achos* o etholedigaeth. Os yw Duw mewn cariad wedi anfon ei Fab i'r byd, i brynu y rhai roddid iddo, ni's gellir am fynyd feddwl ei fod ef yn achos o garu nes ethol. Gwel Ioan 3. 16.

4. Yr unig reswm a ellir ei roddi, gan hyny, a'r hwn y mae yr Ysgrythyrau yn mhob man yn priodoli etholedigaeth iddo, yw *ewyllys da Duw*, Eph. 1. 5. "Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad trwy Iesu Grist iddo ei hun, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys ef, er mawl gogoniant ei ras ef, trwy yr hwn y gwnaeth ni yn gymmeradwy yn yr Anwylyd." Gwel hefyd Matt. 11. 26; Rhuf. 2. 16, &c. Mal. 1. 2, 3.

Sylw 83.—*Aeth Duw i gyfammod o ras â Christ ar ran yr etholedigion.*

Y trueni i'r hwn yr ymsuddodd holl ddynolyw trwy bechod oedd yr *achlysur* o'r cyfammod gras; ond yr *achos* o hono oedd cariad anfeidrol, ac ymostyngiad, a gras penarglwyddiaethol Duw.

Mae y cyfammod hwn yn cael ei alw wrth amrywiol enwau yn yr Ysgrythyrau.

1. Fe'i gelwir yn gyffredinol *y cyfammod gras;* o herwydd mai cariad a gras Duw oedd yr achos o hono.

2. Fe'i gelwir *yr ail gyfammod;* oblegyd, er ei wneyd yn gyntaf, ei ddwyn i weithrediad yn olaf, Heb. 8. 7.

3. Fe'i gelwir *cyfammod gwell;* hyny yw, gwell na'r cyf-

ammod gweithredoedd; am ei fod wedi ei sefydlu ar addewidion gwell, Heb. 8. 6.

4. Fe'i gelwir *cyfammod newydd;* am ei amlygu yn olaf, ac am y pery yn sicr yn ei holl ranau hyd ddiwedd y byd, Heb. 8. 8.

5. Fe'i gelwir *cyfammod hedd;* oblegyd mai trwyddo y gwneir cymmod rhwng Duw a dyn, Exec. 37. 26; Esa. 54. 10.

Bod y cyfammod gras wedi ei wneyd â Christ fel cynnrychiolwr yr etholedigion, neu, fel yr ail Adda, a ymddengys yn amlwg oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Oddiwrth amrywiol ranau o'r Ysgrythyrau, Ps. 89. 3, &c., lle y mae cyfeiriad yn cael ei wneyd at gyfammod y freniniaeth a wnelsid â Dafydd, fel cynnrychiolwr ei hiliogaeth; ond nid at y cyfammod a wnelsid âg ef ei hunan. Gwel adn. 19—36, lle y cawn Dduw yn eglur yn cyfammodi â Christ; canys y mae'r adnodau hyn wedi eu llefaru mewn iaith rŷ rymus i feddu eu cymhwysiad yn gyflawn at gyfammod y freniniaeth a wnaed â Dafydd fel brenin Israel; yr hwn er hyny yn ddiau ydoedd yn gysgodol o'r un a wnaed â Christ. Gwel hefyd Heb. 8. 6. a Gal. 3. 16, 17.

2. Oddiwrth fod Crist yn cael ei alw *yr ail Adda.* Gwel 1 Cor. 15. 45, 47, lle y mae Adda a Christ yn cael eu cyferbynu yn eglur. Ni's gellir galw Crist *yr ail ddyn* mewn unrhyw ystyr arall heblaw fel pen cyfammodol ei had ysbrydol, megys yr oedd Adda i'w had naturiol.

3. Oddiwrth fod *Crist* a'i *had ysbrydol* yn cael eu galw wrth yr *un enwau.* Gelwir y naill a'r llall *Israel,* Esa. 49. 3; a Rhuf. 9. 6.—*Jacob,* Ps. 24. 6; Esa. 41. 14.—*Crist,* 1 Cor. 12. 12; Gal. 3. 16. Eph. 4. 13; a 5. 30.

4. Oddiwrth fod holl addewidion y cyfammod hwn wedi eu gwneyd i Grist, Gal. 3. 16, 17; Tit. 1. 2; 2 Tim. 1. 9.

5. Oddiwrth ei fod ef yn Fachniydd y cyfammod, Heb. 7. 22; 2 Cor. 5. 21.

6. Oddiwrth fod yr holl gyfammodau oeddynt gysgodol o'r cyfammod gras wedi eu gwneyd â rhieni, fel cynnrychiolwyr eu hiliogaeth, Gen. 9. 9; a 17. 7; 2 Sam. 7. 11, &c.

Yr oedd yn angenrheidiol i'r cyfammod yma gael ei wneyd â Christ fel cynnrychiolwr ei bobl ar y cyfrifon canlynol:—

1. Fel yr ymddangosai bod cariad Duw o'r dechreuad, sef o dragywyddoldeb; ac y gellid galw y cyfammod yn gyfammod tragywyddol.

2. Oblegyd pe na's gwnelsid y cyfammod yma â Crist, yr hwn sydd berson Dwyfol, fel cynnrychiolwr, ni's gallesid ei alw yn gyfammod gras, a chyfammod bywyd; ïe ni's gallesid ei wneyd o gwbl.

3. Fel y byddai yn gyfammod o berffaith rad, a goludog ras, Eph. 2. 7. Gyda golwg ar Grist ei hun yn ddiau, yr oedd yn gyfammod gweithredoedd hollol; hyny yw, yr oedd ammod i gael ei gyflawni ganddo ef, fel y caffai fywyd i'r rhai a gynnrychiolai; ond i bechaduriaid, cyfammod o ras trwyadl a goludog ydyw, Rhuf. 4. 4, 5.

4. Fel y byddai cyffelybrwydd rhwng y ffordd y daeth pechod a marwolaeth i'r byd, a'r ffordd yn yr hon y cyfrenid bywyd a chyfiawnder. Daeth pechod a marwolaeth trwy yr un dyn, ac am hyny rhaid i gyfiawnder a bywyd hefyd ddyfod trwy un dyn.

5. Fel y byddai addewidion y cyfammod yn sicr i'r holl etholedigion. Gwel Ps. 89. 2, 19, 22, &c.

Sylw 84.—*Y pleidiau yn y cyfammod gras ydynt Jehofah, ac Iesu Grist, ac ynddo ef bechaduriaid etholedig o ddynolryw.*

1. Y blaid yn y cyfammod o du y nefoedd yw *Jehofah*, i'w ystyried yn hanfodol, fel Tad, Mab, ac Ysbryd Glan,—yr hwn y mae yn rhaid i ni ei ystyried yn y cyfammod hwn fel *Barnwr wedi ei ddigio*, trwy bechod dyn; fel *Duw cariad*, yn bwriadu amlygu rhagorol olud ei ras a'i gariad yn mhrynedigaeth byd colledig o etholedigion; ac fel *Duw anfeidrol gyfiawn a sanctaidd*, yr hwn ni's gall achub y pechadur ond mewn ffordd a fawrhau ei gyfraith, a roddo iawn i'w gyfiawnder ac a amlygo ei sancteiddrwydd.

2. Y blaid yn y cyfammod o du dyn yw *yr Arglwydd Iesu Grist, Mab Duw;* yr hwn sydd i'w olygu yn y cyfammod fel un llawn tosturi, ac fel cynnrychiolwr a phen bywiol ei holl had ysbrydol. Yn y cyssylltiad â'r cyfammod hwn, rhaid i ni ei olygu hefyd, fel asgwrn o'n hasgwrn; fel un mewn cyfathrach agos â ni, wedi cymeryd ein natur, fel y gallai farw, a gorchfygu angau, ac adferu i ni ein rhagorfreintiau a'n bendithion blaenorol yn yr un natur ag a bechodd, ac fel offeiriad, yr hwn a'i hoffrymodd ei hun unwaith yn arogl peraidd i Dduw, heb frycheuyn na chrychni, Heb. 9. 14, 15.

3. Y blaid a gynnrychiolai Crist,—y rhai yr ymgyfammodai drostynt, a thros y rhai yr ymrwymai, ydynt *bechaduriaid o ddynolryw;* y rhai yn eu cyssylltiad â'r cyfammod hwn sydd raid eu golygu fel rhai colledig ynddynt eu hunain, trwy doriad y cyfammod cyntaf yn Adda, yr hwn a gynnrychiolai holl ddynolryw; fel rhai llwyr analluog i'w hadferu eu hunain o'u cyflwr colledig, neu dalu pridwerth i Dduw dros eu heneidiau er gogoneddiad ei briodoliaethau a sarhawyd, neu adferu anrhydedd ei ddeddf; fel rhai gwahaniaethedig oddiwrth y gweddill o ddynolryw trwy fwriad a gras penarglwyddiaethol

Duw: ac fel gwrthddrychau cariad gwaredol y Drindod dragywyddol.

Nad oedd Crist yn cynnrychioli *holl ddynolryw* yn y cyfammod hwn sydd amlwg, wrth ei waith yn cymeryd *had Abraham* yn unig, y rhai nid ydynt ond rhan o had *Adda* tad holl ddynolryw. Gwel Heb. 2. 16.

Er fod yr Adda cyntaf yn cynnrychioli *holl ddynolryw*, eto nid yw yn un ddiraddiad ar gynnrycholiad cyfammodol Crist, yr ail Adda, ei fod yn cynnrychioli *rhai o ddynolryw* yn unig; gan ei fod yn annrhaethol fwy peth i Grist ymgyfammodi dros *un pechadur*, nag ydoedd i Adda yn y dechreu ymgyfammodi dros *fyd cyfan o rai cyfiawn*. Gwel Rhuf. 9. 21.

Sylw 85.—*Ammod y cyfammod gras oedd cyfiawnder yr Arglwydd Iesu Grist.*

Ni's gallai dim ond y *cyfiawnder a wnaeth Iesu Grist*, trwy yr hyn y boddlonodd efe ofynion deddf doredig, gael ei alw gyda phriodoldeb manol yn ammod y cyfammod gras. Yr oedd cyfiawnder Crist, yr hwn oedd ammod y cyfammod hwn, yn gynnwysedig yn y pethau canlynol:—sancteiddrwydd natur, Heb. 7. 26; cyfiawnder buchedd, Esa. 53. 9; Ioan 8. 46; Luc 23. 4; Ioan 18. 38. a 19. 4, 6; ac iawn cyflawn i gyfiawnder am doriad y ddeddf trwy bechod dyn.

Mae cyfiawnder Crist yn unig yw priodol ammod y cyfammod gras, a welir trwy yr ystyriaethau canlynol:—

1. Ymrwymodd Crist i dalu, nid *rhan* yn unig, ond *yr oll* o ddyled yr etholedigion euog; yr hyn a ddengys na's gadawodd efe ddim i'w gyflawni ganddynt hwy fel rhan o'r ammod, ar yr hwn y mae bywyd tragywyddol i'w gael.

2. Ni's gall dim fod yn ammod y cyfammod hwn ond cyflawniad yr un ammod ag y torasid y cyfammod gweithredoedd trwy ddiffyg y cyflawniad o hono,—hyny yw, ufudd-dod perffaith, yr hwn ni's gallai neb ond Crist ei hunan ei roddi.

3. Yn yr Ysgrythyr ni a ganfyddwn fod cyfiawnder Crist wedi cyflawn atteb i holl ofynion deddf a chyfiawnder; gan hyny nid oes dim yn aros i'w gyflawni gan neb heblaw ef, fel ammod y cyfammod hwnw. Gwel Eph. 5. 2; Tit. 2. 14.

4. Mae yr Ysgrythyrau yn dangos yn eglur fod credinwyr yn seilio eu gobaith am fywyd tragywyddol ar gyfiawnder Crist, ac nid ar ddim arall, Eph. 1. 7; Phil. 3, 8, 9.

5. Ni's gellir yn ol priodol ystyr y gair, alw yr hyn ni's gallai atteb i ofynion cyfammod toredig, yn ammod; ond ni's gall ffydd, edifeirwch, cariad, ac ufudd-dod newydd, er eu bod yn anhebgorol angenrheidiol o'n tu ni, wneuthur hyny; gan hyny ni's gellir mewn un modd eu galw yn briodol, yn am-

safodd fel hyn yn yr adwy, fel y troid y llid heibio. 11. Bod Crist yn cael ei gynnyg yn rhydd yn yr efengyl, i bob dyn, pa fath bynag a fyddo ei nodweddiad. 12. Fod galwad ar bawb i chwilio eu hunain, pa ran sydd iddynt hwy yn y cyfammod rhagorol hwn; pa un a ddygwyd hwy o fewn ei rwymyn, neu, a ydynt hwy eto yn mhell oddiwrth gyfiawnder. 13. Mai dyledswydd pawb yw credu fod Iesu Grist yn Iachawdwr y byd, a'u Iachawdwr hwy yn neillduol trwy osodiad y Tad, a thrwy gynnygiad Crist o hono ei hun. 14. Os na bydd i ni gyfran achubol yn y cyfammod hwn, na's gallwn feddu gobaith tu draw i'r bedd; gan mai dyma yr unig feddyginiaeth i bechadur, a bod yr Ysgrythyrau yn cau pawb dan bechod. 15. Bod sancteiddrwydd yn angenrheidiol fel yr unig ffordd drwy yr hon y gallwn brofi ein rhan yn y cyfammod gras. 16. Y dylem yn wyneb ein holl angenion fyned at Grist ei hunan am bob peth angenrheidiol arnom; gan mai efe yw gweinyddwr y cyfammod, i'r hwn y mae pob peth wedi eu hymddiried. 17. Y bydd i bob peth gydweithio er daioni i'r rhai ydynt gyfrannog yn y cyfammod. 18. Dedwyddwch y credadyn, ac annedwyddwch yr anghredadyn, yr hwn sydd yn mhell o'r cyfammod gras.

## *Person a nodweddiad y Gwaredwr.*

HOL. 21. PWY YW GWAREDWR ETHOLEDIGION DUW?

Unig Waredwr etholedigion Duw yw yr Arglwydd Iesu Grist, yr hwn ag efe yn dragywyddol Fab Duw, a ddaeth yn ddyn, ac felly oedd, ac sydd yn parhau i fod, yn Dduw ac yn ddyn, mewn dwy natur wahaniaethol, ac un person tragywyddol.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai yr Arglwydd Iesu Grist yw Gwaredwr dynolryw. Gal. 4. 4, 5. "Duw a ddanfonodd ei Fab ei hun, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf, fel y prynai y rhai oedd dan y ddeddf." Gwel hefyd 1 Tim. 2. 5.

2. Mai Iesu Grist yw unig waredwr dyn. Act. 4. 12. "Nid oes iachawdwriaeth yn neb arall."

3. Bod Iesu Grist yn dragywyddol Fab Duw. Marc 16. 16. "Ti yw Crist, Mab y Duw byw." Gwel hefyd Heb. 1. 8.

4. Bod Iesu Grist wedi dyfod yn ddyn. Ioan 1. 14. "Y Gair a wnaethpwyd yn gnawd." Gwel hefyd Heb. 2. 16.

5. Bod Iesu Grist yn Dduw a dyn. 1 Tim. 3. 16. "Ac yn ddiddadl, mawr yw dirgelwch duwioldeb, Duw a ymddangosodd yn y cnawd." Gwel hefyd Rhuf. 9. 5.

6. Bod Iesu Grist yn feddiannol ar naturiaethau Duw a dyn mewn un person. Col. 2. 8. "Canys ynddo ef y mae holl gyflawnder y Duwdod yn preswylio yn gorphorol."

7. Y bydd i Iesu Grist barhau yn Dduw a dyn am byth. Heb. 7. 24. "Ond hwn, am ei fod ef yn aros yn dragywydd, sydd ag offeiriadaeth dragywyddol ganddo."

EGLURHAD.

Sylw 89.—*Yr Arglwydd Iesu Grist yw unig Waredwr etholedigion Duw.*

Gellir sylwi yma, ei fod ef yn cael ei alw yn *Arglwydd*, am ei fod fel Duw, y Goruchaf ar yr holl ddaear; ac, fel Cyfryngwr, fod pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear wedi ei rhoddi iddo, Matt. 28. 17;—ei fod yn cael ei alw *Iesu*, oblegyd ei fod yn gwaredu ei bobl oddiwrth eu pechodau, Matt. 1. 21; Luc 1. 31; Act. 4. 12;—ac efe a elwir *Crist*, am mai efe yw *Enneiniog* yr Arglwydd: gan fod *Crist* yn y Groeg, a *Messiah* yn yr Hebraeg, yn arwyddo yr un peth. sef *Enneiniog*, yr hyn a ddynoda ei neillduad, a'i gyflawn gymhwysiad i'w swydd gyfryngol, Ps. 45. 7; Esa 61. 1; Diar. 8. 32; Ps. 2. 7, 8.

Iesu Grist yw *Gwaredwr* etholedigion Duw. Mae yr enw hwn yn meddu cyfeiriad amlwg at *y rhai gwaredol;* ac o ganlyniad yn arwyddo rhwymedigaeth, caethgludiad, i bechod, Satan a'r byd, ac i angau ac uffern, oblegyd toriad y cyfammod cyntaf. Ac ar y cyfrif yma hefyd y'n gelwir "Y rhai a garcharwyd yn gyfiawn," Esa. 4. 9, 24. Mae *gwaredu* neu *brynu*, yn arwyddo *prynu yn ol* yr hyn oedd mewn caethiwed, yr hyn yw cyflwr holl ddynolryw wrth naturiaeth, Eph. 2. 1, &c. Fel y prynai Iesu Grist bechaduriaid colledig, neu y gwaredai hwy trwy awdurdod a buddugoliaeth o ddwylaw Satan a phob gelyn, yr oedd yn angenrheidiol iddo roddi iawn digonol i gyfiawnder Duw a gawsai ei sarhau: ac efe a roddes yr iawn hwn pan offrymodd efe ei hun yn aberth dros bechod; a mwy na hyn ni's gallesid ei ofyn fel y rhyddeid y rhai a garcharasid yn gyfiawn, ac y'u gwnelid megys pe na's bwriesid hwy ymaith, 1 Tim. 2. 5, 6; 1 Pedr 1. 18.

Dywedir mai Iesu Grist yw yr *unig* Waredwr, am nad oedd neb ond efe yn abl i ymgymeryd á gwaith mawr y prynedigaeth, Esa. 63. 5. Ni neillduodd Duw neb ond efe i'r gwaith; ni seliwyd neb ond efe gan y Tad; ni dderbyniodd neb arall awdurdod ganddo ef i roddi ei einioes i lawr dros y defaid; ni

ddatguddiwyd neb ond efe fel ein Prynwr; ac nid oedd neb ond efe yn gymhwys yn mhob ystyr i'r gwaith.

Sylw 90.—*Mae Iesu Grist yn dragywyddol Fab Duw.*

Nid ar gyfrif ei swydd y'i gelwir felly, fel y tybiai rhai, canys, a llafaru yn briodol, ni allasai ei swydd byth beri iddo gael ei alw yn *dragywyddol ac unig genedledig Fab Duw*; ond y mae efe yn dragywyddol Dduw *wrth natur*. Mae tragywyddol Faboliaeth Crist mor naturiol ac angenrheidiol, ag ydyw i'r person cyntaf gael ei alw *y Tad*. Ei fod yn cael ei wahaniaethu yn eglur oddiwrth ei swydd sydd amlwg oddiwrth Ioan 7. 29. "Myfi a'i hadwaen: oblegyd o hono ef yr ydwyf fi, ac efe a'm hanfonodd i;" lle y mae ei fod *o'r Tad*, gyda golwg ar ei dragywyddol genhedliad, yn cael ei wahaniaethu yn amlwg oddiwrth ei fod wedi ei anfon *ganddo* ef, gyda golwg ar ei swydd. Ond, y mae natur tragywyddol genhedliad y Mab yn hollol tu hwnt i'n gwybodaeth a'n dirnadaeth ni; canys felly y dywaid y prophwyd, "Pwy a draetha ei oes ef?" Esa. 53. 8. Gellir cymhwyso yr ymadrodd hwn, nid yn unig at rhif ei had; ond hefyd at ei dragywyddol genhedliad.

Sylw 91.—*Daeth Iesu Grist yn ddyn.*

Fel y byddai Iesu Grist yn Brynwr i ni, yr oedd yn angenrheidiol ei fod yn *ddyn*; neu, ei fod yn asgwrn o'n hasgwrn, a chnawd o'n cnawd ni, Ioan 1. 14; Gal. 4. 4. Ond ni ddylem feddwl ei fod wedi peidio a bod yn *Dduw* pan y daeth yn *ddyn*; efe a ddaeth yn *Emmanuel*, Duw gyda ni, Duw yn ein natur.

Yr oedd yn angenrheidiol i Grist fod yn Dduw ac yn ddyn mewn un person; oblegyd pe na buasai felly, ni allasai fod yn Brynwr.

1. Pe na buasai yn *Dduw*, ni allasai ymgynnal dan y llwyth o ddigofaint a haeddai pechod; ac ni allasai ei ddyoddefiadau, y rhai nid oeddynt ond dros amser, fod yn ddigonol iawn dros bechod.

2. Pe na buasai yn *ddyn*, ni allasai farw; ni allasai farw yn y natur a bechasai, yr hyn oedd anhebgorol angenrheidiol, gan fod y ddeddf yn dweyd, "Yr enaid a becho, hwnw a fydd marw;" ni allasai feddu cydymdeimlad a'n gwendidau ni, ac ni buasai i ni Eiriolwr yn ein natur ar ddeheulaw y Tad.

Sylw 92.—*Mae Iesu Grist yn Dduw a dyn mewn dwy natur wahaniaethol, ac un person.*

Dywedir fod Iesu Grist yn Dduw a dyn mewn *dwy natur wahaniaethol*, i ddangos nad yw y *natur Ddwyfol* trwy ei hun-

iad â'r natur ddynol wedi ei gwneyd yn *feidrol*, ac nad yw yn colli ei phriodoliaethau Dwyfol; ac i ddangos yr un modd nad yw y *natur ddynol* trwy ei huniad â'r Ddwyfol, yn feddiannol ar briodoliaethau Dwyfol, er ei fod fel y mae yn ddyn yn annrhaethol ragori ar ddyn yn unig.

Dywedir fod yr Arglwydd Iesu Grist yn Dduw a dyn mewn *un person*, i ddangos, er fod y ddwy natur yn wahaniaethol, ac yn meddiannu eu priodoliaethau gwahanol a hanfodol, nad ydynt yn wahanol ynddo ef, neu mewn geiriau eraill, nad oes ganddo ddau berson. Fod y ddwy natur yn unedig mewn un person sydd amlwg oddiwrth Esa. 9. 6. " *Bachgen a anwyd* i ni; a gelwir ei enw ef *y Duw cadarn*."

Yr oedd yn angenrheidiol i Brynwr etholedigion Duw, neu y Cyfryngwr, fod yn Dduw a dyn mewn un person, o herwydd y rhesymau canlynol:—

1. Fel y gallai gweithredoedd priodol pob natur fod yn gymmeradwy gan Dduw drosom ni, ac y gallem ninnau ymorwedd arnynt fel gweithredoedd y person, Duw yn y cnawd.

2. Fel y gallai fod yn Gyfryngwr priodol rhwng Duw a dyn; fel y byddai mewn agos berthynas at Dduw, ac yn gyfathrachwr i ninnau, Act. 20. 28; 1 Ioan 1. 7.

3. Fel y byddai i hawlion neu lesion pob plaid,—y Duw a ddigiwyd, a'r dyn a'i digiodd,—gael gofalu am danynt, ac fel y byddai i bob peth angenrheidiol er gwneuthur cymmod gael ei wneyd yn effeithiol.

4. Fel y byddai yn abl i gymhwyso yr iachawdwriaeth attom.

5. Mewn gair, fel, yn mha berthynas bynag â ni y'i golygir, y byddo ei ddynoliaeth yn ei wneuthur yn hyfryd, yn gymmaint a'i fod yn meddu cydymdeimlad â'n gwendidau ni; ac fel y byddai i'w Dduwdod ei wneuthur yn effeithiol o ran y bendithion a arddangosir yn mhob cyfryw berthynas.

Sylw 93.—*Fe barha Iesu Grist yn Dduw a dyn yn un person dros byth.*

Mae undeb y ddwy natur yn Nghrist yn annattodawl a thragywyddol; canys os parha yn Gyfryngwr yn dragywyddol, o'r hyn y'n sicrheir y gwna fel tragywyddol rwymyn undeb rhwng Duw a dyn, rhaid y ceidw ei ddynoliaeth yn ei berson *yn dragywydd*. Gwel Heb. 7. 25; Luc 1. 32, &c.; Phil. 3. 21, a 2. 9, &c.

Gellir sylwi yma, fod yr undeb sydd yn hanfodi rhwng Crist a chredinwyr, yr hwn sydd dra agos, ac undeb ei ddwy natur yn gwahaniaethu yn y peth canlynol:—Nid yw dwy natur Crist ond un person; tra am y credinwyr, er y dywedir

3. *Mab* Duw a gymerai y natur ddynol, wedi ei pharottoi a'i llunio fel hyn, i undeb personol âg ef ei hunan, Heb. 11. 14, &c.

Sylw 96.—*Ganed Iesu Grist o'r wyryf Fair.*

Gyda golwg ar ei natur ddynol, ganwyd Crist o'r *forwyn Fair*, yr hon oedd o had Abraham, ac o dylwyth Dafydd, yr hwn ar y pryd hyny ydoedd mewn cyflwr tra isel. Gwel ei achyddiaeth ddyblyg yn Matt. 1. a Luc 3. Gwel hefyd Esa. 1. 11; a 53. 2; a 7. 14, cymh. a Matt. 1. 18, &c.

Yr oedd yn angenrheidiol i Grist gael ei eni o *forwyn*, am y rhesymau canlynol:—Fel y ceffid natur ddynol Crist yn ei phurdeb cyntefig; fel y gellid ei chyflwyno i Dduw mor ddifrycheulyd ag ydoedd pan grëid dyn ar y dechreu; ac fel y byddai yn rhydd oddiwrth bechod gwreiddiol, yr hwn a gludir i holl had Adda trwy genhedliad naturiol.

Sylw 97.—*Ganwyd Iesu Grist heb bechod.*

Fel yr oedd genedigaeth Crist yn oruwch-naturiol, ac fel nad oedd efe yn fab i Adda trwy genhedliad naturiol, yr oedd efe yn mhob modd yn rhydd oddiwrth bob brycheuyn o lygredigaeth, yr hwn sydd anysgaredig oddiwrth ddyn pan ddelo i'r byd.

Yr oedd yn angenrheidiol i Grist gael ei eni heb bechod; oblegyd bod y natur ddynol yn unedig â pherson y Mab, trwy undeb annattodol, a hefyd am ei bod i fod yn aberth dros bechod, yr hyn ni allasai fod pe na buasai yn ddifeius a difrycheulyd.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Fawr gariad Duw a Christ yn ngwaith y prynedigaeth, cariad Duw yn rhoddi ei Fab, ac ymostyngiad Crist yn dyfod yn ddyn. 2. Yr unig ffordd trwy yr hon y gallwn gael ein gwaredu oddiwrth bechod gwreiddiol a gweithredol. 3. Y fath Waredwr addas yw Crist, yr hwn sydd yn meddu cydymdeimlad â'n gwendidau,—gan ei fod yn asgwrn o'n hasgwrn, a chnawd o'n cnawd. 4. Y calondid mawr sydd i bechaduriaid i ymafael yn Nghrist fel yr eiddynt; gan ei fod wedi ei wisgo yn y natur ddynol.

## *Swyddau y Prynwr.*

HOL. 23. PA SWYDDAU Y MAE CRIST YN WEINYDDU FEL EIN PRYNWR?

Mae Crist fel ein Prynwr yn gweinyddu y swyddau

o Brophwyd, Offeiriad, a Brenin, yn sefyllfa ei ddarostyngiad a'i ddyrchafiad.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod Iesu Grist fel ein Prynwr yn gweinyddu y swydd o Brophwyd. Act. 3. 22. "Yr Arglwydd eich Duw a gyfyd i chwi Brophwyd." Gwel hefyd Ioan 6. 14.

2. Bod Iesu Grist yn gweinyddu y swydd o Offeiriad. Heb. 5. 6. "Offeiriad wyt ti yn dragywydd yn ol urdd Melchisedec." Gwel hefyd Ps. 110. 4.

3. Bod Iesu Grist yn gweinyddu swydd Brenin. Ps. 2. 6. "Minnau a osodais fy Mrenin ar Sïon, fy mynydd sanctaidd." Gwel hefyd Matt. 21. 5.

4. Bod y swyddau hyn yn perthyn i'w sefyllfa o ddarostyngiad, ac i'w sefyllfa o ddyrchafiad.

### EGLURHAD.

Sylw 98.—*Mae Iesu Grist yn Brophwyd, Offeiriad, a Brenin ei bobl.*

Fel yr oedd Crist yn gweithredu rhan Cyfryngwr rhwng Duw a'i bobl yn wirioneddol; felly y mae efe yn wirioneddol yn gweithredu pob rhan o'r swydd deirplyg o Brophwyd, Offeiriad a Brenin. Mae y swyddau hyn yn cael eu priodoli yn eglur iddo yn yr Ysgrythyrau.

1. Ei fod yn *Brophwyd* sydd eglur oddiwrth y Brophwydoliaeth hygof hòno o eiddo Moses, a welir yn Deut. 18. 15—19. Cymharer hon âg Act. 3. 22, &c. Gwel hefyd Heb. 12. 25.

2. Ei fod yn *Offeiriad* sydd eglur oddiwrth Salm 110. 4, ac amryw ranau o'r Epistol at yr Hebreaid.

3. Ei fod yn *Frenin* sydd eglur oddiwrth Salm 2. 6, ac amryw ranau eraill o'r Ysgrythyr, lle y mae pob peth angenrheidiol i frenin yn cael eu priodoli iddo. Medda freniniaeth; pobl ewyllysgar fel ei ddeiliaid; gwialen haiarn, a theyrnwialen tangnefedd; cyfreithiau, wrth ba rai y llywodraethir ei deyrnas; gwobrwy yn cael ei roddi ganddo i'w bobl, a chosbedigaeth yn cael ei gweinyddu ar yr anufuddion.

Ni chymerodd Crist anrhydedd y swyddau hyn arno ei hunan; ond efe a alwyd, neu a osodwyd ynddynt megys Aaron, Heb. 5. 4, &c.; Esa. 61. 1.

Mae pob un o'r swyddau hyn yn golygu y cyfammod gras. Ei swydd *offeiriadol* a berthyna i ammod y cyfammod, neu y rhan hòno o hono a berthynai i'w aberth; a'i swydd *broph-*

*wydol* a *breninol*, yn nghyd a'r rhan *eiriolaethol* o'i swydd offeiriadol, a berthynent i weinyddiad y cyfammod.

Mae pob un o honynt hefyd yn dwyn perthynas â'n trueni ni. Ei swydd *brophwydol* sydd yn golygu ein hanwybodaeth, a dallineb ein meddyliau; ei swydd *offeiriadol* sydd yn golygu ein heuogrwydd a'n perygl; a'i swydd *freninol* sydd yn golygu ein halogiad trwy bechod, a'n gwaredigaeth o'i afael.

Mae Crist yn gweini yr holl swyddau hyn gyda golwg ar ei bobl; yr hyn sydd eglur oddiwrth 1 Cor. 1. 30. "Eithr yr ydych chwi o hono ef yn Nghrist Iesu, yr hwn a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth." Fel *Prophwyd* efe a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn *ddoethineb;* fel *Offeiriad*, efe a wnaed i ni gan Dduw yn *gyfiawnder;* ac fel *Brenin* efe a wnaethpwyd i ni gan Dduw yn *sancteiddrwydd;* a phan y mae yn cyflawni yr *holl* swyddau hyn, gyda golwg arnom, gellir dywedyd ei fod wedi ei wneuthur i ni yn *brynedigaeth.*

Y *drefn* yn mha un y mae Crist yn gweinyddu y swyddau hyn, gyda golwg ar ei bobl, yw a ganlyn:—Rhaid i'w swydd *brophwydol* flaenori ei swydd *offeiriadol*, a'i swydd *offeiriadol* flaenori ei swydd *freninol.* Rhaid iddo yn gyntaf oleuo y meddwl cyn cymhwyso ei gyfiawnder at yr enaid; a chyn y gellir gwneyd yr enaid yn ewyllysgar, rhaid ei ddonio â'i gyfiawnder Ef. Gwel Job 33. 23, &c. Ond gyda golwg ar drefn *naturiol* y swyddau hyn, y swydd *offeiriadol* sydd yn sefyll flaenaf; ac yr ydym yn cyfarfod â'r drefn hóno yn Salm 22, lle y dywedir yn gyntaf ei fod wedi pwrcasu iachawdwriaeth; yna, dywedir ei fod yn ei mynegi; ac yn olaf, dywedir ei fod yn meddiannu terynas, ac yn llywodraethu ei ddeiliaid. Gwel Salm 22. 1—21, 22—26, a 27—31.

Bod yn angenrheidiol i Grist ymgymeryd â chyflawni y swydd deirplyg o Brophwyd, Offeiriad, a Brenin, a welir yn amlwg wrth ystyried y pethau canlynol:—

1. Trueni triphlyg dyn wrth natur: anwybodaeth, euogrwydd, a chaethiwed.

2. Natur yr iachawdwriaeth. Mae angenrheidrwydd am Grist fel Prophwyd i ddatguddio ffordd iachawdwriaeth, ac i'w dal allan yn yr efengyl dragywyddol; fel Offeiriad i bwrcasu iachawdwriaeth; ac fel Brenin i gyfranu a chymhwyso drwy ei Ysbryd y prynedigaeth a bwrcasodd, Heb. 2. 3, a 9. 12; Ps. 110. 2, 3.

3. Ein sefyllfa yn y byd hwn. Mae pobl Dduw yn sefyll mewn angen amrywiol bethau: ond, pan edrychont i fynu at Grist, ac yr ystyriont y cyfiawnder sydd ynddo ef, a'r hwn yn ei swydd deirplyg y mae efe yn ei gyfranu iddynt, ni's gall hyny lai na'u calonogi, a'u cynal wrth raid.

Gellid sylwi yma, fod dan oruchwyliaeth yr Hen Destament amryw gysgodau o Grist yn ei swydd deirplyg. Megys Moses, Samuel, Elias, Eliseus, Daniel, &c., a'u cysgodent ef fel Prophwyd: Melchisedec cyn y gyfraith, ac Aaron a'i feibion dan yr oruchwyliaeth Iuddewig, a'i cysgodent ef fel Offeiriad; a Dafydd a'i hiliogaeth a'i cysgodent ef fel Brenin. Ond ni chafodd un o'r rhai hyn ei enneinio i'r holl swyddau hyn, i weithredu yn osodedig ynddynt. Melchisedec ydoedd frenin ac offeiriad; ond nid oedd efe yn brophwyd; Dafydd oedd frenin a phrophwyd; ond nid oedd yntau yn offeiriad; a Moses a Samuel oeddynt brophwydi a llywodraethwyr gwladol, ond ni buont hwy erioed yn gweithredu fel offeiriad gosodedig; ond cyflawnent y swydd hon ar achlysuron neillduol yn unig, Ps. 99. 6.

Sylw 99.—*Gweinyddai Iesu Grist ei swyddi o Brophwyd, Offeiriad, a Brenin, yn sefyllfa ei ddarostyngiad; ac y mae yn eu gweinyddu yn awr yn sefyllfa ei ddyrchafiad.*

Er nad oedd Iesu Grist yn adnabyddus yn ei amryfal swyddau a'i berthynasau â'i bobl dan oruchwyliaeth yr Hen Destament; eto ni's gweinyddai hwy mewn modd neillduol a chyflawn, hyd oni chymerodd ein natur ni. Er pan ymgnawdolodd, efe a'u gweinyddodd, ac y mae yn eu gweinyddu, yn sefyllfa ei *ddarostyngiad* a'i *ddyrchafiad.*

1. Yn sefyllfa ei *ddarostyngiad,* efe a weinyddai ei swydd brophwydoliaethol trwy ddysgu y bobl bob amser, fel un ag awdurdod ganddo; ei swydd offeiriadol trwy ei offrymu ei hun yn aberth dros bechod; a'i swydd freninol, trwy waredu ei bobl oddiwrth lawer o elynion: ond, yr oedd ei ogoniant yn y cymeriad yma dan len i raddau mawr yn sefyllfa ei ddarostyngiad. Gwel Ioan 3. 2; Matt. 2. 2; a 21 5; Ioan 12. 15. Ond, ni's cyflawnai efe y swyddau hyn yn eu holl ehangder yn sefyllfa ei ddarostyngiad, hyd oni osodid ef ynddynt yn arbenig ar ei fedydd.

2. Y mae yn sefyllfa ei *ddyrchafiad,* yn awr yn gweinyddu swydd Prophwyd, trwy ddatguddio ffordd iachawdwriaeth trwy ei air a'i Ysbryd; swydd Offeiriad trwy eiriol gyda Duw dros ei bobl; a swydd Brenin, trwy ddarostwng ei bobl iddo ei hun, a thrwy orchfygu ei holl elynion ysbrydol ei hunan a'r eiddynt hwythau, Heb. 7. 25.

Sylw 100.—*Rhaid derbyn Iesu Grist drwy ffydd yn ei holl swyddau.*

Ni's gellir ysgaru swyddau Crist os gwna efe ei hunan yn adnabyddus gadwedigol i'r enaid. Ni's amlyga efe ei hunan

i neb fel eu Prophwyd, a heb ei amlygu ei hunan fel eu Hoffeiriad a'u Brenin: ac ni's rhydd ei hun dros neb heb eu gwneyd yn ddoeth i iachawdwriaeth dragywyddol.

Y mae ffydd y credadyn yn gorphwys yn neillduol ar swydd *offeiriadol* Iesu Grist am *gyfiawnhad* ger bron Duw. "Crist yw diwedd y ddeddf er cyfiawnder i bob un sydd yn credu." Rhuf. 10. 4.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Gyfaddasrwydd Crist fel Cyfryngwr i'w bobl. 2. Dïogelwch y rhai oll a ymddiriedant ynddo ef. 3. Y calondid mawr sydd i bawb i hòni perthynas â Christ, gan fod ei holl swyddau ef yn perthynu i ni. 4. Ein nodweddiad ein hunain, ac mor ddigymhorth y rhaid ein bod hebddo ef. 5. Yr angenrheidrwydd am Grist fel Pryniawdwr cyflawn, ac o'i gymeryd ef yn ei holl swyddau, gan na's gellir eu hysgaru.

## *Swyddau y Gwaredwr.—1. Y swydd Brophwydol.*

### HOL. 24. PA FODD Y MAE CRIST YN GWEINYDDU EI SWYDD FEL PROPHWYD.

Y mae Crist yn gweinyddu ei swydd fel Prophwyd trwy ddatguddio i ni ewyllys Duw er ein iachawdwriaeth trwy ei air a'i Ysbryd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Crist fel Prophwyd yn datguddio ewyllys Duw i ni. Ioan 15. 15. "Pob peth ar a glywais gan fy Nhad a hysbysais i chwi." Gwel hefyd Ioan 1. 18.

2. Bod Crist yn datguddio ewyllys Duw trwy ei air a'i Ysbryd. Hos. 8. 12. "Mi a ysgrifenais iddo bethau mawrion fy nghyfraith." 2 Cor. 5. 19. "Sef bod Duw wedi gosod ynom ni air y cymmod." Ioan 14. 26. "Eithr y Dyddanydd, yr Ysbryd Glan, yr hwn a enfyn y Tad yn fy enw i, efe a ddysg i chwi yr holl bethau."

3. Mai dyben Crist wrth ddatguddio ewyllys Duw i ddynion yw eu hiachawdwriaeth dragywyddol. Ioan 20. 31. "Y pethau hyn a ysgrifenwyd fel y credoch chwi mai yr Iesu yw Crist, Mab Duw; a chan gredu, y caffoch fywyd yn ei enw ef."

### EGLURHAD.

Sylw 101.—*Mae Iesu Grist fel Prophwyd yn datguddio ewyllys Duw i ddynion.*

*Prophwyd* yw un, nid yn unig a ragfynega bethau dyfodol; ond hefyd a ddysg ewyllys Duw.

Gelwir Crist yn *Brophwyd*, nid yn unig am iddo ragfynegi llawer o bethau pan oedd yma yn y byd, y rhai a gyflawnwyd wedi hyny yn llawn: ond hefyd am ei fod yn hysbysu ewyllys Duw i bechaduriaid er eu hiachawdwriaeth. Am ba achos, mewn cyssylltiad â'r swydd hon, efe a elwir yn *Apostol*, Heb. 3. 1, am mai efe yw Cenhadwr mawr y nef, a anfonwyd i fynegi ewyllys Duw i ddynion;—*Angel*, neu *Genad y cyfammod*, Mal. 3. 1, am ei fod wedi hysbysu holl ewyllys Duw mewn perthynas i'r cyfammod tragywyddol er iachawdwriaeth; *Y tyst ffyddlawn a chywir*, Esa 55. 4; a Dat. 3. 14, am na's gall gyfeiliorni yn natguddiad ewyllys Duw;—ac fel *Lladmerydd*, Job 33. 23, am na's gallwn ni ddeall mawrion bethau Duw oddieithr iddo ef eu datguddio i ni.

Wrth *ewyllys Duw*, yr hwn a ddatguddir gan Grist, yr ydym i ddeall yr hyn oll sydd angenrheidiol i'w wybod, i'w gredu, ac i'w wneuthur er iachawdwriaeth, a dyddanwch, ac adeiladaeth meibion dynion.

Sylw 102.—*Mae Iesu Grist yn gwneyd y datguddiad yma o ewyllys Duw trwy ei Air a'i Ysbryd.*

1. Y mae efe yn datguddio ewyllys Duw i'w bobl trwy ei *Air*. O ddechreuad y byd hyd ei ymgnawdoliad, efe a'i hamlygai ei hun trwy leisiau, gweledigaethau, breuddwydion, ac amryfal ymddangosiadau, y rhai oeddynt oll yn gyfaddas i'r eglwys yn yr ystad yr oedd ynddi ar y ddaear y pryd hyny; ond yn awr, pan y mae y Gyfrol Ysbrydoledig wedi ei pherffeithio, y mae yn ei ddatguddio ei hun trwy bregethiad y Gair, yr hyn sydd wedi parhau er amser ei ymgnawdoliaeth, ac a bery hyd ddiwedd y byd, fel yr unig ffordd trwy yr hon y gwneir ei ewyllys yn adnabyddus er ein iachawdwriaeth.

2. Y mae yn datguddio ewyllys Duw i'w bobl trwy ei *Ysbryd*. Heb hyn, ni lesäai ei Air, er ei fod yn llymach nag un cleddyf dau finiog. *Trwy Dduw* yn unig y mae y Gair yn nerthol i fwrw cestyll i lawr, a phob uchder sydd yn ymgodi yn erbyn gwybodaeth o Dduw, 2 Cor. 10. 4, 5,; Luc 24. 45; 1 Cor. 2. 14; Ioan 16. 13, &c.

Sylw 103.—*Mae Iesu Grist yn datguddio ewyllys Duw er iachawdwriaeth ei bobl.*

Y dyben a'r amcan mawr sydd gan Grist mewn golwg wrth

ddatguddio ewyllys Duw i'w bobl, ydyw, fel y'u gwneler hwy *yn ddoeth i iachawdwriaeth dragywyddol.* Gwel Ioan 20. 31.

CASGLIAAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd am Air Duw. 2. Yr angenrheidrwydd am yr Ysbryd i'n galluogi i'w ddeall. 3. Yr angenrheidrwydd i ddysgwyl yn moddion addysg, y rhai a drefnodd Duw yn ei eglwys. 4. Na raid i neb fod yn anwybodus, sydd yn cael cynnygiad Crist i'w tywys i bob gwirionedd. 5. Yr angenrheidrwydd o iawn ddefnyddio ein rhagorfreintiau. Gwel Luc 12. 78. 6. Yr angenrheidrwydd o'n holi ein hunain yn ngylch ein gwybodaeth.

## 2. *Y swydd Offeiriadol.*

HOL. 25. PA FODD Y MAE CRIST YN GWEINYDDU SWYDD OFFEIRIAD?

Y mae Crist yn gweini swydd Offeiriad trwy ei offrymu ei hun unwaith er dyhuddo cyfiawnder Dwyfol, a'n cymmodi ni â Duw; a thrwy eiriol yn wastadol drosom ni.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod Crist fel Offeiriad wedi ei offrymu ei hun yn aberth i Dduw. Heb. 9. 26. "Yn niwedd y byd yr ymddangosodd efe i ddileu pechod trwy ei aberthu ei hun."

2. Mai unwaith y darfu i Grist fel Offeiriad ei offrymu ei hun yn aberth. Heb. 9. 28. "Crist wedi ei offrymu unwaith i ddwyn ymaith bechodau llawer." Gwel hefyd Heb. 7. 27.

3. Bod Crist wedi ei offrymu ei hun i ddyhuddo cyfiawnder Dwyfol dros ein pechodau, 1 Ioan 2. 2. "Efe yw yr iawn dros ein pechodau ni." Gwel hefyd Eph. 5. 2.

4. Bod Crist wedi offrymu ei hun er ein cymmodi ni â Duw. Heb. 2. 17. "Am ba achos y dylai efe yn mhob peth fod yn gyffelyb i'w frodyr: fel y byddai drugarog, ac Archoffeiriad ffyddlon, mewn pethau yn perthyn i Dduw, i wneuthur cymmod dros bechodau y bobl." Gwel hefyd Eph. 2. 16.

5. Bod Crist fel ein Hoffeiriad yn eiriol yn wastadol drosom ni. Heb. 7. 25. "Gan ei fod ef yn byw bob amser i eirol drostynt hwy."

Sylw 104.—*Mae Iesu Grist yn Offeiriad, a'r unig Offeiriad a all dynu ymaith bechod ger bron Duw.*

*Offeiriad* yw un a ymwna fel person cyhoeddus â Duw, yn

enw ac ar ran yr euog, a'r hwn a'u cymmoda â Duw trwy aberth, a offryma efe i fynu iddo, a'r hwn sydd raid ei fod yn ddigonol i dynu ymaith bechod.

Yr oedd Iesu Grist wedi ei osod o dragywyddoldeb yn arfaeth Duw fel *Archoffeiriad* i'w bobl, a hefyd fel aberth dros bechod; ond nid ymgymerodd yn weithredol â'r swydd offeiriadol yn ei berson ei hun, hyd onid ymgnawdolodd, ac y'i cymhwysid i offrymu aberth rhinweddol er tynu ymaith bechod.

Yr oedd llawer o gysgodau o Grist yn ei swydd offeiriadol dan oruchwyliaeth yr Hen Destament. Yr oedd pob offeiriad dan y gyfraith yn gysgod o hono ef; a chyn sefydliad priodol yr Eglwys Iuddewig, yr oedd Melchisedec yn gysgod nodedig o hono ef yn nhragywyddoldeb ei offeiriadaeth, Heb. 10. 11, &c., a 6. 20; a 7. 17.

Bod Crist mewn *gwirionedd* yn Offeiriad, a'r *unig* Offeiriad a all dynu ymaith bechod ger bron Duw, a ymddengys yn amlwg, os ystyriwn ni y pethau hyny, yn y rhai y rhagorai Crist a'i offeiriadaeth ar offeiriadaeth Aaron:—

1. Rhagorai Crist ar yr offeiriad o urdd Aaron yn ei *berson.* Dynion yn unig oeddynt hwy; ond y mae efe yn Fab Duw, y gwir Dduw, a'r bywyd tragywyddol. Yr oeddynt hwy yn bechaduriaid, gan eu bod yn deillio o Adda, trwy genhedliad naturiol; ond sanctaidd a difrycheulyd Oen Duw ydyw efe. Gan eu bod hwy yn ddynion pechadurus, yr oedd yn angenrheidiol iddynt hwy offrymu dros eu pechodau eu hunain, cyn y gallent offrymu aberth cysgodol dros bechodau y bobl; ond nid oedd raid i Grist offrymu drosto ei hun cyn gwneyd cymmod dros eraill, gan nad oedd ganddo ef bechod i wneyd iawn drosto. Hwynt hwy, gan eu bod yn farwol, a olynent y naill y llall; ond Crist sydd yn aros yn Offeiriad yn dragywyddol, gan ei fod yn Offeiriad yn ol urdd Melchisedec, Heb. 7. 3, 23, 24, 27.

2. Mae y *dull* yn mha un y gosodwyd Crist yn ei swydd yn rhagori ar yr eiddo urdd Aaron;—"Canys y rhai hyny yn wir ydynt wedi ei gwneuthur yn offeiriad heb lw: ond hwn trwy lw, gan yr Hwn a ddywedodd wrtho, Tyngodd yr Arglwydd ac ni bydd edifar ganddo, Ti sydd Offeiriad yn dragywydd, yn ol urdd Mechisedec." Heb, 7. 21, ac adn. 15—17.

3. Rhagorai Crist ar yr offeiriadaeth Lefiticaidd yn *mherffeithrwydd* ac *effeithiolrwydd* ei aberth, Heb. 10. 4; a 9. 14; a 10. 11, 12.

4. Rhagorai Crist ar yr offeiriad cysgodol yn hyn, sef mai un aberth yn unig a offrymodd efe; tra y gorchymynid i'r hen offeiriad gynt offrymu lluaws o aberthau ar bob achlysur o'r bron, Heb. 9. 25, &c., a 10. 1—14.

5. Amgylchiad arall a ddengys ragoriaeth offeiriadaeth Crist ar yr eiddo Lefi, yw yr hyn a grybwyllir yn Heb. 9. 24. —"Canys nid i'r cyssegr o waith llaw, portreiad y gwir gyssegr, yr aeth Crist i mewn; ond i'r nef ei hun, i ymddangos yn awr ger bron Duw trosom ni." Gan hyny, o gymmaint ag y mae y nefoedd, teml Dduw, yn rhagori ar y deml Iuddewig, y rhagora Crist, Offeiriad y naill ar offeiriad y llall.

6. Nid oedd yr Archoffeiriad Iuddewig, a'u teml, a'u hebyrth, ond cysgodau o'r Hwn oedd i ddyfod, i dynu ymaith bechod drwy ei aberthu ei hun, Heb. 10. 1.

Sylw 105.—*Offrymodd Iesu Grist ei hun yn aberth i Dduw.*

Yr aberth a offrymodd Crist, a'r hwn a ordeiniodd ac a barottodd Duw, oedd *ei hunan*—ei natur ddynol ei hunan—gwir gorph, ac enaid rhesymol, Heb. 10. 5, a 9. 26; 1 Pedr 2. 24; Esa. 53. 10.

Yr *allor* ar yr hon yr offrymid aberth Crist, a thrwy yr hon y'i sancteiddid, fel yr attebai i ofynion uchel cyfiawnder, a deddf droseddedig, oedd y *natur Ddwyfol*. A hyn a roddai anfeidrol werth ac effeithiolrwydd yn y rhodd, oblegyd undeb anysgaredig y ddwy natur. Am hyny y gelwir gwaed Crist yn *waed Duw*; ac y gelwir yntau ei hunan *Arglwydd y gogoniant*, hyd yn nod pan oedd ar y groes.

Yr *Offeiriad* ar yr achlysur yma oedd person Crist, fel Duwddyn; canys yn gymmaint ag mai efe oedd yr allor a'r aberth, ni's gallasai neb ond ei hunan weinyddu fel offeiriad, Heb. 5. 4; a 3. 1; a 7. 26.

Yr hwn yr offrymai Crist ei hunan iddo oedd *Duw*, Heb. 9. 14. Yr oedd hyn yn angenrheidiol, oblegyd mai y blaid a ddigiasid oedd Duw; a gofynion ei gyfiawnder a'i ddeddf sanctaidd ef oedd raid eu cyflawn foddloni.

Yr oedd Iesu Grist yn aberth, nid yn unig tra yn hongiaw ar y groes. Yr oedd wedi ei fwriadu yn aberth o dragywyddoldeb; a phan yr ymgnawdolodd efe a ddodid ar yr allor, ac a arhosodd arni dros holl yspaid ei gyflwr o ddarostyngiad, a pherffeithid ei offrymiad pan y'i croeshoelid yn weithredol, a thra y gorweddai yn y bedd.

Sylw 106.—*Unwaith yr offrymodd Iesu Grist ei hun yn aberth.*

Gan fod yr abethau Iuddewig yn anmherffaith, yr oeddynt yn cael eu mynychu,—hyny yw, yr oedd lluaws o aberthau yn cael eu hoffrymu ar amrywiol achlysuron; ond, gan fod aberth Crist yn berffaith yn mhob ystyr, nid offrymid ef ond *unwaith*. Heb. 9. 28, a 10. 14. Heblaw hyny, marw *unwaith*

oedd cosbedigaeth y ddeddf, ac o ganlyniad, yr oedd *dyoddef hyd angau unwaith*, yn cyflawn atteb i'r gosbedigaeth, a hyny ar gyfrif anfeidrol urddas y dyoddefydd.

Sylw 107.—*Dros yr etholedigion yn unig yr offrymodd Iesu Grist ei hunan yn aberth.*

Er fod iawn Crist o ran gwiwdeb hanfodol, ac fel ufudd-dod a marwolaeth person Dwyfol, wedi ei gyfodi gan Duw, yn ddigonol er prynedigaeth holl ddynolryw, ac er fod y pridwerth hwnw yn gyfaddas i angenion pawb, gan ei fod wedi marw yn y natur ddynol,—eto, gan mai dros yr etholedigion yn unig y gwelsai efe yn dda fachnïo, drostynt hwy yn unig y bu efe farw; canys yn ddiau ni buasai yn dyfod yn Fachnïydd dros rai, a'u gadael yn eu pechodau wedi'n, heb eu gwaredu.

Mai dros yr etholedigion yn unig, ac nid dros holl ddynolryw y bu Crist farw, a ellir ei brofi oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Oddiwrth yr *enwau* a roddir arnynt yn yr Ysgrythyrau. Fe'u gelwir, *y rhai a roddes y Tad i Grist*, Ioan 17. 6;—*Etholedigion Duw*, Rhuf. 1. 33;—*Eglwys Dduw, a chorph Crist*, Act. 20. 28; Eph. 5. 2;—*Defaid Crist*, Ioan 10. 15, 16, 27, &c.;—*Cyfeillion Crist*, Ioan 15. 13;—*Plant Crist*, Ioan 17. 2, 9.

2. Oddiwrth fod *iawn* ac *eiriolaeth* Crist, yn hollol yr *un faint*; y naill heb gynnwys mwy na'r llall. Ond, y mae efe ei hunan yn tystiolaethu yn benderfynol, nad yw yn eiriol dros yr holl fyd o ddynolryw, ond dros yr etholedigion yn unig, sef y rhai a roddwyd iddo: ac ni chaniatta synwyr cyffredin i ddywedyd y buasai yn rhoddi ei einioes i lawr dros neb nad eiriolai drostynt.

3. Os bu Crist farw dros bob dyn, yna rhaid i'r canlyniadau hyn gymeryd lle:—Ei fod wedi tywallt ei waed yn ofer, oni achubir pawb; ac felly ei fod wedi colli ei ddyben yn mhrynedigaeth pechaduriaid:—Ei fod yn ddiffygiol o allu i ddwyn ei gynllun o iachawdwriaeth i weithrediad, mewn gwrthwynebiad i dueddiadau llygredig dynion; ac o ganlyniad, fod dyn yn gryfach na Duw:—Bod gwaed Crist wedi ei dywallt dros filiwnau o had Adda, y rhai, ar y fynyd yr offrymai ei hun yn aberth dros bechod, oeddynt yn uffern, a thu hwnt i bob gobaith am drugaredd faddeuol oddiwrth Dduw:—Ei fod wedi marw dros y rhai y gwaharddai i'w efengyl gael ei phregethu iddynt, a'r rhai y gwaharddai i'w apostolion eu galw i ffydd ac edifeirwch; y rhai felly a gedwir heb obaith gwaredigaeth, Matt. 10. 5; Act. 4. 12;—Ac nad yw efe ond Gwaredwr tra anmherffaith, aberth yr hwn ni's medd deilyngdod

digonol i dynu ymaith bechod. Hòni y cyfryw bethau a fyddai yn gabledd a ffolineb i'r eithaf.

Sylw 108.—*Offrymodd Iesu Grist ei hun er iawn (neu foddlonrwydd) i gyfiawnder Dwyfol dros bechodau ei bobl.*

Dyma un o'r dybenion oedd gan Grist mewn golwg wrth ei offrymu ei hun yn aberth,—sef, *boddloni cyfiawnder Dwyfol.*

Bod Crist wedi *boddloni* deddf a chyfiawnder Duw dros bechodau ei bobl yn wirioneddol a phriodol, a brofir trwy y pethau canlynol:

1. Ei fod yn cael ei ddarlunio yn yr Ysgrythyrau fel machnïydd ei bobl, dan gyfrifiad o'u pechodau yn wyneb y gyfraith, ac yn eu dwyn yn ngŵydd Duw, a'u cosbedigaeth hefyd oddiwrth Dduw, Heb. 7. 22. Esa. 53. 5, 10; ac fel un yn prynu ei bobl trwy y pridwerth o'i ufudd-dod a'i ddyoddefiadau, Gal. 3. 13.

2. Yr effeithiau a briodolir i ufudd-dod ac angau Crist, sef, prynu dynion, a thynu ymaith bechod, Act. 20. 28. Heb. 1. 3.

3. Oddiwrth ei fod heb roddi i fynu yr ysbryd, hyd oni allai ddywedyd fod y gwaith a'r llafur cariad a roddasai ei Dad iddo i'w wneuthur, wedi ei *orphen*, Ioan 17. 4, a 19. 30.

4. Ei adgyfodiad oddiwrth y meirw, a'i esgyniad i'r nefoedd; yr hyn sydd yn profi yn eglur ei fod wedi cyflawn dalu y ddyled a gymmerasai arno ei hun, a bod y Tad wedi ei foddloni er mwyn ei gyfiawnder.

Mae *effeithiolrwydd* aberth Crist, a'i berffaith *gymeradwyaeth* ger bron Duw, yn deillio o'r pethau hyn,—dewisiad Duw o hono, urddas a sancteiddrwydd ei berson, perffeithrwydd ei iawn, a'i gyfattebolrwydd yn mhob peth â meddwl ac ewyllys yr hwn a'i hanfonodd.

Sylw 109.—*Offrymodd Iesu Grist ei hunan yn aberth er cymmodi pechaduriaid â Duw.*

Dyma y dyben arall oedd gan Grist mewn golwg yn ei offrymu ei hun yn aberth,—sef, *cymmodi pechaduriaid* â *Duw.*

Wrth *gymmodi* yr ydym i ddeall, dwyn yn nghyd y rhai oeddynt unwaith mewn cyflwr o elyniaeth. Trwy *Iesu Grist* yn unig y gellir gwneyd cymmod rhwng Duw a ddigwyd, a'r dyn a'i digiodd, Eph. 2. 15, &c. Rhuf. 5. 10. Col. 1. 21.

Bydd hyn yn eglur os ystyriwn y pethau canlynol:—Na's gallasai neb gyflawni hyn ond Crist ei hunan, yr hwn oedd yn meddu pob cymhwysder i'r gwaith mawr hwn; na's appwyntiwyd neb arall iddo ond efe; ac na chymeradwywyd neb arall gan Dduw, Esa. 11. 2, &c. Act. 4. 12.

Sylw 110.—*Mae Iesu Grist fel Offeiriad yn eiriol yn barhaus dros ei bobl.*

Dyma yr ail ran o swydd offeiriadol Crist,—sef *ei eiriolaeth barhaus yn y nef.*

Mae y ddwy ran o swydd offeiriadol Crist, sef, ei aberth, a'i eiriolaeth, yn y fath gyssylltiad, fel na's gellir eu hysgaru. Yr oedd ai aberth ar y ddaear mor ehang ag yw ei eiriolaeth yn y nef, ac y mae ei eiriolaeth mor ëang a'i aberth.

Nid yw Duwdod y Mab yn annghysson a'i eiriolaeth; canys pe felly, buasai yn annghysson á gweinyddiad y rhan arall o'i swydd offeiriadol, sef ei offrymiad o hono ei hun yn aberth dros bechod. Rhaid cadw hyny mewn côf yn wastadol, mai yn ei natur ddynol y dywedir ei fod yn ymddangos ger bron Duw drosom ni; ac yn ei berson cyflawn y mae efe yn parhau i eiriol drosom ni.

Y rhai y mae Crist yn eiriol drostynt ydynt ei bobl; a'i weddi ar ei rhan yw ar fod eu dedwyddwch yn berffaith. Efe a eiriolai dros ei bobl pan ydoedd yma ar y ddaear hefyd, ac hyd yn nod y pryd hyny, yr oedd efe yn Arch-offeiriad a ffynai gyda Duw, Heb. 5. 7. Yn yr ail bennod ar bymtheg o'r Efengyl gan Ioan, nyni a gawn ddarluniad cyflawn o'r rhan yma o'i swydd, yr hon a gyflawnasai tra ar y ddaear; a gallwn feddwl mai cyffelyb yw ei iaith yn awr, pan y mae wedi ei ddyrchafu ar ddeheulaw ei Dad.

Gallwn olygu eiriolaeth Crist yn y nefoedd yn gynnwysedig yn y pethau canlynol;—

1. Yn ei gyflwyniad o hono ei hunan ger bron Duw mewn natur ddynol, ac yn nheilyngdod ei aberth fel sail dadl am gyfrannu i'w bobl bob bendithion angenrheidiol, yn ol y cyfammod gras, Heb. 9. 24.

2. Yn ei waith yn hysbysu *ei ewyllys* i'w Dad, fel y cymhwyser bendithion ei brynedigaeth at ei bobl, yn ol eu hangen, ac yn ol y cyfammod newydd. Ioan 17. 24. Luc 22. 31, 32.

3. Ei waith yn atteb i'r holl achwyniadau a gyfodir yn erbyn ei bobl, gan Satan, y gyfraith, y byd, a chan y gydwybod, gan wrthbrofi pob sail cam achwyniad, a dadleu am faddeuant o bob peth a roddir yn eu herbyn yn gyfiawn, ar sail ei iawn perffaith ei hunan. Gwel Zech. 3. 1, 2; Rhuf. 1. 33. 34.

4. Yn ei waith, yn cyflwyno i Dduw holl addoliad a gwasanaeth ei bobl, yr hwn a gyflawnir mewn ffydd, gan ei wneuthur yn gymeradwy yn ei gyfiawnder ei hun. Darlunir hyn yn brydferth yn Dat. 8. 3, 4. Gwel hefyd 1 Pedr 2. 5; Lef. 16. 12, &c.

Mae eiriolaeth Crist yn y nef yn anhebgorol angenrheidiol; yr hyn a ymddengys oddiwrth y pethau canlynol,—

1. Oddiwrth ystyriaeth o *gyhuddiadau Satan*, Dat. 12. 10; Zech. 3. 1.

2. Oddiwrth ystyriaeth o *bechodau* ac *angenion* lluosawg y saint, 1 Ioan 2. 12; Heb. 4. 16.

2. Oddiwrth annheilyngdod y saint ynddynt eu hunain yn ngolwg Duw, a'u hannghymwysder i ogoniant, Heb. 9. 24; Eph. 2. 18.

Mae Iesu Grist yn eiriolwr *ffyniannus a thragywyddol.*

1. Mae yn *eiriolwr ffyniannus* yn wastadol; yr hyn a ellir ei gasglu oddiwrth urddas ei berson; teilyngdod ei aberth; doethineb ei ddeisyfiadau, y rhai ydynt yn wastad yn gyfaddas i amgylchiadau ei bobl, ac i'w dedwyddwch mewn amser, ac i dragywyddoldeb; a'u gwresawgrwydd.

2. Mae efe yn *eiriolwr tragywyddol*, Heb. 7. 25. Cedwir cymmundeb a chymdeithas y saint yn y nef am byth, ynddo a thrwyddo ef, yn y fath ffordd ag sydd gyson â'u stâd o berffeithrwydd a phurdeb yno. Gwel Dat. 7. 17.

Mae *eiriolaeth* Crist, ac *eiriolaeth* yr Ysbryd, a grybwyllir yn Rhuf. 8. 26, yn gwahaniaethau fel y canlyn:—Mae Crist yn *eiriol hebom ni*, trwy gyflwyno gwerth ei aberth i Dduw; ond y mae yr Ysbryd yn eiriol *ynom ni*, trwy ocheneidiau annhraethadwy:—hyny yw, trwy ein galluogi ni i ddadleu ac ymdrechu gyda Duw ger bron gorsedd gras, gan ein dysgu am ba beth bynag y dylem weddïo, a pha fodd, fel y byddom gymeradwy.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn y pethau canlynol;—Oddiwrth y rhan gyntaf o swydd offeiriadol Crist, sef ei iawn dros bechod,— 1. Beth yw sail fawr, ac unig sail ein holl obaith, sef iawn Crist dros bechod yn lle pechaduriaid. 2. Rhagoriaeth ein breintiau ni ar freintiau y rhai oeddynt dan y ddeddf. 3. Yr angenrheidrwydd am ran yn aberth Crist, ac o ffydd ynddo ef fel yr hwn a osododd Duw yn iawn. 4. Y perygl o wrthod Crist yn y cymeriad o Offeiriad, a'r dyddanwch mawr o feddu rhan ynddo ef. 5. Bod y fath ddrwg mewn pechod, fel na's gall dyn ei hunan ei dynu ymaith. 6. Y buasai raid i'r pechadur farw yn ei bechodau, oni buasai fod aberth wedi ei ddarpar. 7. Bod cariad Duw yn annherfynol yn rhoddiad ei Fab i farw dros bechaduriaid. 8. Mawredd ein trugareddau, y rhai a glywsom am ffordd i achub pechaduriaid trwy aberth Crist. 9. Peth mor gâs ydyw pechod, ac mor groes i natur Duw a'i Air. 10. Y sail fawr o orfoledd sydd yn deillio i bawb oddiwrth fod y Tad wedi ei lawn foddloni yn Nghrist.

Oddiwrth yr ail ran o swydd offeiriadol Crist, sef ei eiriol-

aeth,dysgwn,—1. Happusrwydd y rhai ydynt mewn cyfammod â Duw. 2. Bod pob peth a all wneyd y cradadyn yn ddedwydd mewn amser ac i dragywyddoldeb wedi ei ddiogelu. 3. Cariad Crist yn gweinyddu rhan Eiriolwr drosom yn y nef. 4. Sicrwydd y credadyn o anfarwoldeb. Tra y mae Crist yn ddadleuwr iddo, pwy a all ei gondemnio? 5. Dyledswydd pawb i ymwneyd âg ef fel y cyfryw. 6. Nad oes, ac na's gall fod, Eiriolwr arall o fewn i'r llèn, ond Iesu Grist ein Harch-offeiriad mawr, 1 Tim. 2. 5. 7. Mawredd cariad Duw yn appwyntio y fath ddadleuwr i ymddangos ger ei fron ef dros bechaduriaid. 8. Ni raid i'r credinwyr ofni y bydd i'w hachos lwyr aflwyddo yn nwylaw yr Eiriolwr mawr yma. 9. Bod eiriolaeth Crist yn un o seiliau parhad y saint mewn cyflwr o ras, Ioan 10. 28, 29. 10. Bod pob rhan o waith y prynedigaeth yn rhyfedd, ac yn cyflawn egluro gogoniant Duw. 11. Os mynwn ni un i ddadleu ei hachos yn y nef, rhaid i ni ymwneyd â Iesu, yr hwn a appwyntiwyd gan ei Dad i ymddangos yn ei wyddfod drosom ni. Gwel Heb. 12. 25.

## 3.—*Y Swydd Freninol.*

HOL. 26. PA FODD Y MAE CRIST YN CYFLAWNI SWYDD BRENIN?

**Mae Crist yn gweinyddu swydd Brenin trwy ein darostwng iddo ei hunan, ein llywodraethu, a'n hamddiffyn, a thrwy attal a gorchfygu ei holl elynion ef a ninnau.**

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod Crist fel Brenin yn darostwng ei bobl iddo ei hunan. Ps. 110. 3. "Dy bobl a fyddant ewyllysgar yn nydd dy nerth."

2. Bod Crist fel Brenin yn llywodraethu ei bobl. Esa. 33. 22. "Yr Arglwydd yw ein Barnwr, yr Arglwydd yw ein Deddfwr, yr Arglwydd yw ein Brenin; efe a'n ceidw."

3. Bod Crist fel Brenin yn amddiffyn ei bobl. Ps. 89. 18. "Yr Arglwydd yw ein tarian, a Sanct Israel yw ein Brenin." Gwel hefyd Zech. 2. 5.

4. Bod Crist fel Brenin yn cadw attalfa ar ei holl elynion ei hun a'r eiddo ei bobl. Ps. 76. 10. "Dïau cynddaredd dyn a'th fawl di, gweddill cynddaredd a waherddi."

5. Bod Crist, fel Brenin, yn gorchfygu ac yn dystrywio ei holl elynion ei hunan a'u gelynion hwythau. 1 Cor. 15. 25. "Rhaid iddo deyrnasu hyd oni osodo ei holl elynion dan ei draed."

### EGLURHAD.

Sylw 111.— *Mae Iesu Grist yn Frenin.*

Gellir profi bod Crist yn Frenin oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Mae teitlau *arglwyddiaeth* a *llywodraeth* yn cael eu rhoddi iddo, Ps. 2. a 110. a 72, ydynt yn cynnwys cyfeiriad amlwg atto dan y nodweddiad yma, i ba fesur bynag y gellir eu cymwyso at ei gysgodau gynt. Gwel hefyd Esa. 32. 1, &c.; Jer. 23. 5, &c.; lle y'i cawn yn cael ei grybwyll yn y brophwydoliaeth, wrth enwau a ddynodant arglwyddiaeth.

2. Mae llawer o deitlau *tywysogaidd* yn cael eu rhoddi arno, y rhai ni's gellir eu priodoli i neb arall. Yn Act. 2. 36, nyni a'i gwelwn yn cael ei wneyd yn *Frenin*. Efe a elwir *Tywysog y bywyd*, Act. 3. 15. *Brenin brenhinoedd ac Arglwydd arglwyddi*, 1 Tim. 6. 15; Dat. 17. 14, a 19. 16. Rheolwr, Barnwr, Llywydd, Tywysog llu yr Arglwydd, Jos. 5. 15; a lluaws o enwau eraill a roddir iddo, y rhai a'i nodant fel un wedi ei amcanu i'r freniniaeth, ac i feddu awdurdod gyffredinol fel Cyfryngwr. Gwel Zech. 9. 9; Luc 1. 32, &c.

3. Mae holl addurniadau awdurdod freninol yn cael eu priodoli iddo. Efe a enneiniwyd fel Brenin, Ps. 45. 7. Dechreuodd ei freniniaeth yn mwriad tragywyddol y nef; ac fe'i gwnaed yn adnabyddus gan angelion ar ei enedigaeth, Luc 1. 2, 11. Addefid hyn gan yr Iesu ei hunan pan oedd ar fyned i farw, Ioan 18. 36. Gwel hefyd Matt. 28. 18; Eph. 4. 8; Phil. 2. 9—11. Fe'i coronwyd gan ei eglwys, a chan ei Dad, Can. 3. 11; Heb. 2. 9. Priodolir gorsedd freninol iddo, sef ar ddeheulaw Duw, Ps. 110. 1; Heb. 1. 13. Mae teyrnwialen freninol yn perthyn iddo ef, Ps. 2. 9, a 45. 6. Mae y cyfreithiau a ddyru allan yn gyfreithiau Brenin, Esa. 2. 3. Ei weision ydynt weision neu genhadon Brenin breninoedd, 2 Cor. 5. 20. Medda osgordd breninol, cyllid breninol, a thrysorfa freninol o arfogaeth ysbrydol, Judas 14; Ps 45. 11, &c.; Eph. 6. 10, &c. Mae ei awdurdod i farnu, ac i ryddhau neu gondemnio, yn awdurdod Brenin y brenhinoedd, Ioan 5. 22. Ac y mae deiliaid y Brenin yma yn dyrfa na's gall neb eu rhifo, o bob cenedl, llwyth, ac iaith, a phobl.

Rhag gysgodid Crist yn ei swydd freninol cyn ei ymddangosiad yn y byd hwn,—Gan Melchisedec, Heb. 7. 1, &c. Gan Josuah, buddugoliaethwr Canaan; gan Dafydd a Solomon; a chan holl freninoedd Israel a Judah.

Sylw 112.—*Mae gan Iesu Grist ddwy deyrnas; sef teyrnas hanfodol, a theyrnas gyfryngol.*

1. Fel Duw goruchaf, Duw gogyfuwch a'r Tad, ac a'r Ys-

bryd Glan, y mae ganddo *freniniaeth hanfodol.* Mae ei oruchelder a'i lywodraeth ar bob peth yn gydradd i'r eiddynt hwy. Y mae efe, nid yn unig yn meddu ei freniniaeth gyfryngol mewn modd neillduol, ond, y mae efe yn Llywydd yn mysg y cenhedloedd hefyd, Matt. 28. 18. Maent oll yn gwneuthur ei ewyllys ef; a pharwyd iddynt wneuthur pethau mawrion er mwyn yr eglwys yn y byd hwn. Er mwyn ei eglwys, tröodd Crist faesydd ffrwythlawn yn ddiffrwyth; dystrywiodd ddinasoedd a'r rhai a'u preswylient; parodd i'r haul a'r lleuad sefyll yn eu gyrfäoedd; cyfnewidiodd yrfa anian; sychodd y môr; a pharodd i'r greadigaeth ddifywyd ymladd drosti.

2. Fel Emmanuel, Cyfryngwr, a Phryniawdwr, y mae ganddo *deyrnas gyfryngol,* yr hon a roddid iddo gan ei Dad, fel gwobr ei lafur dros ei bobl. Mae y freniniaeth hon mewn modd arbenig yn golygu ei eglwys, ac wedi ei sefydlu i'r dyben o ddwyn ei gwir aelodau ar y ddaear i gyflawn fwynhad o'r Arglwydd, ac o bresenoldeb Brenin Sïon.

Sylw 113.—*Mae teyrnas gyfryngol Crist yn un dra ehang, yn deyrnas ysbrydol a thragywyddol.*

1. Y mae yn *deyrnas dra ehang.* Gwel Matt. 28. 18; Ioan 17. 2; Ps. 2. 8. Mae yn cyrhaedd dynion o bob oedran, gradd, a chenedl. Gwelir llawer ynddi yn y diwedd wedi eu casglu allan o bob cenedl, a phobl, ac iaith o dan y nef; a hwy oll a lwyr ddiwellir â goludoedd y deyrnas hon, yr hyn a gynnwys ogoniant, anrhydedd, ac anfarwoldeb.

2. Mae yn *deyrnas ysbrydol.* Ioan 18. 36. "Fy mreniniaeth i nid yw o'r byd hwn," medd Crist; am hyny y'i gelwir "teyrnas nefoedd," i nodi ei *hysbrydolrwydd;* a "theyrnas Dduw," er dangos bod ei gwreiddyn, ei thuedd, ei rhagorfreintiau, a'i dyben, oll o natur ysbrydol a nefol. Nid llywydd bydol yw Crist, ei Brenin, Matt. 20. 28; Zech. 9. 9. Nid gorsedd ddaearol yw ei orsedd; y mae gorsedd ei ogoniant yn y nefoedd; a gorsedd ei ras sydd yn ei eglwys; a gorsedd ei farn a gyfodir yn yr wybrenau ar ei ail ddyfodiad, pan na bydd breniniaethau daearol mwyach. Ei deyrnwialen sydd deyrnwialen ysbrydol, Ps. 110. 2. Ei gyfreithiau ydynt ysbrydol, Rhuf. 7. 12, &c.; Heb. 4. 12. Ei deyrnged a'i addoliad ydynt ysbrydol, Ioan 4. 24; Rhuf. 12. 1; 1 Pedr 2. 8, &c.; Phil. 3. 3. Ei ddeiliaid ydynt ysbrydol, Eph. 4. 23; Ioan 1. 13; Eph. 2. 10. Ei genadon ydynt ysbrydol, ac anfonedig ar genadwriaeth ysbrydol, 2 Cor. 5. 20. Ei arfogaeth sydd ysbrydol, Eph. 6. 10, &c.; 2 Cor. 10. 4. Ei wobrwyon a'i gosbau ydynt o natur ysbrydol, 2 Thes. 1. 4, &c.

A'i amcanion yn cyfodi y fath deyrnas, ydynt hefyd ysbrydol. 1 Ioan 3. 8; Act. 26. 18.

3. Mae yn *deyrnas dragywyddol.* Fel Cyfryngwr efe a appwyntiwyd o dragywyddoldeb, cyn bod y ddaear; ac ar ei lywodraeth ni bydd diwedd, Mica 5. 2; Dan. 7. 14; Ps. 45. 6; Dat. 3. 21.

Gellir gwahaniaethu breniniaeth gyfryngol Crist, i *freniniaeth ei ras* yn y byd hwn, yr hon yw ei eglwys, a bwrcasodd efe a'i briod waed; a *breniniaeth ei ogoniant* yn y byd a ddaw, yr hon yw yr eglwys anweledig, a wneir i fynu o'r rhai cyntafanedig, y rhai y mae eu henwau yn ysgrifenedig yn y nefoedd. Ond nid yw y rhai hyn freniniaethau gwahanol, gymmaint ag ansoddau gwahanol yr un freniniaeth.

Sylw 114.—*Gweithredoedd Crist fel Brenin ydynt a ganlyn:—Darostwng ei bobl iddo ei hunan, eu llywodraethu, a'u hamddiffyn, ac attal a gorchfygu ei holl elynion ei hunan a'r eiddo ei bobl.*

Gweithredoedd Crist fel Brenin Sïon, yn ngweinyddiad ei freniniaeth, ydynt *bump;* rhai o ba rai ydynt yn dwyn perthynas uniongyrchol â'i ddeiliaid ei hunan, a rhai a'i elynion ei hunan a'r eiddynt hwythau: ond fe'u gwneir oll yn wasanaethgar i lesäad presenol a thragywyddol yr holl rai a'i mynant ef i deyrnasu arnynt.

1. Mae Crist yn *darostwng* ei bobl iddo ei hunan. Y cyfryw ydyw cyndynrwydd eu gwrthwynebiad iddo ef fel Brenin Sïon, fel nad oes dim llai na hollalluowgrwydd a ddichon ddystrywio gelyniaeth eu calonau yn ei erbyn, a'u gwneyd yn bobl ewyllysgar iddo ei hunan, Rhuf. 8. 7; 2 Cor. 10. 4. 5; Ps. 110. 2, 3.

2. Mae Crist yn *llywodraethu* ei bobl. Y mae efe yn gwneuthur hyn trwy roddi iddynt gyfreithiau ac ordinhadau; a thrwy eu ceryddu, Ps. 147. 19; Mica 5. 2; Dat. 3. 19; Ps. 89. 30, &c.

3. Mae Crist yn *amddiffyn* ei bobl rhag eu holl elynion. Y rhai hyn ydynt yn lluosawg a galluawg; megys pechod, diafol, y byd, angau, a'r bedd, a gweddillion llygredigaeth, &c. Gwel Matt. 16. 18; Zech. 2. 5; Rhuf. 16. 20; a 6. 14; Ioan 16. 33; Hos. 13. 14; 1 Cor. 15. 57.

4. Mae Crist yn cadw *attalfa* ar ei elynion ei hun a'r eiddo ei bobl: yr hyn a wna trwy rwystro eu hamcanion yn erbyn ei bobl; trwy beri iddynt weled na's ffynant; trwy eu hargyhoeddi, pa mor alluog bynag ydynt hwy, ei fod ef yn llawer galluoccach; bod eu dichellion yn eithaf adnabyddus iddo ef: ac na's gallant lunio dim a lwydda; a thrwy beri iddynt

gywilyddio o herwydd eu hamcanion eu hunain. Gwel Num. 23. 10; Exod. 14. 26, &c.; Ps. 76. 10.

5. Mae Crist yn *gorchfygu* ei holl *elynion* ei hun, a'r eiddo ei eglwys. Mae yn gwneuthur hyn yn y byd hwn, pan y mae yn dwyn eu gallu oddiarnynt mewn rhan, Zech. 2. 5; 1 Cor. 15. 55; ac efe a wna hyn yn y dydd olaf pan y dinystria ei holl elynion ei hun, a gelynion ei bobl, o bresenoldeb yr Arglwydd, ac oddiwrth ogoniant ei fawredd ef, 1 Cor. 15. 25; Dat. 20. 14. Dyma fydd yr amlygiad mwyaf arbenig o fuddugoliaethau gogoneddus Brenin Sion; a gogoniant ei fuddugoliaeth a fydd testyn cân y gwaredigion am byth.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Mor ddiogel yw pobl yr Arglwydd yn nydd trallod, ac yn nghanol eu gelynion. 2. Y geill deiliaid gwirfoddol Crist lawenhau yn yr etifeddiaeth a addawodd efe iddynt hwy. 3. Dyledswydd pawb i ymostwng i'r Brenin hwn, a'r perygl o anufuddhau, Ps. 2. 12. 4. Mai breniniaeth ysbrydol, perffaith wahaniaethol i freniniaethau y byd hwn, yw yr eiddo Crist. 5. Y dyddanwch sydd yn deillio o'r ystyriaeth o fod breniniaeth Crist yn un ehang. Gelwir pawb i'w dderbyn, ac ufuddhau iddo fel eu Brenin. 6. Dedwyddwch y freniniaeth hon; hi a erys yn dragywydd. 7. Yr angenrheidrwydd o ufuddhau i Grist, ac o fod yn ysbrydol megys y mae efe. 8. Y perygl o'i wrthod ef i deyrnasu arnom. 9. Y dyddanwch mawr sydd yn deillio oddiwrth ddoethineb Crist yn ngweinyddiad ei lywodraeth. 10. Y sicrwydd y bydd iddo feddu eglwys ar y ddaear bob oes. 11. Y dedwyddwch o fod dan lywodraeth Crist. 12. Sicrwydd y dedwyddwch o fod dan ei amddiffyniad ef. 13. Y fuddugoliaeth sicr a gaiff y credadyn ar ei holl elynion. 14. Yr anrhydedd o ddilyn yr Oen i ba le bynag yr elo, er myned trwy lawer o orthrymderau. 15. Bod y rhai ydynt yn ymladd yn erbyn Crist, ac yn parhau yn ei gelyniaeth yn ei erbyn ef, yn sicr o gael eu dystrywio, a hyny yn ddiarbed.

---

### ADRAN II.—Y SEFYLLFEYDD YN Y RHAI Y CYFLAWNAI Y GWAREDWR EI SWYDDAU CYFRYNGOL.

## *Am sefyllfa o Ddarostyngiad Crist.*

**HOL. 27. YN MHA BETH YR OEDD DAROSTYNGIAD CRIST YN GYNNWYSEDIG?**

Yr oedd darostyngiad Crist yn gynnwysedig yn ei fod wedi ei eni, a hyny mewn cyflwr isel; wedi ei

wneuthur dan y ddeddf, a myned dan gyfyngderau y fuchedd hon, digofaint Duw, a marwolaeth felldigedig y groes; yn ei gladdedigaeth, a'i arhosiad dan deyrnasiad marwolaeth dros yspaid.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod Crist wrth ddyfod yn ddyn, wedi ei ddarostwng ei hun, trwy gymeryd ei eni, a hyny mewn cyflwr isel. Luc 1. 35. "Y peth sanctaidd a enir o honot ti, a elwir yn Fab Duw." Luc 2. 7. "A hi a esgorodd ar ei Mab cyntafanedig, ac a'i rhwymodd mewn cadachau, ac a'i dododd yn y preseb." Gwel hefyd Phil. 2. 6, 7.

2. Bod Crist wedi ei ddarostwng ei hun trwy ymostwng i gymeryd ei wneuthur dan y ddeddf. Gal. 4. 4. "Duw a ddanfonodd ei Fab, wedi ei wneuthur o wraig, wedi ei wneuthur dan y ddeddf."

3. Bod Crist wedi ei ddarostwng ei hun trwy ddioddef cyfyngderau y fuchedd hon. Esa. 53. 3. "Dirmygedig oedd, a diystyraf o'r gwŷr; gwr gofidus a chynnefin a dolur."

4. Bod Crist wedi ei ddarostwng ei hun trwy ddyoddef digofaint Duw yn ein lle. Matt. 27. 46. "Llefodd yr Iesu â llêf uchel, gan ddywedyd, Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist. Gwel hefyd Luc 22. 44.

5. Bod Crist wedi ei ddarostwng ei hun trwy ymostwng i farwolaeth felldigedig y groes. Phil. 2. 8. "Efe a'i darostyngodd ei hun gan fod yn ufudd hyd angau; ïe angau y groes."

6. Bod Crist wedi ei ddarostwng ei hun trwy ymostwng i gymeryd ei gladdu, a thrwy aros yn y bedd dros amser. 1 Cor. 15. 4. "A'i gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd." Gwel hefyd Matt. 12. 40.

EGLURHAD.

Sylw 115.—*Ddarfod i Iesu Grist ei ddarostwng ei hun.*

Wrth *ddarostyngiad* Crist yr ydym i ddeall yn gyffredinol ei ymostyngiad i adael mynwes ei Dad, a'i fod wedi ei wneyd dros dymhor ychydig yn îs na'r angelion, o herwydd dyoddef marwolaeth, Phil. 2. 8.

Nid oedd bod Crist yn meddu dynoliaeth yn unig, yn un ran o'i ddarostyngiad. Mae yn wir fod hyn yn dangos ymostyngiad anfeidrol yn yr hwn sydd Greawdwr dyn; ond, a llafaru yn briodol, nid oedd yn un ran o'i ddarostyngiad; canys y mae yn cadw ei ddynoliaeth eto yn ei ogoniant, ac a'i ceidw byth.

Yr *achos* o ddarostyngiad Crist oedd *cariad* hunan-gynhyrfiol Duw Dad, a'i *gariad* ei hunan at bechaduriaid a'u dinystriasant eu hunain. Gwel 1 Ioan 4. 9, 10.

Camrau darostyngiad Crist oeddynt y rhai canlynol:—Ei enedigaeth, a hyny mewn cyflwr isel; ei fod wedi ei wneuthur dan y ddeddf; ei ymostyngiad dan gyfyngderau y fuchedd hon; ei waith yn dyoddef digofaint Duw, ei ymostyngiad i farwolaeth felldigedig y groes, ei gladdedigaeth, a'i arhosiad dros dymhor dan awdurdod marwolaeth.

Sylw 116.—*Darostyngodd Iesu Grist ei hunan trwy gymeryd ei eni, a hyny mewn cyflwr isel.*

Yr oedd e yn ymostyngiad mawr yn yr Arglwydd Iesu gymeryd ei eni oll; ond yr oedd yn fwy o ymostyngiad fyth iddo gymeryd ei eni mewn *cyflwr isel*. Mae yn wir ei fod ef o linach Dafydd, teulu yr hwn a fuasent yn fwyaf enwog yn y byd; ond, efe a enid o forwyn yn y teulu hwnw, yr hwn ar y pryd oedd mewn amgylchiadau tra isel; efe a enid yn Methlehem, pentref disylw; ac a enid mewn ystabl, ac a ddodid yn y preseb. Gwel Luc 1. a 2.

Sylw 117.—*Darostyngodd Iesu Grist ei hunan trwy gymeryd ei wneuthur dan y ddeddf.*

Er y gellid dywedyd fod Crist wedi ei wneuthur dan ddeddfau seremonïol a gwladol yr Iuddewon, yn gymmaint a'i fod yn ufuddhau iddynt, (Luc 2. 21, &c.,) eto, a llafaru yn fanol, nid dan yr un o'r deddfau hyny y'i gwnaethpwyd fel ein Machnïydd ni, ond dan y *ddeddf foesol*. Ac nid dan y ddeddf hono fel *rheol bywyd* ychwaith y'i gwnaed; ond dani *fel cyfammod*, yn gofyn ufudd-dod perffaith fel ammod bywyd, ac iawn llawn am y trosedd o'r ddeddf, Gal. 4. 4, 5. Yn awr y mae darostyngiad Crist mewn cael ei wneuthur dan y ddeddf yn ymddangos yn hyn, ei fod ef Deddfwr, Arglwydd, a Barnwr nefoedd a daear, wedi ymostwng i ddyfod yn ddeiliad i'w ddeddf ei hun, a hyny fel y gwaredai ei bobl a'i troseddodd o afael ei melldith, ac y'i cyflawnai yn eu lle.

Sylw 118.—*Darostyngodd Iesu Grist ei hunan trwy fyned dan holl drallodion y fuchedd hon.*

Yr oedd, nid yn unig yn ddarostyngedig i wendidau dibechod dynoliaeth, megys newyn, syched, blinder a gofid, &c; ond efe a ymostyngodd yn wirfoddol dan yr holl drallodau a'r cystuddiau y gall ei bobl fod yn agored iddynt yn eu sefyllfa bresenol, Heb. 2. 14, 18; a 4. 15; a 5. 2; Matt. 8. 20; Heb. 12. 3, &c.

Sylw 119.—*Darostyngodd Iesu Grist ei hunan trwy ddyoddef digofaint Duw.*

Digofaint Duw, a chuddiad ei wyneb ef oeddynt ddyfnderau mwyaf y trueni yr aeth Crist drwyddo yn y byd hwn. Pan oedd e yn ngardd Gethsemane, yr oedd y rhag-olwg ar y digofaint yma yn gwneyd ei enaid yn drist hyd angau; pan oedd ei chwys fel dafnau mawrion o waed yn disgyn i'r ddaear; a gwasgiad y digofaint arno a barai iddo lefain yn ei ing enaid, "Fy Nuw, fy Nuw, pa ham y'm gadewaist?" Ac ni allasai dim llai na hollalluogrwydd roddi y fath ddyrnod, nag ymgynnal dano chwaith!

Sylw 120.—*Darostyngodd Iesu Grist ei hunan trwy ymostwng i farwolaeth felldigedig y groes.*

Yr oedd marwolaeth y groes y fwyaf poenus, arteithiol, nychlyd, a gwaradwyddus. Ac fe'i gelwid yn farwolaeth felldigedig am fod Duw wedi dywedyd, "Melldigedig yw pob un sydd yn nghrôg ar bren." Gal. 3. 13. Er hyn oll, fe ddyoddefodd Iesu y groes, gan ddiystyru gwaradwydd. Fe ddarlunir llymder dirfawr ei ddyoddefiadau i ni, mewn amrywiol ffyrdd, Gwel Salm 22, drwyddi.

Sylw 121.—*Darostyngodd Iesu Grist ei hunan trwy ei gladdedigaeth, a'i arhosiad dros dymhor dan arglwyddiaeth marwolaeth.*

Claddwyd Crist, ac efe a arhosodd yn y bedd dros *dridiau* a *their-nos*, er dangos ei fod wedi marw mewn gwirionedd; gan mai ar ei farwolaeth yr oedd gobaith a happusrwydd ei bobl i ddibynu, yn gymmaint ag mai drwy hyny yr oedd raid dybenu camwedd, selio pechodau, gwneuthur cymmod dros anwiredd, a dwyn cyfiawnder tragywyddol i mewn. Efe a gladdwyd hefyd, fel y gorchfygai angau yn ei amddiffynfa grefaf a thywyllaf, sef yn nghilfachau pruddaidd y bedd; ac y sancteiddiai y bedd i'w holl gyfeillion a'i ganlynwyr, fel y byddai yn orphwysle iddynt, lle y gall eu cyrph orphwyso hyd yr adgyfodiad.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn yma dysgwn,—1. Ryfeddol ras ac ymostyngiad Crist yn dyfod yn ddyn i farw dros bechaduriaid. 2. Mai trwy lawer o orthrymderau y mae yn rhaid i ni fyned i deyrnas Dduw, Ioan 16. 33; 2 Tim. 3. 12. 3. Bod y gyfraith yn awr wedi ei mawrhau; a chyfiawnder Duw wedi ei foddloni, a'i fod ef yn awr yn gymmodlawn tuag attom er yr hyn oll a wnaethom. 4. Bod Crist wedi ein prynu ni oddiwrth felldith y ddeddf, trwy ei wneuthur yn felldith drosom

ni. 5. Trueni yr holl rai ydynt heb ran yn Nghrist, a'r rhai sydd raid iddynt yn eu personau eu hunain ateb am y ddyled yr aethant dani, o ran ufudd-dod a dyoddefaint. 6. Dedwyddwch y credinwyr, i'r rhai y mae Crist yn Fachnïydd, yr hwn a dalodd eu holl ddyled, ac a faddeuodd y cwbl yn rhad iddynt. 7. Bod ymostyngiad Crist i drigfeydd tywyll y meirw, megys wedi perarogli y drigias chwithig hono; fel na raid i saint Duw edrych arno mwyach fel rhyw le ffiaidd, ac annymunol; ond fel lle hyfryd i orphwyso hyd oni's dihunir hwy gan lef yr archangel, ag udgorn Duw.

## *Sefyllfa ddyrchafedig Crist.*

HOL. 28. YN MHA BETH Y MAE DYRCHAFIAD CRIST YN GYNNWYSEDIG?

Mae dyrchafiad Crist yn gynnwysedig yn ei adgyfodiad oddiwrth y meirw y trydydd dydd, yn ei esgyniad i'r nefoedd, yn ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw Dad, ac yn ei ddyfodiad i farnu y byd y dydd diweddaf.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Crist wedi ei ddyrchafu trwy ei adgyfodiad y trydydd dydd oddiwrth y meirw. 1 Cor. 15. 4. "Ac a gyfodwyd y trydydd dydd yn ol yr Ysgrythyrau."

2. Bod Crist wedi ei ddyrchafu trwy ei esgyniad i'r nefoedd. Luc 24. 51. "Ac fe ddarfu tra yr oedd efe yn eu bendithio hwynt, ymadael o hono ef oddiwrthynt, ac efe a ddygwyd i fynu i'r nef." Gwel hefyd Marc 16. 19.

3. Bod Crist yn awr yn ddyrchafedig trwy ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw. Eph. 1. 20. "Ac a'i gosododd i eistedd ar ei ddeheulaw ei hun yn y nefolion leoedd." Gwel hefyd Col. 3. 1.

4. Y dyrchefir Crist trwy ei ddyfodiad i farnu y byd yn y dydd diweddaf. Act. 17. 31. "O herwydd iddo osod diwrnod yn yr hwn y barna efe y byd mewn cyfiawnder, trwy y gwr a ordeiniodd efe; gan roddi ffydd i bawb, o herwydd darfod iddo ei gyfodi ef oddiwrth y meirw."

EGLURHAD.

Sylw 122.—*Fe ddyrchafwyd Iesu Grist mewn canlyniad i'w ddarostyngiad.*

Cymerodd Crist arno ei hunan agwedd gwas, ac a ddaeth

yn ufudd hyd angau, ïe, angau y groes, nid, fel y gellid ei gadw yn y cyflwr isel hwnw, ond fel y'i cyfodid drachefn, ac y'i dyrchefid i'r gogoniant mwyaf annirnadwy. Phil. 2. 8, 9. "Efe a'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ïe, angau y groes. O herwydd pa ham, Duw a'i tra dyrchafodd yntau, ac a roddes iddo enw yr hwn sydd goruwch pob enw."

Mae dyrchafiad Crist yn golygu ei ddynoliaeth, neu ei *natur ddynol* yn unig; canys fel Duw ni's gellir ei ddyrchafu; ac ni's gellir chwanegu dim at ei ogoniant fel y mae yn Dduw; canys fel y cyfryw yr oedd, y mae, a bydd yr un, heb gyfnewidiad na chysgod troedigaeth.

Camrau dyrchafiad Crist ydynt a ganlyn:—Ei adgyfodiad o feirw y trydydd dydd; ei esgyniad i'r nefoedd; ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw Dad; a'i ddyfodiad i farnu y byd y dydd diweddaf. Oddiwrth bob un o'r pethau hyn y mae llawer i'w ddysgu, mewn cyssylltiad âg iachawdwriaeth pechaduriaid, a gogoneddiad Crist ei hunan.

Sylw 123.—*Dyrchafwyd Iesu Grist trwy ei adgyfodiad o feirw y trydydd dydd.*

Mae hon yn un o brif erthyglau ffydd credinwyr, ac ar hon mewn mesur mawr y mae yr Eglwys dan yr efengyl yn seiliedig. Gellir sylwi yma, nad ysgerid natur ddwyfol Crist oddiwrth ei ddynoliaeth yn angau; canys y maent yn anysgaredig. Trwy angau ysgarwyd ei enaid a'i gorph yn weithredol; (Gwel Luc 23. 46); ond trwy gydol yr amser y gorweddai yn y bedd, yr oedd yr undeb agosaf rhwng ei ddwy natur; a phan adgyfododd, ni wnaeth namyn cymeryd i fynu yr einioes a roddasai i lawr o hono ei hun dros ei bobl.

Mae adgyfodiad Crist yn cael ei brofi yn helaeth yn yr Ysgrythyr.

1. Fe'u rhagfynegid yn yr hen brophwydoliaethau. Gwel Ps. 16. 10; Job 19. 25, &c.

2. Fe'i cysgodid amryw ffyrdd. Gellir ystyried gwaredigaeth Joseph o'r carchar yn gysgodawl o adgyfodiad Crist o'r bedd, yr hyn a elwir, "cymeryd o garchar," Esa. 53. 8. Gallai gwaith Abraham yn derbyn Isaac o feirw mewn cyffelybiaeth, fod yn gysgodol o adgyfodiad Crist.—Ac yr oedd dyfodiad Jonah o fòl y pysgodyn, yn gysgod arbenig o'r gwirionedd yma.

3. Mae genym y profion sicraf ddarfod iddo gymeryd lle yn weithredol, a bod yr Iesu hwnw a groeshoeliwyd, wedi adgyfodi o feirw. Gwel Matt. 28; Marc 16; Luc 24; Ioan 20.

4. Darfu i Grist ei hunan, wedi ei adgyfodiad, ymddangos

i lawer ar wahanol amserau, a thrwy lawer o brofion anffaeledig; ac yn 1 Cor. 15, fe'n hysbysir iddo ymddangos i bum' cant ar unwaith.

5. Mae genym brawf cryf o'r gwirionedd hwn yn ymddygiad dysgyblion Crist wedi ei adgyfodiad; canys ni allasai dim eu lluddias i gyhoeddi yr hyn a welsent, a'r hyn y meddent y sail grefaf a'r awdurdod gyflawnaf i'w hysbysu.

6. Os ydoedd disgyniad yr Ysbryd Glan ar ddydd y Pentecost yn ol addewid Crist, i'w ystyried yn brawf o'i esgyniad, rhaid ei gymeryd hefyd yn brawf o'i adgyfodiad.

Yn adgyfodiad Crist, yr oedd yr holl bersonau Dwyfol yn yr Hanfod yn cydweithredu. Gwel Act. 2. 24; Ioan 2. 19, &c.; 1 Pedr 3. 18.

Yr un corph ag a roisid yn medd newydd Joseph, a gyfododd oddiyno, a'r un priodoliaethau ganddo oll, ag oedd ganddo o'r blaen. Gwel Luc 24. 39.

Amser adgyfodiad Crist, oedd y *trydydd dydd* o'i gladdedigaeth; ac yn foreu iawn y dydd hwnw, i ddangos efallai, mai efe oedd "y seren forau eglur," "codiad haul o'r uchelder," "haul cyfiawnder," yr hwn a gyfodai ar ei bobl, â meddyginiaeth yn ei esgyll.

Ar adgyfodiad Crist bu daeargryn; angel a ysgydwodd y lle; a mawrhydi a ymddangosai oddiamgylch. Yr oedd yn rhoi ar ddeall, fod pob peth wedi ei wneuthur yn awr yr ymrwymasai Crist i'w wneuthur; ac nad oedd dim mwyach yn ofynol ganddo ef, ond bod iddo feddiannu y llawenydd a osodid o'i flaen ef.

Sylw 124.—*Dyrchefid Iesu Grist drwy ei esgyniad i'r nef.*

Dyma un eto o brif erthyglau y grefydd Gristionogol.

Bod Crist wedi esgyn i'r nef sydd eglur oddiwrth yr Ysgrythyrau.

1. Rhagfynegid hyny mewn prophwydoliaeth. Gwel Ps. 24. 7—10; a 47. 5; a 68. 18.

2. Yr oedd cysgodau nodedig o hyn. Enoch a symudwyd i'r nef, gorph ac enaid, heb brofi marwolaeth; yr hyn yn ddiau ydoedd gysgod eglur dan yr oruchwyliaeth batriarchaidd o esgyniad Crist. Elias dan y gyfraith hefyd, a symudwyd mewn modd tra gogoneddus, yr hyn oedd gysgod o'r un peth. A phan fyddai yr offeiriaid gynt yn dwyn y gwaed a'r arogl-darth i'r cyssegr sancteiddiolaf, yr oedd yn rhag ddangos esgyniad Crist i eistedd ar ddeheulaw y Tad, pan ymddangosodd yn y cyssegr a wnaethpwyd nid a dwylaw, lle y mae yn offrymu anfeidrol wiwdeb ei waed fel iawn dros gamwedd.

3. Mae genym brofion lawer ei fod wedi esgyn mewn

gwirionedd. Gwel Luc 24. 50, 51; Act. 1. 9—11; a 7. 55; a 9. 3—5; Dat. 1. 10—18. Gwel hefyd Ioan 16. 7.

Yr oedd yn angenrheidiol i Grist esgyn am y rhesymau canlynol,

1. Fel y gallai anfon yr Ysbryd Glan at ei ddysgyblion, i'w tywys i bob gwirionedd, ac i ddwyn ar gôf iddynt yr holl bethau, &c.

2. Fel y dygai yn mlaen waith y prynedigaeth trwy eiriol yn barhaus dros ei bobl.

3. Fel y gallai yn enw ei bobl gymeryd meddiant o'r bendithion a ennillasai iddynt.

Arhosodd Crist ar y ddaear ddeugain niwrnod wedi ei adgyfodiad, fel y rhoddai i'w ddysgyblion bob prawf dichonadwy o'i adgyfodiad, ac y'u dysgai yn y pethau a berthynent i deyrnas Dduw. Ac ar derfyn y deugain niwrnod, efe a esgynodd i fynydd yr Olewydd; y lle y dechreuasai ei ddyoddefiadau, lle y buasai "mor gyfyng" arno, a'i enaid yn "drist iawn," gan dystiolaethu felly i'w ddysgyblion, fod ei ddyoddefiadau yn awr wedi diweddu, ac y gall yr un lle fod i'r enaid grasol, yn llannerch galar, a lletty llawenydd.

Nid oedd Crist yn ddiofal am ei ddysgyblion, ar ei esgyniad; canys efe a gymerwyd oddiwrthynt fel yr oedd efe yn eu bendithio; ac fel hyn yr oedd e yn ymwneyd â gwaith y prynedigaeth hyd ei fynydau olaf ar y ddaear.

Gosgordd Crist ar yr achlysur yma oedd myrddiwn o angelion, y rhai a ddygent Arglwydd y gogoniant i'r nef â llawen floeddiadau mawl, Ps. 24. 7—10.

Sylw 125.—*Mae Iesu Grist yn ddyrchafedig yn awr trwy ei eisteddiad ar ddeheulaw Duw Dad.*

Nid yw yr ymadrodd *deheulaw Duw* i'w ddeall yn llythyrenol, ond yn gyffelybiaethol; canys, gan mai Ysbryd yw Duw, nid oes iddo ranau corphorol; ond y mae yn dynodi yr anrhydedd uchaf, a'r gallu a'r awdurdod benaf, i'r hwn y mae Crist yn awr wedi ei ddyrchafu, fel gwobrwy ei ddarostyngiad. Phil. 2. 8, 9.

Mae *eisteddiad* Crist ar ddeheulaw Duw, yn arwyddoccau cyflwr o orphwysdra, a pharâd yn y cyflwr hwnw. Ni ddychwel y dyddiau trallod a gafodd e ar y ddaear, byth mwyach. Ei goron a flodeua ar ei ben, a'i freniniaeth a fydd ddisigl ac a sefydlir.

Pan ddywedir fod Crist *yn eistedd ar ddeheulaw Duw*, y golygir,—

1. Cwblhad gwaith y prynedigaeth; canys hyd oni orphenid hyn nid oedd efe i ddychwelyd i'r gogoniant oedd iddo ef gyd a'r Tad cyn dechreuad y byd, Heb. 4. 10.

2. Yr hyfrydwch a'r boddlonrwydd llawn a gafodd y Tad yn Nghrist ar gyfrif ei waith gogoneddus a orphenwyd ganddo, Ps. 110. 1.

3. Y gogoniant a'r anrhydedd annhraethadwy i'r hwn fel Emmanuel y mae efe wedi ei ddyrchafu yn awr yn y nef, Heb. 1. 13.

4. Ei fod wedi ei osod yn yr arglwyddiaeth benaf, ac yn feddiannol ar yr awdurdod a'r gallu mwyaf, Phil. 2. 9, 10; Heb. 2. 7, 8.

*Dybenion* eisteddiad ein Gwaredwr ar ddeheulaw Duw, ydynt a ganlyn:—

1. Fel y gallo, fel Brenin galluog, amddiffyn ei eglwys a'i bobl rhag ei holl elynion tymhorol ac ysbrydol, Esa. 3. 21, 2; Deut. 33. 26, 27.

2. Fel y gallo ddarostwng holl elynion ei deyrnas a'i bobl, sef y diafol, y byd, y cnawd, a phechod, ac uffern, Ps. 110. Act. 2. 36; Heb. 10. 12, 13; 1 Cor. 15. 25.

3. Fel y gallo addurno ei holl ddeiliaid ffyddlawn, â'r doniau a ennillodd efe iddynt, y rhai ydynt yn foddion angenrheidiol er eu hiachawdwriaeth, Act. 5. 31.

4. Fel y cyflawna ran Eiriolwr galluog drostynt, Rhuf. 8. 34.

5. Fel y gallo ei holl gyfeillion a'i ddilynwyr gael eu dyrchafu ato ef i sefyllfa ogoneddus y nef, Eph. 1. 4—6; Dat. 3. 21.

Sylw 126.—*Fe ddyrchefir Iesu Grist trwy ei ddyfodiad i farnu y byd yn y dydd diweddaf.*

Bydd hwn yn amlygiad mwy cyhoedd ac arbenig gyda golwg arnom ni nag un ran arall o'i ddyrchafiad; ac fe dery yr holl fyd dynol gyda mwy o ddifrifwch, yn gymmaint ag y bydd pawb heb eithriad yn dystion o hono, ac yn gymmaint ag y bydd yn dwyn perthynas â phawb.

Y bydd *dydd barn* sydd eglur oddiwrth y pethau canlynol:

1. Mae yn eglur oddiwrth yr Ysgrythyrau y bydd y fath ddiwrnod. Gwel Job 21. 30; Ps. 96. 13, a 98. 9; Diar. 24. 12; Preg. 11. 9, a 12. 14; Matt. 12. 36, a 13. 40—43, 49, 50, a 16. 27. a 25. 31—46, a 26. 64; Act. 17. 31, a 24. 25; Rhuf. 2. 3, 5—11, 16; 2 Cor, 5. 10, 11; 1 Thess. 4. 16, 17; Heb. 6. 1, 2, a 9. 27, 28, a 10. 27, 31; 1 Pedr 4. 5, 7, 17, 18; 2 Pedr 2. 4, 9; Judas 6, 14, 15; Dat. 1. 7, a 20. 11, 12, 15.

2. Mae rhagluniaeth Duw yn gofyn am y fath ddiwrnod, er dangos uniondeb a chyfiawnder ei goruchwyliaeth i'r rhai a farnent yn wahanol am danynt; ac y galler llwyr gyfiawnhau holl ffyrdd Duw tuag at ddyn.

3. Mae Iesu Grist yn gofyn am y fath ddiwrnod, er gogoneddu ei enw a'i lywodraeth.

4. Mae y cyfiawnion yn gofyn am y fath ddiwrnod, fel yr ymddangoso i bawb mai anwyliaid Duw oeddynt, er eu cyfrif yn sorod pob dim.

5. Mae y rhai drygionus yn gofyn am y cyfryw ddydd, fel y derbyniont hwythau yn ol eu drygioni, ac y dialer arnynt hyd yr eithaf; ac hefyd, fel eu hargyhoedder fod sylwedd yn y pethau a ddirmygasant hwy, ac a wawdiasant.

6. Mae angenrheidrwydd am y fath ddydd, oblegyd fod barnu y byd yn rhan o ddyrchafiad Crist; ac hefyd, am fod yn rhaid iddo gael cyfrif gan bawb o'r hyn a wnaethant yn ei absenoldeb.

Gyda golwg ar berson y Barnwr, y mae y Drindod,—Tad, Mab, ac Ysbryd Glan—yn Farnwr, o ran gallu, awdurdod a chydsyniad barnol; ond, Crist fel Cyfryngwr sydd wedi ei appwyntio yn Farnwr pawb oll, o ran y gweinyddiad gweledig o'r farn, Act. 17. 31; Ioan 5. 22; Act. 10. 42.

Mae *cyffredinolrwydd* y farn yn amlwg oddiwrth yr Ysgrythyrau. Ymddengys yr angelion, a holl ddynolryw, ger bron Duw, Judas 6; 2 Cor. 5. 10; Dat. 20. 12.

Y pethau yn nghylch pa rai y bernir pawb y dydd diweddaf ydynt, yn gyffredinol, yr holl weithredoedd a wnaed yn y corph. Ond, gellir sylwi, y bydd holl feddyliau, geiriau, a gweithredoedd pob un yn cael eu dwyn i oleuni yn ngŵydd y cyfan-fyd, 2 Cor. 5. 10; Preg. 12. 14; Judas 15; Matt. 12. 36, 37.

Os gofynir yma, *paham* y dygir gweithredoedd i sylw yn y diwedd, a pha le fydd iddynt, gyda golwg ar gosbedigaeth yr annuwiol, a gwobrwyad y cyfiawn, nyni a attebwn.

1. Dygir gweithredoedd da y cyfiawn i sylw, fel y crybwyllir yn Matt. 25, nid fel y *sail*, neu y *rheswm* am eu dedfryd; ond yn unig fel *prawfion* o'u hundeb â Christ, ac o'u hawl i'r nefoedd drwyddo ef. Gwel Ioan 15. 8, 14. Bydd y ddedfryd a gyhoeddir ar y cyfiawn yn gorwedd ar sail *rhad ras* yn unig, yn teyrnasu trwy gyfiawnder cyfrifol Crist i fywyd tragywyddol; ac fe'u cyhoeddir arnynt *yn ol eu* gweithredoedd, fel y maent yn deillio o ffydd yn Nghrist, neu o galon newydd a sancteiddiedig; ond nid *am* eu gweithredoedd, na hyd yn nod *am eu ffydd*, fel pe teilyngid bywyd tragywyddol drwyddynt. Gwahoddir y rhai cyfiawn i etifeddu y deyrnas a barottowyd iddynt; ond nid ydynt hwy yn ei hennill, fel yr eninlla gweision eu cyflog.

2. Ar y llaw arall, dygir gweithredoedd yr annuwiol i sylw, nid yn unig fel *prawfion* o'u cyflwr, ond fel yr *achos* priodol,

a *sail* eu collfarn. Nid yw gweithredoedd da yn teilyngu iachawdwriaeth; ond, y mae gweithredoedd drwg yn teilyngu collfarnedigaeth; canys "*cyflog pechod* yw marwolaeth; ond *dawn*, neu *rodd* Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Rhuf. 6. 22.

Ar ddydd y farn ddiweddaf cyhoeddir dedfryd ddyblyg gan y Barnwr, Crist;—un yn ffafr y rhai cyfiawn, "Deuwch chwi, fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barottowyd i chwi er seiliad y byd;" a'r llall yn erbyn yr annuwiolion, "Ewch oddiwrthyf, rai melldigedig, i'r tân tragywyddol, yr hwn a barottowyd i ddiafol ac i'w angelion." Matt 25. 34, 41.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn, dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o osod o honom ein serchiadau ar y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw. 2. Yr angenrheidrwydd o ddyoddef yn amyneddgar er ei fwyn ef. 2 Bod dyrchafiad Crist yn wystl o ddyrchafiad y credadyn, ac o'i dderbyniad i wyddfod Duw. 4. Bod Duw wedi ei lwyr foddloni yn ngwaith Crist ar y ddaear. 5. Na's medd credinwyr achos i ofni un gwir niweid oddiwrth eu gelynion, gan fod yr Arglwydd Crist yn teyrnasu yn Sïon. 6. Y ffyna eglwys Crist yn y byd. 7. Y perygl o ddiystyru y meddwl am farn gyffredinol. 8. Yr angenrheidrwydd o fyfyrio ar y byd a ddaw. 9. Y mawr bwys o iawn ddefnyddio dydd gras. 10. Y bydd raid i ni oll ymddangos ger bron brawdle Crist. 11. Y gogoneddir perffeithiau Duw ger bron y byd trwy y farn ddiweddaf. 12. Dedwyddwch y cyfiawnion, a thrueni yr annuwiolion. 13. Yr angenrheidrwydd am sancteiddrwydd. 14. Y bydd i Grist ymddangos yn dra gogoneddus yn ngolwg yr holl rai y'i dirmygwyd ganddynt, cystal a'r sawl a gredasant ynddo.

ADRAN III.—AM GYMHWYSIAD Y PRYNEDIGAETH.

## *Y gweithredydd yn nghymwysiad y Prynedigaeth.*

HOL. 29. PA FODD Y'N GWNEIR YN GYFRANNOGION O'R IACHAWDWRIAETH A BWRCASWYD TRWY GRIST?

Fe'n gwneir yn gyfrannogion o'r iachawdwriaeth a bwrcaswyd trwy Grist, trwy gymhwysiad effeithiol o honi attom gan ei Ysbryd sanctaidd ef.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod iachawdwriaeth wedi ei phwrcasu trwy Grist i'w bobl. Heb. 9. 12. "Eithr trwy ei waed ei hun, a aeth unwaith i mewn i'r cyssegr, gan gael i ni dragywyddol ryddhâd." Gwel hefyd Eph. 1. 7.

2. Bod yn rhaid cymhwyso iachawdwriaeth at gredinwyr. Ioan 1. 12. "Ond cynifer ac a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r rhai a gredent yn ei enw ef."

3. Bod yr iachawdwriaeth yn cael ei chymhwyso yn effeithiol at gredinwyr, gan yr Ysbryd Glan. Tit. 3. 5. "Yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glan." Gwel hefyd Ezec. 36. 27.

### EGLURHAD.

Sylw 127.—*Mae iachawdwriaeth wedi ei phwrcasu trwy Grist i'w bobl.*

*Iachawdwriaeth*, neu *brynedigaeth*, yw gwaredigaeth trwy daliad. Mae yr iachawdwriaeth a bwrcaswyd gan Crist yn gynnwysedig o ddau beth:—1. Gwaredigaeth oddiwrth bob drwg,—oddiwrth bechod, y drwg mwyaf, ac oddiwrth ddigofaint tragywyddol, Matt. 1. 21; Rhuf. 6. 6, 7; 1 Thess, 1. 10. 2. Adferiad i bob daioni, neu i feddiant o'r holl ddaioni a'r bendithion a gollodd dyn trwy y cwymp, y rhai y gellir eu crynhoi oll mewn bywyd tragywyddol, a ddechreuir yn y byd hwn, ac a berffeithir mewn gogoniant.

*Pwrcaswr* yr iachawdwriaeth hon oedd Iesu Grist, yr Arglwydd o'r nef. Efe yn unig a gymmerth ein natur; efe yn unig a allasai brynu ein hetifeddiaeth ddirywiedig; ac efe yn unig a allasai yssigo pen yr hen sarph, sef y diafol, a rhoddi iddo glwyf marwol, yr hwn ni iacheir byth.

Y *pridwerth* a dalodd Crist fel pwrcas ein iachawdwriaeth, oedd *ei hunan*. Mae y pridwerth yn cynnwys yr hyn a wnaeth ac a ddyoddefodd efe dros bechaduriaid. Er mai gwir yw i Grist ein Gwaredwr roddi nerth anfeidrol ar waith, a gwaredu y rhai a garcharwyd yn gyfiawn; eto, y mae mor wir ei fod wedi talu iawn dros ei bobl, a'r iawn hwn oedd ef *ei hunan*, ei *einioes*, ei *waed*, 1 Tim. 2. 6; Marc 10. 45; 1 Pedr 1. 18.

Y rhai sydd a rhan iddynt yn yr iawn hwn yw y rhai oll a ddygwyd, neu a ddygir i undeb â Christ, trwy nerthol weithrediad ei Ysbryd Sanctaidd; credinwyr yn mhob oes a chenedl, i'r rhai y rhoddes, ac y rhydd Duw allu i fod yn feibion iddo ef, Ioan 1. 12.

Sylw 128.—*Rhaid cymhwyso yr iachawdwriaeth at y credinwyr.*

Cymhwyso yr iachawdwriaeth at bechaduriaid, ydyw eu gwneyd yn gyfrannogion ynddi, eu dwyn i feddiant o honi, ei gwneyd yn eiddo iddynt yn ei holl effeithiau a'i chanlyniadau, ac i bob dybenion i ba rai y'i pwrcaswyd, er heddwch a dyddanwch yn y byd hwn, a gogoniant yn yr hwn a ddaw.

Mae y cymhwysiad yma mor *angenrheidiol* fel na's gall neb feddu un lles cadwedigol drwyddi hyd oni's cymhwyser, Ioan 1. 12. Cyn y cymhwysiad hwn, mae yr etholedigion "yn blant digofaint," a'u pechodau heb eu maddeu, ac nid oes iddynt hawl weithredol o'r etifeddiaeth nefol. Fel na's gall meddyginiaeth adferu neb heb ei chymhwyso, felly rhaid i ddynion farw yn dragywydd oddieithr i iachawdwriaeth Crist gael ei chymhwyso attynt yn neillduol er eu hadferiad oddiwrth effeithiau y codwm.

Sylw 129.—*Cymhwysir yr iachawdwriaeth yn effeithiol at y credinwyr gan yr Ysbryd Glan.*

*Cymhwyswr* yr iachawdwriaeth a bwrcasodd Crist, yw yr *Ysbryd Glan*, Tit. 3. 5; Ioan 6. 63. "Yr Ysbryd sydd yn bywhau." Ni's gwna rhoddiad y Tad o Grist, na marwolaeth y Mab yn ein lle, ein hadferu i ffafr a delw Duw, os bydd gwaith yr Ysbryd yn ddiffygiol; ac y mae mor anmhosibl i'r pechadur ei chymhwyso atto ei hun, ag yw iddo dalu i Dduw iawn dros ei enaid.

Cysgodid y rhan yma o waith yr Ysbryd mewn modd nodedig dan y gyfraith, trwy daenelliad gwaed yr aberth ar y bobl. Gwel Exod. 24. 8.

Yn y gwaith hwn y mae yr Ysbryd Glan yn cael ei alw yr *Ysbryd Sanctaidd*, i ddangos mai megys y mae efe yn hanfodol sanctaidd, fod ei holl weithrediadau yr un modd yn sanctaidd; a bod ei waith wedi ei amcanu i ddybenion sanctaidd, sef adnewyddu yr holl ddyn, a'i wneuthur yn gydffurf â delw Duw, ac yn gymhwys i'w fwynhau ef.

Efe a elwir yma Ysbryd Sanctaidd *Crist*, oblegyd er ei fod yn Ysbryd y Tad, eto yn nghymhwysiad yr iachawdwriaeth y mae yn cael ei anfon yn fwy uniongyrchol gan Grist. Gwel Ioan 14. 16. a 16. 7.

Dywedir yma, fod y cymhwysiad yn *effeithiol*, i ddangos fod cymhwysiad o honi, yr hwn *nid yw yn effeithiol*, hyny yw, cymhwysiad allanol o honi, yn ordinhadau Crist, yr hwn nid yw o hono ei hun yn effeithiol. Mae hyn yn amlwg oddiwrth hanes Simon y Swynwr, yr hwn a fedyddiwyd; ond er hyny ni chymhwyswyd yr iachawdwriaeth trwy Grist atto yn

effeithiol; canys yr oedd er hyny "mewn bustl chwerwder, a rhwymedigaeth anwiredd." Act. 8. 23.

Y *personau* y cymhwysir yr iachawdwriaeth a bwrcasodd Crist attynt gan yr Ysbryd Glan, yw y rhai y'i pwrcaswyd erddynt, a hwy yn unig. Mae y cymhwysiad o'r iachawdwriaeth mor ehang a'r pwrcas o honi; ond nid dim yn ehangach, Eph. 1. 13.

Y *moddion* a ddefnyddia yr Ysbryd yn nghymhwysiad yr iachawdwriaeth, yw darllen a gwrandaw y gair; ond y mae pregethiad y gair yn fwyaf cyffredinol yn foddion effeithiol er gweithredu ar galon pechadur. Felly gwel 1 Cor. 3. 5.

CASGLIAAU.

Oddiwrth y testyn yma dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd am yr iachawdwriaeth a bwrcaswyd trwy Grist. 2. Dedwyddwch yr holl rai ydynt gyfrannogion o'r iachawdwriaeth hon; a thrueni yr holl rai nid oes iddynt gyfran ynddi. 3. Y ddyledswydd o hunan-ymholiad, fel y gwybyddom pa un a yw Crist yn Waredwr i ni;—pa un a ddygwyd ni o gaethiwed i ryddid gogoneddus plant Duw. 4. Yr angenrheidrwydd am waith yr Ysbryd ar yr enaid. 5. Dedwyddwch pawb sydd yn meddu Ysbryd Crist. 6. Perygl pawb a wrthodant Lân Ysbryd yr addewid, i'r hwn y mae yr enaid yn seiliedig hyd ddydd prynedigaeth.

## *Am y moddion a ddefnyddir er cymhwysiad yr iachawdwriaeth mewn galwedigaeth effeithiol.*

### HOL. 30. PA FODD Y MAE YR YSBRYD YN CYMHWYSO YR IACHAWDWRIAETH A BWRCASWYD GAN GRIST ATTOM NI?

Mae yr Ysbryd yn cymhwyso yr iachawdwriaeth a bwrcaswyd trwy Grist attom ni, trwy weithio ffydd ynom, ac felly ein huno â Christ yn ein galwedigaeth effeithiol.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod yr Ysbryd yn nghymhwysiad yr iachawdwriaeth at bobl Dduw, yn gweithio ffydd ynddynt. Eph. 2. 8. "Trwy ras yr ydych yn gadwedig, trwy ffydd, a hyny nid o honoch eich hunain, rhodd Duw ydyw.

2. Mai trwy ffydd yr unir credinwyr â Christ, Eph. 3. 17. "Ar fod Crist yn trigo trwy ffydd yn eich calonau."

3. Bod credinwyr yn cael eu huno â Christ yn eu galwedigaeth effeithiol, 1 Cor. 1. 9. "Ffyddlawn yw Duw, trwy yr hwn y'ch galwyd i gymdeithas ei Fab ef, Iesu Grist, ein Harglwydd ni."

EGLURHAD.

Sylw 130.—*Y mae Ysbryd Duw yn nghymhwysiad yr iachawdwriaeth at bechaduriaid yn gweithio ffydd ynddynt.*

Pan y mae yr Ysbryd yn cymhwyso yr iachawdwriaeth at y rhai y'i pwrcaswyd iddynt gan Grist, y mae efe yn gweithio *ffydd* ynddynt; am ba achos y'i gelwir *Ysbryd ffydd*, 2 Cor. 4. 13. Efe yn unig yw yr achos effeithiol o ffydd yn yr enaid, ag a weithredodd yn Nghrist, pan y'i cyfodwyd ef o feirw. Gwel Eph. 1. 19, &c.

Y ffordd yn yr hon y mae yr Ysbryd yn gweithredu ffydd yw hon:—Yn gyntaf y mae efe yn dyfod yn y gair, ac yn myned i galon y pechadur etholedig pan y mae yn farw mewn pechod; ac wedi ei ddyfod i fewn fel hyn, y mae yn ei bywhau trwy weithredu ffydd ynddi. Trwy y ffydd hon y mae yr enaid yn derbyn Crist, ac yn cael ei ddwyn i undeb gweithredol ag ef. Wedi i'r enaid gael ei fywhau, y mae yn gweithredu mewn credu. Gan hyny, y mae deuryw dderbyniad o Grist; y naill yn *oddefol*, yn yr hwn y mae Crist yn dyfod trwy ei Ysbryd i'r enaid marw mewn pechod, ac yn ei fywhau, ac yn uno ei hun ag ef; a'r llall yn *weithredol*, pan y mae yr enaid, wedi y gweithreder ffydd ynddo, yn gweithredol gredu yn Nghrist, a'i dderbyn, yn ei gofleidio, ac yn ymuno ag ef.

Sylw 131.—*Trwy ffydd y mae y credadyn yn cael ei uno â Christ.*

Bod y fath beth ag *undeb â Iesu Grist*, sydd amlwg oddi wrth y pethau canlynol:—

1. Defnyddiad llawer o ymadroddion yn yr Ysgrythyrau i ddangos hyny. Dywedir fod *Crist yn y credinwyr*, a chredinwyr *yn Nghrist Iesu;* yr hyn sydd megys yn perffeithio yr undeb; canys os ydyw Crist yn ei bobl, a hwythau ynddo ef, yna rhaid mai gwirionedd yw hyn, Col. 1. 27; 1 Cor. 1. 30. Dywedir hefyd fod *Crist yn aros yn ei bobl*, a hwythau *ynddo ef*, Ioan 6. 56; a 15 ben., yr hyn sydd yn dynodi gorphwysfa sefydlog; a dywedir hefyd fod ei bobl yn *un ysbryd* ag ef, ac wedi *gwisgo* Crist am danynt, 1 Cor. 6. 17; Gal. 3. 27.

2. Defnyddiad amryw gyffelybiaethau, fel y gallem ffurfio rhyw ddrychfeddwl am ei ogoniant. Mae amryfal undebau yn cael eu defnyddio yn yr Ysgrythyrau i'w egluro; rhai o ba rai ydynt yn tra rhagori ar yr undeb sydd rhwng Crist a

chredinwyr; ac eraill y tra rhagorir arnynt ynddo. Cymherir yr undeb hwn i'r *undeb priodasol* rhwng gwr a gwraig; —i'r undeb sydd yn bod rhwng y *sylfaen a'r oruwch-adeilad*— i'r undeb rhwng *gwreiddyn* pren a'i *ganghenau*;—i'r undeb rhwng y *pen* a'r *aelodau*;—i undeb ein *hymborth* a'n *corph*; ac am hyny y gelwir Crist *ein bywyd*;—ac i'r undeb rhwng *personau y Duwdod*, yr hyn oll sydd yn dangos fod yr undeb rhwng Crist a chredinwyr, yn fwy nag *undeb perthynasol*, neu undeb a gymer le yn y byd hwn yn amryfal gyssylltiadau bywyd.

3. Oddiwrth ein hundeb â'r Adda cyntaf. Pan y cwympodd ef o'i gyflwr o ddiniweidrwydd, fe gwympodd ei holl had gydag ef, gan ei fod ef yn ben cyfammodol iddynt, ac felly eu bod mewn undeb cyfammodol âg ef. Yr un modd, pan gyflawnodd yr Iesu bob cyfiawnder, yn lle ei bobl y gwnaeth efe hyny, fel y rhaid eu bod yn un mewn cyfammod â hwy, megys eu pen a'u priod.

Gyda golwg ar rwymedigaeth yr undeb hwn:—1. O du y credadyn, *ffydd* ydyw, yr hon a weithredir ynddo ef, nid trwy unrhyw allu o'r eiddo ei hun, ond trwy nerthol weithrediad Ysbryd Duw. 2. Ar du Crist, gair y Tad ydyw, yn sicrhau y cynnyrchir ffydd yn eneidiau y bobl; a sicrhad o'r Ysbryd hefyd, fel na chiliont oddiwrth Grist.

Sylw 132.—*Fe unir credinwyr â Christ yn yr alwedigaeth effeithiol.*

Mae yr undeb rhwng Crist a chredinwyr yn cael ei ffurfio yn nydd yr *alwedigaeth effeithiol*,—a elwir *galwedigaeth*, am fod gwaith yr Ysbryd yn golygu pawb yn mhell oddiwrth Dduw, fel y mae yn ddiau eu bod, tra yn eu cyflwr natur, neu heb eu huno â Christ; a *galwedigaeth effeithiol*, am fod gwaith yr Ysbryd yn uno yr enaid yn weithredol â Christ.

Sylw 133.—*Y mae yr undeb rhwng credinwyr a Christ yn wirioneddol, dirgelaidd, agos, ysbrydol, a thragywyddol.*

1. Mae yr undeb rhwng Crist a chredinwyr yn *wirioneddol*. Mae yn llawer mwy nag undeb perthynasol, neu y cyfryw undeb ag sydd yn cymeryd lle yn amryfal gyssylltiadau einioes, er ei fod yn cael ei gymharu i rai o'r rhai hyn. Gwel Eph. 5. 30; Ioan 14. 20; 1 Ioan 5. 12; Heb. 3. 14.

2. Mae yr undeb sydd rhwng Crist a chredinwyr yn undeb *dirgelaidd*. Gwel Eph. 5. 32; a Col. 1. 27, lle y rhoddir enw uwch iddo. Gwel hefyd 2 Cor. 6. 16; Gal. 2. 20; 1 Ioan 4. 16; Gal. 3. 27; Ioan 6. 56.

3. Mae yr undeb rhwng Crist a chredinwyr yn un *agos* iawn. Gwel Ioan 17. 21.

4. Mae yr undeb rhwng Crist a chredinwyr yn undeb *ysbrydol*, 1 Cor. 6. 17; Rhuf. 8. 9. Mae hyn yn eglur oddiwrth ei ganlyniadau; canys can gynted ag y cymero le, y mae yr enaid yn ymwneyd â phethau ysbrydol.

5. Mae yr undeb rhwng Crist a chredinwyr yn undeb *annattodol a thragywyddol*. Gwel Eph. 4. 13; Ioan 10. 28, 29; Rhuf. 8. 35, &c.; Esa. 54. 10.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn, dysgwn,—1. Dyledswydd credinwyr,—sef i roddi tystiolaeth trwy eu hymarweddiad i'r byd, eu bod yn Nghrist. 2. Y dylai pechaduriaid ymofyn am y cyfryw berthynas ddedwydd tra y gellir ei chael, a thra y mae Crist yn ngweinidogaeth yr efengyl yn barod i ddyfod i fewn, a gwneyd ei drigfa yn yr enaid am byth. 3. Yr angenrheidrwydd anhebgorol am ffydd er ffurfio yr undeb dirgeledig hwn. 4. Nad oes dim dedwyddwch i'w gystadlu â bod yn Nghrist. 5. Os ydym yn Nghrist, bod Duw wedi ei wneyd yn foddlon ynom. 6. Bod y credinwyr yn meddu ffynhonell anhysbyddawl o bob dyddanwch, o'r hon y gallant dynu yn ol eu hangen. 7. Fel y mae yr holl gredinwyr wedi eu cyssylltu â'r Arglwydd yn un ysbryd, dylent fyw yn nghyd yn rhwymau cariad brawdol. 8. Na bydd i gredinwyr gwympo yn hollol.

## *Am ddull a threfn cymhwysiad y Prynedigaeth mewn Galwedigaeth effeithiol.*

HOL. 31. PA BETH YW GALWEDIGAETH EFFEITHIOL?

Gwaith Ysbryd Duw yw galwedigaeth effeithiol, yn yr hwn, gan ein hargyhoeddi o'n pechod a'n trueni, goleuo ein meddyliau yn ngwybodaeth Crist; ac adnewyddu ein hewyllysiau.; y mae yn ein perswadio a'n galluogi i gofleidio Iesu Grist, yr hwn a gynnygir yn rhad i ni yn yr efengyl.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai gwaith yr Ysbryd Glan yw galwedigaeth effeithiol. Ioan 16. 14. "Efe a gymer o'r eiddof, ac a'i mynega i chwi." Gwel hefyd 2. Tim. 1. 9.

2. Bod yr Ysbryd yn yr alwedigaeth effeithiol yn argyhoeddi o bachod. Ioan 16. 8. "Efe a argyhoedda y byd o bechod."

3. Bod yr Ysbryd yn yr alwedigaeth effeithiol yn argyhoeddi o drueni. Act. 16. 29, 30. "Efe a ruthrodd i mewn, ac yn ddychrynedig efe a syrthiodd i lawr ger bron Paul a Silas;—ac a ddywedodd, O feistriaid, beth sydd raid i mi ei wneuthur fel y byddwyf gadwedig?" Gwel hefyd Rhuf. 7. 10. Act. 2. 37.

4. Bod y meddwl yn cael ei oleuo yn ngwybodaeth Crist yn yr alwedigaeth effeithiol. 1 Pedr 2. 9. "Yr hwn a'ch galwodd o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef." Gwel hefyd Eph. 1. 18; Phil. 3. 8.

5. Bod yr ewyllys yn cael ei adnewyddu yn yr alwedigaeth effeithiol. Exec. 36. 26. "A rhoddaf i chwi galon newydd, ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi."

6. Ein bod yn cael ein perswadio i gofleidio Iesu yn yr alwedigaeth effeithiol. Ioan 6. 44. "Ni ddichon neb ddyfod attaf fi, oddieithr i'r Tad, yr hwn a'm hanfonodd, ei dynu ef." Gwel hefyd Heb. 11. 13.

7. Ein bod yn yr alwedigaeth effeithiol yn cael ein galluogi i gofleidio Crist. Phil. 2. 13. "Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef." Gwel hefyd Ezec. 36. 27.

8. Bod Iesu Grist yn cael ei gynnyg yn rhad i bawb yn yr efengyl. Dat. 22. 17. "Yr hwn sydd yn ewyllysio, cymered o ddwfr y bywyd yn rhad." Gwel hefyd Esa. 55. 1.

### EGLURHAD.

Sylw 134.—*Gwaith Ysbryd Duw yw galwedigaeth effeithiol.*

Mae galwad yr efengyl o ddau fath:—

1. Galwad *allanol* y gair; wrth yr hon yr ydym i ddeall, y cynnygiad rhadlawn, di gyfyngu, a wneir o Grist yn yr efengyl i'w holl wrandawyr, heb arian ac heb werth, Esa. 55. 1. Mae yr alwad hon, pa mor wresog a thaer bynag y byddo, a pha fodd bynag y'i hamcanir er iachawdwriaeth y sawl y'i cyfeirir attynt, yn cael ei gwrthod gan y rhan fwyaf o wrandawyr yr efengyl.

2. Yr alwad *dufewnol,* yr hon hefyd sydd yn *effeithiol,* pan y mae yr Ysbryd Glan yn dilyn yr alwedigaeth allanol â nerth ac effeithioldeb ar yr enaid, er ei dragywyddol iachawdwriaeth, Ioan 5. 25.

Pe y gwrthddadleuid yn erbyn hyn, bod yn annghysson galw pawb i gofleidio Crist, pan na's *gallant,* a phan na's *galluogir hwy byth* i gredu ynddo a'i gofleidio; i hyn yr attebwn, meg-

ys y mae cynnygiad diderfyn yn cael ei wneuthur o Grist yn yr efengyl i bob dyn, pa beth bynag a all eu cyflwr a'u nodweddiad fod, felly y mae yn ddyledswydd ar weinidogion yr efengyl, y rhai ydynt yn hollol anadnabyddus o gynghorion Duw, i wahodd pawb a'u clywont i ddyfod atto ef. Mae yn wir nad oes neb o hono ei hun yn abl i dderbyn Crist, neu gredu ynddo; ond y mae yn wirionedd mor safadwy, â mwy galarus, na's *mynant* gredu ynddo ef. Gwel Ioan 5. 40.

Gelwir gwaith yr Ysbryd *galw*, am y tybir fod pawb wrth natur yn mhell oddiwrth Dduw, ac oddiwrth gyfiawner,—yn mhell oddiwrth yr Hwn yw rhan yr enaid; am fod yn ofynol cael llef Mab Duw, yn llafaru yn yr Ysgrythyrau, i ddwyn pechaduriaid i'w gofleidio megys y'i cynnygir yn yr efengyl. Gelwir galwedigaeth effeithiol yn *waith*, am nad yw yn cael ei berffeithio, neu ei orphen ar unwaith, ond ei fod yn cael ei gyflawni trwy amrywiol weithrediadau o eiddo Ysbryd Duw ar yr enaid, Eph. 1. 17, &c. Act. 2. 37, 38.

Bod gwaith yr Ysbryd mewn galwedigaeth effeithiol yn anhebgorol *angenrheidiol*, sydd amlwg oddiwrth gyflwr pechaduriaid wrth natur. Os ydynt wrth natur yn feirw, ni's gallant roddi bywyd ynddynt eu hunain ; os ydynt yn nghwsg yn eu pechodau, rhaid eu deffroi; os ydynt yn mhell, rhaid eu dwyn yn agos, os ydynt yn galed galon, rhaid tyneru eu calonau; os ydynt yn eu pechodau, rhaid eu hargyhoeddi o bechod; os ydyw eu deall wedi ei dywyllu, rhaid eu goleuo; os ydyw eu hewyllysiau wedi eu gwyrdroi, rhaid eu hunioni; os ydynt yn anewyllysgar i gofleidio Crist, rhaid eu gwneuthur yn ewyllysgar; os ydynt yn analluog i wneyd hyny, rhaid eu galluogi.

Sylw 135.—*Mae yr Ysbryd yn yr alwedigaeth effeithiol yn argyhoeddi o bechod a thrueni.*

Mae yn gwneuthur hyn pan y mae yn goleuo y meddwl i weled yn eglur, nes ei lwyr ddarbwyllo o euogrwydd pechod yn wreiddiol a gweithredol; ac yn ei ddwyn i deimlo arswyd y digofaint Dwyfol ofnadwy, a phoenau annherfynol uffern, y rhai yr haeddodd pechadur fod danynt o herwydd ei bechod, ac i'r hyn y mae ei anwiredd yn ei ddarostwng. Mae hyn yn archolli y gydwybod, ac yn llenwi y pechadur â phryder yn ngylch ei iachawdwriaeth, Ioan 16. 8; Act. 2. 37, a 16. 27.

Y *moddion* a ddefnyddia yr Ysbryd i argyhoeddi o bechod a thrueni, yw gair Duw; yn enwedig y *ddeddf*; "Canys trwy y ddeddf y mae adnabod pechod," Rhuf. 3. 20. Pan edrycho y pechadur ar orchymynion sanctaidd y gyfraith, efe a gen-

fydd euogrwydd pechod, a pha beth a haeddai, Rhuf. 7. 7; Gal. 3. 10.

Gellid sylwi yma, nad yw argyhoeddiad yn hollol yr un modd yn mhawb: ond bod yn anhebgorol angenrheidiol i bob pechadur gael ei argyhoeddi o bechod ei natur, ac o bechodau ei galon a'i fuchedd, ac hefyd o'i lwyr angen am Grist a'i iachawdwriaeth. Er hyny, y mae yn weddus i ni gofio fod y gradd yma o argyhoeddiad yn angenrheidiol, nid fel *ammod* o'n croesawiad at Grist, neu fel *cymhwysiad* i'n cyfaddasu i gredu ynddo; ond fel cymhellydd, i'n cyffroi i wneyd defnydd o'n rhagorfraint o rydd ddyfodfa atto ef, Hos. 14. 1.

Sylw 136.—*Mae yr Ysbryd pan yn galw yn effeithiol yn goleuo y meddwl yn ngwybodaeth Crist.*

Wedi argyhoeddi o bechod a thrueni, mae yr Ysbryd yn *goleuo y meddwl* neu y deall, *yn ngwybodaeth Crist*,—hyny yw, yn yr adnabyddiaeth o'i *berson*, o'i *swyddau* fel Cyfryngwr rhwng Duw a dyn; o'i *gyfiawnder*, fel Machnïydd y cyfammod; o *gyflawnder, digonolrwydd, effeithiolrwydd* a *chyfaddasrwydd* ei iawn; mewn gair, o'i *alluogrwydd* a'i *barodrwydd i achub* hyd yr eithaf. Am hyny y gelwir awdwr y goleuni dwyfol ac achubol yma, "Ysbryd doethineb a datguddiad yn adnabyddiaeth Crist." Eph. 1. 17.

Y *moddion* trwy yr hyn y mae yr Ysbryd yn goleuo y meddwl yn yr adnabyddiaeth o Grist, yw yr *efengyl*, sylwedd mawr yr hon yw Crist, Act. 26. 17, 18; Rhuf. 10. 14, 17.

Sylw 137.—*Mae yr Ysbryd yn yr alwedigaeth effeithiol, yn adnewyddu, neu unioni yr ewyllys.*

Mae y rhan hon o waith yr Ysbryd yn gynnwysedig mewn planu tueddfryd newydd, neu ogwydd at ddaioni, a chasineb sefydlog at yr hyn sydd bechadurus a ffiaidd ger bron Duw. Mae goleuni Dwyfol, ac ewyllys uniawnedig yn dilyn eu gilydd; canys mor fuan ac yr enfyn Duw wïalen ei nerth allan o Sïon, gwneir pobl ewyllysgar iddo yn nydd ei nerth anfeidrol, Ps. 110. 2, 3.

Ni's gellir amgyffred y ffordd yn mha un y gweithreda yr Ysbryd y gwaith hwn ar yr enaid; canys medd yr Arglwydd, "Mae y gwynt yn chwythu lle y myno, a thi a glywi ei sŵn ef, ond ni wyddost o ba le y mae yn dyfod, nac i ba le y mae yn myned; felly y mae pob un ar a aned o'r Ysbryd," Ioan 3. 8. Ond, nyni a allwn fod yn sicr y cynnyrchir yr effaith mewn ffordd gysson â natur resymol. Nid oes dim trais na gorfodaeth yn cael ei roddi ar yr ewyllys fel y'i hadnewyddder; canys pobl *ewyllysgar* a wneir yn nydd y nerth, pan anfoner nerth mawr Duw allan o Sïon.

Sylw 138.—*Yn yr alwedigaeth effeithiol y mae Ysbryd Duw yn ein perswadio a'n galluogi i gofleidio Crist Iesu, yr hwn a gynnygir yn rhad yn yr efengyl.*

Dyma yr effaith ddedwydd o waith yr Ysbryd ar y deall a'r ewyllys.

*Cofleidio* Iesu Grist yw ei dderbyn yn mreichiau eich ffydd, mor wirioneddol ag y'i cofleidid gan Simeon gynt, a chyd a'r cyfryw hyfrydwch hefyd—fel rhan yr enaid am byth, ac awdwr pob bendith ysbrydol a chadwedigol.

Yn addewidion yr *efengyl* y mae ffydd yn cofleidio Crist. Yno y mae efe, a holl fendithion y prynedigaeth, ydynt angenrheidiol er dyddanwch presenol, a gogoniant dyfodol, yn cael eu cynnyg heb arian ac heb werth; yr hyn yn ddiau a ddylai fod yn galondid i bechaduriaid ymaflyd ynddo a'i gofleidio, Ioan 3. 16; Esa. 45. 22; Dat. 22. 27; Ioan 7. 37.

Mae cynnygiad yr efengyl yn cael ei ddal allan i bawb fel pechaduriaid o hil Adda, canys pe na buasai felly, ni allesid galw yr efengyl gyda phriodoldeb, "newyddion da o lawenydd mawr i'r holl bobl." Luc 2. 10, 11. Ffydd yr efengyl, yw *crediniaeth* fod Iesu Grist a'i gyfiawnder, a'i holl iachawdwriaeth, yn cael ei chynnyg ganddo ei hunan i bechaduriaid, ac i bob un yn neillduol, Diar. 8. 4; Ioan 7. 37.

Nid oes un cymhwysder yn cael ei ofyn genym ni i'n cyfaddasu er meddu hawl i'r cynnygiad o'r iachawdwriaeth drwy Grist, yn yr efengyl, am nad oes un yn angenrheidiol. Gwahoddir pawb i ddyfod fel y maent, yn nghyd a'u holl bechodau; ac er fod Crist yn dywedyd, "Deuwch attaf fi bawb sydd yn *flinderog* ac yn *llwythog*, a mi a esmwythâf arnoch," nid yw hyny yn cyfyngu yr alwad, yn unig y mae yn rhoddi ar ddeall mai y rhai hyny yn unig a ddeuant atto ef. Ni's derbynia eraill ef yn y cynnygiad, nid am nad oes arnynt angen am dano, ond am eu bod yn eu dyeithrwch i'w hangen, yn barnu fod pob peth yn dda gyda hwy.

Ond er fod Crist yn cael ei gynnyg yn rhad i bawb yn yr efengyl; eto nid oes neb yn meddu *tuedd naturiol* i'w gofleidio yn ol y cynnygiad. Rhaid i Ysbryd yr Arglwydd *berswadio* y pechadur i dderbyn Crist, ac y mae e yn gwneuthur hyny, ar un llaw, pan y mae yn dangos y dyn iddo ei hunan, yn andwyol am byth oni chydsynia; ac ar y llaw arall, pan y dengys Grist yn alluog ac ewyllysgar i'w achub ef, ac y bydd efe yn berffaith ddedwydd trwy ei gydsyniad â'r alwad.

Trachefn, onid oes gan ddyn duedd naturiol, mae yn ddiau na's gall fod ganddo *allu* i gredu yn Nghrist er iachawdwriaeth yr enaid. Mae yr Ysbryd yn angenrheidiol anhebgorol

i'w *alluogi* i dderbyn Crist, Eph. 1. 19, 20; Ioan 6. 44. Gelwir yr Ysbryd, yn 2 Cor. 4. 13; "Ysbryd ffydd;" ond ni byddai un angen am yr Ysbryd fel Ysbryd ffydd, pe y gallai y pechadur gredu o hono ei hun, Eph. 2. 8; Phil. 1. 29. Mae holl waith y prynedigaeth, o'r cychwyniad i'w pherffeithiad i'w ystyried yn waith Duw, fel y byddo yr holl ogoniant i Grist.

Os gofynir yma, a all dyn yn ei gyflwr anianol wneyd dim da, nyni a attebwn na's gall efe wneyd dim *da ysbrydol*, ond, efe a all ewyllysio a gweithredu llawer o bethau *da sylweddol*. Efe a all ddarllen a gwrando y Gair; efe a all weddïo a myfyrio ar yr Ysgrythyrau; efe a all ddiwygio ei ymddygiad allanol; ond efe a all wneyd hyn oll heb brofi gallu Duw ar ei enaid, yn peri iddo ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da, mewn dull ysbrydol a chymeradwy.

Pe y gallai dyn o hono ei hunan wneyd unrhyw beth ysbrydol dda, fe ddylynai y pethau canlynol;—1. Na byddai i'r saint ddianrhydeddu Duw mor fynych ag y mae y gorau o honynt yn gwneyd yn aml. 2. Na byddai un angenrheidrwydd am Ysbryd Duw, pe meddai dyn ewyllys sanctaidd o'r eiddo ei hun. 3. Y byddai nifer y rhai a roddent dderbyniad cadwedigol i Grist yn llawer mwy nag ydyw. 4. Na byddai y byd fel y mae yn llawn o bob rhyw ddrygioni.

Sylw 139.—*Fel y mae y "pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan" yn gyssylltiedig mewn modd arbenig a'i waith yn galw yn effeithiol, nyni a roddwn y darluniad hyn o hono.*

Gwrthodiad digywilydd, maleisus, a chyndyn, o'r Arglwydd Iesu Grist, a'r iachawdwriaeth, neu o wirionedd yr efengyl, yw y pechod hwn;—cabledd maleisus ar yr Ysbryd Glan, trwy yr hwn y llafarai ac y gweithredai Crist, er argyhoeddiad o wirionedd y pethau hyn trwy weithrediadau yr Ysbryd Glan; a hyn oll yn cael ei wneuthur yn wirfoddol, ac yn eithaf pwyllog. Cymh. Matt. 12. 31, &c.; Marc 3. 22, &c.; Heb. 6. 4, &c.; a 10. 26, &c.

Gellir darlunio nodweddiad y cyfryw bechadur anobeithiol yn y modd canlynol ar fyr eiriau:—Y mae yn un sydd yn ymgyndynu yn erbyn Duw; yn un sydd yn gyndyn a maleisus yn gwrthod ffordd yr iachawdwriaeth trwy yr Arglwydd Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio, un sydd yn diystyru y meddwl am dynu unrhyw obaith, neu fudd o angau Mab Duw, ac yn cablu Ysbryd y Goruchaf yn ei ddylanwadau a'i weithrediadau; a hyn oll wedi ei argyhoeddi o wirionedd y pethau hyn, a theimlo eu grym i ryw raddau.

Dywedir fod y pechod yn erbyn yr Ysbryd Glan yn *anfadd-*

*euol;* nid o herwydd fod unrhyw ddiffyg o rinwedd neu effeithiolrwydd yn ngwaed Crist; canys y mae efe yn alluog i achub hyd yr eithaf, y sawl sydd drwyddo ef yn dyfod at Dduw; ond, am fod y pechod yma yn ei natur yn cau allan yr hyn sydd o angenrheidrwydd yn gyssylltiedig âg iachawdwriaeth, sef ffydd ag edifeirwch, Luc 13. 3. Heb edifeirwch ni's gall fod ffydd; a heb ffydd, ni's gall fod edifeirwch, Heb. 10. 26, 27.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn yma, dysgwn,—1. Ddedwyddwch yr holl rai a elwir yn effeithiol gan yr Ysbryd Glan. 2. Trueni yr holl rai nid ydynt yn meddu Ysbryd Duw. 3. Oferedd y dŷb y gallwn ni ein hachub ein hunain. 4. Perygl y rhai oll ydynt yn gwrandaw yr efengyl yn ofer. 5. Yr angenrheidrwydd o ffydd i dderbyn Crist. 6. Dedwyddwch y rhai oll ydynt eisoes wedi ei dderbyn ef. 7. Mai i ni y mae Crist yn cael ei gynnyg. 8. Na all neb eu darbwyllo eu hunain i dderbyn Crist yn ol cynnygiad yr efengyl. 9. Yr angenrheidrwydd am yr Ysbryd i'n perswadio a'n galluogi i'w dderbyn ef. 10. Yr angenrheidrwydd am ddyfod o honom yn ddyledwyr i râd râs Duw yn Nghrist Iesu. 11. Yr angenrheidrwydd am waith yr Ysbryd i'n hargyhoeddi o'n pechod a'n trueni. 12. Yr angenrheidrwydd o roddi dwys ystyriaeth i natur ein argyhoeddiadau. 13. Perygl y rhai oll ydynt yn mygu yr argyhoeddiadau a weithredir ynddynt. 14. Yr angenrheidrwydd am gael ein goleuo gan Ysbryd Duw. 15. Yr angenrheidrwydd am adnewyddiad yr ewyllys, heb yr hyn ni's gall fod un ufudd-dod yn gymeradwy. 16. Yr angenrheidrwydd o gredu yn yr Ysbryd Glan, a'i dderbyn ef yn ei holl ddylanwadau a'i weithrediadau, ac o ymddibynu yn barhaus arno ef.

ADRAN IV.—AM DDONIAU Y PRYNEDIGAETH.

## *Doniau y Prynedigaeth yn y fuchedd hon.*

HOL. 32. PA DDONIAU Y MAE Y RHAI A ELWIR YN EFFEITHIOL YN CAEL EU GWNEYD YN GYFRANNOG O HONYNT YN Y FUCHEDD HON?

Mae y rhai elwir yn effeithiol yn cael eu dwyn yn y fuchedd hon i gyfrannogi o gyfiawnhâd, mabwysiad, a sancteiddhâd, a'r amrywiol ddoniau ydynt yn eu dilyn, neu yn deillio o honynt, yn y fuchedd hon.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod y rhai a elwir yn effeithiol yn cael eu gwneyd yn gyfrannog o'r cyfiawnhad. Rhuf. 8. 30. "A'r rhai a alwodd efe, y rhai hyny hefyd a gyfiawnhaodd efe."

2. Bod y rhai a elwir yn effeithiol yn cael eu gwneyd yn gyfrannog o fabwysiad. Rhuf. 1. 15. "Eithr derbyniasoch ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydych yn llefain Abba Dad." Gwel hefyd 2 Cor. 6. 17, 18.

3. Bod y rhai elwir yn effeithiol yn cyfrannogi o sancteiddhad. 1 Thess. 4. 7. "Duw a'n galwodd ni i sancteiddrwydd." Gwel hefyd Heb. 10. 10.

4. Bod y rhai a elwir yn effeithiol yn cyfrannogi o'r holl ddoniau ydynt yn y fuchedd hon yn dilyn, neu yn deillio o gyfiawnhad, mabwysiad, a sancteiddhad. I Cor. 3. 22. "Mae pob peth yn eiddoch chwi." Gwel hefyd 1 Pedr 1. 3.

### EGLURHAD.

Sylw 140.—*Mae yr holl gredinwyr yn y fuchedd hon yn cyfrannogi o gyfiawnhad, mabwysiad, a sancteiddiad, ac o'r holl fendithion sydd yn eu dilyn, neu yn deillio o honynt.*

Y tair prif fendith, o'r rhai y gwneir y rhai a elwir yn effeithiol yn gyfrannog yn y fuchedd hon, ydynt y rhai canlynol:—

1. Cyfiawnhad, neu waredigaeth oddiwrth ddedfryd gollfarnol y gyfraith.

2. Mabwysiad, neu drosglwyddiad pechaduriaid o deulu Adda i deulu Duw.

3. Sancteiddhad, neu waredigaeth oddiwrth allu pechod.

Ni's gellir ysgaru y bendithion hyn. Er ein bod ni ar gyfrif ein galluoedd byrion a chyfyng, dan angenrheidrwydd i'w golygu ar wahan; eto, rhaid i ni gofio eu bod mewn gwirionedd, yn dyfod yn eiddo y credadyn ar unwaith; canys pan y'i gelwir efe a gyfiawnheir,—hyny yw, efe a ddygir oddi tan felldith deddf doredig i gyfrannogi yn nghyfiawnder Crist; fe'i mabwysiedir,—hyny yw, efe a ddygir o deulu diafol, i deulu Duw; ac efe a sancteiddir,—hyny yw, fe ddechreuir gwaith yr Ysbryd yn yr enaid, yr hwn a berffeithir yn angau.

Mae y credinwyr yn cael eu gwneyd yn gyfrannog o'r bendithion hyn *yn y fuchedd hon.* Yr hyn a welir yn amlwg oddiwrth Rhuf. 8. 30. Bod yn rhaid galw pechaduriaid mewn amser, ni's gellir ei wadu; canys ni ellir galw neb heb yr efengyl, yr hon yw y moddion a appwyntiwyd i gynnyrchu yr effaith yma.

Y mae credinwyr yn y fuchedd hon hefyd, yn cyfrannogi o'r llesion hyny sydd yn dilyn, neu yn deillio o gyfiawnhad, mabwysiad, a sancteiddhad. Rhai o'r cyfryw ydynt a ganlyn:—1. Heddwch a Duw, Rhuf. 5. 1.—2. Rhydd ddyfodfa at Dduw bob amser, fel plant at eu tad.—3. Cerydd tadol, Heb. 12. 6, 7.—4. Hawl i anfarwoldeb.—5. Marwolaeth ddedwydd, Ps. 23. 4.

Sylw 141.—*Mae cyfiawnhad a sancteiddhad yn gwahaniaethu ar amryw gyfrifon.*

Gwahaniaethant—

1. Yn eu *natur*. Mae cyfiawnhad yn cyfnewid ein cyflwr ger bron Duw; a sancteiddhad yn cyfnewid y galon a'r fuchedd;—y naill yn golygu Duw fel barnwr; y llall yn ei olygu fel tad a chyfaill.

2. Yn eu *trefn*. Mae cyfiawnhad yn rhagflaenu sancteiddhad, yr hyn sydd yn ffrwyth a phrawf o gyfiawnhad.

3. Yn eu *defnydd*. Cyfiawnder Crist yw defnydd ein cyfiawnhad; ond gras Duw wedi ei blanu ynom yw defnydd ein sancteiddhad.

4. Yn eu *priodoliaethau*. Cyfiawnhad sydd weithred a gyflawnir ar unwaith; ond sancteiddhad sydd waith a ddygir yn mlaen yn raddol, ac ni's perffeithir hyd angau.

5. Yn eu *deiliaid*. Cyfiawnder cyfiawnhaol sydd *yn* Nghrist, ac *arnom* ninnau fel mantell; ond sancteiddhad sydd *oddiwrth* Grist, ac *ynom* ni, fel natur newydd.

6. Yn eu *gwrthddrychau* a'u *ehangder*. Mae cyfiawnhad yn golygu ein personau, ac yn perthynu yn arbenig i'n cydwybodau; ond y mae sancteiddhad yn golygu yr holl ddyn; canys rhaid yw adnewyddu yr holl ddyn.

7. Yn eu *rhanau cyfansawdd*. Yn y cyfiawnhad, y mae cariad Duw a chyfiawnder Crist, yn cael eu hamlygu i ni; yn y sancteiddhad y mae ein cariad ni at Dduw, a santeiddrwydd buchedd yn ymddangos, neu yn cael eu profi.

8. Yn eu *prawf*, neu eu *hamlygrwydd*. Mae cyfiawnhad yn weithred guddiedig; ond sancteiddhad sydd brawf o'n cyfiawnhad, ac a all fod yn eglur i bawb.

9. Yn eu *perthynas â phechod*. Mae cyfiawnhad yn symmud euogrwydd pechod; ond sancteiddhad a symmuda ei allu a'i halogrwydd.

10. Yn eu *perthynas a chyfraith Duw*. Mae cyfiawnhad yn gwaredu oddiwrth y gyfraith fel cyfammod; ac y mae sancteiddhad yn adnewyddu delw Duw, ac yn ein dwyn i gydffurfio â'r ddeddf fel rheol bywyd.

11. Yn eu *perthynas a Duw*. Mae cyfiawnhad yn ein gwar-

edu oddiwrth ei ddigofaint, ac yn ein hadferu i'w ffafr; a santeiddhad yn ein cydffurfio a'i ddelw ef.

12. Yn eu *perthynas a swyddau Crist.* Mae cyfiawnhad yn seiliedig mewn modd arbenig ar ei offeiriadaeth, a'i waith yn y swydd hono; ond sancteiddhad sydd yn deillio yn uniongyrchol oddiwrth ei swyddi fel prophwyd a brenin.

13. Yn eu *defnyddioldeb* i bobl yr Arglwydd. Mae cyfiawnhad yn ein rhyddhau oddiwrth bob rhwymedigaeth i bob cosbedigaeth gyfreithiol, ac yn ein dwyn i hawl o happusrwydd y nefoedd; a sancteiddhad yn ein rhyddhau oddiwrth arglwyddiaeth pob chwant, ac yn ein parottoi i fwynhau Duw yn y nefoedd.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn dysgwn,—1. Mor ryfedd yw doethineb Duw yn nhrefn iachawdwriaeth. 2. Yr angenrheidrwydd o gael ffafr Duw yn y doniau a grybwyllwyd. 3. Y perygl o fod heb ein gwneyd yn gyfrannogion o honynt; canys os felly, y mae yn rhaid fod Duw yn elyn i ni, ac ni's gallwn feddu gobaith yn angau. 4. Os meddwn ni Dduw, fel ein cyfiawnhawr, ein mabwysiadwr, a'n sancteiddydd, nyni a feddwn bob peth, 1 Cor. 3. 21—23. 5. Yr angenrheidrwydd o wneyd yn fawr o'n breintiau. 6. Mai trwy sancteiddhad y gallwn ni ddyfod i'r profiad dyddanus, o'n bod ni wedi ein cyfiawnhau a'n mabwysiadu. 7. Bod ar bawb o honom eisiau y bendithion crybwylledig. 8. Trueni pawb nad ydynt yn gyfrannogion o honynt. 9. Mai y gogoniant cyflawn hwnw, yr hwn yw perffeithrwydd holl fendithion y prynedigaeth, a fydd rhan pob credadyn am byth.

## *Doniau y Prynedigaeth:—1. Am Gyfiawnhad.*

### HOL. 33. BETH YW CYFIAWNHAD?

Gweithred o ras Duw, trwy yr hon y mae efe yn maddeu ein holl bechodau, ac yn ein derbyn yn gyfiawn yn ei olwg, yn unig oblegyd cyfiawnder Crist, a gyfrifir i ni, ac a dderbynir trwy ffydd yn unig.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai gweithred o rad ras Duw yw cyfiawnhad. Rhuf. 3. 24. "Wedi eu cyfiawnhau yn rhad, trwy ei ras ef."

2. Bod ein holl bechodau yn cael eu maddeu yn y cyfiawnhad. Ps. 103. 3. "Yr hwn sydd yn maddeu dy holl anwireddau.

3. Bod Cyfiawnder perffaith Crist yn cael ei gyfrif i'r credadyn yn y cyfiawnhad. 2 Cor. 5. 21. "Canys yr Hwn nid adnabu bechod a wnaeth efe yn bechod drosom ni, fel y gwnelid ni yn gyfiawnder Duw ynddo ef."

4. Mai trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist yn unig y mae y credadyn yn cael ei dderbyn fel un cyfiawn gan Dduw. Rhuf. 5. 19. "Oblegyd, megys trwy anufudd-dod un dyn y gwnaethpwyd llawer yn bechaduriaid; felly trwy ufudd-dod un y gwneir llawer yn gyfiawn."

5. Fod y ddawn o gyfiawnhad cyfrifol Crist yn cael ei derbyn gan ffydd yn unig. Rhuf. 3. 22. "Cyfiawnder Duw, yr hwn sydd trwy ffydd Iesu Grist, i bawb ac ar bawb a gredant." Gwel hefyd Gal. 2. 16.

EGLURHAD.

Sylw 142.—*Gweithred o ras Duw yw cyfiawnhad.*

Mae *cyfiawnhau* yn arwyddocau *cyhoeddi yn gyfiawn*, yn hytrach na *gwneuthur yn gyfiawn*. Yn Rhuf. 8. 33, 34, cyferbynir *cyfiawnhad* â *damnio*, ac y mae yn amlwg nad yw *damnedigaeth* yn gwneyd un yn ddrygionus, ond yn unig, *cyhoeddiad* ydyw o'r ddedfryd gyfiawn arno, fel troseddwr o'r ddeddf: felly hefyd, nid yw cyfiawnhad yn trosglwyddo cyfiawnder i un, ond yn unig y mae yn *gyhoeddiad* o hono yn gyfiawn, mewn canlyniad i brawf.

Yr hwn sydd yn cyfiawnhau pechaduriaid yw Duw, o'i ystyried yn hanfodol—Duw Dad, Mab, ac Ysbryd Glan. O ran cydsyniad âg awdurdod, y mae y tri pherson yn cyduno yn y weithred o gyfiawnhad; ond y mae rhanau yn cael eu dwyn ymlaen ganddynt, y rhai a berthynant yn fwy uniongyrchol i bob un o honynt. 1. Duw o'i ystyried yn hanfodol yn mherson y Tad, sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol a gredo yn yr Iesu. Perthyna iddo ef yn y golygiad yma, oblegyd mai efe biau maddeu. 2. Mae ein Harglwydd Iesu Grist yn cyfiawnhau, yn gymmaint a bod pob barn wedi ei chyflwyno iddo ef; yn gymmaint a'i fod ef wedi ei ddyrchafu yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i roddi edifeirwch a maddeuant pechodau; ac yn gymmaint ag mai ei gyfiawnder ef yw yr unig achos haeddiannol o'n cyfiawnhad, gan gau allan bob gweithredoedd a gyflawnid cyn, neu gwedi dygiad y gwrthddrychau i gyflwr cyfiawnhaol. 3. Y mae yr Ysbryd Glan yn cyfiawnhau, yn gymmaint a'i fod yn cymhwyso y prynedigaeth drwy Grist.

Yr hyn sydd yn cymhell Duw i gyfiawnhau pechadur yw ei *rad ras* ei hunan. Gelwir cyfiawnhad yn *weithred*, am mai

dedfryd Barnwr ydyw, yn cael ei chyflawni ar unwaith, ac nid eu dwyn ymlaen yn raddol; ac fe'i gelwir yn *weithred o rad ras Duw*, am nad oes dim yn y pechadur i beri iddo ei gyfiawnhau,—dim i deilyngu y ffafr leiaf oddiwrtho, Eph. 2. 8, 9. Ni's gall ffydd, edifeirwch, a gweithredoedd da feddu un teilyngdod ger bron Duw o ran cyfiawnhad; canys doniau ydynt oll; ac ni all un rad rodd fod yn achos i Dduw roddi un arall; am hyny rhaid i ni olygu y weithred hon o eiddo Duw yn *berffaith rydd.*

Gan mai i'r etholedigion yn unig y mae cyfiawnhad yn perthyn, oblegyd mai hwynt-hwy yn unig a gynnrychiolai Crsit yn y cyfammod newydd, felly arfaethai Duw *o dragywyddoldeb* eu cyfiawnhau hwy mewn *amser*, oblegyd ei fod wedi eu rhoddi i Grist er tragywyddoldeb i'w prynu oddiwrth ddigofaint. Ond ni allasai eu bod wedi eu cyfiawnhau o dragywyddoldeb mewn modd yn y byd ond *yn arfaethol*; oblegyd nad oes neb yn cael eu cyfiawnhau hyd oni elwir hwynt; ac y mae yr holl rai a gyfiawnheir, wrth naturiaeth yn blant digofaint megys eraill, Rhuf. 8. 30; Gal. 3. 8.

Mae yr addewid o gymhwyso Crist yn weithredol at yr etholedig mewn iawn bryd, yn cael ei chyflawni *ddwy ffordd:* naill ai trwy anfon yr efengyl attynt hwy, neu drwy drefnu eu coelbren, neu beri iddynt ddyfod, lle y'i pregethir; ac fe wneir hyn ar y pryd addawedig, a chymer le yn ol ewyllys da yr Arglwydd.

Sylw 143.—*Yn y cyfiawnhad, y mae cyfiawnder perffaith Crist yn cael ei gyfrif i'r credadyn.*

Wrth *gyfiawnder* Crist yr ydym i ddeall ei *ufudd-dod*, yr hwn yn gyffredin a ddosperthir yn *weithredol* a *goddefol.* Wrth ufudd-dod *gweithredol* Crist yr ydym i ddeall, sancteiddrwydd ei fywyd, a'i gydffurfiad perffaith â holl gyfraith Duw, mewn meddwl, gair, a gweithred, heb fod yn ddiffygiol mewn rhyw na gradd; ac wrth ei ufudd-dod *goddefol*, yr ydym i ddeall ei ymostyngiad dan felldith y ddeddf, yn ei iawn dros gamwedd, a'i waith yn myned dan yr holl ddigofaint oedd ddyledus i'w bobl am eu gwrthryfel yn erbyn Duw, a'r dianrhydedd a roisid arno drwy hyny. Gwel Jer. 23. 6; 1 Cor. 1. 30; 2 Cor. 4. 21.

Mae y cyfiawnder yma o'r eiddo Crist yn cael ei *gyfrif* i gredinwyr yn y cyfiawnhad;—hyny yw, y mae yn cael ei olygu yn eiddo iddynt mewn cyfraith; neu, y mae eu personau ar ei gyfrif, yn cael ei golygu yn gyfiawn ger bron Duw, fel pe buasent hwy wedi cyflawni y gyfraith eu hunain, ac na phechasent. Gwel Rhuf. 5. 18; a 3. 10, 20. Eph. 2. 9. Gal. 2. 16. Phil. 3. 9.

Sylw 144.—*Yn y cyfiawnhad, y mae holl bechodau y credinwyr yn cael eu madden.*

*Maddeuant* pechod yw rhyddhad oddiwrth *euogrwydd* trwy ddedryd Duw, trwy gyfiawnder cyfrifol ei Fab ef; ac er fod yn perthyn i bechod ei *rym* cystal a'i euogrwydd, eto, a llafaru yn brïodol, yn yr adenedigaeth y symmudir hwn,—y mae *halogrwydd* pechod yn cael ei symmud yn ngwaith graddol y sancteiddhad, a *grym preswyliedig* pechod yn cael ei symmud yn y gogoneddiad.

Yn y cyfiawnhad, mae Duw yn maddeu *ein holl bechodau.* Maddeuir pechodau a aethant heibio, ac ni chyfrifir y rhai a fyddant; fel na all y pechadur a gafodd faddeuant, ddyfod i farn; canys os maddeuwyd iddo y mae efe yn Nghrist Iesu, ac "Nid oes dim damnedigaeth i'r rhai sydd yn Nghrist Iesu." Rhuf. 8. 1.

Gallem sylwi yma, nad yw edifeirwch yn un ammod maddeuant: mae edifeirwch yn angenrheidiol anhebgorol; ac ni wiw i un pechadur ddysgwyl maddeuant hebddo, Luc 13. 3, 5. Ond, nid yw yn ammod maddeuant; canys pe felly, dygid gweithredoedd da, fel y defnydd, neu yr achos haeddiannol o'n cyfiawnhad ger bron Duw, yr hyn sydd wrthwyneb i'r Ysgrythyr. Gal. 2. 16. Rhuf. 3. 20—28.

Sylw 145.—*Yn y cyfiawnhad mae y credadyn yn cael ei dderbyn gan Dduw fel un cyfiawn, yn unig trwy gyfrifiad o gyfiawnder Crist.*

Rhaid fod *cymmeradwyaeth pechadur fel un cyfiawn ger bron Duw*, o ran trefn yn dilyn maddeuant pechod; canys hyd oni byddo dedryd deddf doredig wedi ei dirymu trwy faddeuant, y mae yn anmhossibl i berson y pechadur fod yn gyfiawn ger bron Duw, ac ni's gellir cyfranu un o fendithion y cyfammod newydd iddo.

Y mae *maddeuant* a *chymeradwyaeth* yn cael eu cyssylltu yma, oblegyd fod y rhai oll y maddeuir iddynt, yn cael eu cyfrif yn gyfiawn ger bron Duw. Mewn llysoedd daiarol, pan y maddeuir i droseddwr, fe ddichon na chyhoeddir mo hono yn gyfiawn; o leiaf na dderbynir mo hono i ffafr. Ond, nid felly y mae gyda Duw; canys y mae y rhai oll a gyfrifir yn gyfiawn, yn gymeradwy ger ei fron ef, ac yn cael eu derbyn i'r cyfeillgarwch agosaf âg ef.

Wrth *gymmeradwyaeth* pechadur, nid ydym i ddeall ei gymmeradwyaeth *ar gyfrif ei weithredoedd*, ond cymmeradwyaeth ei berson *trwy gyfiawnder Crist*, wedi ei gyfrif iddo, a'i dderbyn o'i du yntau "drwy ffydd yn unig." Ond, rhaid

i ni wylied hefyd yn erbyn y dyb mai o herwydd unrhyw deilyngdod mewn credu y mae y pechadur yn dyfod yn gyfrannog yn nghyfiawnder Crist. Byddai hyny yn llwybr annghysson â'r hyn a ddywedir gan yr apostol yn Rhuf. 4. 1—6. Meddem ryw beth i ymorfoleddu ynddo yn hyn. Nid yw ffydd namyn y ffordd osodedig gan Dduw, yn yr hon yr ydym yn dyfod i berthynas a'r Arglwydd Iesu Grist, ac i gyfranogi yn bersonol o deilyngdod ei iawn ef.

Sylw 146.—*Trwy ffydd yn uniy y derbynir y ddawn o gyfiawnder cyfrifol Crist.*

*Trwy ffydd yn unig* y mae y pechadur yn derbyn Crist a'i gyfiawnder fel rhad rodd Duw; ac am hyny y dywedir ein bod yn cael *ein cyfiawnhau trwy ffydd*. Rhuf. 5. 1. Gweler y rhanau canlynol o'r Ysgrythyr, lle y cyfarfyddir ag amrywiol ymadroddion, y rhai a brofant yn eglur mai *trwy ffydd* y mae cyfiawnhad; neu, mai trwy ffydd y derbynir cyfiawnder cyfrifol Crist trwy yr hwn y cyfiawnheir pechadur. Rhuf. 3. 22, 28; a 5. 1; Heb. 11. 7; Phil. 3. 9; Gal. 2. 16. Ond nid oes un o honynt yn rhoddi ar ddeall fod y pechadur yn cael ei gyfiawnhau *ar gyfrif ei ffydd*. Nid y *derbyniad* o gyfiawnder Crist, ond *y cyfiawnder* ei hunan, sydd yn cyfiawnhau pechadur, yr un modd ag y gellir dywedyd nad y llaw ond yr hyn a dderbynir â'r llaw sydd yn meithrin dyn.

Ond, fe ddywedir hefyd fod y pechadur yn cael ei gyfiawnhau *trwy ras*, *trwy waed Crist*, a *thrwy weithredoedd*.

1. Fe ddywedir ei fod yn cael ei gyfiawnhau *trwy ras*. (Rhuf. 3. 24), oblegyd fod gras yn dilyn pob cam o iachawdwriaeth. Gras a ddarparodd yr aberth ac a welodd yn dda dderbyn iawn Crist. Gras sydd yn cymhwyso yr iachawdwriaeth at y pechadur. Gras sydd yn maddeu camwedd a pechod; canys er ei fwyn ei hun, ac er mwyn ei enw y mae Duw yn maddeu anwiredd. Ps. 25. 11. A gras sydd yn galluogi y credadyn i ddal hyd y diwedd, a bod yn ffyddlawn hyd angau.

2. Fe ddywedir ei fod yn cyfiawnhau *trwy waed Crist*, Rhuf. 5. 9; oblegyd mai tywalltiad ei waed oedd y weithred olaf o'i ufudd-dod. Ond, nid yw hyn yn cau allan y rhanau eraill o'i ufudd-dod gweithredol a dyoddefol. Lef. 17. 11; Heb. 9. 22.

3. Fe ddywedir ei fod yn cyfiawnhau *trwy weithredoedd* ac nid trwy ffydd yn unig. Iago 2. 24. Ond rhaid deall hyn am y prawf o wirionedd ein ffydd, trwy y gweithredoedd hyny mewn sancteiddhad sydd yn deillio o ffydd. Mae gwir

ffydd, a gwir sancteiddrwydd, yn sicr o'u hamlygu eu hunain trwy weithredoedd da, mor naturiol ag y dwg pren da ffrwyth da.

Pe gallasai unrhyw weithredoedd neu ddyoddefiadau dynol ennill iachawdwriaeth, y mae yn amlwg y buasai Duw yn arbed ei Fab, ac y buasai y Mab yn ei arbed ei hunan oddiwrth waith y prynedigaeth. Ië, pe y gallesid trwy unrhyw radd o gymhorth, pa mor fawr bynag, ein galluogi i'n hachub ein hunain, y mae yn hawdd casglu oddiwrth nodweddiad Duw, a holl ansawdd ei lywodraeth, y buasai efe yn ein galluogi i wneuthur hyny, yn lle anfon ei Fab i'w wneuthur. Ond, gan iddo ei anfon ef mewn agwedd gwas, ac yn y swydd o fachnïydd; y mae yn eithaf ynfydrwydd meddwl y gall iachawdwriaeth fod yn ddyledus i unrhyw achos ond ei iawn ef.

Gan hyny, y mae yr holl ffyrdd hyn yn eithaf cyson: nid ydynt yn arwyddo un gwrth-darawiad. Gras yw yr achos cynhyrfiol; ffydd yw y llaw sydd yn derbyn cyfiawnder Crist; gwaed Crist sydd yn cyfiawnhau; oblegyd heb ollwng gwaed nid oes maddeuant; a gweithredoedd a gyfiawnhant, yn unig fel y maent yn brawfion o wirionedd ein ffydd; fel y maent yn dangos i ni ein hunain, ac i'n brodyr, nad ffydd farw sydd genym. Gan hyny, y mae yr holl ffyrdd amrywiol hyn yn arwyddocau y naill y llall; a chan hyny, yr ydym yn casglu mai trwy ffydd yn unig y cyfiawnheir dyn ger bron Duw,—hyny yw, trwy gyfiawnder cyfrifol Crist, yr hwn a dderbynir gan ffydd yn unig.

Sylw 147.—*Ni's gall unrhyw ufudd-dod o'r eiddom ni roddi i ni deilyngdod yn y radd leiaf, o ran yn Nghrist.*

Trefn yr efengyl yw achub pechaduriaid trwy rad ras yn unig. Nid oes dim rhyw ffordd ganol rhwng iachawdwriaeth drwy weithredoedd y ddeddf, ag iachawdwriaeth trwy ras. Gan na's gall neb ddadleu ufudd-dod perffaith, ni's gallant gael eu hachub yn y ffordd flaenaf. Gan hyny, rhaid i bawb, pa fath bynag ydoedd eu nodweddiad blaenorol, ddyfod i gael eu hachub yn yr un ffordd, trwy rad ras Duw yn Nghrist Iesu. Dengys hyn i ni mor fawr y mae rhai yn cam-ddeall yr efengyl, y rhai pan y'i deffröir gyntaf i bryderu yn achos eu heneidiau, ydynt yn gommedd dyfod yn ddioed at y Gwaredwr, gan obeithio dyfod ryw faint yn well yn gyntaf, a meddu gwell hawl ar ei sylw. Mae y synied yma er ymwthio fel gostyngeiddrwydd mawr yn fynych, yn arogli yn gryf o ysbryd hunan gyfiawn. Mae yn cynnwys ymgais megys i ranuu anrhydedd ein iachawdwriaeth â'r Gwaredwr nefol,—hyny yw, nyni a ewyllysiem ganiattad i gyfrannogi ychydig yn y gwaith

mawr hwn, er y mynem roddi iddo ef y rhan benaf o'r gogoniant. Mae y cyfryw ysbryd yn hollol wrthwyneb i'r drefn o iachawdwriaeth a amlygir yn yr efengyl. Yno gofynir i ni ddyfod fel yr ydym, ac heb oedi, at yr Arglwydd Iesu. Y mae efe yn gofyn yr holl ogoniant am iachawdwriaeth ei bobl, Matt. 1. 21; Act. 2. 38; a 16. 30; 1 Tim. 1. 15, 16.

Sylw 148.—*Mae son am "ufudd-dod diffuant," fel pe bydd. ai dan oruchwyliaeth yr efengyl yn cael ei roddi yn lle "ufudd-dod perffaith," yn hollol anmhriodol a di-synwyr.*

Y rheswm am hyn yw, oblegyd fod yr ufudd-dod perffaith a ofynid gan y ddeddf wedi ei dalu yn fanol a chyflawn dan yr efengyl. Mae y ddeddf foesol, fel ei Hawdwr, yn sanctaidd, cyfiawn, a da. Ei gofynion ydynt seiliedig ar gyfiawnder annewidiol, a chan hyny ni's gellir eu chyfnewid. Ymddengys hyn oddiwrth natur ei gorchymynion. Felly ni's gall byth lai na bod yn ddyledswydd ar ddyn fel creadur Duw, i garu ei Grëwr, ac ufudddau iddo yn mlaenaf, ac felly ufuddhau i'w orchymyn i garu ei gymydog fel ef ei hun. Pe iselid gofynion y ddeddf, profai hyny ei bod ar y cyntaf yn gofyn gormod; ac o ganlyniad nad oedd yn seiliedig ar uniondeb hanfodol. Ond, er y gall y cyfryw reswm fod yn aml am gyfnewid cyfreithiau dynol, ni's gall fod felly byth am gyfreithiau y Duw byw. Gan hyny, y mae iachawdwriaeth yn cael ei datguddio yn yr efengyl, nid trwy gyfnewid safon y ddeddf, ond trwy gyflawni ei holl ofynion. A ofynai hi am gosb ar y troseddwr, ac ufudd-dod perffaith, fel pethau anhebgorol i ennill hawl i fywyd tragywyddol? Fe gyfattebwyd i'r gofynion hyn yn llawn trwy ufudd-dod ein Harglwydd Iesu Grist hyd angau, fel Machnïydd ei bobl. Gan hyny, nid rhoddi ufudd-dod diffuant i gyflenwi lle ufudd-dod perffaith y mae trefn yr efengyl; ond rhoddi *ufudd-dod perffaith yr Arglwydd Iesu Grist* yn lle ei bobl, dros neu yn lle yr *ufudd-dod personol perffaith,* a fuasai y ddeddf oni buasai hyny yn ei ofyn ganddynt hwy, Matt. 5. 17; Rhuf. 7. 12; a 10. 4; Ps. 19. 7.

Ond, er na's gall credinwyr roddi ufudd-dod perffaith i ddeddf Duw, gelwir arnynt i roddi ufudd-dod didwyll iddi. Mae hyn yn ddiddadl; ond y mae yr ufudd-dod diffuant hwn yn effaith diolchgarwch i'r Gwaredwr, am ei rad roddiad o drugaredd faddeuol. Ac y mae rhyddäad oddiwrth bechod, a galluogiad i rodio mewn newydd-deb buchedd i'w golygu fel yn ffurfio rhan o'r iachawdwriaeth a ddatguddir gan yr Arglwydd Iesu Grist. Ond nid yw i'w ystyried mewn un modd fel pe deuai yn lle yr ufudd-dod perffaith hwnw a ofynai y ddeddf ar y dechreu.

Sylw 149.—*Nid oes yn yr athrawiaeth o iachawdwriaeth drwy deilyngdod Iesu Grist yn unig, ddim tuedd i gymhell dynion i barhau mewn pechod.*

Yn hytrach, pan y'i deallir yn iawn, rhaid iddi gael yr effaith sydd lwyr wahanol. Y mae yr athrawiaeth yn arddangos drwg pechod cystal a'i berygl, yn y modd mwyaf nodedig. Gan hyny, ni's gall un dyn ei derbyn, heb ganfod y ddau beth hyn, a lle bynnag y mae felly, y mae yno awydd cryf cael ymwared oddi wrtho. Felly y mae gwaredigaeth oddiwrth awdurdod pechod a chariad atto, yn cael ei ddatguddio fel rhan o iachawdwriaeth yr efengyl, cystal a rhyddäad oddiwrth euogrwydd. Yn mhellach, y mae yr athrawiaeth yma yn tueddu i gymhell ufudd-dod mewn ffordd arall, —sef, trwy gariad at y Gwaredwr. Ni all neb gredu yn yr Iesu, fel Gwaredwr, heb ei garu; ac y mae y sawl a'i câr ef yn cadw ei orchymynion, Mat. 1. 21. Ioan 14. 15. a 15. 14. Rhuf. 6. 1—14, &c., a 8. 2. Tit. 2. 11. Eph. 2. 1—10. Y cyfryw ydyw tystiolaeth yr Ysgrythyr; ac yr ydym yn ei gweled yn cael ei chadarnhau yn ddigonol yn yr hyn sydd yn cymeryd lle yn y byd o'n deutu. Yr ydym bron bob amser yn canfod y rhai ydynt yn fwyaf tueddol i ymddiried yn eu cyfiawnder eu hunain, yn amlygu gradd helaeth o ddïofalwch yn eu hymddygiad; tra y mae y rhai ydynt yn ymddiried yn drwyadl yn nheilyngdod Crist am gyfiawnhad ag iachawdwriaeth, yn llawer mwy gofalus am rodio mewn newydd-deb buchedd.

Sylw 150.—*Mae y drefn hon o gymeradwyaeth gyda Duw trwy farwolaeth ei Fab ef, yn adchwelyd mwy o anrhydedd a gogoniant iddo ef na phe y gallasai pechaduriaid ufuddhau yn berffaith yn eu personau eu hunain, ac na phe y'u dedfrydasid i ddarfod am danynt yn eu pechodau dros byth.*

Rhaid fod Duw wedi cael mwy o ogoniant trwy ufudd-dod a marwolaeth ei Fab ei hun, na phe buasai dyn wedi ufuddhau a dyoddef; oblegyd yn y byd a ddaw, fe fydd clodforedd y gwaredigion yn llawn i Dduw yn Nghrist; a'i brynedigaeth ef a fydd byrdwn eu cân, a thestyn eu mawl. Ond, y mae yn ddïau nad yw gweithredoedd dyn ei hun pe y byddent berffaith, yn deilwng o'u coffâu unwaith yn ngŵydd Duw anfeidrol sanctaidd. Dengys hyn fod cymmeradwyaeth y pechadur trwy gyfiawnder y Pryniawdr, yn hollol gyson a phrïodoliaethau y Goruchaf.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol dysgwn,—1. Y gall y pech-

aduriaid mwyaf gael eu cyfiawnhau; fel y cyrhaeddo gras y penaf o bechaduriaid. 2. Penarglwyddiaeth Duw. 3. Yr angenrheidrwydd am gyfiawnhad. 4. Dedwyddwch y rhai a gyfiawnhawyd, a thrueni y rhai oll a barhant yn elynion i Dduw. 5. Bod cyfiawnder Crist yn ddawn annrhaethol werthfawr, gan y dichon guddio pechadur yn nydd digofaint tanllyd Duw. 6. Na's gallwn ni gymeryd y cyfiawnder yma i ni ein hunain; ond gan mai rhodd Duw ydyw, rhaid ei gyfrif i ni. 7. Mai yr efengyl yw y newyddion gorau a gyrhaeddodd i glustiau pechaduriaid erioed. 8. Yr angenrheidrwydd o ffydd yn Nghrist er cyfiawnhad. 9. Y dylai Duw gael yr holl ogoniant o ras y prynedigaeth. 10. Y dylai gweithredoedd gael eu lle eu hunain yn nhrefn gras, ac nid trawsfeddiannu lle y cyfiawnder sydd gymeradwy ger bron Duw. 11. Y dylem lafurio am olygiadau ysgrythyrol ar gyfiawnhad pechadur gyda Duw. 12. Nad oes un ffordd i ddyfod yn gyfeillion i Dduw, ond drwy y weithred hon o'i eiddo yn ein cyfiawnhau. 13. Yr angenrheidrwydd am yr efengyl, ac am ffydd ynddi. 14. Yr angenrheidrwydd am faddeuant pechod. 15. Oni symudir yr euogrwydd ein bod ni eto yn elynion i Dduw. 16. Os ceir maddeuant, gall pechaduriaid ymlawenhau mewn gobaith gogoniant, gan eu bod mewn heddwch â Duw. 17. Fod bostio yn cael ei gau allan oddiwrth y pechadur, yn y pwnc o gyfiawnhad. 18. Trueni y pechadur sydd yn diystyru goludoedd Dwyf ras. 19. Os y'n cyfiawnheir, yr ydym yn meddu pob peth.

## *Doniau y Prynedigaeth.—2. Mabwysiad.*

### Hol. 34. Pa beth yw mabwysiad?

Mabwysiad sydd weithred o rad ras Duw, trwy yr hon y'n derbynir i nifer ei blant, ac y meddwn hawl o holl freintiau meibion Duw.

#### DOSBANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai gweithred o rad ras Duw yw mabwysiad. 1 Ioan 3. 1. "Gwelwch pa fath gariad a roddes y Tad arnom ni fel y'n gelwid yn feibion i Dduw."

2. Ein bod drwy fabwysiad yn cael ein derbyn i nifer plant Duw. Eph. 1. 5. "Wedi iddo ein rhagluniaethu ni i fabwysiad, &c. Gwel hefyd Ioan 1. 12.

3. Ein bod drwy fabwysiad yn derbyn hawl i holl freintiau plant Duw. Rhuf. 8. 27. "Os plant, ettifeddion hefyd, sef ettifeddion i Dduw, a chyd ettifeddion â Christ."

### EGLURHAD.

Sylw 151.—*Gweithred o rad ras Duw yw mabwysiad.*

Mae *mabwysiadu* yn arwyddo cymeryd estron i deulu, ac ymddwyn tuag atto fel pe byddai yn fab ac ettifedd.

*Mabwysiadwr* pechaduriaid yw Duw, o'i ystyried yn hanfodol. Duw Dad, Mab, ac Ysbryd Glan. 1. Y mae Duw *Dad* yn mabwysiadu, yn gymmaint a'i fod yn rhag arfaethu ei bobl i fabwysiad trwy Iesu Grist, yn ol boddlonrwydd ei ewyllys, er mawl gogoniant ei ras ef, Eph. 1. 5, 6. 2. Mae Duw *Fab* yn mabwysiadu, yn gymmaint a'i fod trwy ei allu yn tynu ei bobl o deulu Satan, a thrwy hyny yn rhoddi iddynt hawl i ddyfod yn feibion i Dduw. 3. Mae yr Ysbryd Glan yn mabwysiadu, yn gymmaint a'i fod ef yn cael ei anfon gan Dduw i galonau y rhai mabwysiedig, ac yn eu dysgu i lefain, "Abba Dad."

Yn ol ein dull ni o synied am beth, mae yn rhaid i ni gredu fod mabwysiad yn dilyn cyfiawnhad; canys rhaid yw symmud y gollfarn yn gyntaf, cyn y gellir gwneuthur y pechadur sydd yn agored i felldith y ddeddf, yn fab; ond y mae y naill a'r llall yn cymeryd lle ar unwaith gyda Duw. A llefaru yn briodol, cyfnewidiad perthynasol ydyw y ddau;—hyny ydyw, cyfnewidiad *cyflwr*, ac nid cyfnewidiad *natur*, er fod hyn yn eu dilyn.

Gelwir Mabwysiad yn *weithred*, oblegyd ei bod fel cyfiawnhad yn cael ei chwblhau ar unwaith, ac nid ei dwyn yn mlaen yn raddol; a chan mai gweithredoedd ydynt, ni all un o blant Duw gael ei gyfiawnhau neu ei fabwysiadu mewn gradd uwch na'r llall.

Mai gweithred o *rad ras* Duw yw mabwysiad, a welir yn eglur oddiwrth y pethau canlynol, y rhai y mae mabwysiad, fel y mae yn weithred o eiddo Duw yn gwahaniaethu oddiwrth fabwysiad fel gweithred yn mysg dynion.

1. Yn mysg dynion, nid oes namyn *un* mewn un teulu yn gyffredin yn dyfod yn gyfrannog o'r rhagorfraint hon. Ond gan Dduw y mae byd cyfan o etholedigion,—pawb a gredo yn Nghrist, yn cael eu gwneyd yn gyfrannog o ragorfreintiau plant Duw.

2. Yn mysg dynion mae y mabwysiadwr o'r *un natur* a'r mabwysiedig; mae y ddau yn bechaduriaid, a'r ddau yn euog ger bron Duw. Ond nid felly y mae gyda Duw; nid yw efe i'w gydmaru â'r uchaf o feibion dynion, y rhai nid ydynt ond gwaith ei ddwylaw ef.

3. Yn mysg dynion y mae rhyw fesur o *gydraddoliaeth* rhwng y mabwysiadwr a'r mabwysiedig. Ond, nid oes, ac nid

all fod un cydraddoliaeth rhwng Duw a'r pechadur y mae yn ei ddwyn atto ei hun.

4. Yn mysg dynion, y mae yn gyffredin ryw beth sydd yn dylanwadu dyn i ddangos y cyfryw garedigrwydd i neb un. Ond, gyda golwg ar waith Duw yn mabwysiadu pechaduriaid, nid oes dim o'r fath beth yn ymddangos; canys nid oes dim ynddynt, neu yn perthyn iddynt, a allai ei ddylanwadu i gymeryd y sylw lleiaf o honynt, nag unrhyw gynneddf hawddgar i ennill ei serch; canys y maent oll yn aflan, halogedig, ac annheilwng o'i ffafr, heb haeddu dim ond eu gwrthod am byth. Gan hyny, y mae yn eglur, yn enwedig oddiwrth y sylw olaf, mai gweithred *o rad ras Duw* yw mabwysiad.

Sylw 152.—*Trwy fabwysiad y mae pechaduriaid yn cael eu derbyn i nifer plant Duw.*

Mae bwriad Duw mewn perthynas i fabwysiadu pechaduriaid, yn cyrhaedd yn ol *i dragywyddoldeb*, pan gofrestrid eu henwau yn llyfr bywyd yr Oen, fel aelodau dyfodol o deulu y nef: ond nid ydynt yn cael eu derbyn yn weithredol i'r teulu hwn hyd ddydd eu galwedigaeth effeithiol, hyd fynyd eu huniad â Christ trwy ffydd, a'u hadgenhedliad ar ei ddelw ef. Ond rhaid wrth beth amser cyn y'u dygir i brofiad dyddanus o'r cyflwr grasol hwn. Eph. 1. 5.

Gellir gwahaniaethu mabwysiad, i fabwysiad *cyffredinol*, a mabwysiad *neillduol.*

1. Y weithred *gyffredinol* yw hono, drwy yr hon y mae Duw yn cynnull o'r byd ryw dyrfa aneirif i'w gwneyd yn eglwys iddo ei hun, gan eu doniaw â rhagorfreintiau allanol ei blant. Y mae hyn yn ddïau yn fendith fawr; ond y mae lluoedd yn ei mwynhau, nad ydynt mewn gwirionedd yn blant i Dduw. Gwel Rhuf. 9. 6.

2. Y weithred *neillduol* yw hono, trwy ba un y mae pechadur yn cael ei wneuthur yn blentyn, neu ei symmud o deulu Satan i deyrnas anwyl Fab Duw. Ni pherthyn y rhagorfraint hon i neb, ond y rhai a dderbyniont yr Arglwydd Iesu Grist trwy ffydd. Gwel Ioan 1. 12.

Gallwn yma grybwyll rhai o effeithiau Ysbryd y mabwysiad, yr hwn a berthyn yn unig i gredinwyr. Dyma hwy;—1. *Cariad mabaidd at Dduw;* yr hwn a ddeillia o'r olwg newydd y mae y mabwysiedig yn ei gael ar ragoriaethau gogoneddus Duw. 1 Ioan 4. 19.—2. *Ufudd-dod mabaidd.* Mabwysiad i deulu Duw yw y rhwymedigaeth fwyaf i ufuddhau iddo ef.—3. *Gobaith* plant; neu obaith o gael cyfrannogi yn nghariad Duw, ac yn y daioni a ddarparodd efe i'r rhai a ymddir-

ledant ynddo.—4. *Mwynhad o Dduw*, a *chymmundeb* ag ef yn ei ordinhadau.—5. *Cariad at eraill*, yn enwedig y rhai ydynt o deulu y ffydd. Gwel 1 Ioan 5. 1, 2.

Sylw 153.—*Trwy fabwysiad y mae credinwyr yn derbyn hawl i holl ragorfreintiau meibion Duw.*

O'r rhagorfreintiau hyn, y mae a ganlyn yn ychydig:—

1. Cyfran gysurus o bethau da y bywyd hwn, a bendith y nef gyda hwy.

2. Enw newydd, Dat. 2. 17. a 3. 12.

3. Dyddanwch yr Ysbryd Glan. Ioan 7. 38, 39. a 16. 13.

4. Rhyddid; yr hwn er ei wahaniaethu, a ellir ei alw *rhyddid grasol*, neu y cyfryw ag y'u donir ag ef yn y byd hwn; a *rhyddid gogoneddus*, neu yr hyn a fwynhant yn y byd a ddaw. Heb. 2. 14. Rhuf. 6. 14, 18. a 8. 21.

5. Dyfodfa at Dduw fel Tad trwy Iesu Grist, mewn un Ysbryd; yr hyn sydd yn cyfodi oddiar grediniaeth ddiffuant o'i ffyddlondeb ef a'i gariad tuag attynt, gan fod yn awr bob rhwystr wedi ei symmud o'r ffordd. Gwel Rhuf. 4. 21. Eph. 3. 12. 1 Ioan 5. 14, 15.

6. Hawl i'r holl ettifeddiaeth. Caiff pob ettifedd i Dduw dderbyn cymmaint a phe na buasai ond un; ac eto, fe'u gogoneddir oll; a chânt dderbyn cymmaint ag sydd bossibl iddynt ei dderbyn. 1 Cor. 3. 22. Heb. 11. 7. 1 Pedr 3. 7. Rhuf. 8. 17.

7. Gofal a gwarcheidwadaeth angelion, Heb. 1. 14. Matt. 18. 10.

8. Cystudd sancteiddiedig, neu geryddon tadol. Heb. 12. 6, 7, &c. Ps. 30. 7: a 51. 8, &c.

9. Amddiffyniad, arweiniad, a chyfarwyddyd tadol yn mhob peth.

Mewn gair, mae y credadyn yn cael arlwyad y cyfammod newydd yn mhob peth angenrheidiol er enaid a chorph, dros amser ag i dragywyddoldeb—pob peth angenrheidiol er ei adeiladaeth mewn sancteiddrwydd, a'i gyd ffurfiad yn fwyfwy a'r ddelw Ddwyfol.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn, dysgwn,—1. Dedwyddwch y rhai ydynt yn feibion i Dduw. 2. Perygl y rhai oll ydynt yn estroniad iddo ef, neu yn blant y diafol. 3. Na bydd meddu enw o fod yn mysg plant Duw, o les yn y byd i ni. 4. Na bydd i fabwysiad allanol, neu aelodaeth eglwysig weledig a mwynhad o'i rhagorfreintiau roddi hawl i neb yn ettifeddiaeth y plant, oddieithr eu bod wedi eu mabwysiadu gan Dduw. 5. Yr angenrheidrwydd o hunan ymholiad, fel y gwy-

byddom pa un a ydym ni yn meddu Ysbryd y mabwysiad ai nid ydym. 6. Yr angenrheidrwydd o garu plant Duw yn mhob lle. 7. Nid oes gan gredinwyr un achos i genfigenu wrth lwyddiant rhai eraill. 8. Eu bod mor anrhydeddus ag y gall Duw eu gwneyd. 9. Na raid bod arnynt eisiau dim dyddanwch mewn cyfyngder. 10. Yr angenrheidrwydd o rodio yn deilwng o'r cyfryw ragorfreintiau. 11. Mor dra rhagorol yw cyflwr o ras i gyflwr natur, a chyflwr o ogoniant i gyflwr o ras. 12. Bod pob peth yn eiddo plant Duw tu draw i'r bedd. 13. Na ffyna un gelyn yn eu herbyn. 14. Bod credinwyr yn dra gwerthfawr yn ngolwg yr Arglwydd. 15. Bod yr holl rai nad ydynt yn blant i Dduw, yn blant diafol.

## *Doniau y Prynedigaeth :—3. Am Sancteiddhad.*

### HOL. 35. BETH YW SANCTEIDDHAD ?

Gwaith rhad ras Duw yw Sancteiddhad trwy yr hwn yr adnewyddir yr holl ddyn ar ddelw Duw, ac y'i galluogir fwyfwy i farw i bechod, a byw i gyfiawnder.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mae gwaith rhad ac anhaeddiannol ras neu drugaredd Duw yw sancteiddhad. Tit. 3. 4, 5. "Eithr pan ymddangosodd daioni a chariad Duw ein Hachubwr tuag at ddyn, nid o weithredoedd cyfiawnder, y rhai a wnathom ni, eithr yn ol ei drugaredd yr achubodd efe nyni, trwy olchiad yr adenedigaeth, ac adnewyddiad yr Ysbryd Glan." Gwel hefyd Exod. 31. 13; Phil. 2. 13.

2. Bod sancteiddhad yn waith cynnyddol, neu yn waith a ddygir ymlaen yn raddol. 2 Cor. 13. 18. "Eithr nyni oll âg wyneb agored, yn edrych ar ogoniant yr Arglwydd megys mewn drych, a newidir i'r unrhyw ddelw o ogoniant i ogoniant, megys gan Ysbryd yr Arglwydd." Gwel 2 Cor. 4. 16.

3. Bod meddwl y pechadur yn cael ei adnewyddu yn y sancteiddhad. Rhuf. 12. 2. "Ac na chydymffurfiwch a'r byd hwn; eithr ymnewidiwch trwy adnewyddiad eich meddwl: fel y profoch beth yw daionus, a chymeradwy, a pherffaith ewyllys Duw." Gwel hefyd Eph. 4. 23.

4. Bod yr adnewyddiad yn y sancteiddhad yn drwyadl er yn raddol; neu yn cyrhaedd yr holl ddyn. Ezec. 36. 26. "A rhoddaf i chwi galon newydd, ysbryd newydd hefyd a roddaf o'ch mewn chwi; a thynaf y galon garreg o'ch cnawd chwi, ac mi a roddaf i chwi galon gig." Gwel 1 Thess. 5. 23.

5. Bod y pechadur yn y sancteiddhad yn cael ei adnew-

yddu yn ol delw Duw. Eph. 4. 24. "A gwisgo y dyn newydd, yr hwn yn ol Duw a grëwyd mewn cyfiawnder a gwir sancteiddrwydd." Gwel hefyd Col. 3. 10.

6. Bod y pechadur yn nghynnydd sancteiddhad yn cael ei alluogi i farw i bechod. Rhuf. 6. 6. "Gan wybod hyn, ddarfod croeshoelio ein hen ddyn ni gydag ef, er mwyn dirymu corph pechod, fel rhagllaw na wasanaethom bechod."

7. Bod y pechadur yn nygiad y gwaith hwn rhagddo, yn cael ei alluogi i fyw i gyfiawnder. Rhuf. 6. 22. "Ac yr awrhon wedi eich rhyddhau oddiwrth bechod, a'ch gwneuthur yn weision i Dduw, y mae i chwi eich ffrwyth yn sancteidrwydd, a'r diwedd yn fywyd tragywyddol." Gwel hefyd 1 Pedr 2. 24.

8. Bod marw i bechod, a byw i gyfiawnder, yn orchwyl gwastadol a beunyddiol." 2 Cor. 4. 16. "O herwydd pa ham nid ydym yn pallu; eithr er llygru ein dyn oddi allan, er hyny y dyn oddi mewn a adnewyddir o ddydd i ddydd."

EGLURHAD.

*Sylw* 154.—*Gwaith rhad ras Duw yw sancteiddhad.*

Mae y gair sancteiddhad yn cael ei ddefnydddio i amrywiol ystyrion yn yr Ysgrythyr. Mae yn dynodi *neillduo* personau neu bethau i ddybenion sanctaidd, Esa. 13. 31; puredigaeth oddiwrth halogedigaeth seremonïol, neu ryddhad oddiwrth eilun-addoliaeth ffiaidd, neu gyfeiliorniad, neu gamwedd, Heb. 9. 13; 1 Cor. 7. 14; a *gwaredigaeth oddiwrth euogrwydd pechod*, Ioan 17. 19. Ond yn fwyaf cyffredin a phriodol, fe'i defnyddir i ddynodi yr hyn a ddarlunir uchod, sef, Gwaith Duw o'i rad ras, trwy yr hwn y mae yr holl ddyn yn cael ei adnewyddu i ddelw Duw, a'i alluogi yn fwyfwy i farw i bechod, a byw i gyfiawnder.

Er fod sancteiddhad yn cael ei briodoli i *Dduw Dad*, ac i *Dduw Fab*, Jud. 1; Eph. 5. 26,—eto gwaith arbenig *Duw Ysbryd Glan* ydyw. Gwel Ezec. 36. 27; Rhuf. 5. 5; 1 Cor. 6. 11; Tit. 3. 5, 6; 2 Thess. 2. 13; 1 Pedr 2. 22.

Gelwir sancteiddhad yn *waith*, am ei fod yn gynnyddol, neu yn cael ei ddwyn ymlaen yn raddol; ac nad yw wedi ei berffeithio hyd angau. Cyfiawnhad a mabwysiad ydynt *weithrediadau* rhad ras Duw, a berffeithir ar unwaith; ond *gwaith* yw sancteiddhad, a ddygir ymlaen yn barhaus tra fyddo y saint yn y byd hwn. Mae hyn yn amlwg oddiwrth ei fod yn cael ei alw "cyrchu at y nôd am gamp uchel alwedigaeth Duw yn Nghrist Iesu;" "rhedeg gyrfa" "gweithio allan ein iachawdwriaeth ein hunain gyd ag ofn a dychryn,"

Gelwir sancteiddhad yn *waith rhad ras Duw*, am mai rhad ras, ac ewyllys da Duw ei hunan yn unig a'i cymhellai atto,

Phil. 2. 13. Y mae holl blant dynion wrth natur wedi ei llwyr halogi gan bechod; ac o rad ras Duw yn unig y mae neb o honynt yn cael eu sancteiddio. Gellir crybwyll yma, mai yr achos haeddiannol o'u sancteiddhad yw cyfiawnder machnïol Iesu Grist, 1 Ioan 3. 5; 1 Pedr 1. 18, 19.

Sylw 155.—*Mae y pechadur yn y sancteiddhad yn cael ei adnewyddu o ran yr holl ddyn yn ol delw Duw.*

Effaith gwaith Ysbryd Duw mewn sancteiddhad yw *adnewyddiad yr holl ddyn.* Mae yr ymadrodd hwn yn dra chynnwysfawr, ac yn dangos yr angenrheidrwydd am fod *cyfnewidiad cyffredinol* yn cael ei wneyd ar yr holl ddyn, *enaid* a *chorph;* canys y cyfryw un yn unig a ellir ei alw yn *greadur newydd.* Gwel 1 Thess. 5. 23. Rhaid adnewyddu yr enaid yn ei holl alluoedd, a'i gynneddfau, a'i serchiadau,—nid fel pe byddai y sylwedd ei hunan yn cael ei gyfnewid; ond rhaid i naws newydd ymddangos yn yr holl enaid; a rhaid i holl aelodau y corph ddyfod yn arfau cyfiawnder i sancteiddrwydd. Mewn gair, rhaid yw cyssegru yr holl ddyn i Dduw, a'i fod wedi ei roddi ei hun i fynu iddo ef yn llwyr; yr hyn yn unig yw ein rhesymol wasanaeth, a'r hyn yn unig a gyfansodda aberth byw, sanctaidd, cymeradwy ganddo ef trwy Iesu Grist. Rhuf. 12. 1.

Rhaid adnewyddu y pechadur *yn ol delw Duw.* Mae hyn yn gynnwysedig mewn gwybodaeth, cyfiawnder, sancteiddrwydd, a phob dawn ysbrydol arall, 1 Cor. 15. 49; Col. 3. 10. Ond ni all fod dim tebygolrwydd i Dduw, heb ymröad i gydffurfio â'i Fab ef, Iesu Grist, yr hwn yw "delw y Duw anweledig," â'r hwn y rhaid ein cyd-ffurfio yn ei fywyd, a'i angau, a'i adgyfodiad.

Sylw 156.—*Mae y credadyn yn y sancteiddhad yn cael ei alluogi fwyfwy i farw i bechod, a byw i gyfiawnder.*

Gallwn sylwi yma, fod "adnewyddiad yr holl ddyn yn ol delw Duw," yn golygu adnewyddiad y *natur*; a'r "galluogi fwyfwy i farw i bechod, a byw i gyfiawnder," yn golygu adnewyddiad y *fuchedd,* trwy yr hyn yn unig y gellir canfod fod cyfnewidiad wedi cymeryd lle.

Mae yr adnewyddiad sydd yn golygu y fuchedd a'r ymarweddiad, yn gynnwysedig o ddwy ran:—

1. *Marw i bechod.* Mae hyn yn gynnwysedig mewn ymdrech difrifol, trwy gymhorth gras Duw, i ddystrywio gwreiddyn pechod yn yr enaid, trwy gymhwysiad parhaus o waed Crist at y gydwybod; trwy yr hyn y mae euogrwydd pechod yn cael ei symmud, a'r gydwybod yn cael ei phuro i wasan-

aethu y Duw byw. Ac yn nghyd â hyn, rhaid bod casineb at bob pechod, a phob rhith drygioni; ac ymdrech difrifol i ddefnyddio angau ac adgyfodiad Crist; ei Air a'i Ysbryd; gan ddisgwyl am ras oddiwrtho ef, fel y gwanhaer llygredigaeth fwyfwy.

2. *Byw i gyfiawnder.* Mae hyn yn gynnwysedig mewn caru, ac ymhelaethu fwyfwy mewn sancteiddrwydd oddi fewn, ac yn yr ymarferiad o bob gair a gweithred dda, deilliedig oddiar yr egwyddor o ras wedi ei phlanu yn yr enaid gan Ysbryd Duw.

Gellir darlunio natur y *cyfiawnder*, neu yr ufudd-dod a ofynir gan gredinwyr fel hyn :—

1. Rhaid i ufudd-dod sanctaidd fod yn adeiledig ar *sail efengylaidd :* rhaid ei rëoli wrth Air Duw.

2. Rhaid iddo darddu o *egwyddorion efengylaidd.* Rhaid i'r meddwl gael ei oleuo ag adnabyddiaeth o Grist; y gydwybod ei phuro oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw; a'r ewyllys a'r serchiadau eu hadnewyddu gan yr Ysbryd Glan.

3. Rhaid iddo gael ei ddylanwadu gan *gymhelliadau efengylaidd.* Y cyfryw ydynt, gariad Duw a amlygir yn y prynedigaeth; ei hawl ef ynom fel ein Duw yn Nghrist; esampl Crist, a Duw ynddo ef, fel ein Tad a'n Cyfaill; a'r gobaith o fywyd tragywyddol fel rhad rodd Duw.

4. Rhaid ei gyflawni mewn *dull efengylaidd,*—hyny yw, yn yr ymarferiad o ffydd yn Nghrist, o gariad atto, ac o ostyngeiddrwydd calon. Heb. 11. 6. Luc 17. 10.

5. Rhaid ei fod yn amcanu at *ddyben efengylaidd,*—sef, fel y'n gwneler yn debyg i Dduw, fel y byddom er mawl ei enw ef ar y ddaear, fel y'n cymhwyser i fwynhau ettifeddiaeth y saint yn y goleuni; ac fel y'n galluoger i adeiladu eraill, ac yr ymgeisiom at ddwyn ymlaen eu dedwyddwch, Mat. 5. 16. 1 Cor. 10. 31.

Yr hyn sydd yn *galluogi* y pechadur fwyfwy i farw i bechod, ac i fyw i gyfiawnder yw *gras Duw,* yr hwn a gyfnerthir yn barhaus gan yr Ysbryd, ac yn angau a dardda i fywyd tragywyddol, Esa. 40. 31. Ioan 1. 16.

Y *moddion* a ddefnyddia Ysbryd Duw er meithrin sancteiddrwydd mewn calon a buchedd, ydynt a ganlyn :—

1. Darllen gair Duw, ei wrandaw yn cael ei ddarllen a'i bregethu, myfyrdod, gweddi, a'r sacramentau. Ond, rhaid ceisio bendith yr Ysbryd fel y gwneler y pethau hyn yn effeithiol.

2. Esampl y saint, càn belled ag y dylynent yr Arglwydd; ond uwchlaw y cwbl, esampl yr Arglwydd Iesu Grist, "yr hwn a adawodd i ni esampl, fel y dilynem ei ol ef."

3. Rhagluniaeth Duw yn ei goruchwyliaethau, iawn ddefnyddiad o'r hyn ni's gall lai na dangos drygedd, anhawddgarwch, a pherygl pechod; a phrydferthwch sancteiddrwydd fel y mae yn rhyngu bodd i'r Arglwydd, Rhuf. 2. 4.

Mae *marwolaeth i bechod a bywyd i gyfiawnder*, yn deillio o'r rhinwedd sydd yn angau ac adgyfodiad Crist; trwy yr hyn y mae aelodau ei gorph dirgeledig ef yn cael eu cyd ffurfio ag ef. Ymddengys hyn oddiwrth Rhuf. 6. 4—6. Gwel hefyd Phil. 3. 10.

Gellir sylwi yma, er bod sancteiddrwydd yn anhebgorol angenrheidiol, nad yw yn angenrheidiol fel sail ein hawl i fywyd tragywyddol, ac fel y'n gwnelom ein hunain yn gymeradwy yn yr Arglwydd,—fel y'n gwneler yn gyfiawn ger bron Duw;—neu fel y byddo yn sail ein gobaith am dragywyddoldeb; canys pe felly, ni buasai y gwaith a wnaed gan Grist o nemawr bwys, Gwel 1 Pedr 1. 16; 1 Thes. 4. 3; Tit. 2. 14; Dat. 21. 27.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau uchod dysgwn,—1. Bod rhaid i gredinwyr weithio tra y gelwir hi heddyw. 2. Eu bod mewn angen parhaus am ras yr Ysbryd er darostwng y llygredigaeth sydd yn aros ynddynt. 3. Yr angenrheidrwydd o weddïo am Ysbryd y sancteiddhad. 4. Na's gall dyn ei sancteiddio ei hun; ac y gall pob pechadur cadwedig ganu am rad ras yr Arglwydd. 5. Nad yw cariad hanerog at Dduw yn un prawf o gariad diffuant atto ef. 6. Mai dyledswydd y credadyn yw marw i bechod fwyfwy, ac na roddo yr ymdrech i fynu nes y'i llwyr ddystrywir. 7. Oddieithr ein bod yn dwyn delw Duw, na's gallwn ni ei fwynhau ef. 8. Bod y bywyd dwyfol yn guddiedig, etto yn weithgar. 9. Nad yw pob cyfnewidiad yn gyfnewidiad i ddelw Duw. 10. Nad yw yr enaid sancteiddiedig yn segur yn ngwaith yr Arglwydd. 11. Prydferthwch sancteiddrwydd, ac anharddwch pechod. 12. Mai yr Ysbryd sydd yn sancteiddio. 13. Dedwyddwch y rhai sanctaidd, a thrueni y rhai ansanctaidd.

## 4. *Doniau ychwanegol y Prynedigaeth.*

HOL. 36. PA RAI YDYNT Y LLESION A DDYLYNANT GYFIAWNHAD, MABWYSIAD, A SANCTEIDDHAD, YN Y FUCHEDD HON, NEU A DDYLIFANT O HONYNT?

Y llesion, neu y doniau a ddylynant neu a ddeilliant o gyfiawnhad, mabwysiad, a sancteiddhad, ydynt

sicrwydd o gariad Duw, heddwch cydwybod, llawenydd yn yr Ysbryd Glan, cynnydd gras, a pharhad hyd y diwedd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod y credadyn yn meddu sicrwydd o gariad Duw, Rhuf. 5. 5. "Am fod cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonau ni trwy yr Ysbryd Glan, yr hwn a roddwyd i ni." Gwel hefyd, Esa. 32. 17; a 12. 1.

2. Bod y credadyn yn mwynhau heddwch cydwybod, Rhuf. 5. 1. "Am hyny gan ein bod wedi ein cyfiawnhau trwy ffydd, y mae genym heddwch tuag at Dduw trwy ein Harglwydd Iesu Grist.

3. Bod y credadyn yn meddu llawenydd yn yr Ysbryd Glan, 1 Pedr 1. 8. "Yn yr hwn heb fod yr awrhon yn ei weled, ond yn credu, yr ydych yn mawr lawenhau, â llawenydd annrhaethadwy a gogoneddus." Gwel hefyd, Rhuf. 14. 17.

4. Bod y credadyn yn cynnyddu mewn gras, Diar. 4. 18. "Llwybr y cyfiawn sydd fel y goleuni, yr hwn a lewyrcha fwyfwy hyd ganol dydd." Gwel hefyd Hos. 14. 5.

5. Bod y credadyn yn cael ei alluogi i barhau mewn gras. Jer. 32. 40. "A mi a osodaf fy ofn yn eu calonau fel na chiliont oddiwrthyf." Gwel hefyd 1 Pedr 1. 5.

EGLURHAD.

Sylw 157.—*Mae yr holl ddoniau y dywedir eu bod hwy yn dilyn, neu yn deillio o gyfiawnhad, mabwysiad, a sancteiddhad, yn gyssylltiedig anysgaredig â hwy.*

Mae hyn yn eglur; canys y rhai oll a gyfiawnheir a fabwysiadir, a'r holl rai a gyfiawnheir ac a fabwysiedir a sancteiddir, ac a ogoneddir, yn ol Rhuf. 8. 30, &c. Maent yn gyssylltiedig anysgaredig yn mwriadau Duw, yn ei addewidion, ac yn athrawiaethau yr efengyl, Luc 1. 74, &c., Heb. 8. 10, &c. Maent yn gyssylltiedig yn mhrofiad y credinwyr, 1 Cor. 6. 11; yn nefnyddiad cyfraith Duw, nid fel cyfammod, ond fel rheol buchedd i gredinwyr, Rhuf. 8. 1—4; yn swyddau Crist, 1 Cor. 1. 30; ac yn nyben angau Crist, Tit. 2. 14; ac y maent yn gyssylltiedig yn nghennadwri yr efengyl, 1 Thess. 4. 7.

Gellir sylwi yma, bod y tair dawn gyntaf a grybwyllir yma, sef sicrwydd o gariad Duw, heddwch cydwybod, a llawenydd yn yr Ysbryd Glan, yn deillio o *olwg ar*, a *synied o* gyfiawnhad, mabwysiad, a sancteiddhad; a bod y ddau olaf, sef cynnydd mewn gras, a pharhad ynddo hyd y diwedd, yn perthyn i'r *bod* o gyflwr cyfiawnhaol, mabwysiedig, a sancteiddhaol.

Sylw 158.—*Mae y credadyn yn meddu sicrwydd o gariad Duw yn y fuchedd hon.*

Gellir edrych ar *sicrwydd o gariad Duw* mewn dau olygiad, —*sicrwydd o ffydd* a *sicrwydd profiad.* Sail y cyntaf yw anffaeledig Air Duw, yr hwn ni's gall fod yn gelwyddog; sail y llall yw profiad presenol y dyn ei hunan o'i gyfrannogiad o gariad Dwyfol. Trwy y cyntaf y'n sicrheir o wirionedd tystiolaeth Duw yn y Datguddiad, yn neillduol y cynnygiad o Grist yn yr efengyl; a thrwy yr olaf y'n sicrheir fod gwaith Duw wedi ei ddechreu yn yr enaid, a bod y gwaith hwnw yn rasol ac achubol. Trwy y cyntaf, fe'n sicrheir ar dystiolaeth Duw ei hunan, ei fod wedi rhoddi Crist a'i iachawdwriaeth i ni yn gyflawn a di-attalfa; a thrwy yr olaf y'n sicrheir fod gwaith yr iachawdwriaeth wedi ei ddechreu yn yr enaid eisoes.

Gellir darlunio *sicrwydd ffydd* yn fyr fel hyn:—Nid sicrwydd fy mod I mewn cyflwr o ras ydyw, ond sicrwydd fod Duw yn ewyllysgar i'm derbyn, os ydwyf fi yn awr am y waith gyntaf yn credu yn yr Arglwydd Iesu Grist. Mae y sicrwydd yma yn anhebgorol angenrheidiol er iachawdwriaeth, gan nad yw na mwy na llai na *ffydd ei hunan*, neu *grediniaeth* fod Duw wedi rhoddi ei Fab i fod yn Waredwr pechaduriaid, a bod Crist yn abl ac yn ewyllysgar i'w gwaredu. Mai nid dyma y sicrwydd y cyfeirir atto yma sydd eglur oddi wrth hyn, sef, y dywedir ei fod yn dilyn, neu yn deillio o gyfiawnhad, mabwysiad, a sancteiddhad, tra y mae sicrwydd ffydd, neu ffydd ei hunan yn anhebgorol er ein dwyn i feddiant o'r doniau mawrion hyn.

*Sicrwydd profiad*, neu y sicrwydd profiadol o gariad Duw, yr hyn a olygir yma, nid yw yn anhebgorol i ddedwyddwch cyflwr y credadyn; ond y mae yn dra gwasanaethgar mewn rhyw bethau, y rhai a dueddant yn fawr i ogoneddu Duw a llesau yr enaid; a chan ei fod yn gyrhaeddadwy, nyni a ddylem roddi cwbl ddiwydrwydd er ei feddu. Gwel Esa. l. 10.

Bod y sicrwydd profiadol yma o gariad Duw yn gyraeddadwy, sydd amlwg oddiwrth amryw enghreifftiau a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau. Cyrhaeddwyd y ffafr yma gan Job, Jacob, Moses, Dafydd, Asaph, Heman, Jeremïah, Daniel, Habacuc, Simeon, Mair, Thomas, Paul, a lluaws eraill a grybwyllir yn yr Ysgrythyrau. Gwel Job 19. 25; Gen. 48. 3; a 49. 18; Exod. 15. 2; Ps. 18. 1, &c.; a 73. 23, &c.; a 88. 1; Jer. 31. 3; Dan. 9. 19; Hab. 3. 17—19; Luc 2. 25, &c.; a 1. 47; Ioan 20. 28; Gal. 2. 20, &c.

Mewn trefn i gyrhaedd sicrwydd profiadol o'n cyflwr, ac o

wirionedd ein gras, mae amryw bethau yn angenrheidiol, megys y pethau canlynol;—1. Ffydd gref yn nhystiolaethau yr efengyl a gyfeirir attom ni fel pechaduriaid, 1 Tim. 1. 15.—2. Ymdrech diwyd am sancteiddrwydd cyffredinol calon a buchedd, yr hyn sydd yn rhyngu bodd i'r Arglwydd yn dda, Luc 1. 6.—3. Ystyriaeth briodol o waith yr Ysbryd ar yr enaid, a gwyliadwriaeth rhag diffodd yr Ysbryd, Eph. 4. 30; 1 Thess. 5. 19.—4. Llawer o hunan ymholiad difrifol, 1 Cor. 11. 28.—5. Yn nghyd a'r holl bethau hyn, rhaid i ni fod yn ddiwyd yn ceisio tystiolaeth yr Ysbryd Glan, yr hyn sydd yn angenrheidiol, fel y byddo efe yn cyd dystiolaethu a'n hysbryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw. Esa. 32. 17. Rhuf. 8. 16.

Gellir sylwi yma, a rhaid cofio yn wastadol, mai er fod *sicrwydd ffydd* yn cael ei gadarnhau neu ei gefnogi trwy y profion tumewnol o ras, etto, nid ydyw i'w sylfaenu arnynt. Yr unig sylfaen o *sicrwydd ffydd* ydyw *Dwyfol wirionedd yr addewidion am iachawdwriaeth.* Mae y ddau ryw yma o sicrwydd pa fodd bynag, (sef yr un o ras presennol, a'r un o ogoniant dyfodol,) yn cael eu cynyrchu trwy dystiolaeth Ysbryd y Mabwysiad yn cyd-dystiolaethu â'n hysbryd ni, ein bod ni yn blant i Dduw. Fel hyn, y Gair yw y sail, profiad o ras oddifewn yw y calondid,a'r Ysbryd Glan yw yr achos effeithiol o'r sicrwydd o ogoniant dyfodol.

Y pethau canlynol ydynt rai o *effeithiau* sicrwydd profiadol a gariad Duw.—1. Lle y mae y sicrwydd yma yn gywir, y mae yn gwneyd y pechadur yn ostyngedig a hunan-ymwadol, Gal. 2. 10, &c. Tra ar y llaw arall, y mae rhyfyg yn chwyddo un i fynu â llawer o falchder ysbrydol, 2 Bren. 10. 15, 16.—2. Y mae sicrwydd yn cenhedlu yn yr enaid gariad at yr Arglwydd, yr hyn sydd yn cymhell i'r ymarferiad o bob dyledswydd orchymynedig. Ps. 119. 32. Tra y mae rhyfyg ar y llaw arall yn meithrin hunan ddïogelwch gau a pheryglus, ac yn cyhoeddi heddwch iddo ei hunan er na byddo heddwch —3. Y mae sicrwydd yn cyfarfod hunan-ymholiad yn ëofn, heb ochel ymchwil yr Arglwydd, Ps. 26. 1, &c. Tra y mae rhyfyg yn cashau y goleuni, rhag i'w weithredoedd drwg gael eu datguddio, Ioan 3. 20.—4. Y mae sicrwydd yn meddu dylanwad grymus ar sancteiddhad, 2 Cor. 7. 1—5. Mae sicrwydd yn rhoddi i'w berchen olwg gywir ar y byd a'i holl fwyniant. —6. Mae sicrwydd yn cadw pob peth yn ei le gyda'r enaid, gan beri iddo fyned i'w ffordd yn llawen a hyderus.—7. Gan feddu gwerthfawr ffydd etholedigion Duw y mae sicrwydd yn ddyfal i gadw y perl gwerthfawr yma, fel na's dyger ef gan neb.

Sylw 159.—*Mae y credadyn yn mwynhau heddwch cydwybod yn y byd hwn.*

Wrth *heddwch cydwybod* yr ydym i ddeall y tawelwch ysbryd tufewnol hyfryd sydd yn deillio o buredigaeth y gydwybod oddiwrth euogrwydd ger bron yr Arglwydd, ac oddiar olwg brofiadol a chrediniol arno ei hunan mewn cyflwr o ffafr gyda Duw, ac yn cynnyddu mewn cydffurfiad a'i ddelw ef. Y mae hwn yn gydymaith gwastadol a sicrwydd profiadol o gariad Duw.

Mae y *rhagorfraint* hon o heddwch cydwybod yn dra gwerthfawr. Pan fyddo yr enaid mewn heddwch â Duw, efe a all fyned yn ëofn a hyderus atto ef fel ei Dduw, Heb. 4. 16; a 10. 19, &c.; gall edrych ar y saint fel ei gymdeithion yn nhŷ ei bererindod, Ps. 119. 63; a rhoddi ymostyngiad cyflawn i holl oruchwyliaethau rhagluniaeth, gan ei fod yn gwybod pa beth bynnag a gymer le, y bydd y cyfan er daioni. Mae y cyflwr yma yn rhagori yn annrhaethol ar yr eiddo y rhai ydynt yn ymdroi mewn diogelwch cnawdol, a heddwch twyllodrus; gobaith y rhai a seilir ar y tywod.

Mae heddwch cydwybod yn *gyrhaeddadwy* trwy daenelliad gwaed Iesu ar y gydwybod, a thrwy adnewyddiad yr holl ddyn; ac y mae yn deillio o heddwch â Duw, Rhuf. 15. 13; a 5. 1.

*Cedwir* heddwch cydwybod,—1. Trwy gymhwysiad gwastadol o waed Crist at y gydwybod. Heb. 10. 22. 2. Trwy fyfyrdod ar ragoriaethau a pherthynasau gogoneddus Crist, a'u cyfaddasrwydd yn wyneb pob rhyw angenoctyd: ar ragoriaethau Duw wedi ei gymmodi ynddo ef, fel ein Duw a'n Tad; ac ar weinyddiad y cyfammod sydd wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr, Ioan 14. 21; Ps. 104. 34. 3. Trwy gymmundeb gwastadol â Duw, Ps. 63. 4. Trwy ymdrech ddiffuant am sancteiddrwydd cyffredinol, a thrwy wyliadwriaeth yn erbyn pob pechod adnabyddus, Act. 24. 16; Ps. 119. 165; 1 Ioan 3. 3. 5. Trwy fynych adnewyddiad ar ein hedifeirwch, Ps. 51. 6. Trwy ymgyssegriad trwyadl i'r Arglwydd bob amser, fel ein Tad a'n cyfan, yr hwn sydd yn trefnu pob peth perthynol i ni yn y modd goreu, a'r hwn yn ei amser ei hun a orphen ei waith ar yr enaid, ac a'i dwg atto ei hun, trwy ffydd.

Sylw 160.—*Y mae credinwyr yn mwynhau llawenydd yn yr Ysbryd Glan, yn y byd hwn.*

*Llawenydd yn yr Ysbryd Glan* yw y llawenydd sydd yn cael ei gynnyrchu yn yr enaid trwy y mwynhad o drugareddau ysbrydol; oddiar gariad Duw wedi ei daenu ar led yn y

galon drwy yr Ysbryd; oddiar olwg ar Grist, fel y mae yn cael ei ddal allan yn nrych yr efengyl; oddiar gredu ynddo ef; ac oddiar obaith cael mwynhau ei ffafr am byth; ac fe'i cynnyrchir trwy breswyliad yr Ysbryd yn y galon, 1 Pedr 1. 8. Yr unig rai a fwynhant y llawenydd hwn yw y rhai ydynt demlau yr Ysbryd Glan,—yn y rhai y mae yr Ysbryd Glan yn preswylio.

*Seiliau* y llawenydd hwn, yr hyn sydd yn peri ei *fod* yn wirioneddol, pa un bynag a fydd e yn cael ei *deimlo* ai peidio, ydynt a ganlyn:—Yr hyn yw Duw yn Nghrist i'r credadyn; yr hyn a wnaeth y Drindod dragywyddol erddo ac ynddo; pa ragorfreintiau ydynt yn eiddo iddo yn y fuchedd hon, a pha beth y mae nodweddiad ei Dduw yn ei sicrhau iddo yn y byd a ddaw.

Amryw o'r *moddion* a ddefnyddir gan yr Ysbryd er cynnyrchu y llawenydd hwn yn eneidiau credinwyr, ydynt a ganlyn:—1. Gair Duw, yn y darlleniad neu y pregethiad o hono. 2. Cyfrannogiad ffyddiog o'r sacramentau a ordeiniodd Crist, lle y mae pob dyddanwch yn cael ei selio â gwaed, Act. 8. 39. Ond, y prif foddion yw, 3. Ffydd, heb yr hon ni's gallwn ddysgwyl y fath ffafr oddiwrth yr Arglwydd, a llawenydd yn Mab ei gariad, a'n cael ein hunain ynddo ef fel ein oll yn oll, Rhuf. 15. 13; 1 Pedr 1. 8.

Gellir adnabod *natur* y llawenydd hwn, yr hwn sydd yn hollol wahanol i bob rhyw lawenydd arall, o ba ffynhonell bynnag y gall fod yn tarddu, oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Llawenydd yn yr Ysbryd Glan, a gynnyrchir yn yr enaid, mewn canlyniad i ddeall yr Ysgrythyrau yn ol meddwl Ysbryd Duw; ac ni's gall dim gwir lawenydd ysbrydol gyfodi ond o'r Gair.

2. Mae llawenydd yn yr Ysbryd Glan yn arhosol, tra nad yw llawenydd y rhagrithiwr ond twyllodrus, a thros fynyd awr. Gwel Ddammeg yr Hauwr, Matt. 13.

3. Mae llawenydd yn yr Ysbryd Glan yn cymeryd lle yn yr enaid wedi ei argyhoeddi o bechod, a'i lethu o'r braidd dan deimlad o hono; tra y gall llawenydd y rhagrithiwr ymddangos lle na bu un radd o argyhoeddiad o bechod, Act. 2. 37, &c. Ioan 16. 20. Esa. 61. 2; a 35. 10.

4. Mae llawenydd yn yr Ysbryd Glan yn peri i ddyn ymddangos yn dra isel yn ei olwg ei hun, a Duw yn dra gogoneddus: ond y mae gau lawenydd yn chwyddo, ac yn gwneyd un yn fawr yn ei olwg ei hun, fel mai prin y gwelir Duw gan ei fawredd hunanol, Gen. 28. 15, 17. Exod. 3. 1. Luc 2. 8, &c. Job 42. 5, 6.

5. Mae llawenydd yn yr Ysbryd Glan yn cyffroi y cred-

adyn i ddiwydrwydd mawr yn ngwaith yr Arglwydd; ond y mae gau lawenydd yn peri i'r rhagrithiwr benderfynu ei fod ef eisoes wedi gwneyd digon mewn ffordd o ufudd-dod, Phil. 3. 12.

6. Y mae llawenydd yn yr Ysbryd Glan o natur adfywiol, ac yn cadw yr enaid yn siriol; ac y mae cysur sanctaidd yn ffynu trwy yr holl ddyn, hollol wahanol i lawenydd y byd.

Nid yw llawenydd yn yr Ysbryd Glan mor gryf *bob amser* yn y credinwyr; ac nid yw mor gryf mewn rhai ag ydyw mewn eraill. Mae yn fwyaf yn gyffredin,—1. Ar dröedigaeth yr enaid, os bu yno ofid mawr yn flaenorol.—2. Wedi nos dywell o guddiad wyneb Duw, a themtasiwn gref, Esa. 54. 6, &c.; a 57. 16, &c. Ps. 16. 10, &c.—3. Mewn adeg erledigaethus yn achos Crist a'i efengyl, Act. 5. 41. a 16. 25; 1 Pedr 4. 13, &c.—4. Pan fyddo yr Arglwydd yn ymddangos mewn modd nodedig dros ei eglwys, Exod. 15. Barn 5, Dat. 12. 10. a 14. 1; &c.; a 19. 1, &c.—5. Pan y derbynier rhyw ffafr ddwyfol yn lled annysgwyliadwy, 1 Sam. 2; Luc 1. 47. 6. Pan fyddo y credadyn ar fyned i dŷ ei Dad, Ps. 23. 4; Job 19. 25, &c.

Sylw 161.—*Mae y credadyn yn cynnyddu mewn gras yn y fuchedd hon.*

Mae yr athrawiaeth o *gynnyddu mewn gras* yn eglur oddiwrth Diar. 4. 18, ac Eph. 4. 13, lle y'n hysbysir am ryw fesur o sancteiddrwydd, y mae yn rhaid i'r saint ei gyflenwi; neu, yr hyn sydd yr un peth, "mesur oedran cyflawnder Crist," yr hwn y mae yn rhaid iddynt ei gyrhaedd. Gwel hefyd Ps. 84. 7; Ioan 15. 2.

Yr achos o'r cynnydd hwn mewn gras, yw *undeb a Christ, trwy ffydd*, yn nghyd â *dylanwadau yr Ysbryd*, y rhai y mae efe yn eu hanfon fel gwlaw ar irwellt, neu fel y cawodau sydd yn dyfrhau y ddaear. Gwel Ddammeg y Winwydden a'i changhenau, Ioan 1. 5.

Y *ffyrdd* yn y rhai y mae y credadyn yn cynnyddu mewn gras ydynt a ganlyn:—1. Y mae yn cynnyddu *fry* mewn cariad a serchawgrwydd, a dymuniadau nefol. 2. Y mae yn tyfu i *wared* mewn gwir ostyngeiddrwydd, Esaiah 37. 31. 3. Y mae yn tyfu yn *dufewnol*, trwy lynu wrth Grist. 4. Y mae yn tyfu yn *allanol* mewn buchedd sanctaidd.

Mae tyfiant gwir Gristion; a'r eiddo y rhagrithiwr, yn gwahaniaethu yn y pethau canlynol:—

1. Mae cynnydd y credadyn mewn gras yn hollol reolaidd, ac yn gyfryw ag y dylai fod. Gan fod grasusau yr Ysbryd yn gyssylltiedig anysgaredig, a hyny yn eu natur, fel pan

blennir un yn yr enaid, y mae hadau y lleill oll i'w cael yno; a phan fyddo un yn cynnyddu y maent oll yn cynnyddu. Phil. 3. 12.

2. Ar y llaw arall, nid yw y rhagrithiwr yn cynnyddu yn naturiol. Mae yn cynnyddu mewn rhyw bethau tra nad yw yn cynnyddu mewn pethau eraill. Er ennghraifft, efe a ddichon fod yn meddu llawer o wybodaeth, tra na's medd ddim sancteiddrwydd. Gwel 2 Tim. 3. 5; ac efe a all golli ei awydd am wybodaeth yn fuan; canys wedi iddo fyned ran o'r ffordd, y mae efe yn casglu ei fod wedi gwneuthur yn dda,—ei fod ef yn awr yn berffaith, a bod pob peth yn dda gydag ef.

Sylw 162.—*Mae y credadyn yn parhau mewn cyflwr o ras tra yn y fuchedd hon.*

Mae yr athrawiaeth o *gadwraeth* y saint mewn cyflwr o ras hyd y diwedd, yn eglur oddiwrth y pethau canlynol:—

1. *Annghyfnewidioldeb* cariad Duw tuag attynt, Jer. 31. 3; Mal. 3. 6; Rhuf. 8. 38, 39; a 11. 29.

2. Oddiwrth *Ysgrythyrau* y gwirionedd. Gwel y rhanau canlynol heblaw llawer eraill:—Esa. 54. 10; Rhuf. 8. 30, 35; 1 Ioan 2. 19; a 5. 18; Esa. 55. 3; a 59. 21; Matt. 24. 24; a 16. 18; Ioan 10. 27—30; Rhuf. 5. 1, &c.

3. Oddiwrth *natur* y cyfammod gras. Gwel Jer. 32. 40. Pa ras a fyddai yn y cyfammod hwnw, pe na ddiogelai oddiwrth ddigofaint tragywyddol?

4. Oddiwrth *deilyngdod* dyoddefiadau Crist a'i angau. Ni's gellir meddwl y buasai Crist yn dyoddef cymmaint mewn enaid a chorph, oddiwrth ddynion, oddiwrth gythreuliaid, ac oddiwrth ei Dad, pe na buasai yn sicr y cawsai y gwobrwy addawedig iddo. Heb. 9. 12; a 10. 14. Ioan 6. 39; a 17. 12.

5. Oddiwrth *eiriolaeth* Crist. Gwel Ioan 17. 11, 20; a 14. 16; Luc 22. 32; Heb. 7. 25.

6. Oddiwrth yr *undeb* agos sydd rhwng Crist a chredinwyr. Gwel 1 Cor. 12. 12, &c.; Ioan 14. 19. Heb Grist, y pen, ni byddai credinwyr, y rhai ydynt aelodau o'i gorph ef onid meirw; a heb yr aelodau, ni byddai gan Grist, y pen, un corph; ac ofer a fyddai ei angau ef.

7. Oddiwrth *weddiau* credinwyr ger bron gorsedd gras. Gwrandewid Crist pan weddiai dros Pedr, yr hyn sydd yn annogaeth i gredinwyr i weddïo yr un weddi, gan fod yn hyderus y gwrandewir ac yr attebir eu gweddi hwy yn Nghrist.

8. Oddiwrth *ddylanwadau parhaus* yr Ysbryd Glan. Os yw credinwyr yn demlau yr Ysbryd Glan, rhaid fod dywedyd

y syrthiant hwy ymaith yn annghysson a'i breswyliad ef ynddynt. Gwel 1 Cor. 6. 19; Eph. 1. 13; a 4. 30; lle y dynodir ei waith drwy *selio*. Gwel hefyd Phil. 1. 6.

9. Oddiwrth ystyriaeth o'r gwaith hwn yn y rhai a fuont yn euog o bechodau ysgeler, wedi eu dwyn i gyflwr o heddwch â Duw. Pwy a all ddywedyd fod Pedr pan y gwadodd ei Arglwydd wedi cwympo yn hollol o gyflwr o ras? Pwy a all ddywedyd fod Dafydd ar gyfrif ei bechod wedi colli ei hawl o ffafr Duw am byth? neu, pwy a all brofi fod y berthynas rasol oedd rhyngddo gynt â Duw, wedi ei dattod. Gwel Ps. 51.

Ond er na's gall plant Duw gwympo ymaith yn hollol oddiwrth ras, hwy a allant, ac y maent yn fynych yn cwympo i lawer o bechodau mawrion; a thrwy y pechodau hyn, gallant, ac y maent yn aml yn cael eu darostwng o dan wg Duw, nid fel Barnwr digllawn y mae yn wir, ond fel Tad wedi ei anfoddloni, yn sicr o'u ceryddu. Gwel Ps. 89. 30—34.

Gellir sylwi yma, nad yw yr athrawiaeth hon o barhad y saint, yn rhoi y calondid lleiaf i benrhyddid, fel y mae rhai yn dewis barnu. Ond po fwyaf yr argyhoedder pob gwir gredadyn o gariad Duw at ei enaid, a pho fwyaf y teimlo gariad Duw wedi ei dywallt ar led yn ei galon, mwyaf zelog y bydd dros anrhydedd y gras hwnw a brofir ganddo. Gwel Rhuf. 6, lle y mae yr wrthddadl yma yn cael ei hatteb yn gyflawn.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol, dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o gyfleu pob rhan o drefn iachawdwriaeth yn eu lle priodol, fel yr ymddangoso cyssylltiad y naill ran a'r llall, ac na chwerwer dyddanwch y credadyn. 2. Y dylem lafurio am y sicrwydd profiadol o gariad Duw. 3. Yr angenrheidrwydd o arfer pob moddion ysbrydol er ei gyrhaedd. 4. Ni's gall y drygionus gael y sicrwydd yma, gan mai dawn yn deillio o gyfiawnhad a sancteiddhad ydyw. 5. Mawredd y cysuron hyny ydynt yn deillio oddiar sicrwydd. 6. Bod y rhai a'i meddant yn ddyledwyr mawrion i Ysbryd y gras; ac os y tristaont ef, y gall efe gilio oddiwrthynt. 7. Y bydd i dangnefedd meddwl ein parottoi erbyn pob rhagluniaethau. 8. Mai o'r Gair yn unig y gellir cael heddwch cydwybod, a bod yr heddwch a ennillir unrhyw ffordd arall yn dra pheryglus. 9. Na's gall yr annghredadyn fwynhau llawenydd yn yr Ysbryd Glan. 10. Y gall y llawenydd yma weini cynnaliaeth yn wyneb y rhagluniaethau croesaf. 11. Y dylem ni

fod yn ymdrechgar am ei feddu. 12. Bod meddyliau y rhagrithiwr a'r byd am ran yr enaid yn dragywydd, yn hollol wrthwyneb i'r eiddo y credadyn. 13. Y bydd holl ffynhonau llawenydd bydol yn darfod yn fuan, dan wasgfeydd cystudd ac angau; tra y mae ffynhonell llawenydd y credadyn yn anhysbyddawl. 14. Yr angenrheidrwydd o feddu y llawenydd hwn, os ceisiwn ni ein daioni penaf ein hunain. 15. Y dylai y rhai a'i meddant ymdrechu i'w gadw, a'r rhai na's meddant, ymdrechu i'w feddu. 16. Yr angenrheidrwydd o arfer pob moddion fel y cynnyddom mewn gras. 17. Nad yw pechaduriaid diofal, namyn diffrwythder yn Eglwys Dduw, a'u bod mewn perygl o gael eu tori i lawr fel diffrwythwyr y tir. 18. Nad oes gan gredinwyr un achos i ofni y'u rhoddir i fynu i farwolaeth. 19. Perygl y rhai ydynt yn tynu yn ol heb ddilyn yr Arglwydd. 20. Bod y rhai oll ydynt yn ymfoddloni ar ffurf o dduwioldeb yn unig, yn anffrwythlawn. 21. Yr angenrheidrwydd am ddylanwadau yr Ysbryd, fel y cynnyddom ger bron yr Arglwydd. 22. Bod pob peth yn y cyfammod tragywyddol wedi ei luniaethu yn hollol ac yn sicr. 23. Diogelwch gwynfydedigrwydd y credadyn am byth. 24. Bod doniau a galwedigaethau Duw yn ddiedifeiriol. 25. Bod cyflwr y rhagrithiwr yn dra pheryglus; ac am hyny gwelwn yr angen mawr am ras. 26. Ei fod yn dra pheryglus i ni fyned rhagom mewn pechod, o herwydd helaethrwydd gras Duw.

## *Doniau y Prynedigaeth yn Angau.*

HOL. 37. PA DDONIAU Y MAE Y CREDADYN YN EI DDERBYN ODDIWRTH GRIST YN ANGAU?

Mae eneidiau y credinwyr yn angau yn cael eu perffeithio mewn sancteiddrwydd, a mynedfa ddioed i ogoniant; a'u cyrph, y rhai ydynt yn parhau mewn undeb â Christ, a orphwysant yn eu beddau hyd yr adgyfodiad.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod eneidiau y credinwyr yn angau yn cael eu gwneyd yn berffaith mewn sancteiddrwydd. Heb. 12. 23. "At ysbrydoedd y cyfiawn y rhai a berffeithiwyd."

2. Bod eneidiau y credinwyr yn myned i'r nefoedd yn union-gyrchol ar farwolaeth, **Luc 23. 43. "A'r Iesu a ddyw-**

edodd wrtho, Yn wir meddaf i ti, heddyw y byddi gyda mi yn mharadwys." Gwel hefyd 2 Cor. 5. 8.

3. Bod cyrph y credinwyr tra yn eu beddau, yn aros mewn undeb a Christ. 1 Thes. 4. 14. "Felly y rhai a hunasant yn yr Iesu, a ddwg Duw hefyd gydag ef."

4. Bod cyrph y credinwyr yn "gorphwys" yn eu beddau, Esa. 57. 2. "Hwy a orphwysant yn eu hystafelloedd, sef pob un a rodia yn ei uniondeb."

5. Y bydd i gyrph y credinwyr gael eu cyfodi o'u beddau y dydd diweddaf, 1 Thes. 4. 16. "Y meirw yn Nghrist a gyfodant yn gyntaf." Gwel hefyd Job 19. 26.

### EGLURHAD.

Sylw 163.—*Bydd eneidiau y credinwyr yn cael eu perffeithio mewn sancteiddrwydd yn angau.*

Ymddengys perffeithrwydd yn y golygiadau canlynol yn eneidiau y credinwyr yn angau:—Teimlant eu hunain yn mwynhau rhyddid yn mysg ysbrydoedd y cyfiawnion y rhai a berffeithiwyd, wedi eu gwared oddiwrth bechod, a'u holl elynion, gan y rhai y'u hamgylchynid yn y byd hwn; ni theimlant boen mwyach oddiwrth gyflawniad pechod; ni's blinir mo honynt mwyach drwy eu ymhalogiad oddiwrth yr annuwiol; maent weithian wedi cyrhaedd mesur oedran perffeithrwydd yn Nghrist Iesu; y maent bellach wedi cyrhaedd pen bryn sancteiddrwydd a pherffeithrwydd; y maent yr awrhon yn berffaith fel y mae yntau yn bur; mewn gair, y maent yn awr yn ddelw yr Arglwydd, wedi eu cydffurfio ag Iesu, yr hwn yw "delw y Duw anweledig."

Sylw 164.—*Mae eneidiau y credinwyr yn myned i'r nefoedd yn y fan pan fyddant feirw.*

Bod eneidiau y credinwyr yn myned i ogoniant yn ebrwydd, sydd amlwg oddiwrth amryw ranau o'r Ysgrythyrau; ac y mae yn destyn hoff ddysgwyliad plant Duw; gwel Luc 23. 43, lle y mae yn rhaid i ni olygu wrth *Baradwys*, y *nefoedd*, neu gyflwr o ogoniant; Luc 16. 22, lle mae y nefoedd yn cael ei galw *mynwes Abraham;* a Dat. 14. 13, lle y dywedir, "Gwyn eu byd y meirw, y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd;" ond, pa le y byddai eu gwynfydedigrwydd, pe byddai eneidiau y credinwyr yn huno hyd yr adgyfodiad? Gwel hefyd Phil. 1. 23; 2 Cor. 5. 1, &c. Dat. 3. 3.

Mae y gogoniant i'r hwn y caiff eneidiau credinwyr fynedfa yn ddïoed wedi marw, yn annirnadwy; canys "ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn erïoed,

y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef. 1 Cor. 2. 9. Ac fe'i cydmerir yn yr Ysgrythyr i *deyrnas*, er dangos yr urddas gogoneddus i'r hwn y dyrchefir y saint, Luc 12. 32. Dat. 1. 6;—i *dŷ nid o waith llaw*, er dynodi rhagoriaeth annhraethol y trigfanau nefol ar y triglëoedd godidocaf a adeiledir gan ddynion, 2 Cor. 5. 1;—i *ettifeddiaeth anllygredig*, er arwyddoccau y bydd dedwyddwch y saint yn dragywyddol, 1 Pedr 1. 4; ac i *wlad well*, er dangos nad yw y pethau a welir, ag ydynt dros amser, yn haeddu eu cyffelybu a'r pethau ydynt anweledig a thragywyddol, Heb. 11. 16. 2 Cor. 4. 18.

Sylw 165.—*Mae cyrph y credinwyr yn gorphwys yn eu beddau, lle y maent yn barhaus mewn undeb â Christ.*

Dywedir eu bod *yn gorphwys* yn eu beddau; oblegid bod eu beddau fel gwelyau esmwyth, lle yr huna eu cyrph yn ddïogel hyd forau yr adgyfodiad, Esa. 57. 2.

Bod eu cyrph yn parhau *mewn undeb* a Christ, sydd amlwg, canys ni all angau ddattod yr undeb annysgaredig sydd rhwng Crist a chredinwyr, 2 Thes. 4. 14; gwel hefyd Ioan 11. 11, lle y llafarai Crist am Lazarus fel ei gyfaill, wedi ei farw, a Rhuf. 8. 11, lle y rhoddir ar ddëall yn amlwg i ni, fod yn rhaid i ni gredu, mai yr Ysbryd sydd yn preswylio yn y credinwyr a fywioca eu cyrph meirw, yr hyn a ddengys eu bod yn aelodau o Grist er eu bod yn y bedd, gan fod ei Ysbryd ef yn trigo ynddynt hwy.

Sylw 166.—*Fe gyfodir cyrph credinwyr o'u beddau y dydd diweddaf.*

Hwy a orphwysant yn eu beddau *hyd yr adgyfodiad*, ond nid dim yn hwy. Yna, datgloir pyrth marwolaeth, a barau y bedd a ddryllir, a hwy a gyfodir, ac a unir a'u heneidiau, wedi yr hyn y gorphwysa yr holl ddyn yn dragywyddol yn nghariad Duw, ac y dwg Crist y gogoniant.

Sylw 167.—*Fe fydd cyflwr yr annghredinwyr yn dra gwahanol i gyflwr y credinwyr yn angau.*

I'r annghredinwyr *carchar* yw y bedd, lle y'u cedwir hyd yr adgyfodiad; a'u heneidiau a anfonir yn y fan i uffern; lle y'u llenwir a dychryn ac ing, ac y'u cedwir yn nghyd a'r angelion cwympedig, yn nghadwynau tywyllwch i farn y ydd mawr, 2 Pedr 2. 4.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn, dysgwn, 1. Yr angenrheidrwydd am gynnyddu mewn cydffurfiad a delw yr Iesu, yr

hyn yn unig a all ein cyfaddasu i fwynhau Duw mewn gogoniant. 2. Bod y saint yn cael llawer o ddyddanwch mewn cystudd. 3. Na's gellir amddifadu y credadyn o'i ddedwyddwch, pan fyddo wedi ei barottôi iddo. 4. Dedwyddwch y credinwyr, ac annedwyddwch annghredinwyr, yn y fan wedi angau. 5. Nerth cariad Crist tuag at ei bobl; y mae yn gryfach nag angau; canys ni's gall angau ei ddystrywio, Rhuf. 8. 38, 39. 6. Dïogelwch y credinwyr hyd yn nod wedi iddynt adael y byd hwn, a chyn iddynt ddechreu ar y gwobrwy llawn sydd mewn addewid iddynt. 7. Y bydd adgyfodiad, pan na all y bedd attal eu llwch gwerthfawr. 8. Na ddylai dim ddigaloni pobl yr Arglwydd, tra y maent yn y byd hwn, gan ei fod ef yn sicr o orphen y gwaith da a ddechreuwyd ganddo. 9. Nad oes gan gredinwyr un rheswm am ofni angau. 10. Bod galar annghymesur am farwolaeth cyfeillion ymadawol, yn annghyson â chrediniaeth o'r adgyfodiad.

## *Doniau y Prynedigaeth yn yr Adgyfodiad.*

HOL. 38. PA DDONIAU Y MAE Y CREDINWYR YN EI DDERBYN ODDIWRTH GRIST YN YR ADGYFODIAD?

Wedi eu cyfodi mewn gogoniant, fe'u cydnabyddir ac a'u rhyddhëir yn gyhoeddus yn nydd y farn, ac a'u gwneir yn gwbl ddedwydd mewn cyflawn fwynhad o Dduw i dragywyddoldeb.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y cyfodir y meirw i fynu mewn gogoniant yn yr adgyfodiad, 1 Cor. 15. 43. "Efe a hauir mewn anmharch, ag a gyfodir mewn gogoniant."

2. Yr arddelwir credinwyr gan Grist yn amlwg yn nydd y farn, Luc 12. 8. "Pwy bynnag a'm haddefo i ger bron dynion, Mab y dyn hefyd a'i haddef yntau ger bron angelion Duw." Gwel hefyd Matt. 10. 32.

3. Y rhyddheir credinwyr gan Grist yn y farn, 1 Pedr 1. 7. "Fel y caffer profiad eich ffydd chwi, yr hwn sydd werthfawrusach na'r aur colladwy, cyd profer ef trwy dân, er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant, yn ymddangosiad Iesu Grist." Gwel hefyd Mat. 25. 21.

4. Y gwneir credinwyr yn berffaith ddedwydd yn y mwyn-

had o Dduw. 1 Cor. 2. 9. "Ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn, y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai a'i carant ef." Gwel hefyd 1 Ioan 3. 2.

5. Y caiff y credinwyr fwynhau Duw i dragywyddoldeb, 1 Thes. 4. 17. "Felly y byddwn yn wastadol gyd a'r Arglwydd."

EGLURHAD.

Sylw 168.—*Fe gyfodir y credinwyr mewn gogoniant yn yr adgyfodiad.*

Y bydd *adgyfodiad*, sydd amlwg oddiwrth y rhanau canlynol o'r Ysgrythyr, Dan. 12. 2. "A llawer o'r rhai sydd yn cysgu yn llwch y ddaear a ddeffröant, rhai i fywyd tragywyddol, a rhai i warth a dirmyg tragywyddol," Ioan 5. 28, 29. "Na ryfeddwch am hyn; canys y mae yr awr yn dyfod, yn yr hon y caiff pawb ar sydd yn y beddau glywed ei leferydd ef; a hwy a ddeuant allan: y rhai a wnaethant dda i adgyfodiad bywyd, a'r rhai a wnaethant ddrwg i adgyfodiad barn." 1 Cor. 15. 13, 14. "Eithr onid oes adgyfodiad y meirw, ni chyfodwyd Crist chwaith. Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yn wir yw ein pregeth ni, ac ofer hefyd yw eich ffydd chwithau;" a thrachefn, adn. 16, 18. "Canys os y meirw ni chyfodir, ni chyfodwyd Crist chwaith. Ac os Crist ni chyfodwyd, ofer yw eich ffydd chwi; yr ydych eto yn eich pechodau. Yna hefyd y cyfrgollwyd y rhai a hunasant yn Nghrist." Gwel hefyd Job 19. 25—27. Gan hyny, yn gymmaint a bod Duw wedi datguddio yn ei air y bydd iddo gyfodi y meirw, a chan ei fod ef hefyd yn anfeidrol mewn gallu, ac felly yn alluog i'w hadgyfodi, nid oes un lle i ammeu na bydd adgyfodiad cyffredinol. Y mae genym amryw brofion o allu Duw i gyfodi y meirw yn yr Hen Destament a'r Newydd. Gwel 1 Bren. 17. 22. 2 Bren. 4. 35; a 13. 21. Marc 5. 41. Act. 9. 40. Luc 7. 12, 15. Ioan 11. 39, 44.

Fe gyfodir y meirw a'r *un cyrph*. Gwel 1 Cor. 15. 42—44, 53, 54; oddiwrth yr hyn y mae yn amlwg mai yr un cyrph o ran sylwedd, a gyfodir, er y byddant wedi eu doniaw a chynheddfau gwahanol: canys pe na buasai felly, crëedigaeth, ag nid adgyfodiad a fuasai.

Yn yr adgyfodiad fe gyfodir cyrph y credinwyr *mewn gogoniant*. Wrth hyn yr ydym i ddeall y cyfodir hwy yn anllygredig, yn ogoneddus, yn nerthol, ac yn ysbrydol, 1 Cor. 15. 42—44. Byddant yn *anllygredig;* ni byddant yn ddarostyngedig mwyach i anhwyldeb neu angau. Byddant yn *ogoneddus;* ni chanfyddir un diffyg ynddynt; ond hwy a

fyddant yn llawn o degwch a dysgleirdeb; canys fe'u gwneir yn gyffelyb i gorph gogoneddus Crist. Phil. 3. 21. Byddant yn *nerthol;* ni's gwybyddant pa beth fydd blinder; canys hwy a wregysir â nerth, ac yn nerth yr Arglwydd Dduw yr ânt. Byddant yn *ysbrydol;* mae yn wir na throir mo honynt yn *ysbrydion*, ond fe'u donir a chynheddfau ysbrydol; byddant yn feddiannol ar gyfansoddiad hynod o goeth; canys ni newynant, ac ni sychedant mwyach, ac ni hunant un amser, ond gwasanaethu Duw ddydd a nos yn y deml nefol, Dat. 6. 15, 16.

Sylw 169.—*Fe arddelwir y credinwyr yn gyhoeddus, ac fe'u rhyddeir yn nydd y farn.*

1. Fe'u harddelwir yn gyhoeddus gan Grist, fel ei eiddo. Ac fe'u cydnabyddir ganddo ef, nid yn mhresenoldeb ychydig, nid yn unig o flaen ei frodyr, ond ger bron llawer o dystion, ger bron byd cynnulledig, ger bron cythreuliaid, a cher bron Duw a'i angelion sanctaidd, Mat. 10. 32.

2. Fe'u *rhyddeir* gan Grist, Barnwr pawb. Fe'u rhyddheir, nid yn unig oddiwrth bob gau chwedl a roddir yn eu herbyn, ond hefyd oddiwrth wir euogrwydd eu holl bechodau, ar gyfrif eu rhan yn Nghrist a'i gyfiawnder ef. Ni bydd gan ddynion na chythreuliaid, deddf na chydwybod, ddim i'w roddi yn eu herbyn, a'r na's attebir yn gyflawn gan yr Iesu. Rhuf. 8. 33, 34.

Y mae amryw ddoniau eraill, o'r rhai y cyfrannoga y credinwyr yn nydd y farn, heblaw y rhai a grybwyllir uchod. Fe'u cynnullir o holl gyrau y ddaear gan yr angelion, Mat. 24. 31; fe'u cipir i fynu yn y cymmylau i gyfarfod a'r Arglwydd Iesu, yr hwn a ddisgyn o'r nef a bloedd, 1 Thes. 4. 16, 17; fe'u gosodir ar ddeheulaw yr Iesu, Mat. 25. 33; fe'u gwahoddir gan Grist i ettifeddu y deyrnas ogoneddus a barottowyd iddynt, Mat. 25. 34; hwy a eisteddant gyda Christ i gydsynio yn y farn ar yr angelion syrthiedig a dynion annuwiol, 1 Cor. 6. 2, 3.

Sylw 170.—*Gwneir credinwyr yn berffaith ddedwydd yn y cyflawn fwynhad o Dduw i dragywyddoldeb.*

Fe'u *gwneir yn berffaith ddedwydd*, neu, fe'u llwyr waredir oddiwrth bob pechod a thrueni, a dygir hwy i gyflawn feddiant o bob dedwyddwch. Mae dedwyddwch yn gynnwysedig mewn rhyddid oddiwrth bechod a thrallod, oddiwrth ddïoddefiadau a themtasiynau, ac oddiwrth bob drwg. Ond, ni's gall fod rhyddid oddiwrth y pethau hyn hyd angau; ac nid yw credinwyr yn berffaith ddedwydd yn angau; cenys cyn y

gall hyny gymeryd lle, rhaid ail uno enaid a chorph; a phan uner y rhai hyn y'u diwellir; "Pan ymddangoso Crist ein bywyd ni, yr ymddangoswn ninnau hefyd gyd ag ef mewn gogoniant, Col. 3. 4.

Mae y radd uchaf o ogoniant yn gynnwysedig mewn *llawn fwynhad o Dduw*, y daioni pennaf, Salm 73. 25. Mae hyn yn arwyddo y bydd i'r credinwyr gael presenoldeb gogoneddus Duw gyda hwy, Dat. 21. 3; y bydd iddynt gael golwg wynfydedig ddi gyfrwng ar ei wyneb ef, Dat. 22. 4. 1 Cor. 13. 12. 1 Ioan 3. 2; y cant brofiad a sicrwydd cyflawn o gariad Duw attynt, ac o berffaith gariad yn eu calonau hwy atto ef, yr hyn a ddeillia o angenrheidrwydd o wyddfod Duw yn y nef; ac y bydd iddynt gael llawenydd cyflawn a thra rhagorol, Salm 16. 11. Judas 24.

A'r mwynhad cyflawn yma o Dduw gan gredinwyr a bery *i dragywyddoldeb*, heb un attalfa na therfyn iddo, 1 Thes. 4. 17.

Sylw 171.—*Bydd cyflwr yr anghredinwyr yn dra gwahanol i gyflwr y credinwyr yn y dydd olaf.*

Yn nydd y farn, bydd cyflwr yr annuwiol yn druenus annrhaethol. Cyfodir eu cyrph o'r bedd gan Grist fel eu Barnwr a ddigiwyd ganddynt; ac a'u donir a nerth ac ag anfarwoldeb, yn unig fel y gallont ddyoddef trueni tragywyddol. Er eu braw, gwelant Grist yn dyfod â thân fflamllyd i wneuthur dïal arnynt, Dat. 1. 7. 2 Thes. 1. 7, 8. Fe'u cyfleir o flaen gorseddfainc Crist, lle y'u bernir ac y'u dedfrydir i gosb dragywyddol, Dat. 20. 11, 12. Mat. 25. 41. Ac yna yn ddïoed, fe'u gyrrir o wyddfod yr Arglwydd i uffern, lle y'u cosbir mewn corph ag enaid, i oesoedd diderfyn tragywyddoldeb, Mat. 25. 46. Rhuf. 2. 8, 9. Dat. 14. 11.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn, dysgwn,—1. Y calondid sydd i gredinwyr i fyned i'w ffordd yn llawen. 2. Y bydd gwahaniaeth dirfawr rhwng y cyfiawn a'r drygionus yn yr adgyfodiad. 3. Y caiff y credinwyr fwynhau prynedigaeth eu cyrph yn fuan. 4. Y dedwyddwch sydd mewn cyssylltiad a chyffesu Crist ger bron dynion, a'r perygl o'i wadu ef. 5. Y bydd i elynion y credinwyr gael eu gwobrwyo yn amser Duw. 6. Nad oes i'r saint un achos i ofni canlyniadau yr adgyfodiad. 7. Na's gall credinwyr tra yn y byd hwn fwynhau unrhyw ddedwyddwch cyflawn. 8. Y gwneir ysgariad tragywyddol rhwng y cyfiawn a'r drygionus yn nydd y farn gyffredinol.

# RHAN II.

## Y DDYLEDSWYDD Y MAE DUW YN EI OFYN GAN DDYN.

### RHAGLITH.

### *Am Natur Dyledswydd Dyn yn Gyffredinol.*

HOL. 39. PA BETH YW Y DDYLEDSWYDD Y MAE DUW YN EI OFYN GAN DDYN?

Y ddyledswydd a ofyna Duw gan ddyn, ydyw ufudd-dod i'w ewyllys datguddiedig.

DOSRANIAD A PHROFION.

**Fe'n dysgir yma,—**

1. Bod rhyw ddyledswyddau neillduol yn ofynol gan Dduw oddiwrth ddynion, Deut. 10. 12. "Ac yr awr hon Israel, beth y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei ofyn genyt, ond ofni yr Arglwydd dy Dduw, a rhodio yn ei holl ffyrdd, a'i garu ef, a gwasanaethu yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid."

2. Mai swm dyledswydd dyn i Dduw yw ufudd-dod, 1 Sam. 15. 22. "Wele, gwrando sydd well nag aberth, ac ufuddhau, na brasder hyrddod."

3. Bod ehangder yr ufudd-dod y mae Duw yn ei ofyn yn ufudd-dod cyffredinol, Iago 2. 10. "Pwy bynnag a gadwo y gyfraith i gyd oll, ac a ballo mewn un pwnc, y mae efe yn euog o'r cwbl."

4. Bod yn rhaid i'r ufudd-dod a ofynir oddiwrth ddyn, fod yn berffaith a gwastadol, Mat. 22. 37. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl."

5. Mai unig reol ufudd-dod dyn yw ewyllys datguddiedig Duw, Mica 6. 8. "Dangosodd efe i ti ddyn beth sydd dda; a pha bèth a gais yr Arglwydd genyt, ond gwneuthur barn, a hoffi trugaredd, ac ymostwng i rodio gyda'th Dduw."

EGLURHAD.

Sylw 172.—*Y ddyledswydd a ofyna Duw gan ddyn, yw ufudd dod.*

Gan mai gweision, plant, a deiliaid i Dduw yw holl ddynolryw, gyda golwg ar eu rhwymedigaeth i ufuddhau, er nad

mewn ystyr rasol, y mae pob dyn yn rhwym fel eu gilydd i ufuddhau iddo ef.

Y *rhwymedigaethau* sydd ar ddyn i roddi yr ufudd-dod y mae Duw yn ei ofyn ydynt a ganlyn;—

1. Mae dyn yn rhwym i ufuddhau i Dduw, am mai efe yw ei greawdwr, ei gynhaliwr, a'i gymmwynaswr.

2. Mae dyn yn rhwym i ufuddhau i Dduw, am mai efe yw ei ben Arglwydd, ei frenin, a'i ddeddfwr. Gan mai efe yw yr unig Ddeddf-roddwr cyffredinol i bawb, a'i fod felly yn neillduol i ni, yn gymmaint a'i fod wedi datguddio ei gyfraith i ni, yr ydym yn rhwym o'i derbyn yn y cariad o honi, fel y dangoser nad yn ofer y'i derbyniasom.

3. Mae dyn yn rhwym i ufuddhau i Dduw, oblegid mai dyma prif ddyben y'i gwnaed erddo.

4. Mae dyn yn rhwym i ufuddhau i Dduw, o herwydd ei ragoriaethau gogoneddus. Rhaid fod y sawl na's gwelant ddim yn hawddgar yn Nuw, yn ddeillion i ragoriaethau y natur Ddwyfol. A pha fodd y gellir profi cariad atto ef, ond trwy ufudd-dod?

5. Mae dyn dan rwymau arbenig i ufuddhau i Dduw oddiar *amlygiad* o'i gariad at bechaduriaid yn *Iesu Grist*. Oni bydd i'r cariad hwn, yr hwn sydd tu hwnt i bob deall, effeithio er cynnyrchu ufudd-dod diffuant, nid oes dim a wna. Dyma y cymhelliad arbenig sydd yn rhoddi y saint ar waith. Gwel 1 Ioan 4. 19. 2 Cor, 5. 14, &c.

Sylw 173.—*Rheol ufudd-dod dyn yw ewyllys datguddiedig Duw.*

Mae ewyllys Duw naill ai yn *ddirgeledig* neu yn *ddatguddiedig*.

1. Mae ewyllys *ddirgeledig* Duw yn dwyn perthynas a phob peth a wnaed neu a wneir, ac yn cyrhaedd hyd yn nod weithredoedd pechadurus, y rhai a oddefa, ac a oruwchrëola efe er ei ogoniant ei hun. Dyma rëol Duw ei hun i weithredu wrthi, ac nid rheol ufudd-dod dyn. Deut. 29. 29.

2. Ewyllys *ddatguddiedig* Duw sydd yn golygu y pethau hyny y gellir, neu y dylid eu gwneuthur; ac y mae hon yn unig yn cyrhaedd y pethau hyny ydynt yn ddyledswydd, ac ynddynt eu hunain a dueddant i'w ogoniant ef. Hwn a gynnwysir yn Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, a dyma unig reol ufudd-dod dyn. Mica 6. 8.

Sylw 174.—*Mae yr ufudd-dod a ofyna Duw gan ddyn, yn gyffredinol, gwastadol, perffaith, didwyll, tufewnol, ac ewyllysgar.*

Mae Duw yn gofyn ufudd-dod *cyffredinol.* Rhaid i'n huf-

udd-dod fod yn cymeryd holl orchymynion Duw i fewn, Salm 119. 6. Maent oll wedi eu nodi â'r un awdurdod Dwyfol. Gwel Iago 2. 10, 11.

2. Mae Duw yn gofyn ufudd-dod *gwastadol;* rhaid i ni gadw cyfraith yr Arglwydd yn wastadol, Salm 119. 44. Rhaid ein bod yn ddyfal a dïanwadal yn ein hufudd-dod i ewyllys Duw, heb feiddio byth weithredu yn groes iddo.

3. Mae Duw yn gofyn ufudd-dod *perffaith.* Rhaid i'r ddeddf gael ufudd-dod perffaith, naill ai gan y pechadur ei hunan, neu gan fachnïydd: ond y mae y cyntaf yn anmhossibl, ac am hyny, y mae y rhai oll ydynt yn gwrthod Crist, unig fachnïydd pechaduriaid, yn rhwym o fod yn golledig.

4. Mae Duw yn gofyn ufudd-dod *diffuant.* Heb ddiffuantrwydd, neu ymröad calon, ni's gall fod ufudd-dod cymeradwy. Gall ufudd-dod rhagrithiol ryngu bodd i ddynion; ond ni's gall ryngu bodd Duw, yr hwn sydd yn chwilio y calonau.

5. Mae Duw yn gofyn ufudd-dod *tufewnol,* cystal ag allanol; mae ei gyfraith yn cyrhaedd meddyliau y *galon,* cystal a gweithredoedd y *fuchedd.*

6. Mae Duw yn gofyn ufudd-dod *ewyllysgar;* y rhai ydynt yn ufuddhau i gyfraith yr Arglwydd trwy orfodaeth, ac nid yn ewyllysgar, *caethion* ydynt, ac nid *meibion.*

CASGLIADAU.

Oddiwrth yr hyn a fu dan sylw, dysgwn, 1. Na's gellir rhoddi unrhyw esgus pa ham na ddylai dyn ufuddhau i Dduw. 2. Bod dyn yn rhwym i ufuddhau i Dduw yn mha amgylchiad bynnag y byddo wedi ei gyfleu. 3. Y dylai dyn barchu pob rhan o air Duw, yr hwn sydd a chyfaddasrwydd ynddo i nodi allan ei ddyledswydd yn mhob amgylchiad. 4. Bod Duw yn gofyn ufudd-dod y galon, heblaw ufudd-dod allanol. 5. Bod dyn yn rhwym i ddeddf Duw tra fyddo byw; ac y dylai pob rhan o honi gael ei mawrygu ganddo. 6. Mai cariad a ddylai fod prif gymhellydd ein hufudd-dod. 7. Yr angenrheidrwydd o'n bod yn meddu rhan yn Nghrist, yr hwn a fawrhaodd y gyfraith, ac a'i gwnaeth yn anrhydeddus. 8. Nad yw dyn wedi ei adael i weithredu yn y pwnc o ufudd-dod, yn ol tueddiadau ei feddwl ei hun. 9. Mai anrhydedd dyn yw gwasanaethu yr Arglwydd. 10. Dedwyddwch yr ufuddion, ac annedwyddwch yr annufuddion. Gwel Esa. 3. 10, 11.

# PENNOD I.

ADRAN I.—AM Y DDEDDF FOESOL, YN RHWYM AR BOB CREADUR RHESYMOL, FEL Y MAE WEDI EI CHRYNHOI YN Y DEG GORCHYMYN, Y RHAI A RENIR YN DDWY LECH:—Y GYNTAF YN CYNNWYS EIN DYLEDSWYDD TUAG AT DDUW, A'R AIL EIN DYLEDSWYDD TUAG AT DDYN.

## *Am y Ddeddf Foesol.*

HOL. 40. PA BETH A DDATGUDDIODD DUW I DDYN AR Y DECHREU FEL RHEOL EI UFUDD-DOD?

Y rheol ufudd-dod a ddatguddiodd Duw i ddyn ar y dechreu, oedd y ddeddf foesol.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod y rheol o ufudd-dod a roddwyd i ddyn gyntaf, wedi ei rhoddi yn nghyfansoddiad ei natur. Rhuf. 2. 15. "Y rhai ydynt yn dangos gweithredoedd y ddeddf yn ysgrifenedig yn eu calonau."

2. Mai y ddeddf foesol oedd y rheol gyntaf o ufudd-dod a roddwyd i ddyn yn ngyfansoddiad ei natur. Gen. 1. 27. "Duw a greodd y dyn ar ei ddelw ei hun." Gwel Preg. 7. 29.

3. Bod y ddeddf foesol yn gyffredinol ac annewidiol. Matt. 5. 18. "Yn wir, meddaf i chwi, Hyd onid â y nef a'r ddaear heibio, nid â un iod, nac un tipyn o'r gyfraith heibio, hyd oni chwblhaer oll."

EGLURHAD.

Sylw 175.—*Mae deddfau Duw yn cael eu gwahaniaethu i naturiol a phennodol.*

1. Y *ddeddf naturiol*, neu *ddeddf natur*, yw y rheol angenrheidiol, annewidiol hòno, er gwahaniaethu y cam a'r cymhwys, sydd yn seiliedig ar natur Duw; ac wrth yr hon y mae pob dyn fel creaduriaid rhesymol yn anhebgorol rwym, Rhuf. 2. 14, 15.

2. *Deddfau pennodol*, ydynt y deddfau neu y gosodiadau hyny ydynt yn ymddibynu ar ewyllys pen-arglwyddiaethol Duw; a'r hyn y gallasai beidio ei ofyn pe y mynasai, heb wneyd un cyfnewidiad yn ei natur. Y cyfryw ydoedd gorchymyn a roddid i'n rhieni cyntaf mewn perthynas i'r ffrwyth gwaharddedig, a'r cyfryw oeddynt yr holl osodiadau seremonïol dan oruchwyliaeth yr Hen Destament.

Sylw 176.—*Y rheol gyntaf o ufudd-dod a roddid i ddyn yn nghyfansoddiad ei natur oedd y ddeddf foesol.*

Cymerir yn ganiattäol yma, fod dyn bob amser dan ddeddf; canys fel yr oedd yn greadur rhesymol, galluog i wybod ewyllys Duw, ac ufuddhau iddo, ac mewn dyled i ufuddhau i'w Greawdwr o herwydd ei ymddibyniad naturiol arno ef, yr oedd yn gweddu iddo fod bob amser dan ddeddf.

Y *rheol gyntaf o ufudd-dod* a roddes Duw i ddyn, oedd y *ddeddf foesol*.

Er fod y gair *moesol* yn golygu yn llythrenol *foesau* dynion, eto, pan y'i cymhwysir at y ddeddf, y mae yn golygu yr hyn sydd yn *rwymedigaeth wastadol* er ei wahaniaethu oddiwrth yr hyn sydd o rwymedigaeth dymhorol yn unig. Ni wnaed dim datguddiad pennodol o'r ddeddf foesol i Adda yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd; canys nid oedd eisiau y cyfryw ddatguddiad, yn gymmaint a'i bod yn gymmhlethedig yn nghyfansoddiad ei natur ef, o herwydd ei fod wedi ei greu ar ddelw Duw. Preg. 7. 29. Gan hyny, pan ddywedir mai y ddeddf foesol ydoedd *y rheol a ddatguddiodd Duw gyntaf i ddyn*, yr ydym i ddeall bod y ddeddf foesol wedi ei hysgrifenu mor eglur yn ei galon, a'i hargraffu yn ei natur, fel yr oedd yn atteb i'r un pwrpas a datguddiad pennodol.

Ond, y mae y ddeddf foesol i'w golygu nid yn unig fel *rheol* ein hufudd-dod, ond hefyd, fel *y rheswm* am dano. Mae yn rhaid i ni, nid yn unig wneyd yr hyn y mae y ddeddf yn ei ofyn, a gochel yr hyn y mae yn ei warafun; ond y mae yn rhaid i ni wneyd y naill, oblegid fod Duw yn ei ofyn genym, a gochel y llall am fod Duw yn ei warafun i ni. Lef. 18. 4, 5.

Sylw 177.—*Mae y ddeddf foesol yn ddeddf gyffredinol, annewidiol, berffaith, yn un ysbrydol, sanctaidd, cyfiawn, a da.*

1. Mae y ddeddf foesol yn un *gyffredinol.* Mae yn rhwymo pob dyn, bob amser, yn mhob sefyllfa y gallant fod ynddi, Rhuf. 2. 14, 15.

2. Mae y ddeddf foesol yn un *annewidiol.* Gyda golwg ar Dduw, yn wir fe all y gorchymynion nad ydynt yn deillio yn angenrheidiol a digyfrwng o'i natur, mewn rhyw amgylchiadau gael eu cyfnewid, os gwneir hyny trwy ei osodiad pennodol ef ei hunan. Ond, gyda golwg ar ddyn, y mae holl orchymynion y ddeddf foesol, o rwymedigaeth annewidiol, ac ni's gall ymryddhau oddiwrth un o honynt ar un cyfrif. Mat. 5.18.

3. Mae y ddeddf foesol yn *berffaith;* y mae yn cynnwys holl ddyledswydd dyn tuag at Dduw, tuag at ei gymmydog, a thuag atto ei hunan.

4. Mae y ddeddf foesol yn un *ysbrydol, sanctaidd, cyfiawn,* a *da.* Mae yn ysbrydol, oblegid y mae yn cyrhaedd meddyliau a bwriadau y galon; yn sanctaidd, canys ei dyben yw gwneyd dyn yn sanctaidd; yn gyfiawn, oblegid y mae pob rhan o honi yn unol â rheolau tragywyddol uniondeb a chyfiawnder; a da, yn gymmaint a'i bod wedi ei bwriadu i wneuthur dyn yn dda, a defnyddiol i'w gymmydog ag iddo ei hunan, a pheri iddo anrhydeddu Duw.

Sylw 178.—*Ni's gellir cyrhaedd cyfiawnder a bywyd trwy y ddeddf foesol.*

Datguddid y ddeddf foesol ar y cyntaf, yn wir, fel y gallai dyn gael ei gyfiawnhau trwy ufudd-dod iddi; ond nid yw yn cael ei datguddio i'r dyben hwnw yn awr; canys ni all un dyn ufuddhau iddi yn berffaith, fel ag i gyrhaedd cyfiawnhad trwyddi. Iaith groyw yr Ysgrythyr am bob dyn er pan ddaeth pechod gyntaf i'r byd, yw, "Trwy weithredoedd y ddeddf ni chyfiawnheir un cnawd." Rhuf. 3. 20. Pe buasai yn ddichonadwy i ddyn gyrhaedd cyfiawnhad trwy y ddeddf, ni chlywsem ni byth son am Fab Duw wedi ymddangos yn nghyffelybiaeth cnawd pechadurus, a thynu ymaith bechod drwy ei aberthu ei hun.

Mae yn wir y dywedir, "mai y dyn a wnel y pethau hyny a fydd byw trwyddynt," ond, y mae yr ymadrodd hwn, ac eraill o gyffelyb ystyr, wedi eu hamcanu yn unig i ddangos mor anmhossibl yw cyrhaedd bywyd trwy y ddeddf foesol; ac i'n harwain i weled yr angenrheidrwydd o'i gael ryw ffordd arall amgenach na thrwy ein hufudd-dod ein hunain. Gal. 3 24.

Gellir sylwi yma, mai y peth a olygir pan ddywedir nad ydyw credinwyr dan y ddeddf, eithr dan ras, (Rhuf. 6. 14,) yw, nad ydynt dan y ddeddf fel *cyfammod gweithredoedd,* megys yr oedd Adda, i'w cyfiawnhau neu eu condemnio wrthi; ond eu bod dani yn unig fel *rheol bywyd.*

Sylw 179.—*Gellir golygu y ddeddf foesol dan dair ffurf,—fel deddf natur, fel cyfammod gweithredoedd, ac fel rheol buchedd.*

*Yn gyntaf.* Gellir ei golygu fel *deddf natur,* cyn, ac ar wahan oddiwrth unrhyw gyfammod a wnaed rhwng Duw a dyn. Ac yma gellir sylwi ar y pethau canlynol:—

1. Duw a'i rhoddodd fel Creawdwr, a Phennadur goruchaf.

2. Fe'i hysgrifenid ar galon dyn yn ei greadigaeth, Gen. 1. 26; Preg. 7. 29. Os gwnaed dyn ar ddelw Duw, rhaid

fod gallu i ufuddhau i'r ddeddf wedi ei greu gyd ag ef, pe amgen, ni buasai yn berffaith pan ddaeth o law ei Luniwr.

3. Ni chynnwysai un gorchymyn pendant, ond rhwymai ei holl ddeiliaid i gredu pob peth a ddatguddiai Duw, a chyflawni pob peth a orchymynai efe. Ac o ganlyniad,

4. Gan nad oedd ei deiliaid wedi eu sicrhau mewn sancteiddrwydd calon a buchedd, arwyddai gadarnhad o gosb anfeidrol ar bob troseddwr fel gwobrwy dyledus ei bechod.

5. Gan nad oedd ufudd-dod perffeithiaf dyn diniweid, yn meddu teilyngdod priodol ger bron Duw, yn enwedig o ddedwyddwch tragywyddol, ni chynnwysai amnaid o addewid o unrhyw wobr o'r fath, neu y sicrheid dynion dani byth fel rheol buchedd esmwyth a hyfryd. Ac o ganlyniad,

6. Nid oedd yn caniattâu i Dduw dderbyn dim llai nag ufudd-dod perffaith. Y mae hyn yn amlwg oddiwrth Rhuf. 6. 23. " Cyflog pechod yw marwolaeth." Gwel Ezec. 18. 4.

7. Yr oedd holl ddynolryw, fel creaduriaid rhesymol, yn ddarostyngedig i'r ddeddf hon? gan ei bod wedi ei hysgrifenu ar galon dyn yn ei greadigaeth. Rhuf. 2. 14, 15.

*Yn ail.* Gellir ei golygu fel *cyfammod gweithredoedd;* yn yr hon ffurf y dylem fod yn dra chydnabyddus a'r ddeddf; canys yn y ffurf yma y gwelwn drueni y rhai sydd dani, a dedwyddwch y sawl a waredwyd oddi tani. Ac yma, gellid crybwyll y pethau canlynol;—

1. Duw goruchaf, yn ymostwng i fyned i gyfeillach a chyfathrach a dyn sanctaidd, perffaith, a'i dododd. Gen. 2. 17.

2. Cynnwysai ynddi, nid yn unig holl orchymynion deddf natur, ond rhai gosodiadau pendant hefyd. Gen. 2. 16, &c.

3. Yr oedd nid yn unig yn bygwth cosbedigaeth anfeidrol ar bob troseddwr o honi; ond hefyd yn addaw bywyd tragywyddol i'r cyflawnwr perffaith o honi.

4. Mae yn rhwymo dynolryw, nid yn unig fel y mae wedi ei rhoddi yn awdurdodol gan ein Harglwydd goruchaf; ond hefyd fel y mae wedi ei chymeradwyo ganddynt hwy ei hunain, yn eu hymrwymiad eu hunain i'w chyflawni. Gen. 3. 2, 3; lle y gwelwn fod ein rhieni cyntaf wedi cyttuno â'r ammod, a chydsynio â'r bygythiad.

5. Ei dyben gwreiddiol oedd, fel y byddai i ddyn gael bywyd tragywyddol trwy ei ufudd dod ei hun fel ei hammod. Gwel Rhuf. 7. 10; a 10. 5.

6. Megys na chaniattai i Dduw dderbyn unrhyw ufudd-dod, ond y cyfryw a fyddai yn hollol berffaith, a chyfattebol i'w holl ofynion; felly yr oedd cymeradwyaeth person y cyflawnwr, yn ymddibynu ar gymeradwyaeth ei ufudd-dod.

7. Gan i Dduw wneuthur y cyfammod deddfol hwn ag Adda y mae ei holl had naturiol, tra yn eu cyflwr natur, dano ger bron Duw. Gwel Eph. 2. 3; Rhuf. 9. 30, &c.

*Yn drydydd.* Gellir ei golygu fel *deddf Crist*, neu *reol buchedd.* Ac yma y mae y pethau canlynol yn do'd dan ein sylw:—

1. Y mae yn meddu holl awdurdod Duw fel Creawdwr a Phen-Arglwydd, cystal ag fel Gwaredwr, i roddi grym yn ei rhwymedigaeth. Gwel Mat. 5. 48; 1 Pedr 1. 18.

2. Y mae yn deillio yn union-gyrchol oddiwrth Iesu Grist, yr Emmanuel, y Cyfryngwr; ac oddiwrth Dduw fel ein Crewr, a'n Pen-arglwydd, mewn cyfammod, ac yn preswylio ynddo ef. Gwel 1 Cor. 9. 21; Gal. 6. 2; 2 Cor. 5. 19, &c.

3. Ei gorchymynion ydynt yr un a'r eiddo y cyfammod gweithredoedd, ac y mae yn gofyn yr un ufudd-dod perffaith. Gwel Mat. 22. 36, &c.; Phil. 4. 8. Canys pe na's gofynai deddf Crist yr unrhyw berffeithrwydd o ufudd-dod, byddai yn gyfnewidiol yn ei gofynion; ac o ganlyniad, ni byddai yn ddelw gywir o'r natur Ddwyfol.

4. Gan fod ei ddeiliaid wedi eu sicrhau yn gyflawn a di-alw yn ol yn ffafr Duw, ac yn meddu hawl i fywyd tragywyddol yn Nghrist, nid oes ynddi un cadarnhad o wobrwyon neu gosbedigaethau barnol. Gwel Ioan 5. 24; Rhuf. 5. 21; a 8. 1, 13, &c.

5. Y dyben mewn golwg gan Dduw yn rhoddiad y ddeddf hon, sydd wahanol i'r hyn a olygai yn rhoddiad y ddeddf fel cyfammod gweithredoedd. Y dyben mewn golwg yn rhoddiad y ddeddf fel cyfammod gweithredoedd ydoedd, fel y ceffid bywyd trwyddi, ac yr ennillid ei ffafr fel Barnwr, a hawl i ddedwyddwch. Ond, y dyben a olygai wrth ei rhoddi fel rheol buchedd, oedd i gyfarwyddo, a rhwymo, a chyffroi credinwyr, yn Nghrist, i ymddwyn yn addas i'w cyfiawnhad cyflawn a di-alw yn ol, a dechreu ettifeddu bywyd tragywyddol mewn diolchgarwch calon iddo ef; a hefyd mewn ymbarottoad at iachawdwriaeth berffaith: fel y mae eu hufudd-dod yn y golygiad uchaf arno, yn rhan o'u dedwyddwch yma, megys hefyd y bydd yn y byd a ddaw. Gwel Luc 1. 74, &c.; Rhuf. 7. 4, &c.; Heb. 12. 28; 1 Pedr 2. 9; Gal. 2. 19.

6. Tybia bod ei holl ddeiliaid wedi eu cyflawn alluogi, a'u cymhell yn ddigonol yn Nghrist; ac er ei bod yn gofyn ufudd-dod perffaith oddiwrth Grist, eto y mae yn caniattau i Dduw dderbyn "ufudd-dod ffydd" yn anmherffaith: ond nid yw hwn i'w olygu fel sail cymeradwyaeth y credadyn, neu yr hyn a elwir ammod bywyd tragywyddol; ond yn unig fel ffrwyth ei

Exod. 23. 11. Num. 30. 15. Deut. 16. 16. Can belled ag yr oedd y ddeddf hon yn dwyn perthynas a ffurflywodraethiad arbenig y genedl Hebrëaidd, y mae wedi ei llwyr ddifodi, ond can belled ag y cynnwysai unrhyw rëol seiliedig yn neddf natur, a chyffredinol i bob cenedl, y mae ei rhwymedigaeth yn parhau.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol, dysgwn,—1. Gan fod Duw yn Benarglwydd dyn, dyledswydd dyn ydyw ufuddhau iddo ef. 2. Na all, ac na ddylai un ddeddf rwymo y gydwybod, ond y ddeddf foesol. 3. Bod dyn yn anesgusodol onid ufuddha i'r ddeddf foesol, yr hon sydd wedi ei datguddio iddo. 4. Y perygl o ymddiried yn ein hufudd-dod ein hunain am gyfiawnhad a bywyd. 5. Yr angenrheidrwydd am ran ynddo *ef*, yr hwn a ufuddhäodd i'r ddeddf yn ei holl ranau, a'r hwn yn unig a all waredu o afael ei melldith. 6. Bod genym achos mawr i ymostwng dan alluog law Duw, gan fod ein camweddau yn aneirif. 7. Bod dyn wedi cwympo o'i gyflwr cyntefig. 8. Bod y ffordd a drefnasid i'r bywyd dan y cyfammod gweithredoedd yn hawdd dan yr amgylchiadau. 9. Trueni pechaduriaid yn nghyflwr natur; gan eu bod eto dan y ddeddf fel cyfammod gweithredoedd. 10. Dedwyddwch y rhai ydynt yn credu yn Nghrist; gan eu bod yn awr wedi eu rhyddhau oddiwrth y ddeddf fel cyfammod. 11. Nad oes ond un ffordd at y Tad, gan fod y ffordd drwy weithredoedd wedi ei chau i fynu dros byth. 12. Manteision a rhwymedigaethau y rhai ydynt yn Nghrist. 13. Mai Crist yw yr unig noddfa i bechaduriaid. 14. Yr angenrheidrwydd o ffydd ac edifeirwch. 15. Bod iachawdwriaeth yn gwbl o ras; ac mai Crist yw ein hiachawdwriaeth. 16. Bod ufudd-dod credinwyr yn brawf o'u hetholedigaeth gan Dduw.

## *Am swm y Ddeddf Foesol.*

HOL. 41. PA LE Y CEIR CRYNODEB O'R DDEDDF FOESOL?

Yn y Deg gorchymyn.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod y ddeddf foesol yn cael ei chynnwys yn gyflawn yn yr Ysgrythyrau, 2 Tim. 3. 16, 17. "Yr holl Ysgrythyr sydd wedi ei rhoddi drwy ysbrydoliaeth Duw, ac sydd fuddiol i

athrawiaethu, i argyhoeddi, i geryddu, i hyfforddi mewn cyfiawnder: fel y byddo dyn Duw yn berffaith, wedi ei berffeithio i bob gweithred dda."

2. Bod crynodebau wedi eu gwneyd o'r ddeddf foesol, Rhuf. 13. 19. "Ac od oes un gorchymyn arall, y mae wedi ei gynnwys yn gryno yn yr ymadrodd hwn, "Câr dy gymmydog fel ti dy hun."

3. Bod swm y ddeddf foesol yn gynnwysedig yn y deg gorchymyn. Deut. 10. 4. "Ac efe a ysgrifenodd ar y llechau, fel yr ysgrifen gyntaf, y dengair, a lefarodd yr Arglwydd wrthych yn y mynydd." Gwel hefyd Mat. 19. 17, &c.

EGLURHAD.

Sylw 182.—*Yr oedd y deg gorchymyn wedi eu hysgrifenu â bys Duw ei hunan, ar ddwy lech faen, a'u traddodi ganddo ef i'r Israeliaid oddiar fynydd Sinai, mewn llais hyglyw, yn cael ei ddilyn ag arswyd mawr.*

1. Fe'u hysgrifenasid yn ddigyfrwng gan Dduw ei hun, ar ddwy lech faen. Gwnaed hyn ddwy waith. Gan fod y ddwy lech gyntaf wedi eu torri gan Moses, ar yr achlysur o eilunaddoliaeth yr Israeliaid, ymostyngodd Duw i ysgrifenu ar ddwy lech faen eraill yr un geiriau ag a ysgrifenasai efe ar y ddwy gyntaf. Exod. 32. 16. a 34. 1. Y ddwy lech olaf hyn a neddid gan Moses, y Cyfryngwr cysgodol, ac a ddodid i gadw yn yr arch. Amcenid hyn i ddangos, er fod y cyfammod gweithredoedd a wnelsid a'r Adda cyntaf wedi ei dorri ganddo ef, ei fod wedi ei gyflawni yn mhob golygiad gan Iesu Grist, y gwir Gyfryngwr. Ysgrifenid y deg gorchymyn ar *faen*, i arwyddocau parhad a thragywyddol rwymedigaeth y ddeddf foesol. Ps. 3. 8.

2. Fe'u traddodid gan Dduw oddiar Sinai â llais hyglyw, yn cael ei ddilyn gan arswyd mawr. Fe'u rhoddid mewn modd difrifol iawn, gydag amlygiadau o fawrhydi ofnadwy, a'r cyhoeddiad o honynt a ddylynid a tharanau a mellt, am ba achos y'i gelwid "*tanllyd gyfraith* Sinai." Dangosid drwy hyn oll mor ofer ydoedd i bechaduriaid ddysgwyl bywyd trwy weithredoedd y ddeddf; ac felly y mae yn dangos yr angenrheidrwydd o Gyfryngwr.

Rhoddwyd ac adnewyddwyd y ddeddf am y rhesymau canlynol:—1. Er cadarnhau y ddeddf naturiol. 2. Er diwygio yr unrhyw yn y petkau hyny y'i llygrasid ynddynt trwy y cwymp, a chyflenwi ei diffygion. Y mae deddf natur yn ddiffygiol; am na's gall ddangos i ddyn ffynhonell ei holl drueni, na'r drygau a deyrnasant yn ei galon; oblegid fod barn dyn

anianol yn gyfeiliornus, fel y mae yn barod i alw da yn ddrwg, a drwg yn dda; ac oblegid nad ydyw yn gyru dynion o honynt eu hunain at yr unig feddyginiaeth. 3 I wneyd i fynu yr hyn oedd ddiffygiol yn neddf natur, neu yr hyn oedd wedi ei anurddo trwy bechod. Ac yn 4, I argyhoeddi dynion o'u hanalluogrwydd i roddi yr ufudd dod y mae hi yn ei ofyn, ac felly eu harwain i weled yr angenrheidrwydd am Gyfryngwr i anrhydeddu y ddeddf yn ei gorchymynion a'i bygythion.

Sylw 183.—*Mae y ddeddf foesol, yr hon a gynnwysir yn gyflawn yn yr Ysgrythyrau, wedi ei chrynhoi i ddeg gorchymyn.*

Wrth *grynhoi* y golygir darlunio, cynnwys y peth yn fyr mewn ychydig eiriau, a'r rhai hyny mor ddetholedig, fel y maent yn cynnwys llawer mwy nag a adroddir ynddynt. Gwel Rhuf. 13. 9.

Y mae y Deg Gorchymyn yn cynnwys y Ddeddf foesol, neu holl ddyledswydd dyn—yr hyn oll y mae efe i'w gredu, a'r hyn oll y mae efe i'w ymarfer. Nid oes dim yn cael ei orchymyn neu ei wahardd gan Dduw, nad yw yn gynnwysedig yn y naill neu y llall o'r Deg Gorchymyn.

Bod y Deg Gorchymyn yn grynodeb o holl Air Duw, gyda golwg ar yr hyn ydym i'w gredu a'i ymarfer, sydd eglur, os y'u hystyriwn fel y'u cyhoeddwyd gan Dduw o Fynydd Sinai:—

I. Y Gorchymyn cyntaf a ddengys nad oes duw heblaw y gwir a'r bywiol Dduw; bod y Duw hwn i'w addoli; ac nad oes addoliad Dwyfol i'w roddi i neb arall. Dengys hefyd fod ffydd yn y Duw hwn yn anhebgorol angenrheidiol; a'n bod ni yn rhwym i dderbyn pa beth bynnag y gwnelo efe yn dda ei ddatguddio; canys oni chredwn yr hyn a ddatguddiodd efe, ni's cydnabyddwn ef yn Dduw.

II. Yr Ail Orchymyn hefyd a ddengys i ni wrthddrych addoliad; ac heblaw hyny, dengys yr angenrheidrwydd i roddi i Dduw y gogoniant dyledus i'w enw; yr hyn a wneir trwy ei addoli ef yn y ffordd a drefnodd efe yn ei air; trwy dderbyn ei holl ordinhadau, a'u cadw fel y mae efe yn gofyn, heb eu gwneyd yn dwyllodrus, na'u cymmysgu a dychymygion ffolion y meddwl dynol.

III. Y Trydydd Gorchymyn sydd yn golygu enw Duw; ac yn dangos y defnydd a ddylem ei wneyd o hono, ac o'r amrywiol ragoriaethau gogoneddus a briodolir iddo yn yr Ysgrythyr; fel, megys y maent yn sanctaidd, y dylent gael eu cadw yn sanctaidd; a hefyd y defnyddiad prïodol o'i holl ordinhadau, o'i Air, ac o'i weithredoedd.

IV. Y Pedwerydd Gorchymyn a gyfeiria ein sylw at y rhan neillduol hono o'n hamser sydd i'w chyssegru i wasanaeth Duw, sef y dydd a alwodd efe ar ei enw ei hun; ac a ddengys y dylai gael ei gadw yn sanctaidd yn mhob ymarweddiad, a'i dreulio mewn ymarferiad o ddyledswyddau cyhoedd a dirgelaidd crefydd.

V. Y Pummed Gorchymyn a ddengys i ni y dull i gyflawni yr amryfal ddyledswyddau gorphwysedig arnom yn yr amrywiol sefyllfëydd perthynasol y byddom wedi ein gosod, pa un bynnag a olygom ein hunain mewn perthynas i eraill, fel eu huwchraddolion, eu hisraddolion, neu eu cydraddolion. Dan y gorchymyn yma y gellir golygu pob rhyw ddyledswyddau perthynasol.

VI. Y Chweched Gorchymyn, sydd yn gofyn, nid yn unig ymattaliad oddiwrth lofruddiaeth amlwg; ond dengys hefyd yr angenrheidrwydd i ni i ddefnyddio pob moddion er cadw ein bywyd ein hunain, a'r eiddo ein cymmydog.

VII. Y Seithfed Gorchymyn a ofyn i ni ddefnyddio pob moddion er cadw ein diweirdeb ein hunain, a'r eiddo eraill, mewn calon, ymadrodd, ac ymddygiad; ac na byddo i ddim yn y peth hwn gael ei wneuthur, a ddïanrhydeddo Dduw, ac a ryfelo yn erbyn yr enaid.

VIII. Yr Wythfed Gorchymyn sydd yn gofyn gonestrwydd yn mhob golygiad; a'r defnyddiad o bob moddion cyfreithlawn er ennill a gwellhau ein sefyllfa allanol ein hunain, a'r eiddo eraill.

IX. Y Nawfed Gorchymyn a ddengys yr angenrheidrwydd o sefyll dros y gwirionedd yn mysg dynion; ac o ddweyd y gwir, a dim ond y gwir pan y'n gelwir yn gyfreithlawn i hyny; yn enwedig wrth ddwyn ein tystiolaeth ar ryw beth.

X. Y Degfed Gorchymyn a ddengys yr angenrheidrwydd o foddlonrwydd yn yr amryfal sefyllfeydd y dichon ein bod wedi ein cyfleu ynddynt gan ragluniaeth Duw; ac na chenfigenom wrth eraill o herwydd eu llwyddiant; ac y mae yn gofyn i ni feddu, a meithrin tueddfryd gyfiawn a charedig tuag at ein cymmydog a'r oll a feddo.

Sylw 184.—*Fel y dealler y Deg Gorchymyn yn briodol, ac yr adnabyddom gylch ein dyledswydd, ac nad yspeilier y ddeddf o'r hyn sydd ddyledus iddi, y mae yn angenrheidiol i ni sylwi ar amryw reolau.*

1. Y mae y gyfraith yn berffaith, ac yn rhwymo pob un i gydffurfiad cyflawn yr holl ddyn, a'i chyfiawnder, ac i ufudd-dod trylwyr iddi am byth; fel y mae yn gofyn eithaf per-

ffeithrwydd pob dyledswydd, ac yn gwahardd y radd leiaf o bob pechod. Ps. 19. 7.

2. Mae y gyfraith yn ysbrydol, ac felly yn cyrhaedd y deall, yr ewyllys, a'r serchiadau, a holl alluoedd eraill yr enaid, cystal a'r geiriau, y gweithredoedd, a'r agweddau. Gwel Rhuf 7. 14. 1 Tim. 1. 5.

3. Mae yr un a'r unrhyw beth, mewn gwahanol gyssylltiadau yn cael ei ofyn neu ei wahardd mewn amrywiol orchymynion.

4. Lle mae dyledswydd yn cael ei gorchymyn, y mae y pechod gwrthwyneb yn cael ei wahardd. Lle y mae addewid yn cael ei chyssylltu, y mae y bygythiad cyferbyniol yn cael ei gynnwys; a lle y mae bygythiad yn cael ei gyssylltu, y mae yr addewid gyferbyniol yn cael ei thybied.

5. Nid yw yr hyn a waherddir gan Dduw, i gael ei wneyd un amser; ac y mae yr hyn a orchymynir ganddo ef yn ddyledswydd wastadol arnom; ac eto nid yw pob dyledswydd neillduol i gael ei chyflawni bob amser.

6. Dan un pechod, neu ddyledswydd, y mae yr oll o'r unrhyw yn cael eu gwahardd neu eu gorchymyn, yn nghyd a'u holl achosion, moddion, achlysuron, ac ymddangosiadau o honynt, ac annogaethau iddynt.

7. Mae yr hyn a waherddir neu a orchymynir i ni ein hunain yn ein rhwymo yn ol ein lleoedd, i ymdrechu ar ei fod yn cael ei ochel neu ei gyflawni gan eraill, yn ol dyledswydd eu sefyllfeydd.

8. Yn yr hyn a orchymynir i eraill, yr ydym yn rhwym yn ol ein lle a'n galwedigaeth, i fod yn gynnorthwyol iddynt, ac i ochelyd cyfrannogi ag eraill o'r hyn sydd waharddedig iddynt.

At y rheolau hyn, y rhai a roddir yn yr "Holwyddoreg Fwyaf" gellir chwanegu yr un ganlynol:—

Mae dyledswyddau *y llech gyntaf*, neu yr hyn sydd ddyledus oddiwrthym i Dduw, yn fwy pwysig na dyledswyddau *yr ail lech*, y rhai sydd ddyledus oddiwrthym i ddyn. Yr unig fodd y canfyddir fod ein cariad at Dduw yn *oruchaf*, yw, pan fyddom yn ei ddewis ef uwchlaw ein llawenydd penaf; ac yn ei garu uwchlaw pob gwrthddrych daearol. Gan hyny, pa ddyledswyddau bynnag y'n gorchymynir i'w cyflawni i'n cymmydog, mae y rhai a ofynir genym i Dduw yn fwy pwysig, ac i gael y blaen; a phan fyddo ei ogoniant ef yn y cwestiwn, ni ddylem betruso mynyd pa beth i'w wneyd. Yr un modd am yr hyn a berthyn i ni ein hunain, rhaid i ni ei adael pan fyddo yn myned i ffordd gogoniant Duw: canys os collwn

ein heinioes er ei fwyn ef, ni a'i cawn: ond os ceisiwn ei chadw pan fyddo efe yn ei gofyn, nyni a'i collwn. Mat. 10. 39.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn, dysgwn,—1. Y gallwn ni ddeall ein dyledswydd, a'n bod yn ddi esgus oni bydd i ni anrhydeddu y Deg Gorchymyn âg ufudd-dod di ball. 2. Gan ein bod yn meddu yr Ysgrythyrau, nyni a ddylem lafurio am ddyfod yn fwyfwy adnabyddus o'n dyledswydd, fel y delom yn fwyfwy sanctaidd. 3 Gan fod y ddeddf wedi ei datguddio mor eglur, y mae pechod y rhai ydynt yn eu mathru dan draed yn ysgeler. 4. Fod y Duw a roddes y ddeddf hon, yn gyflawn o fawrhydi gogoneddus. 5. Na all yr anufudd ddianc rhag melldith y ddeddf os ânt rhagddynt yn eu camweddau. 6. Mai Iesu Grist yn unig yw gobaith pechadur; gan ei fod ef wedi mawrhau y gyfraith a'i gwneyd yn anrhydeddus. 7. Y gall pawb gyfrif Gwaredwr oddiwrth felldith y ddeddf yn fendith annhraethol; gan y gallant fyned atto ef fel y byddont gadwedig. 8. Nodweddiad y ddeddf, a'r angenrheidrwydd am ufudd dod, ac o ganlyniad, am Iesu Grist. 9. Bod prydferthwch cyssondeb yn mhob rhan o ddeddf Duw. 10. Bod Duw yn wobrwywr y rhai a'i carant, cystal a Duw cyfiawn i weithredwyr anwiredd. 11. Yr angenrheidrwydd o ochel pob rhyw bechod. 12. Y dylai pawb gymeryd gofal, rhag eu maglu gan bechod, neu gan yr achlysuron o hono. 13. Ein bod ni mewn rhan yn geidwaid ein brodyr, ac ni's dylem oddef pechod ynddynt. 14. Mae Duw yw gwrthddrych teilwng ein parch blaenaf, ac nad ydym yn ei ogoneddu ef, oddieithr ein bod yn ymddwyn yn ol hyny.

## *Swm y Deg Gorchymyn.*

HOL. 42. BETH YW SWM Y DEG GORCHYMYN?

Caru yr Arglwydd ein Duw a'n holl galon, a'n holl enaid, a'n holl nerth, ac a'n holl feddwl; a'n cymmydog fel ni ein hunain.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod holl ufudd-dod dyn yn gynnwysedig mewn cariad. Rhuf. 13. 10. "Cyflawnder y gyfraith yw cariad."

2. Mai prif wrthddrych ein cariad yw yr Arglwydd ein Duw. Mat. 22. 37, 38. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw."—Hwn yw y cyntaf, a'r gorchymyn mawr."

3. Bod yn rhaid i'n cariad at Dduw fod yn benaf. Mat. 22. 37. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid, ac a'th holl feddwl."

4. Mai nyni ein hunain a'n cymmydog sydd i fod yn wrthddrychau nesaf serch. Mat. 22. 39. "A'r ail sydd gyffelyb iddo; Car dy gymmydog fel ti dy hun."

EGLURHAD.

Sylw 185.—*Testyn cyntaf a phenaf y Deg Gorchymyn yw cariad at yr Arglwydd ein Duw.*

Gellir gweled *natur* y cariad dyledus arnom i Dduw, oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Rhaid i'n cariad at Dduw fod yn *drwyadl* a *chalonog.* Rhaid i ni ei garu ef a'n holl galon, neu a'n holl serchiadau. Ps. 119. 10; 1 Tim. 1. 5.

2. Rhaid i'n cariad at Dduw fod yn *wresog* a *bywiog.* Rhaid i ni ei garu ef a'n *holl nerth,* neu a'r holl egni a'r dyfalwch galluadwy i ni. Gall cariad fod yn ddiffuant, pan na byddo yn rhyw angerddol iawn; a gall hyn fod yn dderbyniol gan yr efengyl; ond y mae y ddeddf yn gofyn perffeithrwydd mewn gradd hefyd.

3. Rhaid i Dduw gael y *blaen ar bawb.* Rhaid i ni ei garu ef *a'n holl enaid,* ac *a'n holl feddwl;* neu a holl alluoedd ein meddwl, ac a holl dueddiadau ein hewyllys. Mae yn rhaid i ni, nid yn unig ochel caru dim yn fwy na Duw; ond, ni wiw i ni garu dim yn gydradd a Duw, os amgen bydd genym fwy nag un Duw. Mat. 10. 37; Luc 14. 26; Ps. 73. 25; Esa. 26. 8, 9.

4. Rhaid i'n cariad at Dduw fod *yn bur er ei fwyn ei hun;* neu, mewn geiriau eraill, ar gyfrif rhagoriaethau gogoneddus ei natur. Mae yn wir ein bod ni i'w garu ef fel ein Cymmwynaswr; ond dylem ei garu yn benaf ar gyfrif ei ragoriaethau; megis ei wirionedd, sancteiddrwydd, cyfiawnder, a thrugaredd, &c. Can. 1. 3.

5. Rhaid i'n cariad at Dduw fod yn gariad *yn y goleuni,* neu gariad yr hwn y byddwn yn deall yr achos o hono. Rhaid i ni feddu rhyw gymmaint o adnabyddiaeth o Dduw; canys heb hyn, ni's gallwn ei garu ef; a pha fwyaf a wybyddom am dano, mwyaf o achos a gawn ni i'w garu ef, a mwyaf y'i carwn ef. Gwel Marc 12. 33. Ps. 9. 10.

6. Rhaid i'n cariad at Dduw fod yn *weithgar.* Rhaid iddo brofi ei ddiffuantrwydd ei hunan trwy wneyd pob peth er ei ogoniant ef; trwy ymgyssegru yn gyfan gwbl iddo ef, i fod erddo ef yn unig, ac nid er neb arall, a thrwy roddi eu cyrph

yn ebyrth byw iddo ef, yr hyn yw ein rhesymol wasanaeth, 1 Ioan 3. 18.

Y prawf *gorau* o gariad at Dduw, neu o ofal am ddyledswyddau y llech gyntaf o'r gyfraith, yw cariad at ddyn, neu gyflawniad o ddyledswyddau yr ail lech o'r gyfraith. Gwel 1 Ioan 4. 20, 21. Ioan 13. 35.

Sylw 186.—*Ail destyn y Deg Gorchymyn yw cariad attom ein hunain a'n cymmydogion.*

Wrth ein *cymmydog* yr ydym i ddeall holl ddynolryw, uchel neu isel, cyfoethog neu dlawd, da neu ddrwg, sant neu bechadur, cyfaill neu elyn, adnabyddus neu anadnabyddus,—*pawb*, mewn gair y gallom fod mewn rhyw fodd yn wasanaethgar i feithrin eu dedwyddwch yn y byd hwn, neu yr hwn a ddaw.

Gellir gweled natur y cariad dyledus oddiwrthym i'n cymmydogion oddiwrth yr ystyriaethau hyn;—

1. Dylem garu pob dyn yn gyffredinol a chariad o *ewyllys da;* neu, dylem ddymuno pob daioni iddynt; ac amlygir hyn drwy weddïo dros bob dyn am ei iachubiaeth; fel y byddo nid yn unig i ni ein hunain; ond i bawb, weled iachawdwriaeth Duw.

2. Rhaid i ni garu pawb â chariad o *gymmwynasgarwch;* hyny yw, rhaid i ni wneyd yr holl ddaioni a allom iddynt, gyda golwg ar eu cyrph a'u heneidiau. Gal. 6. 10. 1 Ioan 3. 18.

3. Rhaid i ni amlygu ein cariad at ein cymmydog, trwy ei barchu yn gyfattebol i'w deilyngdod. Pa ddawn bynnag a fedd neb rhyw un, dylem ei barchu ar ei chyfrif; canys y mae pob rhoddiad daionus, a phob rhodd berffaith yn disgyn oddi uchod, oddiwrth Dad y goleuni.

4. Nyni a ddylem garu y *saint* yn arbenig, y rhai ydynt o deulu y ffydd, ac yn rhai rhagorol y ddaear; ac y mae yn gweddu i'r rhai hyn gael eu caru â chariad o *ymhyfrydiad.* Gwel Gal. 6. 10. Ps. 16. 3.

5. Gyda golwg ar ein gelynion, nid gwiw i ni wneyd iddynt hwy megys y maent hwy yn gwneyd i ni. Os ydynt hwy yn ein cashau ni, dylem ni eu caru hwy; os ydynt hwy yn ein melldithio ni, dylem ni weddïo drostynt hwy; os ydynt hwy yn ein niweidio ni, dylem ni faddeu iddynt; os ydynt hwy yn dyweyd pob drygair am danom yn gelwyddog, ein dyledswydd ni yw ei bendithio ac nid ei melldithio hwy. Gwel Mat. 5. 43, 44.

Gyda golwg ar y *dull* yn yr hwn y dylem garu eraill, dy-

wedir ein bod i garu ein cymmydog *fel ni ein hunain;* hyny yw, mor wirioneddol a diffuant ag yr ydym yn ein caru ein hunain. Mat. 7. 12.

Gallwn sylwi yma, ar yr annogaeth ganlynol o eiddo yr apoostol Paul, "Mewn gostyngeiddrwydd; gan dybied eich gilydd yn *well* na chwi eich hunain." Phil. 2. 3. Meddwl y cyngor yma yw, na byddo i ni fostio o honom ein hunain ar gyfrif dim a feddom; canys os ydym yn gwahaniaethau oddiwrth eraill, y mae hyny i'w briodoli yn gwbl i ras Duw; canys efe sydd yn gwneuthur y gwahaniaeth. Po fwyaf o'i ras a fyddo yn ein calonau, mwyaf annheilwng y cyfrifwn ni ein hunain, ac fel hyn bydd tuedd barod ynom i gyfrif eraill yn well na ni ein hunain.

CASGLIADAU.

**Oddiwrth hyn, dysgwn,—1. Nad yw cariad at Dduw yr hyn y tybia dynion yn gyffredin ei fod. 2. Pan wneler y prawf, y cair nad yw ufudd-dod llawer yn wir arwydd o'u cariad at Dduw. 3. Bod crefydd y rhai nad ydynt yn meddu gwir gariad at Dduw, yn ofer. 4. Y dylai cariad Duw attom ni, gynnyrchu gwir gariad ynom ninnau atto ef. 5. Na's gallwn ddefnyddio iaith rŷ gref i ddangos ein cariad tuag at Dduw. 6. Bod Duw yn meddu hawl i'r cariad blaenaf oddiwrth ddyn. 7. Mai trwy gadw ei orchymynion ef yn unig yr amlygir hyny. 8. Bod cariad at ddyn yn cael lle uchel yn y ddeddf foesol. 9. Bod casineb at Dduw yn drosedd o ail lech y gyfraith. 10. Y dylai cariad Crist ein rhwymo ni i garu ein cymmydog. 11. Bod y rhai na's goddefant i'w cariad ddylifo at holl ddynolryw, yn euog o ddygasedd at ei gymmydog. 12. Y perygl o garu ar air yn unig, ac nid mewn gweithred a gwirionedd. 13. Y dylai ysbryd ymblaid gael ei hymlid o bob cymdeithas; gan ei fod yn beth sydd yn dryllio grym cariad yn hollol. 14. Na ddylem oddef i bob rhyw amgylchiad bychan ddiffodd fflam ein cariad at eraill. 15. Na's gallwn garu Duw a chasau ein cymmydog; canys, medd y dysgybl anwyl, "Yr hwn nid yw yn caru ei frawd, yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn ni's gwelodd?" 1 Ioan 4. 20.**

## *Rhagymadrodd i'r Deg Gorchymyn.*

HOL. 43. PA BETH YW RHAGYMADRODD Y DEG GORCHYMYN?

Rhagymadrodd y Deg Gorchymyn a gynnwysir

yn y geiriau hyn, "Myfi yw yr Arglwydd dy Dduw, yr hwn a'th ddug di allan o wlad yr Aipht, o dŷ y caethiwed."

Exod. 20. 2; Deut. 5. 6.

## HOL. 44. PA BETH Y MAE Y RHAGYMADRODD I'R DEG GORCHYMYN YN EI DDYSGU I NI?

Mae yn ein dysgu yn gymmaint ag mai Duw yw yr Arglwydd, ac mai efe yw ein Duw a'n Gwaredwr, ein bod yn rhwym o gadw ei holl orchymynion ef.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Ein bod yn rhwym i gadw holl orchymynion Duw, Deut. 11. 1. "Cadw ei orchymynion ef byth."

2. Y dylem gadw gorchymynion Duw, am mai efe yw yr Arglwydd, Lef. 19. 37. "Cedwch chwithau fy holl ddeddfau, a'm holl farnedigaethau; yr Arglwydd ydwyf fi." Gwel hefyd Ps. 45. 11.

3. Y dylem gadw gorchymynion Duw, am mai efe yw ein Duw ni. Jos. 24. 18. "Am hyny, ninnau a wasanaethwn yr Arglwydd; canys efe yw ein Duw ni." Gwel Lef. 20. 7.

4. Y dylem gadw gorchymynion Duw, am mai efe yw ein Gwaredwr. 1 Cor. 6. 19, 20. "Nid ydych yn eiddoch eich hunain, canys er gwerth y prynwyd chwi; gan hyny gogoneddwch Dduw yn eich corph ac yn eich ysbryd, y rhai sydd eiddo Duw."

### EGLURHAD.

Sylw 187.—*Nyni a ddylem gadw gorchymynion Duw, am mai efe yw yr Arglwydd.*

Mae y rheswm yma yn cael ei ddatgan yn y geiriuu hyn, "Myfi yw yr Arglwydd;" ac y mae yn arwyddo mai Duw yw y Duw tragywyddol—o dragywyddoldeb i dragywyddoldeb, heb ddechreu dyddiau na diwedd einioes; mai efe yw y Duw annewidiol, yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd, yn annghyfnewidiol yn ei amcanion, ac yn ei holl ffyrdd; mai efe yw y Duw hollalluog, i'r hwn nid oes dim yn anmhossibl; ei fod yn meddu ei fod ynddo, ac o hono ei hun, ac yn anymddibynol ar bawb; ei fod wedi rhoddi bod i bob peth, ac yn eu cynnal oll trwy yr un gallu a'r hwn y'u galwodd o ddim i fodolaeth.

fel y gwasanaethent ef; a'i amcan yn ein gwaredu ninnau o gaethiwed ysbrydol, yw, fel y gwasanaethom ef heb ofn mewn sancteiddrwydd a chyfiawnder dros ein holl ddyddiau.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol, dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd i ni fyfyrio ar nodweddiad Duw, fel yr adnabyddom ef, ac yr ufuddhaom iddo; canys heb wybodaeth ni's gall fod ufudd-dod. 2. Bod ufuddhau yn ddyledswydd ar bawb; a bod cymhelliadau grasol yn cael eu rhoddi i'n hannog i hyny. 3. Fod y calondid mwyaf i bechaduriaid i fyw buchedd sanctaidd. 4. Fod yr Arglwydd yn tynu pechaduriaid â rheffynau cariad. Hos. 11.4. 5. Y perygl o wrthod cydsynied a gorchymynion Duw. 6. Mai caethiwed pechod yw y caethiwed gwaethaf. 7. Yr angenrheidrwydd o gael ein gwaredu gan Iesu Grist o ddwylaw ein holl elynion ysbrydol. 8. Y rhwymedigaeth sydd arnom i fod yn ddiolchgar i Dduw am y datguddiad o drefn rasol gwaredigaeth oddiwrth bob drwg. 9. Y dylem gyfrif ei wasanaeth ef ein pleser yn y byd yma, gan mai dyma yr amcan mawr o amlygu ei ras i neb o honom. 10. Po mwyaf y drugaredd a gyfrenir i ni, mwyaf diffuant y dylai ein diolchgarwch fod.

ADRAN II.—EIN DYLEDSWYDDAU I DDUW, CYNNWYSEDIG YN Y PEDWAR GORCHYMYN CYNTAF O'R DDEDDF.

DOSB. 1.—Y GORCHYMYN CYNTAF.

HOL. 45. BETH YW Y GORCHYMYN CYNTAF?

"Na fydded i ti dduwiau eraill ger fy mron i." Exod. 20. 3; Deut. 5 7.

*Y dyledswyddau a ofynir.*

HOL. 46. PA BETH A OFYNIR YN Y GORCHYMYN CYNTAF?

Bod i ni adnabod Duw a'i gyffesu yn unig wir Dduw, a'n Duw ni; a'i addoli, a'i ogoneddu yn gyfattebol.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gofynir i ni adnabod Duw. 1 Cron. 28. 9. "Adnebydd Dduw dy dad." Gwel hefyd Job 22. 21.

2. Y gofynir i ni gydnabod Duw. Diar. 3. 6. "Yn dy holl ffyrdd cydnebydd ef."

3. Y gofynir i ni adnabod a chydnabod Duw fel yr unig wir Dduw. Ioan 17. 3. "Hyn yw y bywyd tragywyddol, iddynt dy adnabod di, yr unig wir Dduw." 1 Bren. 8. 33. "Pan gyfaddefo Israel dy enw."

4. Y gofynir i ni adnabod a chydnabod Duw fel ein Duw. Deut. 26. 17. "Cymeraist yr Arglwydd heddyw i fod yn Dduw i ti."

5. Y gofynir i ni addoli a gogoneddu Duw fel yr unig wir Dduw. Mat. 4. 10. "Yr Arglwydd dy Dduw a addoli, ac ef yn unig a wasanaethi." 1 Cron. 16. 25, 26. "Canys mawr yw yr Arglwydd, a chanmoladwy iawn: ofnadwy hefyd yw efe goruwch yr holl dduwiau. O herwydd holl dduwiau y bobloedd ydynt eilunod; ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd."

6. Y gofynir i ni addoli a gogoneddu Duw fel ein Duw. Ps. 25. 6, 7. "Deuwch, addolwn, ac ymgrymwn: gostyngwn ar ein gluniau ger bron yr Arglwydd ein Gwneuthurwr. Canys efe yw ein Duw ni; a ninnau ŷm bobl ei borfa." Ps. 145. 1. "Dyrchafaf di fy Nuw, O Frenin; a bendithiaf dy enw byth ac yn dragywydd."

EGLURHAD.

Sylw 190.—*Mae y gorchymyn cyntaf yn gofyn i ni adnabod a chydnabod Duw.*

*Adnabod* Duw, yw adnabod ei fod, a'i fod y cyfryw ag y'i hamlygodd ei hun yn ei Air. Heb. 11. 6. Yma y cawn yr unig ddarluniad cywir o'r hyn yw efe; o'r amryfal berthynasau yn y rhai y mae efe yn sefyll â dynolryw yn gyffredinol, ac â'i bobl ei hun yn neillduol; ac o'r amryfal enwau y mae danynt, fel cymhorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Ond, ni wiw i'r wybodaeth hon fod yn wybodaeth olygiannol yn unig; ond yn ymarferol ag achubol,—y cyfryw wybodaeth ag a'n dylanwada i wneuthur pa beth bynnag a orchymyno efe.

Mae *cydnabod* Duw yn arwyddo crediniaeth ddiysgog yn modolaeth Duw—y Duw hwnw a'i datguddiodd ei hun yn ei Air; crediniaeth ddiffuant fod yr holl berffeithiau, a theitlau, a'r priodoliaethau a briodolir i Dduw yn ei Air, yn perthyn iddo ef, ac nid i neb arall; ac addefiad o hono ef yn y dirgel, a cher bron y byd, Rhuf. 10. 10; ac amddiffyniad o'i berffeithiau yn erbyn yr hyn a ddywedir yn eu herbyn.

Sylw 191.—*Mae y gorchymyn cyntaf yn gofyn i ni adnabod a chydnabod Duw fel yr unig wir Dduw.*

Adnabod a chydnabod Duw fel *yr unig wir Dduw*, yw credu

a phroffesu mai efe yn unig sydd feddiannol ar berffeithrwydd anfeidrol; a bod perffeithiau ei natur ef yn cael eu hamlygu yn arbenig yn yr Arglwydd Iesu Grist. Hos. 13. 4.

Sylw 192.—*Mae y gorchymyn cyntaf yn gofyn i ni adnabod a chydnabod Duw fel ein Duw.*

Adnabod a chydnabod Duw fel *ein Duw*, yw proffesu ein perthynas ag ef fel ei bobl, ar sail crediniaeth o'i fod yn ei roddi ei hun i ni yn ei Air. Deut. 26. 17, 18. Ps. 48. 14. Ond ni's gellir gwneyd hyn heb ffydd ynddo ef, ac yn ei Fab ef, Iesu Grist, trwy yr hwn yn unig y gall dyn ddyfod at Dduw. Ioan 14. 6, 9; 1 Ioan 3. 23.

Yr hyn sydd gyssylltiedig a'r cydnabyddiaeth yma o Dduw, ac mewn mesur mawr yn dangos ffydd diffuant yn yr unig Dduw fel ein Duw, yw cydnabyddiaeth o Dduw yn ein holl ffyrdd, a chydnabyddiaeth o hono yn ei holl ffyrdd tuag attom ni. Rhaid i ni ei gydnabod ef yn ei holl ragluniaeth tuag attom, yn ei holl addewidion a'u cyflawniad, ac yn ei holl fygythion a'i farnedigaethau.

Sylw 193.—*Mae y gorchymyn cyntaf yn gofyn i ni addoli a gogoneddu Duw fel yr unig wir Dduw, a'n Duw ni.*

*Addoli Duw*, yw ei wneuthur yn brif wrthddrych ein parch a'n hyfrydwch, yn y cyhoedd, ac yn y dirgel. Ps. 71. 19; a 73. 25; a 142. 5; a 111. 1.

*Gogoneddu Duw*, yw priodoli iddo ef bob gogoniant a pherffeithrwydd; ac ymdrechu yn ein holl ymddygiadau i amlygu ei anrhydedd a'i ogoniant ef. Exod. 15. 11; 1 Cor. 10. 31.

Addoli a gogoneddu Duw *fel y cyfryw*, a ddynoda, mai megys y dylem adnabod a chydnabod Duw, fel yr unig wir Dduw, a'n Duw ni, ein bod hefyd yn rhwym yn mhob rhan o'n hufudd-dod, i ymddwyn tuag atto, fel rhai sydd yn y fath berthynas agos iddo ef, Ps. 45. 11; 1 Cor. 6. 20. Ond ni's gallwn roddi ufudd-dod iddo a fyddo gymeradwy ganddo, oddieithr i ni ei gydnabod ef, ein Duw yn Nghrist; canys crediniaeth o'r addewid yw sail pob-addoliad ac ufudd-dod cymeradwy. Ufudd-dod ffydd yw pob gwir ufudd-dod, a heb ffydd, mae yn anmhossibl rhyngu bodd Duw. Rhuf. 6. 26; Heb. 11. 6.

Y mae dwy ffordd yn y rhai y mae yn rhaid addoli Duw a'i ogoneddu ef,—yn ein calonau, ac yn ein bucheddau. Jo. 4. 24. Mat. 5. 16.

1. Addoli a gogoneddu Duw yn ein *bucheddau*, neu yn *allanol*, ydyw cadw ei holl ordinhadau gosodedig ef; gochel pob

rhyw bechod, ac ymgadw rhag pob rhith drygioni, gan ymannog y naill y llall i gariad a gweithredoedd da; a chymhell eraill i wasanaethu yr Arglwydd; neu mewn gair, trefnu ein hymarweddiad yn ol gair yr Arglwydd.

Addoli a gogoneddu Duw *yn ein calonau*, neu yn *dufewnol*, yw meddwl a myfyrio am dano ef, Mal. 3. 16. Ps. 63. 6;—ei gofio ef, Preg. 12. 1;—ei anrhydeddu a'i addoli ef, Mal. 1. 6. Esa. 45. 23;—ei garu a'i fawrygu ef, Deut. 6. 5. Ps. 71. 19;—ei ddymuno a'i ddewis fel ein Duw, Ps. 73. 25, Jos. 24. 16;—ymddiried, credu, a gobeithio ynddo ef, Esa. 26. 4. Exod. 14. 31. Ps. 130. 7;—ei ofni ef, Esa. 8. 13.—ymhyfrydu, ac ymlawenhau ynddo ef, Ps. 37. 4, a 32. 11;—galw arno, a rhoddi yr holl fawl a'r diolch iddo ef, Phil. 4. 4;—bod yn zelog drosto ef, Rhuf. 12. 11;—rhoddi pob ufudd-dod ag ymostyngiad iddo ef, â'r holl ddyn, Jer. 7. 23; Iago 4. 7; bod yn ofalus yn mhob peth am ryngu bodd iddo ef, ac yn ofidus, pan fyddo dim yn ei ddigio, 1 Ioan 3. 22; Jer. 31. 18;—ac ymostwng i rodio gydag ef, Mica 6. 8.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd i chwilio yr ysgrythyrau.—2. Yr angenrheidrwydd o chwilio i natur y wybodaeth a feddwn am Dduw; a pha un a ydyw ein hamcanion i lynu wrth yr Arglwydd fel ein Duw, yn ddiffuant, ac a ydym ni yn ofalus i brofi ein diffuantrwydd trwy gadw ei orchymynion ef. 3. Ein bod yn meddu y calondid mwyaf a all fod i wasanaethu yr Arglwydd. 4. Mai sefyllfa fwyaf dyddanus yr enaid yw, pan y gall alw Duw *ei* Dduw. 5. Mai y prawf goreu o hyn yw ein bod yn ei addoli a'i ogoneddu ef fel y cyfryw. 6. Yn mha beth y mae llawer o dduwioldeb personol yn gynnwysedig. 7. Yn mha beth y mae llawer o'r addoliad tufewnol hwnw a berthyn i Dduw, yn gynnwysedig. 8. Bod cyfraith yr Arglwydd yn anfeidrol sanctaidd, ac yn dra ëang. 9. Na's gall neb ufuddhau iddi, fel ag i ennill bywyd trwyddi.

## *Pechodau gwaharddedig.*

HOL. 47. PA BETH A WAHERDDIR YN Y GORCHYMYN CYNTAF?

Gwadu y gwir Dduw, neu beidio ei addoli a'i ogoneddu ef fel Duw, a'n Duw ni, a rhoddi yr addoliad a'r gogoniant dyledus iddo ef yn unig, i neb arall.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gwaherddir i ni wadu Duw. Ps. 14. 1. "Yr ynfyd a ddywedodd yn ei galon, nid oes un Duw."

2. Y gwaherddir i ni omedd, neu esgeuluso addoli a gogoneddu Duw. Esa. 43. 22. "Eithr ni elwaist arnaf Jacob; ond blinaist arnaf, Israel." Dan. 5. 23. "Ac nid anrhydeddaist y Duw y mae dy anadl di yn ei law, a'th holl ffyrdd yn eiddo."

3. Y'n gwaherddir i addoli Duw yn anmhrïodol, fel pe na byddai yr unig wir Dduw. Mat. 15. 8. "Nesâu y mae y bobl hyn attaf a'u genau, a'm hanrhydeddu a'u gwefusau; a'u calon sydd bell oddiwrthyf."

4. Y'n gwaherddir i addoli Duw fel pe na byddai ein Duw. Ezec. 44. 9. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw; Ni ddaw i'm cyssegr un mab dïeithr dïenwaededig o galon, a dïenwaededig o gnawd."

5. Y gwaherddir i ni roddi yr addoliad a'r gogoniant dyledus i Dduw yn unig, i neb arall; Rhuf. 1. 25. "Y rhai a newidiasant wirionedd Duw yn gelwydd, ac a addolasant, ac a wasanaethasant y crëadur yn fwy na'r Creawdwr, yr hwn sydd fendigedig yn dragywyddol. Amen." Ps. 97. 7. "Gwaradwydder y rhai oll a wasanaethant ddelw gerfiedig, y rhai a ymffrostiant mewn eilunod; addolwch ef, yr holl dduwiau."

EGLURHAD.

Sylw 194.—*Mae y gorchymyn cyntaf yn ein gwahardd i wadu y gwir Dduw; neu atheistiaeth.*

Dosberthir atheistiaeth yn atheistiaeth *y meddwl*, ac atheistiaeth *yr ymafreriad.*

1. *Atheistiaeth y meddwl,* yw llawn grediniaeth yn y galon nad oes un Duw, a phroffes groyw o hyny a'r genau; neu ymwrthodiad a'r gwirionedd hanfodol hyny sydd yn profi bod Duw yn eglur. Hefyd y mae gwadu datguddiad o'r nef, neu fod y Beibl yn gyfryw ddatguddiad, yn cael ei alw atheistiaeth; neu ddeistiaeth, yr hyn sydd addefiad o Dduw natur a rhagluniaeth yn unig. Ond, yn ol yr Ysgrythyrau, y mae y rhai ydynt yn gwrthod y Beibl, yn yr hwn y mae trefn iachawdwriaeth trwy Iesu Grist, yn cael ei ddatguddio, yn euog o wadu y Tad hefyd. Gwel 1 Ioan 2. 23.

2. *Atheistiaeth ymarferol,* yw cyffesu fod Duw, ac ar yr un pryd, ei wadu ar weithredoedd, neu fyw fel pe na byddai Duw. Ps. 10. 4, 11. Tit. 1. 16.

Mae y rhai nid ydynt yn addoli ac yn gogoneddu Duw fel Duw, ac fel *eu* Duw,—y rhai ydynt yn aros mewn anadnabyddiaeth o'r gwir Dduw, er meddu cyfleusdra i'w adnabod ef;—y rhai ydynt yn annghofio Duw, heb ymgynghori âg ef;—ond yn rhodio yn ngolwg eu llygad eu hunain;—y rhai nid ydynt yn addoli Duw yn ol ei Air; ond yn ymgyfodi yn rheol iddynt eu hunain; gan eu cymeryd eu hunain yn ddyben i'w geisio, yr hyn sydd hollol wrthwyneb i'r datguddiad;—a'r rhai a gyflawnant unrhyw bechod yn wirfoddol; canys y mae yn amlwg eu bod ar y pryd yn credu nad oes un Duw, neu os ydynt yn credu ei Fod, nid ydynt yn ei olygu na'i addef fel Duw y datguddiad; ïe, y mae y cyfryw, meddaf, yn euog o atheistiaeth ymarferol.

Sylw 195.—*Mae y gorchymyn cyntaf yn gwahardd gomedd addoli a gogoneddu y gwir Dduw, fel Duw, a'n Duw ni; neu anmharch.*

Fe'n hysbysir yma y gallwn addoli a gogoneddu y gwir Dduw, ond nid *fel* Duw; nag fel *ein* Duw.

Addoli a gogoneddu Duw, ond nid fel Duw, yw nesau atto ef a'n genau, a'i anrhydeddu a'n gwefusau, tra mae y galon yn mhell oddiwrtho. Mat. 15. 8. Esa. 29. 13.

2. Addoli a gogoneddu Duw, ond nid fel *ein* Duw, yw bod yn ddïofal pa un a ddaethom ni i adnabyddiaeth o hono ef, fel ag i allu ei alw ef *ein* Duw; neu ddiffyg ymarferiad gwastadol o grediniaeth o'n perthynas gyfammodol ag ef. Ps. 81. 10, 11.

Sylw 196.—*Mae y gorchymyn cyntaf yn gwahardd rhoddi yr addoliad a'r gogoniant dyledus i Dduw yn unig, i neb arall; neu eilunaddoliaeth.*

Dosberthir *eilunaddoliaeth* i ddau fath, *allanol* ac *ysbrydol;*

1. *Eilunaddoliaeth allanol* yw cyflwyno addoliad, ymostyngiad, neu barch crefyddol i neb neu ddim, heblaw y gwir Dduw.

2. *Eilunaddoliaeth ysbrydol* neu *dufewnol,* yw gosod i fynu eilunod yn y galon; neu roddi y lle hwnw yn ein calon, y serch, neu y sylw, i unrhyw beth, a ddylai gael ei roddi i Dduw yn unig. 1 Ioan 2. 15.

Sylw 197.—*Heblaw y pethau a grybwyllwyd eisioes y mae y gorchymyn cyntaf yn gwahardd y pethau canlynol :—*

1. Ymchwiliad ëofn, a hunan gywrain i ddirgeledigaethau Duw. Deut. 29. 29.

2. Pob ymgyssylltiad ac ymgynghoriad a'r diafol, Deut. 18. 10, &c. Act. 19. 18, &c.

3. Pob ymwrandawiad ar gymhwyllion y diafol.

4. Gwneuthur dyn yn arglwydd y gydwybod mewn pethau perthynol i grefydd. Mat. 23. 8, &c. 2 Cor. 1. 24.

5. Prïodoli yn ynfyd i Dduw, y gofidiau a dynir arnom trwy bechod. Ps. 37. 7, 8; a 73.

6. Prïodoli y mawl am unrhyw ddaioni a wnaed genym, sydd yn cael ei wneyd, neu a ellir ei wneyd, i'n ffawd dda ein hunain. Deut. 8. 17, 18. Dan. 4. 30.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn dysgwn,—1. Y caiff pawb weled fod Duw pa un bynnag a gredir hyny ganddynt yn awr neu beidio. 2. Natur feiddgar atheistiaeth, yr hon sydd yn ergydio yn erbyn bodolaeth Duw,—yr unig wir Dduw. 3. Yr angenrheidrwydd o fod dan argraff crediniaeth wastadol am bob un o'r priodoliaethau Dwyfol. 4. Y perygl o dynu yn ol o ddilyn Duw. 5. Bod Duw, yr hwn sydd Ysbryd, yn gofyn addoliad ysbrydol. 6. Bod llawer yn eilunaddolwyr, er na chredent eu bod. 7. Yr angenrheidrwydd o gael eu llywodraethu yn mhob peth gan wir Air Duw. 8. Y perygl i ni i lyncu syniadau cyfeiliornus am ei ragluniaeth ef. 9. Yr angenrheidrwydd o ymostyngiad i ewyllys Duw yn mhob peth. 10. Ein bod yn ddyledus i Dduw am yr oll a feddwn.

## *Am yr ymadrodd "Ger fy mron i."*

HOL. 48. PA BETH YN NEILLDUOL A DDYSGIR I NI YN YR YMADRODD HWN, "Ger fy mron I," YN Y GORCHYMYN CYNTAF?

Bod Duw, yr hwn sydd yn gweled pob peth, yn sylwi ar y pechod o gymeryd un duw arall, ac yn ddig iawn wrtho.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Duw yn gweled pob peth. Heb. 4. 13. "Ac nid oes greadur anamlwg yn ei olwg ef; eithr pob peth sydd yn noeth ac yn agored i'w lygaid ef, am yr hwn yr ydym yn sôn."

2. Bod Duw yn sylwi yn neillduol ar y pechod o gymeryd un duw arall. Ps. 44. 20, 21. "Os estynasom ein dwylaw at dduw dïeithr; oni chwilia Duw hyn allan?"

3. Fod Duw yn ddig iawn wrth y pechod o gymeryd un duw arall. Deut. 33. 16. "A dïeithr dduwiau y gyrrasant eiddigedd arno."

EGLURHAD.

Sylw 198.—*Mae Duw, yr hwn sydd yn gweled pob peth, yn cymeryd sylw neillduol o'r pechod o feddu un duw arall ger ei fron ef.*

Grym y rheswm sydd i'w ganfod yn y geiriau, "ger fy mron i," yw, fod y pechod o feddu duw arall yn cael ei gyflawni yn ngwydd yr hwn sydd yn *canfod pob peth*, hyny yw, yr hwn sydd yn meddu y wybodaeth fwyaf trwyadl a pherffaith o bob peth. Ps. 147. 5; a 94. 8, 9. Gwadu hyn a fyddai gwadu un o berffeithiau gogoneddus y Duwdod, sef ei hollwybodaeth. Gwel Ps. 139. Pe na byddai Duw yn adnabyddus â gweithredoedd ei ddwylaw ei hun, ni's gallai fod yn grëwr, cynhaliwr, a llywydd y byd; ac ni's gallai farnu y byd mewn cyfiawnder yn y diwedd. Gwel 1 Cor. 4. 5.

Mae Duw yn sylwi yn neillduol ar y *pechod o feddu duw arall*, neu y pechod o eilun-addoliaeth; yr hyn yw bod ein meddyliau, ewyllysiau, a serchiadau ar wrthrychau eraill, yn gymmaint, neu fwy nag ar Dduw ei hunan.

Fel y mae y pechod hwn yn taro yn fwy uniongyrchol yn erbyn awdurdod Duw, y mae efe yn cymeryd sylw *mwy neillduol* arno; hyny yw, y mae yn bygwth ei ddïal a'r amlygiadau penaf o'i anfoddlonrwydd, nid yn unig yn y byd a ddaw; ond yn y byd hwn hefyd. Deut. 29. 24—29; Dat. 21. 8.

Sylw 199.—*Mae Duw yn cael ei anfoddloni yn fawr trwy y pechod o feddu duwiau eraill ger ei fron ef.*

Y rheswm am fod Duw yn cael ei anfoddloni gymmaint gan eilun-addoliaeth allanol a thufewnol, yw, ei fod yn gysgod gwrth-ymgeisydd yn ei le, a hyny yn ei wydd: ac yn rhoddi i arall yr anrhydedd dyledus iddo ef yn unig. Gwel ei fygythion yn erbyn y rhai a gyflawnasant gyfryw bechodau yn Deut. 29.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn yma dysgwn,—1. Na's gallwn fod yn euog o unrhyw bechod anadnabyddus i Dduw. 2. Bod Duw yn cael ei anfoddloni yn ddirfawr trwy y pechod o eilun-addoliaeth. 3. Yr angenrheidrwydd o chwilio ein calonau, fel y gwelom pwy sydd yn meddu yr orsedd yno,—pa un ai Duw, ai y byd, neu hunan, neu ryw wrthddrych pechadurus,—unrhyw wrthddrych a gerir yn gydradd, neu yn fwy na Duw. 4. Y dylem roddi ein calonau ar bethau sydd uchod, lle y mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw.

DOSB. 2. YR AIL ORCHYMYN.

HOL. 49. PA UN YW YR AIL ORCHYMYN?

"Na wna i ti ddelw gerfiedig, &c."

Exod. 20. 4—6; Deut. 5. 8—10.

*Y dyledswyddau a ofynir ynddo.*

HOL. 50. PA BETH A OFYNIR YN YR AIL ORCHYMYN?

Derbyn, gwylio ar, a chadw yn bur a chyfan, bob addoliad crefyddol ac ordinhad, a ordeiniodd Duw yn ei Air.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod Duw wedi gosod rhyw ordinhadau crefyddol i'w hymarfer yn ei addoliad. Lef. 18. 4. "Fy marnedigaethau i a wnewch, a'm deddfau a gedwch, i rodio ynddynt; myfi yw yr Arglwydd eich Duw."

2. Y gofynir i ni gymeradwyo a mawrygu addoliad ac ordinhadau Duw. Ps. 119. 103. "Mor felus yw dy eiriau i'm genau! melusach na mêl i'm safn." Ps. 84. 1. "Mor hawddgar yw dy bebyll, O Arglwydd y lluoedd!"

3. Y gofynir i ni gadw addoliad Duw a'i ordinhadau. Mat. 28. 20. "Gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi."

4. Y gofynir i ni gadw addoliad Duw a'i ordinhadau yn bur a chyfan. Deut. 12. 32. "Pob gair yr wyf fi yn ei orchymyn i chwi, edrychwch am wneuthur hyny: na chwanega atto, ac na thyn oddiwrtho." Gwel hefyd Luc 1. 6.

EGLURHAD.

Sylw 200.—*Mae Duw wedi gosod ordinhadau neillduol i'w cadw yn ei addoliad.*

Gallwn sylwi yma ar y gwahaniaeth rhwng y gorchymyn cyntaf a'r ail. Mae y gorchymyn cyntaf yn golygu *gwrthddrych* addoliad—y gwir a'r bywiol Dduw, a bod i ni ei addoli ef fel ein Duw, ac nid neb arall. Yr ail orchymyn sydd yn golygu y *moddion* neu *drefn* addoli, ac yn gofyn i ni addoli y gwir Dduw, yn y cyfryw ffordd, a thrwy y cyfryw ordinhadau a drefnodd efe yn ei Air yn unig. Gellir can-

fod y cyntaf yn ngoleuni natur; ond yr ail, trwy ddatguddiad yn unig.

Wrth *addoliad crefyddol* yr ydym i ddeall y parch hwnw sydd ddyledus oddiwrthym i Dduw, a thrwy yr hyn y proffeswn ymostyngiad iddo ef, a hyder ynddo, fel ein Duw yn Nghrist; ac y priodolwn y mawl a'r gogoniant dyledus iddo fel ein daioni penaf, a'n hunig ddedwyddwch. Ps. 95. 6, 7.

Yr *ordinhadau crefyddol* o drefniad Dwyfol, y dylem ni eu cadw, ydynt a ganlyn;—

1. Gweddi, yn yr hon y cynnwysir diolchgarwch hefyd. Phil. 4. 6. Mae gweddi i'w golygu, naill ai yn gyhoeddus, megys yn yr eglwys, Act. 2. 42; neu yn neillduol, megys yn y teulu, Jer. 10. 25; neu yn ddirgel, pan fyddo y gweddiwr wrtho ei hun. Mat. 6. 6.

2. Mawl, neu ganu clod Duw yn llafar. Dylid gwneuthur hyn yn y cyhoedd ac o'r neilldu. Ps. 149 1; Iago 5. 13; Eph. 5. 18—20; Col. 3. 16.

3. Darllen, gwrando, a phregethu y Gair. Dylid darllen a gwrando y Gair yn y cyhoedd ac yn y dirgel. Act. 15. 21; Ioan 5. 39; Iago 1. 21—25; Act. 10. 35. Pregethu y Gair sydd ordinhad gyhoeddus. 2 Tim. 4. 2. Ac y mae yn ddyledus i ddynion ymroddi i wrando ei bregethiad, fel y'u gwneler yn ddoeth i iachawdwriaeth.

4. Gweinyddu a derbyn yr ordinhadau o fedydd, a swper yr Arglwydd. Mat. 28. 19; 1 Cor. 11. 23, &c.

5. Llywodraeth a dysgyblaeth eglwysig. Gwel Mat. 16. 19; 1 Cor. 5; a 12. 28; Eph. 4. 11; Math. 18. 15—17; 1 Tim. 5. 20.

6. Y weinidogaeth, a'i chynhaliaeth. Marc 16. 15; Rhuf. 10. 14, 15; Eph. 4. 11, 12; 1 Cor. 9. 13, 14.

7. Ympryd crefyddol,—yr hyn sydd ymattaliad oddiwrth ymborth dros amser, càn belled ag y caniatta gwendid a llesgedd; ac ymattaliad oddiwrth bleserau a chysuron corphorol, a fyddent gyfreithlawn i'w mwynhau ar brydiau eraill, yn nghyd ag ymattaliad oddiwrth bob gorchwylion bydol. Ond nid yw hyn wedi ei amcanu namyn i gyfaddasu neu dueddu y meddwl i ymarferiad difrifol â dyledswyddau ysbrydol. Mae ympryd i fod naill ai yn gyhoeddus, yn neillduol, neu yn ddirgelaidd. Joel 2. 12, &c.; 1 Cor. 7. 5; Mat. 6. 17, 18.

8. Tyngu yn enw Duw. Mae hyn i gael ei wneyd gan bobl Dduw, pan yn cyssegru eu hunain iddo ef trwy gyfammod gwastadol, yr hwn nid anghofir; neu, pan y'n gelwir i ddwyn tystiolaeth i'r gwirionedd ar ein llŵ. Deut. 6. 13; Jer. 4. 2.

9. Addunedu i'r Arglwydd. Y mae Duw yn dyst ac yn blaid yn mhob adduned; ïe, efe yw yr unig blaid, a'r unig dyst yn y gwneuthuriaid a'r cyflawniad o honynt. Ps. 76. 11. a 119. 106.

Sylw 201.—*Mae yr ail orchymyn yn gofyn i ni dderbyn, sylwi ar, a chadw yn bur a chyfan, yr holl addoliad a'r ordinhadau crefyddol ydynt o osodiad Dwyfol.*

1. Mae yn gofyn i ni *dderbyn* addoliad ac ordinhadau Duw. Rhaid i ni eu cymeradwyo o'u cofleidio, am eu bod dan argraff yr awdurdod uchelaf.

2. Mae yn gofyn i ni *sylwi ar* addoliad ac ordinhadau Duw. Rhaid i ni wneyd yr hyn a ofynir ganddynt, gwneyd defnydd o honynt, a disgwyl wrth Dduw ynddynt. Trwy hyn yn unig y gallwn ni brofi i ni ein hunain ac i eraill ein bod mewn gwirionedd yn eu cymeradwyo. Ioan 13. 17.

3 Mae yn gofyn i ni *gadw* addoliad ac ordinhadau Duw yn *bur;* rhaid i ni wneyd a allom i'w cadw rhag pob cymmysgedd o ddyfais ddynol.

4. Mae yn gofyn i ni gadw addoliad ac ordinhadau Duw yn *gyfan.* Rhaid i wneyd a allom er attal i ddim gael ei gymeryd oddiwrthynt. Deut. 12. 32.

Bod yr ail orchymyn yn gofyn i ni "dderbyn, sylwi ar, a chadw yn bur a chyfan yr holl ordinhadau ac addoliad crefyddol a drefnodd Duw," sydd amlwg, canys er mai yr unig beth a waherddir yn bendant, yw gwneuthur ac addoli delw cerfiedig; eto y mae yn rhoddi hyn ar ddeall i ni; bod yn rhaid addoli Duw trwy ryw foddion; ei fod yn bechod addoli Duw trwy ddelw gerfiedig; ac o ganlyniad, fod cynnyg addoli Duw unrhyw ffordd heblaw y ffordd a drefnodd efe ei hunan yn bechadurus; ac yna, ei bod yn ddyledswydd arnom addoli Duw yn y drefn a osododd ef ei hunan. Gan mae ei ordinhadau ef yw y pethau hyn, rhaid eu derbyn, sylwi arnynt, a'u cadw y bur a chyfan.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Mai Duw yn unig sydd Arglwydd y gydwybod, a'n bod ni dan rwymau i gadw ei gyfreithiau ef yn unig 2. Bod Duw yn gwybod pa ordinhadau a gedwir genym yn ei addoliad ef. 3. Y bydd efe yn sicr o ddwyn dialedd drom ar y rhai a ddiystyrant ei orchymynion ef. Bod pob gweithred o addoliad crefyddol yn appwyntiedig gan Dduw, ac i gael ei chyflawni fel y gorchymynodd efe. 5. Ei bod yn beryglus i ni ddychmygu, na dwyn i addoliad Duw ddim o ddychymyg dynol. 6. Mai Gair Duw yn unig a ddylai fod ein harweinydd yn hyn fel yn mhob peth arall.

7. Bod Duw yn eiddigus, ac na's gall oddef i'w ordinhadau gael ei dirmygu.

## *Pechodau gwaharddedig.*

HOL. 51. PA BETH A WAHERDDIR YN YR AIL ORCHYMYN?

Addoli Duw trwy ddelwau, neu unrhyw ffordd nad appwyntiwyd ganddo ef yn ei Air.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Ein bod yn cael ein gwahardd i addoli Duw trwy ddelwau. Deut. 4. 15, 16. "Gwyliwch, gan hyny, yn ddyfal ar eich eneidiau (oblegid ni welsoch ddim llun yn y dydd y llefarodd yr Arglwydd wrthych yn Horeb, o ganol y tân,) rhag ymlygru o honoch, a gwneuthur i chwi ddelw gerfiedig."

2. Y gwaherddir i ni addoli Duw mewn unrhyw ffordd ond a appwyntiwyd yn ei Air, Deut. 4. 2. "Na chwanegwch at y gair yr ydwyf yn ei orchymyn i chwi, ac na leihewch ddim o hono ef, gan gadw gorchymynion yr Arglwydd eich Duw, y rhai yr wyf fi yn eu gorchymyn i chwi."

EGLURHAD.

Sylw 202.—*Mae yr ail orchymyn yn gwahardd addoli Duw trwy ddelwau ; neu eilun-addoliaeth.*

Cynnwysa hyn y pethau canlynol:—

1. *Gwneuthur delwau*, neu *lun dim* er addoliad crefyddol; megis delwau neu luniau Duw ei hunan, Tad, Mab, ac Ysbryd Glan; neu o'r haul, y lloer, a'r ser, yn y nefoedd fry; neu o ddynion, bwystfilod, neu brenau yn y ddaiar isod; neu o bysgod o unrhyw yn y dyfroedd dan y ddaiar. Gwel Lef. 26. 1. Esa. 40. 18. Act. 17. 29. Rhuf. 1. 22, 23.

*Ymgrymu i ddelwau cerfiedig;* neu *luniau dim* yn y nefoedd uchod, neu y ddaiar isod, neu yn y dyfroedd dan y ddaiar. Mae dweyd fel y gwna rhai nad yw ymgrymu i ddelwau yn cynnwys eu gwasanaethu, yn hollawl ffol, canys pa fodd y gall neb eu gwasanaethu yn fwy effeithiol, na thrwy y cyfryw weithredoedd o addoliad crefyddol, a thrwy roddi iddynt yr anrhydedd priodol i Dduw yn unig?

Y rheswm am wahardd eilun-addoliaeth yw, am ei fod yn amcanu yn uniongyrchol yn erbyn bodoliaeth Duw; ac yn tueddu i'w yspeilio o'i hawl-fraint fel Duw, a gosod eraill i fynu yn ei le ef.

Y rheswm paham y mae dyn mor dueddol i eilun-addoliaeth, yw, am fod dyn yn meddu awydd naturiol i osod gwrthddrych addoliad o flaen ei lygaid, fel y gwelo yr hyn a fyddo yn ei addoli. Mae hyn yn ddiau yn brawf o lygredigaeth dyn; canys pan na allo y meddwl ymsefydlu ar Dduw anweledig yn ei ddatguddio ei hun yn ei Air, y mae hyny yn dangos diffyg ysbrydolrwydd meddwl, diffyg gwresowgrwydd dyhewyd, a'r diffyg o ffydd yn yr enaid. Gwel Exod. 32. 1, &c. Ioan 4. 24. Heblaw hyny, pe gallai delwau gynnorthwyo ein dyhewyd, yna, y byddai gwaith yr Ysbryd, yr hwn sydd yn cynnorthwyo ein gwendid ni, yn ddïangenrhaid.

Ond gellir gwrthddadleu yma, Os yw delwau yn cael eu gwahardd, pa fodd yr oedd delwau y cerubiaid yn cael eu gosod i fynu yn y babell yn gyntaf, ac wedi hyny yn y deml? I hyn yr attebwn, fod gwahaniaeth mawr iawn rhwng y *cerubiaid* gynt a *delwau* y dyddiau presennol. Yr oedd y cerubiaid wedi eu happwyntio gan Dduw ei hunan; yr hyn nid yw delwau mewn un modd. Yr oedd y cerubiaid yn cael eu cyfleu yn y sancteiddiolaf, i'r hwn nid oedd neb ond yr archoffeiriaid yn cael caniattâd i fyned, ag yntau ond unwaith yn y flwyddyn; ac fel yr oeddynt yn rhan o'r ddeddf seremonïol, yr oedd y gosodiad i gael ei ddiddymu mewn amser, ac y mae yn awr wedi ei ddiddymu yn hollol.

Mae y pethau canlynol yn gyssylltiedig ag eilun-addoliaeth, ac yn cael eu gwahardd yn y gorchymyn yma:—

1. Ffurfio unrhyw ddarluniad o Dduw yn y meddwl; yr hyn a ddylynir gan yr amgylchiadau gwaethaf. Rhuf. 1. 21.

2. Gwneuthur darluniau o'r saint sydd mewn gogoniant i'w haddoli; canys pa faint bynnag a gyfnewidiwyd arnynt, a pha mor ogoneddus bynnag y gallant fod, nid ydynt ond crëaduriaid; ac o ganlyniad, ni's gallant fod yn wrthddrychau addoliad dwyfol. Heblaw hyny, y mae hyn yn cael ei wahardd yn amlwg yn yr ysgrythyrau; ac ni's gellir ffurfio un darluniad cywir o honynt.

Sylw 203.—*Mae yr ail orchymyn yn gwahardd i ni addoli Duw mewn un ffordd ond y cyfryw ag sydd yn appwyntiedig yn ei Air.*

Mae y rhai oll nad ydynt yn ymfoddloni ar yr hyn a ddatguddiodd Duw ar hyn, ond mewn rhyfyg yn cyssylltu eu dychymygion ofergoelus eu hunain a gosodiadau Dwyfol, yn euog o hyn; gan gymeryd arnynt eu bod yn seremonïau tra arwyddocäol, a chyfaddas i brydferthu addoliad Duw, a chyffrôi duwiolfrydedd yn yr addolwyr. Ond, trwy y pethau hyn,

y maent wedi gwneyd eu cyflawniadau crefyddol yn gnawdol a ffurfiol, a thra gwahanol i'r addoliad ysbrydol y mae Duw yn ei ofyn, Ioan 4. 24. Rhai o'r dychymygion coel-grefyddol y cyfeirir attynt, ydynt y rhai canlynol;—amrywiaeth mawr o swyddogion, o'r rhai nid oes un crybwylliad yn yr Ysgrythyrau; penlinio yn sacrament Swper yr Arglwydd; cyfodiad allorau yn yr eglwysi; a neillduad lluaws o ddyddiau i'w cadw yn grefyddol; ac yn enwedig y rhai a elwir *y Grawys*, cadwraeth y rhai sydd nid yn unig yn groes i reswm ag ysgrythyr, ond yn dra annuwiol, gan eu bod yn fath o ddynwarediad ar *ympryd gwyrthiol* ein Harglwydd yn y diffaethwch. (Fe adawodd Crist esampl i ni fel y dilynem ei ol ef; ond ni adawodd un gorchymyn i ni geisio dynwared ei *wyrthiau.*) Mae y rhai a sefydlasant y dyddiau hyn, a'r rhai ydynt yn eu cadw, i'w cyfrif yn mysg y rhai ydynt yn "dysgu gorchymynion dynion yn ddysgeidiaeth." Mat. 15. 9. Gwel Col. 2. 16, 17, 20—23. Gal. 4. 9—11. 1 Tim. 4. 1—5; lle y mae gwahaniaeth bwydydd dan oruchwyliaeth y Testament Newydd, yn cael ei gondemnio yn amlwg.

Efallai y gwrthddadleua rhai yma, fod llawer o seremonïau dan oruchwyliaeth yr Hen Destament wedi eu sefydlu trwy orchymyn pendant Duw. I hyn yr attebwn, bod gwahaniaeth mawr rhwng seremonïau sefydledig gan Dduw, a dychymygion dynion. Nid oedd y seremonïau a sefydlodd Duw er yr oesoedd gynt, yn un rhan o'r ddeddf foesol; ac ni's bwriadwyd mo honynt erïoed i barhau yn yr eglwys; canys nid oeddynt namyn cysgod daionus bethau a fyddent. Heb. 11. 1, &c. Ond yn awr rhaid i'r addoliad fod yn ysbrydol, ac yn gyfaddas i oruchwyliaeth yr efengyl. Gwel Ioan 4. 23. 24.

Gallem nodi yma, fod y gorchymyn hwn yn cael ei droseddu etto, pan fyddo addoliad ac ordinhadau Duw yn cael eu hesgeuluso, eu dirmygu, eu rhwystro, neu eu gwrthwynebu, Mat. 23. 13; Act. 13. 44, 45; 1 Thes. 2. 15, 16; a hefyd pan y goddefir gweinidogion neu bobl, a ddysgant ac a amddiffynant olygiadau ag ymarferiadau cyfeiliornus. Deut. 13. 6—11. Gal. 1. 8, 9. Dat. 2. 2, 14, 15, 20.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y dylai pawb anrhydeddu Duw yn ol ei *Air*. 2. Rhaid i addoliad a fyddo gymeradwy fod yn ysbrydol, ac yn mhell o fod yn ol dychymygion dynion. 3. Nad ydym wedi ein gadael i ddewis y dull yn yr hwn y y dylem addoli Duw, mwy na'r gwrthddrych i'w addoli. 4. Onid ydym yn addoli Duw yn ysbrydol, yr ydym yn dangos

ein bod yn ddyeithr i'w natur a'i nodweddiad ef. 5. Pa mor hoff bynnag y gall dyn fod o'i ddychymygion ei hunan, rhaid iddo ymwrthod a hwy yn addoliad Duw. 6. Mai Crist yn unig yw ein pen, a thrwyddo ef y rhaid i ni fyw, fel aelodau o'i eglwys ef. 7. Y perygl o wyrdroi ei ordinadau ef i ryw fesur, gan na's byddwn yn ddïeuog os gwnawn. 8. Y perygl o ddirmygu, esgeuluso, rhwystro, neu wrthwynebu addoliad Duw a'i ordinhadau.

## *Y rhesymau a gyssylltir.*

HOL. 52. PA RAI YDYNT Y RHESYMAU A GYSSYLLTIR A'R AIL ORCHYMYN?

Y rhesymau cyssylltiedig a'r Ail Orchymyn ydynt benarglwyddiaeth Duw arnom, ei feddiant ynom; a'r eiddigedd sydd ganddo dros ei addoliad ei hun.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai Duw yw ein pen Arglwydd, Esa. 33. 22. "Yr Arglwydd yw ein barnwr, yr Arglwydd yw ein deddfwr, yr Arglwydd yw ein brenin, efe a'n ceidw." Gwel Ps. 95. 3, 6.

2. Mai eiddo Duw ydym ni, Ps. 95. 7, "Efe yw ein Duw ni; a ninnau ŷm bobl ei borfa, a defaid ei law." Gwel Ps. 45. 11.

3. Bod Duw yn dra eiddigus dros burdeb ei addoliad. Exod. 34. 14. "Canys ni chai ymgrymu i dduw arall; oblegid yr Arglwydd Eiddigus yw ei enw; Duw eiddigus yw efe."

### EGLURHAD.

Sylw 204.—*Nyni a ddylem addoli Duw yn y ffordd a drefnodd efe, oblegid mai efe yw ein Penarglwydd.*

Wrth *benarglwyddiaeth Duw arnom*, yr hyn a ddynodir yn y geiriau hyn, "Myfi yw yr Arglwydd," yr ydym i ddeall ei awdurdod drwyadl arnom fel ei greaduriaid, trwy yr hyn y gall ein trefnu a threfnu erom fel y gwelo yn dda. Nid rhaid i Dduw ddim gofyn pa beth yr ydym ni yn ewyllysgar i'w wneyd: ond, pa beth bynnag a orchymyno efe i ni, yr ydym yn rhwym i'w wneyd, pa beth bynnag a fyddo natur a gradd y gwasanaeth y'n gelwir atto.

Gan hyny, fel y mae Duw yn meddu awdurdod drwyadl a phenaf arnom, efe a all ordeinio y cyfryw ordinhadau yn ei

eglwys ag a fyddo da yn ei olwg; ac yr ydym yn rhwym i'w cadw yn ol ei osodiad ef.

Sylw 205.—*Nyni a ddylem addoli Duw yn y ffordd a drefnodd efe, am mai ei eiddo ef ydym.*

Wrth *berchenogaeth Duw o honom*, yr hyn a ddynodir yn y geiriau hyn, "Dy Dduw," yr ydym yma i ddeall ei hawl ynom trwy brynedigaeth; canys ni all yr Arglwydd gyda phriodoldeb ei alw ei hun *ein Duw*, fel Creawdwr; oblegid fod pawb o honom wedi colli ei ffafr a'i gariad; fel mai megys prynwr yn unig y mae efe yn sefyll yn y berthynas raslonaf yma â neb o blant dynion.

Gan hyny, os ydym ni o nifer pobl Dduw, yr ydym wedi ein prynu trwy waed ei Fab ef; ac felly fe ddylai ei gariad ein cymhell ni i'w garu ef, a dangos ein dïolchgarwch iddo; yr hyn a amlygir i fesur mawr trwy lynu wrth ei holl ordinhadau; a thrwy eu cadw yn ofalus megys yr ordeiniodd efe; ac os felly, yna gwrthodir pob dyfais ddynol, fel yn hollawl annheilwng o le yn mysg gosodiadau Dwyfol.

Sylw 206.—*Nyni a ddylem addoli Duw yn y ffordd a osododd efe, oblegid ei fod ef yn dra eiddigus dros burdeb ei addoliad.*

Gosodir hyn allan yn y geiriau hyn, "*Wyf Dduw eiddigus;*" ac y mae y geiriau yn rhoddi ar ddeall i ni ei fod ef yn craffu yn fanol ar ei addolwyr, pa un a ydynt hwy yn cadw ei holl ddeddfau a'i ordinhadau a'i peidio.

Mae yr Arglwydd wedi dangos ei *eiddigedd dros ei addoliad* mewn dwy ffordd; yn ei *fygythiad* a'i *addewid.*

Yn ei *fygythiad;* yr hwn a gynnwysir yn y geiriau hyn, "Yn ymweled ag anwiredd y tadau ar y plant, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth, o'r rhai a'm casäant," hyny yw, yn gosod ar blant gosbedigaeth am anwiredd eu tadau. Gwel Jos. 9. 2 Sam. 21. 1 Bren. 15. 29, 30; a 14. 11. Ond rhaid i ni gofio am y plant a gosbir fel hyn, mai y rhai a rodiant yn ffyrdd eu rhïeni annuwiol ydynt, gan ddilyn eu hesampl a chymeradwyo eu hymddygiad; neu o leiaf, fod heb ei annghymeradwyo, a galaru o'i herwydd.

2. Yn ei *addewid.* Cynnwysir hon yn y geiriau hyn, "Gan ddangos trugaredd i filoedd o'r rhai a'm carant ac a gadwant fy ngorchymynion." Y rhai a garant Dduw yw y rhai a fwynhant hyfrydwch ddiffuant ynddo ef fel eu Duw, a welant ynddo yr hyn ni's gellir ei weled yn neb ond efe, a ymddigonant ynddo ef, ac yn mhob peth a amlygant eu hunain, mai ei

bobl ef ydynt. A'r rhai *a gadwant ei orchymynion* ef yw y rhai sydd yn meddu parch cyffredinol ag unffurf i'w holl gyfraith, fel unig reol eu ffydd a'u hymarweddiad; a chyda golwg ar y gorchymyn hwn, a feddant barch neillduol i'w ordinhadau ef ei hunan.

Gellir crybwyll yma, fod rhyw beth tra theilwng o sylw yn null geiriad y *bygythiad* a'r *addewid.* Nid yw y bygythiad yn cyrhaedd onid i'r *drydedd* a'r *bedwaredd* genhedlaeth o'r rhai a gasäant yr Arglwydd; tra y mae yr addewid yn ymestyn hyd *filoedd* o genhedlaethau, o'r rhai a'i carant ef, ac a gadwant ei orchymynion. Mae yn ddiamheuol fod hyn yn rhoddi ar ddeall i ni, mai *dyeithr waith* Duw yw *cosbi;* ac nad oes ganddo hyfrydwch yn marwolaeth yr annuwiol; ond, mai mewn *trugaredd* y mae efe yn *ymhyfrydu;* a'i bod hi yn amrywiol, ac annherfynol.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Fod gan Dduw hawl i ofyn yr hyn a welo yn dda. 2. Gan ein bod yn bobl broffesedig iddo, ein bod dan rwymau neillduol i gadw yr hyn a orchymynodd efe; a hefyd y modd y dylai ei orchymynion gael eu cadw. 3. Nad eill troseddwyr ddïanc rhag y gosb ddyledus am eu hanufudd-dod. 4. Y dylai rhïeni fod yn dra gofalus, pa fodd yr ymddygont ger bron eu plant, fel na throchont hwynt mewn dystryw trwy eu hannuwioldeb. 5. Na ddylai plant ddilyn esampl eu rhïeni yn ddim pellach nag y byddont hwy yn ddilynwyr i'r Arglwydd. 6. Y perygl y mae y rhïeni hyny ydynt yn rhoi esampl ddrwg i'w plant yn eu rhoddi eu hunain yn agored iddo. 7. Na bydd i hyn esgusodi eu plant ger bron yr Arglwydd, oni's gwnant yr hyn a orchymynodd efe. 8. Bod gan y plant a ddygir i fynu yn ofn yr Arglwydd, lawer o achos i fendithio yr Arglwydd; a hefyd, y gofynir llawer ganddynt. 8. Yr angenrheidrwydd i garu Duw, a chadw ei orchymynion ef.

## DOSB. 3.—Y TRYDYDD GORCHYMYN.

### HOL. 53. PA UN YW Y TRYDYDD GORCHYMYN?

Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer; canys nid dieuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.

Exod. 23. 7; Deut. 4. 11.

### *Y dyledswyddau a ofynir ynddo.*

HOL. 54. PA DDYLEDSWYDDAU A OFYNIR YN Y TRYDYDD GORCHYMYN?

Arferiad sanctaidd a pharchus o enwau Duw, ei deitlau, ei brïodoliaethau, ei ordinhadau, ei Air, a'i weithredoedd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod enwau Duw i gael eu defnyddio gyda pharch. Ps. 29. 2. "Rhoddwch i'r Arglwydd ogoniant ei enw." Gwel hefyd Mat. 6. 9.

2. Bod teitlau Duw i gael eu defnyddio gyda pharch sanctaidd. Dat. 15. 3, 4. "Mawr a rhyfedd yw dy weithredoedd, O Arglwydd Dduw Hollalluog; cyfiawn a chywir yw dy ffyrdd di, Brenin y saint. Pwy ni'th ofna di, O Arglwydd, ac ni ogonedda dy enw?"

3. Bod prïodoliaethau Duw i'w defnyddio gyda pharch sanctaidd, Dat. 4. 8. "Sanct, Sanct, Sanct, Arglwydd Dduw Hollalluog, yr hwn oedd, a'r hwn sydd, a'r hwn sydd i ddyfod." Gwel hefyd Dat. 15. 4.

4. Bod ordinhadau Duw i gael eu defnyddio â pharch sanctaidd. Preg. 5. 1. "Gwylia ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Dduw, a bydd barottach i wrando nag i roi aberth ffyliaid." Gwel hefyd Mal. 1. 11, 14.

5. Bod gair Duw i gael eu ddefnyddio â pharch sanctaidd. Diar. 13. 13. "Yr hwn a ddirmygo y gair a ddifethir: ond yr hwn sydd yn ofni y gorchymyn a obrwyir. Gwel Ps. 138. 2.

6. Bod gweithredoedd Duw i gael eu defnyddio a'u hystyried gyda pharch sanctaidd. Job 36. 24. "Cofia fawrhau ei waith ef, ar hwn yr edrych dynion."

EGLURHAD.

Sylw 207.—*Mae y trydydd Gorchymyn yn gofyn i ni wneyd defnydd sanctaidd a pharchus o enwau Duw.*

Gallwn sylwi yma, ein bod i ddeall wrth *enw* Duw yn y gorchymyn yma, bob peth trwy yr hyn y gwna ei hun yn adnabyddus,—ei enwau, teitlau, prïodoliaethau, ordinhadau, Gair a gweithredoedd.

*Enwau* Duw ydynt y rhai hyn:—

1. I'w ddarlunio fel un anymddibynol, annewidiol, a hun-

an hanfodol, &c., efe a adwaenir wrth yr enwau Jehofah, Jah, Ydwyf, Duw, &c.

2. Fel penarglwydd, efe a adwaenir wrth yr enwau Arglwydd, Duw, &c.

3. Fel un Duw yn dri o bersonau, yn y berthynas a ddwg y personau hyn i'w gilydd, efe a adwaenir wrth yr enwau Tad, Mab, ac Ysbryd Glan.

Gwneyd *defnydd sanctaidd a pharchus* o enwau Duw, yw meddwl, siarad, ac ysgrifenu am danynt mewn ffydd ag ofn; gan feddu arswyd sanctaidd o'i fawrhydi yn ein meddyliau, a chredu ei fod yr hyn y mae yn ei alw ei hun, Deut. 28. 58. Jer. 5. 22.

Sylw 208.—*Mae y Trydydd Gorchymyn yn gofyn i ni wneyd defnydd sanctaidd a pharchus o deitlau Duw.*

Megys y mae enwau Duw yn dangos pa beth yw efe ynddo ei hunan, heb berthynas a neb; y mae ei *deitlau* yn dangos pa beth yw efe i'w greaduriaid y rhai a wnaeth efe.

1. Y teitlau a berthynant i Dduw fel *Duw natur* ydynt y rhai canlynol:—Creawdwr, a Chreawdwr cyrau y ddaiar;—Cynhaliwr dynion—Arglwydd y lluoedd—Brenin y cenhedloedd, &c.

2. Y teitlau a berthynant i Dduw fel *Duw gras*, ydynt y rhai hyn;—Gwrandawr gweddi,—Duw Abraham, Isaac, a Jacob,—Sanct Israel,—Tad trugareddau,—Duw yr heddwch,—Duw pob gras,—Brenin y saint,—Duw iachawdwriaeth,&c. ac efe a adwaenir yn y Testament Newydd mewn modd neillduol, dan y teitl anwyl o Dduw a Thad ein Harglwydd Iesu Grist.

3. Adwaenir personau y Drindod fendigedig hefyd trwy enwau gwahaniaethol, yn ol y rhan a weithreda pob un yn ngwaith y prynedigaeth.—Y Tad a adwaenir wrth y teitl o Dad Iesu Grist, yr hwn a elwir ei Fab; y Mab a adwaenir wrth y teitlau o Ben yr Eglwys, Brenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi, &c; a'r Ysbryd Glan a adwaenir wrth y teitlau Dyddanydd, Sancteiddydd, &c.

Gwneyd defnydd sanctaidd a pharchus o deitlau Duw, yw meddwl, a son, ac ysgrifenu am danynt mewn ffydd ac ofn; gan eu golygu yn eu perthynas a Christ, ac felly dynu rhinwedd o honynt, er cynnydd ein ffydd a'n sancteiddrwydd. Exod. 23. 20, 21.

Sylw 209.—*Mae y Trydydd Gorchymyn yn gofyn i ni wneyd defnydd sanctaidd a pharchus o brïodoliaethau Duw.*

Wrth *brïodoliaethau* Duw yr ydym i ddeall y rhagoriaethau

hyny a briodolir iddo ef, fel yn perthyn yn hanfodol i'w natur, a thrwy y rhai y'i gwahaniaethir oddiwrth bob creadur a wnaeth efe. Y rhai hyn ydynt ei anfeidroldeb, ei dragywyddoldeb, ei annewidioldeb, ei hollwybodaeth, ei holl bresenoldeb, ei hollalluogrwydd, &c.; hefyd, doethineb a gwybodaeth, gallu, sancteiddrwydd, cyfiawnder, daioni a thrugaredd, gwirionedd a ffyddlondeb.

Gwneyd *defnydd sanctaidd a pharchus* o brïodoliaethau Duw, yw meddwl a son am danynt mewn modd parchus ag ysbrydol, a gwneyd defnydd o honynt gyda golwg arnom ein hunain ag eraill, i'r perwyl y'u datguddiwyd erddo. Gwel Ps. 130. 4; 2 Cor. 5. 11.

Sylw 210.—*Mae y Trydydd Gorchymyn yn gofyn i ni wneyd defnydd sanctaidd a pharchus o ordinhadau Duw.*

Trwy ordinhadau, adwaenir Duw yn ei Eglwys, fel un yn meddu ewyllys da i ddynion, a'i phen a'i harglwydd grasol, yr hwn sydd yn ewyllysio ei hiachawdwriaeth yn dragywydd, a'i chysur yn nghanol ei gelynion lluosog a galluog.

Ordinhadau Duw ydynt y rhai hyn;—Gweddi a dïolchgarwch; mawl; gweinyddiad a derbyniad y sacramentau; darlleniad, pregethiad, a gwrandawiad y Gair; llywodraeth a dysgyblaeth Eglwysig; y weinidogaeth, a'i chynnaliaeth; ymprydiau crefyddol; llwon neu dyngu yn enw Duw; addunedau; a bwrw coelbren.

Gwneyd defnydd parchus a sanctaidd o ordinhadau Duw, yw golygu Duw megys yn bresenol ynddynt; a'u cyflawni gydag amcan i'w ogoneddu ef, Mat. 28. 20; Ps. 86. 9. Gweddio yn yr ysbryd; canu trwy ras yn y galon; pregethu a gwrandaw mewn ffydd; cymuno yn deilwng a grasol; mewn gair, gwneuthur pa beth bynnag a ofynir genym yn yr ordinhadau mewn modd addas.

Fel y mae enw Duw yn cael ei ddefnyddio mewn modd mwy union gyrchol mewn llwon, addunedau, a choelbrenau, gwnawn rai sylwadau ar bob un o'r rhai hyn.

*Llw* sydd weithred o addoliad crefyddol, yn yr hon yr ydys yn galw yn ddifrifol ar Dduw fel tyst er cadarnhad o wirionedd a amheuid o'r blaen; ac er terfynu yr ymrysonau yn mysg dynion. Deut. 6. 13; Heb 6. 16.

Mae galw ar Dduw fel tyst mewn llw, yn arwyddo cydnabyddiaeth a chrediniaeth o'r pethau canlynol. Ei fod ef yn anffaeledig fel chwiliwr y calonau; ei fod ef yn ddïalydd galluog ar bob anudonedd a chelwydd; a'i fod ef yn anfeidrol fwy na ni. Gwel Heb. 6. 16.

Ond fe ddichon y gall rhyw un wrthddadleu yma fod tyngu yn anghyfreithlawn,—y dywedir, "Na thwng ddim;" a thrachefn, "O flaen pob peth, fy mrodyr, na thyngwch." Mat. 5. 34; Iago 5. 12. I hyn yr attebwn, nad yw y geiriau uchod ar un cyfrif yn gwahardd llw, pan yn gelwir yn gyfreithlawn i dyngu; ond yn unig tyngu yn halogedig a phechadurus, mewn ymddyddanion cyffredin, neu gymeryd enw Duw yn ofer. Gwel Deut. 6. 13; Jer. 4. 2.

Y gellir defnyddio llw, yr hon sydd weithred o addoliad crefyddol o'r fath fwyaf difrifol mewn modd sanctaidd a pharchus, a welir oddiwrth ystyriaeth ddifrifol o'r gorchymyn canlynol, yn Jer. 4. 2. "A thi a dyngi,—mewn gwirionedd, mewn barn, ac mewn cyfiawnder."

1. *Mewn gwirionedd.* Mae hyn yn arwyddo fod yr hyn a dyngir i fod yn berffaith gydffurf a'r gwirionedd,—canys os amgen, yr ydys yn galw ar Dduw yn dyst dros gelwydd; ein bod ni ein hunain wedi ein darbwyllo o'i wirionedd; a'i fod heb dwyll na dichell; heb amwysedd na darngeliad meddwl.

2. *Mewn barn.* Mae hyn yn rhoddi ar ddeall i ni y dylem ddeall yr hyn y tyngom iddo, fel na byddom yn tyngu am beth ansicr; ein bod yn deall natur llw; a'n bod yn ei gymeryd mewn ofn a pharch, gan wybod mai a Duw y mae a wnelom.

3. *Mewn cyfiawnder.* Mae hyn yn arwyddo fod yn rhaid i'r peth, yn ngylch yr hyn y cymerir y llw fod yn gyfiawn a chyfreithlon ynddo ei hunan; y rhaid iddo fod yn ddichonadwy; ac, os bydd rhyw berthynas rhyngom ni a'i gyflawniad, y rhaid ei fod yn ein gallu, y rhaid ei fod yn gyson a'n dyledswydd i Dduw, ac a'n cydwybod tuag at ein cymmydog; ac y rhaid i ni gofio, a phenderfynu yn wrol ei gyflawni.

Gellir sylwi yma, mai y ffordd o appelio at Dduw mewn llw, fel y'i darlunir yn yr Ysgrythyrau, yw dyrchafu y llaw tua'r nefoedd. Gwel Gen. 14. 22; Dat. 10. 5, 6.

*Adduned* yw ymrwymiad gwirfoddol a phwyllog, a wneir i'r Arglwydd yn unig, fel plaid, heb olygu neb arall fel plaid na thyst. Gwel Ps. 50. 14; a 119. 106. Nid yw llw bob amser yn gyssylltiedig a'r hyn sydd grefyddol; ond y mae adduned bob amser yn gyssylltiedig a'r hyn sydd grefyddol, ac â hyny yn unig. Deut. 23. 21—23.

Fel y galler defnyddio addunedau mewn modd parchus a sanctaidd, rhaid eu gwneuthur mewn ffydd, ac yn nerth y gras sydd yn Iesu Grist, heb yr hwn ni's gellir eu cyflawni. Ioan 15. 5; Phil. 4. 13.

*Bwrw coelbren*, yw dodi o'r neilldu yr arferiad o foddion cyffredin, gan appelio yn union gyrchol at Dduw, fel y byddo

iddo ef trwy ei ragluniaeth ddigyfrwng roddi penderfyniad presenol o barth i beth a fyddo yn amheus. "Y coelbren a fwrir i'r arffed; ond, oddiwrth Dduw y mae ei holl lywodraethiad ef." Diar. 16. 33.

Fel y galler defnyddio coelbrenau mewn dull sanctaidd a pharchus, rhaid eu defnyddio yn unig mewn amgylchiadau tra phwysig, a'r cyfryw ag a fyddo yn hollol angenrheidiol, y rhai ni's gellir eu penderfynu mewn un ffordd arall heb annghyfleusdra mawr, Diar. 18. 18. Mae yn sicr y byddai defnyddio coelbren ar achlysuron di bwys yn halogiad ar enw Duw; neu alw arno i benderfynu pethau y gellid eu penderfynu yn hawdd trwy y defnyddiad o foddion cyffredinol. Dylem ddisgwyl wrth Dduw hefyd am y penderfyniad, gan alw ar ei enw ef. Jonah 1; Act. 1; a rhaid gadael y peth i benderfyniad Dwyfol yn hollol, heb ddefnyddio unrhyw dwyll i beri iddo dueddu i'r naill ochr na'r llall.

Sylw 211.—*Mae y trydydd Gorchymyn yn gofyn i ni wneyd defnydd sanctaidd a pharchus o Air Duw.*

Wrth Air Duw yr ydym i ddeall Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, a elwir *Yr Ysgrythyr Lan;* trwy y rhai yn unig y gallwn ni ddyfod yn ddoeth i iachawdwriaeth; ac yn y rhai yn unig y dadlenir ger ein bron yr amryfal ffyrdd yn y rhai yr hysbysodd Duw ei hun, a'r ffordd yn yr hon y gallwn fod yn ddedwydd yn y byd hwn a'r hwn a fydd.

Gwneyd defnydd *sanctaidd a pharchus* o Air Duw yw ei chwilio a'i gredu, fel y mae yn tystiolaethu am Grist, Ioan 5. 39; a'i gymeryd yn llusern i'n traed, ac yn llewyrch i'n llwybr, Ps. 119. 105.

Sylw 212.—*Mae y trydydd Gorchymyn yn gofyn i ni wneyd defnydd sanctaidd a pharchus o weithredoedd Duw.*

Wrth weithredoedd Duw yr ydym i ddeall ei waith yn y grëadigaeth, a'i weithredoedd o ragluniaeth; ac yn y dosparth olaf hwn y cynnwysir gwaith y prynedigaeth, y penaf o holl ffyrdd Duw, trwy yr hyn y datguddiodd efe ei ras gogoneddus i ni.

Gwneyd *defnydd sanctaidd a pharchus* o weithredoedd Duw, yw defnyddio yr amlygiadau rhyfeddol a wnaeth efe o'i ragoriaethau gogoneddus, mewn crëadigaeth,rhagluniaeth,a phrynedigaeth, gan syllu drwyddynt ar ei fawredd, ei allu, ei ddoethineb, a'i ddaioni anfeidrol; a dilyn ac ymostwng mewn parch i'w holl amcanion yn ei oruchwyliaethau rhagluniaethol; a'i fendithio a'i foliannu am ei holl drugareddau, ac ymostwng i'w ewyllys yn mhob peth. Deut. 15. 3, 4.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd am fod yn gyfarwydd ar yr enwau dan ba rai y mae Duw yn ei hysbysu ei hun yn ei Air, yr hyn a'n harweiniai i'w barchu. 2. Os ydym ni yn eiddo Duw, y byddwn ni yn dra gofalus am barchu ei enw mawr ag ofnadwy. 3. Bod yn rhaid i ni barchu enw Duw, trwy ymarfer a'i ordinhadau yn ol ei osodiad ef. 4. Na ddylem ni byth ddefnyddio enw Duw mewn pethau di-bwys. 5. Y dylem ystyried natur llw yn ddifrifol, fel os gelwir arnom gan neb yn nhrefn rhagluniaeth, i alw Duw yn dyst, na chaffer ni yn halogi ei enw; ond yn ei anrhydeddu. 6. Y perygl o appelio at Dduw trwy goelbren yn uniongyrchol mewn pethau di bwys. 7. Y perygl o addunedu i'r Arglwydd heb gyflawni ein haddunedau. 8. Y perygl o gam ddefnyddio enw Duw mewn un modd.

## Y *Pechodau a waherddir.*

HOL. 55. PA BETH A WAHERDDIR YN Y TRYDYDD GORCHYMYN?

Pob halogiad neu gam arferiad o unrhyw beth trwy yr hyn y mae Duw wedi amlygu ei hun.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y'n gwaherddir i halogi dim trwy yr hyn y mae Duw yn ei amlygu ei hun, Lef. 18. 21. "Na haloga enw dy Dduw; myfi yw yr Arglwydd." Gwel hefyd Mal. 1. 7. 12.

2. Y'n gwaherddir i gamddefnyddio dim trwy yr hyn y mae Duw yn ei amlygu ei hun. Mat. 23. 14. "Gwae chwi, Ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr! canys yr ydych yn llwyr fwytta tai gwragedd gweddwon; a hyny yn rhith hir weddio."

### EGLURHAD.

Sylw 213.—*Mae y trydydd Gorchymyn yn gwahardd pob halogiad, neu gam ddefnyddiad o unrhyw beth trwy yr hyn y gwnelo Duw ei hun yn hysbys.*

*Halogi* neu *gam ddefnyddio* unrhyw beth trwy yr hwn y mae Duw yn ymhysbysu, yw defnyddio ei enwau, ei deitlau, ei brïodoliaethau, ei ordinhadau, ei Air, neu ei weithredoedd, mewn dull rhyfygus, anmharchus, ac anweddus.

Y mae *enwau, teitlau, a phrïodoliaethau* Duw yn cael eu halogi neu eu camddefnyddio mewn amrywiol ffyrdd:—

1. Trwy goledd meddyliau ffiaidd neu gableddus am Dduw; neu trwy beidio meddwl am dano, neu fyfyrio arno ef, a'r hyn a wnaeth efe er pechaduriaid. Ps. 10. 4; a 94. 11.

2. Trwy gablu,—hyny yw, trwy siarad mewn modd gwaradwyddus, cableddus am Dduw, neu unrhyw beth a berthyna iddo ef yn arbenig. Lef. 24. 16.

3. Trwy anudonedd;—hyny yw, trwy haeru fod peth yn wir, am yr hyn y gwyddus mai celwydd noeth a fydd; neu trwy gadarnhau ar lw, yr hyn yr ydys yn gwybod ei fod yn amheus neu ansicr; neu trwy addaw ar lw, yr hyn nid ydys byth yn amcanu ei gyflawni. 1 Bren. 21. 13; Marc 14. 58, 59; Ezec. 17. 16; Zech. 5. 3, 4.

4. Trwy regfeydd pechadurus,—hyny yw, trwy alw am lid a dïaledd Duw arnom ein hunain neu ar eraill; neu trwy alw ar y dïafol mewn un modd er niweid.

5. Trwy lwon pechadurus,—hyny yw, trwy gymeryd llwon annghyfreithlawn; neu trwy lwon halogedig mewn ymddiddanion cyffredinol. Mat. 5. 34—36; a 23. 20—22; Iago 5. 12.

6. Trwy addunedau pechadurus,—hyny yw, addunedau annghyfreithlawn ynddynt eu hunain; neu y rhai pe y'u cyflawnid, a wnelai y rhai a'u cyflawnent yn euog ger bron Duw; neu, trwy addunedu gwneyd yr hyn a orchymynodd Duw, neu ymgadw oddiwrth yr hyn a waharddodd efe, yn ein nerth ein hun; neu, trwy addunedu gwneuthur yr hyn na byddo genym un bwriad i'w gyflawni. 1 Bren. 19. 2; Act. 23. 12; Mat. 14. 3—7; Jer. 42. 5, 6, 20, 22.

7. Trwy ddefnyddiad pechadurus o'r coelben,—hyny yw, trwy appelio at Dduw er difyrwch, megys wrth chwareu cardiau, a disiau, pan yr appelir at Dduw yn y modd mwyaf rhyfygus i benderfynu pwy fydd yn ennillwr; neu trwy appelio at Dduw mewn pethau o ychydig bwys, y rhai y gellid eu penderfynu ffordd arall.

8. Trwy ddefnyddio enw Duw yn rhyfygus ac anmharchus mewn ymddiddanion cyffredin, naill a'i mewn ffordd o synedigaeth, neu o ddiolchgarwch neu o daerni, neu o appeliad at Dduw.

9. Trwy ddiystyru, cablu, neu waradwyddo crefydd; neu trwy gymeryd proffes o honi yn rhagrithiol, neu i gau ddybenion; neu trwy wrthgilio oddiwrthi; neu gyflawni y cyfryw ysgelerderau ag anfoesau a baro ddïanrhydedd arni, ag a fyddo yn achos i enw yr Arglwydd gael ei gablu. Act. 13. 45; Ps. 1. 2; 2 Pedr 3. 3; 1 Pedr 4. 4; 2 Tim. 3. 5; Heb. 6. 6; Rhuf. 2. 24; Gal. 3. 1; Heb. 10. 3.

Mae *ordinhadau* Duw yn cael ei halogi neu eu camarfer pan y maent yn cael eu llwyr esgeuluso, neu pan y'u cyflawnir mewn dull ffurfiol, defodol ac arwynebol, heb fod ymdrech am gymmundeb â Duw ynddynt, ac am dderbyn maeth ysbrydol drwyddynt. Act. 7. 42, 43; Esa. 29. 13, 14.

Mae *Gair* Duw yn cael ei halogi neu ei gamarfer, pan y mae yn cael ei gam ddëongli, neu ei gam gymhwyso: pan y mae unrhyw ran o hono yn cael ei wŷr droi, naill ai i gellweriaeth halogedig, neu i gwestiynau cywrain ag aflesol, neu i ofer siarad, neu i gynnal gau athrawiaethau; neu, pan fyddo bwriadau a rhagluniaethau Duw yn cael eu cam ddefnyddio. Rhuf. 6. 1; Mat. 5. 21,&c.; 2 Pedr 3. 16; Matt 22. 24; Esa. 22. 13; 1 Tim. 1. 4, 6, a 6. 4, &c.; 2 Tim. 2. 14; Tit. 3. 9; Preg. 8. 11.

Mae *gweithredoedd* Duw yn cael eu halogi neu eu camarfer, pan y mae y creaduriaid yn cael eu darostwng i wasanaethu i chwantau ag ymarferion pechadurus; pan y mae dynion mewn llwyddiant yn amghofus o Dduw, yn anniolchgar am ei drugareddau, ac yn ymhyfau mwy i bechu ar gyfrif daioni Duw; neu, pan mewn adfyd, y maent yn tuchan ac yn grwgnach yn erbyn ei ragluniaethau, gan ymgaledu mwy mewn pechod. Rhuf. 13. 13, 14; Hos. 13. 6; Rhuf. 2. 4, 5; 1 Cor. 10. 10; Jer. 5. 3.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o feddu golygiadau cymhwys am Dduw. 2. Y perygl o gablu enw Duw. 3. Y pechod o anudoniaeth, ac o dyngu a rhegu. 4. Yr angenrheidrwydd o wyliadwriaeth, ac o ochelyd cymdeithas y rhai nid ydynt yn ofni yr Arglwydd. 5. Yr angenrheidrwydd o osod gwyliadwriaeth ar ein gwefusau. 6. Yr angenrheidrwydd o gyflawni ein haddunedau. 7. Y perygl o appelio at Dduw mewn pethau o ychydig neu ddim pwys. 8. Y dylem son am enw Duw gyda pharch bob amser. 9. Y perygl o ragrith. 10. Perygl y rhai ydynt yn tramgwyddo plant y deyrnas. 11. Euogrwydd y rhai ydynt yn calonogi eraill yn eu pechodau. 12. Bod yr ordinhadau Dwyfol yn deilwng o'n sylw parchus. 13. Y perygl o wrthgilio gyda chrefydd. 14. Y dylai Gair Duw gael ei ddefnyddio er ei ogoniant ef, ac er ein lleshad ni ein hunain ag eraill. 15. Bod gweithredoedd Duw yn rhyfeddol, mewn creadigaeth, rhagluniaeth, a phrynedigaeth; mewn trugaredd ac mewn barn, &c.

## *Y rhesymau a gyssylltir.*

HOL. 56. PA BETH YW Y RHESWM A GYSSYLLTIR A'R TRYDYDD GORCHYMYN?

Pa fodd bynnag y gall troseddwyr y gorchymyn hwn ddïanc rhag cosb oddiwrth ddynion, eto na oddef yr Arglwydd ein Duw iddynt ochelyd ei farn gyfiawn ef: (neu, nad dieuog ganddo, fydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer.)

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gall y rhai a gymerant enw Duw yn ofer, ddïanc rhag cosbedigaeth oddiwrth ddynion.

2. Y bydd i'r pechod o gymeryd enw Duw yn ofer gael ei gosbi mewn modd neillduol gan Dduw ei hunan. Deut. 28. 58, 59. "Oni chedwi ar wneuthur holl eiriau y gyfraith hon, y rhai sydd yn ysgrifenedig yn y llyfr hwn, gan ofni yr enw gogoneddus ac ofnadwy hwn, YR ARGLWYDD DY DDUW; yna y gwna yr Arglwydd dy bläau di yn rhyfedd."

EGLURHAD.

Sylw 214.—*Mae llawer yn eu cyfrif eu hunain yn ddieuog o ryw bechod mawr, er cymeryd enw Duw yn ofer.*

1. Y mae amryw yn ymhyfau yn y pechod hwn o herwydd ei *ffyniant* yn y byd, ac o herwydd eu hymarferiad hwy eu hunain o halogi enw Dnw. Ond ni all ffyniant tyngu halogedig mewn ymddiddan cyffredin, na'r *arfer* o hono, fod yn un esgusawd drosto, mwy nag y gallai ffyniant y pechod o lofruddiaeth, neu yr arferiad o ladd dynion, fod yn un esgusawd dros lofruddiaeth gwirfoddol.

2. Y mae llawer yn casglu eu bod at eu rhyddid i dori allan mewn iaith na's defnyddiant efallai, amser arall, pan fyddont yn cael cyffroi eu nwydau, gan golledion, croesau, neu siomedigaethau, &c. Ond, a yw y cyfryw yn ddïeuog, am eu bod yn meddwl bod ganddynt achos i gamddefnyddio enw Duw? Heblaw hyny, a all unrhyw elw neu bleser ddeillio o anmharchu y Duw mawr yn ei wyneb? Dyma bechod na's beiddiwn yn ddiberygl, fod yn euog o hono yn erbyn ein cydgrëadur.

3. Mae llawer hyd yn nod yn ymogoneddu mewn halogi enw y Duw mawr trwy lwon arswydus. Maent nid yn unig heb weled un pechod mewn cymeryd enw Duw yn ofer

trwy dyngu; ond y maent yn meddwl eu bod trwy wneuthur felly yn ymddangos yn fawr, ac yn rhagori a'r eraill. Rhaid iddynt gael math o iaith i'w gwahaniaethu eu hunain oddiwrth y rhai y maent yn gweled yn dda eu gwarthruddo fel penboethiaid crefyddol,—sef, y rhai a ofnant enw yr Arglwydd. Mae y cyfryw yn dangos ar unwaith nad ydynt hwy yn perthyn i'r Arglwydd, ac nad oes iddynt ran na chyfran gyd a'r rhai a ddiystyrant.

Sylw 215.—*Fe all y rhai a gymerant enw Duw yn ofer, ac y maent yn fynych yn dïanc rhag cosbedigaeth gan ddynion.*

Mae rhai ydynt euog o'r pechod yma yn dïanc rhag cael eu cosbi gan y *Barnwr,* mewn rhan o herwydd nad yw, ac nad all cyfreithiau dynol, gyrhaedd pob halogiad ar enw Duw; ac mewn rhan, oblegid bod y rhai ydynt mewn awdurdod, yn dra mynych yn ddynion halogedig ag annuwiol eu hunain; ac o ganlyniad, ni's gallant gyda phrïodoldeb roddi y cyfreithiau hyny mewn gweithrediad, sydd yn cyrhaedd cabledd, anudoniaeth, llwon, a'r cyfryw halogedigaeth amlwg ar enw Duw. Maent yn dïanc hefyd rhag cosb oddiwrth *weinidogion,* pan y maent yn caniatâu i'r pechod yma fyned heibio yn ddi sylw yn eu gweinidogaeth gyhoeddus, ac yn ngweinyddiad llywodraeth tŷ Dduw. Maent hefyd yn dïanc rhag cosbedigaeth oddiwrth *rïeni* a *phenau teuluoedd,* pan na byddo y cyfryw yn ceryddu ac yn cosbi y rhai a fyddo dan eu gofal yn euog o'r pechod hwn. Rheswm arall pa ham y mae llawer o droseddwyr y gorchymyn hwn yn dïanc yn ddi gosb gan ddynion, yw, oblegid fod can lleied o eiddigedd yn eu mysg dros anrhydedd enw Duw. Pe ymddygid fel hyn tuag at ddynion, hwy a ymddïalent ar y cyfryw ymddygiad yn fuan, er mwyn eu anrhydedd eu hunain; ond nid ymddengys fod nemawr yn teimlo yn eiddigeddus dros anrhydedd Duw.

Sylw 216.—*Er fod y rhai a gymerant enw Duw yn ofer yn dïanc rhag cosbedigaeth oddiwrth ddynion, eto ni oddefir iddynt ddïanc rhag ei farn gyfiawn ef.*

Fe amlygir hyn yn y gorchymyn ei hunan fel hyn:—"Nid dïeuog gan yr Arglwydd yr hwn a gymero ei enw ef yn ofer," —hyny yw, efe a'i cyfrifa yn euog yn ddiau, ac a'i cosba ef yn sicr.

Mae y *barnedigaethau* a ddwg Duw ar y rhai a halogant ac a gamddefnyddiant ei enw yn amrywiol. Mae y pechod yma yn dystrywio teuluoedd,—Zech. 5. 3, 4; yn dwyn barnau ar wlad, Hos. 4. 1—5; Jer. 5. 9; a phläau rhyfedd ar y corph,

Act. 12. 21—23; ac fe ddystrywia enaid a chorph yn uffern dros byth. Rhuf. 2. 5.

Gan hyny, rhaid fod hwn yn bechod *tra ysgeler* gan fod yr Arglwydd ei hunan yn cymeryd arno ei gosbi mewn modd mor nodedig, er y gall ei oddef i ddïanc yn ddi gosb. Ac y mae ei ysgelerder yn ymddangos yn mhellach, oddiwrth y cymeriad a roddir i'r cyfryw yn yr Ysgrythyrau, fel gelynion amlwg Duw, Ps. 139. 23; ac oddiwrth yr ystyriaeth hefyd, na's ennillir dim trwy y cyflawniad o hono; ac nad oes dim lles tymhorol yn gyssylltiedig ag ef; ond ei fod yn cael ei gyflawni oddiar falais noeth yn erbyn Duw, a chariad at y peth ei hun.

Sylw 217.—*Heblaw y rheswm uchod, fe ymddengys fod rhesymau eraill yn y gorchymyn ei hunan, paham na ddylid cymeryd enw Duw yn ofer.*

Y mae Duw yn ymgyfenwi yn y gorchymyn hwn, *Yr Arglwydd dy Dduw*;—"Na chymer enw yr Arglwydd dy Dduw yn ofer."

1. Mae yr ystyriaeth mai efe yw yr *Arglwydd*, neu *Jehofa*, yn ein dodi dan rwymedigaeth gref i ddefnyddio ei enw yn barchus, ar gyfrif ei ogoniant hanfodol, a rhagoriaethau ei natur; ac oblegid fod ganddo hawl ddïamheuol ar ufudd-dod ei grëaduriaid: ac y mae ofni ei enw yn rhan o'r ufudd-dod a ofynir ganddo, ag sydd yn rhyngu ei fodd ef.

2. Mae yr ystyriaethau mai efe yw *yr Arglwydd ein Duw*, yn rhoddi rhwymedigaeth gryfach arnom i ofni ei enw. Os yw efe wedi ei wneyd ei hun drosodd i ni yn ei Air fel ein Duw cymmodlawn yn Iesu Grist, ac os datguddiodd efe ei hunan yn yr efengyl fel *ein Duw*, yn mherthynasau hoff y cyfammod tragywyddol,—pa rwymedigaethau cryfach y gallwn ni fod danynt i'w ofni ef bob amser, ac i ochelyd ei ddigio trwy gymeryd ei enw ef yn ofer?

#### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o feddu golygiadau cyfaddas ar Dduw. 2. Y perygl o ymesgusodi oblegid bai. 3. Na wna defod, neu arfer, wneyd un pechod yn llai ysgeler; a'n dyledswydd i ochel nwydwylltedd, gan nad yw yn rhydd oddiwrth bechod. 4. Yr angenrheidrwydd o gadw dôr ein gwefusau, fel na throseddom â'n tafod. 5. Bod Duw yn meddu hawl ar ein hufudd-dod mewn parch i'w enw mawr. 6. Mai un nod amlwg ar blant y diafol yw tyngu cableddus. 7. Mai gwaed Iesu Grist yn unig a all lanhau oddiwrth y pechod hwn. 8. Yr angenrheidrwydd am zel dros enw Duw fel yr attalier y pla hwn, ac y tröer y digofaint oddiwrthym.

### DOSB. 4. Y PEDWERYDD GORCHYMYN.

**HOL. 57. PA UN YW Y PEDWERYDD GORCHYMYN?**

Y pedwerydd Gorchymyn yw, "Cofia y dydd Sabbath, i'w sancteiddio ef. Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith; ond y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw: na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch, na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch, na'th anifail, na'th ddieithr ddyn a fyddo o fewn dy byrth: o herwydd mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaear, y mor, a'r hyn oll sydd ynddynt, ac a orphwysodd y seithfed dydd: am hyny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Sabbath ac a'i sancteiddiodd ef."

Exod. 20. 8—11; Deut. 5. 12—15.

### *Dyledswyddau a ofynir.*

**HOL. 58. PA BETH A OFYNIR YN Y PEDWERYDD GORCHYMYN?**

Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gofyn i ni gadw yn sanctaidd i Dduw yr amserau gosodedig a ordeiniodd efe yn ei air, yn neillduol un diwrnod cyfan o saith i fod yn Sabbath sanctaidd i'r Arglwydd.

#### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Duw yn ei Air wedi ordeinio amserau gosodedig at ei wasanaethu. Lef. 23. 37, 38. "Dyma wyliau yr Arglwydd y rhai a gyhoeddwch yn gymmanfeydd sanctaidd, heblaw sabbathau yr Arglwydd."

2. Bod Duw yn gofyn un dydd cyfan mewn saith yr hwn a osododd efe yn bendant i fod yn Sabbath iddo ei hun. Deut. 5. 12, 14. "Cadw y dydd Sabbath i'w sacteiddio ef. Y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw." Exod. 31. 15. "Pwy bynnag a wnelo waith y seithfed dydd, llwyr-rodder ef i farwolaeth." Gwel hefyd Exod. 35. 2; Lef. 19. 30.

#### EGLURHAD.

Sylw 218.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn wedi ei eirio mewn modd tra neillduol.*

Mae wedi ei eirio yn gadarnhäol, ac yn nacäol.

1. *Yn gadarnhäol.* "Cofia y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef;" er dangos pa beth a fynai Duw i ni wneyd.

2. *Yn nacäol.* "Na wna ynddo ddim gwaith;" i ddangos pa beth a waherddir yn y gorchymyn hwn, neu pa beth y mynai Duw i ni fod heb ei wneyd.

Trachefn; y mae gofal am gadwraeth y gorchymyn hwn yn cael ei wasgu ar amrywiol bersonau mewn awdurdod.

1. Dylai *rhïeni* ofalu am fod eu plant yn cadw y Sabbath; "Na wna ynddo ddim gwaith, tydi, na'th fab, na'th ferch."

2. Dylai *meistri* ofalu am fod eu gweinidogion yn cadw y Sabbath; "Na wna ynddo ddim gwaith; tydi na'th wasanaethwr, na'th wasanaethferch."

3. Dylai *penau teuluoedd* ofalu am fod pawb o fewn eu tai yn sancteiddio y Sabbath; "Na wna ddim gwaith ynddo, tydi, na'r dyeithr ddyn a fyddo o fewn dy byrth."

4. Dichon fod y gorchymyn yma yn perthynu i'n *llywodraethwyr* dinesig a gwladol hefyd, dyledswydd y rhai yw gofalu am fod pawb o fewn pyrth y dinasoedd a'r tir, yn cadw y Sabbath, yn allanol o leiaf.

Fe ddichon mai un rheswm am eirio y gorchymyn yma mor gryf a chyflawn, ydoedd y berthynas bwysig sydd rhwng y Sabbath âg addoliad crefyddol; canys y mae crefydd yn rhwym o sefyll neu syrthio gyda chadwraeth y Sabbath.

Sylw 219.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gofyn i ni gadw yn sanctaidd i Dduw, yr amseroedd neillduedig a nodir ganddo ef yn ei Air.*

Wrth yr *amseroedd neillduedig* a grybwyllir yma yr ydym i ddeall y gwyliau gosodedig, a'r cymmanfäoedd sanctaidd i addoliad crefyddol, oeddynt osodedig dan yr hen ddeddf, neu y seremonïol, yr hon yr oedd yr Iuddewon yn rhwym i'w chadw fel gosodiad Dwyfol, dros yspaid parhad yr oruchwyliaeth seremonïol hono. Gwel hanes y Gwyliau gosodedig hyn yn Lef. 23. Ond y mae pethau wedi eu llwyr gyfnewid yn awr; ac o ganlyniad nid ydym yn darllen yn y Testament Newydd am un dydd gosodedig i addoliad cyhoeddus, ond y Sabbath.

Gan fod yr holl wyliau Iuddewig yn hollol seremonïol, y maent wedi eu llwyr ddileu wedi adgyfodiad Crist, fel nad oes genym na gorchymyn i'w gadw, nag esiampl o gadwraeth y rhai a elwir mewn rhai Eglwysi yn *ddynion sanctaidd.* Ond ni a gawn fod pob peth o'r natur yma yn cael ei gondemnio yn y Testament Newydd. Gal. 4. 10; Col. 2. 16, &c.

Ond er na ddylem gadw rhyw amserau *gosodedig* i addoliad,

heblaw y Sabbath, dan oruchwyliaeth y Testament Newydd; eto y mae yn ddïau y'n gelwir ar amserau i addoli Duw yn gyhoeddus ar ddyddiau eraill; heblaw y dydd a appwyntiodd efe i'w addoliad gwastadol. Ond nid yw y rhai hyn amserau *gosodedig* a *gwastadol*, ond amserau achlysurol addoliad; ac i'w cadw yn unig fel y'n galwer attynt yn nhrefn rhagluniaeth. Fel hyn y mae dyddiau ympryd a dïolchgarwch i gael eu cadw genym pan y'n galwer yn nhrefn rhagluniaeth at y ddyledswydd o ymprydio, neu i wneuthur cydnabyddiaeth gyhoeddus o drugareddau Duw mewn dïolchgarwch; ond ni ellir galw y dyddiau hyn yn amserau *gosodedig* addoliad; ond *achlysurol.*

Gan hyny, rhaid mai llygredigaeth a newyddiaeth mawr yn addoliad Duw yw cadw *gwyliau* o osodiad dynol; ac y mae eu cadw megys pe byddent o osodiad Dwyfol, ac fel amserau addoliad gosodedig, yn gystal a dweyd fod gosodiadau addoliad Duw yn anmherffaith. Gall llygredigaeth mewn addoliad ddeillio oddiwrth *ychwanegu at* osodiadau Crist, cystal ac o *dynu oddiwrthynt:* ac nid ychydig sydd yn meddwl eu bod yn gwneyd gwasanaeth i Dduw wrth ychwanegu at ei osodiadau ef, pan mewn gwirionedd, mai y dïanrhydedd mwyaf a ellir roddi arno yw hyn.

Sylw 220.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gofyn i ni sancteiddio un dydd cyflawn o saith, yr hwn a ordeiniodd Duw yn bendant i fod yn Sabbath sanctaidd iddo ei hun.*

Wrth *un dydd cyfan* fel amser neillduedig at addoliad Duw, yr ydym i ddeall yr un peth ag a ddeallwn ni wrth unrhyw ddydd cyfan arall, sef yspaid cynnwysedig o bedair awr ar hugain, neu yr hyn a elwir yn gyffredinol yn *ddydd naturiol;* a dylem ddechreu a diweddu y dydd hwn fel yr arferwn ddechreu a diweddu unrhyw ddydd arall, sef ar haner nos.

Gyda golwg ar *y dydd* o'r wythnos yr ydym i'w gadw yn sanctaidd, sylwn fod y gorchymyn ei hun yn erchi i ni gadw yn sanctaidd y *seithfed dydd;* ond nid yw yn ein rhwymo hyd byth at gadwraeth y seithfed dydd mewn trefn o'r greadigaeth. Ei feddwl yw fod yn rhaid i ni gadw unrhyw seithfed ran o'n hamser, y rhyngo bodd i Dduw, gwrthddrych ein haddoliad, ei neillduo. Ni ddywedir Cofia y *seithfed* dydd yw sancteiddio: ond "Cofia y *dydd Sabbath* i'w sancteiddio ef." Ni ddywedir ddarfod i'r Arglwydd fendithio y *seithfed dydd* a'i sancteiddio ef; ond, "Y bendithiodd yr Arglwydd y *dydd Sabbath* ac a'i sancteiddiodd ef."

Mae y dydd a neillduodd Duw at ei addoliad, yn cael ei

alw *y Sabbath*, yr hyn sydd yn arwyddocâu *gorphwysdra.* Gwel Heb. 4. 9, lle y darllenwn am orphwysfa wedi ei pharottôi i bobl Dduw; sef y *Sabbath* fry, o'r hwn y mae y Sabbath wythnosol yn gysgodol a blaenbrawf: ac fe'i gelwir y Sabbath sanctaidd, oblegid ei fod wedi ei *neillduo* gan Dduw at ei wasanaeth a'i addoliad ef.

Gallem sylwi yma ei fod yn anmhrïodol galw y dydd hwn fel y gwneir gan lawer, "*Dydd Sul.*" Nyni a ddylem ddefnyddio yr enwau a roddir arno yn yr Ysgrythyr. Wrth ei alw y *Sul*, yn lle y *Sabbath*, neu *Ddydd yr Arglwydd*, yr ydym yn dangos ein bod yn dewis y naill o flaen y llall, enw o'r eiddom ein hunain o flaen enw a roddir i'r dydd sanctaidd yn yr Ysgrythyrau.

Sylw 221.—*Er fod y gorchymynion a roddes Duw i'r Israeliaid, mewn perthynas i gadwraeth Sabbathau, neu amserau neillduedig eraill, yn seremonïol, ac wedi eu dirymu ar farwolaeth Crist; eto y mae y pedwerydd Gorchymyn mewn perthynas i'r Sabbath wythnosol yn foesol, ac yn rhwymedig ar holl ddynolryw, yn mhob oes.*

Gellir profi hyn oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Y mae amser sefydliad cyntaf y Sabbath yn ddadl dros ei foesoldeb, neu gyffredinolrwydd ei rwymedigaeth. Gwel Gen. 2. Os oedd yn angenrheidiol i Adda, yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd gael Sabbath, neu ddydd gorphwysdra sanctaidd oddiwrth orchwylion bydol, fel y gallai gynnal cymmundeb mwy agos â Duw, a'i addoli ef gyda mwy o ddifrifwch; y mae yn ddïau ein bod ni, y rhai ydym grëaduriaid pechadurus, ac mor lawn o drafferthion gyda negeseuon y bywyd hwn, mewn angen am y cyfryw ddydd, fel y caffo ein meddyliau ymneillduo oddiwrth ddrychiolaethau, a gorchwyliaethau cyffredin; ac y'n cymhwyser yn fwy i fwynhau cymmundeb â Thad ein hysbrydoedd, ac Awdwr pob daioni. Gellir sylwi yma, er fod yr Ysgrythyrau yn hollol ddystaw yn nghylch cadwraeth y Sabbath o'i sefydliad cyntaf hyd amser Moses, yspaid mwy na dwy fil o flyneddoedd, eto, ni ellir casglu oddiwrth hyny ei fod heb ei gadw dros yr yspaid hyny; canys ar yr un sail, gellid casglu nad oedd y Sabbath yn cael ei gadw ar ol dyddiau Moses, dan lywodraeth y barnwyr, dros yspaid 450 o flynyddoedd, o herwydd na's ceir gair o son am ei gadwraeth drwy yr holl amser hwnw. Ond ni's gallwn feddwl y buasai y barnwyr, y rhai oeddynt ddynion duwiol yn goddef i gadwraeth y Sabbath gael ei ollwng i esgeulusdra. Heblaw hyny, fe wyddai yr Hebreaid yn eithaf,

fod cadwraeth y Sabbath yn ddyledswydd foesol; canys nyni a gawn Moses yn son am y Sabbath fel dydd digon adnabyddus iddynt, cyn cyhoeddiad y ddeddf, neu cyn eu dyfodiad i Fynydd Sinai. Exod. 16. 23.

2. Y mae y lle a fedd y gorchymyn hwn yn y ddeddf foesol, yn ddadl dros rwymedigaeth y Sabbath ar bawb. Mae yn amlwg fod holl orchymynion y ddeddf foesol o'r un natur; ac o ganlyniad, rhaid fod y gorchymyn hwn o'r un natur a'r rhai a'i blaenant ac a'r rhai a'i dilynant. Fe'i cyhoeddwyd gan y Goruchaf oddiar Fynydd Sinai, fel y gorchymynion eraill; ac o ganlyniad, dylai gael ei gadw yn barchus fel y lleill. Fe'i hysgrifenwyd ddwywaith â bys Duw ar y llechau cerrig, ac a'i dodwyd yn yr Arch, fel gorchymynion eraill y gyfraith, ac o ganlyniad dylid ufuddhau iddo yn gydraddol â'r lleill. Y mae wedi ei gyfleu yn y ddeddf foesol yn y fath fodd fel ag i gydio y ddwy lech, ac y mae megis rhwymyn cariad at Dduw a dyn; a gwelir fod troseddwyr neu ddirmygwyr y gorchymyn hwn yn llwyr amddifaid o grefydd, neu mewn geiriau eraill, heb gariad at Dduw na dyn. Heblaw hyny, y mae y gorchymyn hwn o natur dra gwahanol i'r ddeddf seremonïol, yr hon nid anrhydeddid yn y fath fodd erioed, gan na roddwyd hi erïoed yn yr arch, fel y rhoed y ddeddf foesol, yr hyn a wahaniaethai y naill ar y llall yn ddirfawr. Gan hyny, rhaid fod yr un rwymedigaeth wastadol i'r pedwerydd gorchymyn ag i'r gorchymynion moesol eraill.

3. Dadl arall yn ffafr rhwymedigaeth foesol y Sabbath, ydyw yr amgylchiad hwnw, sef nad oes dim seremonïol neu gysgodol yn sylwedd y pedwerydd gorchymyn, gyda golwg ar yr Iuddewon. Yn y ddeddf seremonïol yr oedd pob cysgod yn cyfeirio at Grist fel y gwrthgysgod; ond, pa fodd y gallasai dim gael ei appwyntio fel cysgod o'r hyn oedd yn hollol anadnabyddus? Ond, yr oedd Iesu Grist, at yr hwn y cyfeiriai holl gysgodau y ddeddf seremonïol yn anadnabyddus dan y cymeriad o Waredwr pan sefydlwyd y Sabbath: canys yn gymaint a bod dyn y pryd hyny mewn cyflwr o ddiniweidrwydd, nid oedd mewn angen am un. Heblaw hyny, pe y buasai yn gysgodol o Grist, fe'i diddymasid yn nghyd a'r cysgodau eraill o honaw ar ei farwolaeth. Ond gan nad felly y mae, amlwg yw y rhaid i ni ystyried y gorchymyn hwn yn rhwymo pawb hyd ddiwedd amser.

Ond efallai y gwrthddadleuir yma, fod meibion Israel yn cael eu gorchymyn i gofio y dydd Sabbath oddiar yr ystyriaeth eu bod wedi bod yn weision yn ngwlad yr Aifft, a bod eu gwaredigaeth oddiyno, yn gystal a'u prynedigaeth, trwy

Grist. Gallwn atteb, bod yr ystyriaethau o'u bod hwy wedi bod yn gaethion yn ngwlad yr Aifft yn ddiau wedi ei chwanegu fel rheswm pa ham y dylasent gadw y *seithfed dydd* yn sanctaidd i Dduw, yr hwn oedd i'w gadw hyd farwolaeth Crist. Ond am y rheswm yna y diddymwyd y *seithfed dydd* hwnw; canys nid y seithfed dydd mewn trefn o'r greadigaeth yw Sabbath yr Arglwydd yn awr; ond y Sabbath yw y seithfed ran o'r amser a roddir i ni, a'r hwn y gorchymynir i ni ei gadw yn sanctaidd yn awr. Mewn gair, nid yw sylwedd y gorchymyn hwn yn gorwedd mewn cadw yr un dydd, o ddechreuad hyd ddiwedd amser; ond mewn cadw y seithfed ran o'n hamser ar y ddaiar, yn ol ewyllys Duw, ac felly y dydd cyntaf o'r wythnos yw Sabbath yr Arglwydd yn bresenol; a'r dydd hwn sydd raid ei sancteiddio. Gan hyny ni's gall hyn fod yn un wrthddadl yn erbyn rhwymedigaeth foesol y Sabbath.

4. Gellir sylwi, er cymmaint o ddadleu sydd yn nghylch gwir lythyren y gosodiad hwn yn bresenol, nad oes un o orchymynion y ddeddf foesol yn cael ei argymhell yn fynychach na grymusach. Gwel y rhanau canlynol;—Exod. 16. 23—30; Deut. 5. 12—14; Exod. 23. 12; a 34. 21; a 31. 14—18; a 35. 2, 3; Lef. 23. 3; Num. 15. 32—36; Neh. 10. 31; a 13. 15—23; Esa. 58. 13, 14; Jer. 17. 21, 22, 24, 27; Ezec. 20. 12, 20, 21, &c.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath. 2. Nad yw Duw yn feistr caled; gan ei fod wedi rhoddi i ni chwe diwrnod o'r wythnos, a heb gadw ond un iddo ei hun. 3. Bod halogwyr y Sabbath yn llwyr anadnabyddus o Dduw, wedi ei boddi mewn gofalon bydol, ac yn hollol annghymwys i'r nefoedd. 4. Yr hyfrydwch sydd i'w fwynhau mewn addoli Duw ar y dydd a appwyntiodd efe. 5. Y perygl o roddi i ddyddiau eraill, appwyntiedig gan ddynion, yr anrhydedd a berthyn i ddydd Duw. 6. Na's gellir dweyd ein bod ni yn cael rhyw bleser mawr yn addoliad Duw, os byddwn yn grwgnach rhoddi un diwrnod o'r wythnos iddo ef. 7. Fod y pedwerydd Gorchymyn mor rwymedig arnom ag un gorchymyn yn y ddeddf foesol. 8. Gan fod hwn yn orchymyn pendant, i fod mewn grym hyd ddiwedd y byd, yr ydym yn euog o bechod mawr ger bron Duw onid ydym yn gofalu am ei gadw.

## *Newidiad y Sabbath.*

HOL. 59. PA DDYDD O'R SAITH A APPWYNTIODD DUW I FOD Y SABBATH WYTHNOSOL.

O ddechreuad y byd hyd adgyfodiad Crist, Duw a appwyntiodd y seithfed dydd o'r wythnos i fod y Sabbath wythnosol; a'r dydd cyntaf o'r wythnos byth er hyny, i barhau hyd ddiwedd y byd; a hwn yw y Sabbath Cristionogol.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod y seithfed dydd o'r wythnos wedi ei appwyntio gan Dduw yn Sabbath wythnosol. Gen. 2 3. "A Duw a fendigodd y seithfed dydd ac a'i sancteiddiodd ef" Deut. 5. 14. "Y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw."

2. Bod y seithfed dydd o'r wythnos wedi parhau i fod y Sabbath, o ddechreuad y byd hyd adgyfodiad Crist. Mat. 28. 1. "Yn niwedd y Sabbath, a hi yn dyddhau i'r dydd cyntaf o'r wythnos."

3. Bod newidiad y Sabbath wedi cymeryd lle yn y fan wedi adgyfodiad Crist. Ioan 20. 19, (cymh. âg adn. 26.) "Yna a hi yn hwyr, y dydd cyntaf hwnw o'r wythnos, a'r drysau yn gauad lle yr oedd y dysgyblion wedi ymgasglu yn nghyd rhag ofn yr Iuddewon, daeth yr Iesu, ac a safodd yn y canol."

4. Mai y dydd cyntaf o'r wythnos yw y Sabbath Cristionogol, neu ddydd yr Arglwydd, ac a bery i fod felly heb gyfnewidiad hyd ddiwedd y byd. Act. 20. 7. "Ac ar y dydd cyntaf o'r wythnos, wedi i'r dysgyblion ddyfod yn nghyd i dori bara, Paul a ymresymodd â hwynt." Ezec. 43. 27. "A phan ddarffo y dyddiau hyny, bydd ar yr wythfed dydd, ac o hyny allan i'r offeiriaid offrymu ar yr allor eich poeth offrymau a'ch ebyrth hedd." Gwel hefyd Dat. 1. 10; a 22. 19.

EGLURHAD.

Sylw 222.—*O ddechreuad y byd hyd adgyfodiad Crist, y seithfed dydd o'r wythnos a appwyntiodd Duw i fod yn Sabbath wythnosol.*

Dros yr ysbaid hwn, yr hwn a gynnwysai bedair mil o flyneddoedd, *y seithfed dydd o'r wythnos*, neu y seithfed dydd mewn trefn o'r greadigaeth, a appwyntiwyd fel y Sabbath, fel megys y gorphwysodd Duw ar y dydd hwnw oddiwrth waith y greadigaeth, y gallai dynion yn ol ei siampl ef, orphwys oddiwrth eu gweithredoedd, a chofio yr eiddo eu Crëwr, gan ddatgan ei foliant. Fe'i cedwid wedi hyny hefyd gan hiliogaeth Abraham,

er côf o'u gwaredigaeth o dir yr Aipht. Gwel Gen. 2. 2, 3; Exod. 16. 23—30; a 23. 12; a 31. 14—18; a 34. 21; a 35. 2; Lef. 23. 3; Deut. 5. 12—15.

Bod y Sabbath wedi ei sefydlu gyntaf yn nechreuad y byd, ac nid yn yr anialwch, ar ddodiad y ddeddf, a welir yn amlwg wrth ystyried fod Duw yn y fàn wedi gorphen y greadigaeth, wedi bendithio y seithfed dydd a'i sancteiddio ef, hyny yw, ei neillduo oddiwrth wasanaeth cyffredin, i ddyben arbenig; ei fod yn cael ei gadw cyn dodiad y ddeddf ar Sinai; a son am dano, nid fel gosodiad newydd, ond fel un hen; a phan y cyhoeddwyd y ddeddf hono i'r Hebreaid, gorchymynid iddynt i *gofio* y dydd Sabbath, yr hyn a arwyddocäai mai nid dyna y pryd y'i sefydlid gyntaf, ond ei fod wedi ei sefydlu er's talm, a'i anghofio ganddynt yn ysbaid eu harosiad yn ngwlad yr Aipht. Gwel Gen. 2. 2, 3; Exod. 15. 5, 23.

Sylw 223 —*O adgyfodiad Crist hyd ddiwedd y byd, y mae y dydd cyntaf o'r wythnos wedi ei appwyntio gan Dduw i fod yn Sabbath Cristionogol.*

Dros yr ysbaid yma y mae y *dydd cyntaf o'r wythnos* i'w gadw yn Sabbath Cristionogol, neu Ddydd yr Arglwydd; a hyny er coffadwriaeth o amgylchiad llawer mwy hynod a gogoneddus na chreadigaeth y byd, na gwaredigaeth meibion Israel o dir yr Aipht, sef adgyfodiad Iesu Grist o feirw, trwy yr hyn y perffeithid gwaith y prynedigaeth. Pe gofynid yma, pa ham na allasai rhyw amgylchiad arall cyssylltiedig a Christ, megys ei *gnawdoliaeth*, ei *farwolaeth*, neu ei *esgyniad* yn rhoddi achlysur i gadw y Sabbath Cristionogol, cystal a'i adgyfodiad: gallwn atteb, Os ystyriwn ni natur y Sabbath, nyni a welwn fod ei adgyfodiad ef y cyfnod mwyaf priodol i ddyddio y Sabbath Cristionogol. Mae y gair Sabbath, fel y sylwyd o'r blaen yn arwyddocâu *gorphwysdra;* ac o ganlyniad y mae y Sabbath Cristionogol i'w gadw oblegyd y cyflwr o orphwysdra yn yr hwn yr oedd Crist pan y'i cedwid gyntaf. Heb. 4. 10. "Canys yr hwn a aeth i mewn i'w orphwysfa ef, hwnw hefyd a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ei hun, megis y gwnaeth Duw oddiwrth yr eiddo yntau." Mae hyn yn rhoi ar ddeall yn amlwg mai megis y gorphwysodd Duw oddiwrth waith y greadigaeth ar y *seithfed dydd*, yr hyn oedd yn rheswm pa ham y cedwid y dydd hwn fel y Sabbath, felly Crist a orphwysodd oddiwrth ei weithredoedd ef ar *y dydd cyntaf* o'r wythnos, yr hyn yw y rheswm pa ham y mae y dydd hwn yn cael ei gadw fel y Sabbath Cristionogol.

I brofi bod y Sabbath wedi cael ei newid yn wirioneddol o'r *seithfed dydd* i'r *dydd cyntaf* o'r wythnos, ac mai y dydd cyntaf

o'r wythnos sydd i'w gadw fel y Sabbath Cristionogol hyd ddiwedd y byd, gellid crybwyll y rhesymau canlynol:—

1. Prophwydasid am y Sabbath Cristionogol dan oruchwyliaeth yr Hen Destament. Gwel Ps. 118. 22, &c., wedi ei chydmaru ag Act. 4. 10, &c. Gwel hefyd Ezec. 43. 27, lle mae yr *wythfed dydd* yn cael ei nodi fel yr adeg ar ba un yr offrymid aberthau ysbrydol i'r Arglwydd; ac yr oedd hyn i gymeryd lle wedi diddymiad yr oruchwyliaeth Iuddewig o Seremonïau.—"A phan ddarffo y dyddiau hyny;" ac yr oedd i barhau hyd ddiwedd y byd,—"Ac o hyny allan."

2. Wedi adgyfodiad Crist o feirw, efe a gyfarfu â'i ddysgyblion y dydd cyntaf o'r wythnos. Gwel Ioan 20. 19, 26, lle y'n hysbysir fod Crist wedi ymddangos ddwy waith i'w ddysgyblion ar *y dydd cyntaf* o'r wythnos; fel y mae genym reswm i farnu ei fod e wedi ymddangos iddynt yn y wedd hon dros ysbaid y deugain niwrnod yr arhosodd efe gyda hwy ar y ddaiar wedi ei adgyfodiad.

3. Pan esgynodd Crist i'r nef, efe a dywalltodd ei Ysbryd mewn modd tra hynod ar *y dydd cyntaf* o'r wythnos. Gwel Act. 2. 1—4, wedi ei chymharu a Lef. 23. 15, 16; a gwelir mai y dydd cyntaf o'r wythnos oedd dydd y Pentecost.

4. Cadwai yr apostolion a'r prif Gristionogion y dydd cyntaf o'r wythnos uwchlaw pob dydd arall, at addoliad arbenig Duw. Gwel Act. 20. 7, oddiwrth yr hyn ymddengys ei bod yn arferiad gan y dysgyblion *ddyfod yn nghyd* ar y dydd hwn; canys ni ddywedir eu bod wedi *eu galw yn nghyd* ar ryw achlysur anghyffredin. Gwel hefyd adn. 6, lle y'n hysbysir fod yr apostol Paul wedi aros yn eu plith dros saith niwrnod. Ond ni ddywedir ei fod wedi eu cyfarfod yn eu cymeriad Eglwysig ar un o'r rhai hyn ond y dydd *cyntaf* o'r wythnos.

5. Y mae genym orchymyn apostolaidd am gadwraeth y dydd cyntaf o'r wythnos uwchlaw pob dydd arall, a hyny hefyd yn ngwasanaeth yr Eglwys. Gwel 1 Cor. 16. 1, 2.

6. Yn y Testament Newydd, mae *y dydd cyntaf* o'r wythnos yn cael ei alw *Dydd yr Arglwydd;* yr hyn sydd yn rheswm da pa ham y dylai Cristionogion neillduo y dydd yn wastadol at addoliad Dwyfol. Gwel Dat. 1. 10. Fe'i gelwir *Dydd yr Arglwydd*, oblegyd ei fod wedi ei appwyntio a'i neillduo ganddo ef at wasanaeth cyssegredig; ac i'w gadw yn ol ei osodiad ef er cof o waith y prynedigaeth, yr hwn sydd fwy a gogoneddusach na gwaith y greadigaeth.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Mai yn llaw yr Arglwydd yn

unig y mae ein hamser. 2. Bod doethineb Duw i'w weled yn amlwg yn newidiad y Sabbath o'r seithfed i'r dydd cyntaf o'r wythnos. 3. Y dylem ninnau ymfoddloni i'r cyfnewidiad yma, a chofio adgyfodiad Crist o feirw, yr hyn yw sail ein holl obaith. 4. Pa beth a ddylai fod ein gorchwyl ar ddydd yr Arglwydd, sef, cyd ymgynull i addoli Duw.

## *Sancteiddiad y Sabbath.*

HOL. 60. PA FODD Y DYLID SANCTEIDDIO Y SABBATH?

Dylid sancteiddio y Sabbath trwy orphwysdra sanctaidd yr holl ddydd hwnw, hyd yn nod oddiwrth orchwylion bydol, a difyrwch cyfreithlawn ar ddyddiau eraill; a threulio yr holl amser mewn ymarfer cyhoeddus a dirgel o addoliad Duw, oddieithr yr hyn a dreulir mewn gweithredoedd o angenrheidrwydd a thrugaredd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod y Sabbath i'w sancteiddio trwy orphwysdra sanctaidd yr holl ddydd, Exod. 20. 10. "Na wna ynddo ddim gwaith." Gwel hefyd Exod. 31. 15; Deut. 5. 15; Lef. 23. 3.

2. Ein bod i ymattal oddiwrth bob gorchwylion bydol ar y Sabbath, Jer. 17. 21. "Fel hyn y dywed yr Arglwydd, "Dysgwyliwch ar eich eneidiau, ac na ddygwch faich ar y dydd Sabbath." Gwel Neh. 13. 15, 16—22; Luc 23. 56.

3. Ein bod i ymattal oddiwrth chwareuyddiaethau a difyrwch ar y Sabbath, a allent fod y fuddiol ar amserau eraill. Esa. 58. 13.—"O throi dy wyneb oddiwrth y Sabbath, heb wneuthur dy ewyllys ar fy nydd sanctaidd; a galw y Sabbath yn hyfrydwch, sanct yr Arglwydd yn ogoneddus; a'i anrhydeddu ef, heb wneuthur dy ffyrdd dy hun, heb geisio dy ewyllys dy hun, na dywedyd dy eiriau dy hun."

4. Bod y Sabbath i gael ei ddefnyddio yn yr ymarferiad cyhoeddus âg addoliad Duw, Esa. 66. 23. "Bydd hefyd o Sabbath i Sabbath, i bob cnawd ddyfod i addoli ger fy mron I, medd yr Arglwydd."

5. Bod y Sabbath i gael ei dreulio mewn ymarferiad a dyledswyddau crefyddol yn ddirgelaidd a theuluaidd, Lef. 23. 3. "Sabbath yw efe i'r Arglwydd yn eich holl drigfannau." Gwel hefyd Salm 92. teitl, 1, 2.

6. Bod gweithredoedd angenrheidiol yn gyfreithlawn ar y dydd Sabbath. Mat. 12. 1. Yr amser hwnw yr aeth yr

Iesu ar y dydd Sabbath trwy yr ŷd, ac yr oedd chwant bwyd ar ei ddysgyblion, a hwy a ddechreuasant dynu tywys a bwyta." Gwel hefyd hyd adn. 8.

7. Bod gweithredoedd o drugaredd yn gyfreithlawn ar y dydd Sabbath. Luc 13. 16. "Ac oni ddylai hon, a hi yn ferch i Abraham, yr hon a rwymodd Satan, wele, ddeunaw mlynedd, gael ei rhyddhau o'r rhwymau hwn ar y dydd Sabbath." Gwel hefyd Mat. 12. 9—13.

EGLURHAD.

Sylw 224.—*Mae y Sabbath i gael ei sancteiddio trwy orphwysfa sanctaidd ar y dydd hwnw, hyd yn nod oddiwrth orchwylion a difyrwch bydol ydynt gyfreithlawn ar ddyddiau eraill.*

Gellir sylwi yma, nad yw y Sabbath yn *foddion* cludiad bendithion ysbrydol fel y mae y gair a'r sacramentau. Adeg sanctaidd ydyw yn unig—amser neillduedig gan Dduw at ei addoliad, ar yr hwn yr addawodd efe yn arbenig fendithio ei bobl, cyfarfod a hwy yn eu cynnulleidfäoedd, a gwneuthur amlygiad o'i ddaioni iddynt. Gan hyny, gellir dywedyd fod y Sabbath yn cael ei *sancteiddio*, yn gymmaint a'i fod yn neillduedig trwy osodiad Dwyfol i addoliad Duw, fel y'i cedwid yn sanctaidd iddo ef.

Mae y Sabbath i'w sancteiddio trwy *orphwysfa sanctaidd*, yr hyn yw arwyddocäad y gair *Sabbath*.

1. Rhaid i ni orphwyso ar y dydd hwn oddiwrth bob *gorchwylion bydol*, neu *lafur-waith*; wrth yr hyn y deallwn unrhyw beth a wneler er elw bydol, neu fywioliaeth, yr hyn trwy iawn ddarbodaeth a ellir ei wneyd yr wythnos flaenorol, neu ei adael heb ei wneyd hyd oni byddo y Sabbath drosodd. Gwel Exod. 34. 21. Yn gyssylltiedig a gorchwylion bydol, oddiwrth y rhai y mae yn rhaid i ni orphwyso ar y Sabbath, y gellir crybwyll aredig, hau, medi, cludo beichiau, prynu a gwerthu, gweithio ein galwedigaeth arferol, ymofyn am ein pleser ein hunain, neu lefaru ein geiriau ein hunain; darllen newyddiaduron neu hanesyddiaeth genhedlig; myfyrio yn y gwyddion a'r celfion, ysgrifenu llythyrau ar negesuon y bywyd hwn, neu wneuthur biliau a chyfrifon; teithio afraid ar y dydd hwn, rhodiana yn y maesydd neu ar y prif ffyrdd er difyrwch, neu farchogaeth er pleser; siarad am newyddion cyffredin y wlad, yr hyn sydd yn destyn ymddiddan cyffredin yn mysg rhai nad ydynt o feddylfryd ysbrydol; ymddiddan yn nghylch masnach a'i ganlyniadau; gwledda, ac ymweled a chyfeillion; ac arlwy afreidiol ar fwydydd, mewn coginaeth. Gwel Neh. 13; Exod. 16. 27, &c. Num. 15. 32, &c. Luc 23.

55, 56; a 24. 1; Exod. 31; a 35; a 16. 23; a 35. 3. Yn awr, gan fod hwn yn un o orchymynion y ddeddf foesol, rhaid fod ei rwymedigaeth mor fanol arnom ni ag ydoedd ar y rhai a fuont o'n blaen.* Mae deddf Duw mor gyfiawn, sanctaidd, da, bob amser; a Duw mor fanol yn gofyn ufudd-dod yn awr ag oedd e gynt. Gwel Mat. 5. 18.

2. Rhaid i ni orphwyso ar y dydd hwn oddiwrth *ddifyrwch bydol* hefyd, y rhai ydynt gyfreithlawn ar ddyddiau eraill. Wrth ddifyrwch bydol yr ydym i ddeall pleser bydol, yn annghyssylltiedig ag elw bydol. Y rhai ydynt annghyfreithlawn ar y dydd hwn ydynt a ganlyn, a'u cyffelyb;—Ymweled a chyfeillion, rhodio yn y maesydd, ymddiddan am newyddion gwladol, chwareuyddiaethau diniwed (canys y mae llawer ydynt dra phechadurus, hyd yn nod ar ddyddiau eraill;) teithio ar negesuon bydol; a'r cyffelyb, yn nghyda lluaws o'r pethau a enwyd o'r blaen, y rhai y gellir eu galw yn ddifyrwch cystal a gorchwylion bydol. Gwel Esa. 58. 13. Gallwn nodi yma fod difyrwch bydol yn tueddu i estroneiddio y meddwl oddiwrth wir waith y Sabbath, càn gymmaint, os nad mwy na gorchwylion bydol. Heblaw hyny, os ydym i ymddifyru ar y Sabbath yn yr un peth ag ar ddyddiau eraill, pa ham y gelwir y Sabbath yn ddydd o orphwysdra? pa ham y gwneir unrhyw wahaniaeth rhyngddo â dyddiau eraill yr wythnos?

Sylw 225.—*Mae yr holl Sabbath i gael ei dreulio mewn ymarferiad dirgel a chyhoeddus o addoliad Duw, oddieithr yr hyn a dreulir o hono mewn gweithredoedd o drugaredd ac angenrheidrwydd.*

Fe'n hysbysir yma fod y Sabbath i gael ei sancteiddio trwy *ymarferiadau sanctaidd.*

1. Yr ydym i ymwneyd âg *ymarferiadau cyhoeddus o addoliad Duw* ar ddydd yr Arglwydd; megis gwrando darlleniad a phregethiad o'r Gair; cyduno mewn gweddi a mawl a chyfrannogi o'r sacramentau yn ol gosodiad Dwyfol. Gwel Rhuf. 10. 17; 1 Cor. 1. 21; Act. 16. 13; a 20. 7; Ps. 92. teitl. Ac y mae yr ymarferiadau hyn i gael eu cyflawni mewn naws meddwl cyfaddas i ddydd yr Arglwydd. Gwel Dat. 1. 10.

2. Yr ydym ar ddydd yr Arglwydd i ymarfer ag *addoliad Duw yn y dirgel* hefyd. Dan y pen yma crynhôir ymarferiadau crefyddol personol a theuluaidd. Wrth ymarferiadau crefyddol personol y golygwn weddi ddirgel, darllen yr Ysgrythyrau wrthym ei hunain, a llyfrau crefyddol eraill a dueddant i arwain yr enaid at Dduw; myfyrdod ar bethau Dwyfol, a hunan ymholiad. Ac wrth *ddyledswyddau teuluaidd* yr

ydys i ddeall, addoliad teuluaidd, holwyddori teuluaidd, ac ymddiddanion teuluaidd am grefydd. Gwel Jer. 10. 25; Lef. 23. 3; Gen. 18. 19; Jos. 24. 15; 2 Sam. 6. 20; Job 1. 5; Act. 10. 2; Mat. 26. 30; Ps. 92. 1, 2.

Mae yr *holl ddydd* i gael ei dreulio yn yr ymarferiadau hyn, *oddigerth cymmaint o hono ag a dreulir mewn gweithredoedd o angenrheidrwydd a thrugaredd*, hyny ydyw, y cyfryw weithredoedd na's gellid eu cyflawni ar y dydd cyn y Sabbath, na'u hoedi hyd yr elo drosodd. *Gweithredoedd o angenrheidrwydd* ydynt y cyfryw a'r rhai hyn:—amddiffyn ein hunain, neu ffoi rhag gelyn; diffodd tân; gweithio llong ar y môr; a phethau eraill o gyffelyb natur. A *gweithredoedd o drugaredd* ydynt y rhai canlynol a'u cyffelyb; ymgeleddu y corph; ymweled a'r claf, a gweinyddu i'w cysur a'u hangenrheidiau; porthi anifeiliaid, a'u cadw o berygl pan fyddont yn ddarostyngedig iddo; gwneyd casgliad i'r tlodion; a phethau o gyffelyb natur. Mat. 12. 1, &c. Luc 13. 10, &c. a 14. 3, &c.; 1 Cor. 16. 1, 2. Gellir sylwi yma, pe byddai maes o ŷd mewn perygl i gael ei ysgubo ymaith gan orlifiad annysgwyliadwy afon, fe fyddai yn brïodol achub cymmaint ag a ellid o hono, gan mai nid goruchwyliaeth gyffredin rhagluniaeth fyddai. Ond, mewn hin annhymoraidd yn unig, nid yw yn angenrheidiol na chyfreithlawn medi, na chynnull ŷd ar y Sabbath, oblegid mai goruchwyliaeth gyffredin rhagluniaeth ydyw, ac y dylem ymddiried yn addewid Duw, na phalla pryd hau, na phryd cynhauaf hyd ddiwedd amser. Gen. 8. 22.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Fod Duw yr un yn awr ag oedd ef yn yr amser gynt; bod rhwymedigaeth ei ddeddf gymmaint yn awr ag ydoedd gynt; a bod sancteiddrwydd mor gymeradwy yn awr ag oedd e gynt. 2. Bod y rhai a feddyliant y bydd i Dduw esgusodi un ran o'r ufudd-dod dyledus i'w ddeddf yn ddieithr iddo ef a'i ddeddf. 3. Y bydd i'r rhai oll ydynt yn caru Duw, roddi yr anrhydedd dyledus i'w enw ef ar y dydd Sabbath. 4. Nad eiddom ni yw y Sabbath, ac na's meiddiwn ni wneyd yr hyn a fynom ar y dydd hwn heb ddigio Duw. 5. Nad yw gorphwyso yn unig oddiwrth orchwylion a difyrion y byd, o unrhyw bwys yn ngolwg Duw, oddieithr ein bod yn ymwneyd a gwasanaeth sanctaidd.

## *Pechodau gwaharddedig.*

HOL. 61. PA BETH A WAHERDDIR YN Y PEDWERYDD GORCHYMYN?

Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gwahardd i ni esgeuluso y dyledswyddau a orchymynir, neu eu cyflawni yn ysgafn a dïofal, a halogi y dydd trwy seguryd neu wneuthur yr hyn sydd ynddo ei hun yn bechadurus; neu trwy feddyliau, geiriau, neu weithredoedd dïangenrhaid, yn nghylch ein gorchwylion a'n difyrwch bydol.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gwaherddir i ni esgeuluso yr un o'r dyledswyddau gofynol genym ar y Sabbath, Ezec. 22. 26.—"Ei hoffeiriaid a dreisiasant fy nghyfraith, ac a halogasant fy mhethau sanctaidd: ni wnaethant ragor rhwng cyssegredig a halogedig, ac ni wnaethant wybod rhagor rhwng yr aflan a'r glân; cuddiasant hefyd eu llygaid oddiwrth fy sabbathau, a halogwyd fi yn eu mysg hwynt."

2. Nad yw dyledswyddau y Sabbath i gael eu cyflawni yn ddïofal. Deut. 10. 12.—"Gwasanaetha yr Arglwydd dy Dduw a'th holl galon, ac a'th holl enaid." Gwel Mal. 1. 13.

3. Na wiw halogi y Sabbath drwy seguryd, Exod. 20. 8.—"Cofia y dydd Sabbath i'w sancteiddio ef."

4. Bod gweithredoedd pechadurus yn cael eu gwneyd yn fwy ysgeler trwy eu cyflawni ar y Sabbath. Ezec. 23. 38.—"Fy nghyssegr a aflanhasant y dydd hwnw, a'm sabbathau a halogasant."

5. Bod meddyliau afreidiol yn nghylch ein hamgylchiadau bydol, ar y Sabbathau, yn waharddedig. Amos 8. 5.—"Pa bryd yr â y mis heibio, fel y gwerthwn ŷd? a'r sabbath, fel y dygom allan y gwenith."

6. Bod ymddiddan afreidiol yn nghylch ein negeseuon bydol, yn waharddedig ar y Sabbath, Esa. 58. 13.—"Heb wneuthur dy ffyrdd dy hun, heb geisio dy ewyllys dy hun, na dywedyd dy eiriau dy hun."

7. Bod gorchwylion afreidiol er hyrwyddo ein hamgylchiadau bydol yn waharddedig ar y Sabbath, Jer. 17, 21.—"Fel hyn y dywed yr Arglwydd, Dysgwyliwch ar eich eneidiau, ac na ddygwch faich ar y dydd sabbath."

EGLURHAD.

Sylw 226.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gwahardd esgeulusiad o'r dyledswyddau a ofyna Duw ar y Sabbath.*

Y dyledswyddau y gwaherddir *esgeulusiad* o honynt yn y

gorchymyn hwn ydynt y rhai hyn;—dyfal ymarferiad ag ordinhadau cyhoeddus crefydd; gweddi ddirgel a neillduol; a myfyrdod, ar waith y grëadigaeth, rhagluniaeth, neu waith y prynedigaeth, yn ei amryfal ranau a'i ganlyniadau, sancteiddrwydd Duw, yr orphwysfa nefol sydd yn ol i'r cyfiawnion, a phethau o gyffelyb natur. Mae esgeulusiad o'r dyledswyddau hyn ar y Sabbath, yn brawf o esgeulusiad pob dyledswyddau crefyddol drwy yr wythnos; ac o ganlyniad, o atheistiaeth, halogedigaeth, a gwrthgiliad.

Sylw 227.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gwahardd cyflawniad dïofal o'r dyledswyddau a ofynir ar y Sabbath.*

Cyflawnir dyledswyddau y Sabbath yn *ddïofal* pan y'u cyflawnir yn *hannerog;* hyny yw, pan fyddo rhai o honynt yn cael eu cyflawni, ac eraill mor bwysig ag angenrheidiol yn cael eu llwyr esgeuluso; er esiampl, pan gyflawnir dyledswyddau cyhoeddus, ac yr esgeulusir rhai dirgel a neillduol; neu pan y'u cyflawnir mewn modd *ffurfiol*, hyny yw, yn ddïofal am yr egwyddor o'r hon y dylai ufudd dod ddylifo, a'r dyben, i'r hwn y dylai gyfeirio; neu, pan y'u cyflawnir mewn dull *oer, difywyd*, a *diymdrech;* hyny yw, heb unrhyw egni, ysbryd, a phleser. Gwel Dat. 3. 15, &c.

Sylw 228.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gwahardd halogiad y Sabbath drwy seguryd.*

Halogir y Sabbath drwy *seguryd*, pan dreulir yr oll, neu ran o'r dydd yn segur; heb ymarfer ein hunain a dyledswyddau addoliad Duw, ond yn segura ein hamser, gartref, neu yn y meusydd, mewn meddyliau neu ymddiddanion gweigion a segur, neu y gyffelyb. Mae y dydd hwn hefyd yn cael ei halogi drwy seguryd, pan fyddom yn ymdrechu i'w fyrhau hyd y byddo dichonadwy, trwy godi yn hwyrach yn y boreu ar y dydd hwn nag ar ddyddiau eraill, neu fyned i orphwyso yn gynnarach y nos arno, er mwyn gallu cyfodi yn foreuach dranoeth at orchwylion bydol.

Sylw 229.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gwahardd halogiad dydd yr Arglwydd trwy wneuthur yr hyn sydd ynddo ei hunan yn bechadurus.*

Mae y pechod a gyflawner unrhyw ddydd yn gas gan Dduw; ond y mae pechod a gyflawner ar ddydd yr Arglwydd, yn fwy ysgeler, ac yn gwneyd un yn agored i gosb lemach oddiwrth yr Arglwydd; a hyn yw y rheswm am wahardd gwneuthur ar y Sabbath, yr hyn y byddai yn annghyfreithlawn ei wneyd ar unrhyw bryd. Gwel Neh. 13. 15, &c. Jer. 17. 27.

Sylw 230.—*Mae y pedwerydd Gorchymyn yn gwahardd halogiad y Sabbath trwy feddyliau, geiriau, neu weithredoedd afreidiol mewn cyssylltiad a'n gorchwylion neu ein pleserau bydol.*

Y meddyliau, geiriau, a gweithredoedd a waherddir ar y Sabbath ydynt y rhai canlynol;—meddyliau a bwriadau diangenrhaid yn nghylch helyntion bydol; ymddiddanion diangenrhaid yn nghylch gorchwylion daiarol; gweithredoedd diangenrhaid mewn unrhyw alwedigaeth fydol, neu y pleserau a'r difyrau hyny, ydynt gyfreithlawn ar ddyddiau eraill; neu, yr holl feddyliau, geiriau, a gweithredoedd hyny, na's rhaid eu defnyddio yn anocheladwy yn nghylch gweithredoedd o angheurheidrwydd a thrugaredd, y rhai ydynt gyfreithlawn ar ddydd yr Arglwydd. Trwy beidio meddwl, llefaru, neu weithredu gyd a'n galwedigaethau bydol, ac ymarfer â gorchwylion sanctaidd, y gwahaniaethwn ni rhwng y Sabbath a diwrnod arall. Gwel Esa. 58. 13.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y dylai ordinhadau Duw fel moddion iachawdwriaeth gael eu hymarfer gan bawb mewn iawn drefn. 2. Pan na's cyflawnir hwynt mewn iawn drefn fod y dyben o'u gosodiad yn colli. 3. Os mynem ni addoli Duw mewn gwirionedd, rhaid i ni yfed o ysbryd gwir addolwyr.

## *Y rhesymau a gyssylltir.*

HOL. 62. PA RESYMAU A GYSSYLLTIR A'R PEDWERYDD GORCHYMYN?

Y rhesymau a gyssylltir â'r pedwerydd Gorchymyn ydynt, bod Duw yn caniattâu i ni chwe diwrnod o'r wythnos at ein gorchwylion ein hunain, ei fod yn honi hawl arbenig yn y seithfed dydd, ei esiampl ei hunan, a'i waith yn bendithio y dydd Sabbath.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Duw yn caniattâu i ni chwe diwrnod o'r wythnos at ein gorchwylion ein hunain, Exod. 31. 15. "Chwe diwrnod y gwneir gwaith." Gwel hefyd Exod. 20. 9.

2. Bod Duw yn honi y seithfed dydd, neu y Sabbath, fel ei eiddo ei hunan, Lef. 23. 3. "Sabbath yw efe i'r Arglwydd yn eich holl drigfanau." Gwel hefyd Exod. 20. 10.

3. Bod Duw wedi rhoddi esiampl i ni o orphwyso ar y dydd Sabbath, ac yn gofyn i ni wneyd yr un modd, Exod. 31. 17. "Rhyngof fi a meibion Israel y mae yn arwydd tragywyddol, mai mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd y nefoedd a'r ddaiar; ac mai ar y seithfed dydd y peidiodd, ac gorphwysodd ef." Gwel hefyd Exod. 20. 11.

4. Bod Duw yn gofyn i'r Sabbath gael ei gadw genym ni, oblegid iddo ef ei hun ei fendithio a'i sancteiddio, Gen. 2. 3. "A Duw a fendigodd y seithfed dydd, ac a'i sancteiddiodd ef." Gwel hefyd Exod. 20. 11.

EGLURHAD.

Sylw 231.—*Nyni a ddylem gadw y Sabbath yn sanctaidd am fod Duw wedi caniattâu chwe diwrnod o'r wythnos i ni at ein gorchwylion ein hunain.*

Mae hyn yn cael ei hysbysu yn y geiriau hyn, "Chwe diwrnod y gweithi, ac y gwnei dy holl waith." A grym y rheswm yma yw; ei fod yn anniolchgarwch eithaf afresymol i ni warafun y seithfed ran o'n hamser i wasanaeth Duw, a'i addoliad, tra y mae efe wedi caniattâu chwe diwrnod i ni at ein gorchwylion ei hunain.

Sylw 232.—*Nyni a ddylem gadw y Sabbath yn sanctaidd, am fod Duw yn honi hawl arbenig yn y seithfed dydd, neu y seithfed ran o'n hamser.*

Dangosir hyny yn y geiriau hyn;—"Ond y seithfed dydd yw Sabbath yr Arglwydd dy Dduw." A grym y rheswm yw, yn gymmaint a bod Duw yn ei ddarlunio ei hun mewn cyfammod a'i bobl, y dylent hwy gadw y dydd hwn, o'r hwn y mae efe yn honi hawl arbenig, er ymarferiad ag addoliad cymdeithasol a chyhoeddus y Duw cyfammodol hwn; yr hyn y dylent ei gyfrif yn uchel fraint, gan ei fod ef yn ymostwng i gynnal cymmundeb â hwy yn ordinhadau ei ras.

Sylw 233.—*Nyni a ddylem gadw y dydd hwn yn sanctaidd, oblegid fod Duw ei hun wedi rhoddi esiampl i ni o orphwyso ar y dydd Sabbath.*

Fe ddangosir hyny yn y geiriau hyn;—"Canys mewn chwe diwrnod y gwnaeth yr Arglwydd nefoedd a daiar, y môr, a'r hyn oll sydd ynddynt, ac a orphwysodd y seithfed dydd." Er y gallasai Duw wneyd pob peth ar unwaith, mor berffaith a theg ag y'u gwnaed wedi iddo dreulio chwe diwrnod yn y gwaith, eto, efe a welodd yn dda gymeryd yr ysbaid hyny i greu bob peth, er dynodi moesoldeb y chwe diwrnod at orch-

wylion bydol, a'r seithfed dydd yn orphwysfa sanctaidd, a hyny trwy ei esiampl ei hun. Os gofynir yma pa fodd y mae gwaith Duw yn gorphwyso ar y *seithfed dydd* yn rheswm am i ni orphwyso ar y *dydd cyntaf;* nyni a attebwn, er fod cadwraeth un dydd neillduol o saith yn gyfnewidiol, eto fod y ddyledswydd o gadw y seithfed ran o'n hamser yn foesol, trwy orchymyn ac esiampl Duw. Ac yn awr, diystyru esiampl Duw, sydd ddiystyrwch ar ei weithredoedd, felly y mae diystyru y Sabbath Cristionogol yn ddiystyrwch ar waith Crist; ac o ganlyniad, yr ydys trwy hyn yn bwrw diystyrwch ar ddoethineb, gallu, a daioni Duw yn ngweithredoedd crëedigaeth a phrynedigaeth.

Sylw 234.—*Nyni a ddylem gadw yn sanctaidd y dydd Sabbath, am fod Duw wedi bendithio y dydd Sabbath a'i sancteiddio ef.*

Dynodir hyny yn y geiriau hyn;—"Am hyny y bendithiodd yr Arglwydd y dydd Sabbath, ac a'i sancteiddiodd ef," hyny yw, efe a'i neillduodd at addoliad ei enw, ac adgoffäad o'i sancteiddrwydd ef, a'r gwaith pwysig a gymerodd ei anwyl Fab arno ei hunan. Ac fe all y rhai a gadwant y dydd hwn yn ol ei osodiad ef, ac a'i haddolant ef arno, mewn ysbryd ac mewn gwirionedd, ddysgwyl llawer o gysur ysbrydol ar y dydd hwn yn ol ei addewid ef. Gwel Esa. 56. 6, 7; a 58. 13, 14. Gallwn sylwi yma, fod y rhan ymadrodd "*Am hyny,*" a ddefnyddir yn agos i ddiwedd y Gorchymyn, yn rhoi ar ddeall i ni, mai gwaith Duw yn gorphwyso ar y dydd Sabbath, oedd y rheswm mawr pa ham y'i neillduodd fel dydd gorphwysdra i ni, fel y gallem arno fyfyrio ar ei weithredoedd mewn crëedigaeth a gras.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn, dysgwn,—1. Bod y rhesymau dros gofio y dydd Sabbath i'w sancteiddio, yn dra phwysig a boddlonol. 2. Y dylem ni ymdrechu i ymbarottôi erbyn y Sabbath cyn ei ddyfodiad. 3. Y dylem ni wneuthur cydwybod o ymarfer ag ordinhadau addoliad cyhoeddus o osodiad dwyfol. 4. Y dylem ni ymbarottôi at ymarferiad o ordinhadau addoliad cyhoeddus, trwy dreulio boreu dydd yr Arglwydd mewn ymarferiadau dirgelaidd a phersonol, megis gweddi, darllen yr ysgrythyrau, a myfyrdod. 5. Y dylem fyfyrio ac ymddiddan am bethau ysbrydol, a'r pethau a wrandawsom, wedi i'r addoliad cyhoeddus fyned drosodd. 6. Y dylem, pan yn anocheladwy y'n hattelir o'r ordinhadau cyhoeddus, fod yn bresenol ynddynt o ran ein calonau. Ps. 63. 1, 2.

ADRAN III.—Y DYLEDSWYDDAU GOFYNOL GENYM AT DDYN—CYNNWYSEDIG YN Y CHWE GORCHYMYN OLAF O'R DDEDDF.

DOSB. 1.—Y PUMMED GORCHYMYN.

HOL. 63. PA UN YW Y PUMMED GORCHYMYN?

"Anrhydedda dy dad a'th fam, fel yr estyner dy ddyddiau ar y ddaiar, yr hon y mae yr Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi i ti." Exod. 20. 12. Deut. 5. 16.

*Dyledswyddau gofynol.*

HOL. 64. PA DDYLEDSWYDDAU A OFYNIR YN Y PUMMED GORCHYMYN?

Amddiffyn yr anrhydedd, a chyflawni y dyledswyddau perthynol i bob un yn eu hamrywiol leoedd a'u perthynasau, fel uwchradd, isradd, neu gydradd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod amryfal sefyllfeydd mewn cymdeithas, y rhai ydynt ordeiniedig gan Dduw, Rhuf. 13. 1. "A'r awdurdodau y sydd, gan Dduw y maent wedi eu hordeinio."

2. Y gofynir i ni amddiffyn yr anrhydedd dyledus i bob un yn eu gwahanol sefyllfeydd, 1 Pedr 2. 17. "Perchwch bawb."

3. Y gofynir i ni amddiffyn yr anrhydedd dyledus i'n huwchradd, Lef. 19. 32. "Cyfod ger bron penwyni, a pharcha wyneb henuriad; ac ofna dy Dduw; yr Arglwydd ydwyf fi."

4. Y gofynir i ni amddiffyn yr anrhydedd dyledus i'n hisradd. Rhuf. 12. 16. "Byddwch—yn gydostyngedig â'r rhai iselradd."

5. Y gofynir i ni amddiffyn yr anrhydedd dyledus i'n cydradd. Rhuf. 12. 10. "Mewn cariad brawdol byddwch garedig i'ch gilydd; yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd."

6. Y gofynir i ni gyflawni yn ffyddlawn, y dyledswyddau perthynol i bob un yn eu gwahanol sefyllfeydd, Rhuf. 13. 7. "Telwch gan hyny i bawb eu dyledion."

7. Y gofynir i ni gyflawni ein dyledswyddau tuag at ein huchafiaid, Rhuf. 13. 1. "Ymddarostynged pob enaid i'r awdurdodau goruchel." Gwel hefyd Eph. 6. 1, 5.

8. Y gofynir i ni gyflawni ein dyledswyddau tuag at ein hisradd, Eph. 6. 9. "A chwithau feistriaid, gwnewch yr un

pethau tuag attynt hwy, gan roi bygwth heibio; gan wybod fod eich Arglwydd chwi a hwythau yn y nefoedd." Gwel hefyd pen. 6. 4.

9. Y gofynir i ni gyflawni ein dyledswyddau at ein cydradd, Eph. 5. 21. "Gan ymddarostwng i'ch gilydd yn ofn Duw."

10. Bod yn ofynol i'n holl ddyledswyddau cymdeithasol gael eu cyflawni gyda golwg arbenig ar awdurdod Duw. Eph. 6. 7. "Trwy ewyllys da yn gwneuthur gwasanaeth, megis i'r Arglwydd, ac nid i ddynion."

EGLURHAD.

Sylw 235.—*Y mae amryw sefyllfeydd a pherthynasau yn mysg dynion yn y byd hwn.*

Rhaid fod hyn yn amlwg i bawb; a gwaith yr Arglwydd ydyw, yr hwn yn unig sydd ben-arglwydd y cyfanfyd. Pe y dewisasai ef, efe a allasai wneyd pawb yn gydradd; a gallasai drefnu pethau yn y fath fodd ag y buasai y cydraddoldeb yma yn parhau byth. Ond, gan na amcanodd efe hyny erïoed, y mae yn anmhossibl y cymer hyny le yn y byd. Ond, nid yw yr annghydraddiaeth sydd yn bod yn unrhyw anffurfiad yn nghrëadigaeth Duw; ond i'r gwrthwyneb, y mae yn cyfansoddi un o brydferthion y greadigaeth, ac yn tueddu yn fawr i'r amcanion goruchel o dangnefedd ac iawn drefn allanol. Megis nad oes i holl aelodau y corph yr un swydd, felly, nid oes i holl aelodau teulu, Eglwys, neu Wladwriaeth, yr un swydd. Mae rhai yn uwchraddolion, ac eraill yn israddolion, er cydlesâad eu gilydd.

Y canlyniad o'r annghydraddiaeth yma yw, bod amryfal ddyledswyddau yn orphwysedig ar ddynion yn eu gwahanol sefyllfeydd a pherthynasau; a thrwy y cyflawniad o'r dyledswyddau hyn yn unig y gellir dywedyd eu bod yn atteb dybenion eu cyflëad gan Dduw yn y cyfryw sefyllfeydd perthynasol yn y byd yma.

Sylw 236.—*Fe'n cymhellir yn y pummed Gorchymyn i gyflawniad o'r dyledswyddau rhwymedig arnom y naill i'r llall yn ein hamryfal sefyllfeydd perthynasol, fel uwchradd, isradd, a chydraddolion.*

Wrth *Dad* a *Mam* yn y Gorchymyn hwn, yr ydym i ddeall nid yn unig rïeni naturiol; ond hefyd ein holl uwchraddolion mewn oedran a doniau, ac yn enwedig y rhai ydynt trwy osodiad Duw mewn lleoedd o awdurdod arnom, pa un bynnag ai yn y teulu, yn yr Eglwys, neu yn y wladwriaeth. A'r un modd y mae uwchraddion yn cael eu galw felly, er eu dysgu

yn eu dyledswyddau at eu hisraddolion, fel rhieni naturiol, i ddangos tynerwch a chariad tuag attynt yn ol eu gwahanol berthynasau; ac er cymhell y rhai isradd i gyflawniad mwy llawen ac ewyllysgar o'u dyledswyddau i'w huwchraddolion, megis i'w rhieni.

Mae holl ddynolryw yn dwyn perthynas â'u gilydd, naill ai o uwchradd, isradd, neu gydradd.

1. *Uwchraddolion* ydynt yr holl rai ydynt uwchlaw i ni mewn sefyllfa, swydd, urddas, neu ddoniau; a'u dyledswyddau tuag at eu hisradd ydynt a ganlyn:—1. Addurno eu goruchafiaeth trwy ymarweddiad sanctaidd, Tit. 2. 1—3. 2. Defnyddio pob cyfleustra i'w rhybuddio a'u dysgu, a'u cymhell i werthfawrogi Crist a'i groes. 3. Cyd ddwyn â'u gwendidau, ac fel hyny eu calonogi, Rhuf. 15. 1.

2. *Israddolion*, yw yr holl rai ydynt islaw i ni mewn sefyllfa, swydd, urddas, neu ddoniau; a'u dyledswyddau at eu huwchradd ydynt a ganlyn;—1. Rhoddi anrhydedd a pharch teilwng iddynt, Lef. 19. 32. 2 Bren. 2. 23. 2. Dymuno eu cynghor a'u cyfarwyddyd yn ddiffuant, ac ymostwng iddynt yn rhwydd, 1 Pedr 5. 5. 3. Ymdebygu iddynt yn yr hyn sydd dda, Iago 5. 10, 11. 1 Cor. 11. 1. 4. Barnu yn dyner am danynt yn y pethau hyny y mae iddynt fwy o ryddid na hwy ynddynt, Rhuf. 14. 3.

3. *Cydraddolion*, yw yr holl rai ydynt o gyffelyb oedran, sefyllfa, neu gyflwr yn y byd; a'u dyledswyddau tuag at eu gilydd ydynt a ganlyn:—1. Meithrin y cariad serchocaf at eu gilydd, Rhuf. 14. 19; 2 Cor. 13. 11. 2. Anrhydeddu a pharchu y naill y llall, Rhuf. 12. 10; Phil. 2. 2, 3. 3. Bod yn dyner ac yn addfwyn y naill tuag at y llall, a bod yn barod i leshau eu gilydd, gan lawenhau yn llwyddiant y naill y llall. 1 Pedr 3. 8; a 4. 8; Rhuf. 14. 19; Eph. 4. 32; Rhuf. 12. 15; 1 Cor. 10. 24. 4. Ceryddu a rhybuddio eu gilydd yn ffyddlawn. Lef. 19. 17; Ps. 141; 5. 1 Thess. 5. 14; Gal. 6. 1; Mat. 18. 15. 5. Ymryson i ddangos cydymdeimlad tyner â'u gilydd dan drallodau. Gal. 6. 2; Mat. 7. 12; a 25. 36; Heb. 13. 3. 6. Ymannog y naill y llall i gariad a gweithredoedd da, ac i ymarweddiad gwyliadwrus a sanctaidd, Heb. 10. 24.

Gallwn sylwi yma, nad ydym yn cael ein gadael i gyflawni y dyledswyddau hyn yn ol tueddiadau ein meddyliau ein hunain. Os cymerwn ni ein llywodraethu gan y dyb hon, ni's cyflawnwn un o honynt, yn brïodol o leiaf. Ond yr ydym yn cael ein gosod dan rwymedigaeth i'w cyflawni oddiar amrywiol ystyriaethau; ac y mae y cyflawniad prïodol o honynt yn brawf mawr o'r sancteiddrwydd hwnw, heb yr hwn ni chaiff

neb weled yr Arglwydd. Gan hyny y maent yn cael eu gofyn yn y Testament Newydd ar egwyddorion efengylaidd, sef ffydd yn awdurdod y Deddfwr, a chariad at ei wasanaeth. Ac ni a allwn sylwi yn mhellach, bod y rhai ydynt ddiffygiol yn y cyflawniad o'u dyledswyddau perthynasol, neu yn yr ymarferiad o grefydd berthynasol, yn annheilwng o'u galw yn grefyddwyr; canys dyma y prif brawf o ddiffuantrwydd ein cariad at Dduw, a chywirdeb ein ffydd, yr hon lle y byddo yn wirioneddol, a weithia drwy gariad yn yr ymarferiad o ddyledswyddau perthynasol. 1 Ioan. 4. 20. "Yr hwn nid yw yn caru ei frawd, yr hwn a welodd, pa fodd y gall efe garu Duw yr hwn ni's gwelodd?" Gwel hefyd adn. 7, 8, 12, 21.

Heblaw y dyledswyddau uchod a berthynant i uwchraddolion, israddolion, a chydraddolion, gallem grybwyll yn fwy neillduol y dyledswyddau a berthynant i'r amryfal berthynasau yn mysg dynolryw; megis gwŷr a gwragedd, rhïeni a phlant, meistri a gwasanaethyddion, gweinidogion a phobl, a llywodraethwyr a'u deiliaid.

Sylw 237.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gofyn cyflawniad yr amryfal ddyledswyddau gorphwysedig rhwng gwŷr a gwragedd.*

Y dyledswyddau perthynol i wr a gwraig ydynt y rhai canlynol:—

1. Caru eu gilydd â'r tynerwch a'r serchawgrwydd mwyaf. Eph. 5. 28, 31, 33. Tit. 2. 4.

2. Glynu wrth y cyfammod priodasol yn y modd ffyddlonaf. 1 Pedr 3. 7. 1 Cor. 7. 15. Heb 13. 4.

3. Ceisio rhyngu bodd y naill y llall, 1 Cor. 7. 33, 34. Gen. 16.

4. Defnyddio pob moddion i gadw heddwch teuluaidd, Mat. 5 9.

5. Bod yn dra gofalus rhag rhoddi achos gwaradwydd y naill i'r llall. Cynnwys hyn ofal am ymddwyn yn addas, yn mha amgylchiad bynnag y'u cyflëir, 1 Pedr 3. 4. Diar. 31. 28.

6. Cydymdeimlo y naill â'r llall dan holl gystuddiau einioes, a chyfrannogi yn llawenydd y naill y llall, 1 Sam. 1. 8.

7. Gwylio dros eneidiau eu gilydd, 1 Pedr 3. 7. 1 Cor. 7. 16.

8. Gan mai y gwr yw pen y wraig, y mae efe yn rhwym i'w hamddiffyn rhag pob cam a niweid hyd eithaf ei allu; ac y mae yn rhaid i'r wraig ei rhoddi ei hun dan warcheidwadaeth ei gwr.

9. Gan y dichon i'r wraig fod mewn angen am gyfarwyddyd dan amryw amgylchiadau, rhaid iddi ymgynghori â'i gwr; a

rhaid iddo yntau fod yn barod i roddi pob hyfforddiant ar a allo iddi; a rhaid i'r ddau rodio yn ofn yr Arglwydd. 1 Cor. 14. 35.

10. Mae darbod i'r teulu yn rhan bwysig o ddyledswydd y gwr, yr hwn yw pen y teulu, 1 Tim. 5. 8; ac y mae dyledswydd y wraig yn wir gyssylltiedig â hyn. Diar. 31. 27.

11. Y mae a fyno y gwr a'r wraig fel eu gilydd yn addysgiad crefyddol y plant a'r gwasanaethyddion. Am hyn y canmolid Abraham yn fawr gan Dduw. Gwel Gen. 18. 19.

Sylw 238.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gofyn cyflawniad yr amrywiol ddyledswyddau rhwymedig ar rïeni a phlant at eu gilydd.*

Dyledswyddau *rhïeni* at eu plant ydynt y rhai canlynol;—

1. Gweddïo drostynt cyn eu geni; canys os ydynt yn bechaduriaid yn y groth, (fel y maent os credwn ni yr Ysgrythyrau) dylem ddeisyf eu sancteiddhad ger bron Duw, ac ar iddynt gael eu gwneyd yn gyfrannogion o'r cyfammod tragywyddol; ac fe ddylai rhïeni fod yn fwy astud i hyn nag y maent yn y cyffredin, gan ein bod yn darllen am rai oeddynt wedi eu sancteiddio o'r groth.

2. Bendithio yr Arglwydd am danynt, gan mai rhodd oddiwrth Dduw yw pob plentyn, Luc 1. 64.

3. Gweddïo drostynt pan y'u genir, a dadleu addewid y cyfammod drostynt, gan gymeryd Duw fel eu Duw, a Duw eu had, yn ol ei addewid;—"Myfi a fyddaf yn Dduw i chwi, ac i'ch had," &c. A thrachefn, "I chwi y mae yr addewid ac i'ch plant."

4. Cymeryd pob gofal a ellir am danynt ddydd a nos yn eu cyflwr diymadferth, fel y dangosont eu gofal am ddoniau Duw. Esa. 49. 15.

5. Gwneyd arlwy cyfaddas erddynt, pan fyddo eu rheswm a'u deall yn dechreu ymddangos, a thra y maent dan eu gofal yn uniongyrchol. 1 Tim. 5. 8.

6. Cadw yr awdurdod a roddes Duw iddynt, arnynt.

7. Eu ceryddu pan fyddo yn angenrheidiol, Diar. 29. 15. a 19. 18. a 23. 13, 14. Dylid gwneyd hyn mewn cariad; a hysbysu y plentyn pa ham y'i ceryddir, os amgen ni ettyb y cerydd y dyben prïodol iddo.

8. Eu meithrin yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd, Diar. 22. 6; 2 Tim. 3. 15; Diar. 1. 8; a 4. 3, 4; Deut. 6. 6, 7. Ni all fod y rhai a esgeulusant hyn yn caru Duw na'u plant.

9. Gweddïo gyda hwy a throstynt. Job 1. 5. Mae y rhai ydynt yn byw heb weddi deuluaidd, yn byw heb Dduw yn y byd, ac yn byw fel yr anifeiliaid a ddyfethir.

10. Rhoddi esiampl dda o'u blaen, Ps. 101. 2.

11. Gweithredu yn ddiduedd tuag attynt, heb ddangos mwy o garedigrwydd tuag at y naill na'r llall.

12. Peidio eu gorchymyn i ddim, ond yr hyn y gallant ei gyflawni heb bechu yn erbyn Duw. Act. 4. 19.

13. Gofalu na byddont yn ddïaurhydedd i'w plant.

14. Eu dodi mewn rhyw alwedigaeth gyfreithlawn pan ddelont i oedran cyfaddas.

15. Eu rhoddi yn brydlawn i brïodas, gyfaddas i'w tymher, a'u sefyllfa, ac yn ol eu cydsyniad; ac yn y modd tebycaf i fod er eu llesäad tymhorol; ond yn enwedig eu lles ysbrydol a thragywyddol, Ruth 3. 1; Gen. 24. a 28.

16. Trefnu eu meddiannau bydol yn eu ffafr mewn amser dyledus, fel ag i attal pob ymrysonau, ac annghariad yn eu mysg. Esa. 38. 1.

17. Rhoddi siars ddifrifol iddynt pan yn marw, gan eu cymhell i ofni yr Arglwydd, eu bendithio, a'u cyflwyno i ddwylaw Duw cyfammodol, Gen. 49. 1, &c.; Jer. 49. 11.

Dyledswyddau *plant* at eu rhïeni ydynt a ganlyn:—

1. Eu caru. Gen. 46. 29.

2. Eu hofni. Lef. 19. 3; 1 Bren. 2. 20; Diar. 31. 28.

3. Ufuddhau iddynt. Eph. 6. 1, 4; Gen. 37. 13; Luc 2. 51.

4. Bod yn ystyriol o'u bod yn israddol i'w rhïeni. 1 Bren. 2. 19; Deut. 27. 16; Gen. 31. 35.

5. Gwrando eu cyngor, Diar. 1. 8; a 4. 1; a hyny gyda golwg ar eu helyntion tymhorol ac ysbrydol. Gen. 27. 46; a 28. 1, 2.

6. Cuddio eu gwendidau, a chyd ddwyn â hwy. Gen. 9. 22, &c. Diar. 23. 22.

7. Darpar ar gyfer eu hangen hyd eithaf eu gallu pan fyddont yn hen ac anghenog. 1 Tim. 5. 4; Gen. 47. 12; Ioan 19. 27; Mat. 15. 4, &c.

8. Gweddïo drostynt.

9. Dangos parch iddynt wedi eu marwolaeth.

Sylw 239.—*Mae y pummed gorchymyn yn gofyn cyflawniad yr amrywiol ddyledswyddau dyledus ar feistriaid a gweinidogion y naill i'r llall.*

Dyledswyddau *meistriaid* i'w gweinidogion ydynt y rhai canlynol;—1. Bod yn ofalus pwy a gyflogont, rhag iddynt ddwyn melldith Duw i'w tai gyda gweinidogion annuwiol. Ps. 101. 6; Gen. 39. 3. 4.

2. Ystyried galluoedd eu gweinidogion, a chyfaddasu eu gwaith yn ol hyny.

3. Rhoddi cyfarwyddiadau priodol iddynt yn nghylch y gwaith a ddodir arnynt. Diar. 31. 27.

4. Trefnu cynhaliaeth a chyflog gweddus iddynt am eu gwaith. Diar. 27. 27; Iago 5. 4; Deut. 24. 14, &c.

5. Eu cadw yn y sefyllfa brïodol o ran hyfdra, ac awdurdod, a'r cyffelyb. Diar. 29. 21.

6. Ymddwyn tuag atynt mewn addfwynder, a bod yn barod i wrando yr hyn a ddywedont yn esgusawd am eu hymddygiad. Eph. 6. 9; Job 31. 13.

7. Peidio rhoddi gwrandawiad rhwydd i ddrygair yn erbyn eu gweinidogion. Ps. 15. 3; Diar. 29. 12.

8. Gofalu am danynt pan yn glaf a diymadferth. Math. 8. 6; 1 Sam. 30. 11, &c.

9. Bod yn hynod dirion tuag at y rhai a fyddont yn hynod ffyddlon a diwyd. Diar. 14. 35; Deut. 15, 12, &c.

10. Bod yn awyddus am eu dysgu yn ofn yr Arglwydd. Gen. 18. 19; Jos. 24. 15; Ps. 101.

11. Caniatâu digon o amser iddynt i gyflawni eu hymarferiadau crefyddol dirgel a chyhoedd.

Dyledswyddau *gweinidogion* i'w meistriaid ydynt a ganlyn;—

1. Ymgyflogi hyd y gallont i wasanaethu rhai yn ofni yr Arglwydd.

2. Parchu ac anrhydeddu eu meistri, yn dufewnol ac yn allanol. 1 Pedr 2. 18; 1 Tim. 6. 1, &c.; Eph. 6. 5.

3. Amddiffyn anrhydedd y teulu yn ofalus a chydwybodol. Gen. 24. 34, &c., a 39. 8, 9.

4. Ymgadw yn fanwl at yr arlwy, y cyflog a'r gorphwysdra gosodedig iddynt. Gen. 30. 33; Diar. 31. 15.

5. Ymostwng mewn addfwynder i geryddon a chynghorion. Tit. 2. 9; 1 Pedr 2. 18; Gen. 16. 9.

6. Cyflawni y gorchwyl gosodedig iddynt yn gydwybodol, yn onest, yn llawen, ffyddlawn, parod, a diwyd. Tit. 2. 9, 10; Math. 24. 45, 46; Gen. 31. 38; Col. 3. 22—24; Diar. 18. 9; Gen. 31. 6; Diar. 22. 29; Rhuf. 12. 11.

7. Gofalu yn gydwybodol am fod yn yr addoliad teuluaidd, a derbyn yn ewyllysgar yr addysgiadau teuluaidd a gynnygir iddynt. Diar. 4. 7.

Sylw 240.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gofyn cyflawniad a'r dyledswyddau rhwymedig ar weinidogion y gair i bobl eu gofal, a'r bobl iddynt hwythau.*

Dyledswyddau *Gweinidogion* i'w pobl ydynt a ganlyn:—

1. Arlwy ystor priodol o wybodaeth at eu gwaith, [illegible]

13. Dylid bod yn feddiannol ar brofiad o'r hyn a ddywedir yn nechreu 1 Ioan 1.

2. Peidio myned i fysg pobl heb alwad brïodol. Rhuf. 10. 15; 1 Pedr 5. 3; Jer. 23. 21, &c.

3. Ymgydnabod â sefyllfa eu pobl, fel y gallont drefnu eu gweinidogaeth yn gyfattebol. Phil. 2. 19, 20.

4. Ymarfer y cariad tyneraf attynt, a'r gofal mwyaf am eu heneidiau. 1 Thess. 2. 7, 8.

5. Gweinyddu yr ordinhadau Dwyfol yn eu mysg yn ffyddlawn, anmhleidiol, a diwyd, mewn modd cyfattebol i'w cyflwr, heb dderbyn wyneb. Gal. 6. 6; 2 Tim. 4. 2.

6. Gwylio ar eu hymarweddiad er lleshâd i'w heneidiau. Lef. 19. 17; Ezec. 3. 17, &c.; a 33. 7, &c.

7. Gweddïo drostynt yn ddyfal a gwresog. Eph. 1. 15, &c. a 3. 14, &c.

8. Rhoddi o'u blaen esiampl ddysglaer o'r gwirionedd Dwyfol mewn ymarweddiad Cristionogol. Heb. 13. 7; Tit. 2. 7; 1 Tim. 4. 12; 1 Thess. 2. 1—10.

Dyledswyddau *pobl* at eu Gweinidogion ydynt a ganlyn;—

1. Eu parchu yn fawr fel Gweinidogion Crist, Brenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi, 1 Cor. 4. 1.

2. Eu caru yn fawr er mwyn eu gwaith, 1 Thess. 5. 12, 13. Gal. 4. 14.

3. Gweddïo drostynt yn ddyfal a gwresog, Rhuf. 15. 30, 31; Eph. 6. 19, 20; 1 Thess. 5. 25.

4. Dyfal ymarfer â moddion gras fel y'u gweinyddir ganddynt, Heb. 10. 25; Luc 10. 16.

5. Ymostwng iddynt, fel cenhadon Crist, mewn rhybuddion, cynghorion, a cheryddon, &c. Heb. 13. 17; Gal. 6. 1; Math. 18. 15, &c; 2 Tim. 4. 2.

6. Gochel derbyn gair drwg iddynt, heb y dystiolaeth sicraf o'i gwirionedd, 1 Tim. 5. 19.

7. Eu cynnal yn gysurus, 1 Tim. 5. 18; 1 Cor. 9. 13, &c. Gal. 6. 6; 1 Cor. 9. 11.

Sylw 241.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gofyn cyflawniad yr amrywiol ddyledswyddau rhwymedig ar lywodraethwyr a deiliaid, y naill i'r llall.*

Dyledswyddau y *llywodraethwyr* tuag at y deiliaid ydynt a ganlyn:—

1. Sefydlu cyfreithiau daionus a chyfiawn, a gofalu am eu bod yn cael eu gweini yn ffyddlawn, Zech. 8. 16; 2 Cron. 19. 5, &c; Ps. 72. a 82.

2. Llywodraethu eu deiliaid mewn doethineb, uniondeb, a chariad, 2 Cron. 1. 10; Diar. 16. 5. a 25. 5. a 29. 2, 4, 14.

3. Eu hamddiffyn yn eu rhagorfreintiau a'u hiawnderau tymhorol ac ysbrydol, â'r rhai y'u doniwyd gan Dduw, 1 Tim. 2. 2.

4. Cosbi drwg-weithredwyr, a chalonogi y rhai a wnant dda, Rhuf. 13; Deut. 1. 16, &c.

5. Gwneyd eu gorau er ffyniant gwir grefydd, trwy siampl dda eu hunain, Esa. 49. 23.

Dyledswyddau *deiliaid* i'w llywodraethwyr ydynt a ganlyn:

1. Eu parchu fel rhaglawiaid Duw, a ordeiniwyd ganddo ef, Rhuf. 13; 1 Pedr 2. 13, 17; 1 Sam. 26. 16, 17.

2. Rhoddi barn dyner ar eu hymddygiad, càn belled ag y goddefa yn gyson ag anrhydedd Duw, Exod. 22. 28; Preg. 10. 20; 2 Pedr 2. 9, 10.

3. Ymostwng i'w cyfreithiau cyfiawn, Rhuf. 13. 1, &c; Tit. 3. 1, 2.

4. Talu teyrnged, neu drethi cyfiawn yn llawen, Rhuf. 13. 6; Luc 20. 25; Math. 17. 25, &c.

5. Eu hamddiffyn rhag eu gelynion, 1 Sam. 26. 15; 2 Sam. 18. 3.

6. Gweddïo drostynt yn fynych ac yn wresog, 1 Tim. 2. 1, 2.

7. Ymdrechu yn ofalus i fyw dan eu llywodraeth yn y fath fodd ag y byddont yn anrhydedd, cysur, a bendith, iddynt hwy ac i eraill.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testun hwn dysgwn,—1. Y dylem fod yn foddlawn i'n rhan, ac ymostwng i ewyllys Duw, yr hwn sydd yn trefnu i bawb ei sefyllfa yn y byd hwn. 2. Yr amryfal ddyledswyddau a berthynant i uwchafion, isafion, a chydraddion, a'r teimladau a ddylai Cristionogion feithrin y naill at y llall. 3. Y perygl i gasineb gyfodi mewn gwr neu wraig; y canlyniadau ofnadwy o hyny; a bod gan bawb achos i alaru am eu pechodau yn y peth hwn. 4. Pwysigrwydd y gofal a gyflawnir i ofal rhïeni, ac na's gallant ymryddhâu oddiwrth y siars hon; bod gorchymyn Duw, a'r addunedau a addunedasant arnynt; bod y canlyniadau o wneuthur neu beidio gwneuthur eu dyledswydd o'r pwys mwyaf; y gall rhïeni fod yn foddion cadwedigaeth neu ddamnedigaeth eu plant; ac y bydd i rïeni a phlant o'r diwedd gyfarfod ger bron brawdle Crist, naill ai i ryddhau neu i gondemnio y naill y llall. 5. Mai dyledswydd plant yw parchu eu rhïeni ac ufuddhâu iddynt; bod anufudddod i rïeni yn bechod mawr, ac yn haeddu barn Duw, ac y bydd raid i blant roddi cyfrif i Dduw, am eu hymddygiad tuag at eu rhïeni. 6. Bod lle meistri yn dra phwysig; bod

Duw yn gofalu am iawnderau israddolion; ac y dylai meistri gofio mai Crist yw barnwr pawb, ac nad ydynt hwythau eu hunain ond gweision ar y ddaiar. 7. Na's gall gweision ddadleu anwybodaeth o'u dyledswydd; eu bod yn rhwym gan Dduw i wneyd yr hyn nad ydynt yn ei feddwl efallai yn fynych; bod eu cyttundeb hwy eu hunain yn eu rhwymo i ffyddlondeb yn mhob peth; ac y dylent ufuddhâu, rhag eu cael yn gelwyddog, a bod i'w tafodau hwy eu hunain eu condemnio. 8. Bod swydd gweinidog yn eglwys Crist yn un dra phwysig; bod ei waith, a'i ganlyniadau o'r pwys mwyaf; y gellir gwneyd llawer o ddaioni i eneidiau dynion trwy iawn gyflawniad o'r swydd hon; a bod yn rhaid i'r rhai oll ydynt yn y swydd, roddi cyfrif o'u goruchwyliaeth yn fuan. 9. Gan fod gwaith gweinidogion yr efengyl yn bwysfawr, ac yn gofyn calondid i'w gyflawni, mai dyledswydd y bobl ydyw eu cynnorthwyo, a nerthu eu breichiau; ac y dylai gweinidogion a phobl ddyddanu y naill y llall. 10. Bod dyledswydd llywodraethwyr gwladol yn un bwysig iawn; a'i bod yn ordinhad Duw; eu bod yn gyfrifol am weinyddiad yr ymddiried a roddwyd iddynt; a bod llygaid llaweroedd arnynt, yn enwedig llygaid Brenin breninoedd, ac Arglwydd arglwyddi. 11. Mai dyledswydd deiliaid yw ufuddhâu i'w llywiawdwyr; a bod y rhai a anufuddhant iddynt yn anufuddhâu i Dduw, gan yr hwn y'u hordeiniwyd.

## *Pechodau a waherddir.*

HOL. 65. PA BETH A WAHERDDIR YN Y PUMMED GORCHYMYN?

Esgeuluso neu wneuthur dim yn erbyn yr anrhydedd a'r ddyledswydd perthynol i bob un yn eu hamrywiol leoedd a'u perthynasau.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gwaherddir i ni esgeuluso yr anrhydedd dyledus i neb un, pa un bynnag ai ein huwchradd, ein hisradd, neu ein cydradd. 1 Pedr 2. 17. "Perchwch bawb." Gwel hefyd Rhuf. 13. 7; Gen. 23. 7; Rhuf. 12. 16; 1 Pedr 3. 8; Eph. 6. 2, 3.

2. Y gwaherddir i ni wneuthur dim yn erbyn yr anrhydedd dyledus i neb, pa un bynnag ai ein huwchradd, ein hisradd, neu ein cydradd, Rhuf. 12. 10. "Mewn cariad brawdol byddwch garedig i'ch gilydd; yn rhoddi parch, yn blaenori eich gilydd." Gwel hefyd, Preg. 10. 20; Matt. 23. 11; Phil. 2. 3; 1 Cor. 19. 22.

3. Y gwaherddir i ni esgeuluso y dyledswyddau gorphwysedig arnom, y naill i'r llall, pa un bynnag ai ein huwchradd, ein hisradd, neu ein cydradd, Rhuf. 13. 8. "Na fyddwch yn nyled neb o ddim, ond o garu bawb eich gilydd." Gwel hefyd Tit. 3. 1; Eph. 6. 1—5; Col. 4. 1; Eph. 6. 4; Gal. 5. 13; 1 Pedr 3. 8.

4. Y gwaherddir i ni wneyd dim yn erbyn yr hyn sydd ddyledus arnom i neb un, pa un bynnag ai ein huwchradd, ein hisradd, neu ein cydradd. 1 Thess. 5. 15. "Dilynwch yr hyn sydd dda, tuag at eich gilydd, a thuag at bawb." Gwel hefyd 1 Pedr 3. 6; Mat. 23. 4; Phil. 2. 3.

EGLURHAD.

Sylw 242.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gwahardd i uwchradd, isradd, na chydradd, esgeuluso yr anrhydedd na'r ddyledswydd berthynol i neb un, neu wneuthur dim yn erbyn yr anrhydedd neu y ddyledswydd hono.*

*Mae esgeuluso yr anrhydedd neu y ddyledswydd* brïodol i neb un, pa un bynnag ai ein huwchradd, ein hisradd, neu ein cydradd, yn cynnwys nid yn unig esgeuluso cyflawniad y cyfryw ddyledswyddau perthynasol yn hollol, ond hefyd, pan y'u cyflawnir, eu gwneyd heb fod a'n llygaid ar orchymyn ac awdurdod y Deddfwr mawr. Esa. 29. 13.

*Gwneuthur unrhyw beth yn erbyn yr anrhydedd a'r ddyledswydd* rwymedig arnom i neb un, pa un bynnag ai ein huwchradd, ein hisradd, neu ein cydradd, ydyw cyflawni y pechodau hyny ydynt hollol wrthwyneb i'r dyledswyddau a ofynir genym. Rhuf. 2. 22.

1. Fe droseddir y gorchymyn hwn gan ein *huwchraddolion* pan y mathront eu hisradd, er ceisio eu gogoniant, eu helw, a'u pleser eu hunain; pan y gorchymynont yr hyn sydd anghyfreithlawn, neu bethau na's gall eu hisraddolion eu cyflawni; pan y'u cynghoront neu y'u calonogont i gyflawni yr hyn sydd ddrwg, neu yr anghefnogont hwynt yn yr hyn sydd dda; pan y diraddiant eu huchafiaeth trwy ymddygiad diofal ger bron eu hisraddolion: neu pan y byddo iddynt eu cyffrôi i ddigofaint. Fe'i troseddir gan y rhai ydynt *uwchraddolion i ni mewn oed*, pan na cheisiont gyfleusdra i sefydlu rhai ieuengach yn y ffydd fel y mae yn yr Iesu; pan trwy eu drygioni y maent yn warth i'w penwyni, yr hwn a ddylai fod yn goron gogoniant; neu, pan na byddont yn rhoddi siampl o ffydd a sancteiddrwydd yn mhob ymarweddiad, ger bron yr ieuenctyd. Fe'i troseddir gan *uwchraddolion mewn doniau a gras*, pan y diystyrant y gweiniaid, heb gyd-ddwyn â hwynt; pan na

byddont yn ymroddi i'w dysgu, neu pan yn cymeryd mantais ar eu gwendid a'u hisraddiaeth.

2. Fe droseddir y gorchymymyn hwn gan *israddolion*, pan yn cenfigenu, yn dirmygu, neu yn gwrthryfela yn erbyn eu huchafiaid, yn eu cynghorion cyfreithlawn, eu gorchymynion, a'u ceryddon. Fe'i troseddir gan *israddolion mewn oed*, pan na byddont yn parchu penwyni; pan fyddont yn gwaradwyddo penwyni; pan yn dirmygu cynghor, ac yn casâu esiampl yr oedranus; pan na byddont yn ceisio eu dysgu ganddynt; neu pan y'u gwatworont, y'u gochelont, ac na fynont eu gwasanaeth. Fe'i troseddir gan *israddolion mewn doniau a gras*, pan fyddont yn cenfigenu, ac yn ymofidio o herwydd doniau eu huwchraddolion; pan yn dirmygu eu haddysg; pan yn eu camddarlunio; neu pan nad ymdebygont iddynt, ac na ddysgont ganddynt.

3. Mae y gorchymyn hwn yn cael ei droseddu gan *gydraddolion* pan fyddont yn cenfigenu wrth ddoniau y naill y llall; pan yn ymofidio wrth gynnydd neu lwyddiant eu gilydd; pan yn tra ymddyrchafu ar y naill y llall; pan yn diystyru ac yn dibrisio eu gilydd, pan na byddont yn rhoddi y blaen i'w gilydd mewn cariad: neu pan na byddont yn byw fel brodyr mewn cariad.

Heblaw y pechodau uchod o eiddo uwchraddolion, israddolion, a chydraddolion, nyni a allwn sylwi yn fwy neillduol ar bechodau a gyflawnir gan ddynolryw yn yr amryfal berthynasau sydd rhyngddynt a'u gilydd, megis gwŷr a gwragedd, rhïeni a phlant, meistri a gwasanaethyddion, gweinidogion a phobl, a llywiawdwyr a deiliaid.

Sylw 243.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gwahardd y pechodau hyny, trwy y rhai y'i troseddir yn y berthynas o wŷr a gwragedd.*

1. Fe'i troseddir gan y *gwr a'r wraig*, pan na byddont yn ymddwyn tuag at eu gilydd dan ddylanwad yr ystyriaeth o agosrwydd eu perthynas; pan siaradont am eu gilydd yn wawdus; pan ymddangosont mor sarug fel mai prin y gallant ymddiddan a'i gilydd; pan dramgwyddant y naill wrth ymddygiad y llall, mewn peth dibwys; pan na cheisiont ryngu bodd y naill y llall; pan nad ymostyngont i farn eu gilydd; pan wrthodont wrando, y naill ar y llall fel cynnorthwywyr mewn llawenydd ysbrydol; pan dristäont y naill y llall ar air neu weithred; pan estroneiddier eu serchiadau oddiwrth eu gilydd mewn un modd; neu pan roddo y naill le i'r llall i ammeu ei ffyddlondeb i'r cyfammod prïodasol.

2. Fe'i troseddir gan y *gwr*, pan y mae yn ymollwng

seguryd, heb ofalu am ei dylwyth ei hun, ond yn treulio mewn gloddest a meddwdod yr hyn a ddylai gael ei ddefnyddio ganddo tuag at gynnal ei wraig a'i deulu; pan y mae yn attal oddiwrth ei wraig fwy nag a weddai; pan y mae yn peidio a bod yn warcheidwad iddi; pan y mae yn arglwyddiaethu arni heb ei chyfrif megys ei gnawd ei hun; neu pan ddyrchafo efe ei law yn erbyn yr hon y dylai ei charu fel ef ei hunan.

3. Fe'i troseddir gan y *wraig*, pan nad yw yn parchu ei gwr; pan nad yw ofalus i drefnu yn gynnil yr hyn a arlwyir ganddo ef; neu pan y traws feddianna le ei gwr, heb gofio natur yr oruchafiaeth hòno, a roddes Duw iddo ef arni hi.

Sylw 244.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gwahardd y pechodau hyny, trwy y rhai y'i troseddir yn y berthynas o rïeni a phlant.*

1. Fe'i troseddir gan *rïeni*, pan fyddont yn ddiofal yn nghylch eu plant yn eu blyneddoedd boreuaf; pan na byddont yn gweddïo llawer gyda hwy a throstynt; pan fyddont yn esgeulus yn nghylch eu haddysg; pan na byddont yn ofalus am eu dwyn hwy i fynu yn ofn yr Arglwydd; pan fyddont yn eu cefnogi mewn seguryd; pan na fyddont yn eu dysgu i weddïo Duw; pan nad attaliant hwynt i bechu, neu pan y'u ceryddont am droseddu yn eu herbyn eu hunain, tra y goddefant iddynt bechu yn erbyn Duw; pan na roddir attalfa ar ddywedyd celwydd, tyngu, a halogi dydd yr Arglwydd, &c.; neu, pan na's rhybuddir hwynt o'r drwg sydd yn y cyfryw bechodau; pan na byddont yn eu ceryddu yn brydlon pan fyddo yn angenrheidiol, neu pan y parchont un plentyn uwchlaw y llall, fel pe na byddent mor agos berthynasau iddynt.

2. Fe'i troseddir gan *blant*, pan y collont eu serchawgrwydd at eu rhïeni; pan na byddont yn eu hofni a'u parchu; pan fyddont yn anufudd iddynt yn eu gorchymynion cyfiawn a chyfreithlawn; pan nad ymostyngont i'w cyngor a'u cyfarwyddyd, eu rhybuddion a'u ceryddon; pan yr esgeulusont ad-dalu eu caredigrwydd tuag attynt, pan y byddont yn rhoddi achos o dristwch iddynt; neu, pan yn lle gweddïo drostynt, y'u melldithiont, er mai yn y galon yn unig. Mae plant annuwiol ac anufudd yn y gyfres ddû hòno o bechaduriaid a gauir allan o deyrnas Dduw. Gwel Rhuf. 1. 29, &c.

Sylw 245.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gwahardd y pechodau hyny, trwy y rhai y troseddir yn y berthynas o feistri a gwasanaethyddion.*

1. Fe'i troseddir gan *Feistriaid*, pan y gommeddont gynhal-

iaeth a chyflog prïodol i'w gwasanaethyddion; pan y camattaliont oddiwrthynt ddim a fyddo yn ddyledus iddynt; pan ymddygont tuag attynt yn annhrugarog; pan y credont chwedl ddrwg i'w herbyn heb sail; pan na byddont yn gofalu dim am danynt; pan na byddont yn ceisio eu llesäad ysbrydol, am y caffont hwy wneyd eu gwaith ganddynt: pan fyddont yn eu hamddifadu o orphwysdra angenrheidiol i'w natur; pan y'u hattaliont i fwynhau moddion gras yn gyhoeddus; pan na chaniattäont iddynt hamdden brïodol i ofalu am y pethau a berthynant i fywyd tragywyddol; pan fyddont yn rhoddi siampl ddrwg o'u blaen; neu pan na's ceryddont hwy am bechu yn erbyn Duw.

2. Fe'i troseddir gan *wasanaethyddion*, pan na ddangosont barch i'w meistriaid; pan na ofalont am gadw i fynu anrhydedd y teulu; pan fyddont yn anufudd; pan fyddont yn segur ac yn esgeulus, neu heb fod yn ddiwyd yn eu gorchwyl; neu pan nad amlygont un awydd i ddilyn heddwch a sancteiddrwydd, heb yr hwn ni chaiff neb weled yr Arglwydd mewn trugaredd.

Sylw 246.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gwahardd y pechodau hyny trwy y rhai y'i troseddir yn y berthynas o Weinidogion a phobl.*

1. Fe'i troseddir gan *Weinidogion*, pan elont i fysg pobl yn erbyn eu hewyllys; pan fyddont yn ddïofal am wybod sefyllfa eu pobl; pan fyddont yn ddiymgais am eu llesäad tragywyddol; pan na's gweinyddont yr ordinhadau yn eu mysg mewn modd dyledus; pan fyddont yn ddïog yn eu gwaith; pan na byddont yn gweddïo yn fynych dros eu pobl; pan na byddont yn rhoddi esiampl o ffydd a sancteiddrwydd o'u blaen; pan na byddont yn mynegi holl gynghor Duw, am yr unig ffordd o gymeradwyaeth pechadur; pan fyddont yn pregethu pethau esmwyth, ac nid mawrion bethau cyfraith Duw; pan fyddont yn ceisio rhyngu bodd i ddynion yn fwy nag i Dduw; neu, pan na fyddont yn ymdrechgar i'w dangos eu hunain yn gymmeradwy yn mhob peth, fel rhai fydd raid iddynt roddi cyfrif.

2. Fe'i troseddir gan *bobl*, pan na byddont yn parchu eu gweinidogion; pan na byddont yn eu mawrygu er mwyn eu gwaith; pan ddywedont yn ddrwg am danynt; pan na fyddont yn gweddïo drostynt; pan na chyfrannogont o ordinhadau Crist pan yn cael eu gweinyddu ganddynt; pan y diystyront eu cynghor, eu cyfarwyddyd, a'u cerydd; pan nad ydynt yn gofalu am nerthu eu dwylaw yn eu gwaith mawr; pan y'u henllibiont

yn annghyfiawn; pan y'u barnont yn anystyriol; neu, pan na chaniattäont iddynt ddigon o bethau y bywyd hwn.

Sylw 247.—*Mae y pummed Gorchymyn yn gwahardd y pechodau hyny trwy ba rai y'i troseddir yn y berthynas o lywodraethwyr a deiliaid.*

1. Fe'i troseddir gan *lywodraethwyr*, pan yn gosod cyfreithiau annghyfiawn ac annheg; pan y maent yn bleidiol yn y gweinyddiad o gyfiawnder, ac yn derbyn gwobrwyon; pan yn gormesu y tlawd; pan na byddont yn gofalu am gefnogi gwir grefydd ar air a gweithred; pan nad amddiffynont iawnderau a rhagorfreintiau eu deiliaid; pan nad ymdrechont i roddi attalfa ar annuwioldeb a drygfoesau; pan na chosbont ddrwgweithredwyr;—mewn gair, pan na's gweithredont yn gydwybodol yn nghyflawniad eu swydd bwysig.

2. Fe'i troseddir gan *ddeiliaid*, pan na pharchont eu llywodraethwyr fel rhai wedi eu hordeinio gan Dduw; pan yn barnu eu hymddygiad nid mewn cariad; pan yn anufudd i'w cyfreithiau cyfiawn; pan yn gommedd talu trethi a theyrnged gyfiawn; pan na byddont yn ofalus am fod yn anrhydedd iddynt; pan nad amddiffynont hwynt rhag perygl; pan yn gwrthryfela i'w herbyn.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testun hwn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd am grefydd berthynasol. 2. Os gall bywyd y rhai a gadwant y gorchymyn hwn fod yn fyr ac yn gystuddiedig yma, y bydd e yn faith a gwynfydedig ar ol hyn. 3. Trueni yr holl rai na ofalont am gyflawni y dyledswyddau a ofynir yn y gorchymyn hwn; y maent dan felldith Duw yn y byd hwn, a hwy a fyddant yn druenus i dragywyddoldeb.

## Dosb. 2.—Y Chweched Gorchymyn.

Hol. 67. Pa un yw y Chweched Gorchymyn?

"Na ladd." Exod. 20. 13; Deut 5. 17.

### *Dyledswyddau gofynol.*

Hol. 68. Pa beth a ofynir yn y chweched Gorchymyn?

Pob ymdrechion cyfreithlawn i gadw ein bywydau ein hunain a'r eiddo eraill.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod yn ddyledus arnom i ddefnyddio pob moddion cyfreithlawn er cadw ein bywydau ein hunain. Eph. 5. 29. "Ni chasäodd neb erioed ei gnawd ei hun; eithr ei fagu a'i feithrin y mae." Gwel hefyd 1 Tim. 5. 23.

2. Na ddylem ddefnyddio un moddion anghyfreithlawn i ddïogelu ein bywydau ein hunain. Mat. 16. 25. "Pwy bynnag a ewyllysio gadw ei fywyd a'i cyll."

3. Y dylem ddefnyddio pob moddion cyfreithlawn i gadw bywyd eraill. Diar. 24. 11, 12. "Gwared y rhai a lusgir i angau; a ymadewit â'r neb sydd barod i'w lladd? Os dywedi Wele, ni wyddom ni hyn; onid yw pwyswr y calonau yn deall?" Gwel hefyd Job 29. 13.

4. Nad ydym i ddefnyddio un moddion anghyfreithlawn er dïogelu bywydau eraill. Num. 35. 31. "Na chymerwch iawn am einioes y llofrudd."

EGLURHAD.

Sylw 248.—*Mae y chweched Gorchymyn yn gofyn i ni ddefnyddio pob ymdrechion cyfreithlawn er dïogelu ein bywyd naturiol ein hunain, a meithrin bywyd yr enaid.*

1. Gofynir i ni feithrin bywyd ein heneidiau, neu ein bywyd *ysbrydol* a *thragywyddol* trwy y moddion canlynol:—

(1.) Trwy fyfyrio yn ddyfal ar yr ysgrythyrau, yn y rhai y cynnwysir geiriau y bywyd tragywyddol; a thrwy wneyd defnydd diwyd o ordinhadau yr Efengyl, y rhai ydynt y moddion i feithrin y bywyd hwn, Ioan 5. 39. a 17. 3. 1 Pedr 1. 23, a 2. 1, 2.

(2.) Trwy dderbyn Iesu Grist i'r enaid trwy ffydd, fel yr adgyfodiad a'r bywyd, Ioan 6. 27, a 11. 25.

(3.) Trwy ochel pob math o bechod, pob rhith drygioni a themtasiwn iddo. Diar. 8. 36; a 11. 19; a 4. 23.

2. Fe ofynir i ni ddïogelu ein bywyd naturiol trwy y moddion canlynol:—

(1.) Trwy ei gyfleu o fewn rhwymyn cyfammod newydd â Duw. Ps. 16. 1; a 17. 8; 1 Sam. 25. 29.

(2.) Trwy amddiffyniad cyfiawn ac angenrheidiol arno rhag y sawl a fynont ei ddystrywio. Gwel 2 Cor. 11. 32, 33; Act. 23. 12, &c.

(3.) Trwy ddarpar i'n corph yr hyn a fyddo yn angenrheidiol o ymborth prïodol, cyffuriau meddygol, gwisg, llafur, gorphwysdra, &c. Eph. 5. 29.

(4.) Trwy ochel glythineb a meddwdod, ac anlladrwydd, pethau sydd a thuedd ynddynt i ddystrywio y corph yn araf. Luc 21. 34; Diar. 5. a 7; a 6. 26, &c; a 23. 26, &c; a 9. 18.

(5.) Trwy gadw ein nwydau tufewnol mewn tymher brïodol o addfwynder, tangnefedd, amynedd, hynawsedd, caredigrwydd, a gostyngeiddrwydd. Diar. 15. 13, 15; a 17. 20, 22; a 18. 14.

Sylw 249.—*Mae y chwecked Gorchymyn yn gofyn i ni ddefnyddio pob moddion cyfreithlawn i ddïogelu bywyd naturiol eraill, ac i feithrin bywyd eu heneidiau.*

1. Fe ofynir i ni feithrin *bywyd ysbrydol a thragywyddol* eraill trwy y moddion canlynol:—

(1.) Trwy roddi o'u blaen y fath esiampl o sancteiddrwydd ag a fyddo yn debyg o'u hennill at Grist. Math. 5. 16; Zech. 8. 23; 1 Pedr 3. 1, 2.

(2.) Trwy eu dysgu yn ddiwyd, a'u cymhell i ffydd a sancteiddrwydd, yn ol ein sefyllfa, gan weddïo drostynt yn daer. I Thess. 5. 14; 2 Tim. 4. 2; Gen. 43. 29.

(3.) Trwy ddymuniad diffuant i'w hattal rhag pechu, neu rhag eu temtio i bechu. Jud. 23.

2. Fe ofynir i ni ddiogelu *bywyd naturiol* eraill trwy y moddion canlynol:—

(1.) Trwy ymdrechu i'w hamddiffyn rhag pob rhyw gynnygiad annghyfreithlawn i ddwyn eu heinioes oddiarnynt. Diar. 24. 11, 12; Ps. 82. 3, 4; 1 Sam. 14. 45.

(2.) Trwy roddi angenrheidiau bywyd iddynt, fel y byddo uniondeb neu elusen yn gofyn, 1 Bren. 18. 4; Diar. 3. 27, &c.; a 19. 17; Iago 2. 15, 16; 1 Ioan 3. 17.

(3.) Trwy amlygu y grasusau Cristionogol hyny iddynt, y rhai a dueddant gymmaint i feithrin cadwraeth bywyd,—sef, cariad, tosturi, addfwynder, a charedigrwydd,—Diar. 10. 12; Luc 10. 33, &c.; Diar. 14. 29; Col. 3. 13; 1 Pedr 3. 4; Rhuf. 12. 10.

Nyni a allwn sylwi yma, fod amryw gymhelliadau y rhai a ddylent ddylanwadu arnom i achub einioes. 1. Trwy gadw einioes yr ydym yn anrhydeddu Duw; a phan yr ymadawom ag un rhan o'r eiddom er diwallu y tlawd a'r rheidus, yr ydym yn rhoddi echwyn iddo ef; a gallwn ymddiried yn dawel am dâl ganddo ef, Diar. 19. 17.

2. Y mae gan ein cymmydog hawl ar ein cymhorth pan fyddo mewn perygl neu angen; ac ar bob ymdrech o'r eiddom er diogelu ei fywyd a'i gysuron, &c., fel na ddioddefa trwy ein hesgeulusdra ni o ddefnyddio y moddion cyfreithlawn a gyf-

lewyd yn ein cyrhaedd. 3. Os ydym yn ddiffygiol o'n dyledswydd hon tuag at ein cymmydog, yr ydym yn ein condemnio ein hunain, ac yn dywedyd yn weithredol nad ydym ni yn teilyngu i'n cymmydog ddefnyddio unrhyw foddion cyfreithlawn er ein diogelu ninnau.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y sylwadau blaenorol, dysgwn,—1. Na wiw i ni wneyd drwg er mwyn y daioni mwyaf. 2. Bod yr enaid yn anfeidrol werthfawr, a bod cymmaint o angenrheidrwydd gofalu am ei einioes a gofalu am einioes y corph. 3. Bod yr iechyd yn fendith werthfawr. 4. Mai moddion o osodiad dwyfol, neu, foddion cyfreithlawn yn unig a ddylem ddefnyddio er cadw einioes.

## *Pechodau gwaharddedig.*

HOL. 69. PA BETH A WAHERDDIR YN Y CHWECHED GORCHYMYN ?

Cymmeryd ymaith ein bywyd ein hunain a bywyd ein cymmydog, yn nghyd a phob peth a dueddo at hyny.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gwaherddir i ni ddystrywio ein bywydau ein hunain. Act. 16. 28, &c. "Paul a lefodd â llef uchel, Na wna i ti dy hun ddim niwed."

2. Ein bod i ochel pob peth a dueddo i gymeryd ein bywydau ymaith, Job 14. 14. "Dysgwyliaf holl ddyddiau fy milwriaeth, hyd oni ddêl fy nghyfnewidiad."

3. Y gwaherddir i ni gymeryd bywyd neb arall oddiarno, yn annghyfiawn, Gen. 9. 6. "A dywallto waed dyn, trwy ddyn y tywelltir ei waed ef." Gwel hefyd Lef. 24. 17.

4. Ein bod i ochelyd pob peth a dueddo i gymeryd einioes neb arall ymaith, Deut. 24. 6. Na chymered neb faen isaf nac uchaf i felin ar wystl, canys y mae yn cymeryd bywyd dyn yn ngwystl."

EGLURHAD.

Sylw 250.—*Mae y chweched Gorchymyn yn gwahardd i ni niweidio ein bywyd ein hunain, na gwneyd dim a dueddo at hyny.*

1. Gwaherddir i ni lofruddio ein *heneidiau* ein hunain,—yr hyn a wneir, (1.) Trwy esgeuluso a diystyru moddion iachawdwriaeth. Diar. 8. 24, &c. (2.) Trwy ddiffodd a gwrth-

wynebu ymrysoniadau Ysbryd Duw. Diar. 29. 1; Heb. 10. 26, &c.; 2 Pedr 2. 20, &c. (3.) Trwy barhau mewn annghrediniaeth, anedifeirwch, a myned rhagom mewn pechod. Ezec. 18. 30, 31; Rhuf. 2. 4, 5.

2. Fe'n gwaherddir i ddystrywio ein *bywyd naturiol*,—yr hyn a wneir trwy ddodi dwylaw treisiol arnom ein hunain, 1 Ioan 3. 15. Y rhai a fuant euog o'r camwedd ofnadwy yma oeddynt o'r nodweddiad gwaethaf,—megis Saul, Ahitophel, a Judas. 1 Sam. 31. 4, 5, 2 Sam. 17. 23. Mat. 27. 4, 5.

3. Fe waherddir yn bendant, yn ol ysbryd y gorchymyn hwn, i ni wneyd dim a *dueddo* i ddystrywio ein bywyd naturiol. Dan hyn gellir cynnwys y pethau canlynol:—(1.) Pob meithriniad o feddyliau neu amcanion yn erbyn ein bywydau ein hunain. Jonah 4. 3. Job 7. 15. (2.) Meithrin cenfigen a chynddaredd, yr hyn a duedda i ladd y corph. Job 5. 2. Diar. 14. 30. (3.) Anfoddlonrwydd dan drallod. Ps. 38. 1, 8. (4.) Trallod bydol annghymedrol. Diar. 17. 22. (5.) Gofal annghymedrol am bethau bydol. Mat. 6. 31, 34. Ps. 4. 6. (6.) Esgeulusdra o'n corph, o ran ymborth, dillad, meddyginiaeth, gorphwysdra,ac adloniad, trwy goelgrefydd, diofalwch, cybydd-dod, nwydau aflywodraethus, neu demtasiynau Satan. Col. 2. 23. Preg. 6. 2; a 10. 18. 1 Bren. 21. 4. (7.) Annghymedroldeb, glythineb, a meddwdod. Luc 21. 34. Phil. 3. 19; Diar. 23. 21, 29, a 20. 1: Luc 17. 27; Rhuf. 13. 13; 1. Cor. 6. 9; 1 Pedr 2. 11. (8.) Llafur annghymedrol. Preg. 2. 22, &c. (9.) Dodi ein hunain yn agored i berygl diangenrhaid, Mat. 4. 5—7; 2 Sam. 23. 16, 17.

Sylw 251.—*Mae y chweched Gorchymyn yn gwahardd cymeryd bywyd neb arall ymaith yn annghyfiawn, a phob peth a dueddo at hyny.*

1. Fe'n gwaherddir i lofruddio un *enaid* arall,—yr hyn a wneir, (1.) Trwy roddi esiampl bechadurus neu annghall o'i flaen, Mat. 18. 6, 7. (2.) Trwy esgeuluso ei attal ef i bechu; neu, trwy beidio ymdrechu i'w ddiwygio oddiwrth ei gamwedd, Ezec. 3. 18; 1 Ioan 3. 15. (3.) Trwy gydweithredu ag ef mewn pechod,—yr hyn a wneir pan y gorchymynwn iddo bechu, 1 Bren. 12. 28;—pan y'i cynghorwn i bechu, 2 Sam. 13. 5; Hab. 2. 15;—pan y'i cyffrown i bechu, 1 Bren. 21. 25; Job 2. 9;—pan y'i temtiwn i bechu, Diar. 7. 10, &c.;—pan y'i dysgwn ac y'i cynnorthwywn i bechu, Act. 8. 1;—neu pan fyddom yn ymhyfrydu yn ei bechod, ac yn ei gymeradwyo, Rhuf. 1. 32; Ps. 49. 32; Diar. 14. 9. (4.) Trwy galedu ein calon yn ei erbyn ar gyfrif ei bechod, yn lle galaru o'i her-

wydd, ac o herwydd ei berygl drwyddo, Ezec. 9. 4; Gal. 1. 8; Ps. 119. 136.

2 Fe'n gwaherddir yn bendant yn y gorchymyn hwn *i ddwyn ymaith fywyd un arall yn annghyfiawn*,—yr hyn a wneir, (1.) Pan ddygir bywyd heb ddeddf, neu dan rith deddf;—Gwel ddau enghraifft nodedig yn 2 Sam. 11. 15, a 1 Bren. 21. (2.) Pan fydd rhyfel annghyfiawn yn cael ei chyfodi a'i chario yn mlaen, yn yr hon y lleddir llawer, Hab. 2. 12. (3.) Pan ymgymerir ag ornest bersonol, yr hon a achlysurir gan falchder, nwydwylltedd, neu awydd didòr am ddïal cam a gawsid, neu y tybid ei gael, Math. 5. 44; Diar. 16. 32.

3. Mae pob peth a *duedda* i ddwyn bywyd arall ymaith yn annghyfiawn, yn cael ei wahardd yn y gorchymyn hwn. Gellir crynhôi y pethau canlynol dan y pen hwn:—(1.) Llid a digofaint pechadurus, yr hyn bethau, ar gyfrif eu heffeithiau niweidiol, a waherddir yn fynych, Math. 5. 22; Eph. 4. 26, 27. (2.) Cenfigen wrth lwyddiant un arall, Diar. 14. 30; Job 5. 2. (3.) Casineb a malais yn ei erbyn, 1 Ioan 3. 15. (4.) Meddyliau, dymuniadau, a gorfoledd dïalgar, Math. 6. 15; Diar. 24. 17, &c. (5.) Anystyriaeth o'i gyfyngder, Diar. 12. 10; Obad. 10, &c. Amos 6. 6. (6.) Amrafaelion, enllib chwerw, gwawd dirmygus, a melldithio digofus, Iago 3. 5, &c. Diar. 18. 21, a 23. 29. (7.) Cam achwyniad, Luc 23. 2; Act. 24. 5. (8.) Edrychiad digofus, llym, soredig, yr hyn a ddynoda duedd at ddrwg, neu ymhyfrydiad ynddo, Gen. 4. 5; Obad. 12; Act. 7. 54. (9.) Attal oddiwrth arall foddion cynhaliaeth bywyd, Luc 10. 31, &c. Iago 2. 15, &c. Job 31. 16, &c. Math. 24. 41, &c. (10.) Ei niweidio, yn ei gorph, ei fasnach, ei lafur, neu ei feddiannau, trwy yr hyn y cynhelir bywyd ac iechyd, Exod. 21. 18, 22; Ezec. 22. 7; Esa. 3. 14, 15; Mica 3. 3; Esa. 5. 8; Math. 24. 9, 10.

Gallem sylwi yma, y gellir dwyn bywyd arall ymaith yn *gyfiawn* dan yr amgylchiadau canlynol:—1. Pan fyddo wedi ei roddi yn ngafael cyfreithiau ei wlad, fel y mae cyfiawnder y llywodraeth yn cydio ynddo, Gen. 9. 6; Lef. 24. 17; Num. 35. 31, &c. 2. Mewn hunan-ddiffyniad angenrheidiol,—hyny yw, pan na byddo un ffordd i ddïanc o ddwylaw yr ymosodydd, ond y byddo raid i ni golli ein bywyd ein hunain, neu ei amddifadu ef o'r eiddo, Exod. 22. 2, 3. 3. Mewn rhyfel gyfreithlawn,—hyny yw, pan y'i cymerir mewn amddiffyniad i ryddid gwladol, neu i wrthdroi goresgyniad digymhelliad gelynion tramor, wedi i bob moddion arall, er attal tywallt gwaed, fyned yn aneffeithiol.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o feithrin argyhoeddiadau, ac o ffydd ac edifeirwch. 2. I ochelyd pa beth bynnag a duedda i'n hamddifadu o fywyd. 3. Yr angenrheidrwydd sydd am i'n goleuni lewyrchu ger bron dynion. 4. Y perygl y'n gwnawn ein hunain yn agored iddo wrth bechu ger bron ein cymydog; neu, trwy oddef pechod ynddo ef; neu trwy fod mewn un modd yn gyfrannog o'i bechodau; neu fod yn ddi alar oblegid ei bechod. 5. Yr angenrheidrwydd o feddu ystyriaeth o ysbryd y ddeddf a'r efengyl, yn ein geiriau a'n gweithredoedd. 6. Ein bod yn euog o'n gwaed ein hunain, os esgeuluswn Grist a'i iachawdwriaeth.

DOSB. 3.—Y SEITHFED GORCHYMYN.

HOL. 70. PA UN YW Y SEITHFED GORCHYMYN?

"Na wna odineb." Exod. 20. 14; Deut. 5. 18.

*Dyledswyddau a ofynir.*

HOL. 71. PA BETH A OFYNIR YN Y SEITHFED GORCHYMYN?

Cadw ein diweirdeb ein hunain a'r eiddo ein cymmydog, mewn calon, ymadrodd, ac ymddygiad.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gofynir i ni gadw ein diweirdeb ein hun. 1 Thess. 4. 4. "Ar fedru o bob un o honom feddiannu ei lestr ei hun mewn sancteiddrwydd a pharch."

2. Y gofynir i ni ochelyd pob achlysur o demtasiwn. Diar. 5. 8. "Cadw dy ffordd yn mhell oddiwrthi hi; ac na neshâ at ddrws ei thŷ."

3. Y gofynir i ni fod yn ddiwair yn ein meddyliau. 2 Tim. 2 22. "Chwantau ieuenctyd ffô oddiwrthynt."

4. Y gofynir i ni fod yn ddiwair yn ein geiriau. Eph. 4. 29. "Na ddeued un ymadrodd llygredig o'ch genau." Gwel hefyd Eph. 5. 4.

5. Y gofynir i ni fod yn ddiwair yn ein hymddygiadau. 1 Pedr 3. 2. "Wrth edrych ar eich ymarweddiad diwair chwi ynghyd ag ofn."

6. Y gofynir i ni fod yn ofalus am ddiweirdeb ein cymmyd-

og cystal a'r eiddom ein hunain. Eph. 5. 11. "Ac na fydded i chwi gyd gyfeillach â gweithredoedd anffrwythlawn y tywyllwch, ond yn hytrach argyhoeddwch hwynt."

EGLURHAD.

Sylw 252.—*Mae y seithfed Gorchymyn yn gofyn i ni gadw ein diweirdeb ein hunain mewn calon, ymadrodd, ac ymddygiad.*

Mae y pethau canlynol yn angenrheidiol er cadwraeth ein diweirdeb ein hunain:—

1. Dymuniad diffuant o fod wedi ein dwyn o ran ein holl ddyn i berthynas gyfammodol â Christ, ac â Duw ynddo ef; ac am feddu ei Ysbryd ef i drigo ynom ni.

2. Dwys gymhwysiad beunydd o Air Duw, o waed Crist, ac o ddylanwadau grasol yr Ysbryd, er marweiddio ein chwantau tufewnol, a llenwi ein calonau â gwir sancteiddrwydd mewn gwrthwynebiad iddynt. Gwel Ioan 15. 3; a'r 17. 7; 1 Pedr 1. 23; Heb. 9. 14; Rhuf. 8. 13.

3. Cyflwyniad gwastadol a difrifol o honom ein hunain i gadwraeth Duw, Ps. 16. 1, a 17. 8, a 19. 11, 12.

4. Ymarferiad bywiog o'r grasusau planedig ynom, 2 Pedr 1. 5; 2 Cor. 7. 1; Phil. 3. 12.

5. Gwyliadwriaeth ar y galon, y llygaid a'r clustiau, Diar. 4. 23; Job 31. 1; Diar. 19. 27, a 7. 21, &c.

6. Cymedroldeb mewn bwytta ac yfed, Rhuf. 13. 13.

7. Gofal i wylied rhag cwmnïaeth ysgafn ac anllad, Diar. 9. 6, a 5. 8, 9; Ps 1. 1; Eph. 5. 11, 12; Diar. 4. 14, &c.

8. Diwydrwydd mewn galwedigaeth gyfreithlawn, Ezec. 16. 49; 2 Sam. 11. 2.

9. Ymröad prydlawn a difrifol i wrthwynebu temtasiynau i anlladrwydd neu aniweirdeb, a phob achlysuron o hyny, Rhuf. 7. 5; Gen. 39. 1; 1 Cor. 6. 18.

10. Prïodi, yn yr Arglwydd; pan fyddo yn angenrheidiol, a chariad cyfattebol rhwng y rhai yn y sefyllfa brïodasol. 1 Cor. 7. 2. Heb. 13. 4.

Sylw 253.—*Mae y seithfed Gorchymyn yn gofyn cadwraeth diweirdeb eraill cystal a'r eiddom ein hunain.*

Yr ydym i gadw diweirdeb eraill trwy y moddion canlynol:—

1. Trwy ofalu na's gwnelom ddim a dueddo i'w maglu neu eu halogi, Gen. 38. 14, 15, 26; Eph. 4. 29.

2. Trwy wneuthur pob peth a allwn mewn esiampl, addysg, rhybudd, cerydd, a gweddi drostynt, er cadw ac amddiffyn eu diweirdeb. Gwel Diar. 2. a 5. a 7. a 9; lle y mae llawer yn cael ei ddweyd ar y matter, yn ol yr hyn y dylem ni weithredu.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Bod deddf Duw yn cyrhaedd y galon cystal a'r fuchedd. 2. Yr angenrheidrwydd am weddio am ddylanwadau sancteiddiol yr Ysbryd Glan, gan na phreswylia efe yn yr aflan.

## *Pechodau gwaharddedig.*

## HOL. 72. PA BETH A WAHERDDIR YN Y SEITHFED GORCHYMYN?

Pob meddyliau, geiriau, a gweithredoedd anniwair.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod pob meddyliau anniwair yn waharddedig. Math. 5. 28. "Eithr yr ydwyf fi yn dywedyd i chwi, fod pob un sydd yn edrych ar wraig i'w chwenychu hi, wedi gwneuthur eisoes odineb â hi yn ei galon."

2. Fod pob ymddiddan anniwair yn waharddedig. Eph. 4. 29. "Na ddeued un ymadrodd llygredig allan o'ch genau." Gwel hefyd Eph. 5. 4.

3. Fod pob gweithredoedd anniwair yn waharddedig. Eph. 5. 31. "Eithr godineb a phob aflendid, na enwer chwaith yn eich mysg." Gwel hefyd Rhuf. 13. 13.

EGLURHAD.

Sylw 254.—*Mae y seithfed Gorchymyn yn gwahardd pob meddyliau, geiriau, ac agweddau anniwair.*

1. Mae yn gwahardd pob *meddyliau anniwair neu aflan.* Math. 5. 18. Mae y rhai hyn yn beryglus; ac, os y'u llettyir yn y galon gyda hyfrydwch, hwy a allant, fel gwreichionen guddiedig dori allan yn fflam danbaid. Y maent y dynesäad agosaf at ddrygioni amlwg, ac nid rhaid iddynt er eu dwyn i aeddfedrwydd ond y cyfleusdra prïodol yn unig.

2. Gwahardda bob *ymddiddan anllad;* y mae deddf Duw yn cael ei throseddu trwy hyn, cystal a thrwy weithredoedd. Gwel Math. 12. 37. Mae llawer yn cael ei ddywedyd yn erbyn ysbryd y gorchymyn hwn, er nad yw yn tori allan yn weithredol.

3. Gwahardda bob *gweithredoedd anniwair.* O'r cyfryw y gellir ystyried pob halogiadau annaturiol, y rhai nid ydynt braidd yn gymhwys i'w henwi. Rhuf. 1. 24, &c.; Lef. 18. 6, 23;—amlwreiccaeth, neu feddu mwy nag un gwr, neu un wraig ar unwaith, Gen. 2. 22, &c; putteindra, pan fyddo un,

neu y ddau o'r pleidiau, yn brïod; godineb, yr hyn yw pechod rhai heb brïodi; gordderchadaeth, 1 Bren. 11. 1, &c; a hyfdra annghymedrol ac annhymorol rhwng rhai prïod, 1 Thess. 4. 3, 4; Deut. 22. 25.

Sylw 255.—*Mae y seithfed Gorchymyn yn gwahardd pa beth bynnag a dueddo i anniweirdeb.*

Gellir crynhoi y pethau canlynol dan y pen hwn,—1. Siarad, gwrando, darllen, ac ysgrifenu ymrdroddion anniwair, Eph. 4. 29.—2. Pob edrychiad anniwair.—3. Derbyn temtasiynau i'r galon, neu hudo eraill, 2 Pedr 2. 14; Esa. 3. 16, &c. —4. Ymddygiad ysgafn an wŷlaidd, yn nghyda phob rhyw ymgofleidio anllad, Diar. 7. 13.—5. Pob chwarëyddiaethau a darluniau anllad, Ezec. 23. 14, &c.—6. Pob gwisgiadau anweddus, Diar. 7. 10; Esa. 3.—7. Cwmnïaeth rhai gweigion Diar. 5. 8, &c.—8. Pob seguryd, Ezec. 16. 49.—Annghymedroldeb mewn bwytta ac yfed, Diar. 23. 30; Jer. 5. 8.—10. Oediad anweddus ar brïodas, 1 Cor. 7. 7, &c.—11. Ysgariaeth annghyfiawn, Math. 5. 3.—12. Gadawiad ewyllysgar, 1 Cor. 7. 12, &c.—13. Annghgivedigrwydd rhwng y rhai fyddont yn brïod, 1 Cor. 7. 5.—14. Addunedau i weddwdod gwastadol, a gwahardd prïodi, Math. 19. 10, 11,—15. Esgusodi prïodasau annghyfreithlawn, Marc 6. 18.—16. Goddef lleoedd neillduedig i aflendid mewn bod. Deut. 23. 17.

Sylw 256—*Dylid gochel y pechodau a waherddir yn y seithfed Gorchymyn ar yr ystyriaethau hyn;—*

1. Oblegid fod halogedigaeth neu aflendid yn dïanrhydeddu Duw yn fawr. Gwel Gen. 39. 9. Ps. 51. 4. Job 31. 11. 1 Cor. 3. 17.

2. Oblegid mai nid anfynych y mae cwympiadau i'r pechod yma yn gosbedigaeth am ryw bechod arall, Diar. 22. 14. Rhuf. 1. 26, &c. Hos. 4. 14. Am. 7. 17.

3. Am mai ychydig iawn sydd yn cael edifeirwch gwirioneddol o'r pechod yma, a hyny trwy anhawsder tra mawr. Hos. 4. 11. Diar. 2. 19. "Pwy bynnag a elo i mewn atti hi ni ddychwelant, ac nid ymafaelant yn llwybrau y bywyd;" hyny yw, nid llawer a wnant hyny mewn gwirionedd. Ac eto, yr ydym yn darllen am rai yn mysg y Corinthiaid i'r rhai y rhoed edifeirwch, 1 Cor. 6. 9—11; ond y mae hyn megys yn gofyn mwy na chyffredin o Ddwyfol ras. Gwel Diar. 23. 27, 28. Preg. 7. 26. Act. 24. 25.

4. Am fod y pechod yma yn anmherchi, ac yn fynych yn llofruddio y corph, Diar. 5. 11, 12. a 7. 22. 1 Cor. 6. 18.

5. Am ei fod yn gadael ystaen ar y nodweddiad yn aml. Diar. 6. 33. Er fod pechod Dafydd wedi ei faddeu, y mae yn aros eto fel brycheuyn ar ei enw, ac fe erys felly hyd ddiwedd amser.

6. Oblegid ei fod yn difa meddiannau dyn, Diar. 5. 10. a 6. 26. Job 31. 12.

7. Oblegid ei fod mewn modd ofnadwy yn sicrhau dinystr tragywyddol y rhai ydynt euog o hono. Gwel Diar. 6. 32. a 7. 26, 27. a 9. 18. Heb. 13. 4. 1 Cor. 6. 9, 10. Gal. 5. 19, &c. Dat. 21. 8. a 22. 15. Col. 3. 5, 6. Eph. 5. 5, 6. Mae y rhanau uchod o'r Ysgrythyr yn dangos yn eglur y perygl i'r hwn y darostyngir yr enaid trwy y pechod hwn.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o wyliadwriaeth. 2. Yr angenrheidrwydd o fyfyrio ar hollwybodaeth Duw, fel y gwnelai Joseph. 3. Yr angenrheidrwydd o rodio yn ol yr Ysbryd, fel na chyflawnom drachwantau y cnawd. 4. Yr angenrheidrwydd o ochelyd pob achlysuron o anniweirdeb trwy y synwyrau. 5. Yr angenrheidrwydd o weddi wresog am gael ein cadw rhag y pechod hwn, a phob temtasiwn iddo.

---

## DOSB. 4. YR WYTHFED GORCHYMYN.

**HOL. 73. PA UN YW YR WYTHFED GORCHYMYN?**

"Na ladratta." Exod. 20. 15. Deut. 5. 19.

### *Dyledswyddau a ofynir.*

**HOL. 74. PA BETH A OFYNIR YN Y WYTHFED GORCHYMYN?**

Bod i ni geisio a defnyddio ein golud a'n da bydol ein hunain, a'r eiddo eraill, mewn modd cyfreithlawn.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Ein bod i ymdrechu trwy foddion cyfreithlawn i ennill golud, Rhuf. 13. 17. "Darperwch bethau onest yn ngolwg pob dyn." Gwel hefyd Diar. 6. 6.

2. Ein bod i ymdrechu drwy foddion cyfreithlawn i feithrin a ffynu ein meddiannau bydol. Diar. 27. 23. "Edrych yn ddyfal ar dy anifeiliaid, a gofala am dy braidd."

3. Ein bod i ymdrechu drwy foddion cyfreithlawn i gyn-

northwyo eraill i ennill cyfoeth. Gal. 6. 10. "Tra yr ydym yn cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb."

4. Ein bod i ymdrechu yn gyfreithlawn er peri ffyniant ar eiddo bydol rhai eraill. Phil. 2. 4. "Nac edrychwch bob un ar yr eiddoch eich hunain, eithr pob un ar yr eiddo arall hefyd."

EGLURHAD.

Sylw 257.—*Mae yr wythfed Gorchymyn yn ein rhwymo i geisio a meithrin ein golud bydol mewn modd cyfreithlawn.*

Gellir gwneyd hyn yn y ffyrdd canlynol:—

1. Trwy honi hawl y cyfammod newydd i bob peth yn rhinwedd undeb ysbrydol â Christ, yr hwn yw etifedd pob peth. Math. 6. 33. 1 Cor. 3. 21, &c. Mae yr ychydig a fwynheir gan y credadyn, yn rhinwedd ei undeb â Christ, ac addewid y cyfammod, yn rhagori yn annghydmarol ar y cwbl a all y bydol-ddyn ei fwynhau heb yr addewid.

2. Trwy ymddibynu ar Dduw, a gweddïo arno ef, fel ein Tad cyfammodol, am gyfranu i ni, a chadw erom, yr hyn a fyddo yn angenrheidiol a chyfleus, Deut. 8. 18. Ps. 127. 1. a 128. 1, 2. Diar. 30. 8. Math. 6. 11.

3. Trwy sylwi a gofalu am gael pob peth, yn gyfattebol i'n sefyllfa a'n gallu. 1 Tim. 5. 8. Gan gadw yn mhell oddiwrth or-ofal pechadurus, a dïofalwch pechadurus, dylid defnyddio pob moddion cyfreithlawn, os amgen, yr ydym yn euog o ryfyg; canys y mae y moddion a'r dyben wedi eu cyssylltu yn ffyrdd Duw; ac yn ei ffyrdd ef y dylem ni rodio.

4. Trwy wneyd defnydd prïodol o'n heiddo mewn rhyw alwedigaeth gyfreithlawn, yr hyn a duedda i ogoneddu Duw a'n llesau ein hunain ac eraill. Gen. 4. 2. Eph. 4. 28. Diar. 10. 4. a 13. 4. a 14. 8. Ps. 112. 5. Esa. 28. 26. 2 Thess. 3. 10.

5. Trwy ganiattâu i ni ein hunain fwynhad cymhedrol o ffrwyth ein llafur cyfreithlawn, Preg. 2. 24; a 3. 12, 13; a 9. 9; Ps. 128. 2.

6. Trwy drefniad cynnil o'r hyn a feddwn, gan ei droi i'r fantais orau, nid oddiar duedd gybyddlyd, ond fel goruchwylwyr ar eiddo Duw, yn gofalu na chamdreulir dim ar wagedd ac na choller dim defnyddiol. Ioan 6. 11. Diar. 21. 20. cymh. â pen. 11. 24.

7. Trwy fod yn ofalus i ochelyd pob ymgyfreithio diangenrhaid, a phob peth arall a duedda i ddyrysu ein sefyllfa allanol, neu fwrw cywilydd ar ein proffes. Diar. 11. 5. Math. 5. 40. 1 Cor. 6. 1—8.

8. Trwy ochel eilunaddoli, ond cymedroli ein serchiadau at bob mwynderau daiarol, 1 Tim. 6. 17.

9. Trwy fod yn ofalus i ochel prysuro i ymgyfoethogi, na chymmysgu dim elw annghyfiawnder a'n meddiannau cyfreithlawn, rhag tynu melldith arnynt. Diar. 28. 22. 1 Tim. 6. 9. Iago 5. 3, &c.

10. Trwy gyfranu yn haelionus, ond yn ddoeth, i'r tlodion, ac at amcanion crefyddol, Diar. 3. 9, 10; a 19. 17. Math. 25. 40.

Sylw 258.—*Mae yr Wythfed Gorchymyn yn ein rhwymo i geisio mewn ffordd gyfreithlawn ennill, a chynnyddu golud eraill.*

Gellir gwneyd hyn yn y ffyrdd canlynol:—

1. Trwy weddïo ar fod iddynt hwy a'r eiddynt gael eu dwyn i'w dïogelu o fewn rhwym perthynas gyfammodol â Duw: canys tra fyddont allan o Grist, nid oes iddynt hawl gyfammodol o unrhyw fendith. Phil. 2. 4.

2. Trwy ymdrechu yn ofalus i attal colled neu niweid iddynt. Gwel Exod. 23. 4, 5; a Deut. 22. 1, &c., lle y cawn rai engrheifftiau o'r ffyrdd yn y rhai y gallwn fod yn offerynol i attal colled a niweid i eraill.

3. Trwy onestrwydd cyffredinol yn ein holl drafnidiaeth âg eraill; a bod yn barod i gymeryd colled yn hytrach na pheri colled i eraill, Mat. 7. 12; Ps. 15; Zech. 7. 9, 10.

4. Trwy arferiad cydwybodol o ba beth bynnag a gaffom ar goll, neu a ddygasid ar gam, Luc 19. 1; Lef. 5. 2, &c. Deut. 22. 2, 3; Job 20. 10, 18; Ezec. 18, 8, a 33. 15; Exod. 22. 3, 4; Num. 5. 8.

5. Trwy haelioni ac uniondeb, yn rhoddi echwyn yn rhwydd, ond yn gall, i gynnorthwyo eraill, hyd yn nod heb lôg, neu obaith am dâl, os bydd eu hamgylchiadau yn gofyn hyny, Deut. 23. 19, 20; Lef. 25. 35, &c. Ps. 15. 5; Math. 5. 42; Luc 6. 35, &c.

6. Trwy gyfranu yn elusengar o'r hyn sydd eiddo i ni ein hunain mewn gwirionedd, a chyda gwir amcan i gynnorthwyo tlodion, a chefnogi gwasanaeth crefyddol Duw, Luc 11. 41, a 16. 9; 1 Tim. 5. 8; Eph. 4. 28; Preg. 11. 1; 1 Ioan. 3. 17; Gal. 6. 10; Diar. 39; 2 Cor. 9. 7; Math. 6. 3, 4. Rhaid i'r hyn a roddir genym fod yn cael ei roddi o barch i Grist, a'i aelodau tlodion, neu frodyr o ddynolryw. Ac y mae cyfranu yn y modd yma yn eithaf rhesymol; canys yr ydym wedi derbyn y cwbl a feddwn gan Dduw, fel ei oruchwylwyr, Luc 16. 10; 1 Tim. 6. 16, 18; Ps. 112. 9; Diar. 10. 2: ac y mae y cyfryw orchwyl yn anrhydeddus, gan ei fod yn ein cydffurfio â delw Duw yn Nghrist, Luc 6. 35; 2 Cor. 8, 9. Act. 20. 35;

y mae yn ffordd fwyaf gwasanaethgar i sicrhau angenrheidiau priodol i ni ein hunain a'n hiliogaeth, Diar. 11. 24, &c. a 19. 17, a 28. 27; Preg. 11. 22; Ps. 37. 25, &c.; y mae yn fodd-ion mwyaf nodedig i ragflaenu trallod, neu ddiogelu dyddanwch dano, Ps. 41. A'r rhai a gyfranant felly a gyhoeddir yn anrhydeddusaf gan Grist yn y farn ddiweddaf, Math. 25. 34, &c.; ac fe'n gwobrwyir yn helaeth drwy ras yn y nef i dragywyddoldeb, Math. 5. 7, a 6. 4; Luc 16. 9.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Bod Duw yn llwyddo y moddion a ddefnyddir megis gweddi, pwyll a gwyliadwriaeth, ymddibyniad a diwydrwydd. 2. Nad y byd yw ein rhan. 3. Y perygl o fod yn ddisylw o rai mewn angen. 4. Bod cariad at y tlodion yn brawf ein bod mewn cyflwr o ras, 1 Ioan 3. 14. 5. Y perygl o attal oddiwrth y tlawd, yr hyn y mae ar ein llaw i gyfranu. Gwel Math. 25. 42, &c.

## *Pechodau a waherddir.*

HOL. 75. PA BETH A WAHERDDIR YN YR WYTHFED GORCHYMYN?

Pa beth bynnag sydd, neu a all fod yn anghyfiawn luddias ein golud, neu ein heiddo bydol ein hunain neu ein cymmydog.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gwaherddir i ni esgeuluso moddion cyfreithlawn er ennill cyfoeth i ni ein hunain neu ein teuluoedd, 1 Tim. 5. 8. "Od oes neb heb ddarbod dros yr eiddo, ac yn enwedig ei deulu, efe a wadodd y ffydd, a gwaeth yw na'r diffydd."

2. Y gwaherddir i ni wneuthur yr hyn a rwystro gynnydd ein golud, neu ein heiddo bydol, Diar. 23. 21. "Y meddw a'r glwth a ddaw i dlodi; a chysgu a bair fyned mewn gwisg garpiog." Gwel hefyd Diar. 21. 17.

3. Y gwaherddir i ni esgeuluso yr hyn a bair gefnogaeth i gynnydd golud eraill, pan fyddo yn ein gallu, Deut. 15. 8. "Ond gan agoryd agor dy law iddo, a chan fenthyccio benthyccia ddigon i'w angen ef, yr hyn fyddo arno ei eisiau."

4. Y gwaherddir i ni wneuthur dim a fyddo yn lluddias cynnydd golud eraill, Zech. 8. 17. "Ac na fwriedwch ddrwg neb i'w gilydd yn eich calonau." Gwel hefyd Eph. 4. 28.

EGLURHAD.

Sylw 59.—*Mae yr wythfed Gorchymyn yn gwahardd pa beth bynnag sydd, neu a all fod yn annghyfiawn luddias ein golud neu ein heiddo bydol.*

Nyni a allwn fod yn euog o hyn yn y ffyrdd canlynol:—

1. Trwy seguryd, 2 Thess. 3. 10, &c. 1 Tim. 5. 13. 1 Thess. 4. 11, &c.

2. Trwy ddïofalwch a syrthni, Diar. 13. 4; a 6. 10, 11; a 23. 1; a 24. 30, &c; a 28. 19.

3. Trwy beidio ymddibynu ar Dduw, a'i gydnabod ef yn ein gorchwylion bydol, Deut. 8. 28. Ps. 107. 38.

4. Trwy wastraffu yn afradlon yr hyn a roddo Duw i ni, Diar. 21. 17. Luc 15. 13, 30.

5. Trwy ymrwymiadau anystyriol mewn cyfreithiau a machnïaeth, Math. 5. 40. 1 Cor. 6. 1, &c. Diar. 6. 1, &c. a 22. 26, &c.

6. Trwy gyfranu yn ffol i rai na byddo angen arnynt, neu i segurwyr, neu wastraffwyr, a thrwy echwyna yn anystyriol i anturwyr byrbwyll, neu afradloniaid treulgar, a'r cyffelyb, Ps. 125. 5.

7. Trwy bryder anymddiriedol wrth geisio ennill a chadw pethau daiarol, Math. 6. 31, &c. Diar. 28. 22. Preg. 4. 8.

8. Trwy gybydd-dod,—bod heb galon i fwynhau mewn modd teilwng a gradd brïodol, y golud a feddwn, neu fyned dan y draul brïodol yn ein hamgylchiadau, Preg. 6. 1, &c.

9. Trwy ymarferiad o alwedigaethau annghyfreithlawn; megis chwareuyddiaethau, twyll fasnachaeth, &c; ac ymgrafangu am olud annghymedrol, trwy yr hyn y tynwn felldith Duw ar yr hyn a feddwn. Ni's gellir ceisio bendith Duw ar eiddo annghyfiawn o'r fath; ac y mae y cyfryw ymarferion yn disgyn dan felldith Duw, fel lladratta, ac wrth eu cefnogi yr ydym yn gwneyd cam â ni ein hunain, Zech. 5. 4. Hag. 1. 6.

Sylw 260.—*Mae yr wythfed Gorchymyn yn gwahardd pa beth bynnag a all luddio golud neu ffyniant bydol eraill mewn annghyfiawnder.*

Yn mysg y ffyrdd trwy y rhai y gellir lluddias golud ein cymmydog yn annghyfiawn, gellir nodi y rhai canlynol:—

1. Heblaw lladrad uniongyrchol, yr ydym yn lluddias cyfoeth ein cymmydog trwy chwennychiad cybyddlyd am feddu ei eiddo, a thrwy seguryd. Heb. 13. 5. Col. 3. 5. Jos. 7. 21, &c. Eph. 4. 28. Math. 20. 6.

2. Trwy fudr elw a ennillir mewn ffordd gybyddlyd ac

annghyfreithlawn, a thrwy alluogi rhai i ennill eu bywioliaeth trwy ddifyrwch annghyfreithlawn, Hab. 2. 15.

3. Trwy fasnachaeth Simonaidd mewn doniau ysbrydol, maddeuant, ceryddon, bywioliaethau eglwysig, neu bethau cyssegredig eraill; eu rhoddi, neu eu ceisio am arian, drwy ffafr, neu y cyffelyb, Job 15. 34.

4. Trwy dwyll teuluaidd, naill ai gan wŷr, neu wragedd, neu blant, neu weision, 1 Tim. 5. 8. Diar. 28. 24; a 31. 12. Tit. 2. 9, 10.

5. Trwy gymeryd mantais ar anwybodaeth ein cymmydogion, neu y gorfodaeth a fyddo arnynt i brynu neu werthu, yr hyn a wneir, (1.) Trwy ganmoliaeth dwyllodrus ac anweddus o'r peth a werthir, neu ddweyd yn ddrwg am yr hyn y bwriedir ei brynu, Diar. 20. 14. (2.) Trwy lygru yr eiddo, neu werthu un rhyw, a rhoi peth gwaelach na'r esiampl, Amos 8. 5, 6. (3.) Trwy ddefnyddio mesur a phwysau twyllodrus mewn masnach, Am. 8. 5. Mic. 6. 10, 11. Diar. 11. 1. Lef. 19. 35, &c. a 24. 14.

6. Trwy ddrwg daliad o'n dyledion, heb dalu yn brydlawn, yn gyflawn, nac mewn arian cyfreithlawn, Ps. 15. 4. Act. 5. 1, &c. Gen. 23. 16.

7. Trwy gydfasnachaeth anonest, gan gymeryd y rhan fwyaf o'r elw, tra yn meddu y rhan leiaf o'r eiddo, neu yn rhoddi y rhan leiaf o lafur i'w gynnyrchu, Math. 7. 12. 1 Thess. 4. 6.

8. Trwy symmud terfynau ein cymmydogion, niweidio eu hŷd, eu gwair, eu da, neu eu cyfleusderau, hudo eu gweision, neu eu cwsmeriaid oddiarnynt, ymwthio i'w masnach, neu y cyffelyb, Heb. 13. 1. Diar. 22. 28. a 23. 10. Mic. 2. 2; a 7. 2.

9. Trwy fod yn anonest i ymddiried, yn enwedig tuag at y tlawd, yr amddifaid, a'r gweddwon, Diar. 23. 10, &c. Luc 16. 1, &c. a 20. 47.

10. Trwy fod yn anonest mewn echwyn, Exod. 22. 14, 25, &c. Ps. 15. 5. Math. 5. 42. Mewn cyssylltiad â hyn y gellir golygu myned i ddyled yn annghyfiawn; sef, naill ai heb un bwriad i dalu, neu heb fodd tebygol mewn golwg i allu cyflawni ein haddewidion yn brydlawn; neu, pan na byddo un angenrheidrwydd o'n tu ni; neu pan y gwneir hyny er niwed i eraill,—gan bwrcasu pethau y gallem wneyd y tro hebddynt, Ps. 37. 21. 1 Thess. 4. 6. Esa. 59. 14.

11. Trwy fethdaliad twyllodrus, Luc 15. 10. Jer. 9. 4, &c.

12. Trwy ddefnyddiad digêd a phechadurus o'n heiddo ein hunain: fel y rhai a ystoriant ŷd a phethau anngenrheidiol eraill, gan eu hattal pan na's gall y wlad wneyd hebddynt, Diar. 11. 26; anmhoblogi pentrefydd trwy gau cyttiroedd, a

dwyn meusydd trwy drais, Esa. 5. 8. a Mica 2. 2. Mewn cyssylltiad â'r pechod yma y gellir golygu gorthrymder, neu lethu ein cymmydogion trwy ein cyfoeth, ein gallu, neu ein dylanwad rhagorach, trwy ymgyfreithio gofidus, attal gwystlon, a'r cyffelyb. Mica 3. 2, 3. Ezec. 22. 7. Mal. 3. 5. Exod. 22. 26, &c. Deut. 24. 6. 1 Cor. 5. 11. a 6. 10.

13. Trwy fod mewn cyssylltiad â lladron, trwy demtio neu annog eraill i ladratta, Ps. 29. 24; trwy beidio rhoddi attalfa ar yr ymddygiad brwnt yma tra fyddo yn ein gallu, neu beidio ei gosbi fel yr haeddai; neu trwy dderbyn, a chelu eiddo lladrad.

14. Trwy fod yn annrhugarog wrth y tlawd, Eph. 4. 28. Mae hyn yn anniolchgarwch brwnt i Dduw, Mat. 18. 23, &c. Luc 16. 10; llofruddio y tlawd yw, 1 Io. 3. 15. Iag. 2. 16, &c. ac y mae yn brawf ein bod yn amddifaid o ras Duw, 1 Io. 3. 17. Y mae yn annog Duw i fod yn annrhugarog wrthym ni, Iag. 2. 13. a 5. 4. Diar. 21. 13; ac yn anweledig yn treulio ein meddiannau, Diar. 11. 24, &c. Iag. 5. 2, 3; ac os ymgyndynir ynddo, fe bair collfarnu o'r diwedd, Mat. 25. 41—46.

15. Trwy ddiffyg cyssegr-yspeilgar yn yr esiampl dda, yr addysg grefyddol, y weddi daer, a dyledswyddau pwysig eraill, drwy ba rai y gallem fod yn wasanaethgar i'n cymydog, er ei les tymhorol a thragywyddol, Heb. 10. 24.

16. Trwy attal oddiwrth gynhaliaeth yr efengyl; neu beidio cyfrannu yn gyfattebol i'n gallu. Gwel Math. 3. 8. Neh. 10. 32, a 13. 10. Hag. 1. 4. 1 Cor. 9. Mae Duw yn ystyried y pechod hwn yn cael ei amçanu yn ei erbyn ef ei hunan, ac y mae yn brawf tra sicr nad yw y rhai ydynt euog o hyn, erïoed eto wedi derbyn yr efengyl mewn cariad, pa beth bynnag a ddywedo dynion. Mae y rhai a wir brofasant werth newyddion da yr iachawdwriaeth iddynt eu hunain yn sicr o wneyd a allont i'w hanfon i eraill. Gwel orchymyn ein Harglwydd i'w holl ddysgyblion ar hyn. Math. 28. 19, 20. Marc 16. 15, 16.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y dylem arfer y byd heb ei gam arfer. 2. Y dylem gydnabod Duw wrth gasglu eiddo yn nghyd, ac wrth ei wasgaru. 3. Drwg y pechod o ladratta,—y mae yn melldithio, yn gwaradwyddo, yn dwyn i ddiwedd anamserol, ac yn cau allan o deyrnas nefoedd, onid edifarheir o'i herwydd, Zech. 5. 3, 4; Job 30. 5; 1 Cor. 5. 10. 4. Y angenrheidrwydd o foddlonrwydd ar ein rhan. 5. Y dylem ochelyd ysbryd cybyddlyd, a segurdod. 6. Na's gellir cuddio

y pechodau a waherddir yn y gorchymyn hwn rhag Duw hollwybodol. 7. Y dylem ni fod yn hollol gyfiawn yn mhob peth, Math. 7. 12. 8. Nad oes un grefydd ag annghyfiawnder yn trigo ynddi. 9. Yr angenrheidrwydd am wyliadwriaeth.

DOSP. 5.—Y NAWFED GORCHYMYN.

HOL. 76. PA UN YW Y NAWFED GORCHYMYN?

"Na ddwg gam dystiolaeth yn erbyn dy gymmydog." Exod. 20. 16; Deut. 5. 20.

*Dyledswyddau gofynol.*

HOL. 77. PA BETH A OFYNIR YN Y NAWFED GORCHYMYN?

Mae y nawfed Gorchymyn yn gofyn i ni feithrin gwirionedd rhwng gwr a gwr, a gofalu am ein henwau da ein hunain a'r eiddo ein cymmydog, yn enwedig mewn dwyn tystiolaeth.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod yn rhaid i ni ddweyd y gwir a sefyll drosto yn wastadol. Zech. 8. 16. "Dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog."

3. Y dylem ymdrechu i feithrin y gwirionedd. Phil. 4. 8. "Pa bethau bynnag sydd wir,—meddyliwch am y pethau hyn."

3. Y dylem ymdrechu i amddiffyn ein henw da ein hunain. Mat. 5. 16. "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." Gwel hefyd 2 Cor. 11. 16, 18, 23; 1 Pedr 3. 16.

4. Y dylem ymdrechu i amddiffyn enw da ein cymmydog. Tit. 3. 2. "Bod heb gablu neb." Gwel hefyd Ps. 101. 5.

5. Bod dyledswydd arbenig arnom i ddweyd y gwir wrth ddwyn tystiolaeth. Diar. 14. 5. "Tyst ffyddlawn ni ddywed gelwydd."

EGLURHAD.

Sylw 261.—*Mae y nawfed Gorchymyn yn gofyn i ni faentumio a chefnogi gwirionedd yn mysg dynion.*

Dylem wneuthur hyny yn y ffyrdd canlynol:—

1. Trwy ddweyd dim ond y gwirionedd, fel y byddom yn

meddwl, ac fel y mae pethau mewn gwirionedd; canys y mae yn anmhossibl dweyd y gwir, oni bydd y galon a'r tafod yn cyduno, Ps. 15. 2; 2 Thess. 2. 11, &c.

2. Trwy draethu y gwirionedd ar bob achlysur prïodol, Zech. 8. 16, 19.

3. Trwy ddwyn tystiolaeth pan yn angenrheidiol mewn llŷs barn; a datgan y gwirionedd yn rhydd, yn eglur, yn gyfiawn, yn ddidwyll, a diduedd, a dim ond y gwir, Jer. 4. 2; Diar. 19. 5; 1 Sam. 19. 4, &c. 2 Sam. 14. 18, &c. 2 Cron. 19. 9; Jos. 7. 19.

Sylw 262.—*Mae y nawfed Gorchymyn yn gofyn i ni amddiffyn ein henw da ein hunain.*

A dylem wneuthur hyny yn y ffyrdd canlynol:—

1. Trwy ymaflyd yn nghyfammod grasol Duw, fel y caffom ei enw newydd ef arnom, ac y byddo ei anrhydedd yn rhwym yn mhlaid ein nodweddiad, Esa. 56. 5, a 62. 4, 13.

2. Trwy feithrin y cyfryw feddyliau yn unig ag a fyddo yn anrhydeddus i wirionedd, ac i'n nodweddiad, Phil. 4. 8.

3. Trwy beidio dweyd dim am danom ein hunain, ond a fyddo yn wirionedd pur, mewn canmoliaeth na gogan; a hyny yn unig pan y byddo galwad dyledus arnom, Diar. 27. 2; a 25. 16; a 26. 16. Yn gyssylltiedig â hyn, y mae cuddio yn synhwyrol ein pechodau a'n gwendidau dirgel, y rhai nid oes un alwad Ddwyfol arnom i'w cyffesu i ddynion, Diar. 25. 9, &c. A hefyd bod i ni amddiffyn ein nodweddiad mewn addfwynder pan ymosoder arnom yn annghyfiawn, Io. 5, a 7, a 8, a 10. Act. 22, a 24. a 26.

4. Trwy ochel pob peth pechadurus neu annoeth yn ein hymddygiadau, a phob rhith o'r cyfryw; a thrwy ddilyn pob peth da, a gweddus i'n sefyllfa, yn ddyfal, Preg. 10. 1; 1 Thess. 5. 22; Phil. 4. 8; 2 Pedr 1. 4, &c.

Sylw 263.—*Mae y nawfed Gorchymyn yn gofyn i ni amddiffyn enw da ein cymmydog.*

1. Trwy ddymuniad diffuant am ei weled wedi ei wisgo a'r nodweddiad anrhydeddus o gyfaill a phlentyn Duw. Iago 5. 20; Rhuf. 10. 1; 1 Pedr 4. 8.

2. Trwy ei barchu mewn cariad, Rhuf. 12. 10; Phil. 2. 3.

3. Trwy orchuddio ei wendidau yn garedig, Iago 5. 20. 1 Pedr 4. 8.

4. Trwy fod yn barod i gydnabod ei ddoniau, ei rasusau, a'i ymddygiad da, Col. 4. 12; Phil. 2. 19, &c. 1 Cor. 1. 4, &c.

5. Trwy amddiffyn ei nodweddiad pan ymosodir arno yn annghyfiawn, 1 Sam. 22. 14.

6. Trwy roddi derbyniad rhwydd i air da am dano, a thrwy fod yn anmharod i dderbyn dim a dueddo i'w ddïanrhydedd, 1 Cor. 13. 6, &c. Ps. 15. 3; 1 Sam. 22. 14, 15.

7. Trwy roddi gwrthwynebiad difrifol i chwedleuwyr, enllibwyr, ac athrodwyr; a thrwy ymdrechu i'w dwyn i waradwydd a chosbedigaeth, Ps. 101. 5; Diar. 25. 23; 2 Cor. 12. 20.

8. Trwy wylio dros ein cymmyddog o wir gariad atto; a thrwy gynghor prïodol, rhybudd a cherydd. Lef. 19. 16, &c. Math. 18. 15, &c. 1 Thess. 5. 14. 2 Thess. 3. 14.

CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Nad yw y rhai nid ydynt yn caru y gwirionedd, wedi ei geni o Dduw. 2. Bod y gwirionedd yn deilwng o'i ddweyd. 3. Bod pob celwyddwyr a thwyllwyr yn gas gan Dduw. 4. Gwerth enw Duw.

## *Pechodau a waherddir.*

HOL. 78. PA BETH A WAHERDDIR YN Y NAWFED GORCHYMYN?

Pa beth bynnag a fyddo yn groes i'r gwirionedd, neu yn newidiol i'n henw da ein hunain, neu yr eiddo ein cymmydog.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gwaherddir i ni wneyd dim a fyddo yn groes i'r gwirionedd, Eph. 4. 25. "Gan fwrw ymaith gelwydd, dywedwch y gwir bob un wrth ei gymmydog." Gwel hefyd Col. 3. 9. Rhuf. 3. 13.

2. Y gwaherddir i ni wneyd dim a fyddo yn niweidiol i'n henw da ein hunain, Job 27. 6. "Yn fy nghyfiawnder y glynais, ac ni's gollyngaf hi; ni waradwydda fy nghalon fi tra fyddwyf byw." Gwel hefyd adn. 5.

3. Y gwaherddir i ni wneyd dim a fyddo yn niweidiol i enw da ein cymmydog, Exod. 23. 1, "Na chyfod" (ar ymyl y ddalen, *na dderbyn)* "enllib; na ddod dy law gyd a'r annuwiol i fod yn dyst anwir."

EGLURHAD.

Sylw 264.—*Mae y nawfed Gorchymyn yn gwahardd pa beth bynnag a fyddo groes i'r gwirionedd.*

1. Mewn *cynghaws barnol,* fe droseddir y gorchymyn yn y dulliau canlynol;—

(1.) Mae yr *erlynydd* yn euog o droseddu y gwirionedd, pan y mae yn gofyn y diffynydd yn annghyfiawn; neu, pan y mae yn rhoddi yn ei siars bethau na's gŵyr efe, neu bethau y crêd efe ei fod yn ddiniwed oddiwrthynt, neu pan ddyru au-dystion ar waith, Act. 24. 5, a 25. 7; Luc 19. 8; Act. 6. 13.

(2.) Mae y *diffynydd* yn euog o'r pechod yma pan y gwado achwyniad a fyddo cyfiawn, pan y'i gelwir i gyffesu; neu, pan y defnyddio ddichellion i ochel yr erlynydd, a pheri traul a thrafferth dïangenrhaid i hwnw gael cyfiawnder, Diar. 28. 13.

(3.) Mae *tystion* yn euog o'r pechod yma, nid yn unig pan yn dwyn cam dystiolaeth eglur, ond hefyd, pan y gwadont, neu y darnguddiont y gwirionedd, yr hyn yw y brif ffordd i attal gweinyddiad cyfiawnder, Diar. 19. 5, 9; a 25. 18. Mal. 3. 5. Deut. 19. 15.

(4.) Mae *Dadleuwyr* yn euog o'r pechod hwn pan yn cymeryd arnynt ddadleu dros, neu amddiffyn achos drwg; gan ei ystyried yn rhan o'u swydd hwy i sefyll dros yr hyn sydd gam, cystal a'r hyn sydd gymhwys a uniawn, Act. 24. 2.

(5.) Mae *Barnwyr* yn euog o'r pechod yma pan yn cyhoeddi dedfryd fyrbwyll, bleidiol, ac annghyfiawn: a thrwy hyny yn gwyro barn, gan gyfiawnhau y drygionus, a chondemio y cyfiawn, yr hyn sydd ffiaidd, Mat. 27. 24, &c. Mic. 7. 3. Esa. 59. 13, &c; ac y mae yr ymadrodd olaf a grybwyllwyd yn cael ei wirio yn rhy fynych yn y dyddiau hyn.

2. Fe droseddir y gorchymyn hwn mewn buchedd gyffredin yn y ffyrdd canlynol:—

(1.) Trwy anffyddlondeb,—bod heb dalu sylw prïodol i addewidion, eu gwneyd yn rhyfygus, neu fyned i sefyllfeydd a pherthynasau a fyddo yn eu rhoddi ar ddeall, a heb ofal dyledus am eu cofio a'u cyflawni, Rhuf. 1. 31. 2 Tim. 3. 3. Jer. 9. 3, &c. Hos. 4. 1.

(2.) Trwy ddystawrwydd anmhrïodol,—pan fyddo anwiredd yn gofyn am i ni ei geryddu ein hunain, neu roddi cwyn o'i achos ger bron y pennaethiad, Lef. 5. 1; a 19. 17. Deut. 13. 6, &c. Marc 8. 38. Eph. 5. 7. Mat. 18. 15.

(3.) Trwy ddweyd y gwir yn anamserol, neu yn faleisus, neu ei wyrdroi i gam ystyr, Diar. 29. 11. 1 Sam. 22. 8, &c. Ps. 52. 2, &c. Math. 26. 60, &c.

(4.) Trwy ddefnyddio geiriau o ddau arwyddocäad mewn ystyr wahanol i'r hyn y dysgwyliwn i arall eu deall; a thrwy ddarngelu rhyw eiriau yn ein meddyliau ein hunain, yr hyn a roddai i'n hymadroddion ystyr wahanol i'r hyn a ymddengys iddynt, Gen. 20. 2, 12; a 26. 6, 7.

(5.) Trwy ragrith,—hyny, yw, trwy ymddangos fel pe bydd-

em, neu pe gwnelem ryw beth na byddwn, neu nas gwneir genym, Math. 23. Esa. 29. 13. 2 Tim. 3. 5. Tit. 1. 16. Yn gyssylltiedig a hyn y gellir golygu pob math ar ffug ysgrifau, ffugio arian, ffugio *gwritiau*, *&c.*, a phob peth sydd wrthwyneb i'r gwirionedd, ac a dueddo i niweidio cymdeithas, Ps. 119. 69.

(6.) Trwy ddweyd yr hyn na byddo yn wirionedd, er ein bod ni yn meddwl ei fod yn wir, Zech. 8. 16, 19.

(7.) Trwy farnu yn fyrbwyll, neu gadarnhau a gwadu heb sicrwydd priodol, 1 Cor. 13. 6.

(8.) Trwy gelwydd amlwg, neu ddweyd yr hyn y gwyddom mai celwydd a fydd, gyd ag amcan i dwyllo ein cymmydog, Hos. 4. 2. Jer. 9. 3, &c. Esa. 59. 18. 1 Bren. 13. 18. Gen. 3. 4, &c. Eph. 4. 2. O hwn y mae amryw fath, megys dweyd celwydd mewn cellwair, Hos. 7. 8;—dweyd celwydd er elw, 2 Bren. 5. 22, &c. Rhuf. 3. 8;—dweyd celwydd er rhagflaenu perygl, Gen. 12. 11; a 20. 2; a 26. 7. Marc 14. 68, &c.;—dweyd celwydd er gwneyd niweid, Diar 6. 16, &c. Act. 6. 11, &c.; a 24. 5;—a dweyd celwydd oddiar arfer neu yn rhyfygus, 2 Sam, 13. 30. Y mae yr holl rywogaethau uchod yn dra phechadurus.

Sylw 265.—*Mae y nawfed Gorchymyn yn gwahardd pa beth bynnag sydd yn niweidiol i'n henw da ein hunain.*

Gellir niweidio ein cymeriad ein hunain yn y ffyrdd canlynol:—

1. Yn ein *calon*, trwy feddwl yn rhy uchel, neu rŷ wael am danom ein hunain, a'n cyfrif ein hunain yn llai dyledus i Dduw am ei ddoniau, nag y byddwn mewn gwirionedd. Exod. 4. 10, &c. Diar. 25. 14; a 26. 12, 16.

2. Yn ein *geiriau*, trwy ein cybuddo ein hunain yn annghyfiawn, neu o leiaf yn annhymoraidd, o amrywiol anmherffaithiau a chamweddau, pan na byddo gwir alwad yn nhrefn rhagluniaeth Ddwyfol arnom i hyny, Diar. 25. 9, &c. Job 27. 5, 6; neu trwy wadu gwirionedd, neu gadarnhau anwiredd yn ein ffafr ein hun, Diar. 28. 13. 2 Bren. 5. 25. Act. 5. 8.

3. Yn ein *hymddygiad*, trwy wneyd yr hyn a fyddo yn bechadurus ynddo ei hunan, neu yn annghall o leiaf, 1 Sam. 2. 24; neu trwy ymuno â chymdeithion drwg, Diar. 5. 8, 9; neu trwy ymwthio i sefyllfeydd ag amgylchiadau lle ni's gallwn ymddwyn yn anrhydeddus i ni ein hunain ac i Dduw. 2 Bren. 8. 13.

Sylw 266.—*Mae y nawfed Gorchymyn yn gwahardd pa beth bynnag a niweidio enw da arall.*

Gallwn niweidio cymeriad ein cymmydog yn y ffyrdd canlynol:—

1. Yn ein *calon*, trwy ddrwg-dŷb, 1 Tim. 6. 4; trwy ffurfio barn galed a byrbwyll am dano, Math. 7. 1, &c. 1 Cor. 14. 7; trwy ein gwneyd ein hunain yn brawfedyddion wrth y rhai y barnwn eraill, Rhuf. 14. 3, 10; trwy farnu eu cydwybodau, eu cyflwr, neu eu dybenion, fel pe byddem yn lle Duw, Rhuf. 14. 4; trwy gam ddëongli eu bwriadau, geiriau, neu weithredoedd, Rhuf. 3. 8; trwy eu diystyru yn ddirgelaidd, 2 Sam. 6. 16; Luc 18. 9, &c.; trwy genfigenu wrth eu henwogrwydd cyfiawn, Math. 21. 15; trwy ymhyfrydu yn eu gwaradwydd, Jer. 48. 27; neu trwy ei gor-fawrygu, Judas 16.

2. Yn ein *hymadrodd*, trwy ddweyd y gwir er eu dïanrhydeddu, Luc 15. 2; Marc 6. 3; trwy ddatguddio eu gwendidau yn ddïangenrhaid, Gen. 9. 22; trwy fwyhau eu gwir gamweddau, Math. 7. 3, &c.; trwy ail edliw hen gamweddau, am y rhai yr edifarhasant, a'r rhai a aethant i anghof cyffredinol, 2 Sam. 16. 7; trwy fradychu eu cyfrinach, Diar. 17. 9; 2 Tim. 3. 4; trwy ymdrechu i archolli eu cymeriad, Ezra 4. 12, &c. Math. 12. 22, &c.; trwy godi, taenu, neu dderbyn chwedlau celwyddog yn eu cylch, Exod. 23. 1; Neh. 6. 6; Jer. 18. 18; trwy eu henllibio ar gam, Ps. 50. 20; trwy gam achwyn arnynt yn faleisus ger bron y swyddogion, Act. 24. 5; Jer. 38. 4; trwy archolli eu cymeriad yn eu habsen, Rhuf. 1. 29; 2 Cor. 12. 20; trwy gludo chwedlau rhwng teuluoedd, Lef. 19. 16; 2 Thess. 3. 11; trwy gefnogi athrodwyr, neu beidio eu dwyn i gosbedigaeth brïodol, Diar. 29. 12; trwy eu gwawdio yn ddirmygus, Gal. 4. 29; Heb. 4. 36; trwy eu galw ar enwau drwg, Math. 5. 22; neu trwy ymeiriau nwydwyllt, Ps. 62. 2, a 64. 3, &c. Judas 10.

3. Yn ein *hymddygiad*, trwy ystumiau drwgdybus a dirmygus, Ps. 22. 7; Diar. 6. 12. 13; trwy droi ein cefnau ar eraill heb sail ddigonol, Gal. 2. 12; trwy esgeuluso eu rhybuddio, neu eu hattal i wneyd yr hyn sydd bechadurus neu annghall, a'u tynu i'r cyfryw ymddygiad trwy gyngor, annogaeth, neu esiampl, er niweid i'w cymeriad, 1 Sam. 2. 13, a 3. 13; Ezec. 36. 6, &c.

Sylw 267.—*Mae y nawfed Gorchymyn yn gwahardd pa beth bynnag a dueddo i wneyd cam â'r gwirionedd, neu â'n nodweddiad ein hunain, neu yr eiddo eraill.*

Gellir crybwyll y pethau canlynol yma:—1. Parodrwydd gormodol i siarad mewn cwmpeini, trwy yr hyn yr amlygwn falchder a gwagedd ein calonau, ac y dangoswn ein hunain yn ffyliaid, Preg. 5. 3, a 10. 14; Diar. 10. 19. 2. Segur siarad, yr hyn ni thuedda at unrhyw ddyben da, gwladol na chrefyddol, Math. 12. 36; Eph. 5. 4. 3. Cellwair afreolaidd,

Eph. 5. 4. 4. Gweniaith, yr hyn a gynnwys lawer o waeledd, geudeb, twyll, a bradwriaeth yn y rhoddwr. Gwel Ps. 12. 3, a 36. 3; Act. 12. 22, 23, lle y cawn ni ennghraifft o'r gweniaith ffieiddiaf.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y dylem gadw y gwirionedd fel peth cyssegredig yn mhob sefyllfa. 2. Mai Duw gwirionedd yw yr Arglwydd. 3. Y perygl o fod yn gelwyddog. 4. Yr angenrheidrwydd o wylio ar ein tafod. 5. Yr angenrheidrwyddam ddoethineb oddi uchod, ac am fod yn ddyfal mewn gweddi.

---

DOSP. 6.—Y DDEGFED GORCHYMYN.

## HOL. 79. PA UN YW Y DEGFED GORCHYMYN?

"Na chwenych dŷ dy gymmydog, na chwenych wraig dy gymmydog, na'i wasanaethwr, na'i wasanaethferch, na'i ŷch, na'i asyn, na dim ar sydd eiddo dy gymmydog." Exod. 20. 17; Deut. 5. 21.

*Dyledswyddau a ofynir.*

## HOL. 80. PA BETH A OFYNIR YN Y DEGFED GORCHYMYN?

Llwyr foddlonrwydd ar ein cyflwr ein hunain, a naws ysbryd uniawn a charedig tuag at ein cymmydog a'r oll sydd eiddo.

DOSBANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gofynir i ni fod yn foddlawn ar ein sefyllfa yn y byd hwn, Heb. 13. 5. "Bydded eich ymarweddiad yn ddi-ariangar: gan fod yn foddlawn i'r hyn sydd genych."

2. Y gofynir i ni feithrin teimlad priodol a charedig tuag at berson ein cymmydog. Rhuf. 12. 15. "Byddwch lawen gyda'r rhai sydd lawen, ac wylwch gyda'r rhai sydd yn wylo."

3. Y gofynir i ni feithrin teimlad priodol tuag at eiddo ein cymmydog, Luc 12. 15. "Edrychwch ac ymogelwch rhag cybydd-dod." Gwel hefyd 1 Cor. 13. 4.

EGLURHAD.

Sylw 268.—*Mae y degfed Gorchymyn yn gofyn i ni fod yn hollawl foddlawn ar ein sefyllfa.*

Mae y llawn foddlonrwydd a ofyna y Gorchymyn hwn oddiwrthym, gyda golwg ar y sefyllfa yn yr hon y'u cyflëwyd gan ragluniaeth, yn cynnwys y pethau canlynol:—

1. Cymeradwyad calonog o ewyllys Duw fel yr unig rëol fawr a chyffredinol, er llywodraethu ein cyfran o ran ei ffurf a'i gradd, Ps. 47. 4.

2. Ymostyngiad trwyadl i ewyllys Duw, fel un doeth a sanctaidd, cyfiawn a da, a graslawn yn ei holl drefniadau rhagluniaethol o honom ni, neu o unrhyw beth perthynol i ni. Math. 16. 24. Phil. 4. 11, 12.

3. Tawelwch tufewnol dan ei attaliad o gysuron allanol, a boddlonrwydd ar ein rhan fel un dda, a'r oreu i ni, Hab. 3. 17, 18. 2 Sam. 15. 25, 26, a 16. 10, &c.

Heblaw y pethau crybwylledig, mae y gorchymyn hwn hefyd yn gofyn diddyfniad y serchiadau o bob mwynhad crëedig: oblegyd, os dodwn ein bryd yn annghymedrol ar yr hyn a fwynhawn yn bresenol, byddwn yn euog o ryw fath o gybydddod. A gallwn sylwi ar y pethau canlynol yma,—1. Rhaid i'n calonau ddysgu bod yn ddïafael mewn mwynderau crëedig, Luc 14. 26. Ps. 131. 1, &c. 2. Ni wiw i ni ddysgwyl dim o honynt ond a roddo Duw ynddynt, Esa. 17. 10; a 57. 10. 3. Rhaid i ni sugno ein holl gysur o Dduw yn unig, yn nghanol llawnder cystal ag mewn prinder, Ps. 18. 46. 1 Sam. 2. 1, &c. Ps. 142. 4, 5. Hab. 3. 17, 18. 3. Rhaid i ni ddefnyddio pob mwynderau crëedig fel pethau gwywedig a darfodedig, a marweiddio pob gradd o chwant am danynt, 1 Sam. 14. 32. 1 Cor. 7. 29, &c.

Mewn trefn i *gyrhaeddyd* y boddlonrwydd trwyadl yma ar ein rhan, yr hyn sydd yn gymmaint er gogoniant i Dduw, ac yn rhagflaenu pechod mewn meddwl, gair, a gweithred, y mae y pethau canlynol yn angenrheidiol;—1. Rhaid i ni dderbyn Duw yn Nghrist, fel ein Duw, megis y'i cynnygir yn yr efengyl, fel ffynhonell a swm yr holl ddaioni sydd i'w gael yn y creaduriaid, Ps. 23, a 73. 23—26, 81. 8, &c. 2. Rhaid i ni gredu mai Duw, fel Duw cyfammodol ei bobl, fel eu Cyfaill a'u Tad, yw gwneuthurwr a llywodraethwr pob peth, Job 34. 33. Esa. 46. 3, 4; a 52. 7. Math. 6. 30.

Pan gyrhaeddir yr ystad yma o foddlonrwydd gellir ei *nerthu* trwy ystyriaeth o'r pethau hyn;—1. Mai ar drugaredd a haelioni Duw yn unig yr ydym ni ein hunain yn ymddibynu, Gen. 32. 10. Esa. 63. 7. Ps. 35. 6, 7. 2. Mai yr angenion a'r cystuddiau perthynol i'n rhan allanol, sydd debyg o fod yn fwyaf gwasanaethgar i'n heneidiau gwerthfawr, 2 Cor. 4. 17. Ps. 119. 67, 71. Mic. 7. 14. Dat. 3. 19. Heb. 13. 5, &c.

3. Bod mwynderau bydol yn dragweigion yn wastadol, ac yn niweidiol yn fynych, Diar. 23. 5. Deut. 32. 15. Hos. 13. 6; a holl lyfr y Pregethwr. 4. Fod ein temtasiynau, ein beichiau, ein gwasanaeth, a'n cyfrif yn y diwedd, yn gymesur â'n mwynderau, Math. 25. 14, &c. Luc 19. 12, &c.; a 12. 47, 48. 5. Mai po mwyaf a fwynhaom yn y byd hwn, mwyaf fydd ein perygl, Marc 10. 23. 6. Bod Iesu Grist wedi nodi ein ffordd drwy bob trallod, ac yn ein dilyn i ddwyn, arweddu, a gwaredu, Esa. 46. 3, 4; a 63. 9. 7. Bod angau a thragywyddoldeb, yn y rhai ni's gall mwynderau daiarol fod o un gwasanaeth i ni, lle y cawn fedi dedwydd ffrwyth ein llafur, gerllaw, Ioan 16. 33. Act. 14. 22. Math. 19. 29. Rhuf. 8. 17, 18. 2 Cor. 4. 17, &c.

Gellir sylwi yma, os ydym yn amcanu at berffeithrwydd deddfol, ei fod yn hollol anmhossibl cyrhaedd y boddlonrwydd hwnw y mae y gorchymyn hwn yn ei ofyn, yn y fuchedd hon. Nid yw hyn yn fwy cyrhaeddadwy yn ein sefyllfa gwympedig bresenol, nag yw ufudd dod i unrhyw orchymyn Dwyfol arall. Ond, ni wiw edrych am berffeithrwydd unrhyw ras yma. Eto gall y perffeithrwydd fod yn gyflawn o ran rhanau, er na byddo felly o ran graddau. Gwel Phil. 4. 11. Ac er fod yn anhawdd cyrhaedd y boddlonrwydd a ofynir yma, eto, gan ei bod yn ddyledswydd, nyni a ddylem ymestyn atti; canys trwy hyny y gogoneddir Duw, ac y llenwir yr enaid a thangnefedd.

Sylw 269.—*Mae y degfed Gorchymyn yn gofyn naws ysbryd cywir a charedig tuag at ein cymmydog a'r hyn oll a fedd efe.*

Gall hyny gynnwys y pethau canlynol:—

1. Cariad o'r galon at ei berson, er mwyn Duw, ei wneuthurwr, Rhuf. 13. 9, &c.

2. Gofal caredig am ei eiddo er ei fwyn ei hunan, ond yn benaf er mwyn Duw, Deut. 22. 1.

3. Dymuniad diffuant am, ac ymhyfrydiad trwyadl yn ei lwyddiant tymhorol, ysbrydol, a thragywyddol, Rhuf. 12. 15. Heb. 13. 3. Ps. 35. 13, &c. Rhuf. 12. 30, &c.

Ond, y mae yn ofynol i ni gofio, na's gellir cyrhaedd y naws ysbryd yma heb ffydd; ac ni's gallwn gyflawni ein dyledswydd yn y peth hwn oni bydd ein serchiadau yn cael eu dylanwadu gan ras; trwy yr hwn yn unig y'n dygir i ymhyfrydu yn llwyddiant ein cymmydog, yn mha oleu bynnag yr edrychom arno.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y dylem fod yn gymhedrol yn ein holl fwynderau. 2. Ein bod yn derbyn ein holl gysuron

oddiwrth Dduw. 3. Bod pob peth dan drefniad Duw, llywodraethwr cyfiawn y cyfanfyd. 4. Nad yw Duw yn annghyfiawn, er nad yw pawb yn gydradd. 5. Y dylem ni ochel gofal pryderus, yr hyn sydd anfuddiol. 6. Bod digon i bawb yn Nuw.

### *Pechodau a waherddir.*

HOL. 81. PA BETH A WAHERDDIR YN Y DEGFED GORCHYMYN?

Pob anfoddlonrwydd ar ein cyflwr ein hunain; cenfigen, neu ofid o herwydd ffyniant ein cymmydog, a phob tuedd i chwant afreolaidd am ddim sydd yn eiddo iddo.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Y gwaherddir i ni fod yn anfoddog ar ein sefyllfa fydol, 1 Cor. 10. 10. "Ac na rwgnechwch, megis y grwgnachodd rhai o honynt hwy, ac a'u distrywiwyd gan y dinystrydd."

2. Y gwaherddir i ni genfigenu wrth lwyddiant rhai eraill, Gal. 5. 26. "Na fyddwn wag ogoneddgar, gan ymgenfigenu wrth ein gilydd."

3. Y gwaherddir i ni ymofidio oblegyd llwyddiant eraill, Iago 5. 9. "Na rwgnechwch yn erbyn eich gilydd."

4. Y gwaherddir i ni feithrin tuedd i chwantau afreolaidd am ddim a berthyn i'n cymmydog, Col. 3. 5. "Marwhewch gan hyny eich aelodau y rhai sydd ar y ddaear,—gwŷn, dryg-chwant, a chybydd-dod, yr hon sydd eilunaddoliaeth."

EGLURHAD.

Sylw 270.—*Mae y degfed Gorchymyn yn gwahardd pob anfoddlonrwydd ar ein sefyllfa fydol.*

Mae anfoddlonrwydd ar ein cyflwr, yn yr hwn y'n cyflëwyd gan ragluniaeth, yn cynnwys y pethau canlynol:—1. Gwrthryfel tufewnol yn erbyn ewyllys rhagluniaethol Duw, Hos. 4. 16. 2. Grwgnachrwydd a gofid oblegyd trefniad ein sefyllfa, 1 Bren. 21. 4. 3. Anfoddlonrwydd tufewnol ar y cyflwr a osododd Duw i ni, Job 18. 4. Jonah 4. 4. Cabledd tufewnol yn erbyn Duw, fel pe buasai efe yn euog o annghyfiawnder neu greulondeb yn nhrefniad ein sefyllfa, Job 9. 17, 18; a 10. 16; a 30. 21. Mal. 3. 13, &c.

Mae drygedd y pechod o anfoddlonrwydd i'w weled yn y pethau canlynol;—1. Y mae yn dangos anewyllysgarwch

i ymostwng i drefniad Duw,—a thrwy hyny yr ydym yn gwrthwynebu ein cysuron ein hunain yn y byd hwn a'r hwn a ddaw, Gen. 30. 1; a 42. 36. 2. Y mae yn rhoi ar ddeall ein bod ni yn ein cyfrif ein hunain yn gymhwysach i farnu pa beth sydd oreu erddom, na Duw ei hunan, 1 Bren. 1. 5. 3. Rhaid fod y pechod yma yn dra ysgeler, gan ei fod yn annghymwyso i ogoneddu Duw yn y byd hwn, ac i gyflawni ein dyledswydd at bawb o'n deutu, Esther 5. 11, &c. 4. Y mae llawer o'r pechodau ffieiddiaf yn nglŷn wrth y pechod yma; megis cabledd yn erbyn Duw, atheistiaeth, 1 Sam. 28; llofruddiaeth, 1 Bren. 21. 4, &c. Esther 3; hunan-laddiad, 2 Sam. 17. 23; a marwolaeth ac uffern a'i dilynant.

Mae y pechod hwn, o anfoddlonrwydd ar ein sefyllfa, yn deillio o *ddiffyg ffydd* yn ngoruchwyliaeth Duw,—o ddiffyg golygu Duw fel Duw ffyddlondeb.

Rhai o'r moddion y dylem eu hymarfer er gwelläad o'r anhwyldeb peryglus hwn, ydynt y rhai canlynol:—1. Yr unig brif feddyginiaeth, yw bod i ni gymeryd Duw fel ein rhan, ein Duw a'n Tad cymmodlawn yn Nghrist, a rhoddi y lle blaenaf i Grist yn ein calonau, Ps. 73. 25, 26, a 76. 4. 2. Dylem ystyried ein trugareddau yn nghanol ein holl drueni. 3. Dylem fod yn ddiolchgar i Dduw am ei holl drugareddau, a meithrin ystyriaeth o'n hannheilyngdod o'r lleiaf o honynt, yr hyn a dueddai yn effeithiol i ffrwyno yr ysbryd yma, sydd yn meddiannu cynifer, a thrwy yr hwn y maent yn blino cymmaint arnynt eu hunain, ac ar bawb o'u deutu. 4. Gan na all y dyn anfoddlawn fod yn hynod o sanctaidd tra fyddo yr ysbryd yma yn teyrnasu ynddo, y mae yn angenrheidiol i ni ei wrthwynebu trwy ffydd ac edifeirwch.

Sylw 271.—*Mae y degfed Gorchymyn yn gwahardd pob rhyw genfigenu neu ymofidio o herwydd ffyniant ein cymmydog.*

Wrth *genfigenu neu ymofidio yn herwydd llwyddiant ein cymmydog*, yr ydym i ddeall rhyw ysbryd grwgnachlyd o herwydd ei amgylchiadau llwyddiannus, neu unrhyw ragorfraint a fedda efe uwchlaw i ni ein hunain. Y manteision a all efe feddu arnom ni, a'r rhai a allant beri i ni rwgnach, tuchan, a chenfigenu, ydynt y fath rai a hyn,—doniau, grasusau, perthynasau, golud, anrhydedd, pleser, &c. Ond ni bydd y pethau hyn yn achlysur o bechod i'r sawl a gydnabyddant oruwchlywodraeth rhagluniaeth.

Gallem nodi yma am *gybydd-dod*, y pechod a waherddir yma, mai gor-syched yw am yr hyn ni's meddwn, ac na's gwelodd Duw yn dda yn ei ragluniaeth i ni ei feddu: ac y

mae y syched yma mor fawr na's gellir ei ddiwallu. Gwel Diar. 1. 19. Gellir darlunio ei *natur* yn fyr fel hyn:—1. Y mae yn hollol groes i'r ysbryd cariad y dylem ei amlygu tuag at ein cymmydog. 2. Y mae yn faeth i falchder i ni oddef i'n chwant fyned ar ol yr hyn a fyddo yn perthyn i'n cymmydog. 3. Mae yn elyn parhaus i'n heddwch, Gen. 37; Esa. 3. 16. 4. Fe fydd i'r duedd yma attal y sawl a'i medda i gynnorthwyo ein cymmydog mewn un modd, ac felly ni's gallant garu eu cymmydog fel hwy eu hunain.

Sylw 272.—*Mae y degfed Gorchymyn yn gwahardd pob gwŷniau neu chwantau afrëolaidd.*

Wrth *wŷniau* neu *chwantau afrëolaidd*, y rhai ydynt fel y ffynhonell o'r hon y tardd cybydd-dod, yr ydym i ddeall, nid yn unig pob amcan, bwriad, neu ddymuniad annghyfreithlawn a ffurfir yn y galon; ond cynnyrfiadau cyntaf llygredigaeth yn yr enaid, yr hyn a ymddengys cyn y bydd un cyflawniad gweithredol o'r pechod a waherddir yma. Gwel Col. 3. 5.

Gan hyny, y mae y gorchymyn hwn yn gwahardd y pethau canlynol:—

1. Cybydd-dra o fwynderau crëedig, mewn trachwant afreolaidd am y pethau a *feddwn* ni ein hunain. (1.) Trwy fod y galon wedi myned arnynt yn annghymedrol, Luc 12. 21, a 14. 18—20, 26. (2.) Trwy eu chwenychu er eu mwyn eu hunain, neu er gau ddyben, Iago 4. 3. (3.) Trwy eu defnyddio yn rhŷ awchus, heb ystyriaeth o angenrheidrwydd neu brofiad, fel pe byddem dan eu hawdurdod, 1 Cor. 6. 12; 1 Sam. 14. 32. (4.) Trwy eu defnyddio er niwaid i'n heneidiau, ac er dïanrhydedd i Dduw, 1 Cor. 10. 31.

2. Cybydd-dra o fwynderau crëedig mewn trachwant am y pethau a berthynant i'n *cymmydog.* (1.) Trwy ddymuno yr hyn a roddes Duw allan o'n cyrhaedd, Jos. 7. 21; 2 Sam. 33. 15. (2.) Trwy geisio cyrhaedd, ar lwybr annghyfreithlawn, yr hyn sydd gyrhaeddadwy mewn ffordd gyfreithlawn, neu eu ceisio i ddybenion annghyfreithlawn, Iago 5. 3; Jer. 17. 11. (3.) Eu chwenychu mor gryf nes taflu y meddwl i gyffro hyd oni's mwynhaom hwynt, a'n gwneyd yn annghysurus os byddwn hebddynt, Gen. 30. 1.

Mae y gorchymyn yma hefyd yn gwahardd *naws lygredig ein natur gwympedig*, o'r hyn y mae pob chwantau pechadurus yn deillio. 1. Fel yn bod yn y galon, ond heb gael eu ffordd, Rhuf. 7. Mae yn sicr bod yr egwyddor neu y reddf o'r hon y deillia gweithredoedd pechadurus yn cael ei gwahardd yma, cystal a'r gweithredoedd eu hunain, a ddeilliant o'r fath lygr-

edigaeth; canys y mae y ddeddf yn arglwyddiaethu ar feddyliau y galon cystal a gweithredoedd y fuchedd. 2. Fel yn cael cydsynied ynddo ei hun, ond nid yn nghyflawniad ei chwantau, Math. 5. 28; Preg. 6. 9. 3. Fel yn bwriadu, yn llunio, ac yn ymddwyn ar bechod yn weithredol, mewn meddwl, gair, a gweithred, Math. 15. 19, 20; Iago 1. 15. 4. Fel wedi ymddwyn ar weithredoedd parhaus o annuwioldeb hyd y cyflawniad, 1 Sam. 14. 25, &c., a 23. 26; Esther 3, a 5, a 6; Esa. 37; Act. 16. 27, a 21. 31, 32.

Gallwn nodi yma, fod *chwantau* yn cael eu galw dan wahanol enwau yn yr Ysgrythyr,—1. Fe'u gelwir "chwantau twyllodrus," Eph. 4. 22; o herwydd, er eu bod yn ymddangos yn ddifywyd, eu bod yn wastad yn disgwyl am gyfleusdra. 2. Fe'u gelwir "chwantau niweidiol," 1 Tim. 6. 6; am eu bod yn dra pheryglus, ac yn amcanu ein dystrywio yn wastadol. 3. Fe'u gelwir "chwantau bydol," Tit. 2. 12; am nad ydynt o Dduw, ond o'r byd, ac o ddiafol, duw y byd hwn. 4. Fe'u gelwir "trachwantau o'r blaen," 1 Pedr 1. 14; am eu bod yn teyrnasu yn mhob dyn anianol yn ddi attalfa. 5. Fe ddywedir eu bod "yn rhyfela yn erbyn yr enaid," 1 Pedr 2. 11; am eu bod oll mewn cydfrad i ddystrywio yr holl ddyn. 6. Fe ddywedir eu bod "yn rhyfela yn ein haelodau," Iago 4. 1; am nad ydynt yn dangnefeddus yn eu mysg eu hunain, ond, fel milwyr a gyfansoddant fyddin, y rhai a allant gyduno i ddystrywio gelyn, er na byddont yn dangnefeddus yn eu mysg eu hunain.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y ddyledswydd o ymostwng i'r ewyllys Ddwyfol. 2. Y dylem garu ein cymmydog fel ni ein hunain. 3. Gan fod y byd hwn yn wywedig, y dylem roddi ein serch ar y pethau sydd uchod. 4. Bod yr enaid yn fwy gwerthfawr na phob peth daiarol. 5. Yr angenrheidrwydd am waed Crist i'n glanhau oddiwrth bechod gwreiddiol, yr hwn yw gwreiddyn pob pechod gweithredol. 6. Bod pechod yn y goreu, ac y pery ynddynt hyd angau. 7. Yr angenrheidrwydd o gymhwysiad o Iesu Grist trwy ffydd.

## PENNOD II.

### DYLEDSWYDDAU NEILLDUOL Y MAE DUW YN EU GOFYN GAN DDYN DAN ORUCHWYLIAETH YR EFENGYL.

Y RHAGDRAITH.—YN DANGOS ANALLUOGRWYDD DYN I GADW Y DDEDDF FOESOL.—BOD AMRYW RADDAU YN Y TROSEDDIAD O HONI—A HAEDDIANT POB TROSEDD O HONI.

### *Anallu Dyn i gadw y Ddeddf.*

HOL. 82. A DDICHON UN DYN GADW GORCHYMYNION DUW YN BERFFAITH?

Na ddichon i un dyn yn unig, er y cwymp, gadw gorchymynion Duw yn berffaith yn y bywyd hwn; ond y mae efe beunydd yn eu torri, mewn meddwl, gair, a gweithred.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Na ddichon un i dyn yn unig, er y cwymp, gadw gorchymynion Duw yn berffaith. Preg. 7. 20. "Canys nid oes dyn cyfiawn ar y ddaear, a wna ddaioni, ac ni phecha."

2. Bod pob dyn yn y bywyd hwn yn troseddu gorchymynion Duw yn feunyddiol. Gen. 6. 5. "Mae holl fwriad meddylfryd ei galon yn unig yn ddrygionus bob amser."

3. Ein bod ni oll yn troseddu gorchymynion Duw beunydd yn ein meddyliau. Gen. 8. 21. "O herwydd bod bryd calon dyn yn ddrwg o'i ieuenctyd."

4. Ein bod yn troseddu gorchymynion Duw beunydd yn ein geiriau a'n hymddiddanion. Iago 3. 8. "Eithr y tafod ni ddichon un dyn ei ddofi; drwg anllywodraethus ydyw, yn llawn gwenwyn marwol."

5. Ein bod yn troseddu gorchymynion Duw beunydd yn ein gweithredoedd. Rhuf. 7. 19. "Canys nid wyf yn gwneuthur y peth da yr wyf yn ei ewyllysio: ond y drwg yr hwn nid wyf yn ei ewyllysio, hyny yr wyf yn ei wneuthur." Gwel hefyd Iago 3. 2.

EGLURHAD.

Sylw 273.—*Na ddichon un dyn yn unig, er y cwymp, gadw gorchymynion Duw yn berffaith yn y bywyd hwn.*

**Rhaid i'r perffeithrwydd a ofynir gan ddeddf Duw fod yn**

*berffeithrwydd trwyadl*, mewn calon a buchedd, heb y coll lleiaf mewn dim, rhaid iddo darddu o natur berffaith sanctaidd, heb yr hyn ni's gellir rhoddi ufudd-dod diball i ofynion tra ehang y ddeddf, Gwel Math. 22. 37—39. Mae yn wir y gall dyn foddio ei ddychymyg âg *ufudd-dod diffuant;* ond ni's gall hyn byth achub ei enaid. "Ceri yr Arglwydd dy Dduw." Pa fodd? Yn anmherffaith, er yn ddiffuant? Nage; ni's gall hyn foddloni y ddeddf; ond, "â'th holl galon, â'th holl enaid, â'th holl nerth, ac a'th holl feddwl." A pha beth bynnag y mae y ddeddf yn ei ofyn, rhaid fod y perffeithrwydd uchaf mewn gradd ynddo, canys ni fyddai dim llai, namyn anufudd-dod.

Yr oedd y perffeithrwydd trwyadl yma yn gyrhaeddadwy dros yr yspaid byr a fu cyn cwymp dyn; canys yr oedd galluogrwydd yn argraffedig arno yn ei greadigaeth, Preg. 7. 29. "Gwnaeth Duw ddyn yn uniawn." Ac fe'i cyrhaeddir gan y saint yn y nef; canys gweision Duw a'i gwasanaethant ef yno.

Fe ddywedir na all *un dyn yn unig* gadw gorchymynion Duw yn berffaith, er mwyn eithrio Crist, yr hwn nid oedd ddyn yn unig, ond yn anfeidrol fwy na dyn, gan ei fod yn *Emmanuel*,—Duw gyda ni,—Duw yn ein natur: ac efe a eithrir, nid yn unig am ei fod ef yn abl i roddi ufudd-dod perffaith i'r ddeddf, ond am ei fod ef wedi ei roddi yn weithredol, a'r cyfryw ufudd-dod ag oedd yn haeddiannol o fywyd tragywyddol i'w holl had ysbrydol, Rhuf. 5. 17—19.

Gellir profi na's gall un dyn yn unig gadw gorchymynion Duw yn berffaith, fel hyn:—

1. Mae yr Ysgrythyr yn profi hyn yn bendant mewn aneirif fanau. Gwel Preg. 7 20; 1 Ioan 1. 8; Iago 3. 2; Rhuf. 3. 9—19; Ps. 14, a 53, lle y cawn ddarluniad helaeth o bechod a llygredigaeth pawb.

2. Mae genym dystiolaeth y saint eu hunain, rhai rhagorol y ddaiar, am eu pechadurusrwydd.Ië, yr enwocaf o honynt a gydnabyddent eu pechod a'u llygredd, megis Abraham, Dafydd, Pedr a llawer eraill. Yn awr, os cofrestrwyd eu pechodau, pa le y mae eu perffeithrwydd?

3. Yr ydym yn cael egwyddor o lygredigaeth yn y goreu, cystal ag egwyddor o ras, cyd rhwng y rhai y mae ymdrech wastadol, a'r ymdrech hon a bery hyd oni ddyru angau derfyn arni, Gal. 5. 17.

4. Byddai gweddi yn ddiangenrhaid pe y gellid cyrhaedd perffeithrwydd deddfol.

5. Nid yw perffeithrwydd deddfol yn gyrhaeddadwy yn y fuchedd hon, am nad oes gyfryw fesur o ras wedi ei addaw ag a alluogai neb un i gadw gorchymynion Duw yn berffaith.

Byddai hyny yn annghyson â'r cyflwr presenol, ac â natur cynnydd ysbrydol mewn gras yr hwn sydd yn raddol; canys nid yw y saint yn cyrhaedd cyflawn fesur dynion perffaith hyd oni chyrhaeddont ogoniant.

6. Cydgauid pawb yn y cyfammod a wnelsid âg Adda, ac o ganlyniad, yr oedd pawb wedi pechu ynddo, a chwympo gydag ef yn ei gamwedd cyntaf.

7. Mae profiad yn gwirio y dystiolaeth am lygriad cyffredinol dynolryw.

Gallwn nodi yma, fod *dau gam gymeriad tra pheryglus*, i'r rhai y llithrodd rhai wrth ystyried y mater yma:—

1. Maent yn cyhuddo Duw o annghyfiawnder, yn gorchymyn yr hyn sydd anmhossibl. Gwir, y mae yn awr yn anmhossibl; ond nid oedd felly unwaith. Ond eiddo dyn yw y pechod, er hyny, a rhaid fod Duw yn berffaith gyfiawn; canys er fod dyn trwy bechod wedi colli ei allu i ufuddhau, eto, ni chollodd Duw ei hawl i ofyn ufudd-dod.

2. Y maent yn rhoi i fynu ymestyn at berffeithrwydd. Gan na's gallant fod yn berffaith, y maent yn meddwl nad rhaid iddynt ymdrechu am fod yn sanctaidd; gan fod perffeithrwydd yn annghyraeddadwy, y gallont roddi i fynu geisio bod yn sanctaidd. Ond y mae y cyfryw ymddygiad yn brawf o'u llwyr ddyeithrwch i natur gwir sancteiddrwydd; canys pa le bynnag y mae gwir adnabyddiaeth o sancteiddrwydd, fe fydd yno ddymuniad cynnyddol am burdeb.

Sylw 274.—*Mae pawb yn y fuchedd hon, heb eithriaid, yn troseddu gorchymynion Duw beunydd, mewn meddwl, gair, a gweithred.*

1. Yr ydym yn troseddu beunydd yn ein *meddyliau.* Gwneir hyn pan fyddo ein meddyliau ar waith pechadurus, gyda golwg ar Dduw, ein cymmydog, neu ein hunain.

2. Yr ydym yn eu troseddu beunydd yn ein *geiriau*, a'n hymddiddanion. Gwneir hyn pan fyddo ein geiriau yn segur ac anfuddiol; pan fyddont yn dianrhydeddu Duw, ac yn niweidiol i ni ein hunain, ac i eraill: pan ddywedir yr hyn ni ddylid ei ddweyd, ac yr attelir yr hyn a ddylid ei ddweyd; neu pan na byddo ein hymadroddion dan drefniad priodol.

3. Yr ydym yn eu troseddu beunydd yn ein *gweithredoedd.* Gwneir hyn pan gyflawnir y pechodau a ymddygasid yn y meddwl, neu a draethasid â'r tafod, yr hyn sydd yn afrifaid. Gwel Ps. 40. 12.

Ond, gellir gwrthddadleu yma, ein bod yn darllen am rai oeddynt *berffaith* yn eu cenhedlaeth; megis Noah, Gen. 6. 9.

Job 1. 8; Hezechiah, Esa. 38. 3; Zecharïas ac Elizabeth, Luc 1. 6. I hyn yr attebwn, mai cymmaint ag ydym i'w ddeall wrth berffeithrwydd yn y saint hyn, yw, nid *perffeithrwydd trwyadl*, yr hyn sydd annghyraeddadwy yn y fuchedd hon; ond *perffeithrwydd cydmariaethol* yn unig;—hyny yw, wrth eu cydmaru ag eraill, gellid eu galw yn *berffaith*. Yr oeddynt yn rhagori mewn sancteiddrwydd a lledneisrwydd ar y rhai o'u hamgylch; ond nid oeddynt hwy mewn un modd wedi cyrhaedd perffeithrwydd trwyadl yn y fuchedd hon; canys y mae eu pechodau wedi eu cofrestru. Gwel Gen. 9. 21; Job 3. 2; 2 Cron. 32. 24; Esa. 39; Luc 1. 20.

Ond yma eto, gellir dadleu, fod yr Ysgrythyr yn dywedyd am "bob un a anwyd o Dduw, nad yw yn pechu," 1 Ioan 3. 9. Mae hyny yn wirionedd; ond, nid yw yn un prawf o berffeithrwydd trwyadl. Meddwl yr ymadrodd yw, bod y rhai a anwyd o Dduw yn cael iawn olwg ar bechod, ac wedi ei weled yn ei holl atgasrwydd; y canlyniad o'r hyn yw, na's gallant *ymhyfrydu* mewn pechod, ni's gallant ei wneuthur yn orchwyl, fel y gwna dynion anianol, y rhai a elwir "Gweithredwyr anwiredd," Ps. 125. 5.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Fod pob dyn yn gyd druenus wrth naturiaeth, ac mewn cyffelyb angen am Waredwr. 2. Nad oes dim bywyd trwy y ddeddf. 3. Yr angenrheidrwydd am ran yn Iesu Grist. 4. Bod yn rhaid i'r saint barhau yn eu rhyfel ysbrydol hyd angau. 5. Bod yn rhaid i ni roddi ein holl ymddibyniad ar ras Duw. 6. Nad oes dim gobaith o un man arall. 7. Bod credinwyr dan rwymau mawrion i ras Duw. 8. Y perffeithir y saint mewn amser dyledus.

## *Amryw raddau o euogrwydd yn nhroseddiad y Ddeddf.*

HOL. 83. A YDYW POB TROSEDD O'R GYFRAITH MOR YSGELER A'U GILYDD?

Mae rhai pechodau ynddynt eu hunain, ac o herwydd amryw amgylchiadau, yn fwy ysgeler yn ngolwg Duw nag eraill.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod rhai pechodau ynddynt eu hunain **yn fwy ysgeler** yn ngolwg **Duw** nag eraill. 1 Ioan 5. 16. "Y mae pechod i

farwolaeth: nid am hwnw yr wyf yn dywedyd ddeisyf o hono." Gwel hefyd Ezec. 8. 13.

2. Y mae amgylchiadau yn gwneyd pechod yn fwy ysgeler yn ngolwg Duw. Mat. 23. 14. "Gwae chwi, ysgrifenyddion a Phariseaid, ragrithwyr: canys yr ydych yn llwyr fwytta tai gwragedd gweddwon, a hyny yn rhith hir weddïo: am hyny y derbyniwch farn fwy." Gwel hefyd Iago 4. 17.

EGLURHAD.

Sylw 275.—*Mae rhai pechodau ynddynt eu hunain yn fwy ysgeler ger bron Duw nag eraill.*

Wrth *ysgelerder* pechod yr ydym i ddeall ei atgasrwydd yn ngolwg Duw, neu ei ffieidd-dra iddo ef.

Mae rhai pechodau ynddynt eu hunain yn fwy ysgeler ac atgas yn ngolwg Duw nag eraill,—hyny yw, y maent felly yn eu natur eu hunain, pe na byddai un amgylchiad yn eu dilyn a chwanegai eu hysgelerder. Fel hyn y mae cabledd yn erbyn Duw, eilunaddoliaeth, halogi enw Duw, &c.,—pechodau yn erbyn llech gyntaf y gyfraith;—a llofruddiaeth, gormes, lladrad, dwyn camdystiolaeth, &c.,—pechodau yn erbyn yr ail lech, y rhai ydynt dra ysgeler yn eu natur eu hunain, heb son am unrhyw amgylchiadau yn eu dilyn.

Sylw 276.—*Mae rhai pechodau ar gyfrif amryw amgylchiadau a'u dilynant yn fwy ysgeler yn ngolwg Duw nag eraill.*

Mae pechodau yn cael eu gwneyd *yn fwy ysgeler* trwy y pethau canlynol:—Y personau a droseddant, y pleidiau y troseddir i'w herbyn, natur ac ansawdd y trosedd, a'r amgylchiadau o amser a lle.

1. Mae pechodau yn cael eu gwneyd yn fwy ysgeler trwy y *personau a droseddant*, y rhai y gellir eu golygu, naill ai oddiwrth eu hoedran, eu doniau, neu eu swydd. Po fwyaf urddasol a fyddo un ar un o'r cyfrifon uchod, mwyaf ysgeler yw y pechod a gyflawnir ganddo. Gwel Job 32. 7, &c. Preg. 4. 13; 2 Sam. 12. 14; 1 Bren. 11. 9; 1 Cor. 5. 1; Iago 4. 17; Luc 12. 47; Ps. 78. 17; Jer. 23. 11, &c. Gen. 2. 13.

2. Mae pechodau yn cael eu gwneyd yn fwy ysgeler trwy y *pleidiau a ddigir*. (1.) Y mae pechodau a gyflawnir yn erbyn Duw, ei brïodoliaethau, a'i addoliad, yn fwy ysgeler na phechodau a gyflawnir yn erbyn dyn, a gosodiadau dynol; canys fel y mae y gwahaniaeth rhwng y gwrthddrychau yn anfeidrol, rhaid fod y gwahaniaeth rhwng y pechodau felly hefyd, 1 Sam. 2. 25; Ps. 51. 4; Rhuf. 2. 4; Mal. 1. 14. Gellir dweyd yr un peth am Grist a'i ras, Heb. 2. 3. a 12. 25;

Act. 4. 12; ac am yr Ysbryd Glan, a'i dystiolaeth, a'i waith, Eph. 4. 30; 1 Thess. 5. 19. (2.) Pechodau yn erbyn ein huwchraddolion, a'r rhai y byddom yn dwyn perthynas neillduol â hwy, ydynt lawer mwy ysgeler na phechodau a gyflawnir yn erbyn ein cydraddolion, Num. 12. 8, &c. Diar. 39. 17; Ps. 55. 12, &c. (3.) Y mae pechodau a gyflawnir yn erbyn pobl Dduw yn fwy ysgeler na phechodau a gyflawnir yn erbyn eraill, Zeph. 2. 8; Luc 10. 16; Mat. 18. 6; 1 Cor. 8. 12; Rhuf. 14. 13. (4.) Mae pechodau a gyflawnir yn erbyn yr enaid yn fwy ysgeler na phechodau a gyflawnir yn erbyn y corph, Ezec. 13. 19; Mat. 23. 15. (5.) Mae pechodau a gyflawnir yn erbyn lles y cyffredin yn fwy ysgeler na phechodau a gyflawnir yn erbyn unigolion, neu ychydig bersonau, 1 Thess. 2. 15, 16; oddiwrth yr hyn y mae yn amlwg pwy sydd yn pechu yn erbyn lles cyffredinol dynolryw, sef, y rhai ydynt yn gwneyd a allont i luddias lledaeniad yr efengyl i'r lle nad yw, ac attal ei llwyddiant lle y mae; canys nid oes dim a duedda yn fwy er gwneuthur daioni cyffredinol i ddynolryw, nag anfon iddynt Air yr iachawdwriaeth. Ni's gellir dweyd am y rhai na's gwnant a allont i'r dyben yma, eu bod yn caru Duw â'u holl galon, a'u cymmydog fel hwy eu hunain. Gwel hefyd Jos. 22. 20.

3. Mae pechodau yn cael eu gwneyd yn fwy ysgeler trwy *natur* ac *ansawdd* y trosedd. (1.) Mae pechod yn fwy ysgeler os bydd wedi ei gyflawni yn erbyn llythyren eglur y gyfraith, Rhuf. 1. 32; Ezra 9. 10. (2.) Mae pechod yn fwy ysgeler os bydd amryw bechodau yn cael eu cyflawni yn ei gyflawniad, neu amryw orchymynion yn cael eu troseddu, Diar. 5, lle mae y pechod a waherddir yn cael ei ddilyn â lluaws o ddrygau. Gwel hefyd 2 Sam. 12. 9. (3.) Mae pechod yn fwy ysgeler pan yn torri allan mewn geiriau a gweithredoedd, Mat. 5. 22. (4.) Mae pechod yn fwy ysgeler pan na byddo modd rhoi iawn am dano, Num. 35. 31; Diar. 6. 35. (5.) Y mae pechod yn fwy ysgeler pan y'i cyflawnir yn erbyn argyhoeddiadau cydwybod, Num. 15. 30, &c. Rhuf. 1. 32; Dan. 5. 22; Tit. 3. 10. (6.) Mae pechod yn fwy ysgeler pan y'i cyflawnir yn bwyllog ac yn fynych, yr ymgyndynir ac yr ymhyfrydir ynddo, &c., Ps. 36. 4; Num. 14. 22; Zech. 7. 11, 12; Diar. 2. 14. (7.) Pan gyflawner pechodau yn erbyn trugareddau, barnau, neu rybuddion cyhoeddus neu gyfrinachol, yn erbyn ceryddon yr eglwys, yn erbyn ein gweddïau, ein bwriadau, ein haddunedau, a'n hymrwymiadau i fod yn eiddo yr Arglwydd;—pan y'u cyflawnir yn fyrbwyll, yn fostgar, yn faleisus,—pan yr ymgyndynir mewn pechod, neu y

dychwelir iddo wedi ei adael unwaith, rhaid ei fod yn dra ysgeler.

4. Mae pechodau yn derbyn eu hysgelerder oddiwrth yr amgylchiadau o *amser* a *lle*. Er fod pechod yn bechod mewn unrhyw le, ac ar unrhyw bryd, eto y mae amserau yn y rhai y mae yn fwy peryglus i ni gyflawni pechod; a lleoedd, yn y rhai y mae y pechod a gyflawner yn dra ysgeler. (1.) Y mae pechod a gyflawner unrhyw ddydd yn bechod; ond y mae pechod a gyflawner ar y Sabbath, neu ddydd yr Arglwydd, yn fwy pechod; canys os dylem wylied yn erbyn pechod unrhyw ddydd, felly yn fwy yn ddiau ar y dydd hwn. (2.) Pan gyflawner pechod ar ddydd neillduedig i ymostyngiad neu ddiolchgarwch, y mae yn fwy ysgeler na phe cyflawnid yr un pechod ar yr un dydd, ond heb ei fod yn neillduedig i'r cyfryw wasanaeth angenrheidiol, yn ol galwad rhagluniaeth. (3.) Pan fyddo pechod yn cael ei gyflawni yn y fan cyn, neu wedi addoliad cyhoeddus Duw, y mae yn dra ysgeler, canys y mae yn brawf o lwyr ddïofalwch am barottoi y galon i ddysgwyl wrth Dduw, ac anmharch i ymarferion ei addoliad ef, â'r rhai y gallwn fod newydd ymwneyd, Ezec. 23. 37, &c. (4.) Mae pechod a gyflawner yn Mrydain yn fwy ysgeler na'r un pechod wedi ei gyflawni mewn gwlad baganaidd; oblegyd bod y naill yn wlad oleuedig gan yr efengyl, tra y mae y llall yn eistedd yn mro a chysgod tywyllwch ysbrydol, Esa. 26. 10. (5.) Mae pechod yn fwy ysgeler pan y'i cyflawnir gan un yn byw mewn teulu crefyddol, na phan y'i cyflawnir gan un a fyddo yn byw mewn un o deuluoedd Satan. (6.) Mae pechod wedi ei gyflawni yn y cyhoedd yn fwy ysgeler na phan y'i cyflawner yn y dirgel; gan y gall e beri i lawer fyned ar gyfeiliorn, 1 Sam. 2. 22—24; 2 Sam. 16. 22.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd i ni i ymostwng ger bron Duw, dan ddwys ystyriaeth o'n pechodau ysgeler. 2. Mawredd trugaredd faddeuol, yr hon sydd yn estyngedig i'r penaf o bechaduriaid. 3. Yr angenrheidrwydd o hunan-ymholiad, fel y gwelom mor ysgeler yw ein pechodau, canys heb hyn, rhaid ein bod yn ddieithr am bechod. 4. Bod ein pechodau yn fawr iawn, mewn gwlad wedi ei goleuo gan yr efengyl. 5. Na ddylem gyfrif un pechod yn ddiniwed yn ei natur, canys fe welir yn y diwedd nad felly y bydd. 6. Gan fod graddau mewn pechod, y bydd graddau o gosbedigaeth yn uffern yr un modd.

## *Teilyngdod pob trosedd o'r Ddeddf.*

HOL. 84. PA BETH Y MAE POB PECHOD YN EI HAEDDU?

Digofaint a melldith Duw yn y bywyd hwn a'r hwn a ddaw.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod pob pechod yn haeddu digofaint a melldith Duw yn y byd hwn. Gal. 3. 10. "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau sydd yn ysgrifenedig yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt."

2. Bod pob pechod yn teilyngu digofaint a melldith Duw am byth yn y byd a ddaw. Rhuf. 6. 23. "Cyflog pechod yw marwolaeth; eithr dawn Duw yw bywyd tragywyddol, trwy Iesu Grist ein Harglwydd." Gwel hefyd Math. 25. 41.

EGLURHAD.

Sylw 277.—*Mae pob pechod yn teilyngu melldith a digofaint Duw yn y byd hwn, a'r hwn a ddaw.*

Wrth *haeddiant* neu *deilyngdod* pechod, yr ydym i ddeall yr hyn sydd yn natur pechod, a'r hyn sydd o hono ei hun yn teilyngu yr holl ddigofaint a gyhoeddodd Duw yn ei erbyn, a'r hyn yn ddiau a weinyddir ar bob pechaduriaid anedifeiriol. Fel y mae pechod yn dwyn perthynas â sancteiddrwydd Duw, felly yn ngwrthwynebiad pechod i'r sancteiddrwydd yma, fel y mae yn cael ei ddatguddio yn ei ddeddf, y mae haeddiant neu deilyngdod pechod yn gynnwysedig.

Wrth *ddigofaint* Duw yr ydym i ddeall, ei lid yn yr effeithiau ofnadwy o hono, pa un bynnag ai mewn ffordd dra chyhoeddus, neu ddirgel y'i hamlygir, Ps. 11. 6; neu, gweithred bur, annherfynedig ac anattaliedig, yn y meddwl Dwyfol, ydyw, yr hon a gynnyrcha yr effeithiau mwayf ofnadwy yn erbyn y pechadur, Esa. 33. 14; Nah. 1. 2.

*Melldith* Duw, sydd yn dwyn perthynas neillduol â'i ddeddf; ac wrthi y deallwn ddedfryd ei ddeddf, yn cyhoeddi pob drwg yn erbyn ei throseddwr, Gal. 3. 10.

Mae pob pechod yn teilyngu digofaint Duw a'i felldith, yn byd hwn a'r hwn a ddaw; canys er fod gwahanol raddau o gosbedigaeth yn y byd a ddaw, eto y mae y pechod lleiaf yn haeddu y gosbedigaeth hon mor wirioneddol a'r mwyaf; ac y mae hyn yn eglur oddiwrth yr hyn a ddywed y ddeddf, Gal. 3. 10. "Melldigedig yw pob un nid yw yn aros yn yr holl bethau

sydd yn ysgrifenedig yn llyfr y ddeddf i'w gwneuthur hwynt," ac Iago 2. 10. "Yr hwn a ballo mewn un pwnc, y mae efe yn euog o'r cwbl." Oni bydd i'r ddeddf edrych dros un trosedd, yna bydd raid i'r lleiaf gael ei gosbi; ond a llefaru yn fanol, nid adwaen y ddeddf un gosbedigaeth llai na'r felldith. Os felly, y mae pob pechod gan hyny yn teilyngu'r felldith; ac ni's gall y ddeddf wneyd un cam a'r pechadur, pan fyddo y felldith yn cael ei gweinyddu. Ond yr ydym yn meddu tystioiaeth bendant fod pechod yn haeddu marwolaeth; Rhuf. 6. 23. "Cyflog pechod yw marwolaeth." Yn awr, ni ddywedir mai cyflog pechod *mawr* yw marwolaeth; neu mai cyflog *llawer o bechodau* yw marwolaeth; neu mai nid marwolaeth yw cyflog pechod bychan: ond, dywedir mewn iaith eglur, mai "Cyflog pechod yw marwolaeth,"—hyny yw, pob pechod, bach neu fawr, ac y mae yn rhaid mai felly y mae yn ol natur pethau. Ond, yn mhellach, os dyoddefodd Crist ddigofaint a melldith Duw yn lle a thros ei bobl, y mae yn amlwg fod eu camwedd hwy yn haeddu hyny. Gwel Tit. 2. 14.

Y rhesymau pa ham y mae pob pechod, pa mor fach bynnag y byddo, yn teilyngu digofaint a melldith Duw, ydynt a ganlyn:—

1. Pan gyflawnir pechod, y mae yn taro yn erbyn penarglwyddiaeth Duw. Yr ydys yn gosod ein hewyllys a'n hawdurdod ein hunain yn erbyn ewyllys ac awdurdod Duw,—yr hyn yn ddiau nid yw yn bechod bychan, ag sydd yn ei natur yn teilyngu cosb gyfattebol. Ond ni's gellir rhoddi cosb gyfattebol yn y byd hwn; ac yn y byd a ddaw, ni roddir un lai na digofaint a melldith Duw, yr hon sydd yn ddyledus mewn cyfiawnder am bechod.

2. Cyflawnir pechod yn erbyn sancteiddrwydd Duw, Heb. 1. 12. Nid oes dim a gasëir gan Dduw ond pechod: gan hyny, os yw pechaduriaid yn ymhyfrydu mewn pechod â'u holl galon, ni's gall fod yn euogrwydd dibwys; ac o ganlyniad, y mae yn teilyngu y gosb benaf.

3. Mae pechod yn cael ei gyflawni yn erbyn *daioni* Duw;—Talu drwg am dda, a melldith am fendith, ydyw; neu y peth gwaethaf a feddwn, am y peth gorau a all Duw ei roddi. Ac yn ddiau, y mae y cyfryw ymddygiad yn haeddu cosb gyfattebol i natur y trosedd a gyflawnwyd yn erbyn Duw daionus a graslawn; a'r gosb hòno yw y felldith.

4. Y mae pechod yn cael ei gyflawni yn erbyn deddf gyfiawn Duw, y rheol wrth yr hon y dylai pawb gael eu llywodraethu. Gan hyny, y mae y sawl a all droseddu cyfraith Duw yn ddiofid, yn wrthryfelwyr yn erbyn Mawrhydi y nefoedd; ac o ganlyniad, yn haeddu cosb.

5. Y mae yn ffaith adnabyddus, mai po mwyaf urddasol a fyddo y person, yn erbyn yr hwn y troseddir, mwyaf y gosb a deilynga y trosedd. Gan hyny, os ydyw Duw yn mhob ystyr yn anfeidrol, mae yn rhaid fod y pechod a gyflawnir yn ei erbyn ef yn teilyngu cosb anfeidrol; ond ni's gall creadur meidrol ddwyn cosb anfeidrol, un ffordd ond trwy barhad anfeidrol;—hyny yw am byth.

6. Mae pechod yn ddrwg anfeidrol;—hyny yw, y mae yn ddrwg, na's gall y pechadur ei hunan byth wneyd iawn am dano; ac o ganlyniad, rhaid i'w bechod aros hyd oni chymerir ef ymaith gan yr Hwn a roddes ei einioes yn bridwerth dros lawer. Ond, os dirmygir y pridwerth hwn, ni bydd mwyach aberth wedi ei adael dros bechod, ond rhyw ddysgwyl ofnadwy am ddigofaint a melldith Duw yn oes oesoedd.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Bod y pechod lleiaf yn haeddu marwolaeth. 2. Bod Duw yn gyfiawn pan y mae yn dïal. 3. Na's gellir dyhuddo y pechod lleiaf ond drwy waed Crist. 4. Cariad Duw yn gwneuthur ei Fab yn bech-aberth drosom. 5. Bod genym achos hyd byth i fawrygu cariad y Prynwr.

## *Dyledswyddau neillduol a ofynir gan ddyn dan oruchwyliaeth yr Efengyl.*

HOL. 85. PA BETH A OFYN DUW GENYM FEL Y DIANGOM RHAG EI DDIGOFAINT, A'I FELLDITH DDYLEDUS I NI AM BECHOD?

Ffydd yn Iesu Grist, edifeirwch i fywyd, gyda dyfal arferiad o'r holl foddion allanol trwy ba rai y mae Crist yn cyfranu i ni o ddoniau y prynedigaeth.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod Duw ei hunan wedi llunio ffordd o ddihangfa rhag effeithiau pechod. Ioan 3. 16. "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, fel na choller pwy bynnag a gredo ynddo ef, ond caffael o hono fywyd tragywyddol."

2. Bod ffydd yn Iesu Grist yn angenrheidiol er dïanc rhag digofaint a melldith Duw. Act. 16. 31. "Cred yn yr Arglwydd Iesu Grist, a chadwedig fyddi."

3. Bod gwir edifeirwch yn angenrheidiol er dïanc rhag digofaint a melldith Duw. Luc 13. 3. "Onid edifarhewch, chwi a ddyfethir oll yr un modd."

4. Bod dyfal arferiad o foddion gras yn ofynol gan bawb a fynont ddïanc rhag digofaint a melldith Duw. Phil. 2. 12, 13. "Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain; canys Duw sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu, o'i ewyllys da ef." Gwel hefyd Diar. 2. 1, 5. a 8. 34.

5. Bod bendithion y prynedigaeth yn cael eu cyfranu i bechaduriaid yn gyffredin, trwy yr ordinhadau fel moddion. Rhuf. 10. 14. "Pa fodd gan hyny y galwant ar Hwn ni chredasant ynddo? a pha fodd y credant yn yr Hwn ni chlywsant am dano? a pha fodd y clywant heb bregethwr?"

EGLURHAD.

Sylw 278.—*Nid yw ffydd ac edifeirwch, a dyfal arferiad o foddion gras, yn ofynol i roddi i ni hawl ar fywyd tragywyddol, neu feddiant o hono; ond yn unig fel moddion cludiad a defnyddiad yr iachawdwriaeth a ennillwyd, ac fel profion o'n cyfrannogiad ynddi.* Gwel 1 Cor. 1. 21.

Mae yn wir y gallai ymddangos oddiwrth y Gosodiad uchod, fod ffydd ac edifeirwch, a dyfal ymarferiad o foddion gras, i'w golygu fel ammodau dïangfa rhag digofaint a melldith Duw; ond, rhaid cofio yn wastadol, mai dawn Duw yw bywyd tragywyddol trwy Iesu Grist ein Harglwydd, Rhuf. 6. 23. Mae yn wir fod ffydd ac edifeirwch yn anhebgorol angenrheidiol er iachawdwriaeth: ond nid yr ammodau, ar ba rai yr addawa Duw fywyd tragywyddol, ydynt; ac nid hwynt hwy yw yr achos o'i hennill; canys efe a allasai ofyn y dyledswyddau hyn gan ei greaduriaid, pe na buasai erioed yn addaw dim oll iddynt.

Mewn trefn gan hyny i ragflaenu rhyw gamgymeriadau peryglus, y rhai a allont ein harwain i adeiladu ein gobaith am gymeradwyaeth gyda Duw ar sail dwyllodrus, gwnawn y sylwadau canlynol:—

1. Unig sail maddeuant pechod a chymeradwyaeth gyda Duw, yw *cyfiawnder cyfrifedig Iesu Grist.* Nid yw dyledswyddau, pa mor ysbrydol bynnag y byddont, ar un cyfrif yn teilyngu gwaredigaeth oddiwrth felldith y ddeddf a digofaint Duw. Gwel Rhuf. 5. 18, 19. Mae iachawdwriaeth drwy ras, a'r cyfammod gweithredoedd, yn hollol annghydweddol.

2. Nid yw ffordd o gymeradwyaeth, dan oruchwyliaeth yr efengyl, yn ddim rhyw *ffordd esmwythach i gyrhaedd iachawdwriaeth,* nag a adweinid o'r dechreuad. Mae y rhai a feddyliant am yr efengyl mai deddf newydd, a deddf esmwyth ydyw, i'w hufuddhau er ennill bywyd ger bron Duw, yn rhwym, er bod yn gyson â hwy eu hunain, i ddal nad yw y

ddeddf mor fanol yn awr ag ydoedd hi gynt; yr hyn olygiad, nid yw yn dra anrhydeddus i'r ddeddf na'r Deddf roddwr. Yn ngwrthwyneb i'r golygiad di synwyr yna, rhaid i ni ddal bod y ddeddf yr un yn mhob oes; canys fel hyn y dywaid y Deddfwr mawr, "Nid â un iod, nac un tipyn o'r gyfraith heibio hyd oni chwblhaer oll." Rhaid ei chyflawni gan bawb a gedwir yn mherson Machnïydd pechaduriaid; ac efe a wyddai trwy brofiad na's gwyrai y ddeddf oddiwrth un o'i gofynion lleiaf. Ac yn wir, ni's gallai wneuthur felly byth, gan ei bod yn ddeddf yr Hwn sydd, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.

3. Nid ffydd ac edifeirwch, a'r dyfal arferiad o foddion iachawdwriaeth, yw *yr achos haeddiannol* o'n dïangfa rhag digofaint a melldith Duw. Pe tybiem hyn, gwnelem iachawdwr o'n dyledswyddau: a byddai hyny yn wadiad ar iawn Crist; yr hyn yn ddiau sydd ddychymyg mwyaf ynfyd a pheryglus. Gwel Rhuf. 3. 20. Os gellir cael iachawdwriaeth ryw ffordd heblaw trwy ufudd-dod ac iawn Crist, yna y bu Crist farw yn ofer—y mae dyn yn iachawdwr iddo ei hunan—ac nid oes diolch i Grist am iachawdwriaeth, o leiaf am yr oll o iachawdwriaeth. Mae y cyfryw dŷb yn dangos yr anadnabyddiaeth llwyraf o'r cyfammod gras, ac o'r Ysgrythyrau, lle y mae y cyfammod hwn yn cael ei ddatguddio: ac y mae yn cael ei ddilyn a'r perygl mwyaf.

Sylw 279.—*Mae ffydd yn Nghrist, ac edifeirwch i fywyd, yn angenrheidiol er dïanc rhag digofaint Duw, a'r felldith ddyledus i ni am bechod.*

1. Y mae *ffydd yn Nghrist* yn ofynol am y cyfrifon canlynol:—(1.) Am ein bod yn feirw mewn camweddau a phechodau hyd oni chredom, Eph. 2. (2.) Am fod yn anmhossibl rhyngu bodd Duw heb ffydd, Heb. 11. 6. (3.) Am mai ar ffydd y mae iachawdwriaeth a thrueni dynion yn troi, Marc 16. 16; Ioau 3. 16, 36. (4.) Am na's gellir bod mewn undeb â Christ heb ffydd, 2 Cor. 5. 17; Ioan 15. 4, &c. (5.) Am fod credu yn cael ei orchymyn mewn modd arbenig gan Dduw, 1 Ioan 3. 23; Ioan 6. 29.

2. Y mae edifeirwch i fywyd yn angenrheidiol ar y cyfrifon canlynol:—(1.) Am fod yr Ysgrythyrau yn gofyn hyny, Act. 17. 30; Ezec. 18. 30, &c., a 33. 11; Act. 2. 38. (2.) Am ei fod nid yn unig yn cael ei ofyn; ond yn cael ei ofyn gyda sicräad y bydd pob un nad edifarhao yn golledig yn ddiau, Luc 13. 3, 5; Dat. 2. 5. (3.) Am nad oes un euogrwydd anedifeiriol yn y nef; ac o ganlyniad, heb edifeirwch, ni's gallwn fyned i deyrnas nefoedd. (4.) Am fod Crist wedi ei ddyrchafu

i roddi edifeirwch, Act. 5. 31. (5.) Mae edifeirwch yn angenrheidiol fel cydymaith ffydd, Zech. 12. 10. Mae ffydd yn rhoddi i ni olwg ar yr hyn yw Crist, a'r hyn a wnaeth efe, fel na byddai i anwiredd ein dystrywio; ac edifeirwch yw arferiad cyhoeddus enaid wedi ei argyhoeddi o waith Crist yn ei ddeddfle.

Ond, gellir gofyn yma, Onid yw ffydd ac edifeirwch yn cael eu darlunio yn yr Ysgrythyrau fel *rhoddion Duw?* Pa fodd gan hyny y gallant fod yn ofynol genym ni? A ydym ni i gasglu y gallwn ni gredu ac edifarhau o honom ein hunain? Neu, pa fodd y gall Duw ofyn genym yr hyn nid yw yn ein gallu ei gyflawni? I hyn yr attebwn, bod Duw yn gofyn genym ni gyflawni yr hyn ni's gallwn er dangos yr angenrheidrwydd am y gras a addawodd, ag y mae Crist wedi ei ddyrchafu a'i awdurdodi i'w roddi, Phil. 1. 29; Eph. 1. 19; Act. 5. 31, a 11. 18; Ioan 6. 44. a 15. 5; Jer. 13. 23.

Mae y cyssylltiad sydd rhwng *ffydd* ag iachadwriaeth yn gynnwysedig yn hyn, mai hi yw y llaw sydd yn derbyn Crist, a holl ddoniau y prynedigaeth sydd yn dyfod drwyddo ef i bechaduriaid, Ps. 68. 31; Ioan 1. 12.

Mae y cyssylltiad sydd rhwng *edifeirwch* ag iachawdwriaeth yn gynnwysedig yn hyn, mai hyny yw yr ymarferiad sydd yn deillio yn naturiol o ffydd yn Nghrist Iesu, fel amlygiad o'r trallod hwnw am bechod, heb yr hyn ni's gall fod iachawdwriaeth i bechaduriaid, a'r hyn sydd reddfol yn yr holl rai a gânt weled teyrnas nefoedd; ac yn eu hadgofio o'r Hwn a wnaed yn bechaberth drostynt hwy, fel y'u gwnelid hwy yn gyfiawnder Duw ynddo ef.

Sylw 280.—*Mae dyfal ymarferiad o foddion allanol, trwy y rhai y mae Crist yn cyfranu o ddoniau y prynedigaeth i bechaduriaid, yn anghenrheidiol er dianc rhag digofaint Duw, a'r felldith ddyledus i ni am bechod.*

Mae dyfal arferiad o foddion iachawdwriaeth yn angenrheidiol ar y cyfrifon canlynol:—1. Y mae y gosodiad o honynt yn dangos eu bod yn angenrheidiol. 2. Y maent yn angenrheidiol, oblegid, trwy eu gwrthod, yr ydym yn priodoli ffolineb i Dduw, ac yn bwrw diystyrwch arno ef. 3. Y maent yn angenrheidiol, oblegid na's gallwn ddysgwyl iachawdwriaeth heb wneyd defnydd prïodol o honynt; ac fel hyn y'n dysgir i farnu yn yr Ysgrythyrau yn wastadol, Diar. 8. 33, 34; Rhuf. 10. 17. 4. Mae yn dra angenrheidiol i ni eu defnyddio, oblegid fod Duw yn erchi i ni wneyd hyny. Y mae pob peth a orchymynodd efe yn wir angenrheidiol, o'i ran ef, ac o'n rhan ninnau;

—o'i ran ef, er dangos ei awdurdod a'i gariad; ac o'n rhan ninnau er dangos ein cariad tuag atto ef, a'n parch i'w air a'i awdurdod.

Wrth *ddyfal arferiad* o bob moddion allanol o ras yr ydym i ddeall ein dyledswydd i gofleidio pob cyfleustra a ymegyr i ni yn nhrefn rhagluniaeth, i ddysgwyl wrth Dduw yn y ffordd a orchymynodd efe; gan ddysgwyl wrtho ef am fendith arnynt, trwy yr hyn yn unig y gallant fod yn fuddiol i ni, a bod o adeiladaeth ysbrydol i ni. 1 Cor. 3. 6, &c.

Mae moddion gras yn cael eu rhanu yn ddau ddosparth yn gyffredin, sef *allanol a thufewnol.* Crybwyllir y moddion allanol uchod, fel y rhai y mae doniau y prynedigaeth yn cael eu cyfranu drwyddynt; a'r moddion tufewnol yw y rhai a gynnyrchir trwy ddefnyddio y moddion allanol, megis ffydd, ac edifeirwch, a'r doniau ysbrydol eraill y sydd yn eu canlyn.

Y mae cyssylltiad yr holl foddion allanol âg iachawdwriaeth yn hyn, sef, mai trwyddynt hwy y mae Crist yn cyfranu doniau y prynedigaeth i ni.

Gallwn sylwi yma, os ymarferiad allanol yn unig â'r ordinhadau a olygwn, bod ar law dyn ei hun wneyd hyny heb ddim gras goruwchnaturiol; ond y mae dyn o hono ei hunan yn hollol analluog i'w cadw i fuddioldeb. Felly, fel y gwrandawom i fuddioldeb, rhaid fod y Gair wedi ei gyd dymheru â ffydd; ac fe'n hysbysir yn yr Ysgrythyr, mai 'rhodd Duw yw ffydd.' Gall dyn ddarllen yr Ysgrythyrau, dyfod i dŷ Dduw yn gyson, galw ar ei enw, ymddiddan am y pethau a berthynant i'w enaid, ceryddu pechod, &c., heb ddim gras neillduol oddi fry. Ond, y mae gwahaniaeth dirfawr rhwng cadwraeth y moddion hyn yn nerth natur, a'r ymarferiad â hwy yn nerth y cyfammod newydd o ras.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y mawr bwys o feddu syniad cywir ar lwybr cymeradwyaeth pechadur ger bron Duw, nad dyledswyddau yw ei sail, ond cyfiawnder Crist wedi ei dderbyn trwy ffydd, heb yr hyn y derfydd am danom. 2. Yr angenrheidrwydd o wir edifeirwch. 3. Gwerth moddion iachawdwriaeth 4. Yr angenrheidrwydd o geisio bendith ar y moddion hyn.

## DOSB. 1.—AM FFYDD YN IESU GRIST.

## HOL. 86. PA BETH YW FFYDD YN IESU GRIST?

**Gras cadwedigol, trwy ba un yr ydym yn ei dderbyn ef ac yn ymorphwys arno yn unig am iechydwriaeth, fel y'i cynnygir i ni yn yr efengyl.**

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod ffydd yn Iesu Grist yn ras cadwedigol. Io. 20. 31. "A chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef." Gwel hefyd Heb. 10. 29.

2. Bod Iesu Grist yn cael ei dderbyn trwy ffydd fel Gwaredwr. Ioan 1. 12. "Ond cynnifer ag a'i derbyniasant ef, efe a roddes iddynt allu i fod yn feibion i Dduw, sef i'r sawl a gredant yn ei enw ef."

3. Ein bod drwy ffydd yn ymddibynu ar Grist am iachawdwriaeth. Act. 15. 11. "Eithr trwy ras yr Arglwydd Iesu Grist yr ydym ni yn credu ein bod yn gadwedig yr un modd a hwythau."

4. Ein bod drwy ffydd yn ymddibynu ar Grist yn unig am iachawdwriaeth. Gal. 2. 16. "Ninnau hefyd a gredasom yn Nghrist Iesu, fel y'n cyfiawnhaer trwy ffydd Crist, ac nid trwy weithredoedd y ddeddf."

5. Ein bod yn derbyn Crist trwy ffydd, fel y mae yn cael ei gynnyg yn yr efengyl. Eph. 1. 13. "Yn yr hwn y gobeithiasoch chwithau hefyd wedi i chwi glywed gair y gwirionedd, efengyl eich iachawdwriaeth."

EGLURHAD.

Sylw 281.—*Nid yw ffydd dim mwy na llai na chrediniaeth: a ffydd gadwedigol yw crediniaeth o'r efengyl, neu o dystiolaeth Duw am ei Fab.*

Meddyliodd llawer fod gwahanol rywogaethau o ffydd yn cael son am danynt yn yr Ysgrythyrau Sanctaidd, megis ffydd hanesiol, ffydd dymhorol, ffydd wyrthiol, a ffydd gadwedigol. Ond ymchwiliad manol i'r testyn a argyhoeddai y cyfyw, pa beth bynnag yw yr hyn a gredir, na's gall fod gwahaniaeth o ran y *dull* y credir; ac mai yr unig wahaniaeth a all fod sydd mewn perthynas i'r *gwrthddrych* neu y *peth a gredir*. Ni roddes yr ysgrifenwyr sanctaidd un amnaid erioed eu bod yn meddu unrhyw feddylrith annghyffredin yn gyssylltiedig â'r gair (pistis) *ffydd* neu *grediniaeth;* ac ni roddasant hwy unrhyw gyfarwyddiadau pa fodd i gredu, neu weithredu ffydd, er eu bod yn rhoddi pwys mawr ar yr hyn y mae dynion i'w gredu, a'r profiad Dwyfol o'i wirionedd. Mae yn beth nodedig hefyd, na chawn ni fod neb o'r dychweledigion boreuol yn ymholi pa beth yw ffydd, neu yn mha fodd yr oeddynt i gredu. Gan hyny, gallwn gasglu yn naturiol fod yr apostolion yn defnyddio y gair *ffydd* yn ei ystyr gyffredinol, yr hyn ni's gofynai unrhyw eglurhad, a bod eu gwrandawyr yn eu deall mewn gwirionedd.

Yn Heb. 11. 1, rhoddir y darnodiad canlynol o ffydd gan yr apostol, "Ffydd yw *hyder* y pethau yr ydys yn eu gobeithio, ac *argyhoeddiad* y pethau nid ydys yn eu gweled." Mae ffydd yma yn cael ei ddarlunio mewn dau air, *hyder*, ac *argyhoeddiad*; a'i gwrthddrychau ydynt *y pethau yr ydys yn eu gobeithio*, a'r *pethau nid ydys yn eu gweled.** Wrth y pethau yr ydys yn eu gobeithio y golygir y pethau da a ddatguddiwyd ac a addawyd; a *hyder*, yn ei berthynas â'r cyfryw bethau, ydyw *hyder o ddarbwylliad*, wedi ei selio ar ffyddlondeb a gallu Duw y bydd i'r hyn a addawodd efe yn ddiau gael ei gyflawni; canys fe'i heglurir fel hyn, *barnu yn ffyddlawn yr hwn a addawsai*, Heb. 11. 11: bod yn *gwbl sicr* am yr hyn a addawsai efe, ei fod yn abl i'w wneuthur hefyd, Rhuf. 4. 21. Y mae y sicrwydd ffydd yma yn addewidion Duw yn anysgaredig oddiwrth *obaith;* canys sicrwydd neu hyder y pethau yr ydys yn eu gobeithio, ydyw; ac fe'i gelwir *credu mewn gobaith*, Rhuf. 4. 18, am fwynhad o'r pethau da a addawyd. Trachefn, fe ddarnodir ffydd yma yn fwy cyffredinol;—"Sicrwydd y pethau nid ydys yn eu gweled." Mae y pethau nid ydys yn eu gweled, yn cynnwys, nid yn unig y pethau a addawyd, ond y pethau a dystiolaethwyd hefyd, Ioan 3. 33; 2 Thess. 1. 10; nid yn unig pethau da i'w gobeithio, ond pethau drwg i'w harswydo hefyd, Heb. 11. 7 nid pethau dyfodol yn unig, ond pethau presenol a mynedol hefyd, Heb. 11. 3, 6. Ond, rhaid iddynt oll, can belled ag y maent yn wrthddrychau ffydd, *fod yn annweledig ;* yn wrthgyferbyniol i olwg, 2 Cor. 5. 7, gan mai argyhoeddiad ydyw o wirionedd a dilysrwydd pethau a wnaethpwyd yn hysbys trwy ddatguddiad, ac ydynt yn seiliedig ar awdurdod y datguddiad hwnw, fel y mae yn Air Duw. 1 Thess. 2. 13.

* Er fod y gair *sail* neu *sylwedd*, yn nes i wir ystyr y gair gwreiddiol, eto y mae yn ofynol i ni ystyried y modd y'i defnyddir yn benaf yn yr Ysgrythyrau. Mae y LXX, yn fynych yn ei arfer i ddynodi *hyder*, neu *sicrwydd dysgwyliad*, Ruth 1. 12; Ps. 31. 7; Ezec. 19. 5. Cyfarfyddwn â'r gair bum waith yn y Testament Newydd, tair gwaith o ba rai y'i cyfieithir *hyder*, sef 2 Cor. 9. 4, a 11. 17; Heb. 3. 14; ac hyd yn nod yn y lle hwn, y mae y cyfieithwyr wedi rhoddi yr un gair ar ymyl y ddalen. Dwy waith y cyfarfyddwn â'r gair a gyfieithir *sicrwydd* yn y Testament Newydd; sef yn y fan hon, ac yn 2 Tim. 3. 16, lle y'i cyfieithir *argyhoeddi.* Mae y gair *argyhoeddiad* yn cyttuno yn oreu â'r perwyddair gwreiddiol, yr hyn yn gyffredin a gyfieithir *argyhoeddi*, megis yn Ioan 8. 9; Act. 18. 28; 1 Cor. 14. 24; Tit. 1. 9; Iago 2. 9; Jud. 15; Ioan 16. 8; 2 Tim. 4. 2. Er fod y gair gwreiddiol weithiau yn arwyddoccau *tystiolaeth, prawf, dadlyddiad, &c.*, y cyfryw a gynnyrcha argyhoeddiad; eto, pan yn ddynodawl o ffydd, rhaid ei fod yn golygu *argyhoeddiad* ei hunan, yr hyn yw effaith y dystiolaeth ar y meddwl.

Gellid egluro a chadarnhau y golygiad syml yma am ffydd trwy y sylwadau canlynol:—

1. Fe ddarlunir yr efengyl fel tyst, neu dystiolaeth i'r gwirionedd mawr hwn, mai yr Iesu yw y Crist, Mab Duw, a bod Duw wedi rhoddi bywyd tragywyddol ynddo ef i'r rhai oll a gredant, 1 Ioan 5. 5—13. A'r rhai a anfonwyd i dystiolaethu efengyl gras Duw, a elwir yn *dystion;* Ioan Fedyddiwr a ddaeth yn dystiolaeth, fel y tystiolaethai am y Goleuni, Ioan. 1. 7. Yr oedd yr Apostolion yn dystion etholedig i dystiolaethu y gwirionedd hwn i'r byd, Ioan 15. 27; Act. 10. 39, 41. Ac y mae y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, yn cael eu darlunio fel tri yn cyd dystiolaethu i'r un gwirionedd pwysig, 1 Ioan 5. 7. Am ba achos y'i gelwir *Tystiolaeth Dduw*, 1 Ioan 5. 9; 1 Cor. 2. 1.

2. Amcan uniongyrchol pob tystiolaethu yw cynnyrchu crediniaeth o wirionedd yr hyn a dystir. Dyma amcan datganedig tystio yr Efengyl; fe dystiolaethai Ioan am y Goleuni fel y credai pawb trwyddo ef, Ioan 1. 7. "A'r hwn a'i gwelodd a dystiolaethodd fel y credoch chwi." Ioan 19. 35. Dyma hefyd oedd amcan y gwyrthiau, trwy y rhai y cadarnheid tystiolaeth yr Efengyl, Ioan 10. 36—38, a 5. 36, a 30. 31.

3. Yn unol a'r sylwadau hyn, darlunir ffydd fel crediniaeth gyfattebol i'r pethau fydd yn cael eu llefaru, eu tystiolaethu, neu eu pregethu. Abraham, ffydd yr hwn a gyfodir fel esiampl i ni, a gredodd yn ol yr hyn a ddywedasid, Rhuf. 4. 18. Y cyfryw ydoedd ffydd y Thessaloniaid hefyd, "O herwydd i'n tystiolaeth ni yn eich mysg chwi gael ei chredu;" 2 Thess. 1. 10; a'r eiddo y Corinthiaid, "Felly yr ydym yn pregethu ac felly y credasoch chwi," 1 Cor. 15. 11. Nyni a wyddom oll pa beth yw derbyn neu gredu tystiolaeth dynion, yn mhethau pwysicaf y fuchedd ddynol; a thrwy hyn y mae yr Apostol Ioan yn rhoddi i ni ddarluniad o'r ffydd y mae yr efengyl yn ei ofyn, heb wneuthur unrhyw wahaniaeth rhwng natur y credu, ond yn unig cyfnewid tystiolaeth Duw am yr eiddo dynion,—"Os tystiolaeth dynion yr ydym yn ei dderbyn, y mae tystiolaeth Duw yn fwy," 1 Ioan 5. 9. Yr ydym yn derbyn tystiolaeth dynion, drwy gredu eu bod yn eirwir; felly, "Yr hwn a dderbyniodd ei dystiolaeth ef, a seliodd mai geirwir yw Duw," Ioan 3. 33. Yn y blaenaf, yr ydym yn credu *dynion;* yn yr olaf yr ydym yn credu *Duw;* yn y *gwrthddrych* yn unig y mae y gwahaniaeth, y mae natur y *credu* yr un yn y ddwy enghraifft. Y mae tystiolaeth Duw *yn fwy* na'r eiddo dynion; ond nid yw hyny yn peri un cyfnewidiad ar *natur credu,* heblaw cynnyddu ei radd yn unig, trwy roddi i ni fwy

o sicrwydd; canys y mae dynion yn ffaeledig, a gallant gael eu twyllo eu hunain; ond y mae y pethau hyny yn anmhossibl i Dduw, i'r hwn y mae hollwybodaeth a ffyddlondeb yn yn hollol ac anhebgorol brïodol. Mae yn amlwg nad yw yr Apostol yn meddwl dim wrth dderbyn tystiolaeth Duw, heblaw credu ei dystiolaeth; canys fel hyn y dywaid efe am yr ymddygiad gwrthwyneb, "A'r hwn nid yw yn credu yn Nuw, a'i gwnaeth ef yn gelwyddog, oblegid na chredodd y dystiolaeth a dystiolaethodd Duw am ei Fab," 1 Ioan 5. 10. Gan hyny, y mae yn amlwg, oddiwrth y cwbl, nad yw ffydd na mwy na llai na *chredu;* ac mai credu yr efengyl, neu dystiolaeth Duw am ei Fab, yw ffydd gadwedigol.

Gallwn sylwi yma, mai gwrthddrych personol ffydd yn gyffredinol yw Duw o ran ei hanfod, fel Tad, Mab, ac Ysbryd Glan; ond,y gwrthddrych personol yn neillduol yw *Iesu Grist.* Trachefn, y gwrthddrych cyffredinol, yw *holl air Duw*, yn yr hwn y mae ei enw, ei natur, a'i brïodoliaethau yn cael eu datguddio; ond, y gwrthddrych neillduol yw yr *addewid* yn y Gair, neu y *cynygiad* o Grist yn yr Efengyl.

Sylw 282.—*Trwy ffydd y mae pechadur yn derbyn Crist, ac yn ymorphwys arno ef yn unig am iachawdwriaeth.*

Fe ddywedir ein bod yn *derbyn Crist* trwy ffydd, oblegid ei fod yn cael ei ddarlunio fel *rhodd* neu ddawn Duw i blant dynion, y rhai ydynt yn eithafoedd tlodi a thrueni ysbrydol, 2 Cor. 9. 15; Dat. 3. 17, 18. Dengys hefyd y rhan a gymmerth y Tad yn ngwaith y prynedigaeth. "Efe a roddes ei Fab;" y mae efe yn cyflwyno y rhodd, yr hon, oni's derbyniwn, nyni a ddisgynwn dan ei lid, am ein bod yn gwrthod ei ras; ac fel hyn yn ei wneuthur ef yn gelwyddog trwy ommedd credu y dystiolaeth a dystiolaethodd efe am ei Fab,—hyny yw, trwy beidio coelio yr hyn a dystiolaethodd efe, sef, "Rhoddi o Dduw i ni fywyd tragywyddol trwyddo ef." 1 Ioan 5. 10, 11.

Fe ddywedir ein bod trwy ffydd yn *ymorphwys ar Grist*, oblegid ei fod ef yn cael ei bortrieadu i ni fel y sylfaen safadwy a osododd Duw yn Sïon, ar yr hwn y gall pwn ein holl achos ysbrydol a thragywyddol orphwys yn yr hyder llawnaf, Esa. 28. 16; Ps. 116. 7. Gellir sylwi yma, fod ymadrodd yn cael ei arfer yn fynych yn yr Hen Destament a ymddengys yn hollol gyfystyr âg *ymorphwys ar*, sef, *ymddiried yn*,—hyny yw, ymddibyniad diffuant ar Dduw, neu ar gyfiawnder ei Fab ef, am gymeradwyaeth ger ei fron ef. Gwel Esa. 26. 4, a 45. 24, a llawer o ymadroddion yn llyfr y Psalmau.

Dywedir fod yn rhaid i ni dderbyn Crist, ac ymorphwys

arno ef *yn unig* am iachawdwriaeth; er cau allan bob peth arall ond Crist a'i iachawdwriaeth, fel sail ein cymmeradwyaeth gyda Duw, a'n hawl i fywyd tragywyddol; a gwneir hyn er gwrthsefyll y rhai a fynent osod pethau eraill yn lle cyfiawnder perffaith y Gwaredwr.

1. Mae rhai a ymddiriedant yn *nhrugaredd gyffredinol Duw*. Gwneir hyn gan y rhai na's gwelsant erioed un angen am iawn dros bechod. Mynai y cyfryw ddyrchafu trugaredd ar draul cyfiawnder. Os gellir eu hachub hwy, ni's gofalant pa un ai mewn ffordd anrhydeddus neu beidio y gwneir hyny—na pha un ai yn gyson â'r priodoliaethau Dwyfol ai peidio, Mae hyn dra dianrhydeddus i Dduw, ac yn llwyr annghysson â'r hyn a ddarllenwn yn Exod. 34. 6, 7. Cofied y cyfryw, nad oes faddeuant heb iawn dros bechod.

2. Mae eraill a ymorphwysant ar *weithredoedd y ddeddf* fel sail eu gobaith a'u hyder. Gwneir hyn gan y rhai na's gwelsant ysbrydolrwydd ac ehangder y gyfraith erioed; y rhai ni chawsant eu hunain o dan ei melldith erioed; a'r rhai ni chawsant olwg erioed ar eu hollol analluogrwydd i ufuddhau yn berffaith i'r ddeddf mewn dim, Gal. 3. 10—12. Cofied y cyfryw, oni's gallai ein rhieni cyntaf yn eu cyflwr o ddiniweidrwydd crëedig ennill bywyd yn y ffordd hon, llawer llai y gallwn ni, sydd wedi colli pob cyfaddasrwydd i ufuddhau i'r ddeddf yn berffaith.

2. Mae eraill eto, y rhai a gyssylltant *gyfiawnder Crist a'u gweithredoedd eu hunain* fel sail eu gobaith a'u hyder. Dyma fyned yn waeth waeth; a gwneir hyn gan rai na's gwelsant berffeithrwydd iawn Crist, na'u pechadurusrwydd eu hunain. Mae y cyfryw yn dychymygu y bydd i Grist wneyd eu diffyg i fynu: ond y mae hyny yn feddwl tra ynfyd, a dïanrhydeddus i'r Drindod fendigedig, yn gymmaint a'i fod yn lled awgrymu nad eill y personau Dwyfol achub heb waith y pechadur, neu, fod eu gwaith hwy yn anmherffaith heb yr eiddo ef. Gwel Rhuf. 9. 31—33. Rhaid fod yma anwybodaeth dudew yn nghylch trefn iachawdwriaeth, fel y'i datguddir yn yr Ysgrythyrau.

Dyben ffydd yw *iachawdwriaeth;* hyny yw, gwaredigaeth oddiwrth bechod a digofaint, Matt. 1. 21; Pedr 1. 8, 9.—1. Mae gwaredigaeth *oddiwrth bechod* yn cynnwys rhyddhad oddiwrth *euogrwydd* pechod, neu y peth hyny mewn pechod, sydd yn ein gwneyd ni yn agored i'r gosb ddyledus am dano, Rhuf. 6. 23. Gwaredigaeth oddiwrth *halogrwydd* pechod, neu yr hyn mewn pechod sydd yn ein gwneyd yn hollol megys peth aflan; ac o ganlyniad, yn annghymwys i deyrnas nef-

oedd; canys ni all dim aflan fyned i'r Jerusalem Newydd. Gwaredigaeth oddiwrth *lywodraeth* neu *awdurdod* pechod; neu yr hyn mewn pechod sydd yn ein gwneuthur yn analluog i wasnaethu yr Arglwydd yn gymeradwy, mewn parch ac ofn duwiol, Rhuf. 6. 12, &c. A gwaredigaeth oddiwrth y *bod* o bechod, yr hyn sydd yn dyfod yn fwy fwy amlwg fel y defnyddiwn yr iawn, a'r hyn a symmudir yn llwyr yn angau, ond nid cyn hyny. 2. *Gwaredigaeth oddiwrth ddigofaint* sydd yn canlyn gwaredigaeth oddiwrth bechod; am hyny rhaid fod gwaredigaeth oddiwrth bechod yn fwy na gwaredigaeth oddiwrth ddigofaint. Mewn gair, y mae yr iachawdwriaeth, am yr hon yr ymorphwyswn ar Grist, yn gynnwysedig mewn buchedd a sancteiddrwydd yma, cystal ag o ddedwyddwch ar ol hyn, Matt. 1. 21; 2 Tim. 1. 9; Dat. 3. 21. "Gan hyny, od oes neb yn ymwybyddus ei fod yn foddlawn, os gall ei ffydd yn unig ei waredu rhag cosbedigaeth ddyfodol, a sicrhau etifeddiaeth o'r nefoedd iddo, y mae ganddo ormod o achos ofni fod yn rhaid iddo eto ddysgu am natur y ffydd a ddarlunir yn yr efengyl. Y mae teimlad gwastadol o'r fath yma, yn nôd sicr o feddwl dïadgenedledig, yn ei dwyllo ei hunan â rhyw beth llawer yn fyr o ffydd yn y Gwaredwr.

Gan hyny, ffydd yn Nghrist sydd deimlad o ymddiried ynddo ef am iachawdwriaeth yn ei holl ranau. Mae y credadyn yn ymddiried yn Nghrist am faddeuant pechod, sancteiddiad yr enaid, a gogoniant tragywyddol. Mae yn credu fod ei bechodau eisoes wedi eu maddeu ar gyfrif yr hyn a wnaeth Crist dros bechaduriaid; y bydd i Ysbryd Crist yr hwn sydd yn trigo ynddo ef, ei alluogi i buro ei enaid trwy ufuddhau i'r gwirionedd hyd y diwedd; ac y cyrhaedda efe y gogoniant addawedig yn ei iawn bryd.

Sylw 283.—*Mae Iesu Grist i'w dderbyn genym er iachawdwriaeth fel y'i cynnygir yn yr efengyl.*

1. Mae Iesu Grist yn cael ei gynnyg yn *rhad*, mewn gwrthwynebiad i unrhyw beth a all y pechadur ei ddwyn fel taliad am Grist, neu ei iachawdwriaeth. Mae dawn Duw uwchlaw pob pris,—yn anfeidrol werthfawr, ac yn cael ei chyfranu i bechaduriaid o ddynolryw o gariad penarglwyddiaethol ac annherfynol y Tad.

2. Mae Iesu Grist yn eael ei gynnyg yn *gyflawn*. Fe roddes Duw ei Fab i ni, nid i un pwrpas yn unig; ond i bob pwrpas; nid mewn un cymeriad neu berthynas, ond yn mhob cymeriad neu berthynas a lenwir ganddo. Derbyn Crist yn gyflawn, gan hyny, yw ei dderbyn yn ei berson ac yn ei holl

swyddau, y rhai ydynt oll yn angenrheidiol i ni,—ei dderbyn fel ein Prophwyd, fel ein Hoffeiriad, ac fel ein Brenin.

3. Mae Iesu Grist yn cael ei gynnyg yn *neillduol.* Nid digon yw credu fod Iesu Grist yn cael ei gynnyg i bawb yn gyffredinol, oblegid ni's gallwn gael un budd o gredu yn y cynnygiad cyffredinol o Grist, heb fod defnydd neillduol yn cael ei wneuthur o hono gan y person ei hunan i'r hwn y'i cynnygir. Nid digon yw credu, a bod wedi ein perswadio o drugaredd Duw yn Nghrist,—ei fod ef yn abl ac ewyllysgar i achub pechaduriaid; ond rhaid i ni fod wedi ein perswadio fod Crist yn abl ac ewyllysgar i'n hachub ni yn neillduol. Fel y mae y gyfraith yn condemnio, nid yn unig bawb yn gyffredinol, ond pob un yn neillduol hefyd; felly, nid oes dim a all waredu y pechadur sydd dan gondemniad neillduol fel hyn, ond cymhwysiad neillduol o Iesu Grist trwy ffydd.—"Bydd y gwirionedd cyffredinol, fod Duw wedi caru y byd, fel y rhoddodd efe ei uniganedig Fab, yr hwn sydd yn abl ac ewyllysgar i achub hyd yr eithaf pwy bynnag a ddêl atto ef, yn hollol annigonol i ennyn cariad y pechadur. Rhaid ei gael i gofleidio Crist, ac ymorphwys arno am ei iachawdwriaeth bersonol, cyn y gall hyn gymeryd lle. Ni all y pechadur byth ddywedyd yn ddiffuant, *Yr wyf fi yn caru Duw*, hyd oni allo ychwanegu hefyd, *Am iddo ef yn gyntaf fy ngharu I.* Mae y Psalmydd yn rhoddi darluniad cywir o'r modd y cynnyrchir cariad at Dduw, pan y dywaid, "Da genyf wrando o'r Arglwydd ar fy llef a'm gweddïau; o herwydd i ti waredu fy enaid oddiwrth angau, fy llygaid oddiwrth ddagrau, a'm traed rhag llithro." Ps. 116. Rhaid cael pob pechadur yn abl i ddweyd hyn, mewn hyder mwy neu lai, gyda golwg ar iachawdwriaeth dragywyddol, cyn y gall yn rhesymol ddysgwyl profi unrhyw gariad trwyadl at Dduw."

Os bydd y pechadur crynedig yn teimlo anmharodrwydd i wneuthur y cymhwysiad yma o'r athrawiaeth, yr hyn sydd raid i bob un ei wneyd atto ei hunan er meddu ffydd yn Nghrist, gellid ymresymu âg ef fel hyn:—"Nac amheua fod gwaed Iesu Grist, Mab Duw, yn glanhau oddiwrth bob pechod; ac y bydd i bawb a gredant ynddo ef gael eu cyfiawnhau oddiwrth yr holl bethau y rhai ni allent trwy y ddeddf gael eu cyfiawnhau oddiwrthynt, 1 Ioan 1. 7; Act. 13. 39. Dyma y dystiolaeth a roddes Duw i'w Fab. Gan hyny, onid ydwyt yn credu fod Duw yn awr yn ewyllysgar i'th dderbyn er mwyn ei Fab, yr ydwyt yn gwneuthur Duw yn gelwyddog, ac yn gwadu mai yr Iesu yw y Crist, 1 Ioan 2. 12, a 5. 10. Yr ydwyt yn credu, mae yn wir, ei fod ef wedi marw dros bech-

odau y byd; ond er credu fel hyn, nid ydwyt yn credu fod ei iawn ef yn ddigonol dros dy bechodau di. Fel hyn, tydi a fynit ei yspeilio ef o'i nodweddiad arbenig, a pheri na byddai efe mwyach yn Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd, a gwaed yr hwn sydd yn cyfiawnhau pawb a gredant ynddo oddiwrth bob peth. Yr ydwyt yn dywedyd mai creadur drygionus ydwyt, a'th fod yn annheilwng o'r fath drugaredd fawr; ac y mae hyny yn wir. Yr ydwyt mewn gwirionedd yn bechadur o'r fath fwyaf euog a halogedig, yr hwn ydwyt yn haeddu i ddigofaint Duw gael ei dywallt arnat; ond, oni all gwaed Crist dy gyfiawnhau di *yn awr*, pa bryd y daw e yn fwy effeithiol? a pha bryd y deui dithau yn llai euog? A fydd i'th ymddygiad dyfodawl wneyd iawn am dy bechodau, y rhai ni's gall gwaed Crist eu dyhuddo? Onid chwanegu euogrwydd a wnelit yn hytrach at dy anwiredd blaenorol, a dyfod yn fwy haeddiannol beunydd o'r llidiowgrwydd tanllyd a ddifa y gwrthwynebwyr? Gan hyny, na wrthod gynghor Duw yn dy erbyn dy hunan. Yr ydwyt yn credu fod Crist wedi marw dros ein pechodau, a chyfodi er ein cyflawnhau; cred, gan hyny, fod dy bechodau di wedi eu maddeu i ti er ei fwyn ef. Cred air Duw, pan y mae yn dweyd i ti, "Na chollir pwy bynnag a gredo, ond y caiff fywyd tragywyddol." Nid dyn yw efe i ddywedyd celwydd. A addawodd efe, ac oni chywira? Ond, oni chredi, tydi a fyddi yn aros yn dy bechodau, a melldith Duw a erys arnat ti. Eto, bydded hysbys i ti, os derfydd am danat ti, nad yw yn llai gwir nad oes un diffyg o du Crist er maddeuant dy bechodau, a'th wneyd yn etifedd gogoniant tragywyddol. Pa un bynnag ai credu a wnei di ai peidio, y mae hyn yn wirionedd yn awr, a gwir a fydd i dragywyddoldeb. Dy gredu di yn unig sydd yn eisiau i'th roddi mewn meddiant gweithredol o'r hyn y mae Crist yn abl ac ewyllysgar i'w gyfranu, ac y mae yn awr yn cynnyg ei roddi yn rhad. Gan hyny, na fydded i'th annghrediniaeth fod yn ddinystr i ti. Gochel ychwanegu at dy droseddau blaenorol y pechod anfaddeuol hwn—o ddirmygu Ysbryd y gras, a mathru gwaed Mab Duw.

Sylw 284.—*Mae cynnygiad yr efengyl o iachawdwriaeth yn cael ei wneyd i bawb; ond yr addewid o iachawdwriaeth i'r rhai a gredant yn unig.*

1. Mae *cyhoeddiad* a *galwad* yr efengyl ar bawb, o bob cenedl, cyflwr, a nodweddiad, heb unrhyw gyfyngiad nac eithriad, Marc 16. 16; Rhuf. 10. 12; Gal. 3. 28; Math. 9. 13; Luc 7. 37—50, a 23. 43; Act. 2. 37—40; 1 Cor. 6.

9—12; 1 Tim. 1. 13. Mae yr efengyl yn dal allan iachawdwriaeth *rad*, heb olygu gweithredoedd da, neu gymhwysderau dynion, i'w theilyngu, nac i'w parottoi a'u cyfaddasu eu hunain erddi. Mae iachawdwriaeth yn mhob man yn cael ei phrïodoli i rad ras penarglwyddiaethol Duw, Eph. 2. 5; Tit. 3. 5; Rhuf. 11. 5, a 3. 24; Eph. 1. 5, 6; Rhuf. 4. 16, a 11. 6, a 4. 5, 16; Eph. 1. 8. Mae yr efengyl hefyd yn *galw* pawb yn mhob man i ffydd ac edifeirwch, ac yn eu *gwahodd* yn y modd mwyaf difrifol i gyfrannogi o iachawdwriaeth rad a chyflawn, Esa. 55. 1—8; Math. 11. 28; Ioan 7. 37, 38; Luc 14. 16—24. Yr oedd yr apostolion nid yn unig yn cyhoeddi tystiolaeth yr efengyl, ond hefyd yn galw pawb i'w chredu er eu hiachawdwriaeth; ac yr oeddynt yn cefnogi yr alwad yma â phob cymhelliad a dadl a allent gael o'r efengyl, y rhai ydynt y cryfaf a ellir eu cynnyg i'r meddwl dynol, 2 Cor. 5. 18—21; Act. 17. 30, 31, a 3. 19, a 20. 21, a 26. 20.

Ond, 2. "Er fod cyhoeddiad a galwad yr Efengyl yn gyffredinol, eto nid yw yr *addewid* o iachawdwriaeth ond i'r sawl *a gredo* yn unig, Marc 16. 16; Rhuf. 10. 9. Nid yw yr efengyl yn cyhoeddi yr achubir *pawb*; nac, yn wir, yr achubir neb na chredo. Y mae yn cyhoeddi tystiolaeth Duw am ei Fab, a'r iachawdwriaeth sydd ynddo ef; yn galw ar holl ddynolryw i gredu y dystiolaeth hòno; gan addaw iachawdwriaeth i bob un a'i credo; ond nid i neb arall. Gan hyny, nid yw addewid yr efengyl o iachawdwriaeth yn gyffredinol; ond y mae wedi ei chyfyngu i'r rhai a gredant, Ioan 3. 16. Yn mhellach, megis nad yw yr efengyl yn addaw iachawdwriaeth i neb ond credinwyr, nac yn dweyd wrth un person yn neillduol, yn bendant ac uniongyrchol, ei fod ef yn gredadyn, felly y mae sicrwydd dyn o'i gyfiawnhad ei hunan yn seiliedig, yn unig ar *dystiolaeth bendant* Duw, ond hefyd ar dystiolaeth ei gydwybod ei hun, yn dwyn tystiolaeth iddo yn yr Ysbryd Glan, *ei fod yn credu* tystiolaeth yr efengyl am Grist, ac felly *yn gyfiawnhaol* yn ol addewid yr efengyl."

Sylw 285.—*Ni's gall un pechadur gredu o hono ei hun; neu mewn geiriau eraill, dawn Duw yw ffydd.*

"Er fod gwybodaeth a chrediniaeth o'r gwirionedd yn ddyledswydd orphwysedig ar bawb sydd yn gwrandaw yr efengyl, eto, dawn neillduol Duw yw y crediniaeth yma, gan ei fod yn effaith dysgeidiaeth Ddwyfol, drwy y Gair fel moddion, ac yn perthyn i'r etholedigion yn unig, Eph. 2. 8; Phil. 1. 29; Ioan 6. 45; Rhuf. 10. 17; 1 Ioan 5. 1. Y mae yn hollol anmhossibl i bechadur marw mewn pechod, i ddechreu gweith-

redu ffydd, neu ddechreu ymarfer un o ddoniau yr Ysbryd, cyn i'r addewidion o'r doniau hyn gael dechreu eu cyflawni iddo; ac am hyny gelwir ffydd yma yn *ras cadwedigol.* Fe'i gelwir *gras,* am ei fod yn cael ei rad roddi i'r pechadur, heb fod dim ynddo i'w deilyngu, neu ei arganmol i sylw Duw; ac fe'i gelwir *gras cadwedigol,* nid am ei fod yn cadw fel y mae yn weithred o'r eiddom ni, neu fel pe byddai yn ammod, trwy gyflawniad o'r hwn y'n cedwid, (canys iachawdwriaeth trwy weithredoedd a fyddai hyny, yn hollol groes i'r drefn o iachawdwriaeth a ddatguddir trwy yr efengyl), ond oblegid fod iachawdwriaeth yn ei ddilyn, pa le bynnag y'i canfyddir o weithrediad Duw. Gwel Col. 2. 12. Gan hyny, pa ryw ymddangosiadau bynnag o ffydd a all fod mewn gau grefyddwyr, nid ydynt yn meddu yn wirioneddol y synied hwnw o'r gwirionedd, na'r darbwylliad hwnw o'i brïodol brawf, a fedd gwir gredinwyr."

Ond, y mae gocheliad yn angenrheidiol yma, gyda golwg ar yr athrawiaeth o ddylanwad Dwyfol. "Dylem ochelyd cam ddefnyddio yr athrawiaeth yma, trwy esgeuluso credu yn Nghrist, hyd oni theimlom weithrediad eglur yr Ysbryd, yn ein galluogi i wneuthur hyny; neu esgeuluso ufuddhau i alwad yr efengyl, dan y rhîth o adael i Dduw gyflawni ei waith, trwy blanu y gras o ffydd ynom. Mae Duw yn cyfranu y ddawn o ffydd, trwy alluogi dynion mewn modd anamgyffredadwy i ystyried a derbyn ei Air, fel creaduriaid rhesymol. Gan hyny, ni wiw i ni ddysgwyl am ryw gyffröad teimladwy, disymwth, o Ddwyfol ras, fel y dysgwylia y morwyr am lanw y môr cyn y cynnygiant adael y porthladd; ac nid gwiw i ni feddwl ei fod yn angenrheidiol i ni fod yn alluog bob amser i wahaniaethu rhwng gweithrediadau grasol yr Ysbryd, a gweithrediadau naturiol ein galluoedd deallawl ein hunain. Dylem ymddiried yn drwyadl yn nghymorth effeithiol gras Dwyfol, a phriodoli yr oll o'n iachawdwriaeth i allu anfeidrol; ac eto, nyni a ddylem ymdrechu i gredu, ac ufuddhau i'r efengyl, fel pe byddem yn alluog i wneuthur hyny o honom ein hunain." Gallwn sylwi yn mhellach, fod yn angenrheidiol i ni yn ein hymdrechion i gredu yn Nghrist, fod wedi sefydlu ein sylw, nid ar weithrediadau ein meddwl ein hunain, ond ar y gwrthddrychau allanol a nefol hyny, a gyflwynir i'n sylw yn yr efengyl;—"ar ffeithiau ac athrawiaethau, gwahoddiadau ac addewidion yr efengyl—person Dwyfol a swyddau cyfryngol Crist—ei iawn machnïol ar y groes, a'i weinidogaeth ogoneddus yn y deml nefol—ei dosturi annherfynol, a'i allu anfeidrol—ei oludoedd anchwiliadwy, a'i ffyddlondeb digyf-

newid;"—mewn gair, ar "Oen Duw, yr hwn sydd yn tynu ymaith bechodau y byd."

Sylw 286.—*Gan na allwn wahaniaethu rhwng y gwir gredadyn a'r proffeswr coeg wrth gyffes y genau, pan fyddo y gyffes hóno yn cyfatteb i'r ffurf o athrawiaeth iachus, y mae yn angenrheidiol bod gwir ffydd i'w gwahaniaethu trwy ei heffeithiau priodol ar y fuchedd a'r galon.*

Rhaid i hyn fod yn amlwg i bawb. "A'r cyfryw ydyw natur bwysig, ddyddorawl, ac iachus y gwirionedd a dystir yn yr efengyl, yn nghyd a'i gyfaddasrwydd a'i radlonrwydd i'r penaf o bechaduriaid, fel pan gynted y'i canfyddir ac y'i credir, y mae yn cymeryd meddiant o'r ewyllys a'r serchiadau, ac yn dyfod yn yr enaid yn sail ei obaith, ei hyder, a'i ymddiried,—yn wrthddrych ei ddymuniad, ei gymeradwyaeth, ei fri, a'i lawenydd,—ac yn egwyddor pob tueddfryd fywiol, sanctaidd, a grasol yn y galon.

Y mae gocheliad yn angenrheidiol yma. "Ni ddylai yr *effeithiau* hyn o ffydd, neu o'r gwirioneddau a gredir, gael eu camgymeryd am *ffydd ei hunan*, fel y gwneir yn fynych. Er mai ffydd yw sicrwydd *y pethau yr ydys yn eu gobeithio*, a'i bod yn gweithio trwy *gariad;* eto, nid gobaith ydyw, ac nid cariad, canys y mae yr apostol yn ei gwahaniaethu oddiwrth y ddau:—"Yr awr hon y mae yn aros ffydd, gobaith, cariad, *y tri hyn.*" 1 Cor. 13. 13. Gellir dywedyd yr un peth am ei holl effeithiau eraill ar y galon; canys pa beth bynnag sydd yn fwy na chrediniaeth sydd fwy na ffydd, ac y dylai fyned dan enw arall." Gallem sylwi yma, fod ffydd, gobaith, a chariad, yn cael eu gwahaniaethu yn gywir fel hyn:—"Mae yr efengyl yn cyflwyno tystiolaeth *ffyddlawn* i'w chredu; yn dangos gwrthddrych *hawddgar* i'w garu; *a phethau da i ddyfod* i obeithio am danynt. Gan hyny y mae *ffydd* yn golygu gwirionedd y dystiolaeth; *cariad*, yr hyn sydd hawddgar ynddi; a *gobaith*, y pethau da a olygir.

Ond, efallai y gofynir yma, pa angenrheidrwydd sydd i wneuthur y fath wahaniaethiad cywrain? A all rhyw niweid ddeillio o gynnwys yn natur ffydd y cyfryw dueddiadau, a serchiadau, ac ymarferiadau calon ag ydynt yn annysgaredig oddiwrthi?—I hyn yr attebwn yn yr ystyriaethau canlynol:—

1. Oddieithr i ni fod yn ofalus i wahaniaethu rhwng ffydd a'i heffeithiau, yn enwedig yn y pwnc o gymeradwyaeth dyn gyda Duw, fe wneir cam dirfawr â'r athrawiaeth bwysig o gyfiawnhad trwy ffydd yn unig. Mae yr Ysgrythyr yn datgan yn eglur fod Duw yn cyfiawnhau pechaduriaid *yn rhad drwy*

*ei ras ef*, trwy y prynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu; a bod y cyfiawnhad yma yn cael ei dderbyn *trwy ffydd yn ngwaed Crist*, Rhuf. 3. 24, 25. Mae ffydd yn y pwnc yma yn wastad yn cael ei gwahaniaethu oddiwrth, a'i dodi yn wrthwyneb i weithredoedd y ddeddf; nid yn unig y ddeddf seremonïol, ond y ddeddf hòno sydd yn cyrhaedd y galon cystal a'r fuchedd, Rhuf. 3. 20, 27, 28; a 9. 32. Gal. 2. 16; a 3. 9—15. Math. 22. 37—41. Gan hyny, oni's gwahaniaethir rhwng ffydd â'n cydffurfiad â'r ddeddf, yn allanol ac yn dufewnol, ni's gellir dywedyd ein bod yn cael ein cyfiawnhau trwy ffydd heb weithredoedd y ddeddf, neu, fod Duw, yn cyfiawnhau yr *annuwiol:* Rhuf. 3. 28; a 4. 5. "O ffydd y mae, fel y byddai yn ol gras," Rhuf. 4. 16; ac fe ddarlunir gras a gweithredoedd megys yn annghysson a'u gilydd, Rhuf. 11. 6; canys i'r neb sydd yn gweithio, ni chyfrifir y gwobr o *ras*, ond o *ddyled*, Rhuf. 4. 4. Yn awr, pan gynnwyso dynion yn natur ffydd gyfiawnhäol, y cyfryw dueddiadau daionus, serchiadau sanctaidd, ac ymarferion calon duwiolfrydig, ag y mae y ddeddf foesol yn ei gofyn, ac felly eu gwneyd yn angenrheidiol er cymeradwyaeth pechadur gyda Duw, y maent yn gwyrdroi athrawiaeth yr apostol ar y pwnc pwysig yma, ac yn gwneuthur i gyfiawnhad fod o leiaf, 'fel pe byddai trwy weithredoedd y ddeddf.'

2. "Y mae effaith y fath athrawiaeth ar feddwl pechadur deffröedig yn amlwg. A'r hwn a ddychymygo fod yn anhebgorol er ei faddeuant, a'i gymeradwyaeth gyda Duw iddo fod yn feddiannol ar gyfryw dueddiadau daionus, a serchiadau sanctaidd, ag a ddarlunir yn gyffredin, megys yn gynnwysedig yn natur ffydd, ni chaiff ymwared yn yr efengyl, na dim ynddi a gyrhaedda ei gyflwr ef, tra nad yw yn ei ganfod ei hunan namyn pechadur euog yn unig. Yn lle credu yn yr Hwn sydd yn cyfiawnhau yr annuwiol, y mae efe yn credu i'r gwrthwyneb, na's gellir ei gyfiawnhau ef hyd oni byddo yn dwyn nodweddiad gwahanol. Er fod Crist wedi marw dros *bechaduriaid*, dros yr *annuwiol;* eto, nid yw yn credu y bydd i angau Crist fod o un budd iddo ef fel pechadur yn unig; ond fel un meddiannol ar dueddiadau sanctaidd; ac nid yw yn dysgwyl ymwared i'w gydwybod yn unig ac yn hollawl o'r iawn, ond trwy gyfrwng barn well am ei galon, neu ei nodweddiad ei hun. Ac os bydd e mewn pryder gwirioneddol yn nghylch iachawdwriaeth ei enaid, rhaid i'r cyfryw synied ei yru i geisio diwygio ei galon, a gwneyd rhyw beth dan y dychymyg o weithredu ffydd, fel y'i cyfiawnhäer; a chyfeirir ei holl ymdrechiadau, gweddïau, ac ymarferion crefyddol i'r

dyben hwnw. Mae crefydd miloedd yn gynnwysedig mewn rhestr olynol o ymdrechiadau o'r fath, tra y maent yn cael eu cynhyrfu bob yn eilchwyl gan ofnau a gobeithion, yn ol fel y meddyliont eu bod wedi llwyddo neu aflwyddo yn y cyfryw lafur am hunan gyfiawnhâd; a phe y llwyddai rhyw un i'w weithio ei hun fel hyn i ryw radd o obaith a thangnefedd, nid oddiar y gwaith a orphenodd Mab Duw, fel y mae ei hun yn ddigonol er cyfiawnhâd yr annuwiol, y byddai y cyfryw obaith yn cyfodi, ond oddiar ryw gyfnewidiad y dychymygir ei fod wedi ei weithredu ar ei galon ei hun, yn rhoddi hawl iddo i ymddiried ynddo ef. Fel mai effaith yr egwyddor hon yw ofn poenus, neu hyder hunan-gyfiawn; ac yn y canlyniad, y mae y naill ffordd a'r llall, yn llwyr wrthnaws i dangnefedd di dwyll, a gwir sancteiddrwydd efengylaidd."

Sylw 287.—*Y prawf cyntaf a phenaf o ffydd, yw cydwybodolrwydd.*

"Rhaid i bawb a fyddo yn gwir gredu yr efengyl fod yn ymwybyddus o hyny yn y fàn, i raddau mwy neu lai. Yr ydym wedi ein cyfansoddi y fath, fel na's gallwn glywed, teimlo, neu weled gwrthddrychau heb fod yn ymwybyddus o hyny. Mae yr argraffiadau a wneir gan wrthddrychau ar ein synhwyrau, a'n cydwybodolrwydd ninnau o'r argraffiadau hyny, yn anysgaredig. Yr un modd y mae ein meddyliau wedi eu llunio yn gyfryw, fel na's gallwn gredu unrhyw dystiolaeth, heb wybod ein bod yn ei chredu. Pa beth bynnag a gynnyrcho grediniaeth, y mae ar yr un pryd yn peri cydwybodolrwydd tufewnol o hyny; ac yn mhob peth yn gyffredin, ni's gallwn fod yn fwy sicr *fod pob peth yn wirionedd*, nag a fyddwn o'n *bod ni ein hunain yn ei ganfod felly*. Mae pob dyn yn gwybod hyn trwy brofiad. Gan hyny, pan fyddo goleuni yr efengyl ogoneddus yn llewyrchu i galon pechadur gyda sicrwydd dwyfol, nes cynnyrchu argyhoeddiad mai gwir dystiolaeth Duw ydyw, y mae hyny o angenrheidrwydd yn cael ei ddilyn â chydwybodolrwydd presenol yn meddwl y sawl a fyddo yn credu ac yn teimlo dylanwad y dystiolaeth. Mae yr Ysgrythyrau yn cymeryd yn ganiattâol fod y credadyn yn ymwybyddus o'i ffydd yn y fàn; canys y mae yn ei alw o'r dechreu i'w chyffesu â'i enau, i iachawdwriaeth. Rhuf. 10. 9. Gofynai yr Iesu i'r dall y rhoisai efe ei olwg iddo, "A wyt ti yn credu yn Mab Duw?" Ioan 9. 35. Efe a ofynai i'w ddysgyblion hefyd, "Ond pwy *meddwch chwi* ydwyf fi?" Matt. 16. 15; a Phylip a ddywedai wrth yr Eunuch, "Os wyt ti yn credu â'th holl galon," Act. 8. 37. Y gyffes a ofynir,

sydd *o grediniaeth dyn ei hun*, yr hyn ni's gallai un dyn ei gwneyd yn ddiffuant, heb wybod ei fod yn credu. Felly y mae cyffesiadau yr Ysgrythyr yn debyg i hyn,—"Yr ydym ni yn credu, ac yn gwybod mai tydi yw y Crist, Mab y Duw byw." Ioan 6. 69.—"Wrth hyn yr ydym yn credu ddyfod o honot allan oddi wrth Dduw." Ioan 16. 30.—"Yr wyf fi yn credu, O Arglwydd," Ioan 9. 38.—"Yr wyf yn credu fod Iesu Grist yn Fab Duw." Act. 8. 37. Mae y cyffesiadau hyn yn datgan, nid yn unig eu *crediniaeth*, ond hefyd eu *cydwybodolrwydd* o hyny; ac os caniattäwn eu bod yn ddiffuant, ac nid wedi eu llefaru mewn anwybodaeth neu ragrith, maent yn profi yn eglur fod y rhai ydynt yn credu yr efengyl yn gwybod yn y fàn eu bod yn ei chredu, ac yn alluog i ddywedyd, *Yr wyf yn credu*. Y rhan fwyaf o'r cyffesiadau uchod a wnelid ar eu crediniaeth gyntaf, a chyn i'w ffydd gael ei hamlygu trwy eu gweithredoedd. Efallai nad allent atteb yr holl gywrain gwestiynau a gyfodai dynion yn nghylch natur ffydd, mwy nag y gallai y dyn dall draethu ar athronyddiaeth goleuni, a gwelediad, neu ddywedyd pa fodd yr agorasai yr Iesu ei lygaid ef; eto gallant ddywedyd fel hwnw, a chyd a'r un cydwybodolrwydd, "Un peth a wn I, lle yr oeddwn I gynt yn ddall, yr wyf yn awr yn gweled." Ioan 9. 25. Gwnaeth gallu yr Iesu i roddi ei olwg i'r dall, ef yn hysbys ei fod yn gweled yn y fàn, heb adael un lle i resymu ar y peth; felly, pan fyddo cynnwys y gwirionedd, a'r sicrwydd o hono yn llewyrchu i'r galon trwy oleuni yr Ysbryd, y mae yn meddu yr effaith ddyblyg ar unwaith, o gynnyrchu *crediniaeth*, a'r *cydwybodolrwydd* o hyny. Y cydwybodolrwydd yma o ffydd yw y prawf cyntaf i ddyn ei fod ef wedi ei gyfiawnhâu yn ol addewid yr Efengyl; ac ar hyn y mae yn rhaid i bob prawfion dilynol orwedd yn y diwedd; canys ni all gweithredoedd da brofi iddo ei fod wedi ei gyfiawnhâu, oddieithr ei fod ar yr un pryd, yn ymwybyddus eu bod yn ffrwythau ffydd a chariad."

Gellir egluro hyn yn mhellach trwy y sylwadau canlynol:—

1. "Fe'i crybwyllir fel ffaith, bod y dychweledigion cyntaf at Gristionogaeth wedi eu llenwi â *thangnefedd a llawenydd* càn gynted ag y credasant yr efengyl, Act. 2. 24; a 8. 39; a 10. 43, 46; a 13. 48; a 16. 31—35. 1 Thes. 1. 5, 6. Y mae heddwch â Duw, a llawenydd dan obaith ei ogoniant ef yn gyssylltiedig â bod wedi ein cyfiawnhâu trwy ffydd, Rhuf. 5. 1, 2. Ni's gall crediniaeth y *gallant* gael eu cyfiawnhau, neu obaith am gael eu gwneyd yn gyfiawn, er fod hyny yn ymwared o anobaith, gyfatteb yn gyflawn i'r tangnefedd a'r

gorfoledd yma.* Mae credinwyr yn mwynhau heddwch â Duw yn ol gradd y profiad a feddont fod eu pechodau wedi eu maddeu iddynt; ac fe ddarlunir eu llawenydd, fel llawenydd yn Nuw, trwy yr Arglwydd Iesu Grist, trwy yr hwn yr awr hon y derbyniasant y cymmod. Rhuf. 5. 11. Dywedir fod y gydwybod wedi cael ei phuro, neu ei pherffeithio trwy waed Crist, Heb. 9. 14; a 10. 2. Mae y *teimlad* o euogrwydd yn y gydwybod yn beth *sicr* a *phersonol;* a'r boen a achlysurir trwy hyny yw ofn digofaint Dwyfol ar y person. Yr iawn *yn unig*, neu *heb ddim mwy*, sydd ddigonol i symmud yr ofn yma, perffeithio y gydwybod, a rhoddi heddwch â Duw; ond nid yw yn cynnyrchu yr effaith yma ar y gydwybod tra mae yn cael ei olygu gan y pechadur fel ymwared *ddichonadwy* yn unig, neu y peth, trwy yr hwn y *gall* efe gael ei gyfiawnhâu, tra yn aros yn llwyr ansicr pa un *a yw*, neu *a fydd* efe byth yn gyfiawnhâol drwyddo neu beidio. Ni all maddeuant cuddiedig byth gyflawn ryddhâu, neu buro y gydwybod. Yr un peth yw cydwybod bur ag yw profiad cydwybodol o'n bod ni wedi ein puro. Fe ddarlunir hyn fel peth sydd raid i ni ei feddu er ein cymhwyso i wasanaethu Duw byw gyda rhyddid a chymeradwyaeth; ac fe gymerir yn ganiattâol ein bod yn credu y gwirionedd, ac yn gydwybodol o hyny hefyd, Heb. 9. 24.

2. "Mae *Ysbryd mabwysiad* hefyd yn cael ei ddarlunio fel rhagorfraint gyffredinol yr holl gredinwyr; canys fel y maent oll yn blant i Dduw trwy ffydd yn Nghrist Iesu, Gal. 3. 26, felly am eu bod yn feibion yr anfonodd Duw Ysbryd ei Fab i'w calonau; Gal. 4. 6. Trwy yr Yspryd hwn y maent yn adnabod eu perthynas fabaidd â Duw; canys y mae yn cyd dystiolaethu â'u hysbrydoedd hwy, eu bod yn blant i Dduw, ac yn eu gwroli i lefain 'Abba Dad.' Rhuf. 8. 15, 16. Yn unol â

* Er ceisio dangos na's medd credadyn, hyd yn nod mewn llawn sicrwydd ffydd, ddim prawf fod Duw yn *ewyllysgar* i'w achub ef, mae rhai yn crybwyll ffydd y rhai a geisient feddyginiaeth i'w cyrph, yr hyn debygid nid oedd yn ddim amgen na darbwylliad o *alluogrwydd* Crist. Ond i hyn y mae yr atteb yn rhwydd. Nid oedd un cyhoeddiad cyffredinol wedi ei wneyd y byddai i Grist iachâu yr holl rai a gredent yn ei *allu* ef. Buasai y fath gyhoeddiad yn symmud pob amheuaeth o'i *ewyllysgarwch*, o'r rhai a gredent ei *allu*, ac ni buasai ganddynt le i ddywedyd, "Os *myni*, ti a elli fy nglanhâu !." Ond, y mae yr Efengyl yn cyhoeddi yn eglur mai ewyllys Duw ydyw, "Cael o bob un ar sydd yn gweled y Mab, ac yn credu ynddo ef, fywyd tragywyddol." Io. 6 40. A'r Iesu a ddywedodd, "Yr hwn a ddêl attaf fi, ni's bwriaf ef allan ddim," adn. 37. Mae hyn yn rhoddi hawl i'r credadyn ar ei *ffyddlondeb* ef, ac nid yw yn gadael un lle i ammeu ei *ewyllysgarwch*.

hyn y dysgai Crist ei ddysgyblion i weddïo, gan ddywedyd, 'Ein Tad, &c.'

3. "Effaith uniongyrchol arall o gredu yr efengyl, yw *cariad at Dduw*, yr hyn sydd yn arwyddo adnabyddiaeth o'i gariad ef attom ni. Mae yn wir yr addefir mai pan y canfyddom ei ewyllys da tuag at bechaduriaid yn gyffredinol, fel y'i hamlygir yn yr efengyl, ac y gwybyddom fod maddeuant gydag ef, nes ymddiried yn ei drugaredd,y cymmodir ni â'i gymeriad ef, ac y'n harweinir i'w *barchu*, a *dymuno ei ffafr* goruwch pob peth, er na byddom eto yn gwbl sicr o'i fod yn ein caru ni yn neillduol: ac y mae yn ddiddadl mai cariad yw hynyna; ond ni all y cariad hwnw sydd o natur *ddiolchgar* ddim cymeryd lle, hyd oni fyddom wedi ein perswadio i ryw radd ein bod ni ein hunain yn cael ein caru, neu, yn derbyn llesäad oddiwrth y gwrthddrych a garwn. Am hyny y dywaid yr apostol, "Yr ydym ni yn ei garu ef, am iddo ef yn gyntaf ein caru ni." 1 Ioan 4. 19, hyny yw, am ein bod yn *gwybod* hyn; canys efe a ddywedasai o'r blaen, "Nyni a adnabuom ac a gredasom y cariad sydd gan Dduw tuag attom ni."

4. "*Ufudd-dod* sydd effaith arall o gredu y gwirionedd. Ond fe annogir credinwyr i ufudd-dod oddiar ystyriaeth o'u bod wedi eu gwaredu, ac eisoes mewn cyflwr cyfiawnhâol. Gorchymynir iddynt *garu* eu gilydd, a *rhodio* mewn cariad, am fod Duw wedi eu caru, ac megis y carodd Crist hwy, ac a'i rhoddes ei hun drostynt, Ioan 13. 34; 1 Ioan 4. 11; Eph. 5. 2; i *faddeu* i'w gilydd, oblegid fod Duw er mwyn Crist wedi maddeu iddynt hwy, Eph. 4. 32; Col. 3. 13; i fod yn *haelionus* ac elusengar, am eu bod yn adnabod gras ein Harglwydd Iesu Grist, yr hwn ag efe yn gyfoethog a aeth er eu mwyn hwy yn dlawd, fel y cyfoethogid hwy drwy ei dlodi ef, 2 Cor. 8, 9; i *ogoneddu* Duw yn eu corph a'u hysbryd, y rhai ydynt eiddo Duw, am nad ydynt eiddynt eu hunain, ond eu bod wedi eu prynu er gwerth, 1 Cor. 6. 20; ac i fod yn *sanctaidd* yn mhob ymarweddiad, gan dreulio amser eu hymdaith yma mewn *ofn*, yn gymmaint a'u bod wedi eu prynu â gwerthfawr waed Crist, megis Oen difeïus a difrycheulyd, 1 Pedr 15—20. Mae yn amlwg fod y cymhelliadau hyn yn cael eu seilio ar dybiaeth fod credinwyr yn gwybod eu bod mewn cyflwr cadwedig; a hyny nid fel *effaith* eu hufudd-dod; ond fel y *sail* neu y *rheswm* am eu hufudd-dod; canys rhaid fod y cymhelliadau yn adnabyddus a chrediniol, yn ol natur pethau, yn flaenorol i'r ymarweddiad a gynnyrchir ganddynt. Gan hyny, rhaid i'w hadnabyddiaeth o'u hiachawdwriaeth fod wedi gwreiddio yn, a chael ei gynnal yn wastadol trwy fod yr ef-

engyl ei hunan yn sefyll yn wirionedd yn eu meddyliau, ac felly yn dwyn allan dystiolaeth eu cydwybodau eu bod yn ei chredu. Bydd y dystiolaeth hon yn fwy neu lai eglur, yn ol gradd y ffydd a'i cynnyrcha, fel y mae ffydd ei hunan yn wan neu gref, yn ol gradd y goleuni a'r profiad, â'r hwn y mae yr efengyl trwy yr Ysbryd yn tywynu i'r meddwl, yr hyn yw sail y naill a'r llall."

Sylw 288.—*Er mai cydwybodolrwydd yw y prawf cyntaf a phenaf a fedd dyn o'i iachawdwriaeth ei hunan trwy gredu yr efengyl, eto nid yw hyn yn cau allan brofion eraill o hyny i'w gydwybod ei hunan.*

"Mae y prif brawf yma yn gadael lle i brawfion ychwanegol; nid o fod Duw yn eirwir; ond o fod y dyn ei hunan yn gredadyn cywir;* ac er mwyn hyn, y mae yr Ysgrythyr yn ei gyfeirio at effeithiau prïodol yr efengyl ar ei galon a'i fuchedd. Mae Gair Duw yn rhoddi ar ddeall y gall dynion eu twyllo eu hunain yn y peth pwysig yma, Gal. 6. 3; ac yn gwrthdaro gwag honiadau y rhai ydynt yn cymeryd arnynt eu bod yn credu ac yn adnabod Duw, ac yn meddu cymdeithas âg ef, tra yn rhodio mewn tywyllwch, a heb gadw ei orchymynion ef, 1 Ioan 1. 6, a 4. 5; Iago 2. 20. Ië, y mae yn rhoi ar ddeall y gall dynion fod wedi eu goleuo, derbyn y gair yn llawen, credu dros amser, adnabod ffordd cyfiawnder, ac hyd yn nod ddïanc oddiar halogedigaeth y byd, trwy adnabyddiaeth o'r Arglwydd a'r Iachawdwr, ac eto gwympo ymaith yn anadferadwy, Luc 8. 13; Heb. 6. 4—6, a 10. 26; 2 Pedr 2. 20, 21. Fe osodir y pethau hyn o flaen credinwyr er eu rhybuddio i ochel rhyfyg, ac i gyffrôi ynddynt ofn gwyliadwrus rhag eu myned un amser yn segur a diffrwyth yn ngwybodaeth Crist, a chilio oddi wrth Dduw byw trwy anghrediniaeth, Ioan 15. 2, 6; Rhuf. 11. 19—28; 1 Cor. 10. 11, 12; Heb. 3. 12; 2 Pedr 3. 17; 2 Io. 8. Ar y llaw arall, dywedai yr Iesu wrth y rhai a gredent ynddo ef, "Os arhoswch chwi yn fy ngair I, dysgyblion i mi ydych chwi yn wir." Ioan 8. 31. "Os cedwch fy ngorchymynion, chwi a arhoswch yn fy nghariad." Ioan 15. 10. Ei ddysgybl anwyl a ysgrifenai yn gyffelyb hefyd, "Eithr yr hwn a gadwo ei air ef, yn wir yn hwn y mae cariad Duw yn berffaith. Wrth hyny

* Mae yn ddiau fod gwirionedd Duw yn cael ei sicrhau fwy fwy i'r credadyn fel y mae efe yn profi effeithiau ei Air ef, a chyflawniad ei addewidion; ond y pwnc dan sylw yma, yw y prawf neu y sierwydd o iachawdwriaeth dyn ei hunan; ac un peth yw gwybod *fod Duw yn eirwir*, a pheth arall yw gwybod *fy mod i yn wir gredadyn*.

gwyddom ein bod ynddo ef.—Nyni a wyddom ddarfod ein symmud ni o farwolaeth i fywyd, oblegid ein bod yn caru y brodyr.—Wrth hyn y gwyddom ein bod o'r gwirionedd, ac y sicrhawn ein calonau ger ei fron ef.—A'r hwn sydd yn cadw ei orchymynion ef, sydd yn trigo ynddo ef, ac yntau ynddo yntau. Ac wrth hyn y gwyddom ei fod ef yn aros ynom, sef o'r Ysbryd a roddes efe i ni." 1 Ioan 2. 5, a 3. 14, 19, 24. Mae yr ymadroddion hyn a'r cyffelyb yn dangos yn eglur fod y credinwyr yn adnabod eu perthynas â Christ, nid yn unig trwy grediniaeth gydwybodol, ond hefyd, trwy ffydd yn gweithio trwy gariad, ac yn eu dylanwadu i gadw ei orchymynion. Gan hyny fe'u hannogir i wneyd eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr, trwy chwanegu at eu ffydd rinwedd, gwybodaeth, cymedroldeb, amynedd, duwioldeb, caredigrwydd brawdol, a chariad; ac i ddangos yr un diwydrwydd er mwyn llawn sicrwydd gobaith hyd y diwedd, 2 Pedr 1. 5—12; Heb. 6. 11.* Pan lewyrcho yr efengyl gyntaf i feddwl dyn â dwyfol sicrwydd a goleuni, gan ei amlygu ei hun yn ei gydwybod fel Gair y Duw byw, nid yw yn ei adael mewn ansicrwydd poenus, yn nghylch ei ffydd neu ei gyflwr, er na byddo eto yn gydwybodol o'r holl effeithiau hyn, trwy y rhai y rhaid iddo yn ol hyn brofi ei ffydd. Ond pan fyddo ei ffydd yn gweithredu gyd a'i weithredoedd, yn dwyn ffrwythau yr efengyl, yn puro ei enaid i garu y brodyr yn ddiffuant, efe a wel y gwahaniaeth rhyngddi a ffydd farw, a hi yn unig, Iago 2. 17, 20, 26. Pan y mae yn gorchfygu y byd, yn ei ddyrchafu goruwch gofalon, golud, a phleserau y fuchedd hon, y mae ei gydwybod yn dwyn tystiolaeth iddo, nad yw efe i'w gyd restru â phroffeswyr y tir dreiniog, Luc 8. 14. Pan y mae yn ei gynnal dan drallodau a phrofedigaethau, fel na phallo ac na ddigalono, mae y prawf yma o'i ffydd yn gweithio amynedd, a chan gael ei dilyn â chynhaliaeth a dyddanwch Dwyfol, yn rhoddi profiad iddo fod Duw gydag ef, a'i fod ef yn cael ei wahaniaethu oddiwrth y rhai ydynt yn derbyn y gair yn llawen, ac yn credu dros amser; ond yn amser profedigaeth yn cilio, Iago 1. 3, 4; Rhuf. 5. 3, 4; Luc 8. 13. Trwy hyn y cadarnheir ei obaith y bydd

* Pan annogai yr Apostol gredinwyr i roddi pob diwydrwydd i *wneuthur eu galwedigaeth a'u hetholedigaeth yn sicr, &c.*, y mae rhai yn meddwl y golygai ein dyled i'w gwneyd yn *sicr i eraill*; ond, os edrychwn hyd ddiwedd y ddegfed adnod, nyni a ganfyddwn ei fod yn meddwl i ni eu gwneyd yn sicr *i ni ein hunain;* i'n *cydwybodau ein hunain* yn ngolwg Duw; canys nid yw bod eraill yn cyfrif ein galwedigaeth a'n hetholedigaeth yn sicr, yn profi na bydd i ni gwympo ymaith, ond y cyrhaeddwn deyrnas nefoedd.

iddo ddal hyd y diwedd, ac y cair ei ffydd, er mawl, ac anrhydedd, a gogoniant yn ymddangosiad Iesu Grist, 1 Pedr 1. 5, 7. Felly, y mae yn parhau yn ngair Crist, ac yn cynnyddu mewn cydffurfiad ag ef; y mae ei brofiad o gariad Duw yn cynnyddu, a thystiolaeth ei gydwybod yn cael ei chryfhâu, trwy fod yr Ysbryd Glan, y Dyddanydd, yn rhoddi amlygiadau helaethach, a chymdeithas gyflawnach â Christ yn ei lawenydd, fel ernes yr etifeddiaeth nefol," Rhuf. 5. 5; Ioan 14, 21, 23, a 15. 9—12; Eph. 1. 13, 14.

Gallwn sylwi yma, na ddylem ddechreu edrych am ffrwythau ffydd yn y fàn, pan ddechreuom gredu, wrth y rhai y'n proffir yn wir ddysgyblion i Grist. "Cyn gwneuthur hyn y mae yn ddyledswydd i ni ymroddi dros beth yspaid i ymwneyd â Christ yn ffyddiog. Er fod Gair Duw yn gweithredu yn effeithiol yn y rhai a'i derbyniant yn grediniol, trwy ddwyn ffrwyth da, eto y mae yn gweithredu yn raddol, fel y ddaear, yr hon sydd yn gyntaf yn dwyn yr eginyn, yna y dywysen, ac wedi hyny yr ŷd yn llawn yn y dywysen. Os tynwn ni ein sylw oddiar wrthddrych ffydd yn ddisymwth, i chwilio am ei ffrwythau, ei ddylanwadau yn puro ein calonau a wanheir trwy hyny yn fawr, ein llawenydd ysbrydol a attelir, a'n hofnau annghrediniol a adfywir. Gan hyny, nyni a ddylem ddal dechreuad ein hyder yn sicr, trwy ymwneyd adnewyddol mynych â Christ, fel y cynnyddo ein ffydd yn ddirfawr, ac y cyrhaeddom lawn sierwydd gobaith fel ffrwyth ein profiad."

Sylw 289.—*Y mae amryfal arwyddion o nerth a gwendid ffydd.*

1. Mae ffydd yn ymddangos yn *gref*, pan y mae yn gorphwys ar air Duw ffyddlawn—ffyddlawn i'r gair yn yr hwn y parodd i ni obeithio, nid pan fyddo synwyr a rheswm yn ymddangos yn ffafriol i'n gobaith; ond, hyd yn nod pan na byddo arwydd o obaith oddiyno—pan fyddom yn dysgwyl wrth yr Arglwydd, ac yn glynu wrtho ef yn nghanol amryw anhawsderau mawrion, Matt. 15. 21, &c; pan fyddom yn ein rhoddi ein hunain i Dduw yn yr amseroedd mwyaf cythryblus, gan ymorwedd arno ef â'r hyder penaf, Ps. 112. 7; pan y'n cair yn rhodio yn holl orchymynion ac ordinhadau yr Arglwydd, er y temtasiynau, y gwaradwyddiadau, a'r dyoddefiadau y gallom fod yn agored iddynt oddiwrth y byd o'n deutu; a phan y'n cair yn hoff o'r dyledswyddau hyny ydynt yn ymddangos yn fwyaf annymunol i gig a gwaed, â'r hyn ni byddwn yn ymgynghori, Heb. 11. 24, &c.

2. Mae ffydd yn ymddangos yn *wan*, pan na byddom yn

gweled y Gair Dwyfol yn sail sicr gobaith bob amser; pan fyddom yn gallu ammeu ffafr a chariad Duw tuag attom, Esa. 40. 27; pan fyddom yn grwgnach ac yn cwyno oni bydd ein gweddïau yn cael eu hatteb yn ddïoed, Esa. 38. 14; pan fyddom yn tueddu mwy i fyw wrth olwg nag wrth ffydd, Ioan 20. 27; a phan fyddom yn arswydo rhag gwaradwydd ac erledigaeth, er mwyn Crist a'i Efengyl, &c. Ond, os bydd ynom gasineb tufewnol at bechod, fel y cyfryw,—fel y mae yn groes i sancteiddrwydd Duw; os ydym yn caru Crist goruwch pob peth, ac yn cyfrif pob peth yn golled er mwyn ardderchawgrwydd gwybodaeth o hono ef; ac os ydym yn cael ein boddhau â threfn iachawdwriaeth yn ol gosodiad Duw, ac yn dymuno cael ein hachub trwy Grist yn unig, a'i gyfiawnder cyfrifol ef; yna y mae yn ymddangos fod ffydd, er yn wàn, yn nglŷn wrth iachawdwriaeth.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Werthfawrogrwydd Crist, a'r angenrheidrwydd am dano. 2. Gwerth ac ehangder yr efengyl. 3. Mawredd cariad Duw. 4. Bod Crist yn mhob golygiad yn Iachawdwr cyfaddas. 5. Mai annghrediniaeth yw y pechod mwyaf, a'r pechod penaf sydd yn cau dyn o deyrnas nefoedd. 6. Bod yr iachawdwriaeth a gynnygir gan Grist, yn gynnwysedig o waredigaeth oddiwrth bechod yma, cystal ac oddiwrth ddigofaint ar ol hyn. 7. Dedwyddwch credinwyr, neu y rhai ydynt yn derbyn tystiolaeth Duw am ei Fab; a thrueni annghredinwyr, neu y rhai a wrthodant y dystiolaeth hon, Marc 16. 16; 1 Ioan 5. 10—12.

## ADRAN 2.—AM EDIFEIRWCH I FYWYD.

### HOL. 87.—BETH YW EDIFEIRWCH I FYWYD?

Gras cadwedigol, trwy yr hwn y mae pechadur, oddiar wir deimlad o'i bechod, ac ystyriaeth o drugaredd Duw yn Nghrist, gyda gofid am, a chasineb at ei bechod, yn troi oddiwrtho at Dduw, gyda llawn fwriad ac ymdrech i fyw buchedd newydd.

### DOSBANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod edifeirwch i fywyd yn ras cadwedigol. 2 Cor. 7. 10. "Duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch er iachawdwriaeth, ni bydd edifeirwch o hono." Gwel hefyd Act. 11. 18.

2. Y rhaid fod mewn edifeirwch wir deimlad o bechod, Ps.

41. 4. " Yn dy erbyn di, tydi dy hun, y pechais, ac y gwnaethum y drwg hwn yn dy olwg." Gwel hefyd Ezec. 16. 61.

3. Bod mewn edifeirwch ystyriaeth o drugaredd yn Nuw. Rhuf. 2. 4. " Daioni Duw yn dy dywys di i edifeirwch." Gwel hefyd Joel 2. 13.

4. Mai yn Nghrist yn unig y mae trugaredd Duw at bechadur yn cael ei hamlygu. 2 Cor. 5. 19. " Bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd âg ef ei hun." Gwel hefyd Rhuf. 3. 25.

5. Bod mewn gwir edifeirwch ofid didwyll am bechod, Jer. 31. 19. " Myfi a gywilyddiwyd ac a waradwyddwyd, am i mi ddwyn gwarth fy ieuenctyd." Gwel hefyd adn. 18.

6. Bod mewn gwir edifeirwch gasineb diffuant at bechod. Ezec. 36. 31. " Yna y cofiwch eich ffyrdd drygionus, a'ch gweithredoedd nid oeddynt dda; a byddwch yn ffiaidd genych eich hunain, am eich anwireddau ac am eich ffieidddra." Gwel hefyd Ps. 119. 128.

7. Bod y pechadur mewn gwir edifeirwch yn troi oddiwrth ei bechod. Ezec. 18. 30. " Dychwelwch, a throwch oddiwrth eich holl gamweddau." Gwel hefyd Jer. 31. 18.

8. Bod y pechadur mewn gwir edifeirwch yn dychwelyd at Dduw. Gal. 3. 40. " Ceisiwn a chwiliwn ein ffyrdd, a dychwelwn at yr Arglwydd."

9. Bod mewn gwir edifeirwch fwriad cyflawn i ufuddhau i Dduw. Ps. 119. 59. " Meddyliais am fy ffyrdd, a thröais fy nhraed at dy dystiolaethau di." Gwel hefyd adn. 8.

10. Bod mewn gwir edifeirwch ymdrech egnïol i ufuddhau i Dduw. Jer. 31. 18. "Dychwel di fi, a mi a ddychwelir; oblegid ti yw yr Arglwydd fy Nuw."

11. Bod yr ufudd-dod sydd yn dilyn edifeirwch gwirioneddol, yn ufudd-dod newydd. Rhuf. 7. 6. "Fel y gwasanaethom mewn newydd-deb ysbryd, ac nid yn hender y llythyren."

### EGLURHAD.

Sylw 290.—*Mae edifeirwch yn cael ei wahaniaethu yn gyffredinol i edifeirwch deddfol ac edifeirwch efengylaidd.*

1. *Edifeirwch deddfol*, neu yr hyn a eilw yr Apostol "Tristwch y byd hwn, yr hwn sydd yn gweithio angau," (2 Cor. 7. 10.), yw y trallod, neu y braw cydwybod deddfol hwnw, y mae dynion y byd yn ei feddu, neu y gallant ei feddu oddiar ofn Duw, nid fel Duw cymmodlawn, ond fel Barnwr cyfiawn, parod i ddïal arnynt, trwy dywallt arnynt phïolau ei ddigofaint. Mae yn wir y gall fod yno ryw fath o alar am bechod, golwg arno, a theimlad o hono, a rhyw fath o droi oddiwrtho at Dduw, &c.; ond nid yw y rhai hyn byth yn adnabod pechod

fel y mae yn bechod yn erbyn Duw, yn ffiaidd yn ei olwg ef, ac yn wrthnaws i'w burdeb difrycheulyd ef. Y rhai a dderbyniasant y ddawn o edifeirwch gan Dduw yn unig a ŵyr am hyn.

2. *Edifeirwch efengylaidd*, a elwir yma *edifeirwch i fywyd*, yw yr hyn sydd yn cynnwys ynddo iawn olwg ar bechod, a synied o hono, a ffydd yn y drugaredd Ddwyfol, neu olwg ar drugaredd Duw yn Nghrist, pa beth bynnag a fyddo y pechod a'i ysgelerder; a'r hwn a gynnwys yn benaf, olwg ar bechod fel y mae yn taro yn erbyn Duw, ac fel y mae yn groes i'w natur a'i ddeddf sanctaidd ef, Ps. 51; neu, mewn gair, dyma y "duwiol dristwch, ni bydd edifeirwch o hono."

Mae y gwir edifeirwch hwn yn cael ei alw yma yn *ras cadwedigol.* Fe'i gelwir yn *ras*, am mai *dawn* Duw ydyw. Act. 11. 18. " Fe *roddes* Duw gan hyny i'r Cenhedloedd hefyd, edifeirwch i fywyd." Act. 5. 31. " Hwn a ddyrchafodd Duw â'i ddeheulaw, yn Dywysog ac yn Iachawdwr, i *roddi* edifeirwch i Israel, a maddeuant pechodau." Jer. 31. 18. " Dychwel di fi, a mi a ddychwelir." Ni buasai hwn yn rhyw ofyniad cywir, pe na buasai edifeirwch yn *rhodd Duw.* Gwel hefyd Zech. 12. 10. Fe'i gelwir yn *ras cadwedigol*, obleigd bod ei ddeiliaid, pa le bynnag y'u cair, mewn cyflwr cadwedig; neu am ei fod yn cael ei ddilyn âg iachawdwriaeth, Luc 13. 5.

Gyda golwg ar *ddeiliaid* edifeirwch, gallwn sylwi yma, mai ei ddeiliaid prïodol, mewn ystyr fanol, ydynt, nid yn unig y rhai sydd dan euogrwydd pechod, neu mewn cyflwr annghyfiawn; ond hefyd, y rhai ydynt wedi eu cyfiawnhau, y rhai nid oes dim damnedigaeth iddynt, gan eu bod yn Nghrist Iesu. Canys er nad yw credinwyr yn byw mewn pechod, a llefaru yn brïodol; eto, gan nad ydynt wedi ei llwyr ryddhau oddiwrtho, y mae yn glynu wrthynt yn barhaus tra yn y byd hwn; felly y maent hwythau yn ddeiliaid edifeirwch tra fyddont yn y fuchedd hon.

Sylw 291.—*Mae gwir edifeirwch yn cael ei weithredu yn nghalon pechadur gan Ysbryd Duw.*

Na's gall dyn gynnyrchu ynddo ei hunan y tristwch duwiol hwnw ni bydd edifeirwch o hono, sydd yn amlwg oddiwrth iaith hynod y Prophwyd Jeremiah, (pen. 22. 23.) "A newidia yr Ethiopiad ei groen, neu y llewpard ei frychni?" Rhaid cyfrif hyn yn anmhossibl. Yr un modd, y mae yn llawn mor anmhossibl i bechadur droi ei hun oddiwrth bechod at Dduw; am ba achos yr ychwanegir, " Yna y gellwch chwithau wneu-

thur da, y rhai a gynnefinwyd â gwneuthur drwg." Mae yn wir y gall dyn adael rhyw bechodau gwaeddfawr; ond llais yr Ysgrythyr yw, mai yr Ysbryd Glan yw awdwr y gras hwn, Jer. 31. 18; Zech. 12. 10.

Y *Moddion* trwy ba rai y mae Ysbryd Duw yn gweithredu y gras o edifeirwch yn nghalon pechadur, yw *Gair Duw*, yr hwn sydd raid ei olygu yma mewn dau ryw oleuni—sef y *ddeddf* a'r *efengyl*, pob un o ba rai sydd angenrheidiol. 1. Mae y *ddeddf* yn gwasanaethu fel gordd i ddryllio y galon garregog galed, Jer. 23. 29. "Onid yw fy ngair I fel gordd yn dryllio y graig?" 2. Yr *Efengyl* yw y Gair sydd yn cyflawni yr hyn ni allasai y ddeddf ei wneyd: mae y ddeddf fel gordd yn dryllio; ond gallwn olygu yr efengyl fel tân yn toddi y galon galed. Jer. 23. 29. "Onid yw fy ngair I fel tân? medd yr Arglwydd." Yr efengyl sydd yn allu Duw er iachawdwriaeth—er pob rhan o iachawdwriaeth, ac hebddi ni's gall y cyflawnir un rhan o'r iachawdwriaeth. O ganlyniad, rhaid i ni edrych ar yr efengyl megis yn denu yr enaid, yn ei dynu â rheffynau cariad, yn ei gymhell i neshau at Dduw, ac fel y llef ddystaw fain, yn yr hon y mae Duw cymmodlawn yn llefaru heddwch i'r enaid; ac oni phrawf hyn yn effeithiol er iachawdwriaeth, ni all dim arall fod felly; canys i'r pwrpas hyny y gwnaed y datguddiad hwn yn ddiau. Ni all holl daranau y ddeddf ddwyn un enaid at Dduw, neu beri iddo yn wirioneddol ymadael â'i bechod anwyl; ond yr efengyl a bâr iddo adael pob peth, a dilyn Crist, yr hwn a fu farw dros ein pechodau, ac a gyfododd i'n cyfiawnhau.

Sylw 292.—*Ffynhonau gwir edifeirwch ydynt deimlad gwirioneddol o bechod, ar amgyffred o drugaredd Duw yn Nghrist.*

1. Mae *gwir edifeirwch* yn arwyddo *gwir deimlad o bechod.* Golwg ac ystyriaeth, nid yn unig o berygl, ond hefyd o halogrwydd ac atgasrwydd pechod, fel y mae yn groes i burdeb difrycheulyd Duw; ac o ganlyniad, yn dra ffiaidd ganddo ef, Ps. 51. 4. Ac oddiwrth hyn y mae yn eglur, y rhaid fod golwg ar bechod, cyn y bydd teimlad o'i ffieidd-dra a'i atgasrwydd. Rhaid i'r llygaid fod yn agored i sylwi ar y mawr ddrwg hwn, a'r modd y mae wedi treiddio trwy yr holl ddyn; pa fodd y darfu iddo ddianrhydeddu pob rhan o'r ddeddf Ddwyfol; pa beth a wnaeth gyda golwg ar ei berygl, a pha beth y mae y Goruchaf ei hun yn ei feddwl am dano.

2. Mae *gwir edifeirwch* yn tybied fod yno *olwg ar drugaredd Duw yn Nghrist;* neu ffydd, trwy yr hon y gallwn ymafael yn ei drugaredd ef—argyhoeddiad fod gydag ef faddeuant fel y'i

hofner, ac achubiaeth helaeth trwy Grist, a thrwyddo ef yn unig; ac fe gynnyrcha hyn edifeirwch, ac a wna i ddagrau o dduwiol dristwch ddylifo. Ac ar y cyfrif yma y dywedir fod trugaredd Duw i'w gweled yn Nghrist, oblegid bod Duw yn Nghrist yn cymmodi y byd ag ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau, Zech. 12. 10.

Gyda golwg ar *drefn* ffydd ac edifeirwch, gallwn sylwi yma, o ran *amser*, bod holl fendithion y prynedigaeth yn cael eu cyfranu *ar unwaith;* ond, yn nhrefn *natur*, rhaid i ffydd ragflaenu edifeirwch. Y mae hyn yn amlwg oddiwrth natur edifeirwch ei hunan. Edifeirwch yw dychweliad oddiwrth bechod at Dduw; eithr, ni's gall fod tröedigaeth at Dduw ond trwy Grist; ac ni's gall fod dyfodiad at Grist, ond drwy ffydd, Ioan 14. 6, a 6. 35.

Sylw 293.—*Mewn gwir edifeirwch, yr hwn sydd yn tarddu o ffydd, rhaid fod gofid am bechod, casineb at bechod, a thröedigaeth oddiwrth bechod at Dduw, gyda llawn benderfyniad ac ymröad i fyw buchedd newydd.*

1. Rhaid fod *gofid am bechod* mewn gwir edifeirwch. Os bydd hwn yn tarddu o ffydd, efe a erys ar bechod fel y cyfryw, ac a fydd yn drallod gwirioneddol ac arhosol am bechod.

2. Rhaid bod *casineb at bechod* mewn gwir edifeirwch. Y mae hyn yn rhan o edifeirwch sydd yn dwyn perthynas agos iawn i'r un blaenorol; canys ni ellir dweydyd ein bod yn teimlo gofid am bechod, heb ein bod ar yr un pryd wedi ein llenwi â chasineb atto. A pha le bynnag y byddo y casineb yma at bechod yn ddiffuant, y mae yn llenwi yr enaid â chywilydd a hunan-ffieiddiad o'i herwydd, Esa. 6. 5; Job 40. 4, 5; 2 Cor. 7. 11. Nid yw casineb at bechod yn ddiffuant, onid yw yn gyffredinol ac annghymmodlawn:—cyffredinol yn erbyn pob pechod, ac annghymmodlawn âg unrhyw bechod gwybyddus.

3. Rhaid fod mewn gwir edifeirwch, *dröedigaeth oddiwrth bechod at Dduw, gyda llawn benderfyniad ac ymröad i fyw buchedd newydd.* A llefaru yn briodol, dyma sydd yn perffeithio yr edifeirwch hwnw ni bydd edifeirwch o hono. Ac y mae yn gynnwysedig yn benaf yn hyn; canys dyma y prawf gorau fod pechod yn wrthddrych ein gofid a'n casineb.

Mae *troi oddiwrth bechod* yn arwyddo troi oddiwrth bob pechod, mewn calon a buchedd, Ps. 119. 113; cefnu ar bechod, a gwrthsefyll ei wŷniau; troi oddiwrth y pechod sydd barod i'n hamgylchu; troi oddiwrth bob temtasiwn i bechod; a gwylio yn erbyn pob achlysuron o bechod, oddiar argyhoedd-

iad fod anwyliadwriaeth yn bechadurus ei hunan, ac yn cael ei ddilyn a'r canlyniadau gwaethaf, Diar. 4. 14, &c.

Mae *dychwelyd at Dduw* yn arwyddo, bod yn rhaid i'r pechadur ddychwelyd at ei gariad at Dduw, fel ei Arglwydd a'i Feistr, yr hwn a fedd yr hawl flaenaf ar ei gariad atto; a hyny trwy ei ddewisiad gwirfoddol a diffuant o hono ef fel ei unig Arglwydd, Esa. 26. 13; Act. 9. 6; Hos. 2. 7.

Mae *llawn fwriad i fyw buchedd newydd* yn arwyddo, fod y gwir edifeiriol yn penderfynu dychwelyd yn ddioed at y cyflawniad o bob dyledswydd adnabyddus a ofyna ei Arglwydd ganddo, heb wrthddywedyd; ac y bydd iddo ei wasanaethu ef mewn ysbryd a gwirionedd, Ps. 119. 6, a 51. 6; Phil. 3. 3; Ps. 119. 60.

Ond nid hyn yw y cwbl; rhaid cael rhyw brawf fod y pechadur yn gweithredu yn ol ei benderfyniad; rhaid fod yno *ymdrech i fyw buchedd newydd.* Eto, nid yw hyn yn arwyddocâu y gall y gwir edifeiriol gyflawni yr ufudd-dod a ofynir ganddo; ond nad yw yn cael ei ddigaloni rhag gwneyd y cynnygiad, gan fod hyn yn cael ei orchymyn, ac yn cael ei wneyd gan blant Duw. Yr achos o dröedigaeth pechadur at Dduw yw ei dröedigaeth gan Dduw; ac os cyflawna yr ufudd-dod a ofynir ganddo, efe a wna hyny yn nerth y gras a addawir iddo, trwy yr hyn y'i calonogir i gynnyg ar y gwaith. Phil. 3. 14; 2 Cor. 12. 9; Deut. 33. 25.

Mae yr ufudd-dod sydd yn dilyn gwir edifeirwch yn *ufudd-dod newydd;* ac fe'i gelwir felly yn brïodol, am y rhesymau canlynol:—1. Y mae yn deillio oddiar *egwyddorion newydd;* —ffydd yn awdurdod Deddfroddwr, a chariad at ei wasanaeth, Ioan 14. 15. 2. Mae yn cael ei ddylanwadu trwy *gymhelliadau newyddion*, sef gras Duw, a chariad ei Fab ef; cymhelliadau na's gellir enwi eu huwch, Tit. 2. 11, &c. 2 Cor. 5. 14, &c. 3. Fe'i cyflawnir mewn *dull newydd;* o'r blaen yr oedd y pechadur yn ymddiried ynddo ei hun am nerth i ufuddhau; yn awr y mae yn gwneyd y cyfan yn nerth Crist. O'r blaen nid oedd yn meddu ymddibyniad ar ras y cyfammod; yn awr y mae yn gorphwys ar y cyfammod, gan wneuthur pob peth trwy Grist, yr hwn sydd yn ei nerthu. O'r blaen, yr oedd ei ufudd-dod yn cael ei orfodi, yn awr y mae yn ymhyfrydu yn nghyfraith Duw yn ol y dyn oddimewn. Gynt, nid oedd ei galon wedi ei gosod ar Dduw, yn awr, y mae yn gwasanaethu yr Arglwydd â'i holl galon, Ps. 119. 69. 4. Fe'i cyfeirir i *ddyben newydd.* O'r blaen nid oedd y pechadur yn meddu gogoniant Duw mewn golwg, ac ni's gallai; ond yn awr, gogoniant Duw ydyw amcan mawr ei ufudd-dod, 1 Cor. 10. 31.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn, 1—Mai trwy ras y mae iachawdwriaeth. 2. Bod pawb mewn angen am edifeirwch; ond nad yw yn gywir yn mhawb. 3. Bod pechod yn wrthddrych ffieiddra y nef. 4. Yr angenrheidrwydd o weddïo am y ddawn o edifeirwch. 5. Bod yn rhaid i edifeirwch fod yn wastadol a chyffredinol. 6. Perygl yr anedifeiriol, Luc 13. 3, 5.

ADRAN III.—AM DDYFAL ARFERIAD O FODDION GRAS, SEF:—
GAIR DUW, Y SACRAMENTAU, A GWEDDI.

HOL. 88. PA RAI YDYNT Y MODDION ALLANOL TRWY BA RAI Y MAE CRIST YN CYFRANU BENDITHION Y PRYNEDIGAETH I NI?

Y moddion allanol a chyffredinol trwy y rhai y mae Crist yn cyfranu doniau y prynedigaeth i ni, ydynt ei ordinhadau, yn neillduol y Gair, sacramentau, a gweddi; y rhai oll a wneir yn effeithiol er iachawdwriaeth i'r etholedigion.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod rhyw foddion neillduol o ras i gael eu hymarfer gan bobl yr Arglwydd, Act. 2. 42. "Ac yr oeddynt yn parhau yn athrawiaeth, ac yn nghymdeithas yr apostolion, ac yn torri bara, ac mewn gweddïau."

2. Bod moddion gras wedi eu happwyntio gan Grist, Math. 28. 20. "Gan ddysgu iddynt gadw pob peth ar a orchymynais i chwi."

3. Bod bendithion y prynedigaeth yn cael eu cyfranu trwy foddion gras, Eph. 4. 11, 12. "Efe a roddes rai yn apostolion; a rhai, yn brophwydi; a rhai, yn efengylwyr; a rhai, yn fugeiliaid ac yn athrawon; i berffeithio y saint, i waith y weinidogaeth, i adeilad corph Crist."

4. Bod gair Duw yn foddion neillduol o ras, Ioan 20. 31. "Y pethau hyn a ysgrifenwyd, fel y credoch chwi mai yr Iesu yw y Crist, Mab Duw, a chan gredu y caffoch fywyd yn ei enw ef."

5. Bod y sacramentau yn foddion neillduol o ras, 1 Cor. 10. 16. "Phiol y fendith yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist ydyw?" y bara yr ydym yn ei dori, onid cymmun corph Crist ydyw?"

6. Bod gweddi yn foddion neillduol o ras, Marc 11. 24. "Beth bynnag oll a geisiwch wrth weddïo credwch y derbyniwch, ac fe fydd i chwi."

7. Bod moddion gras yn cael ei wneyd yn effeithiol er iachawdwriaeth pobl Dduw trwy yr Ysbryd, 1 Thess. 1. 5. "Oblegid ni bu ein hefengyl ni tu ag attoch chwi mewn gair yn unig; eithr hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glan, ac mewn sicrwydd mawr." Gwel hefyd 1 Tim. 4. 25.

EGLURHAD.

Sylw 294.—*Moddion allanol a chyffredinol o ras ydynt ordinhadau neu osodiadau Crist.*

*Moddion* yn gyffredin sydd ryw beth yn myned o flaen y dyben mewn golwg, yr hwn ddyben ni's gellir ei gyrhaeddyd os esgeulusir y rhyw beth hwnw. Gan hyny, *moddion iachawdwriaeth* yw y peth y mae *iachawdwriaeth yn dyfod i'r enaid trwyddo.* Rhyw beth ydyw, yn yr hwn y mae Duw yn ei amlygu ei hun, yn yr oll ydyw, a'r oll a fedd. Rhyw beth ydyw, os yw yn weddus i ni ddweyd felly, sydd yn dyfod rhwng Duw a'r enaid, yn yr hwn yr arddangosir llesion goreu yr enaid, a thrwy yr hwn y cludir i'r enaid yr hyn sydd yn angenrheidiol er gras a gogoniant.

Moddion iachawdwriaeth ydynt ordinhadau neu osodiadau o Ddwyfol appwyntiad, trwy y rhai y mae Crist yn cyfranu doniau y prynedigaeth i'r enaid, ac fe arferir eu gwahaniaethu yn foddion *allanol*, a moddion *tufewnol* o ras. Y moddion *allanol* ydynt y Gair, y sacramentau, a gweddi; a'r moddion *tufewnol* ydynt ffydd, ac edifeirwch, a'r cyffelyb; ac yn enwedig dylanwadau tufewnol grymus yr Ysbryd Glan. Ac y mae y rhai hyn yn angenrheidiol i ddilyn y moddion allanol er iachawdwriaeth, ac yn cael eu gweithredu trwy eu hofferynoldeb, Heb. 4. 2; Rhuf. 10. 17. Gallwn sylwi yma mai yr hyn sydd yn gwneuthur ordinhad yn foddion iachawdwriaeth, ydyw yr awdurdod Ddwyfol; gosodiad Crist, Brenin a Phen yr Eglwys, Math. 28. 19, 20.

Yr ordinhadau a elwir yn foddion *cyffredinol*, er eu gwahaniaethu oddiwrth bob peth annghyffredinol a all fod yn iachawdwriaeth neb un; yr hyn ni's meddwn reswm i'w ddysgwyl, am nad oes genym addewid o hyn, ac o ganlyniad na's meddwn yr un sail ar yr hon y gall ein ffydd orphwys, mewn dysgwyliad y bydd felly gydâ ni; neu mewn geiriau eraill, fe'i gelwir yn *gyffredinol*, am mai hwynt hwy yw trefn appwyntiedig Crist i gyfrannu bendithion ei brynedigaeth drwyddynt i bechaduriaid o ddynolryw, Rhuf. 10. 14, &c.

Gelwir moddion gras, yn ordinhadau Crist, am eu bod oll wedi eu sefydlu gan Grist fel Pen yr Eglwys, a Brenin Sïon; ac o ganlyniad, y maent i'w cadw yn yr Eglwys hyd ddiwedd y byd.

Sylw 295.—*Y moddion neillduol o ras ydynt y Gair, y Sacramentau, a Gweddïau.*

1. Y mae derllen a phregethu y Gair, yn foddion neillduol o iachawdwriaeth. Rhaid clywed am yr iachawdwriaeth cyn y gellir ei chofleidio, a pha ffordd bynnag y clywom, y mae ffordd hòno yn ddiau yn foddion iachawdwriaeth. A pha un bynnag ai darllen am dani, ai ei phregethu y byddis, y mae yr un bendithion yn cael eu gweinyddu, a'r un Duw yn ein cyfarch, gan attolygu arnom dderbyn Crist er ein iachawdwriaeth, Ioan 20. 31; 1 Pedr 1. 23; Ioan 5. 39; Deut. 71. 18—20; Act. 15. 21; 2 Tim. 4. 2; Iago 1. 21; Act. 10. 33. Mae darllen y Gair yn ordinhad o osodiad Dwyfol, yr hon a esgeulusir yn gywilyddus yn y dirgel ac yn y cyhoedd; er fod Duw wedi addaw dilyn darlleniad ei Air â'i fendith. Lleied o'r Ysgrythyrau a ddarllenir mewn blwyddyn mewn llawer o leoedd addoliad! Nid rhyfedd fod can lleied o ddaioni yn cael ei wneyd y dyddiau hyn, pan y mae yr oraclau bywiol a Dwyfol yn cael eu hesgeuluso!

2. Y *sacramentau*, bedydd a swper yr Arglwydd, ydynt foddion neillduol iachawdwriaeth Ond, dylem gofio mai ordinhadau cadarnhäol ydynt hwy yn hytrach na rhai argyhoeddiadol. Ynddynt y cyflwynir i'n synhwyrau yr hyn a gyflwynir yn y gair i'n ffydd; ac y maent wedi eu hamcanu er cadarnhad i'n ffydd, a grasusau ereill yr Ysbryd. Ac am y rhai y gweinyddir swper yr Arglwydd iddynt, cymerir yn ganiattäol eu bod wedi teimlo gallu effeithiol moddion blaenorol iachawdwriaeth, sef darlleniad a gwrandawiad y Gair.

3. Mae *gweddi* yn foddion neillduol o ras. Dyma lwybr arbenig o gymmundeb rhwng Crist a'r enaid, ac y mae yr enaid trwy weddi yn cymeryd gafael yn yr holl ddaioni sydd yn cael ei ddal allan yn y Gair a'r Sacramentau, Math. 11. 24. Bydd i bob un sydd yn teimlo yn bryderus yn achos ei fatter mwyaf, ddefnyddio y moddion yma, a hyny yn wastadol, nid yn unig hyd oni's gwybyddo ei fod wedi credu, ond hyd oni byddo mewn gwirionedd wedi dyfod ac ymddangos ger bron Duw yn ei breswylfa sanctaidd.

Sylw 296.—*Mae y moddion iachawdwriaeth a ordeiniwyd gan Grist, yn cael eu gwneyd yn effeithiol i holl bobl Dduw.*

Mae yr ordinhadau yn cael eu gwneyd yn effeithiol i'r

etholedigion er iachawdwriaeth. Act. 2. 47; a 13. 48. Nad ydynt yn cael eu gwneuthur yn effeithiol i bawb er iachawdwriaeth sydd amlwg oddiwrth Air Duw, a sylw. Cwynai yr hen brophwyd (Esa. 53. 1.) "Pwy a gredodd i'n hymadrodd, ac i bwy y datguddiwyd braich yr Arglwydd?" a wnelid gan Grist hefyd yn nyddiau ei gnawd, a chan yr apostol Paul, yn ddynodawl o'r dïofalwch a amlygir yn gyffredin o foddion iachawdwriaeth. A chŵyn unffurf y ffyddloniaid yn mhob oes ydoedd, fod ymadrodd gweision Cirst heb ei gredu, a'r rhan fwyaf yn rhodio yn eu ffyrdd eu hunain, gan esgeuluso y pethau teilyngaf o'u sylw. Ond er fod torfeydd yn gwrthod Crist, ac hyd y diwedd yn esgeuluso eu hiachawdwriaeth fawr, eto, y maent yn cael cynnyg arni, i ddangos anfeidrol wiwdeb iawn Crist,—bod digon ynddo i bawb, ac na chauir neb allan ond a'u cauant eu hunain; ac ar yr un pryd, i wneuthur y rhai a ddibrisiant y rhagorfreintiau gwerthfawr sydd o fewn eu cyrhaedd, yn fwy diesgus.

Dylid sylwi yn barhaus, nad ydyw yr ordinhadau o osodiad Crist yn meddu un effeithioldeb *ynddynt eu hunain*. Y fendith Ddwyfol yn unig a all eu gwneyd yn effeithiol er iachawdwriaeth. Heb hyn, ni bydd unrhyw sefydliad nefol ond llythyren farw, efydd yn seinio, a symbal yn tincian. Mae hyn yn cymeryd lle gyda llawer, y rhai ydynt yn ymorphwys yn y ffurf yn unig heb ymofyn am rym dduwioldeb.

Sylw 297.—*Trwy ordinhadau o'i appwyntiad ei hun y mae yr Arglwydd Iesu yn cyfranu bendithion y prynedigaeth i bechaduriaid.*

Gellir crynhôi bendithion y prynedigaeth, i ras yma, a gogoniant yn y byd a ddaw, Ps. 84. 11. Ac yn unol â'r Ysgrythyrau, y mae cyfranu bendithion yma yn cael ei brïodoli i Grist, yr hwn sydd yn meddu hawl berffaith ar bob peth o'r natur yma, megis y dywedodd efe ei hunan, Luc 22. 29, a Math. 28. 18. Nid traws-feddiannu yr awdurdod hon y mae Crist; ond y mae yn un o'i iawnderau trwy roddiad gan y Tad, Ioan 3. 35; a hefyd, mewn canlyniad i'w bryniad ei hun; ac am hyny y gelwir bendithion y prynedigaeth, *pryniad y pwrcas,* neu "bendithion prynedig." Eph. 1. 14.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Mor annyddanus yw y rhai na's meddant foddion iachawdwriaeth; ac mai ein dyledswydd yw anfon y moddion hyn i'r rhai nad ydynt yn eu meddu. 3. Megys y mae graddau o ffafr, felly hefyd y bydd graddau o gosbedigaeth. 3. Yr angenrheidrwydd o ymarfer ag ordin-

hadau Crist, heb yr hyn ni's gallwn ddysgwyl iachawdwriaeth. 4. Nad yw y rhai sydd yn eu diystyru ddim yn ffordd iachawdwriaeth. 5. Y mawr bwys o gael gweinyddiad pur o honynt. 6. Bod rhyw beth mwy yn angenrheidiol na chyflawniad ffurfiol o honynt.

DOSB. 1.—AM AIR DUW FEL MODDION GRAS.

## *Effeithiau Gair Duw.*

HOL. 89. PA FODD Y GWNEIR Y GAIR YN EFFEITHIOL ER IACHAWDWRIAETH?

Mae yr Ysbryd Glan yn gwneyd darlleniad, ac yn enwedig pregethiad y Gair yn foddion effeithiol argyhoeddiad a dychweliad pechaduriaid, yn nghyd a'u hadeiladaeth mewn sancteiddrwydd a dyddanwch trwy ffydd i iachawdwriaeth.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai yr Ysbryd Glan yn unig sydd yn gwneyd y Gair yn effeithiol i iachawdwriaeth, 1 Pedr 1. 22. "Gwedi puro eich eneidiau, gan ufuddhau i'r gwirionedd trwy yr Ysbryd." Gwel hefyd 2 Cor. 3. 18.

2. Bod darlleniad y Gair yn cael ei wneyd yn effeithiol fel moddion argyhoeddiad pechaduriaid, 2 Bren. 22. 10, 11. "A Saphan a'i darllenodd ef ger bron y brenin. A phan glybu y brenin eiriau llyfr y gyfraith, efe a rwygodd ei ddillad."

3. Bod darllen Gair Duw yn cael ei wneyd yn effeithiol fel moddion dychweliad pechaduriaid, Ps. 19. 7. "Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith yn troi yr enaid."

4. Bod darllen y Gair yn foddion effeithiol i adeiladu pobl Dduw mewn sancteiddrwydd. Act. 20. 32. "Yr ydwyf yn eich gorchymyn i Dduw, ac i Air ei ras ef, yr hwn a all adeiladu ychwaneg, a rhoddi i chwi etifeddiaeth yn mhlith yr holl rai a sancteiddiwyd."

5. Bod darllen y Gair yn cael ei wneyd yn effeithiol fel moddion dyddanwch pobl Dduw, Rhuf. 15. 4. "Pa bethau bynnag a ysgrifenwyd o'r blaen, er addysg i ni yr ysgrifenwyd hwynt; fel trwy amynedd a dyddanwch yr Ysgrythyrau, y gallem gael gobaith."

6. Bod darllen y gair yn cael ei wneyd yn effeithiol er iachawdwriaeth trwy ffydd, 2 Tim. 3. 15. "Ac i ti er yn

fachgen wybod yr Ysgrythyr Lân, yr hon sydd abl i'th wneuthur di yn ddoeth i iachawdwriaeth, trwy y ffydd sydd yn Nghrist Iesu."

7. Bod pregethiad y Gair yn neillduol yn foddion effeithiol er argyhoeddi pechaduriaid. Act. 2. 37. "Hwythau wedi clywed hyn, a ddwys bigwyd yn eu calon, ac a ddywedasant wrth Pedr a'r apostolion eraill, Ha wŷr frodyr, beth a wnawn ni?"

8. Bod pregethiad y Gair yn neillduol, yn foddion effeithiol tröedigaeth pechaduriaid, Act. 26. 17, 18. "Y Cenhedloedd, at y rhai yr ydwyf yn dy anfon di yr awrhon, i agoryd eu llygaid, ac i'w troi o dywyllwch i oleuni, ac o feddiant Satan at Dduw."

9. Fod pregethiad y Gair yn neillduol, yn foddion effeithiol adeiladaeth pobl Dduw mewn sancteiddrwydd, Col. 1. 28. "Yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn yn mhob doethineb; fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yn Nghrist Iesu."

10. Bod pregethiad y Gair yn neillduol, yn foddion effeithiol er dyddanu pobl Dduw, 1 Thes. 3. 2. "Ac a ddanfonasom Timotheus, i'ch cadarnhâu chwi, ac i'ch dyddanu, yn nghylch eich ffydd."

11. Bod pregethiad y Gair yn cael ei wneyd yn effeithiol er iachawdwriaeth, trwy ffydd yn unig, Heb. 4. 2. "Y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy, am nad oedd wedi ei gyd dymheru â ffydd yn y rhai a'i clywsant."

EGLURHAD.

Sylw 298.—*Mae darllen y Gair, ac yn enwedig y pregethiad o hono, yn cael ei wneyd drwy yr Ysbryd, yn foddion effeithiol er iachawdwriaeth.*

1. Y mae *darllen y Gair*, neu Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, yn foddion iachawdwriaeth o osodiad Duw.

Dylai Gair Duw gael ei ddarllen gan bob math o bobl yn y dirgel, Deut. 17. 19. Ioan 5. 39. Esa. 34. 16; ac yn eu teuluoedd, Deut. 6. 6—9, Gen. 18. 17—19. Ps. 78. 5—7; a 79. 6. Jer. 10. 25. Dylai gael ei ddarllen gan weinidogion hefyd yn nghynnulleidfäoedd cyhoeddus pobl Dduw, Deut. 31.9,&c. Neh. 8. 2, &c., a 9. 3, &c. Ond y mae hon yn ddyledswydd a esgeulusir yn fawr y dyddiau hyn, er fod darllen y Gair wedi ei appwyntio fel moddion i argyhoeddi a throi pechaduriaid, 1 Tim. 4. 13. Darllenid Moses yn gyhoeddus yn y Synagog bob Sabbath, ac oni ddylai Crist gael ei ddarllen yn gyhoeddus yn y gynnulleidfa bob dydd yr Arglwydd?

Mae yr Ysgrythyrau Sanctaidd i gael eu darllen,—(1.)Gyda pharch mawr iddynt, am eu bod yn Air Duw, wedi eu rhoddi trwy ysbrydoliaeth yr Ysbryd Glan, ac yn abl i wneuthur dynion yn ddoeth i iachawdwriaeth, Ps. 19. 10. Esa. 66. 2. (2.) Gyda chrediniaeth ddïysgog mai gwir Air Duw ydynt; oblegid, oni byddwn wedi ein llwyr argyhoeddi o hyn, ni's gallwn byth eu golygu fel sail ddigonol i adeiladu ein gobaith am iachawdwriaeth arnynt; ac ni's gallwn byth ymddiried ynddynt, fel yn cynnwys geiriau bywyd tragywyddol, 1 Thes. 2. 13. 2 Pedr 1. 19, &c. (3.) Dan grediniaeth drwyadl mai Duw yn unig a all ein galluogi i'w dëall; oblegid, yn gymmaint a'u bod yn ddatguddiad oddiwrth Dduw, y maent yn rhy ysbrydol i'w deall trwy unrhyw ymdrech o eiddo galluoedd naturiol dyn, 1 Cor. 2. 14, a 3. 13, &c. Luc 24. 45.

2. Mae *pregethiad y Gair yn neillduol* yn foddion effeithiol er iachawdwriaeth o osodiad Duw.

Mae Gair Duw i gael ei *bregethu* yn unig gan y rhai ydynt yn meddu cymhwysderau digonol, ac wedi eu cymeradwyo a'u galw yn brïodol, i'r swydd hòno, Eph. 4. 8, &c. Mal. 2. 7. Rhuf. 10. 15. 1 Tim. 4. 14. Yn epistolau Paul at Timotheus ac at Titus, fe ddangosir yn eglur pa fath a ddylai nodweddiad pregethwr Gair Duw fod.

Dylai y rhai a elwir i bregethu yr efengyl, bregethu athrawiaeth iachus—hyny yw, y mae yn rhaid iddynt bregethu holl gyngbor Duw mewn perthynas i drefn iachawdwiaeth; rhaid iddynt bregethu yr holl wirionedd datguddiedig a gynnwysir yn Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, a'r hyn a roddir ar ddeall yn eglur ynddo,er na byddo yn cael ei ddatgan mewn geiriau. A rhaid gwneyd hyn,—(1.) *Yn ddiwyd*, 2 Tim. 4. 2. Rhaid defnyddio pob cyfleustra, fel y caffo eneidiau dynion les, a Duw ei ogoneddu. (2.) *Yn eglur*, 1 Cor. 2. 4, a 14. 9. Rhaid pregethu yr efengyl mewn eglurder a symledd, ac mewn iaith addas i alluoedd pawb. Mae rhai fel ped annghofient fod gan *bawb* eneidiau i'w hachub,pan y maent yn cyfaddasu eu hiaith i alluoedd *ychydig* yn unig. (3.) *Yn ffyddlawn*, Jer. 23. 28; 1 Cor. 4. 1, 2; Act. 20. 27. Pregethu yn ffyddlawn yw egluro, neu beidio a chywilyddio mynegi holl gynghor Duw, neu bob rhan o'i ewyllys, sydd angenrheidiol ei wybod er iachawdwriaeth. (4.) *Yn ddoeth*, 1 Cor. 3. 2; Heb. 5. 12; Luc 12. 42. Gellir dweyd fod Gweinidog yn pregethu yn ddoeth, pan y mae yn ymdrechu i'w gyfaddasu ei hun at angenrheidiau a galluoedd ei wrandawwŷr. (6.) *Yn zelog*, Act. 18. 25. Mae gweinidogion yr efengyl dan y cym-

helliad uchaf a all fod i fod yn zelog, ac os teimlant o'i ddylanwad cymhelliadol, ni's gallant lai na bod yn zelog yn ei Achos, a'r cymhelliad hwn yw cariad Crist, dan ddylanwad yr hwn y gweithredai Paul yn wastadol, 2 Cor. 5. 14; a 12. 15. Mae diffyg zel wrth bregethu yr efengyl yn arwyddo nad oes yno ddim awydd mawr am achub y pechadur, yr hyn yw un o amcanion mawr y weinidogaeth; ac y mae y rhai nad ydynt yn cael eu cymhell i'r gwaith yma gan gariad at eneidiau dynion, yn dwyn arnynt yr enw, ond heb fod yn feddiannol ar y pethau sydd yn cyfansoddi nodweddiad gweinidog i Grist, 2 Cor. 5. 13, &c. Col. 4. 12. (6.) *Yn ddiffuant,* 2 Cor. 2, 17; a 4. 2; 2 Thess. 2. 4, &c. Ioan 7. 18; 1 Cor. 9. 22. 1 Tim. 4. 16. Mae diffuantrwydd yn un o bethau mwyaf hanfodol gweinidog yr efengyl. Mae athrawiaeth gyfeiliornus yn meddu tuedd dra niweidiol, a dianrhydeddus i Grist; gan nad yw efe felly yn cael ei ogoneddu, ac ni's gall pechaduriaid gael eu cyfnewid, eu hadeiladu, a'u hachub trwy y fath athrawiaeth.

Gwneir Gair Duw yn effeithiol trwy weithrediad yr *Ysbryd Glan* yn unig. Gellir darllen a phregethu y Gair megis y gorchymynir; ond Ysbryd Duw ydyw bywyd y Gair a ddarllenir ac a bregethir, ac efe yn unig a all ei wneyd yn allu Duw er iachawdwriaeth, 1 Cor. 2. 11; a 3. 5. Ezec. 28. Gallasai y prophwyd brophwydo i'r esgyrn sychion fel y'i gorchymynasid; ond yr Ysbryd yn unig a allasai roddi bywyd ynddynt, a gwneyd iddynt sefyll ar eu traed, a moli Duw.

Fe ddywedir fod Ysbryd Duw yn gwneuthur darlleniad, ac *yn enwedig pregethiad* y Gair yn effeithiol fel moddion iachawdwriaeth, oblegid fod pregethiad y Gair yn foddion mwy *cyffredinol,* a'n bod yn meddu prawf digonol ei fod y mwyaf *effeithiol,* Act. 2. 41; a 4. 4; a 11. 20, 21. Ac yn 1 Cor. 1. 21, nyni a ddarllenwn, fod Duw wedi gweled yn dda, trwy ffolineb pregethu, gadw y rhai sydd yn credu; ac yn Rhuf. 10. 17, nyni a ddarllenwn, fod ffydd yn dyfod trwy *glywed,* a chlywed trwy Air Duw.

Sylw 299.—*Y dybenion i ba rai y mae Duw yn defnyddio darlleniad y Gair, ac yn enwedig y pregethiad o hono, ydynt argyhoeddiad a dychweliad pechaduriaid, ac adeiladaeth y saint mewn sancteiddrwydd a dyddanwch trwy ffydd i iachawdwriaeth.*

Mae yr Ysbryd yn defnyddio y gair *i argyhoeddi a dychwelyd pechaduriaid.* I *argyhoeddi* pechaduriaid, defnyddia yr Ysbryd y ddeddf; canys, "trwy y ddeddf y mae adnabod pechod," medd yr Ysgrythyr. Y mae pechadur yn cael ei

argyhoeddi o natur pechod, yr hyn sydd yn gynnwysedig yn ei fod yn ddiffyg cydffurfiad â chyfraith Duw; neu, yn ei fod yn drosedd o honi; ac o *haeddiant* pechod, yr hyn a gynnwysa ddigofaint a melldith Duw yn y byd hwn, a'r hwn a fydd. Mae yr Ysbryd hefyd yn defnyddio y Gair, fel moddion effeithiol *dychweliad* pechaduriaid, Ps. 19. 7. Dychweliad sydd dröedigaeth ysbrydol ar yr holl ddyn at Dduw, fel effaith sicr ac union-gyrchol y cyfnewidiad ysbrydol a weithredir yn yr adenedigaeth, (Jer. 3. 22,) yr hyn sydd yn gyssylltiedig â dychweliad yn wastadol fel ei achos. Y Gair ydyw y moddion trwy yr hwn y gweithredir y cyfnewidiad goruwch naturiol hwn; ond nid yn llaw dyn ei hunan; canys ni's gall efe ei barottöi ei hun i dderbyn argraffiadau y Gair, na chydweithredu â'r Ysbryd yn nghynnyrchiad y fath gyfnewidiad.

2. Y mae yr Ysbryd yn defnyddio y Gair *i adeiladu y saint mewn sancteiddrwydd a dyddanwch.* Mae efe yn adeiladu y saint mewn *sancteiddrwydd*, trwy roddi iddynt amlygiadau eglur a mynych o ogoniant Crist, fel y maent yn cael eu cyfnewid fwy fwy i'r unrhyw ddelw ag ef, 2 Cor. 3. 18. Ac y mae yn eu hadeiladu mewn *dyddanwch*, trwy ddwyn at yr enaid yn rymmus, yr addewidion mawr iawn a gwerthfawr, trwy y rhai y cludir pob sail dyddanwch parhaus a chyflawn iddynt; trwy yr hyn y'u gwneir yn dra llawen yn Nuw eu hiachawdwriaeth, Eph. 4. 12, &c. Rhuf. 16. 25. 1 Thess. 3. 11, &c. Rhuf. 15. 4. 1 Thess. 3. 2, &c. Esa. 40. 1, 2.

Fe'n hysbysir yma yn unol â'r Ysgrythyr, mai yr offeryn trwy yr hwn y mae yr Ysbryd yn gwneyd y moddian hyn yn effeithiol er adeiladu y saint mewn sancteiddrwydd a chysur, yw *ffydd*. A'r offerynoldeb sydd gan ffydd yn llaw yr Ysbryd i gyflawni hyn, yw, ei bod yn gorphwys ar Air ffyddlawn eu Duw am gyflawni y dybenion hyn. 1 Thes. 2. 13. Ps. 138.8.

Y dyben er yr hwn y gwneir hyn oll, yw *iachawdwriaeth* berffaith a thragywyddol y saint. Ac am hyny y mae yr efengyl yn cael ei galw yn "allu Duw er iachawdwriaeth,"—hyny yw, gwaredigaeth oddiwrth bechod, ac oddiwrth ddigofaint,—oddiwrth euogrwydd a chosbedigaeth, grym a halogedigaeth pechod,—oddiwrth felldith y ddeddf, ac oddiwrth rym angau a'r bedd.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Werth y Beibl. 2. Yr angenrheidrwydd am Air y bywyd. 3. Bod gweinidogaeth y Gair yn waith mawr, a thra phwysig yn ei ganlyniadau. 4. Yr angenrheidrwydd i ddarllen a phregethu y Gair. 5. Y perygl

o'i ddiystyru neu ei esgeuluso. 6. Bod yr angenrheidrwydd mwyaf am yr Ysbryd i wneyd y Gair yn effeithiol. 7. Yr angenrheidrwydd am ffydd, heb yr hyn ni all darlleniad na phregethiad y Gair lesâu i ni. 8. Yr angenrheidrwydd i ddefnyddio moddion iachawdwriaeth, ac nad ydym yn y ffordd i gael y fendith heb hyny.

## *Defnyddiad prïodol o Air Duw.*

HOL. 90. PA FODD Y MAE Y GAIR I'W DDARLLEN A'I WRANDO, FEL Y BYDDO YN EFFEITHIOL ER IACHAWDWRIAETH?

Rhaid i ni ymwneyd ag ef gyda diwydrwydd, parotöad, a gweddi; ei dderbyn trwy ffydd a chariad; ei drysori yn ein calonau, a'i ymarfer yn ein bucheddau.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod yn rhaid ymwneyd â Gair Duw a'i ddeall, Act. 8. 30. "A wyt ti yn deall y pethau yr ydwyt yn eu darllen?"

2. Bod yn rhaid ymwneyd â Gair Duw gyda diwydrwydd, Act. 17. 11. "Gan chwilio beunydd yr Ysgrythyrau, a oedd y pethau hyn felly." Gwel hefyd Diar. 8. 34.

3. Bod yn rhaid ymwneyd â Gair Duw gyda pharotöad, Iago 1. 21. "Rhoddwch heibio bob budreddi, a helaethrwydd malais; a thrwy addfwynder derbyniwch yr impiedig air, yr hwn a ddichon gadw eich eneidiau." Gwel hefyd Luc 8. 18.

4. Bod yn rhaid ymwneyd â Gair Duw gyda gweddi, Ps. 119. 18. "Datguddia fy llygaid, fel y gwelwyf bethau rhyfedd allan o'th gyfraith di."

5. Bod yn rhaid derbyn Gair Duw trwy ffydd, 1 Thes. 2. 13. "Oblegid hyn yr ydym ninnau hefyd yn dïolch i Dduw yn ddibaid, o herwydd i chwi pan dderbyniasoch air Duw, yr hwn a glywsoch genym ni, ei dderbyn ef nid fel gair dyn, eithr (fel y mae yn wir) yn air Duw; yr hwn hefyd sydd yn nerthol weithio ynoch chwi, y rhai sydd yn credu." Gwel hefyd Heb. 4. 2.

6. Bod yn rhaid derbyn Gair Duw mewn cariad, Ps. 119. 97. "Mor gu gennyf dy gyfraith di!" Gwel hefyd 2 Thes. 2. 10.

7. Bod yn rhaid myfyrio ar Air Duw, Col. 3. 16. "Preswylied gair Crist ynoch yn helaeth yn mhob doethineb."

8. Bod yn rhaid trysori Gair Duw yn y galon, Deut. 11. 18. "Am hyny gosodwch fy ngeiriau hyn yn eich calon, ac yn eich meddwl." Gwel hefyd Ps. 119. 11.

9. Bod yn rhaid i wirioneddau Gair Duw gael eu rhoddi mewn ymarferiad yn ein bucheddau, Iago 1. 22. "A byddwch wneuthurwyr y gair, ac nid gwrandawwŷr yn unig, gan eich twyllo eich hunain."

EGLURHAD.

Sylw 300.—*Rhaid i ni ymwneyd â'r Gair gyda diwydrwydd, parotöad, a gweddi, fel y byddo yn effeithiol er iachawdwriaeth.*

Pan ddywedir fod yn rhaid i ni *ymwneyd* â'r Gair, y meddylir bod yn rhaid i'r Gair ddyfod yn brif destyn ein myfyrdod tra fyddom byw; a bod yn rhaid iddo gael ei argraffu yn ddwfn ar y galon; a hyny o herwydd y rheswm da yma, ei fod yn cynnwys y rhan dda hòno na ddygir oddiarnom byth.

1. Rhaid i ni ymwneyd â Gair Duw yn *ddiwyd;* rhaid defnyddio pob cyfleusdra i ddarllen y Gair, ac i wrando ei ddarllen a'i bregethu.

2. Rhaid i ni ymwneyd â'r Gair gyda *pharotöad*, yr hyn a gynnwys amryw bethau. Rhaid i ni ddwys ystyried, (1.) Awdurdod Duw, yn argraffedig yn ei Air, Act. 10. 33. Ps. 89. 6, 7. (2.) Bod pregethiad y Gair yn ordinhad o eiddo Duw er ein iachawdwriaeth. (3.) Y bydd pregethiad y Gair i ni yn arogl marwolaeth, neu fywyd, 2 Cor. 2. 15, 16. Luc 8. 18. (4.) Yr angenrheidrwydd o roddi heibio bob halogrwydd, cnawd ac ysbryd, Gen. 35. 2, 3. 1 Pedr 2. 1, 2. (5.) Yr angenrheidrwydd am alltudio gofalon y byd hwn o'r galon pan yn gwrando y Gair, Math. 13. 22. (6.) Yr angenrheidrwydd o fod wedi ein golchi yn ngwaed Crist, pan yn gwrando y Gair; canys ni all enaid ansanctaidd gynnal cymmundeb â Duw yn ordinhadau ei ras. Ps. 26. 6. (7.) Ein hamgylchiadau neillduol ein hunain pan yn gwrando darllen, neu bregethu y Gair, 1 Bren. 8. 38.

3. Rhaid i ni ymwneyd â'r Gair gyda *gweddi.* Mae hyn yn angenrheidiol oblegid mai Duw yn unig a all gymhwyso ein calonau ni i iawn gyflawniad o'i addoliad, ac o ganlyniad dylem alw arno gyda'r neges neillduol yma, fel na byddo ein hymarferiadau yn ofer i ni ein hunain, Ps. 119. 18. 2 Thes. 3. 1. Cyn darllen neu wrando y Gair, dylem weddïo am iddo gael ei wneyd yn allu Duw er ein iachawdwriaeth; neu yn foddion effeithiol yn ei law er argyhoeddi, dychwelyd, ac adeiladu ein heneidiau, Rhuf. 1. 16. Ioan 6. 63.

Ond, er ein holl barotöad, mae yn rhaid i ni ymwadu â phob ymddibyniad ar hyny cyn y byddo y Gair yn effeithiol; ac ymorphwys ar addewid yr Ysbryd i'w wneuthur yn wasanaethgar i'r dybenion pwysig y'i bwriadwyd erddynt.

Sylw 301.—*Rhaid derbyn y Gair gyda ffydd a chariad, fel y byddo yn effeithiol er iachawdwriaeth.*

*Derbyn* y Gair, yw ei gymmeradwyo â phob parodrwydd meddwl, fel y mae yn wir Air Duw—cennadwri yr Ysbryd Glan yn cael ei chyfeirio at yr enaid, er ei iachawdwriaeth; ag iawn ddefnyddio y Gair tra yn ei ddarllen neu ei wrando, a elwir *ei dderbyn*, oblegid na allwn gael dim gwir les i'n heneidiau oddiwrth y cyhoeddiad rhadlawn o'r holl fendithion a gynnwysir yn y Gair, oddieithr ein bod yn ei dderbyn fel rhad rodd Duw, Ioan 3. 27.

1. Rhaid i ni dderbyn y Gair mewn *ffydd*. Yma gellir sylwi ar y pethau canlynol:—(1.) Rhaid i ni gredu awdurdod Ddwyfol pob rhan o'r llyfr a elwir y Beibl, a'i goelio fel tystiolaeth Duw am dano ei hunan i ddyn; ni wiw fod un amheuaeth yn ein meddyliau am y peth hwn; canys y mae prawf digonol o'i wirionedd o'i fewn ei hunan; ac os byddwn yn ammeu, ni's gellir dweyd ein bod yn derbyn y Gair trwy ffydd. (2.) Fel y mae yn cynnwys pob peth angenrheidiol, nid yn unig er iachawdwriaeth pechaduriaid yn gyffredinol, ond yr eiddom ein hunain yn neillduol, rhaid i ni nid yn unig ei dderbyn fel gwirionedd; ond ei dderbyn yn ei berthynas â ni yn neillduol; canys y mae yn cynnwys cennadwri Duw attom ni yn bersonol, fel pe na byddai a wnelai a neb ond nyni ein hunain, Galar. 3. 24; Ps. 119. 20. (3.) Os oes dim a wnelom â'n cynnydd ein hunain yn y fuchedd Ddwyfol, ac â'n cysur, rhaid i ni ymholi pa effeithiau a gafodd y Gair arnom, Ps. 119. 9, 50; Dan. 10. 19.

2. Rhaid i ni dderbyn y Gair mewn *cariad*. Dyma y canlyniad naturiol o'i dderbyniad trwy ffydd; canys pa le bynnag y mae ffydd, y mae hi yn gweithio trwy gariad, ac yn puro y galon. Os daw y Gair adref gydâ nerth yn mhrofiad neb un, megys y Thessaloniaid gynt, fe'i dilynir â chariad, Cymh. 1 Thess. 1. 5, a 2. 13, gyda 2 Thess. 1. 3, &c., a gwelir nad oedd eu ffydd hwy yn unig; canys fe sonir am eu cariad â'r ganmoliaeth uchaf. Mae y Gair i bawb nad ydynt yn ei dderbyn mewn cariad, yn arogl yr ail farwolaeth, 2 Thes. 2. 10.

Sylw 302.—*Rhaid i ni drysori y Gair yn ein calonau, a'i ymarfer yn ein bucheddau, fel y delo yn effeithiol er iachawdwriaeth.*

1. Rhaid i ni *drysori y Gair yn ein calonau*. Rhaid i'r deall fod ar waith yn ceisio ei wybod, yr ewyllys yn ceisio cydffurfio ag ef yn ei holl ranau; rhaid fod y serchiadau wedi eu sefydlu arno; a rhaid i'r côf ddal arno. Heb hyn

oll, ni's gellir dweyd ei fod yn cael ei drysori yn y galon, Ps. 109. 11; Heb. 2. 1. Ac y mae *myfyrio* ar y pethau a glywsom neu a ddarllenasom yn dwyn perthynas agos a thrysori y Gair yn ein calonau. Ps. 1. 2.

2. Rhaid i ni *ymarfer y Gair yn ein bucheddau.* Dyma ddyben mawr yr ymarferiadau blaenorol. Ymarfer Gair Duw yn ein bucheddau, yw bod ein hymarweddiad mewn gair a gweithred, yn gweddu i'r efengyl—meddu y dyn oddiallan a'r dyn oddi mewn wedi ei drefnu wrth Air digyfeiliorn Duw.

#### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Werth Gair Duw, a'r parch y dylem ni ei ddangos iddo. 2. Y perygl o fod yn ddibarch o hono. 3. Bod llawer yn ofynol o'n tu ein hunain fel y deallom y Gair; ond na bydd dim yn effeithiol heb yr Ysbryd. 4. Yr angenrheidrwydd o ofn a pharch wrth ddarllen y Gair, a'r perygl o fod heb hyn. 5. Yr angenrheidrwydd o ffydd a chariad pan yn darllen neu yn gwrando y Gair. 6. Yr angenrheidrwydd o'i drysori yn ein calonau, myfyrio arno, a'i ddwyn i ymarferiad. 7. Na fuddia y cyflawniad allanol ddim, oni bydd y galon yn y gwaith, Esa. 29. 13.

### DOSB. 2.—AM Y SACRAMENTAU FEL MODDION GRAS.

## *Am Natur y Sacramentau.*

### HOL. 91. BETH YW SACRAMENT?

Ordinhad sanctaidd a osodwyd gan Grist, yn mha un trwy arwyddion gweledig, y mae Crist, a doniau y y cyfammod newydd, yn cael eu harddangos, eu selio, a'u cymhwyso i gredinwyr.

#### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod y sacramentau yn ordinhadau sanctaidd. 1 Cor. 10. 21. "Ni ellwch yfed o phïol yr Arglwydd a phïol cythreuliaid; ni ellwch fod yn gyfranogion o fwrdd yr Arglwydd a bord y cythreuliaid."

2. Bod y sacrament o fedydd wedi ei osod gan Grist. Mat. 28. 19. "Ewch gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy."

3. Bod y sacrament o swper yr Arglwydd wedi ei sefydlu gan Grist. Mat. 26. 26, 27. "Ac fel yr oeddynt yn bwyta,

yr Iesu a gymerth fara, ac wedi iddo fendithio, efe a'i torodd, ac a'i rhoddodd i'r dysgyblion, ac a ddywedodd, Cymerwch, bwytewch; hwn yw fy nghorph. Ac wedi iddo gymeryd y cwpan, a diolch, efe a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, Yfwch bawb o hwn."

4. Bod Crist yn cael ei ddarlunio trwy arwyddion gweledig yn y sacrament o fedydd. Rhuf. 6. 3, 4. "Oni wyddoch chwi am gynnifer o honom ac a fedyddiwyd i Grist Iesu, ein bedyddio ni i'w farwolaeth ef. Claddwyd ni gan hyny gydag ef trwy fedydd i farwolaeth."

5. Bod Crist yn cael ei ddarlunio trwy arwyddion gweledig yn sacrament y swper sanctaidd. 1 Cor. 11. 24. "Hwn yw fy nghorph a dorir drosoch, gwnewch hyn er côf am danaf."

6. Bod doniau y cyfammod newydd yn cael eu darlunio yn y sacramentau. Ioan 6. 53, 54. "Oni fwyttewch gnawd Mab y dyn, ac oni yfwch ei waed ef, nid oes genych fywyd ynoch. Yr hwn sydd yn bwytta fy nghawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd ganddo fywyd tragywyddol."

7. Bod Crist a doniau y cyfammod newydd yn cael eu selio i gredinwyr yn y sacramentau. Rhuf. 4. 11. "Ac efe a gymmerth arwydd yr enwaidiad yn insel cyfiawnder y ffydd, yr hon oedd ganddo yn y dïenweidiad."

8. Bod Crist a doniau y cyfammod newydd yn cael eu cymhwyso at gredinwyr yn y sacramentau. Ioan 6. 56, 57. "Yr hwn sydd yn bwytta fy nghawd i, ac yn yfed fy ngwaed i, sydd yn aros ynof i, a minnau ynddo yntau. Fel yr anfonodd y Tad byw fi, ac yr ydwyf fi yn byw trwy y Tad; felly yr hwn sydd yn fy mwytta i, yntau a fydd byw trwof fi."

EGLURHAD.

Sylw 303.—*Y sacramentau ydynt ordinhadau sanctaidd o osodiad Crist.*

Mae y gair *sacramentau* o darddiad Lladinaidd; ac fe'i harferid gan y Rhufeiniaid gynt i arwyddocâu eu llŵ milwraidd, trwy yr hwn yr ymrwymai milwyr i fod yn ffyddlawn i'w tywysogion, ac i beidio gadael eu lluman ar ddydd perygl. Gan hyny, yr oedd y llŵ yma yn arwyddocâu ufudd-dod i'w huwchraddolion yn mhob peth perthynol i'r filwriaeth, a chan gynted ag yr ymddangosai annufudd-dod yn neb o'r rhai a gymerasant y llŵ hwn, canfyddai pawb o'u hamgylch eu bod wedi tyngu annudon. Yn y golygiad yma, y mae *sacrament* yn arwyddocâu, nid yn unig rhyw beth sydd gyssegredig, ond ymrwymiad difrifol o'n tu ni i fod yn eiddo yr Arglwydd. Ac os oedd yr hen lŵ a elwir *sacrament*, yn rhwymo y tywysogion

Rhufeinig i fod yn gywir i'w milwyr, fel y rhwymai y milwyr i fod yn ffyddlawn iddynt hwy; yna y cawn yr un peth yn gymhwys yn cael ei ddwyn i'n sylw, gyda golwg ar Dywysog ein hiachawdwriaeth, Iesu Grist. Y mae efe yn ymrwymo i fod felly i ni, ac yr ydym ninnau yn ymrwymo i fod yn eiddo ef—i fod erddo ef, ac nid neb arall.

Awdwr yr ordinhadau, a elwir sacramentau, yw *Iesu Grist.* Rhaid i bob ordinhad yn yr eglwys Gristionogol, sydd yn foddion iachawdwriaeth neu ddyddanwch, fod o'i appwyntiad ef, gan mai efe yn unig yw Brenin a Phen yr eglwys; mae wedi ei roddi yn ben uwchlaw pob peth i'r eglwys, yr hon yw ei gorph ef, ei gyflawnder ef, yr hwn sydd yn cyflawni oll yn oll. Gan hyny, ei appwyntiad ef fydd yn gwneuthur *sacrament.*

Mae yn angenrheidiol cael *awdurdod bendant a digyfrwng Crist*, dros sacrament, ar y cyfrifon canlynol:—1. Oblegid heb hyny ni theilynga yr enw sacrament; ac am hyny y cawn ni yr apostol yn hysbysu y Corinthiaid ei fod ef wedi derbyn yr appwyntiad o swper yr Arglwydd oddiwrth Grist ei hun yn uniongyrchol, 1 Cor. 11. 23. 2. Y mae y sacramentau yn dwyn perthynas â'r cyfammod: ond ni all neb appwyntio seliau y cyfammod, yr hyn yw y sacramentau, ond Crist, cynnrychiolwr y cyfammod, a'r hwn fel y cyfryw a gyflawnodd ei ammod. Mae holl addewidion y cyfammod ynddo ef yn ïe ac yn amen, er gogoniant Duw Dad, ond pwy a all selio yr addewidion heblaw Crist? 3. Mae y sacramentau yn perthyn i dŷ Dduw, addoliad Duw, a'r gogoniont Dwyfol; gan hyny ni's gall neb eu happwyntio ond Crist, yr hwn a geisiai ogoniant ei Dad uwchlaw pob peth; ac felly ni a ganfyddwn fod ei awdurdod ef wedi ei argraffu yn eglur ar ddau sacrament y Testament Newydd, Math. 28. 19, 20, a 26. 26, 27; 1 Cor. 32. 11.

Sylw 304.—*Maa y sacramentau yn gynnwysedig o dwy ran,—arwydd allanol a gweledig, a gras tufewnol ag ysbrydol.*

Yr *arwydd allanol* sydd ryw beth y gallwn ni ei ganfod a'n synhwyrau, a rhaid ei fod o appwyntiad Crist ei hunan. Felly yr elfen a ddefnyddir yn y bedydd yw *dwfr*, yr hwn sydd yn weledig i ni; a'r elfenau a ddefnyddir yn swper yr Arglwydd ydynt *fara a gwin*, y rhai hefyd ydynt weledig, a'r rhai y gallwn eu teimlo a'u chwaethu hefyd. A dyma un o brif ranau sacrament a appwyntiwyd gan Grist ei hunan. Ond y mae yn gyssylliedig a'r elfenau hefyd, yr hyn a elwir yn *weithrediadau sacramentaidd*, y rhai ni's gellir yn brïodol eu hystyried

ar wahan oddiwrth yr elfenau, am eu bod yn perthyn iddynt, ac am nad yw yr elfenau a'u triniaeth yn cynnwys ond un arwydd gweledig neu ran o sacrament.

2. *Y gras ysbrydol a thumewnol*, yw y peth a arwyddocêir trwy yr arwyddion allanol; a heb gyfrannogiad o'r gras ysbrydol hwn, nid yw y sacramentau ond cysgod gwag disylwedd, Math. 3. 11. Rhuf. 2.

Sylw 305.—*Dyben neu amcan y sacramentau yw cynnrychioli Crist a bendithion y cyfammod newydd, a'u selio a'u cymhwyso at gredinwyr.*

1. Y mae y sacramentau wedi eu hamcanu *i gynnrychioli Crist a bendithion y cyfammod Newydd.* Gan mai Crist yw y fendith ysbrydol fawr a gynnrychiolir yn y sacramentau, rhaid bod perthynas ysbrydol rhwng yr arwydd a'r peth a arwyddocêir drwyddo; a'r canlyniad o'r cyfryw undeb ydyw, fod enwau ac effeithiau y naill yn cael eu cymhwyso at y llall. Heb y cyfryw berthynas ysbrydol ni byddai sacrament. Ao y mae yr undeb hwn yn effeithiol yn y rhai ydynt yn cyfrannogi o'r sacramentau, pan fyddont ynghyd a'r arwyddion, yn derbyn trwy ffydd y bendithion ysbrydol a gynnrychiolir trwyddynt.

2. Mae y sacramentau wedi eu hamcanu i selio Crist, a bendithion y cyfammod newydd i'r credinwyr. Trwy sacramentau y gwneir Crist a bendithion y prynedigaeth yn berffaith sicr i'r credinwyr, ac y maent hwy yma yn ymrwymo y byddant hwy yn eiddo Crist, ac nid neb arall, ac y'u gwasanaethant dros eu holl ddyddiau mewn duwiol barch.

3. Mae y sacramentau wedi eu hamcanu i *gymhwyso* Crist, a bendithion y cyfammod newydd at eneidiau y sawl a gyfrannogant yn gymhwys o honynt; rhaid i hyn ddilyn iawn gyfrannogiad o'r arwyddion, neu fwytta ag yfed mewn ffydd; yr hyn ni's gellir ei wneyd heb feddiant gweithredol, o fendithion y cyfammod newydd, yr hyn a gynnrychir yn yr arwyddion.

Mae y sacramentau wedi ei hamcanu *i gredinwyr* yn unig. Ni's medd neb ond credinwyr hawl i seliau y cyfammod, gan nad oes neb arall o fewn rhwymyn y cyfammod,—hwy a ffoisant at Grist am noddfa rhag pechod a digofaint,—nid ydynt yn gweled neb yn debyg i Grist,—y maent yn ei ddilyn i ba le bynnag yr elo,—nid oes ganddynt ymddiried yn y cnawd, ond y maent yn gorphwys yn unig ar yr iawn a wnaed gan Grist, fel unig sail eu gobaith, mewn amser ac i dragywyddoldeb.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Adnabod cariad Crist yn rhoddi moddion dyddanwch i'w eglwys. 2. Rhagorfraint y saint. 3. Dedwyddwch y rhai a feddant ran yn y cyfammod newydd a thragywyddol. 4. Y perygl o ddiystyru y sacramentau, y rhai ydynt seliau y cyfammod.

## *Am effeithiolrwydd y Sacramentau.*

HOL. 92. PA FODD Y MAE Y SACRAMENTAU YN DYFOD YN EFFEITHIOL FEL MODDION IACHAWDWRIAETH?

Nid trwy un rhinwedd ynddynt hwy, nac yn yr hwn a'u gweinyddo; ond yn unig trwy fendith Crist, a gweithrediad ei Ysbryd ef yn y rhai a'u derbyniant hwy trwy ffydd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Nad yw y sacramentau yn meddu un rhinwedd ynddynt eu hunain, Act. 8. 13, 23. "A Simon yntau a gredodd, ac wrth ei fedyddio a lynodd wrth Phylip. Eithr Pedr a ddywedodd wrtho, Mi a'th welaf mewn bustl chwerwder, ac mewn rhwymedigaeth anwiredd."

2. Nad yw y sacramentau yn cael eu gwneuthur yn effeithiol trwy un rhinwedd yn y gweinyddwr, 1 Cor. 3. 7. "Felly nid yw yr hwn sydd yn plannu ddim, na'r hwn sydd yn dyfrhau; ond Duw, yr hwn sydd yn rhoi y cynnydd."

3. Bod y sacramentau yn cael eu gwneyd yn effeithiol trwy fendith Crist, Math. 3. 11. "Efe a'ch bedyddia chwi a'r Ysbryd Glan, ac a thân."

4. Bod y sacramentau yn cael eu gwneyd yn effeithiol trwy weithrediad Ysbryd Duw, Ioan 6. 63. "Yr Ysbryd sydd yn bywhau, nid yw y cnawd yn llesau dim."

5. Bod y sacramentau yn dyfod yn effeithiol i'r rhai sydd yn eu derbyn trwy ffydd yn unig, Marc 16. 16. "Y neb a gredo ac a fedyddier a fydd cadwedig."

EGLURHAD.

Sylw 306.—*Mae y sacramentau yn foddion effeithiol er iachawdwriaeth.*

*Moddion iachawdwriaeth*, sydd appwyntiad o eiddo Iesu Grist, brenin a phen yr eglwys, yn yr ymarferiad o'r hyn ;

mae iachawdwriaeth yn cael ei dechreu, ei dwyn rhagddi, a'i pherffeithio;—Gwel Act. 2. 37, &c. 1 Cor. 10. 16.

Y gwahaniaeth rhwng Gair Duw fel moddion iachawdwriaeth, a'r *sacramentau* fel y cyfryw, yw hyn: y mae Gair Duw yn foddion perthynol i saint a phechaduriaid; ond y sacramentau ydynt foddion yn perthyn i'r saint yn unig, ger bron Duw. Mae y Gair wedi ei amcanu fel moddion i argyhoeddi a dychwelyd pechaduriaid; y sacramentau, i ddyddanu y saint, a'u cadarnhau yn y sancteiddiolaf ffydd. Rhaid i'r Gair ragflaenu y sacramentau, y rhai a fwriedir yn unig er mwyn y rhai sydd yn credu; ac y mae ffydd yn dyfod trwy glywed Gair Duw yn cael ei ddarllen neu ei bregethu. Rhaid i'r Gair ymddangos yn effeithiol, cyn y dylid ymyraeth a'r sacramentau.

Mae y sacramentau, nid yn unig yn *foddion*, ond yn *foddion effeithiol* iachawdwriaeth i'r rhai oll y perthynant iddynt; ac y mae hyn yn cael ei wirio yn mhrofiad nid ychydig o'r rhai sydd yn cynnal cymmundeb profiadol â Christ yn nhoriad y bara, yr hwn sydd yn dymhor o lawenydd mawr i'w heneidiau; ac y mae y dyddanwch a dderbynir trwyddynt fel hyn, yn wystl o iachawdwriaeth lwyr, a llawn gymmundeb â Christ yn yr Eglwys orfoleddus.

Sylw 307.—*Ni's medd y sacramentau un rhinwedd ynddynt eu hunain.*

Nid yw y sacramentau o honynt eu hunain yn meddu un rhinwedd neu effeithiolrwydd er iachawdwriaeth, gan nad ydynt ond yn mysg moddion allanol a chyffredinol, trwy ba rai y cyfrenir doniau y prynedigaeth i bechaduriaid. Ni's gallant hwy roddi un ddawn achubol o honynt eu hunain, mwy nag y gall y bwa yn y cwmmwl attal ail ddylif; gan nad oedd ond arwydd a roddes Duw na's boddai y byd eilwaith. Mae yn amlwg na's gallant roddi gras cadwedigol; canys pe buasent yn meddu y rhinwedd yma ynddynt eu hunain, buasai pawb a gyfrannogasent o honynt wedi cael gras; eithr nyni a wyddom nad felly y mae, 1 Pedr 3. 21. Gellid meddwl fod y sylw yma wedi ei roddi i fewn er gwrthwynebu y rhai ydynt yn hoff o ddal fod sacramentau y Testament Newydd yn achosion gwir, a phriodol, ac uniongyrchol o ras; a bod eu heffeithiolrwydd yn llifeirio trwy y gweithrediad sacramentaidd o dderbyn yr elfenau allanol: ond gwelwch gyflwr Simon y Swynwr wedi bedydd, Act. 8. 13, 23.

Sylw 308.—*Nid yw y sacramentau yn cael eu gwneyd yn effeithiol trwy un rhinwedd yn y gweinyddwr.*

Ni's gall y gorau o ddynion wneyd unrhyw ordinhad Ddwyfol a weinyddir ganddynt yn effeithiol, ac ni amcanwyd i hyn fod erioed. Nid yw dyn namyn offeryn yn llaw Duw, i wneyd yr hyn a orchymyno efe; ond y mae rhinwedd unrhyw ordinhad yn gorphwys ar Dduw ei hun yn hollol. Gwel 1 Cor. 3. 6, 7. Pe gallai gweinyddwr ordinhad Ddwyfol gyfranu gras, neu ei attal, gyda golwg ar y rhai a gyfrannogent yn yr ordinhad, yna byddai y gweinyddwr yn lle Duw, rhagorfraint yr hwn yn unig yw gwneyd moddion iachawdwriaeth yn offeithiol i'r pwrpas y'u hordeiniwyd. A gallem gasglu bod y synied yma wedi ei roddi i fewn er gwrthwynebu y daliad tra pheryglus hwnw o'r eiddo Eglwys Rhufain, trwy yr hwn yr honir fod effeithiodeb y sacramentau yn ymddibynu ar amcan yr effeiriad neu y gweinyddwr; ac felly brïodoli iddo ef y gallu i roddi, neu attal gras, yr hyn a berthyn i Dduw yn unig. Ond, pe fel hyn y byddai, ni's gellid gwybod pa un a fyddai y sacramentau yn cael eu dilyn ag unrhyw les a'i peidio, gan na all neb fod yn berffaith sicr yn nghylch amcanion eraill, gan mai i Dduw yn unig y mae dirgelion y galon yn adnabyddus. Act. 1. 24.

Sylw 309.—*Mae y sacramentau yn cael eu gwneuthur yn effeithiol yn unig trwy fendith Crist, a gweithrediad ei Ysbryd ef.*

1. Mae y sacramentau yn derbyn eu heffeithiolrwydd o *fendith Crist.* Heb hyn, neu heb y nerth a'r gallu, â'r hwn yr addawodd efe ddilyn y sacramentau, nid ydynt yn ddim amgen na llythyren farw ynddynt eu hunain; heb feddu bywyd hyd oni fyddo i ysbryd a bywyd gael ei roddi ynddynt, gan yr hwn sydd yn cymeryd o'r eiddo Crist ac yn ei ddatguddio i ni.

2. Mae y sacramentau yn derbyn eu heffeithiolrwydd oddiwrth *weithrediad Ysbryd Crist.* Wrth hyn yr ydym i ddeall, nid ei waith yn plannu gras yn yr enaid ddydd yr alwedigaeth effeithiol, yr hyn yw ei waith ef hefyd: ond, yn enwedig, ei waith yn galw allan y gras plannedig yma i ymarferiad bywiog pan y byddo y sacramentau yn cael eu gweinyddu. A phan fyddo grasusau yr Ysbryd yn cael eu tynu allan i ymarferiad bywiog fel hyn, a'u sefydlu ar y gwrthddrychau a arddangosir yn y sacramentau, yna y gellir dywedyd fod yr Ysbryd yn gweithio yn y rhai a'u derbyniant.

Mae y sacramentau yn foddion iachawdwriaeth effeithiol i'r rhai sydd yn eu *derbyn trwy ffydd yn unig,*—i'r rhai hyny yn unig sydd yn cymhwyso y pethau a arddangosir ynddynt, sef Crist, a doniau y prynedigaeth, attynt eu hunain.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Bod y sacramentau yn werthfawr fel moddion iachawdwriaeth. 2. Eu bod yn ddefnyddiol ac angenrheidiol. 3. Yr angenrheidrwydd o ffydd, ac o'r Ysbryd. 4. Bod y sacramentau yn derbyn eu rhinwedd oddiwrth Grist a'i Ysbryd. 5. Na wiw i ni orphwys yn y sacramentau, ond edrych at eu dyben.

## *Am Sacramentau y Testament Newydd.*

HOL. 93. PA RAI YDYNT SACRAMENTAU Y TESTAMENT NEWYDD?

Bedydd a Swper yr Arglwydd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod bedydd yn un o sacramentau y Testament Newydd, Math. 28. 19. "Ewch gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy."

2. Bod Swper yr Arglwydd yn un o sacramentau y Testament Newydd, 1 Cor. 11. 23—25. "Canys myfi a dderbyniais gan yr Arglwydd yr hyn hefyd a draddodais i chwi, Bod i'r Arglwydd Iesu y nos y bradychwyd ef gymeryd bara; ac wedi iddo ddiolch, efe a'i torrodd, ac a ddywedodd, Cymerwch, bwyttewch, hwn yw fy nghorph, yr hwn a dorrir trosoch, gwnewch hyn er coffa am danaf. Yr un modd, efe a gymerodd y cwpan, wedi swperu, gan ddywedyd, Y cwpan hwn yw y Testament Newydd yn fy ngwaed; gwnewch hyn cynnifer gwaith bynnag yr yfoch, er coffa am danaf."

EGLURHAD.

Sylw 310.—*Sacramentau yr Hen Destament yn y rhai y dangosid yr unrhyw fendithion ag a ddelir allan yn sacramentau y Testament Newydd, oeddynt Enwaediad a'r Pasg.*

1. *Yr enwaediad* a sefydlwyd tua 1900 o flynyddoedd cyn enwaediad Crist, ac oedd yn ddïau yn edrych yn mlaen at yr hwn oedd i ddyfod. Yr ydoedd yn arwydd o'r cyfammod a wnelsai Duw, neu yn hytrach a adnewyddasai âg Abraham ei gyfaill, yn y canfed flwyddyn o'i oedran, Gen 17. Yn yr enwaediad y darlunid ein *halogedigaeth* a'n *llygredigaeth naturiol*, yn nghyd a'r angenrheidrwydd am *adenedigaeth*, neu o gael ein torri ymaith o'r Adda cyntaf fel pen cyfammodol, a'n himpio i Grist, yr ail Adda, a'n golchi yn ei waed ef, yr hwn

sydd yn glanhau oddiwrth bob pechod, Rhuf. 2. 28, 29. Hon oedd yr ordinhad a weinyddid ar dderbyniad un i aelodaeth eglwysig dan yr Hen Destament, megis y mae bedydd dan y Newydd. Y ddwy mewn gwirionedd yn arwyddo yr un peth o ran sylwedd: y naill, diosg pechodau y cnawd; a'r llall, eu golchi ymaith yn ngwaed Iesu.

2. Y *pasg* a sefydlwyd ar yr achlysur o waredigaeth plant Israel o'r Aipht, a meddai yr ystyr fwyaf pwysig gyda golwg ar Grist, yr hwn oedd i ddyfod, Exod. 12. Càn gynted ag y canfyddai yr angel dinystriol y gwaed wedi ei daenellu lle y dylasai fod yn ol gorchymyn Dwyfol, efe a olygai y fan hono fel eu noddfa, fel yr oedd hyn yn profi ufudd-dod i'r gorchymyn Dwyfol, a ffydd yn ngwaed Crist, yr hwn a dywelltid. Ac yn ddïau, yr oedd y taenelliad gwaed yma yn arwyddo mai trwy rinwedd gwaed, neu iawn Crist yn unig y gellir gochel y perygl sydd yn dilyn pechod, sef melldith y ddeddf a digofaint Duw, yr hwn yn ddiau a oddiwedda bawb na byddo dan gymhwysiad o waed Iesu, Rhuf. 5. 9.

Yma y canlyn rhai o'r pethau oeddynt angenrheidiol i'w cadw wrth fwytta y pasg, a thrwyddynt dangosid ei bod y pryd hyny yn ordinhad o natur tra neillduol, ac yn gysgodol o Grist ein Pasg ni.

1. Yr oedd yn angenrheidiol fod oen y pasg "yn ddifeius". Exod. 12. 5. Dangosai hyn fod Crist ei hunan yn sanctaidd, difeius, a difrycheulyd, er fod ein pechodau wedi ei cyfrif iddo; ac am hyny y'i gelwir yn "Oen difeius a difrycheulyd,"—1 Pedr 1. 19.

2. Yr oedd yn rhaid i oen y pasg gael ei gadw dros ysbaid cyn ei ladd. Exod. 12. 3, 6. Dywaid yr ysgrifenwyr Iuddewig y byddai yr oen dros yr ysbaid yma yn cael ei rwymo wrth byst eu gwelyau, fel y byddai i'w frefiadau parhaus adgofio yr Israeliaid o'u caethiwed tost yn yr Aipht, a'r drugaredd fawr a gawsant yn eu gwaredigaeth oddiyno; a'u cyffroi i edrych yn mlaen trwy ffydd ar y dyoddefiadau yr oedd Crist i fyned danynt. A chyda golwg ar Swper yr Arglwydd, dylem ymbarotoi drwy fynych ystyried ein trueni drwy bechod, a pha beth a ddyoddefodd Crist fel na byddai i ni gael ein llwyr ddystrywio trwyddo.

3. Yr oedd yn ofynol i oen y pasg gael ei ladd trwy dywallt ei waed, Exod. 12. 6. Yn gyffelyb, yr oedd yn rhaid i Grist ddyoddef angau poenus; rhaid tywallt ei waed er gwneyd iawn am bechod i gyfiawnder Dwyfol, Luc 24. 26.

4. Yr oedd yn ofynol i oen y pasg gael ei rostio wrth dân, Exod. 12. 8, 9. Darluniai hyn mewn modd neillduol ddyodd-

efiadau llymion Crist, y rhai a ddyoddefodd yn ddiball hyd onid aethant drosodd. A gallwn sylwi yma, fod yr haiarn ar yr hwn y rhostid oen y pasg ar lun *croes*. Mor ryfedd y darfu i'r cysgod gyfatteb i'r gwrthgysgod.

5. Yr oedd yn angenrheidiol i oen y pasg gael ei fwytta yn gyfan, neu yn llwyr, heb weddillio dim, Exod. 12. 10. Yn hyn y cynnrychiolid Crist fel Iachawdwr cyflawn; ac y dangosid fod yn rhaid i ffydd ymwneyd ag Iachawdwr cyflawn, yn ei holl swyddau, fel y mae wedi ei wneyd i ni gan Dduw yn ddoethineb, ac yn gyfiawnder, ac yn sancteiddrwydd, ac yn brynedigaeth, 1 Cor. 1. 30.

6. Yr oedd yn rhaid bwytta oen y pasg gyda dail surion, a bara croyw, Exod. 12. 18. Yn yr hyn y dangosid i ni fod yn rhaid derbyn Crist gyda'r ymarferiad o wir edifeirwch.

7. Yr oedd yn ofynol i oen y pasg gael ei fwytta ar y noswaith y'i lleddid, Exod. 12. 8. Mae hyn yn dangos yn eglur y dylid derbyn Crist, a'i gymhwyso at yr enaid yn ddioedi, càn gynted ag y clywom am dano fel aberth wedi ei offrymu dros gamwedd.

8. Yr oedd yn angenrheidiol bwytta oen y pasg a'r lwynau wedi eu gwregysu, ag esgidiau am y traed, a'r ffòn yn y llaw, Exod. 12. 11. Dengys hyn yn eglur yr angenrheidrwydd i ni ein cyfrif ein hunain yn ddieithriaid a phererinion ar y ddaear, bod Crist i gael ei ddefnyddio er iachawdwriaeth hyd y fynyd olaf o'n heinioes; ac y dylem fod yn wastadol yn barod i ymadael, fel y gorchymynid i'r Israeliaid gynt fod yn barod i ymadael o wlad y caethiwed.

9. Yr oedd yn angenrheidiol i oen y pasg gael ei fwytta gan holl deuluoedd Israel ar yr un pryd, Exod. 12. 8. Dangosai hyn yn y modd egluraf y cyflawnder sydd yn Nghrist Iesu, a'i iawn i bawb; fel y gall pawb ymwneyd ag ef, ac efe a'u diwalla a hyny ar unwaith, Col. 2. 9.

10. Yr oedd yn ofynol i waed yr oen gael ei daenellu ar gappynau dorau ac ystlys-byst tai yr Israeliaid, er eu dïogelu rhag dyrnod yr angel dinystriol. Y mae hyn yn dangos yr angenrheidrwydd i'r enaid fod wedi ei daenellu â gwaed Crist trwy ffydd, fel y'i dïogeler oddiwrth effeithiau Dwyfol lid; ac heblaw hyny, y mae yn angenrheidiol fod ein hymarweddiad, yr hwn sydd yn amlwg i'r byd, wedi ei daenellu hefyd a gwaed, fel y byddom does newydd; "canys Crist ein pasg ni a aberthwyd drosom ni." 1 Cor. 5. 7.

Fel hyn y mae yn amlwg y fath gyffelybiaeth nodedig sydd rhwng y cysgod a'r gwrthgysgod; ac y mae yn amlwg hefyd fod y pasg a swper yr Arglwydd yr un o ran sylwedd. Mae

y naill a'r llall yn arwyddocau gwaredigaethau,—trugareddau ysbrydol, yn a thrwy Iesu Grist. A gellir sylwi yma, na bu waredigaeth erioed yn arddangos yr iachawdwriaeth trwy Grist yn fwy cyflawn na'r eiddo yr Israeliaid o dir yr Aipht.

Sylw 311.—*Sacramentau y Testament Newydd, neu y rhai a ddaethant yn lle yr enwaediad a'r pasg, yw bedydd a swper yr Arglwydd.*

1. *Bedydd* a appwyntiwyd gan Iesu Grist ei hunan wedi ei adgyfodiad, pan oedd pob awdurdod yn y nef ac ar y ddaear wedi ei roddi iddo; a daeth yn lle yr enwaediad. Y rhan o'r Ysgrythyr sydd yn profi hyn yn neillduol yw, Col. 2. 10—12. "Ac yr ydych chwi wedi eich cyflawni ynddo ef, (sef Crist), &c. Onid oes dim dan yr efengyl i gyfatteb â'r enwaediad dan y ddeddf, pa fodd y gallai yr apostol ddweyd wrth y Colossiaid eu bod hwy yn *gyflawn yn Nghrist?* Mae yn ddïau y buasent yn canfod y twyll.

2. *Swper yr Arglwydd* a appwyntiwyd gan yr Arglwydd Iesu ar y nos y bradychwyd ef i ddwylaw pechaduriaid; a daeth yn lle y pasg; fel y gellir casglu yn naturiol oddiwrth yr hyn a ddywedwyd uchod am y gyffelybrwydd rhwng y pasg a'i sylwedd.

Yr oedd sacramentau yr Hen Destament yn gwahaniaethu oddiwrth sacramentau y Testament Newydd yn y pethau canlynol. Tra yr oedd y blaenaf yn cynnrychioli Crist *i ddyfod*, mae yr olaf yn ei gynnrychioli *wedi dyfod*. Nid oedd trugareddau ysbrydol yn cael eu harddangos mor eglur trwy y cyntaf ag y gwneir trwy yr olaf.

Sylw 312.—*Heblaw bedydd a swper yr Arglwydd, nid oes ordinhadau eraill o appwyntiad Crist, y gellir eu galw yn sacramentau.*

Gwelir hyn oddiwrth y pethau canlynol:—

1. Nid oes ond bedydd a swper yr Arglwydd yn gynnwysedig o ddwy ran,—yr arwydd gweledig oddiallan, a'r gras ysbrydol oddifewn.

2. Nid oedd dim mwy na dau sacrament dan oruchwyliaeth yr Hen Destament; ac y mae yn hawdd i ni gredu nad yw yr Eglwys yn cael ei beichio â mwy o seremonïau dan y Testament Newydd nag ydoedd dan yr Hen. Fel y mae yr efengyl yn bra dysyml, felly y mae yr Eglwys Gristionogol yn ei holl cyflawniadau. Yr oedd enwaediad dan yr Hen Destament yn perthynu i blant,—yn sêl dderbyniol y cyfammod, ac nid oedd i gael ei hadnewyddu; yr un modd y mae bedydd dan y Testa-

ment Newydd, yn perthyn i blant,—yn sêl dderbyniol y cyfammod,—ac nid yw i gael ei hail weinyddu. Yr oedd plant yr Iuddewon i gael eu henwaedu yn gyntaf, yna i gael bwytta o'r pasg; yr un modd y mae plant Cristionogion i gael eu bedyddio yn gyntaf, ac yna i gael eistedd wrth fwrdd yr Arglwydd. Yr oedd y pasg i gael ei fynychu, ac felly y mae Swper yr Arglwydd. Yr oedd yr enwaediad yn dynodi dodi ymaith bechodau y cnawd; y mae bedydd yn arddangos eu golchiad ymaith yn ngwaed Crist. Yr oedd y pasg yn cysgodi y prynedigaeth trwy Grist, a'r dyoddefiadau yr oedd efe i fyned danynt; y mae Swper yr Arglwydd yn arddangos ei ddyoddefiadau gweithredol, a'r iawn a wnaeth efe drwy hyny. Fel hyn y mae nifer a natur yr ordinhadau yr un yn awr ag oeddynt gynt.

3. Y mae Bedydd a Swper yr Arglwydd yn llawn ddigon i selio y cyfammod newydd i gredinwyr. Os oedd dau sacrament yn ddigon i gyflawni yr holl fwriadau grasol dan yr oruchwyliaeth dywyll, mae yn ddïau nad oes eisiau chwaneg yn awr, pan ydym yn mwynhau y gwir oleuni. Mae dau dyst yn cael eu cyfrif yn ddigonol i wirio neu gadarnhau gweithred. Ac felly, trwy y ddau sacrament y cadarnheir i'r credadyn bob gras a gogoniant. Bedydd yw y sêl o ddygiad un i fewn i'r cyfammod; a Swper yr Arglwydd yw y sêl o'i gadwraeth o'i fewn. Mae y naill yn arwydd o'r bywyd a roddwyd iddo oddi frŷ; a'r llall yn arwydd o'r maeth a dderbynir o gyflawnder y cyfammod.

#### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Bod ffordd iachawdwriaeth yr un bob amser; ond ei bod yn eglurach yn awr nag ydoedd gynt. 2. Bod ein rhagorfreintiau ni yn fwy nag ydoedd yr eiddo yr Iuddewon, a'r rhai y rhoddir llawer iddynt, llawer a ofynir ganddynt. 3. Bod ein rhwymedigaethau i gariad y Gwaredwr yn fawr iawn. 4. Bod dyddanwch a happusrwydd y credadyn yn sicr.

## *Am natur a defnydd Bedydd.*

### HOL. 94. BETH YW BEDYDD?

Sacrament, yn yr hwn y mae y golchiad â dwfr, yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan, yn arwyddoccau ac yn selio ein himpiad yn Nghrist, a'n cyfrannogiad o ddoniau y cyfammod gras, ac o'n rhwymedigaeth i fod yn eiddo yr Arglwydd.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Bod dwfr yn arwydd i'w ddefnyddio mewn bedydd. Act. 10. 47. "A all neb luddias dwfr, fel na fedyddier y rhai hyn?"

2. Bod bedydd i gael ei weinyddu yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan, Math. 28. 19. "Ewch gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan."

3. Bod bedydd yn arwyddocau impiad credinwyr i Grist, 1 Cor. 12. 13. "Trwy un Ysbryd y bedyddiwyd ni oll yn un corph? Gwel hefyd Rhuf. 6. 3.

4. Bod bedydd yn selio impiad credinwyr i Grist, Gal. 3. 27. "Cynnifer o honoch ag a fedyddiwyd i Grist, a wisgasoch Grist."

5. Bod bedydd yn arwyddocau ein bod yn meddu hawl i ddoniau y cyfammod gras, Act. 2. 38. "Edifarhewch, a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist, er maddeuant pechodau, a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glan."

6. Bod bedydd yn selio ein hawl i fendithion y cyfammod gras, Rhuf. 4. 11. "Ac efe a gymmerth arwydd yr enwaediad yn insel cyfiawnder y ffydd, yr hon oedd ganddo."

7. Bod Bedydd yn arwyddocau ac yn selio ein hymrwymiad i fod yn eiddo yr Arglwydd, Rhuf. 6. 4. "Claddwyd ni gan hyny gyd ag ef trwy fedydd i farwolaeth; fel megis ag y cyfodwyd Crist o feirw trwy ogoniant y Tad, felly y rhodiom ninnau hefyd mewn newydd-deb buchedd."

EGLURHAD.

Sylw 313.—*Golchiad, neu daenelliad â dwfr yw Bedydd.*

Crybwyllir amryfal rywiau o fedydd yn yr Ysgrythyr.— 1. *Golchiadau offeiriadol*, Heb. 9. 10; "amryw fedyddiadau" yw y gair yna yn yr iaith wreiddiol. Gwel hefyd adn. 13, lle y darllenwn am daenellu. 2. *Bedydd gwaed*, Math. 20. 22, 23; a Luc 12. 50, a'r hwn y bedyddiwyd Crist, a'r rhan fwyaf o'i apostolion, a'r holl ferthyron. 3. *Bedydd yr Ysbryd Glan*, neu gyfraniad o'i ddoniau ef, Math. 3. 11. Act. 1. 5. 4. Yn Act. 18. 25, fe allai ei fod yn arwyddocau *athrawiaeth bedydd.* Ond, 5. Y mae yn benaf yn arwyddocau y *sacrament o Fedydd*, neu fedydd dwfr, yn ol gosodiad Crist, Act. 19. 4, 5.

Yr oedd awdurdod Ddwyfol dros fedydd, cyn ei appwyntio yn ffurfiol gan Grist; canys nyni a ddarllenwn am fedydd Ioan, yr hwn yn ddiau a dderbyniasai orchymyn i fedyddio â dwfr. Gwel Ioan 1. 33, lle y darllenwn am Ioan yn son am yr hwn a'i "hanfonasai ef" i fedyddio â dwfr.

Nid oedd dim gwahaniaeth hanfodol rhwng bedydd Ioan a'r eiddo Crist; canys yr oedd yr un bendithion yn cael eu dal allan gan y naill a'r llall. Ond, gellir canfod gwahaniaeth rhyngddynt o barth *amser* a *gwrthddrychau*. 1. O barth *amser*. Yr oedd bedydd Ioan yn cael ei weinyddu cyn i waith Crist gael ei orphen; ond y bedydd a gyflwynai Crist i'w apostolion, oedd yn benaf wedi i'w waith gael ei orphen, ac wedi iddo yntau ei hun fyned i'w ogoniant. Neu, yr oedd bedydd Ioan yn arwydd o ffydd yn Nghrist, fel un oedd ar ddyfod, tra y mae bedydd Crist yn dynodi ffydd ynddo fel un wedi dyfod eisioes. 2. O ran eu *gwrthddrychau*. Yr oedd bedydd Ioan yn gyfyngedig i Judea, neu i'r genedl Iuddewig, tra y mae bedydd Crist yn cael ei estyn i bawb y pregethir yr efengyl iddynt, Marc 16. 15, 16.

Yr *arwydd* i'w ddefnyddio yn y bedydd yw *dwfr*; yn yr hyn yr arddangosir *effeithioldeb glanhäol* neu *rinwedd gwaed* ac *Ysbryd Crist*, Dat. 1. 5. Tit. 3. 5. Trwy y cyntaf y mae yr enaid yn cael ei lanhau yn *haeddiannol*; a thrwy yr olaf, y'i glanheir yn *effeithiol*, 1 Ioan 1. 7. Ezec. 36. 27. Trwy y cyntaf y symmudir euogrwydd pechod mewn cyfiawnhad; a thrwy yr olaf y symmudir halogrwydd pechod yn raddol yn y sancteiddäad.

Gellir gweled y *cyffelybrwydd* rhwng yr arwydd a'r peth a arwyddoceir yn y bedydd, neu rhwng y dwfr, a gwaed ag Ysbryd Crist, yn y sylwadau canlynol:—1. Y mae dwfr yn meddu *rhinwedd glanhäol* i symmud aflendid a halogrwydd o'r corph, ac o bethau eraill. Yr un modd, y mae y ffynnon o waed Crist, yr hon a agorwyd i bechod ac aflendid, yn symmud halogrwydd yr enaid, ac yn glanhau y gydwybod oddiwrth weithredoedd meirwon i wasanaethu y Duw byw. 2. Y mae dwfr yn meddu rhinwedd *adfywiol* i'r teithydd lluddedig, ac ar dir sychedig. A pha beth mwy adfywiol i'r teithydd lluddedig tua Seion, nag yfed o ffynnon y dyfroedd byw? Pa beth a duedda yn fwy i beri i'r enaid diffrwyth flaendarddu yn helaeth, na chael ei adfywio a phur ddwfr y bywyd? Ps. 42. Ioan 6. 35. 3. Mae i ddwfr rinwedd *diffoddawl*; ac mor effeithiol yw gwaed ac Ysbryd Crist, i ddiffoddi fflamau digofaint yr Anfeidrol,a thân y chwantau sydd yn rhyfela yn erbyn yr enaid! 4. Mae dwfr yn rhinweddol i *feddalhau*; yn tymheru tir caled, ac yn ei wneyd yn ffrwythlawn. Felly y mae gwaed Crist yn meddalhau y galon galettaf, pan y'i cymhwysir atti gan yr Ysbryd Glan; gan beri i ddagrau o edifeirwch duwiol ddylifo, a ffrwyth edifeirwch i darddu allan, a dwyn yr holl ddyn i gydffurfiad parod â'r ewyllys Dwyfol. 5. Y mae

dwfr yn anhebgorol *angenrheidiol.* Felly yr un modd y mae gwaed ag Ysbryd Crist yn anhebgorol angenrheidiol; canys hebddynt rhaid i bechaduriaid fod yn dragywyddol golledig, Ioan 6. 53. Rhuf. 8. 9. 6. Mae dwfr yn *gyffredin* ac yn *rhad* i bawb. Felly y mae gwaed ac Ysbryd Crist yn cael eu cynnyg yn rhad i bawb, heb wahaniaeth, Esa. 55. 1, &c. 7. Er fod dwfr yn angenrheidiol, nid yw o un gwasanaeth heb ei gymhwyso i'r amrywiol ddybenion y'i hamcanwyd. Felly nid yw gwaed Crist o un defnydd i neb heb ei gymhwyso at yr enaid gan yr Ysbryd Glan trwy ffydd.

Gyda golwg ar y rhai y mae yr ordinhad o fedydd i gael ei gweinyddu ganddynt, nyni a allwn sylwi, gan fod y gorchymyn i fedyddio yn gyssylltiedig â phregethu, y mae yn amlwg nad oes neb ond y sawl a alwyd yn gyfreithlawn i bregethu, yn meddu hawl i fedyddio, Math. 28. 19, 20.

Y mae amryw opiniynau yn nghylch y *dull* i weinyddu bedydd,—pa un a ddylid gwneyd hyny trwy suddo neu drochi, ynteu trwy dywallt neu daenellu. Ond heb geisio ail drafod yr amryfal ddadleuon o bob tu, nyni a wnawn y sylwadau canlynol yn unig:—Pan ystyriom y modd y mae y peth a arwyddoceir trwy fedydd, yn cael ei ddynodi (Tit. 3. 5, 6. Heb. 10. 22), a bod tywalltiad yr Ysbryd Glan yn cael ei alw yn bendant, bedydd, (Act. 10. 44, 45, cymh. â pen. 11. 15, 16;) pan ystyriom yr amryfal olchiadau am y rhai y soniai yr apostol yn Heb. 9. 10; neu fel y mae yn wreiddiol, "amryw fedyddiadau;" gan gyfeirio efallai at yr amryfal wlybon a ddefnyddid, sef dwfr, ac olew, a gwaed, i'r hwn nid yw yn dra thebyg y byddai y bobl, a'r gwahanol bethau yn cael eu suddo; a bod Crist yn son am fedydd gwaed, â'r hwn yr oedd efe i gael ei fedyddio; pan ystyriom hefyd yr engrheifftiau o weinyddiad yr ordinhad hon gan yr apostolion, (Act. 2., lle y darllenwn am dair mil yn cael eu bedyddio yr un diwrnod;) bedydd ceidwad y carchar a'i deulu, a'r Apostol Paul (Act. 16. a 9. 18;) y naill yn y carchar, a'r llall mewn tŷ annedd, lle nid yw yn debyg fod ganddynt lawer o ddwfr, ac y mae mor annhebyg y buasai y gweinyddwyr yn eu dwyn allan at y dwfr agosaf, y naill ganol nos, yr hyn a fuasai yn beryglus, a'r llall yn y sefyllfa lesg yr oedd ynddi wedi bod dri diwrnod yn ymprydio (Act. 10. 47, 48;) ac yn mhellach, pan ystyriom fod iau Crist yn esmwyth, a'i faich ef yn ysgafn; a bod ei grefydd ef wedi ei chyfaddasu i bob rhan o'r byd; yr oeraf cystal a'r gwresocaf; ac at bob rhyw gyfansoddiad, y gwanaf cystal a'r cryfaf; pan ystyriom yr holl bethau hyn, rhaid i ni gasglu y gellir gweinyddu bedydd trwy daenellu cystal a thrwy

drochi; ie, a bod taenellu yn fwy unol a rhediad cyffredin yr Ysgrythyrau.

Sylw 314.—*Y mae bedydd i gael ei weinyddu yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan.*

Mae *bedyddio yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan*, yn arwyddo ein bod i gael ein bedyddio yn rhinwedd ewyllys ac awdurdod, a gorchymyn y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan: a bod gweinidogion yn derbyn awdurdod oddiwrth y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, i fedyddio. Ac y mae hyny yn arwyddo, fod y Drindod fendigedig nid yn unig wedi appwyntio ac awdurdodi bedydd i fod yn sacrament dan y Testament Newydd, ac i gael ei weinyddu gan weinidogion a alwyd yn gyfreithlawn i hyny; ond, hefyd, eu bod yn cyd ymrwymo i gyflawni holl fendithion y cyfammod o'r hwn y mae bedydd yn sêl, fel y maent yn cael eu darlunio, eu selio, a'u cymhwyso i gredinwyr yn yr ordinhad hon. Mae yn arwyddo hefyd, ein bod yn cael ein cyflwyno a'n cysegru yn ddifrifol trwy fedydd, i'r Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, fel ein Duw a'n rhan yn dragywydd; ein bod yn myned i gyfammod difrifol a'r Duw hwn; ein bod yn dewis Duw Dad yn Dad, Duw Fab yn Brynwr, a Duw Ysbryd Glan yn Sancteiddydd, Arweinydd, a Dyddanydd i ni; a'n bod ni yn dyfod dan ymrwymiadau i ffydd a phroffes, ac ufudd-dod y Drindod fendigedig, ac yn ddifrifol yn ymwadu a'r diafol, y byd, a'r cnawd, gelynion mawrion Duw a dyn, 1 Pedr 3. 21.

Mae yn ofynol wrth weinyddu bedydd, ddefnyddio *geiriau* yr ordinhad,—"Yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan." Canys fe orchymynir i weinidogion fedyddio fel hyn; a defnyddio gwir eiriau yr ordinhad, sydd yn cyfansoddi sacrament yn ol appwyntiad Crist.

Sylw 315.—*Mae bedydd wedi ei amcanu i arwyddocau a selio impiad credinwyr i Grist, eu bod yn meddu hawl o ddoniau y cyfammod gras, a'u bod yn ymrwymo i fod yn eiddo yr Arglwydd.*

1. Y mae bedydd wedi ei amcanu *i arwyddocau a selio ein himpiad i Grist.* Impio yn gyffredin, sydd yn dynodi y meddylrith o undeb agos rhwng dau beth, y rhai pe na's dygid hwy yn nghyd gan ryw allu, a fuasent byth ar wahan, Rhuf. 11. Impio i Grist, sydd yn arwyddo dwyn i undeb ag ef; a phe na buasai ei allu ef ar waith yn ein torri oddiar yr hen gyff, yr Adda cyntaf, o'r hwn yr ydym yn ganghenau wrth natur, ni allasid byth ein dwyn i'r undeb ysbrydol yma, Ioan

15. 5. Ac mewn canlyniad i'r undeb yma, yr hyn a arwyddoceir ac a selir trwy fedydd, y mae cyfrifiad o gyfiawnder Crist yn cael ei selio i ni hefyd, Gal. 3. 27.

2. Y mae bedydd wedi ei amcanu *i arwyddocau a selio doniau y cyfammod gras.* A'r rhai hyn ydynt:—(1.) Faddeuant pechodau trwy waed Crist; yr hyn a arwyddoceir yn eglur trwy fedydd. Fel y mae dwfr yn golchi ymaith aflendid allanol, felly y mae gwaed Crist yn glanhau oddiwrth bob pechod. (2.) Adenedigaeth trwy Ysbryd Crist, yr hyn hefyd a arddangosir yn y bedydd, Tit. 3. 5. (3.) Mabwysiad i deulu Duw; yr hyn a arwydda ein pellder blaenorol oddiwrth Dduw, fel estroniaid iddo ef, ac i ragorfreintiau ei deulu. (4.) Adgyfodiad i fywyd tragywyddol, 1 Cor. 15. 29, lle y rhoir ar ddeall i ni fod bedydd yn cyfeirio at yr adgyfodiad fel rhagorfraint plant Duw, cynnwysedig yn noniau y cyfammod newydd.

3. Y mae bedydd wedi ei amcanu i *arwyddocau a selio ein hymrwymiad i fod yn eiddo yr Arglwydd.* A gellir yn briodol olygu hyn fel y canlyniad o fod doniau y prynedigaeth wedi eu selio i ni; canys, os yw Duw yn ymrwymo o'i du ef i fod yn eiddo i ni, i'n derbyn fel aelodau o'r eglwys weledig, ac i roddi ei rhagorfreintiau i ni, a'n derbyn i'w deulu, &c., mae yn hawdd i ni gredu ein bod ninnau yr un modd *i ymrwymo i fod yn eiddo ef;* wrth yr hyn y golygir ein bod yn eiddo iddo, ac erddo, yn awr, yn gyfan, ac am byth, mewn enaid, a chorph, ac ysbryd, ac yn yr oll ydym, ac a feddwn, pa un bynnag a'i doniau, grasusau, neu gysuron bydol, 1 Cor. 6. 19, 20. 1 Cron. 29. 14. Mae yr ymrwymiad yma o'n tu ni hefyd yn arwyddo ein bod yn penderfynu yn ddiffuant ymwrthod a phob arglwyddi a meistri eraill, megis y diafol, y byd, y cnawd, a phechod o bob math. Ac nid yw yr ymrwymiad yma i fod mewn gair yn unig; ond mewn gweithred ac mewn gwirionedd;—y byddwn yn eiddo yr Arglwydd mewn ymarferiad, cystal ag mewn proffes, y byddwn yr hyn y mynai efe ein bod, ac y bydd i ni ymdrechu cydffurfio ag ef yn mhob peth, Rhuf. 6. 4. Os y'n bedyddir yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan, dylem olygu hon fel ordinhad y cyflwyniad; a chan fod Duw yn ei wneyd ei hun drosodd i ni fel ein oll yn oll, trwy farwolaeth ei Fab fel iawn, y mae yn gweddu yn ddiau i ninnau ein rhoddi ein hunain iddo ef mewn cyfammod tragywyddol, nad anghofir byth. Mewn gair, yr ydym trwy y bedydd yn datgan fod trefn yr iachawdwriaeth trwy gyfiawnder Crist wrth ein bodd, a'n bod yn cymeradwyo y cyfammod newydd, fel y'i harddangosir yn yr Ysgrythyrau, yn ddoethineb Duw er iachawdwriaeth. Gallwn sylwi ar y pethau canlynol yn ychwanegol:—

4. Trwy sugno nerth o angau ac adgyfodiad Iesu Grist, i'r hwn y'n bedyddir, er marweiddiad pechod a bywhad gras.

5. Trwy ymdrechu i rodio wrth ffydd, i fod a'n hymarweddiad yn sanctaidd a chyfiawn, fel rhai sydd yn yr ordinhad hon wedi ymroddi i Grist; a rhodio mewn cariad brawdol, fel rhai wedi eu bedyddio i un corph trwy yr un Ysbryd.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Fod bedydd yn ordinhad dra phwysig er ei bod yn dra dysyml. 2. Bod yr hyn a arwyddoceir trwy y dwfr yn hollol angenrheidiol. 3. Yr angenrheidrwydd o ymgadw at orchymyn Crist yn ngweinyddiad yr ordinhad hon. 4. Y pwysigrwydd o fod yn dra chyfarwydd â natur bedydd. 5. Y perygl o esgeuluso a diystyru yr ordinhad hon.

## *Am ddeiliaid Bedydd.*

HOL. 95. I BWY Y MAE BEDYDD I'W WEINYDDU?

Nid i neb allan o'r eglwys weledig hyd oni phroffesont eu ffydd yn Nghrist a'u hufudd-dod iddo ef; ond fe ddylid bedyddio plant y rhai sydd yn aelodau o'r eglwys weledig.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Nad yw bedydd i'w weinyddu i neb nad ydynt yn aelodau o eglwys weledig Crist, hyd oni phroffesont eu ffydd ynddo ef, Act. 8. 36, 37. "Beth sydd yn lluddias fy medyddio? A Philip a ddywedodd, Os wyt ti yn credu a'th holl galon, fe a ellir."

2. Bod proffes o ufudd-dod rhagllaw i Grist yn ofynol, cyn y gellir bedyddio neb nad ydynt yn aelodau o'i eglwys ef, 1 Pedr 3. 21. "Cyffelybiaeth cyfattebol i'r hwn sydd yr awrhon yn ein hachub ninnau, sef bedydd (nid bwrw ymaith fudreddi y cnawd, eithr ymatteb cydwybod dda tuag at Dduw) trwy adgyfodiad Iesu Grist."

3. Bod plant rhieni crediniol yn briodol ddeiliaid bedydd, gan fod Duw yn cyfranu i lawer o honynt hwy y bendithion a arwyddoceir yn yr ordinhad, Luc 18. 16. "Gadewch i blant bychain ddyfod attaf fi, ac na waherddwch iddynt; canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw."

4. Bod i blant rhieni crediniol hawl o arwydd y cyfammod,

gan fod Duw wedi rhoddi ei addewid iddynt, Act. 2. 39. "I chwi y mae yr addewid ac i'ch plant."

5. Bod plant i gael eu hystyried yn sanctaidd seremonïol, ac yn meddu hawl o arwydd y cyfammod, trwy broffes ac aelodaeth un o'u rhïeni yn unig, 1 Cor. 7. 14. "Canys y gwr digred a sancteiddir trwy y wraig: pe amgen, aflan yn ddïau a fyddai eich plant; eithr yn awr sanctaidd ydynt."

6. Bod y mabanod o deulu yn meddu hawl i arwydd y cyfammod ar broffes a bedydd eu rhïeni, Act. 16. 33. "Ac efe a fedyddiwyd, a'r eiddo oll yn y man."

EGLURHAD.

Sylw 319.—*Nid yw bedydd i gael ei weinyddu i neb sydd allan o'r eglwys weledig, hyd oni phroffesont ffydd yn Nghrist, ac ufudd-dod iddo ef.*

Wrth yr *eglwys weledig* yr ydym yn deall cymdeithas gyfansoddedig o'r holl rai ydynt yn proffesu y wir grefydd, yn nghyd a'u plant, yn mhob oes a rhan o'r byd. Sonir am yr eglwys *weledig* mewn cyferbyniad i'r eglwys *anweledig*, yr hon a gyfansoddir o'r holl etholedigion, a gasglwyd, neu a gesglir yn un dan Grist, y pen, Eph. 1. 10, &c. Ioan 10. 16; a 11. 52.

Y mae amryw fath o bobl, y rhai y mae yn amlwg am danynt eu bod oddiallan i'r eglwys weledig, a'r rhai o ganlyniad ni's meddant hawl o seliau y cyfammod; megis yr Iuddewon, y Mahometaniaid, y paganiaid, anffyddwyr, a dynion dryg-foes, &c. Fel y cyfryw, nid ydynt hwy na'u plant i gael eu bedyddio, canys y maent hwy oddiallan i'r cyfammod; maent yn weledig yn mhell oddiwrth gyfiawnder, ac heb gymmaint ag enw o fod yn fyw. A byddai bedyddio y cyfryw, tra yn parhau yn y cyflwr hwnw, yn halogedigaeth ar yr ordinhad, Eph. 2. 12.

Eto nid yw bedydd i gael ei attal oddiwrth y rhai hyn am byth; canys fe ddywedir yma yn unig nad yw i gael ei weinyddu iddynt *hyd oni phroffesont ffydd yn Nghrist, ac ufudd-dod iddo ef.* "Proffesu ffydd yn Nghrist," yw proffesu crediniaeth o'r holl gyfundraeth o wirionedd datguddiedig; a "phroffesu ufudd-dod i Grist," yw rhoddi ymostyngiad allanol i'w holl ordinhadau a'i osodiadau, ac addaw ufudd-dod rhagllaw i'w gyfreithiau, Act. 8. 37; a 2. 46. Ond, rhaid i ni gofio fod y cyfryw broffes yn ofynol yn unig gan rai wedi dyfod i oedran prïodol i farnu pethau. Od oes neb yn aros oddiallan i'r cyfammod, y maent yn eu cau eu hunain am byth oddiwrth sêl y cyfammod.

Ond, gan fod yr eglwys i'w golygu yn *weledig* ac *anweledig*,

Y

gellir ystyried proffes yn ei pherthynas â Duw, ac yn ei pherthynas â dyn. Gyda golwg ar *ddyn*, proffes weledig a chyhoedd o ffydd yn Nghrist, ac ufudd-dod iddo, yw yr oll sydd angenrheidiol er rhoddi hawl ger bron yr eglwys weledig, i'w holl ragorfreintiau. Ond, gyda golwg ar *Dduw*, nid oes neb ond y rhai ydynt mewn gwirionedd o fewn rhwymyn y cyfammod, yn meddu hawl i fedydd, neu i neb un o freintiau yr eglwys.

Sylw 320.—*Y mae gan blant credinwyr hawl i fedydd.*

Gellir profi fod gan fabanod rhïeni crediniol hawl i fedydd, oddiwrth y cyfammod a wnaeth Duw ag Abraham, os caniatteir mai cyfammod gras ydoedd, yr un o ran sylwedd, ac yn cynnwys yr un bendithion, a'r un y mae credinwyr dano yn awr. Ac, mai y *cyfammod gras* oedd y cyfammod hwn, sydd eglur os cydmarwn ni, Gen. 17. 7, lle y dynodir y cyfammod a wnaed âg Abraham, â Heb. 8. 10, lle y mae y cyfammod newydd yn cael ei ddarlunio. Yr addewid yn y naill yw "Myfi a fyddaf yn Dduw i ti, ac i'th had ar dy ol di;" a'r addewid yn y llall yw, "Myfi a fyddaf iddynt hwy yn Dduw, a hwythau" (sef tŷ Israel, yr hyn yn ddïau a gynnwys fabanod) "a fyddant i minnau yn bobl." Ond, ni ellir dweyd fod Duw yn Dduw i neb ac i'w had, yn ystyr naturiol yr ymadrodd, ond yn Nghrist Iesu, neu trwy y cyfammod gras. Gan hyny, fel y mae y cyfammod gras yn addaw pob peth, pan y mae Duw yn addaw bod yn Dduw i ni; felly rhaid mai y cyfammod gras oedd cyfammod Abraham, gan ei fod yn addaw yr un peth yn yr un modd. Ond, yr oedd y cyfammod a wnaed ag Abraham yn cynnwys ei had ef, ac yn rhoddi iddynt hawl o'i sêl, sef yr enwaediad; felly yr un modd, o angenrheidrwydd, y rhaid fod plantyn awr o fewn cylch bendithion y cyfammod, ac yn meddu hawl o fedydd, sêl y cyfammod. Gwel hefyd Luc 1. 54, &c., lle y gwelwn fod saint yr Hen Destament dan yr un cyfammod o ras ag y mae credinwyr dano yn awr.

Gellir profi hefyd y dylid bedyddio plant rhïeni crediniol oddiwrth amryfal rannau eraill o'r Ysgrythyr:—

1. Gellir profi hyn oddiwrth Luc 18. 16. "Gadewch i'r plant bychain ddyfod attaffi, ac na waherddwch hwynt: canys eiddo y cyfryw rai yw teyrnas Dduw;" neu deyrnas nefoedd, Math. 19. 16. Y mae yn eglur oddiwrth y geiriau hyn o eiddo ein Hiachawdwr, fod plant bychain yn gymhwys i feddu aelodaeth eglwysig, neu i fod yn nheyrnas nefoedd; ac os felly, mae yn ddïau eu bod yn gymhwys i gael eu bedyddio, neu i fod dan sêl eu derbyniad i'r cyfammod.

2. Gellir profi hyn oddiwrth Marc 10. 14—16, lle y darllenwn ddarfod i'r Iesu gymeryd plant bychain yn ei freichiau, a rhoddi ei ddwylaw arnynt, a'u bendithio. Wrth wneuthur hyn, efe a roddai ar ddeall i'w ddysgyblion yn amlwg, fod plant bychain yn gymhwys i dderbyn bendithion ysbrydol, ac o ganlyniad, yr arwydd gweledig o'u bod yn aelodau o deyrnas Dduw. A phrofir hyn yn mhellach trwy yr ystyriaeth eu bod ar y pryd y'u bendithid gan Grist, yn aelodau; canys, eb efe, "Eiddo y cyfryw rai *yw* teyrnas nefoedd."

2. Gellir profi hyn oddiwrth Math. 28. 19. "Ewch gan hyny, a dysgwch yr holl genhedloedd, gan eu bedyddio yn enw y Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glan." Oddiwrth hyn mewn cyssylltiad a'r rhanau blaenorol, y mae yn amlwg fod plant bychain i gael eu bedyddio; gan eu bod yn rhan o'r cenhedloedd, y gorchymynai Crist i'w apostolion eu dysgu a'u bedyddio. Os oes plant bychain yn nheyrnas Dduw fry (a phwy a all ddweyd nad oes) nid hawdd yw profi na ddylid gweinyddu bedydd iddynt yn y byd hwn fel y cyfryw.

4. Gellir profi hyn oddiwrth 1 Cor. 7. 14.—"Y gwr digred a sancteiddir trwy y wraig; a'r wraig ddigred a sancteiddir trwy y gwr; pe amgen aflan a fyddai eich plant; ond yn awr sanctaidd ydynt." Y mae yr ymadrodd hwn yn dangos yn dra eglur, er holl wrthddadleuon annghyson gwrthwynebwyr hawl plant i fedydd, yn rhinwedd eu perthynas a'u rhïeni crediniol. Rhaid fod y *sancteiddrwydd* a sonir am dano yma, yn rhywbeth sydd y deillio o sancteiddrwydd un o'r rhïeni, neu y ddau; heb yr hwn y byddai eu plant yn aflan; ac yn ddïau, ni's gall hyn olygu dim mwy na'r peth a elwir *sancteiddrwydd cyfammodol*, yr hyn sydd yn rhoddi hawl i'r plant o ragorfreintiau y cyfammod. Ac os yw plant yn sanctaidd fel hyn, pwy a all ommedd sêl cyfammod iddynt."

5. Gellir profi hyn oddiwrth Act. 2. 38, 39, "A Phedr a ddywedodd wrthynt, Edifarhewch a bedyddier pob un o honoch yn enw Iesu Grist er maddeuant pechodau; a chwi a dderbyniwch ddawn yr Ysbryd Glan. Canys i chwi y mae yr addewid, ac i'ch plant." Pa beth bynnag yw yr addewid y cyfeiriai yr Apostol atti yma, nid oes dim yn fwy eglur na'i fod yn ei ddefnyddio yn *rheswm* paham y dylasent hwy a'u plant gael eu bedyddio, neu ymostwng i'r arwydd allanol yma o oruchwyliaeth Crist. Gan hyny, os oedd yr addewid yn un rheswm pa ham y dylasai y rhïeni gael eu bedyddio, yr oedd yn rheswm llawn cystal pa ham y dylasai y plant gael eu bedyddio hefyd; gan fod yr addewid yn cael ei gwneyd i'r naill a'r llall. Mae hyn mor eglur ag y gall iaith ei wneuthur.

Mae yr addewid i chwi, rïeni, am hyny bedyddier chwi: ac y mae yr addewid i chwi, blant, am hyny bedyddier chwithau hefyd. Pe gwnelid i Paul lafaru iaith wahanol, fel y gwna y Bedyddwyr, gallai Iuddew ymresymu fel hyn gyd a'r priodoldeb mwyaf:—"Yr ydwyf yn gweled fod yr addewid—y cymhelliad a wesgir yma—wedi ei gwneyd i'm plant cystal ac i minnau; gan hyny, onid yw yn un rheswm pa ham y dylid eu bedyddio hwy, nid all fod yn un rheswm pa ham y dylid fy medyddio innau." Ond gyda golwg ar yr addewid a grybwyllir yma, mai nid (fel yr haera y Bedyddwyr) proffwydoliaeth Joel, yr hon a grybwyllir o'r blaen gan yr apostol (adn 17—21, ydyw, sydd amlwg; canys pe felly, y canlyniad a fuasai, fod bedydd yn perthyn yn unig i oes y gwyrthiau, yr hon ni pharhäodd ond dros ychydig iawn wedi esgyniad Crist; neu bod y rhai oll a fedyddiwyd wedi eu bedyddio mewn ffydd o addewid na's cyflawnwyd, yr hyn a fyddai yn anfri dirfawr ar ffyddlondeb y Duw a addawsai. Ond ar y llaw arall, mai y cyfammod a wnelsid ag Abraham, ydyw, sydd amlwg oddiwrth Gal. 3. 14, 29, lle y mae y cyfammod hwn yn cael ei alw yn bendant *yr addewid.* Ac y dywedir, "Os eiddo Crist ydych, had Abraham ydych, ac ettifeddion yn ol yr *addewid.*" Pa addewid?—nid proffwydoliaeth Joel yn ddïau, ond *yr addewid* a wnelsai Duw i Abraham; yr hyn a ddangosir yn ddiamheuol wrth ystyried Act. 3. 25, 26. A phriodol y gellir galw y cyfammod a wnaed ag Abraham, yr *addewid* a wnaed iddo ef; ac fel y mae credinwyr yn cael ei galw ei blant, ac ettifeddion yn ol *yr addewid,* nyni a allwn fod yn hyderus fod *yr addewid* yn yr ymadrodd dan ein sylw yr un a'r cyfammod gras. Gan hyny, os defnyddir hyn fel cymhelliad i fedydd, rhaid ei fod yn golygu plant cystal a'u rhïeni; canys yr oedd yr addewid yn golygu Abraham a'i had, ac fe enwaedwyd y naill a'r llall.

6. Gellir profi hyn hefyd oddiwrth Rhuf. 11. 16, 17. "Canys os sanctaidd y blaenffrwyth, y mae y clamp toes hefyd yn sanctaidd: ac os sanctaidd y gwreiddyn y mae y canghenau hefyd felly. Ac os rhai o'r canghenau a dorrwyd ymaith, a thydi yn olewydden wyllt, a impiwyd i mewn yn eu plith hwy, ac a'th wnaethpwyd yn gyfrannog o'r gwreiddyn, ac o frasder yr olewydden; na orfoledda yn erbyn y canghenau," &c. Oddiwrth yr ymadrodd yma dysgwn fod llawer o Iuddewon wedi credu yn Nghrist, a bod y credinwyr hyn yn parhau y canghenau naturiol yn y gwreiddyn, Abraham, ac yn cyfrannogi o frasder y wir olewydden. Gan hyny, rhaid fod y canghenau naturiol, neu yr Iuddewon crediniol, yn mwynhau

yr unrhyw ragorfreintiau ag a fwynhaent erioed; ac o ganlyniad, rhaid fod ganddynt rywbeth yn cyfatteb i'r enwaediad; ac ni's gallai hyny fod yn ddim heblaw bedydd. Gan hyny yr oedd y cangenau impiedig, sef y cenhedloedd crediniol, yn meddu hawl o'r un peth, pe amgen, ni allasid dywedyd,—"A thydi yn olewydden wyllt a impiwyd i mewn yn eu plith hwy, ac a wnaethpwyd yn gyfrannog o'r gwreiddyn, ac o frasder yr olewydden." Bod plant rhïeni Iuddewig yn y cyfammod a wnaed ag Abraham sydd tu hwnt i ddadl; ond, onid yw plant cenhedloedd crediniol yn mwynhau yr un rhagorfreintiau ag a fwynheid gan blant Iuddewig, ni's gellir dweyd eu bod wedi eu gwneyd "yn gyfrannogion o'r gwreiddyn, ac o frasder yr olewydden;" yr hyn a fuasai ar un waith yn dymchwelyd dadl yr apostol; ac mewn gair ni buasai yr hyn a gadarnheir ganddo ef yn wirionedd. Ond, heblaw hyny, pa beth sydd yn fwy amlwg na bod plant cenhedloedd crediniol yn sanctaidd gyfammodol cystal a phlant Iuddewig, gan eu bod yn cael eu himpio yn eu plith, heb unrhyw gyfyngiad ar eu mwynhad o'r un rhagorfreintiau?

Ond, yn olaf, y mae y tebygolrwydd mwyaf fod yr apostolion yn bedyddio babanod; canys yr ydym yn cael eu bod yn bedyddio teuluoedd cyfain ar unwaith. Felly y darllenwn am fedyddio tylwyth Lydia, a theulu ceidwad carchar Philippi, yn Act. 16; a thylwyth Stephanas, yn 1 Cor. 1. Nid oes un gair o grybwylliad yn y mannau hyn am *oedolion* mwy na *mabanod;* ac o ganlyniad, fe fydd mor anhawdd profi eu bod oll yn oedolion, a bod yno rai mabanod. Ond, fe fedyddiwyd y cwbl; ac onid allwn ni gasglu bod yn eu plith rai plant, cystal ag oedolion? Prin y gellir credu, nad oedd yn yr un o'r teuluoedd hyn gymmaint ag un baban. Ac yn awr, os oedd yno fabanod, a bod y rhai hyny yn ol golygiad ein gwrthwynebwyr ar hyn yn cael eu gadael o'r neilldu; gallasem ddysgwyl yn naturiol am grybwylliad o'r cyfryw ymddygiad, fel rhyw beth newydd yn yr eglwys weledig. Ond, nid oes y fath dystiolaeth ar gof,—yr hyn sydd brawf nad yw babanod yn cael eu cau o fedydd. Gallwn sylwi yma, fod llyfr yr Actau yn cynnwys hanes yr eglwys am fwy na deng mlynedd ar hugain, yn yr hwn yspaid y rhaid fod plant y rhai a fedyddiasid gyntaf wedi cyrhaedd oedran gwŷr. Oni's bedyddid hwy yn eu mabandod pa fodd na buasai yn mysg y bedyddiadau lluosog a grybwyllir yn y Testament Newydd, gyfeiriad at fedydd un o'r cyfryw rai mewn *oed?* Oddiwrth ddystawrwydd yr Ysgrythyr ar y pen hwn, a'r engreifftiau crybwylledig o fedyddio teuluoedd cyfain, yr ydym yn casglu, mai rhaid oedd eu bod wedi eu bedyddio yn eu mebyd, neu gyd a'u rhïeni.

Sylw 321.—*Nid yw bedydd i gael ei weinyddu fwy nag unwaith.*

Nid oes un gorchymyn i weinyddu yr ordinhad hon fwy nag *unwaith*; ac ni's goddef ei natur iddi gael ei gweinyddu yn amlach. Trwy fedydd y'n derbynir i'r eglwys, ac ni's gall y derbyniad hwn gymeryd lle ond unwaith; ac fel y mae yn arwyddocäad ac yn sêl o'n himpiad i Grist, nid ydym i gael ein bedyddio ond unwaith, oblegid os unwaith yn Nghrist, ni's gellir byth ein torri ymaith.

Sylw 322.—*Nid yw enwi plentyn yn y bedydd, yn un ran o'r ordinhad.*

Nad yw rhoddi enw yn y bedydd yn un ran o'r gosodiad hwn, sydd eglur oddiwrth gommissiwn Crist i'w apostolion, Math. 28. 19, 20. Mae yn wir fod llawer a ddadleuant fod enwi plentyn yn rhan o fedydd: ond ni bydd i neb a ddysgwyd oddi uchod honi y fath syniad ynfyd. Fe appwyntiwyd pob peth cyssylltiedig a'r ordinhad gan Grist; ond, ni chrybwyllodd erïoed y byddai i blentyn gael ei enwi y pryd hyny, fel pe na allesid ei enwi yn gynt. Y tad sydd yn enwi y plentyn, ac a ddylai wneyd; ond fe fyddai yn dra ffol i ni feddwl fod yr hyn a wneir gan y tad yn y golygiad hyny yn rhan hanfodol, nag un ran yn wir, o'r ordinhad. Gan hyny nid enwi plentyn yw bedydd, ond ei *gyflwyno* i Dduw, rhodd yr hwn ydyw, yn nghyd ag adduned o du y tad, y bydd iddo feithrin y plentyn hwn yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd; yr hyn os esgeulusa, efe a fydd yn anudonwr, ac fel hyn a'i gwna ei hun yn agored i'r gosbedigaeth a fygythir ar droseddwyr y trydydd Gorchymyn.

Sylw 323.—*Nid oes gan neb ond rhïeni y plentyn ei hunan hawl i'w gyflwyno i'w fedyddio.*

Mae hyn yn amlwg; canys yn hawl eu rhïeni digyfrwng yn unig y dylid bedyddio plant; ac ni all un tad cydwybodol, sydd yn deall natur bedydd ymofyn am dani ar unrhyw sail arall. Mae y rhai sydd yn gwneyd felly, neu y rhai sydd yn cael bedyddio eu plant yn hawl meichiafon, neu dadau bedydd yn rhwym o fod yn ddyeithr i'r pethau mawrion a amcenir trwy yr ordinhad hon. Mae y cyfryw yn ei cheisio i wasanaethu rhyw ddyben cnawdol yn unig, (i guddio annuwioldeb y rhïeni, efallai, y rhai ydynt yn gydwybodol na's meddant hwy hawl o fedydd i'w plant; neu, i ryw ddyben llawn cyn-ddrwg) a phan fedyddir eu plant, nid ydynt yn gofalu mwyach yn yr ordinhad, na nemmawr chwaneg yn nghylch eu plant

yn gyffredin, gyda golwg ar eu dwyn i fynu i Dduw. Nid oes dim sydd ffolach na dweyd y dylid bedyddio plant ar hawl un arall a fyddo yn aelod o'r eglwys weledig, pa un bynnag a fyddo efe yn gâr, neu gydnabod. Ni all neb roi hawl i'w frawd o ragorfreintiau yr eglwys; gan hyny, pa fodd y gall e roddi hawl i blant ei frawd, o fedydd? Neu, pa fodd y gall y naill berthynas roddi hawl i'r llall, oddieithr rhïeni i'w plant? Ni's gallant wneuthur hyn, mwy nag y gallasai Abraham, Isaac, neu Jacob, roddi hawl i blant Esau i ragorfreintiau yr Eglwys Iuddewig. Ond, er hyn, y mae llawer ydynt yn cymeryd arnynt fod yn feichiafon i blant mewn bedydd, y rhai ydynt yn addunedu i'r Arglwydd chwiliwr pob calon, y bydd iddynt ddwyn i fynu y plant, dros y rhai yr ymrwymant yn ofn yr Arglwydd, mor ddyeithr iddynt, ac mor ddïofal am danynt, a phe byddent y wyneb arall i'r ddaear.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Bod ffordd iachawdwriaeth wedi bod bob amser yr un; a bod gras Duw wedi bod yn weledig yn mhob cenhedlaeth. 2. Gyflawnder ein rhagorfreintiau ni a'r eiddo ein plant. 3. Y dylai gweinyddiad bedydd ar neb un yn ein presenoldeb, gyffroi ein dïolchgarwch am ein bod wedi ein geni mewn gwlad Gristionogol, ac o fewn yr eglwys weledig, fel ag i feddu hawl o'i rhagorfreintiau. 4. Bod rhwymau arnom i fendithio Duw am ein bod yn byw dan oruchwyliaeth y Testament Newydd. 5. Y dylai rhïeni ystyried pa fodd y talasant eu haddunedau i'r Arglwydd,—a ydynt hwy yn gydwybodol yn gweddïo dros, a chyd a'u plant, yn ymdrechu i'w dwyn i fynu yn ofn yr Arglwydd, ac i'w hysbysu o'r angenrheidrwydd o feddu rhan yn Nghrist, a gwir dduwioldeb, &c.

## *Am natur a defnydd Swper yr Arglwydd.*

### HOL. 96. BETH YW SWPER YR ARGLWYDD?

Sacrament, yn yr hwn drwy roddi a derbyn bara a gwin yn ol ordinhad Crist, y dangosir ei farwolaeth ef; ac y gwneir derbynwyr teilwng, nid mewn modd corphorol a chnawdol, ond trwy ffydd, yn gyfrannog o'i gorph, a'i waed ef, a'i holl ddoniau, er eu maeth ysbrydol a'u cynnydd mewn gras.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai bara a gwin yw yr arwyddion gweledig sydd i gael eu defnyddio yn Swper yr Arglwydd, Math. 26. 26, 27. "Yr Iesu a gymmerth y bara, ac wedi iddo fendithio, efe a'i torrodd, ac a'i rhoddodd i'r dysgyblion, ac a ddywedodd, Cymerwch, bwyttewch; hwn yw fy ngorph. Ac wedi iddo gymeryd y cwppan a dïolch, efe a'i rhoddes iddynt, gan ddywedyd, yfwch bawb o hwn."

2. Y dangosir marwolaeth Crist trwy roddi a derbyn bara a gwin yn sacrament y Swper yn ol gosodiad Crist, 1 Cor. 11. 26. "Canys cynnifer gwaith bynnag y bwyttaoch y bara hwn ac yr yfoch y cwppan hwn, y dangoswch farwolaeth yr Arglwydd oni ddelo."

3. Mai nid mewn modd corphorol a chnawdol y derbynir corph a gwaed Crist yn y sacrament, 1 Cor. 10. 16. "Phïol y fendith yr hon a fendigwn, onid cymmun gwaed Crist ydyw? y bara yr ydym yn ei dorri, onid cymmun corph Crist yw?"

4. Bod corph a gwaed Crist yn cael eu derbyn trwy ffydd yn y sacrament, Ioan 6. 35. "Myfi yw bara y bywyd. Yr hwn sydd yn dyfod attaf fi ni newyna, a'r hwn sydd yn credu ynof fi, ni sycheda un amser."

5. Bod credinwyr yn cael eu gwneyd yn gyfrannogion o Grist a'i holl ddoniau yn y sacrament, Ioan 6. 51. "Myfi yw y bara bywiol, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef. Os bwytty neb o'r bara hwn, efe a fydd byw yn dragywydd. A'r bara a roddaf fi yw fy nghnawd i, yr hwn a roddaf fi dros fywyd y byd."

6. Bod maeth ysbrydol yn cael ei weinyddu yn y sacrament, Ioan 6. 55. "Canys fy nghnawd i sydd fwyd yn wir; a'm gwaed i sydd ddïod yn wir."

7. Bod y Cristion yn cael modd i gynnyddu mewn gras trwy iawn gyfrannogi o Swper yr Arglwydd, Ioan 4. 14. "Y dwfr a roddwyf iddo, a fydd ynddo yn ffynnon o ddwfr yn tarddu i fywyd tragywyddol."

EGLURHAD.

Sylw 324.—*Y mae y Sacrament hwn yn myned dan amrywiol enwau.*

1. Fe'i gelwir *Sacrament;* ystyr yr hwn air a eglurwyd o'r blaen; ac er nad yw y gair yn yr Ysgrythyrau, y mae y peth a arwyddocâa i'w gael yno.

2. Fe'i gelwir *Swper yr Arglwydd;* yr hyn sydd ymadrodd

Ysgrythyrol, ac am hyny ni's gellir dweyd yn ei erbyn, 1 Cor. 11. 20. Fe'i gelwir *Swper*, oblegid ei fod wedi ei appwyntio yn y fàn ar ol bwytta y pasg diweddaf, yr hwn a fwytteid yn y nos, Exod. 12. Math. 26. Ac fe'i gelwir *Swper yr Arglwydd*, am mai yr Arglwydd Iesu, pen a brenin Seion, oedd ei awdwr. Ac yr oedd yn wir angenrheidiol bod yr awdurdod am yr ordinhad hon oddiwrtho ef; oblegid bod yr holl ras a ddangosir ynddi, wedi ei drysori ynddo ef, ac yn cael ei gymhwyso ganddo ef at yr enaid. Yr oedd ei sefydliad yn weithred o arglwyddiaeth, a thrwy ei chadw mewn ufudd-dod iddo ef, ac mewn cof am dano fel ei sylwedd, yr ydym yn cydnabod ei arglwyddiaeth.

3. Fe'i gelwir *Y Cymmun*,—1 Cor. 10. 16; a hyny hefyd gyd a'r prïodoldeb mwyaf. Yn yr ordinhad hon yr ydym yn cynnal cymmundeb â Christ, ac a'r naill y llall. Ac felly, y mae yn amlwg fod yn rhaid i ni gael ein huno â Christ, neu ein dwyn i fewn rhwymyn y cyfammod, cyn y gall fod gwir gymmundeb rhyngom ag ef yn nhoriad y bara.

4. Fe'i gelwir yn *ŵyl*, neu *wledd*, 1 Cor. 5. 8; a hyny yn dra phrïodol; gan fod arwyddocäad yr ordinhad hon yn tueddu i arwain i'r cyfryw olygiad. Mae hwn yn enw na roddir iddi yn ein mysg ni yn gyffredin, er ei fod yn fwy cymhwys na rhai enwau a ddefnyddir genym yn gyffredinol. Fe elwir rhagorfreintiau ac arlwyon yr Efengyl dan yr enw yma, yn yr Hen Destament a'r Newydd, Esa. 25. 6. Math. 22. 2, &c. Luc 14. 16, &c. Gellir golygu Swper yr Arglwydd yn wledd o goffa, fel yr oedd y pasg gynt; ac ynddi yr ydym yn ymgyflwyno i'r Arglwydd, 1 Bren. 8. 65.

5. Fe'i gelwir hefyd yn *dorri bara*, Act. 2. 42, oblegid mai dyma un o'r gweithredoedd sydd yn perthyn i'w chyflawniad. —*Testament* Crist, Luc 22. 20; am ei bod yn un o seliau y cyfammod gras;—*Phïol y fendith*, 1 Cor. 10. 16; a *Bwrdd yr Arglwydd*, 1 Cor. 10. 21. Gan ei fod yn cael ei alw "Bwrdd yr Arglwydd," nyni a allwn gasglu y dylem gyfrannogi o hono *yn ein heistedd*, yr hyn sydd yn ymddangos yn fwyaf cyson ag arferiad ein Harglwydd a'i apostolion, ar sefydliad cyntaf yr ordinhad hon, Math. 26. 20, 26.

Gallwn sylwi yma, fod ein Hiachawdwr wedi sefydlu yr ordinhad yma ar y nos y'i bradychwyd, neu y nos cyn ei farwolaeth; trwy yr hyn y gwelwn ei ryfedd gariad, a'i ofal am ei Eglwys y pryd hwn. Er ei fod i oddef o bob pegwn, a hyny yn lle pechaduriaid, eto yr oedd cysur ei bobl yn gymaint ar ei galon, fel yr appwyntiai ef y côf arwydd yma o'i gariad i gael ei gadw ganddynt hyd oni ddeuai drachefn, 1 Cor. 11. 23—26.

Sylw 325.—*Yr elfenau, neu yr arwyddion gweledig i'w defnyddio yn Swper yr Arglwydd, yw bara a gwin.*

Appwyntiwyd y pethau hyn gan Grist ei hun, fel arwyddion o'i gorph a'i waed ef; wrth yr hyn yr ydym i ddeall yn gyffredinol, ei gnawdoliaeth, ei ufudd-dod teilwng, a'i angau fel iawn; yr hyn oll oedd angenrheidiol er cwblhad y prynedigaeth y daeth efe i'r byd o'i herwydd. Ac o ganlyniad, rhaid fod rhyw *gyfattebiaeth* rhwng yr arwyddion a'r pethau a arwyddoceir, neu rhwng y bara a'r gwin a chorph a gwaed Crist.

1. Gellir dilyn y gyffelybiaeth rhwng *bara* a *chorph Crist* yn y pethau canlynol:—(1.) Y mae *bara* yn fwyaf angenrheidiol er cynnal bywyd naturiol; canys ni all neb fyw hebddo, am ba achos y'i gelwir *ffon einioes*. Felly, nid oes dim mor angenrheidiol i'r enaid ag yw Crist, bara y bywyd, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef, yr hwn os bwytty dyn o hono, efe a fydd byw yn dragywydd, Ioan 6. 32—58. (2.) Y mae cymhwysder neillduol mewn bara i *feithrin nerth*, a *diwallu* y corph. Felly nid oes dim mor gymhwys i beri meithriniad, nerth, a digonolrwydd ysbrydol ag yw corph drylliedig Mab Duw. Dyma y moddion a arlwywyd gan Dduw i gynnal bywyd yr enaid, a diwallu angen y pechadur. (3.) Bara yw ymborth *cyffredin* pawb: felly y mae iachawdwriaeth Crist yn iachawdwriaeth yn gynnygiedig i bawb, a chyfaddas i bawb, Dat. 22. 17. Math. 11. 28. (4.) Rhaid parottoi bara drwy amryw ffyrdd cyn y bydd yn ddefnyddiol i ddyn; rhaid dyrnu yr ŷd, ei falu, a'i bobi, cyn y bydd yn gyfaddas i ddyn: felly, cyn y gallai Crist fod yn Iachawdwr i ddyn, rhaid ei ddryllio rhwng digofaint ei Dad, a'n pechodau ni, a gelyniaeth a malais dynion a chythreuliaid yn ei erbyn. Rhaid ei ddeifio, megis yn ffwrn digofaint tanllyd, Ps. 20. 14. Esa. 53. 4, 5. (5.) Mae bara yn ymborth nad yw byth yn *ddiflas* gan rai iach; felly y mae bara y bywyd, yr hwn a ddaeth i waered o'r nef, yn wastad yn hyfryd a dymunol i'r credadyn: canys i'r cyfryw y mae Crist yn werthfawr, er fod y rhan fwyaf o ddynolryw yn ffieiddio y manna nefol. (6.) Cyn y gall bara fod o un gwasanaeth i ddyn, rhaid ei *ddefnyddio* ganddo, a'i *gyd-gorphori* ag ef; felly, rhaid i gorph Crist gael ei ddryllio, ei dderbyn ac ymborthi arno drwy ffydd, cyn y gall fod o un llesäad ysbrydol i'r enaid, Ioan 6. 56.

2. Gellir olrhain y cyffelybrwydd rhwng *gwin* a *gwaed Crist* yn y pethau canlynol;—(1.) Rhaid i'r gwin, cyn y gellir ei ddefnyddio gael ei wasgu o'r grawn, y rhai sydd raid eu

dryllio er ei gael o hono; felly y gwesgid gwaed Crist o'i gorph ef. Efe a falwyd yn ngwin-gafn digofaint Dwyfol, fel y byddai ei waed yn ddïod i'n heneidiau trancedig. Ioan 6. 53. (2.) Mae yn natur gwin *adfywio*, *llawenhau*, a *nerthu*, Diar. 31. 6. A pha beth a all fod yn fwy effeithiol i ddadebru y teithydd lluddedig tua Seion fry, a'r enaid sydd yn cael ei flino gan demtasiynau Satan, na'r cymhwysiad o waed Crist trwy ffydd? (3.) Y mae rhinwedd *meddygol* mewn gwin, 1 Tim. 5. 23; Luc 10. 34. Yr un modd y mae gwaed Crist pan y'i cymhwysir gan Ysbryd Duw, yn glanhau ac yn meddyginiaethu gan beri i'r enaid lawenychu yn yr Arglwydd. (4.) Ni wna gwin ddim lles *heb ei ddefnyddio;* felly, ni lesâ gwaed Crist ddim i'r enaid oddieithr ei gymhwyso gan yr Ysbryd Glan; ac oddieithr iddo gaei ei ddefnyddio trwy ffydd i'r dybenion y'i tywalltwyd erddynt, ac y'i delir allan yn wrthddrych ffydd y credadyn yn y sacrament hwn.

Sylw 326.—*Y mae rhoddi a derbyn bara a gwin yn sacrament Swper yr Arglwydd.*

Dan y pen yma y gallwn ystyried y *gweithrediadau sacramentaidd* o du y gweinyddwr, ac o du derbynwyr yr ordinhad hon.

1. Y mae y gweithrediadau sacramentaidd o du y gweinyddwr yn bedair; a chan fod Crist wedi rhoddi yr esiampl, y mae ei weinidogion i ddilyn ei ol ef. (1.) Efe a *gymmerth* y bara, a'r cwppan. Y mae y weithred hon yn arwyddocau neillduad y Tad o'i Fab i fod yn Iachawdwr byd colledig; megis y dywedir, "Gosodais gymhorth ar un cadarn;" &c. Ps. 89. 19. (2.) Efe a *fendithiodd* y bara, a'r cwppan, neu y gwin yn y gwppan. Tebygid fod y weithred yma yn arwyddocau fod Crist wedi appwyntio bara a gwin i fod yn arwyddion gweledig o'i gorph a'i waed ef; a'i fod trwy ei esiampl wedi awdurdodi ei weinidogion i neillduo oddiwrth wasanaeth cyffredin, gymmaint o'r elfenau ag a fyddo yn angenrheidiol i weinyddu yr ordinhad, trwy weddi a mawl. Gall arwyddocau hefyd, waith Duw yn anfon ei Fab i'r byd, wedi ei gyflawn gyfaddasu â phob doniau a grasusau i fod yn Waredwr pechaduriaid, ac i gyfarfod a holl angenion ei bobl yn eu holl gyfyngderau. (3.) Efe a *dorrodd* y bara. Mae y weithred yma mor hanfodol i'r ordinhad, fel y'i gelwir weithiau "Torri bara," Act. 20. 7. Cyfeiria yn eglur at ddyoddefiadau llymion Mab Duw, a'r angenrheidrwydd anhebgorol am danynt fel yr unig lwybr trwy yr hwn y gall trugaredd ddylifo i bechaduriaid. Arddengys hefyd barodrwydd Crist i ddyoddef,

gan ei fod ef mor ewyllysgar i ddyoddef ag ydoedd i dorri y bara yn ngwydd ei ddysgyblion. Ac er na's darllenwn am ei waith yn tywallt y gwin, trwy yr hyn yr arddangosid tywalltiad ei waed ef; eto yr oedd drylliad ei gorph ef yn anysgaredg a thywalltiad ei waed ef, fel na's gall y naill fod heb y llall. (4.) Efe a roddes y bara a'r cwppan i'w ddysgyblion. Wrth gymeryd y weithred hon yn gyssylltiedig a'r gorchymyn, "Cymerwch, bwyttewch,—yfwch bawb o hwn," nid yw y lleiaf ei phwys. Mae yn dangos yn gyffredinol, mai Crist yw rhad rodd Duw er bywyd ac iachawdwriaeth pechaduriaid o ddynolryw; bod Duw Dad yn gwneyd ei Fab drosodd i ni, yn nghyd a holl fendithion y prynedigaeth, i fod yn eiddo i ni yn awr ac am byth. A gellir sylwi yma, na roddes Crist y gwppan o'i law ei hun i bob un o'i ddysgyblion yn bersonol; ond i'r rhai agosaf atto i'w rhoddi i'w gilydd, neu i'w rhanu yn eu mysg eu hunain. Mae hyn yn eglur oddiwrth ei eiriau ei hun, "Cymerwch, bwyttewch,—yfwch *bawb* o hwn." Ac y mae yn fwy tebyg i gymmun wledd; a mwy dynodawl o gariad y naill at y llall, pan y mae cymmunwyr fel hyn yn rhanu yr arwyddion o fara a dwfr y bywyd yn mysg eu gilydd.

2. Y gweithrediadau sacramentaidd o du y *derbynwyr*, ydynt a ganlyn (1.) Y maent yn *cymeryd* y bara a'r cwppan i'w llaw eu hunain. Mae hyn yn arwyddocau fod ein derbyniad o Grist yn seiliedig ar y rhoddiad a'r cynnygiad a wneir o hono yn y Gair. Ac y mae hyn yn gysur i bechaduriaid, bod iddynt yn rhinwedd y cynnygiad yma o Grist yn y Gair, hawl i'w dderbyn er iachawdwriaeth gyflawn. Gan hyny y mae ffydd yn anhebgorol angenrheidiol yma; canys trwy law ffydd yn unig y derbynir Crist a holl ddoniau y prynedigaeth; ac y mae enaid y credadyn yn cydsynio yn llawen a'r cynnygiad a wneir iddo, trwy fwytta ac yfed ar ei fwrdd. (2.) Y maent yn *bwytta* y bara, ac yn *yfed* y gwin; arwyddocâ hyn yn gyffredinol fod yn rhaid cael cymhwysiad neillduol o Iesu Grist at yr enaid, yn rhinwedd y cynnygiad efengylaidd a mawr y mae y credadyn yn ei fwynhau, wrth ymborthi trwy ffydd fel hyn ar Grist, a doniau ei brynedigaeth.

Sylw 327.—*Amcanwyd Swper yr Arglwydd i ddangos ei farwolaeth ef, i fod yn goffadwriaeth o hono hyd oni ddelo eilwaith.*

1. Sefydlwyd yr ordinhad hon *fel y dangosid marwolaeth yr Arglwydd* drwyddi. Yn gymmaint ag mai o angau Crist y mae pob doniau y gobeithiwn eu mwynhau mewn amser ag i dragywyddoldeb yn dylifo; ac fel yr ydym ni yma yn gweled

ei gariad ef yr hwn sydd uwchlaw pob deall, yn gorchuddio pob pechod, ac yn ymddangos yn lle y pechadur, fel na chaffo ei ddystrywio am ei anwiredd; y mae yn gweddu i ni *ddangos marwolaeth yr Arglwydd.* Mae yr ymadrodd yma yn arwyddocau proffes o ffydd yn angau Crist yn ein deddfle; nid yn unig fel peth wedi cymeryd lle yn weithredol; ond hefyd wedi ei lawn gymeradwyo gan Dduw: ac y mae yn ddynodawl hefyd o'n gwaith ninau yn ei dderbyn, yn nghyd a'i ufudd-dod ef fel unig sail ein gobaith ger bron Duw. Gallwn nodi yma er nad yw yr ordinhad yma yn anhebgorol er iachawdwriaeth, eto fod holl ddylynwyr Crist, y rhai ydynt wedi cyrhaedd oedran synwyr a gwybodaeth, dan rwymedigaeth i'w chadw. Gall amgylchiadau fod i luddias rhai gwir gredinwyr i'w hymarfer; yn y cyfryw nid yw yn angenrheidiol er iachawdwriaeth. Ond os oes neb y mae yn eu gallu i'w chyflawni, yn ei hesgeuluso, y maent yn euog o bechod mawr. Y maent yn gwrthod gorchymyn Crist, yn datgan yr annïolchgarwch mwyaf iddo am y trugareddau goreu, ac yn dibrisio eu llesion goreu eu hunain, yr hyn a ddylai orwedd mor agos i'w calonau yn y byd hwn; y maent yn euog o ddiystyrwch gwirfoddol ar eiriau y bywyd, o enau eu Gwaredwr pan oedd ar dywallt ei enaid i farwolaeth; maent yn dangos yr anmharch mwyaf ar gariad Crist, yr hwn sydd uwchlaw pob deall; ac yn wirfoddol yn gwrthod y bendithion ydynt yn dwyn y berthynas bwysicaf a'u heneidiau anfarwol.

2. Fe sefydlwyd yr ordinhad hon er coffäad am Grist Iesu, hyd oni ddelo drachefn. "Gwnewch hyn," medd efe, "er cof am danaf." Yn yr ordinhad hon, nyni a ddylem gofio ei fod ef wedi gwneyd a dyoddef yr hyn oll oedd yn ysgrifenedig yn y Gyfraith, a'r Prophwydi, a'r Psalmau, am dano ef; yr hyn oll a ragluniodd llaw a chyngor Duw i'w wneuthur. Dylem gofio, pe na buasai Jehofah ei hun wedi cael iawn, y buasem ni o angenrheidrwydd yn darfod am danom yn dragywydd. Rhaid i ni gofio anfeidrol wiwdeb ei angau, gwerthfawrogrwydd ei natur, a'r modd y sicrhäai iachawdwriaeth torf aneirif o bob cenedl, llwyth, ac iaith, a phobl. A dylem gofio mor ewyllysgar oedd efe i sefyll yn yr adwy er troi y llid heibio—i ddioddef a marw, y Cyfiawn dros yr annghyfiawn, fel y dygai ni at Dduw, gan roddi i ni y wlad dda, sef tir Emmanuel. Ond ni ddylai hyn fod yn rhyw goffa arwynebol o'i farwolaeth yn unig; dylai fod yn gyfryw goffäad, ac a gyffröai ynom ysbryd addoli, yn ngwyneb y fath amlygiad o gyfiawnder a sancteiddrwydd ag a gymerth le pan oedd Mab Duw ar y croesbren; pan fynai yr Arglwydd ei ddryllio ef ac nid arbedai. Ac o

ganlyniad, rhaid ei fod yn cael ei ddilyn ag ymostyngiad o'n tu ni; gan mai ein pechodau ni oedd yr achos haeddianol o'i farwolaeth ef; â chasineb at bechod; ac â diolchgarwch, am mai yn ein lle ni y bu efe farw, a gorphen o hono y gwaith a roddasid iddo i'w wneuthur. Dylem ei gofio hefyd yn y fath fodd ag i roddi ein holl ymddybyniad arno am ein cyfiawnhad fel y byddo ein ffydd a'n gobaith yn Nuw, 1 Pedr 1. 21.

Sylw 328.—*Mae derbynwyr teilwng yn Swper yr Arglwydd yn cael ei gwneyd yn gyfrannogion o gorph a gwaed Crist, a'i holl ddoniau.*

Wrth *dderbynwyr teilwng* yr ydym i ddeall yma *gwir gredinwyr.* Ond nid yw y rhai hyn yn cael eu galw yn dderbynwyr *teilwng* ar gyfrif unrhyw deilyngdod ynddynt eu hunain; neu am eu bod yn meddu dim o'r hyn y gallant ymffrostio; canys ni fedd neb, hyd yn nod yr archangel uchaf ddim y gallai ymffrostio o hono ger bron Duw. Ond gellir cymhwyso yr ymadrodd uchod attynt ar gyfrif eu hundeb âg Iesu Grist, o'r hwn y maent yn derbyn yr holl gymhwysder angenrheidiol er iawn gyfrannogi o'r ordinhad hon, 2 Cor. 3. 5.

Gan hyny y mae credinwyr, y rhai yn unig sydd yn ymarfer a'r ordinhad hon yn deilwng, yn cael eu gwneyd *yn gyfrannogion o gorph a gwaed Crist, ynghyd a'i holl ddoniau.* Mae yr ymadrodd *corph a gwaed Crist* yn golygu yr hyn oll a wnaeth efe fel Cyfryngwr, a'r hyn oll a wnaed ar ei berson,—yr hwn a gynnrychiolir ger ein bron ar ei fwrdd, fel gwir ymborth yr enaid, Ioan 6. 53. A'r doniau, o'r rhai y gwneir credinwyr yn gyfrannog ydynt y rhai canlynol a'u cyffelyb :—yr Ysbryd Glan, i'w dysgu, eu harwain, a'u dyddanu; llwyr ryddhad oddiwrth bob pechod; canys er maddeuant pechodau llaweroedd y tywalltwyd gwaed Crist; heddwch â Duw, a heddwch cydwybod, yn nghyda llawer ychwaneg, na's gellir adrodd eu rhif a'u gwerth. Fe'u gelwir *doniau Crist,* am mai efe a'u pwrcasodd, Tit. 2. 1; am fod y Tad wedi rhoddi pob peth yn ei law ef, Ioan 3. 35; ac am ei fod ef yn ei cyfrannu, "derbyniodd roddion i ddynion," Eph. 4. 8. Ac fe ddywedir fod cyfrannogwyr teilwng yn derbyn, nid yn unig *ei ddoniau,* ond *ei holl ddoniau;* oblegid, pan dderbynir Crist ei hunan, y mae pob peth da yn cael eu derbyn gydag ef, 1 Cor. 2. 21—23.

Sylw 329.—*Y mae y credinwyr yn cael eu gwneyd yn gyfrannogion o gorph a gwaed Crist, nid mewn modd corphorol a chnawdol, ond trwy ffydd.*

Dywedir yma nad yw credinwyr yn cael eu gwneyd yn

gyfrannog o Grist a'i ddoniau *mewn modd corphorol a chnawdol*, mewn gwrthwynebiad i'r Pabyddion, y rhai ydynt yn dal *traws-sylweddiad*, wrth yr hyn y maent yn deall, fod y bara a'r gwin wedi ei gyssegru neu ei fendithio, yn troi yn wir gorph a gwaed yr Arglwydd, neu i sylwedd ei gorph a'i waed ef. Mae y dyb yma yn wrthwyneb, nid yn unig i'r Ysgrythyr; ond i reswm hefyd, ac i'n synwyrau; ac y mae yn dystrywio natur a dyben sacrament.

1. Y mae yn groes i'r *Ysgrythyr*, yn y rhai y cadarnheir yn bendant, fod yr elfenau wedi eu bendithio yn cael eu galw wrth yr un enw ac o'r blaen. Y mae hyn yn ddiau yn amnaid nad oes y fath gyfnewidiad yn cymeryd lle ynddynt, Matt. 26. 26—29; 1 Cor. 11. 23—28.

2. Mae yn annghyttunol â *rheswm*, yr hwn a'n hysbysa na's gall corph fod ond mewn un lle ar y pryd. Ond rhaid i'r rhai a ddadleuant dros yr athrawiaeth arswydus grybwylledig addef fod corph Crist mewn deng mil o fannau, ïe, mewn miliwn o fannau ar y pryd, sef mewn cynnifer o fannau ag sydd o *wafers* cyssegredig; fod yn rhaid ei fod yn farw ac yn fyw ar un waith, ac y gall fod effeithiau heb sylwedd, neu sylwedd heb effeithiau,—yr hyn oll sydd yn cynnwys ffolineb i'r eithaf.

3. Y mae yn groes i'n synhwyrau, y rhai a'n hysbysant mai bara a gwin yw yr elfenau wedi eu bendithio. Yr hyn a ellir ddweyd yn unig yw ein bod yn *clywed* fod y cyfnewidiad yma yn cymeryd lle: yr hyn a wrthbrofir yn hollawl gan yr holl synhwyrau eraill. Y fath gyfnewidiad a hyn a ddystrywiai bob sicrwydd moesol; a ddymchwelai y prawf o'r holl wyrthiau a wnelid er cadarnhau gwirionedd Gair Duw. Ac mewn gair os caniattawn hyn, ni's gallwn fod yn sicr am ddim.

Mae yr athrawiaeth gableddus hon *yn dystrywio natur a dyben sacrament*. Amcan yr ordinhad hon yw cofio Crist absenol: " Gwnewch hyn er côf am danaf." Ond y golygiad yma a'i cyflwyna yn gorphorol o flaen ein llygaid; er ein bod yn cael ein sicrhau yn yr Ysgrythyrau fod yn rhaid i'r nefoedd gynnwys ei ddynoliaeth hyd oni ddelo drachefn, Act. 3. 21. Ac heblaw hyny, ni byddai dim gwahaniaeth rhwng yr arwydd a'r peth a arwyddoceir.

Ond, efallai y gofynir yma, A oes unrhyw gyfnewidiad yn cymeryd lle ar y bara a'r gwin yn Swper yr Arglwydd? I hynyna yr attebwn yn gadarnhäol; ond *moesol* ac nid *anianyddol* yw y cyfnewidiad sydd yn cymeryd lle,—cyfnewidiad o ran eu dyben a'u harwyddocäad yn unig. Y maent yn cael eu neillduo o fod i ddefnydd cyffredin, i fod i ddefnydd

cyssegredig; ac nid ydym mwyach i olygu yr hyn a ddefnyddir o honynt, megis ymborth cyffredin; ond fel arwyddion o gorph a gwaed Crist, a doniau ei brynedigaeth. Ac y mae y cyfnewidiad yn cymeryd lle, nid trwy ddystrywio eu sylwedd, ond trwy Ddwyfol appwyntiad.

Gan hyny, yr unig ffordd yn yr hon y mae credinwyr yn cael eu gwneyd yn gyfrannogion o gorph a gwaed Crist, a'i holl ddoniau, yw *yn ysbrydol*, neu *trwy ffydd;* hyny yw, trwy gymhwysiad o hono ef a'i gyfiawnder, a'r oll a fedd, attynt eu hunain, Ps. 16. 5, 6.

Gallwn sylwi yma er nad yw Crist yn bersonol mewn modd corphorol yn Swper yr Arglwydd, etto y mae yn ysbrydol a gwirioneddol bresenol i ffydd y credinwyr, yn yr ordinhad hon, fel y mae yr elfenau eu hunain i'w synhwyrau allanol, 1 Cor. 11. 29. Os gwrthddadleuir i hyn fod Crist ei hun yn dywedyd "Hwn yw fy nghorph," nyni a attebwn fod yr ymadrodd yna i'w ddeall nid mewn ystyr *lythyrenol*, ond *cyffelybiaethol;* fel pe dywedasai, "Y bara hwn yw yr *arwydd* o'm corph." Dylid cofio yn wastadol, pan byddo yr ystyr lythyrenol fanol, o'i gymeryd yn arwain i annghysondeb eglur, y dylem gymeryd yr ystyr gyffelybiaethol. Felly, pan ddywaid yr apostol (1 Cor. 10. 4.) "A'r Graig oedd Crist," ni's gallwn ei ddeall yn llythyrenol, megis pe y graig sylweddol hono a fuasai Crist mewn gwirionedd; ond, yn gyffelybiaethol, fod y graig hono yn arwyddocâu Crist. A'r un modd y mae yn rhaid i ni gymeryd llawer o ymadroddion Ysgrythyrol, megis pan y gelwir Crist yn *ffordd, drws, gwinwydden, &c.*, Ioan 10, a 15.

Sylw 330.—*Y mae y credadyn trwy gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd, yn derbyn maeth ysbrydol, ac yn cael ei alluogi i gynnyddu mewn gras.*

Dyma y canlyniad o gael ein gwneyd yn gyfrannog o Grist, a holl ddoniau y prynedigaeth trwy ffydd; ac y mae yn arwyddocau; ac y mae yn rhoi ar ddeall mai ordinhad er *meithrin*, ac nid er cyfnewid yr enaid yw y sacrament hwn; a bod y rhai a gyfrannogant o honi yn deilwng, eisioes mewn *cyflwr o ras.* Pan fyddo ffydd mewn iawn ymarferiad, ni's gall lai na derbyn maeth a nerth ysbrydol; a'r enaid o ganlyniad, yn myned rhagddo mewn gorfoledd, gan ymnerthu yn yr Arglwydd, ac yn nghadernid ei allu ef. Ac y mae yr effeithiau hyn yn cymeryd lle, pan y mae y credadyn yn meddu dymuniad mwy am ddidwyll laeth y Gair, fel y cynnyddo ei enaid trwyddo; y'u galluogir i fyw mwy wrth ffydd, a llai wrth synied; pan y mae yn cael ynddo ei hun wrthwynebiad

cryfach i bechod yn ei amryfal wŷniau; a phan y'i galluogir fwy fwy i addurno athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr yn mhob peth, trwy ymarweddiad addas i'r efengyl, 1 Pedr 2. 2; 2 Cor. 5. 7; Ps. 66. 18; Tit. 2. 10; Phil. 1. 27.

Sylw 331.—*Nid yw yr ordinhad o Swper yr Arglwydd yn aberth dros bechod.*

Dyna farn Eglwys Rufain, a llawer eraill ydynt garedigion agos iddi. Ond, gellir sylwi fod llawer hyd yn nod yn mysg Protestaniaid, y rhai er nad ydynt yn son am dani fel y cyfryw, ydynt er hyny yn ymddangos i weithredu fel pe byddai felly. O ganlyniad, pan eisteddant wrth fwrdd yr Arglwydd, ac y bwyttänt ac yr yfant yno, y maent yn dychymygu fod eu pechodau wedi eu maddeu, ac na's gallant fod yn fŷr o fywyd tragywyddol. Y mae hyn yn brïodoli i'r ordinhad yr un teilyngdod ag a brïodolir i angau Crist; yr hyn sydd gystal a phe dywedid gyd a'r Pabyddion fod Swper yr Arglwydd yn aberth er maddeuant pechodau. Mae yr ordinhad hon mor bell o fod yn aberth dros bechod, fel mai yr unig beth a amcanid drwyddi oedd cofio yr *un aberth* hwnw a offrymodd Iesu Grist i Dduw unwaith am byth. Y mae yn ein hadgofio o aberth Crist, ac wrth ei fwrdd, gallwn ddadleu yr aberth hwn am faddeuant pechodau. Ond yn ddiau, ni's gall yr elfenau fod yr aberth hwnw; ond arwydd a sêl o hono yn unig, wedi eu trefnu i'r amcanion gorau er dyddanwch yr enaid dros byth.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Fod yr Eglwys yn werthfawr yn ngolwg Crist, a'i fod ef yn ei chofio. 2. Cariad Duw a Christ, at bechaduriaid o ddynolryw. 3. Bod llawer yn cael ei wneyd gan Grist er dyddanu y saint. 4. Y perygl o beidio cydffurfio â gorchymyn Crist yn yr ordinhad hon. 5. Nad oes un aberth dros bechod, ond marwolaeth Crist fel iawn. 6. Yr angenrheidrwydd o feddu dybenion cywir mewn golwg wrth gyfrannogi o'r ordinhad hon, a'r perygl o gyfrannogi o honi oddiar gau ddybenion.

## *Am yr iawn gyfrannogiad o Swper yr Arglwydd.*

HOL. 97. PA BETH SYDD YN OFYNOL ER TEILWNG DDERBYNIAD O SWPER YR ARGLWYDD.

Bod iddynt eu holi eu hunain am eu gwybodaeth i ddirnad corph yr Arglwydd, am eu ffydd i ymborthi

arno, am eu hedifeirwch, eu cariad, a'u hufudd-dod newydd; rhag, trwy ddyfod yn annheilwng, iddynt fwytta ac yfed barnedigaeth eu hunain.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod hunan-ymholiad yn ofynol oddiwrth bawb a fynai gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd, 1 Cor. 11. 28. "Eith holed dyn ef ei hun, ac felly bwyttäed o'r bara, ac yfed o'r cwppan."

2. Dylai cymmunwyr eu holi eu hunain am eu gwybodaeth i iawn farnu corph yr Arglwydd, 1 Cor. 11. 29. "Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng, sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun, am nad yw yn iawn farnu corph yr Arglwydd."

3. Y dylai cymmunwyr holi eu hunain am eu ffydd i ymborthi ar Grist, 2 Cor. 13. 4. "Profwch chwychwi eich hunain a ydych yn y ffydd." Gwel hefyd Ioan 6. 57.

4. Y dylai cymmunwyr holi eu hunain yn nghylch eu hedifeirwch, Galar. 3. 40. "Ceisiwn a chwiliwn ein ffyrdd, a dychwelwn at yr Arglwydd."

5. Y dylai cymmunwyr holi eu hunain yn nghylch eu cariad, 1 Ioan 4. 8. "Yr hwn nid yw yn caru, nid adnabu Dduw: oblegid Duw, cariad yw."

6. Y dylai cymmunwyr holi eu hunain yn nghylch eu hufudd-dod newydd, 1 Cor. 5. 8. "Am hyny cadwn ŵyl, nid a hen lefain, nac â lefain malais a drygioni; ond a bara croyw purdeb y gwirionedd."

7. Bod yn beryglus i ni esgeuluso y ddyledswydd o hunan-ymholiad, 1 Cor. 11. 31. "Canys pe iawn farnem ni ein hunain ni'n bernid."

8. Bod cymmuno annheilwng yn ein darostwng dan farnau Duw, 1 Cor. 11. 29. "Canys yr hwn sydd yn bwytta ac yn yfed yn annheilwng sydd yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddo ei hun," adn. 30.

### EGLURHAD.

Sylw 332.—*Mae hunan-ymholiad yn ofynol oddiwrth bawb a fynonl iawn gyfrannogi o Swper yr Arglwydd.*

Gyda golwg ar y rhai sydd ganddynt hawl i gyfrannogi o'r ordinhad hon, gallwn sylwi, *ger bron dynion* y mae pawb sydd yn ymddangos megis gwir gristionogion, wedi eu bedyddio i enw Crist; y rhai ydynt yn gwneyd proffes o'u ffydd ynddo ef, ac yn dangos eu cariad atto ef; a'r rhai ydynt yn meddu

gwybodaeth gymhwys o egwyddorion Cristionogaeth, yn meddu yr hawl yma; neu mewn geiriau eraill, y rhai yr ymddengys eu bod yn ofni Duw ac yn cadw ei orchymynion ef; neu y rhai yr ymddengys bod eu hymarweddiad yn addas i'r efengyl. Ond, *ger bron Duw*, ni all neb ond y rhai ydynt yn wir rasol, y rhai a ddychwelwyd, ac ydynt o fewn rhwymyn y cyfammod, a'r rhai a ffoisant am noddfa at Grist, feddu hawl i eistedd wrth ei fwrdd ef. Ië, nyni a allwn fyned gam yn mhellach, a dywedyd, y gall hyd yn nod y cyfryw rai ddyfod yn annheilwng at fwrdd yr Arglwydd, oddieithr eu bod yn dyfod mewn cyflwr o barottöad. Ac fel hyn y mae, y gall credinwyr gymmuno yn annheilwng, yn unig trwy fod yn ddifeddwl am y ddyledswydd a ofynir yma.

Nid teilyngdod mewn ystyr *ddeddfol* yw yr hyn a ofynir yma; canys ger bron Duw, ni all y sant enwocaf feddu y teilyngdod lleiaf; neu ddim ag y gall seilio ei ddadl arno am yr un o'r bendithion a arddangosir yn yr ordinhad hon. Wedi yr hyn oll ydym, neu a allwn ni, nid ydym ond gweision anfuddiol, heb wneuthur dim mwy na'n dyledswydd. Gan hyny, y cwbl sydd i'w olygu wrth y teilyngdod yma, yw *cyfaddasrwydd efengylaidd*,—ansawdd meddwl cymhwys, Matt. 22. 8, lle mae y gair *teilwng* yn cael ei ddefnyddio i'r un perwyl.

Gan hyny, er cael allan pa un a feddwn ni y teilyngdod neu y cyfaddasrwydd yma, mae yn ofynol i ni ein *holi ein hunain.*

Holi eu hunan yw gwneuthur ymchwiliad manol i gyflwr un ei hun, a rhoddi dedfryd anmhleidiol arno ei hunan, wrth rëol brïodol; ac y mae hyn yn ymarferiad sydd yn dwyn perthynas dra phwysig ag iachawdwriaeth dyn ei hun. Ac nid â rhyw bersonau yn unig y mae yn dwyn perthynas, ond y mae yn ddyledswydd annhebgorol a dïamheuol ar bob un heb wahaniaeth; ac y mae yn ddyledswydd hefyd a ddylai gael ei hymarfer yn wastadol, 2 Cor. 13. 5, ond yn neillduol pan ar nesâu at fwrdd yr Arglwydd.

Yr *unig* rëol y mae yn ddïogel i ni ei dilyn yn y ddyledswydd yma o hunan-ymholiad, yw Gair Duw, Esa. 8. 20. Yma yn unig y'n hysbysir pa beth a ddylem fod, a pha beth a ddylem ei wneyd; a pha rai hefyd ydynt wir nodau cyflwr grasol.

Yr hyn y dylai pawb eu holi eu hunain yn ei gylch, yw eu cyflwr ysbrydol ger bron Duw. Gwelir hyny oddiwrth 2 Cor. 13. 5. "Profwch chwychwi eich hunain a ydych *yn y ffydd;*" pa un ai yn Nghrist yr ydych, ynte yn nghyflwr natur; a ydych chwi wedi eich geni o Dduw, eich ail eni, a'ch geni oddi

uchod; neu, a ydych chwi eto heb Dduw, heb Grist, ac heb obaith yn y byd; pa un ai credinwyr ai annghredinwyr ydych; a symmudwyd chwi i deyrnas anwyl Fab Duw, neu a ydych chwi eto yn nheyrnas Satan; a aethoch chwi drwodd o farwolaeth i fywyd, neu a ydych chwi eto mewn cyflwr o farwolaeth ysbrydol, &c. Ond y mae pum peth yn neillduol, mewn perthynas i'r rhai y dylem ein holi ein hunain; sef gwybodaeth, ffydd, edifeirwch, cariad, ac ufudd dod efengylaidd; y rhai y gellir yn dra phrïodol eu galw *grasusau sacramentaidd*, oblegid eu bod yn anhebgorol er cyfrannogi yn deilwng o'r Sacrament. Mae hunan-ymholiad mewn perthynas i'r grasusau hyn yn wir angenrheidiol, gan na's gallwn heb hyny ganfod pa un a ydynt genym ai peidio; nac, o ganlyniad, pa un a feddwn ni hawl i gyfrannogi o'r ordinhad hon. Ond, wedi y cwbl a allwn ni ei wneyd yn y peth hwn, dylem gofio na wiw i ni ymddiried ynom ein hunain, nac ar ein parottöadau, ond yn y gras sydd yn Nghrist Iesu, a'n rhoi ein hunain yn ei law ef, i weithio ein holl waith ynom ac erddom, a dwyn yr holl ogoniant. Efe yn unig a all ein chwilio yn drwyadl, a phrofi ein calonau; efe yn unig a all weled a oes ffordd annuwiol genym, a'n tywys yn y ffordd dragywyddol, Ps. 139.

Sylw 333.—*Rhaid i bawb a fynont gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd, eu holi eu hunain am eu gwybodaeth i farnu corph yr Arglwydd.*

1. Dylent ymholi a ydyw eu gwybodaeth yn *gymhwys o radd*, a ydynt hwy yn meddu gwybodaeth o athrawiaethau sylfaenol Cristionogaeth, i'r fath radd, fel ag i fod yn hysbys mewn mesur o natur a phriodoliaethau Duw fel y'u darlunir yn ei Air; o athrawiaeth y Drindod, a gwaith prïodol pob person yn nhrefn iachawdwriaeth; o ddoethineb, gallu, sancteiddrwydd, cyfiawnder, daioni, a gwirionedd Duw, fel y maent yn cyd ddysgleirio yn ngwaith y prynedigaeth; o gwymp dyn, a thrueni y cyflwr presenol; o berson, swyddau, a chyfiawnder Iesu Grist; yn nghyda chyflawnder, rhadlonrwydd, a chadernid y cyfammod gras, a'r cymhwysder o'i fendithion gan yr Ysbryd Glan; o'r angenrheidrwydd o ffydd, ac edifeirwch, a doniau eraill yr ysbryd; o natur, defnyddiau, a dybenion Swper yr Arglwydd; ac hefyd o'u pechodau a'u diffygion amrywiol eu hunain; heb yr hyn, ni's gellir dywedyd bod eu gwybodaeth yn ddigonol.

2. Dylent ymholi a ydyw eu gwybodaeth yn un *gadwedigol o ran eu rhyw*; a ydyw hi yn wybodaeth brofiadol; a ydyw yr enaid yn teimlo gwirionedd yr hyn a wyr; a ydyw ei wybod-

aeth yn gyfryw ag sydd yn dyrchafu Crist, ac yn darostwng hunan; a ydyw hi yn peri i'w pherchen roddi ymddiried trwyadl yn yr Arglwydd Iesu, oddiar deimlad calon o'i urddas, ac o'i fod yr unig ffordd at y Tad; a ydyw hi yn dylanwadu ar y galon er ei gwellâu, er peri iddi garu Crist, a charu sancteiddrwydd yn fwy; a chasâu pechod yn fwy, ïe, ei gasâu a châs perffaith, gan wneuthur i ni redeg gyda pharodrwydd a llawenydd yn ffyrdd gorchymynion yr Arglwydd; mewn gair, a ydyw yn gyfryw wybodaeth ag sydd yn dylanwadu ein holl ymarweddiad; canys fel hyn y dywed Crist, "Os gwyddoch y pethau hyn, gwŷn eich byd os gwnewch hwynt." Ioan 13. 17.

Mae gwybodaeth o'r fath uchod yn anhebgorol angenrheidiol i gymmuno yn deilwng; canys yr anwybodus, neu y rhai ni's meddant ond gwybodaeth arwynebol, y rhai nid ydynt yn eu hadnabod eu hunain, eu pechodau, eu haugen o Grist, a'r hyn a all efe gyfrannu yn ol ei addewid, ni's gallant ddirnad pethau yr ysbryd; "canys yn ysbrydol y bernir hwynt;" ac o ganlyniad ni's gallant amgyffred gwir ystyr ac amcan pethau sanctaidd yr ordinhad hon;—ni's gallant iawn farnu corph yr Arglwydd.

*Barnu corph yr Arglwydd* yw canfod a deall bod yr arwyddion o fara a gwin yn cynnrychioli corph drylliedig, a gwaed tywalltedig Iesu Grist. Fel y mae yr elfenau o fara a gwin ynddynt eu hunain yn bethau cyffredin, ac yn unig yn gynnrychau o gorph a gwaed Crist, eto yn wir gynnrychau o'r unrhyw, felly, rhaid i ni eu gwir wahaniaethu oddiwrth fara a gwin cyffredin, fel wedi eu llwyr neillduo i ddybenion sanctaidd. Rhaid i ni edrych drwy yr elfenau ar y pethau mawrion a ddangosir drwyddynt, sef Crist, yn ei offrymmu ei hun yn aberth dros bechod, ac yn gwneuthur cymmod dros anwiredd llaweroedd, ac y mae yn rhaid i ni wneyd hyn yn fath fodd, ag i'w ganfod ef megis yn bresenol mewn modd ysbrydol yn yr ordinhad hon, yn ymgynnyg yn nghyd a'r oll a fedd i'r cyfrannogydd teilwng; a rhaid i ni ei farnu yn y fath fodd ag i ymddiried ynddo am byth, gan fod mewn mesur wedi gweled ei degwch a'i ragoriaethau annghydmarol wrth ei fwrdd ei hun.

Sylw 334.—*Rhaid i bawb a fynont gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd, ei holi ei hunain mewn perthynas i'w ffydd i ymborthi ar Grist.*

Rhaid i bawb a fynent gyfrannogi yn deilwng, ymholi a ydyw eu ffydd yn wir neu gau ffydd; pa un a ydynt hwy yn rhoddi ymddiried gwirioneddol, trwyadl, a pharhaus ar Grist yn unig am fywyd ag iachawdwriaeth, gan ymwrthod a phob

hyder arall; neu nad ydynt hwy yn rhoddi dim mwy na chydsynied arwynebol a'r hyn sydd ysgrifenedig am dano ef, gyda golwg ar y gwirionedd o'i fod wedi bod yn y byd, ac o'i fod wedi ei groeshoelio, a chyfodi o feirw; pa un a ydyw eu ffydd yn gyfryw ag sydd yn puro y galon, yn gweithio trwy gariad, yn gorchfygu y byd, ac yn achub yr enaid; neu a yw hi yn ddim amgen na'r hyn a elwir yn ffydd farw,—ffydd na chynnyrcha ddim o ffrwythau cariad at Dduw.

Dyma rai o nodau y ffydd hono a weithredir yn holl blant Duw. Nid yw y rhai y mae eu ffydd o weithrediad Ysbryd Duw yn boddloni ar eu cyrhaeddiadau presenol o wybodaeth am berson Crist a'i waith; ond dymuno dilyn adnabod yr Arglwydd fwy fwy;—y maent yn cofleidio Crist yn ewyllysgar yn ei holl swyddau, gan fod wedi eu llawn argyhoeddi mai efe yw unig Waredwr pechaduriaid, a'i fod ef yn abl ac ewyllysgar i achub hyd yr eithaf bawb a ddeuant atto ef; y maent yn ei dderbyn ef fel eu prophwyd, i'w dysgu trwy ei air a'i Ysbryd; fel eu hoffeiriad, yr hwn a wnaeth gymmod dros eu hanwiredd, ag sydd yn eiriol drostynt; ac fel eu brenin, i'w hamddiffyn rhag eu gelynion, a'u llywodraethu wrth ei gyfreithiau; maent yn cael eu darostwng yn ddirfawr dan olwg ar bechod, a theimlad o hono, fel peth y mae yr Arglwydd yn ei ffieiddio; y maent nid yn unig yn cael eu diddyfnu oddiwrth yr ymarferiad o bechod, ond eu puro oddiwrth gariad at bechod; y maent yn cyfrif pob peth yn golled er mwyn Crist, fel yr ennillont ef, ac y'u cair ynddo ef; y maent yn ofalus i ymarfer gweithredoedd da, gan wybod fod ffydd yn gweithio trwy gariad at Grist a'i bobl; maent yn cael eu nerthu i nesau at Dduw mewn gweddi am gyflawniad o'i addewidion, y rhai ydynt oll yn Nghrist yn ïe ac yn amen, er gogoniant Duw Dad, Heb. 4. 16; 2 Cor. 1. 20, mewn gair, y maent yn dymuno Crist uwchlaw pob peth—y maent yn ei ddymuno yn benaf er ei fwyn ei hun, ac nid yn unig er mwyn yr hyn yw iddynt hwy.

Mae ffydd yn anhebgorol angenrheidiol i gyfrannogi o Swper yr Arglwydd; oblegid na's gallwn *ymborthi ar Grist* hebddi;—hyny yw, heb ffydd ni's gallwn dderbyn i'n heneidiau o'i gyflawnder ef yr holl ddaioni ysbrydol hwnw a ddangosir yn yr addewid; heb ffydd, ni's gallwn edrych yn uwch na'r arwyddion, a syllu ar Brynwr croeshoeliedig fel ein Iachawdwr, yn y fath fodd a baro adfywiad a nerth i'n heneidiau. Y mae yn angenrheidiol hefyd, oblegid na's gallwn fod yn nghyfammod Duw hebddi, ac o ganlyniad ni's meddwn hawl i sêl y cyfammod; hebddi, ni's gallwn gael ein huno â Christ; hebddi ni's gallwn gael ein dwyn i deulu Duw, ac o ganlyniad

ni's gallwn feddu hawl i eistedd wrth ei fwrdd ef; hebddi ni's gallwn fod yn drysor priodol yr Arglwydd; ac hebddi, ni all grasusau eraill yr Ysbryd weithredu er gogoniant Duw.

Sylw 335.—*Rhaid i bawb a fynont gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd eu holi eu hunain mewn perthynas i'w hedifeirwch.*

Rhaid i'r rhai a fynent gymmuno yn deilwng ymholi a ydyw eu hedifeirwch yn wirioneddol, neu ai tristwch y byd yn unig ydyw, yr hwn sydd yn gweithio angau.

Mae y rhai y mae eu hedifeirwch yn *gywir*, neu wedi ei weithredu gan Ysbryd Duw, yn ymofidio am bechod, oblegid ei fod yn drosedd yn erbyn Duw, ac yn ei ddianrhydeddu ef, cystal ag yn niweidiol iddynt eu hunain (Ps. 51. 4;) maent yn teimlo mwy o herwydd drwg pechod na'r cystuddiau a allant ei ddilyn, (Luc 15. 18;) maent yn gofidio o herwydd y pechod sydd yn aros ynddynt, ac yn galaru oblegid calon lygredig, gwreiddyn pechod; maent yn pryderu, nid yn unig o eisiau cael symmud euogrwydd pechod trwy waed Crist, ond am gael symmud ei allu a'i halogrwydd hefyd trwy yr Ysbryd Glan, canys y mae y ddau beth hyn yn anysgaredig; nid ydynt yn ymorphwys ar faddeuant pechod yn unig, heb sancteiddiad eu natur, (Act. 2. 38;) maent yn troi oddiwrth bechod mewn calon a buchedd (Hos. 14. 8;) maent yn casâu, nid rhyw bechodau yn unig; ond pob pechod adnabyddus; maent yn ymwrthod a phechod, nid dros amser, ond gyda phenderfyniad diysgog na's dychwelant i'w goledd drachefn; maent yn dwys deimlo oddiwrth y pechod o anghrediniaeth, yr hwn sydd yn glynu gormod wrth y gorau, (Ioan 16. 9;) maent yn dwyn ffrwythau o ufudd-dod sanctaidd, cymhwys i edifeirwch (Math. 3. 8;) ac yn profi rhyw beth o'r hyn a ddywedai yr Apostol Paul ar hyn, yn 2 Cor. 7. 11.

Mae edifeirwch yn anhebgorol angenrheidiol i gyfrannogi o Swper yr Arglwydd, oblegid hebddo ni's gall fod galar am bechod, yr hyn sydd un o effeithiau anysgaredig ffydd yn edrych ar, ac yn defnyddio Gwaredwr croeshoeliedig yn yr ordinhad hon (Zech. 12. 10;) oblegid mai ar yr edifeiriol yn unig y mae yr Arglwydd wedi addaw edrych (Esa. 57. 15;) oblegid er fod credinwyr yn derbyn y sêl o faddeuant pechod wrth fwrdd yr Arglwydd, eto, ni bydd i Dduw yno selio maddeuant pechod i'r anedifeiriol: oblegid na's gwel neb ond y gwir ostyngedig ddim yn ngwaed Crist fel y'i dangosir ar ei fwrdd, canys nid yw y galon garreg yn gofalu am y ffynnon a agorwyd i bechod ac aflendid; oblegid heb edifeirwch, y mae

pechod yn yr enaid yn ei gyflawn rym; oblegid fod Duw yn yr ordinhad hon yn amcanu dangos chwerwder pechod, cystal a'i gariad attom yn Nghrist; ac, oblegid na's gall fod cofio teilwng o Iesu croeshoeliedig wrth ei fwrdd, heb edifeirwch.

Sylw 336.—*Rhaid i bawb a fynont gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd eu holi eu hunain am eu cariad.*

Rhaid i'r sawl a fynont gyfrannogi yn deilwng ymholi a ydynt yn meddu cariad at Dduw, at Iesu Grist, at eu brodyr Cristionogol, ac at holl ddynol ryw, yr hyn sydd un o nodau yr holl gredinwyr.

1. Mae ein cariad at *Dduw* yn ddiffuant, os ydym yn ei garu ef yn benaf o herwydd ei ragoriaethau ei hun; os ydym yn ymdrechu yn wastadol i ryngu ei fodd ef trwy gadw ei orchymynion; ac os ydym yn gofidio yn ddiffuant pan ar unrhyw bryd y'i digiom.

2. Mae ein cariad at *Iesu Grist* yn ddiffuant, os ydym yn ei garu ef uwchlaw pob gwrthddrych arall; os ydym yn ei garu ef ar gyfrif yr hyn ydyw ynddo ei hunan, neu ar gyfrif ei ragoriaethau, yr hyn sydd yn ei wneuthur oll yn hawddgar (Can. 5. 10, &c;) os ydym yn ei garu ef, nid yn unig am yr hyn a wnaeth efe dros bechaduriaid yn gyffredinol, ond hefyd o herwydd yr hyn a wnaeth efe drosom ni yn neillduol; os ydyw ein myfyrdod arno yn felus; a'n calonau yn ymsefydlu arno fel ein llawenydd penaf; os ydym yn ymhyfrydu yn ei air a'i ordinhadau, (Ps. 119; a 84;) os ydym yn ymhyfrydu mewn cymmundeb ag ef; os glynwn wrtho ef yn wastadol; os cofleidiwn ef yn ei holl swyddau, gan ufuddhau iddo yn ei holl orchymynion, cystal ag ymddiried ar ei addewidion; os yw gwrthddrychau ei gariad ef yn wrthddrychau ein cariad ni; os ydyw gwrthddrychau ei gasineb ef yn wrthddrychau ein casineb ni; os ydym yn awyddus i ddwyn ei achos yn mlaen yn y byd; os gallwn gasâu ac ymwadu a'r pethau sydd yn fwyaf gwerthfawr i ni yn y byd hwn, yn hytrach na'i adael ef; os ydym yn ymofidio am ein bod yn caru càn lleied arno ef, ac yn dymuno ei garu yn fwy; os ydym yn dysgwyl yn ddyfal am ei ail ddyfodiad, ac ar yr un pryd yn ymddiried ar ei Ysbryd am ras i'w ogoneddu tra fyddom byw, ac i feddwl am angau a'r bedd heb aethau; ac, mewn gair, os ydym yn ei gyfrif ef ein holl iachawdwriaeth a'n holl ddymuniad, ac yn ein rhoddi ein hunain i fynu iddo, i fod yn eiddo iddo yn awr, yn gyfan, ac am byth, mewn cyfammod tragywyddol.

3. Y mae ein cariad at *bobl Dduw*, yr hwn sydd i fod yn gariad o *ymhyfrydiad* yn gywir, os ydym yn gweled mwy

ynddynt hwy nag mewn eraill, pa ham y dylent gael eu caru; os ydym yn eu caru am fod Duw yn eu caru, ac am eu bod yn perthyn i Grist, ac yn dwyn ei ddelw; os ydym heb wneyd gwahaniaeth yn ein cariad at y saint, ond eu caru oll, pa un bynnag a fyddont a'i tlawd neu gyfoethog; os ydym nid yn yn unig yn caru yr holl saint, ond eu caru bob amser, mewn adfyd cystal ag mewn hawddfyd; os ydym yn gwerthfawrogi eu cyfeillach a'u hymddyddanion crefyddol, gan eu cyfrif yn rhai rhagorol y ddaear; os ydym yn ymroddi i gydlawenhau â hwy, i'w dyddanu yn eu trallodau, a'u cynnorthwyo yn eu cyfyngderau, (Rhuf. 12. 15. 1 Ioan 3. 16, &c;) ac os ydym yn cuddio eu pechodau, yn maddeu y cam a wnelont a ni, ac heb fod yn chwerw yn eu herbyn.

4. Mae ein cariad at *bawb* yn gyffredinol, neu at ddynion y byd, ac hyd yn nod ein gelynion, at y rhai y dylem ddangos *cymmwynasgarwch*, yn ddiffuant pan fyddom yn ewyllysio yn dda iddynt mewn gwirionedd; pan yn gweddïo drostynt: a phan y gwnelom bob da a allom iddynt. Y mae ein cariad at ein gelynion yn enwedig yn ddidwyll, os byddwn ynddo yn cael ein cymhell gan esiampl Crist, yr hwn a fu farw dros ei elynion; os nad ydym yn dangos dymuniad i ddïal, ond yn eu cyflwyno i'r Arglwydd yr hwn a farna yn gyfiawn; os nad ydym yn llawenhau, ond yn ofidus pan y'i goddiweddir gan brofedigaeth (Diar. 24. 17, &c;) os ydym yn dymuno maddeu iddynt, a cheisio eu llesäad, er pob peth a wnaethant hwy i ni (Luc 11. 4;) ac os ydym yn gweddïo drostynt, ac yn eu cynnorthwyo yn eu cyfyngderau. Math. 5. 44. Luc 23. 34. Act. 8. 60. Rhuf. 12. 20, 21.

Mae cariad at *Grist* yn angenrheidiol wrth gyfrannogi o Swper yr Arglwydd, oblegid hebddo ni's gallwn gasâu pechod; hebddo ni's gallwn ymhyfrydu yn yr Arglwydd Iesu; hebddo ni's gallwn ymhyfrydu yn yr hyn a wnaeth efe, neu a orchymynir ganddo i ni ei wneuthur; ac hebddo ni's gallwn garu ei bobl, er eu bod yn wrthddrychau ei sylw a'i hoffder ef. Y mae cariad at *bawb*, yn enwedig y rhai sydd o *deulu y ffydd* yn anhebgorol angenrheidiol am ei fod yn cael ei ofyn yn bendant yn yr Ysgrythyr, Math. 5. 23, 24. 1 Cor. 5. 8. Gal. 6. 10. 1 Ioan 4. 20. Mae ffydd a chariad yn myned law yn llaw, a chariad brawdol yn brawf ein bod wedi myned drwodd o farwolaeth i fywyd. 1 Ioan 3. 14. A rhoddai Crist hyn fel nôd yn aml, wrth yr hwn y gellid adnabod ei ddysgyblion ef. Gwel 1 Ioan. Mae cariad at ein *gelynion* yn angenrheidiol am ei fod yn cael ei orchymyn gan Dduw. Math. 5. 44. Rhuf. 2. 14; a hefyd, am ein bod yn rhwym i ddilyn siampl Crist,

yr hwn a faddeuodd i ni pan oeddym yn elynion ac yn annuwiol. Eph. 4. 34. Col. 3. 13.

Sylw 337.—*Rhaid i bawb a fynont gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd, eu holi eu hunain mewn perthynas i'w hufudd dod newydd.*

Rhaid i'r sawl a fynont gymmuno yn deilwng eu holi eu hunain a yw eu hufudd-dod yn deillio oddiar egwyddorion newyddion, yn cael ei gyflawni wrth rëol newydd, ac mewn modd newydd, a'i gyfeirio i ddyben newydd.

1. Y mae ufudd-dod newydd yn codi oddiar *egwyddorion newyddion*,—hyny yw, y mae yn cael ei gyflawni, nid o ofn cosb ddyfodol, ond oddiar ffydd yn awdurdod y Deddfwr mawr, a chariad at ei wasanaeth.

2. Y mae ufudd-dod newydd yn cael ei gyflawni wrth *rëol newydd*,—y rhëol y mae y credadyn yn ei dilyn yn ei ufudd-dod yw "perffaith gyfraith rhyddid,"—holl ewyllys datgudd-iedig Crist, cynnwysedig yn yr Ysgrythyrau; ac nid ei ewyllys ei hun, neu ddychymygion dynion, Esa. 8. 20.

3. Mae ufudd-dod newydd yn cael ei gyflawni mewn *dull newydd*,—hyny yw, mae y credadyn yn ymddibynu ar gadernid y cyfammod, gan ei fod yn gweled na's medd ddim ei hun; mae yn ymddibynu ar Grist am gymeradwyaeth o hono ei hun a'r hyn a wna; ac nid oes ganddo ddim ymddiried yn ei weithredoedd ei hun am gyfiawnder ger bron Duw.

4. Mae ufudd dod newydd yn cael ei gyfeirio i *ddyben newydd*,—hyny yw, nid yw y credadyn yn gwneyd yr hyn a wna er mwyn y byd, nag enw yn y byd, yr hyn yw dyben y rhai nid adwaenant Dduw; ond er gogoniant Duw, I Cor. 10. 31; ac yn ail i hyny, er eu daioni penaf eu hunain ac eraill, Matt. 5. 16.

Gallwn sylwi yma na's gall neb roddi yr ufudd-dod hwn hyd oni byddo ei natur wedi eu hadnewyddu neu ei hadgenhedlu trwy yr Ysbryd Glan; canys y mae yn rhaid gwneyd y pren yn dda yn gyntaf cyn y gall ei ffrwyth fod yn dda.

Pan y mae ufudd-dod o'r rhyw hwn, y mae yn *gyffredinol*, neu yn golygu holl orchymynion Duw; er fod yn anmhosibl ufuddhau i un o honynt yn berffaith; y mae yn ufudd-dod unffurf,—hyny yw nid yw yn cael ei gyfyngu i ryw dymhorau neillduol, ond fe'i cyflawnir bob amser: mae yn ufudd-dod *parod*, hyny yw, nid trwy orfodaeth neu ofn cosbedigaeth y mae yn cael ei weithredu; mae yn ufudd-dod a gyflawnir yn y *dirgel*, pan na's gwel neb ond Duw, cystal ag yn y cyhoedd, pan fyddo llygaid eraill arnom; ac y mae yn ufudd-

dod tufewnol, neu ufudd-dod y *galon*, cystal ag ufudd-dod y fuchedd a'r ymarweddiad allanol.

Mewn trefn i gyfrannogi yn deilwng o Swper yr Arglwydd, y mae ufudd-dod newydd yn anhebgorol angenrheidiol, oblegid na all y rhai ydynt yn nghyflwr natur, y rhai ydynt estroniaid oddiwrth Dduw, ac ymarweddiad y rhai sydd yn wrthwyneb i ufudd-dod newydd, feddu cymmundeb a Duw sanctaidd yn y fath ordinhad sanctaidd. Ac heblaw hyny, y mae yn amlwg fod sancteiddrwydd yn anhebgorol i gael gweled Duw, Heb. 12. 14.

Sylw 338.—*Mae y sawl sydd yn esgeuluso y ddyledswydd o hunan-ymholiad, mewn perygl i gymmuno yn annheilwng, ac felly fwytta ac yfed barnedigaeth iddynt eu hunain.*

Heb hunan-ymholiad ni's gall neb ddyfod yn adnabyddus ar eu cyflwr ger bron Duw; ni's gallant wybod a feddant hwy hawl i neshau at fwrdd yr Arglwydd ai peidio: rhaid iddynt fod yn anadnabyddus o'u hangenion, a pha fodd y gellid eu cyflenwi: o'u pechodau, ac am hyny yn glynu wrthynt; o'u grasusau, ac am hyny heb amlygu un awydd am gynnyddu mewn gras. Mae y rhai ydynt yn dyfod at fwrdd yr Arglwydd yn y cyfryw agwedd, yn rhwym o fod *yn bwytta ac yn yfed barnedigaeth iddynt eu hunain*; hyny yw, trwy fwytta ac yfed yn annheilwng y maent yn gwneyd yr hyn sydd yn eu rhoddi yn agored i farn Duw;—i farnau *tymhorol*, neu gystuddiau yn y byd hwn, ac i farn *dragywyddol*, neu ddamnedigaeth yn y byd a ddaw, oni ragflaenir hwy gan drugaredd, 1 Cor. 11. 30—32.

Gallwn sylwi yma, fod pethau eraill heblaw hunan-ymholiad na's gwiw eu hesgeuluso yn ein parottöad at Swper yr Arglwydd; megis gweddïo ar Dduw am ei bresenoldeb a'i fendith, ac am gynnorthwy ei Ysbryd; darllen llyfrau da a fyddont yn cynnwys sylw ar ddyoddefiadau Crist, ac yn benaf rhanau cyfaddas o'r Ysgrythyrau; myfyrdod difrifol, er cyffröi ein serchiadau, ac enyn ein grasusau i ymarferiad bywiog.

Gall yr un perygl gyfodi o esgeulusiad y dyledswyddau hyn ag sydd yn deillio o esgeuluso hunan-ymholiad; canys y maent oll yn angenrheidiol er cyfrannogi yn deilwng o'r ordinhad hon. Ond, wedi y cwbl a allwn ni ei wneyd yn y ffordd yma, ni's gwiw i ni roddi dim dibyniaeth ar ein parottöad, ond ymddibynu yn unig ar ras Duw i weithio ein holl waith ynom ac erddom.

Sylw 339.—*Dylai crefyddwyr fod mewn agwedd meddwl addas pan wrth fwrdd yr Arglwydd.*

Pan yn eistedd wrth fwrdd yr Arglwydd, ac yn cyfrannogi

o'r elfenau sacramentaidd, dylem ystyried ein bod nid yn unig yn mhresenoldeb ein cyd greaduriaid, y rhai y gellir eu twyllo a ffug sancteiddrwydd, ond yn ngŵydd yr Hollalluog Dduw ei hunan, yr hwn ni's gellir ei dwyllo, i lygaid yr hwn y mae ciliau dirgelaf ein calonau yn agored, a'r hwn a ddywedodd y derfydd am obaith y rhagrithiwr. Am hyny nyni a ddylem gadw gŵyl, nid a hen lefain, nac a lefain malais a drygioni; ond a bara croyw *purdeb a gwirionedd*, 1 Cor. 5. 8; gan fod yn feddiannol ar naws meddwl, ysbrydol a duwiol, cystal a gweddeidd dra mawr mewn ymddygiad allanol. Dylem ymdrechu i alltudio gofalon y byd, darostwng pob meddwl pechadurus ac annheilwng, a chyssegru ein holl sylw at y gwasanaeth sanctaidd sydd yn myned yn mlaen. Dylem lawenhau ein bod yn cael cyfrannogi o'r fath ragorfraint fawr, a llawenhau mewn dychryn, pan feddyliom mor anheilwng ydym i'w mwynhau. Dylem fyfyrio gyd a'r serchawgrwydd a'r diolchgarwch mwyaf gwresog ar nodwedd, dyoddefaint a marwolaeth y Prynwr graslawn, yr hwn a ddywedodd, "Gwnewch hyn er côf am danaf." Dylem feddu golygiadau ffyddiog ar yr iawn mawr a offrymodd efe dros gamwedd, a gwybod a theimlo, ein bod, pan yn bwytta bara ac yn yfed gwin, yn cyd synio yn y modd difrifolaf a'r cyfammod trugarog a sanctaidd a seliodd efe a'i waed. Dylem yn awr gyflwyno ein heneidiau a'n cyrph, ein calonau a'n bywydau i'r hwn a'n carodd, ac a'i rhoddes ei hun drosom, Gal. 2. 20. A dylem benderfynu, uwch ben y côf arwyddion o'i angau, ac yn nerth dwyfol ras, i ogoneddu Duw yn ein cyrph a'n hysbrydoedd, y rhai sydd eiddo ef, 1 Cor. 6. 20, trwy ymwadu â mwynderau pechadurus;—trwy berffeithio sancteiddrwydd yn ofn yr Arglwydd, 2 Cor. 7. 1; a thrwy fyw, hyd y mae ynom ni, mewn heddwch a chariad â phawb.

Sylw 340.—*Mae hunan-ymholiad yn angenrheidiol wedi cyfrannogi o Swper yr Arglwydd cystal a chyn hyny.*

Bod hunan-ymholiad yn angenrheidiol wedi cymmundeb, sydd amlwg oddiwrth y rhanau canlynol o'r Ysgrythyr, 1 Cor. 11. 31, 32; Gal. 6. 4; 2 Ioan 8; Ioan 16. 31. Trwy yr ymarferiad yma nyni a allwn wybod rhywbeth am danom ein hunain, pa fodd yr ymddygasom tuag at Dduw, a pha fodd yr ymddygodd Duw tuag attom ninnau. Os darfu i ni gymmuno yn *annheilwng*, hyny yw, os oeddym yn ddi-deimlad yn wyneb y darluniad o Grist wedi ei groeshoelio; os meddyliau gwageddol a bydol oedd yn myned a'n bryd, ac os aethom trwy y gwasanaeth fel ffurf yn unig, gan ofalu mwy am fod yn gymer-

adwy gyd a'n cyd-greaduriaid nac yn ngŵydd Duw; nyni a ddylem chwilio pa beth a fu yr achos o'n haflwydd; dylem ymostwng yn ddirfawr o herwydd ein heuogrwydd; dylem ei gyffesu, a galaru o'i herwydd ger bron Duw, ac ymwneyd o'r newydd a'r gwaed hwnw sydd yn glanhau oddiwrth bob bechod; a dylem benderfynu trwy ras Duw, fod yn fwy diwyd yn ein hymbarottöad am yr amser dyfodol. Os galluogwyd ni i gymmuno yn *deilwng;* hyny yw, os galluogwyd ni i syllu trwy ffydd ar Iesu Grist wedi ei groeshoelio, fel unig sail ein gobaith ger bron Duw; os galluogwyd ni i edrych ar yr hwn a wanasom, a galaru yn dduwiol; os galluogwyd ni mewn rhyw fesur i'w garu ef, yr hwn yn gyntaf a'n carodd ni, ac a'i rhoddes ei hun drosom: os nerthwyd ni i garu y rhai sydd hoff ganddo ef er ei fwyn ef, ac i faddeu i'n gelynion oblegid maddeu o hono ef i ni; ac os y cawsom fodd i benderfynu yn nerth Dwyfol ras i'w wasanaethu ef yn fwy diwyd rhagllaw,—nyni a ddylem fod yn ddiolchgar iddo ef yr hwn yw Awdwr pob daioni, a phriodoli ein llwyddiant i ras Duw yn unig, ac nid i ddim ynom ein hunain; a dylem ddychwelyd cariad ac ufudd-dod diolchgar iddo, trwy fod yn ofalus i gyflawni ein haddunedau, a chadw y cyfammod a adnewyddasom. Ond, rhaid i ni gofio yn wastadol fod ein cymmuno mwyaf teilwng yn cael ei ddilyn âg amherffeithrwydd a halogrwydd, ac am hyny fod yn rhaid i ni ymwneyd â Iesu Grist am ein golchi wedi y Swper, os amgen nad oes i ni gyfran ynddo ef. Dylem ystyried ar y cyfryw adeg hefyd, pa un a ddarostyngwyd rhyw bechod; a farweiddiwyd rhyw chwant; a nerthwyd rhyw benderfyniad; a benderfynwyd rhyw amheuaeth; a chwalwyd rhyw ofn; a symmudwyd rhyw demtasiwn; a orfuwyd rhyw elyn; a gyflenwyd rhyw angen; a dderbyniwyd rhyw oleuni; a gynnyddwyd ffydd; a ennynwyd cariad, a fywioccäwyd gobaith; a burwyd ein serchiadau; mewn gair, a amlygodd yr Arglwydd ei hun i ni yn wahanol i'r modd y mae yn ei amlygu ei hun i'r byd.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd o hunanymholiad er gwybod pa un a ydym ni yn Nghrist ai peidio. 2. Y mŷn yr Arglwydd ei sancteiddio yn y rhai a nesäant atto ef. 3. Bod sefyllfa yr enaid yn teilyngu y sylw mwyaf difrifol. 4. Bod yr ordinhad Swper yr Arglwydd wedi ei hamcanu i rai sanctaidd yn unig,—i'r rhai ydynt mewn cyfammod â Duw. 5. Yr angenrheidrwydd o ufuddhau i orchymyn Crist, "Gwnewch hyn er côf am danaf." 6. Y perygl o nesâu at yr ordinhad hon heb ymbarottöad,—neu o ymddiried yn ein parottöadau.

DOSP. 3.—AM WEDDI FEL MODDION GRAS,—DAN YR HWN YR YSTYRIR NATUR GWEDDI, A'R RHEOL O GYFARWYDDYD A RODDIR I NI YN NGWEDDI YR ARGLWYDD.

## *Am natur Gweddi.*

### HOL. 98. BETH YW GWEDDI?

Cyflwyniad ein deisyfiadau i Dduw am bethau cyttunol a'i ewyllys ef yn enw Crist, gyda chyfaddefiad o'n pechodau, a dïolchgar gydnabyddiaeth o'i drugareddau ef.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Fod gweddi yn cynnwys cyflwyniad ein deisyfiadau i Dduw, Ps. 62. 8, "O bobl, tywelltwch eich galon ger ei fron ef."

2. Y rhaid cyflwyno gweddi am y pethau ydynt gytunol âg ewyllys Duw yn unig, 1 Ioan 5. 14. "Ei fod ef yn ein gwrando ni, os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef."

3. Bod yn rhaid cyflwyno ein gweddi i fynu yn enw Crist, Ioan 16. 23. "Pa bethau bynag a ofynoch i'r Tad yn fy enw, efe a'u rhydd i chwi."

4. Bod yn rhaid cyflwyno ein gweddi i fynu gydâ chyffes o'n camwedd, Dan. 9. 4. "A gweddïais ar yr Arglwydd fy Nuw, a chyffesais."

5. Fod yn rhaid cyflwyno gweddi ynghyda dïolchgarwch, Phil. 4. 6. "Yn mhob peth, mewn gweddi ac ymbil gyda dïolchgarwch, gwneler eich deisyfiadau chwi yn hysbys ger bron Duw."

EGLURHAD.

Sylw 341.—*Gweddi yw cyflwyniad ein deisyfiadau i Dduw.*

Gan fod gweddi yn rhan o addoliad crefyddol, y gwrthddrych a ddylai gael ei addoli gan bawb, yw y gwrthddrych yr hwn y dylai pawb weddïo arno; ac y mae yn ddiddadl mai *Duw* yw hwnw,—Duw Dad, Mab, ac Ysbryd Glan, Mat. 4. 10. Duw yn unig a ddylai fod gwrthddrych gweddi; oblegid mai efe yn unig a all chwilio calonau, a phrofi arenau plant dynion; efe yn unig yw gwrandawr gweddi, gan ei fod yn hollbresenol; ac efe yn unig a all faddeu pechodau, a chyflawni dymuniadau pawb, Salm 145. 18, 19.

Darlunir gweddi yma fel *cyflwyniad ein deisyfiadau i Dduw;* ac yn hyn y mae gwir natur gweddi yn gynnwysedig. Pan fyddom yn cyfarch Duw rhaid ei fod mewn dull tra gwahanol i'r modd y cyfarchwn ein cydgreaduriaid. Nid gwiw i ni ei orchymyn ef; ond rhaid i ni *gyflwyno* ein deisyfiadau iddo, fel yr unig ffordd i gael cyflenwi ein deisyfiadau. Gelwir gweddiau yma yn *ddeisyfiadau,* oblegid y gall fod llawer o siarad lle ni byddo deisyfiadau; a geiriau y genau heb ddymuniadau y galon, nid ydynt ond sŵn gwag yn nghlustiau Gwrandawr gweddi. Ac fe ddywedir ein bod yn eu *cyflwyno,* oblegid mai offrymau ysbrydol yw gweddiau, y rhai sydd raid eu hoffrymu i Dduw yn unig, 1 Pedr 2. 5. 2 Bren. 17. 36.

Os mynem i'n gweddiau fod yn gymeradwy ger bron Duw, rhaid eu cyflwyno mewn modd cymeradwy, yr hyn a gynnwys amryw bethau. Rhaid i ni weddio dan ymsynied difrifol o'r mawrhydi Dwyfol, mewn iaith ddealladwy, 1 Cor. 14. 15, 19; gyda dwys deimlad o'n anheilyngdod a'n anghenion ein hunain, Gen. 18. 27. a 32. 10. Luc 15. 18, 19; a 18. 13;—Gyda chalonau edifeiriol a diolchgar, Salm 51. 17; â ffydd, Heb. 11. 6. Math. 21. 22. Marc 11. 24. Iago 1. 6;—yn ddiffuant, Salm 145. 18. Jer. 29. 13;—yn wresog, Iago 5. 16;—mewn cariad, 1 Tim. 2. 8; wrth hyn yr ydym i ddeall dymuniad difrifol am fwynhad o bresenoldeb Duw gyda ni, ac ymhyfrydiad gwirioneddol ynddo ef fel yr unig ran a ddiwalla ein henaid, Salm 73. 25. Esa. 25. 9;—yn ddyfal Ephes. 6. 18. Rhuf. 12. 12. Math. 15. 22—28; ac y mae yn rhaid i ni weddio gan ddisgwyl wrth Dduw mewn ymostyngiad i'w ewyllys ef, Mica 7. 7. Math. 26. 39.

Gallwn sylwi yma, nad y *dyben* mewn golwg wrth weddio ar Dduw, a ddylai fod i'w hysbysu ef o'n hangenion; canys y mae efe yn eu gwybod yn well na ni ein hunain, Salm 139. 4; nid fel y cyfnewidiom ei feddwl mewn perthynas i ni, neu ei dueddu at ddim yr oedd efe o'r blaen yn anfoddlon i'w gyfranu, canys gydag ef nid oes gyfnewidiad, na chysgod troedigaeth; ond y mae yn rhaid i ni weddio arno ef, am ei fod yn gorchymyn i ni wneyd, gan ein cymhell yn daer i hyny, fel y cyfrano i ni yr hyn y gwyddom ei fod yn barod i'w roddi, 2 Cron. 7. 14. Salm 105. 4. Math. 7. 7. Luc 18. 1. Phil. 4. 6. Col. 4. 2. 1 Pedr 1. 17. 1 Ioan 5. 14.

Sylw 342.—*Rhaid i ni weddio am y pethau ydynt unol â'g ewyllys Duw yn unig.*

Nid ydym i weddio am gyflawniad unrhyw ddymuniadau pechadurus, Iago 4.3. Ond gallwn, a dylem weddio ar Dduw

am y pethau sydd yn ol ei ewyllys ef yn unig, 1 Ioan 5. 14, 15. Eto nid ydym i weddio am bob peth sydd yn ol ei ewyllys *ddirgeledig* ef; canys y mae pob peth sydd yn cymeryd lle, hyd yn nod y pechodau mwyaf, yn ol cyngor a phenderfyniad dirgel Duw; ond nyni a allwn weddio am bob peth sydd yn unol â'i ewyllys ddatguddiedig ef, neu yr holl bethau hyny yr addawodd Duw eu cyfranu; ac y mae hyny yn cynnwys yr holl drugareddau tymhorol ag ysbrydol sydd arnom eu heisiau, Ioan 3. 33. Math. 6. 33. Salm 34. 10. Esay 33. 16. Eto, dylem roddi y flaenoriaeth i drugareddau ysbrydol yn ein gweddiau; canys fel hyn y dywed yr Arglwydd, "Ceisiwch yn *gyntaf* deyrnas Dduw, a'i gyfiawnder ef, a'r holl bethau hyn a roddir i chwi yn ychwaneg." Math. 6. 33.

Sylw 343.—*Rhaid offrymu gweddi yn enw Crist, ac mewn ymddibyniad ar gynnorthwy yr Ysbryd Glan.*

Rhaid i'n deisyfiadau gael eu cyflwyno i Dduw *yn enw Iesu Grist*. Mae hyn yn fwy na chrybwyll enw Crist yn niwedd neu ryw ran arall o'n gweddiau; ond crybwyll ei enw trwy ffydd, gan ymddibynu arno ef yn unig am ddyfodfa at Dduw, ac am gymeradwyaeth ac attebiad grasol i'w gweddiau, Ephes. 3. 12.

Y mae cyflwyno ein deisyfiadau i Dduw yn enw Crist, yn anhebgorol angenrheidiol, oblegid fod Duw mor sanctaidd a chyfiawn, a ninnau mor ansanctaidd a phechadurus; a'n gweddiau ar y gorau yn gymmysgedig a llawer o anmherffeithrwydd a phechod, fel na's gall ein personau na'n gweddiau fod yn gymeradwy gyda Duw, ond trwy haeddiant a chyfryngdod yr Arglwydd Iesu Grist, Dat. 8. 3, 4.

Gallwn sylwi yma, mai Iesu Grist yw yr unig Gyfryngwr, yn enw yr hwn y gallwn nesâu at Dduw; canys nid oes neb yn y nef nac ar y ddaear wedi ei appwyntio i'r gwaith gogoneddus hwn, nac yn gymhwys iddo, ond Iesu Grist; "Ac un Cyfryngwr rhwng Duw a dynion, y dyn Crist Iesu." 1 Tim. 2. 5. Gwel hefyd Ioan 14. 13, 14; a 15. 16; a 16. 23. Ephes. 5. 20. Colos. 3. 17. Heb. 13. 15.

Rhaid i'n deisyfiadau gael eu cyflwyno i Dduw mewn ymddibyniad ar *gynnorthwy yr Ysbryd Glan*. Mae hyn yn anhebgorol angenrheidiol cyn y gallwn weddio mewn modd addas a chymeradwy. Yr Ysbryd, y Dyddanydd, sydd yn cynnorthwyo ein gwendidau ni, sydd yn dysgu pob peth i ni, ac yn dwyn pob peth ar gôf i ni,—ein hangen, a'r unig ffordd yn yr hon y gellir ei wneyd i fyny; ac efe hefyd sydd yn dwyn yr addewidion gwerthfawr i'r meddwl, ar y rhai y gallwn ymorphwys yn

ein dynesäad at Dduw; trwy y rhai y gallwn gael sicrwydd, os gofynwn, na'n danfonir ymaith yn weigion. Rhuf. 8. 26, 27.

Sylw 344.—*Rhaid offrwm gweddi ynghyda chyffes o'n pechod.*

Y mae *cyffesu ein pechodau* yn ein hadgofio o'n cyflwr gwirioneddol, fel pechaduriaid, wrth natur a thrwy ymarferiad. Ac ar y cyfrif hwn y mae yn rhan dra angenrheidiol o weddi; canys os mynem weddio am drugaredd, ni's gallem wneyd hyny yn gymhwys heb gydnabod ein gwir gyflwr, fel rhai heb haeddu ond y trueni eithaf, yn llwyr annheilwng o'r drugaredd leiaf oddiwrth yr Arglwydd. A gellid sylwi, lle y byddo gwir deimlad o euogrwydd, y bydd yno hefyd gyffes ddiragrith o euogrwydd, Ezra 9. Dan. 9. Nehem. 9.

Mewn ffydd y bydd i'n hanwiredd gael ei faddeu, rhaid i ni gyffesu ein *pechod gwreiddiol*, yr hwn yw gwreiddyn ein holl bechodau gweithredol, Salm 51. 5; a'n *pechodau gweithredol* hefyd, o ommeddiad ac o gyflawniad, y rhai ydynt afrifaid. Rhaid i ni gyffesu ein pechodau yn erbyn Duw, yn erbyn ein cymmydog, ac yn ein herbyn ein hunain; ein pechodau yn erbyn dwy lech y ddeddf Ddwyfol; ein pechodau mewn meddwl, gair, a gweithred; a'r pechod sydd barod i'n hamgylchu, canys y mae gan bob un rhyw bechod i'r hwn y mae yn neillduol dueddol. Mewn gair, pob pechod, heb eithriad, yr hyn y gwybyddwn ei fod yn bechod; pob pechod, mawr neu fach; pob pechod pa mor anadnabyddus bynnag i bawb o'n hamgylch; er na byddo yn wybyddus i neb ond Duw ei hun a ninnau;—rhaid i ni eu cyffesu yn onest; canys heb hyn ni's gwelwn byth ein hanneilyngdod o'r drugaredd leiaf, pan yn cyfarch Duw mewn gweddi. Mae cyffesu ein pechodau yn anhebgorol angenrheidiol oblegid y rhesymau canlynol;— 1. Oni chyffeswn ein pechodau, trwy y rhai y mae Duw wedi ei ddïanrhydeddu yn fawr, a chydnabod ein heuogrwydd, ni's gellir dweyd ein bod yn cyfiawnhau Duw pan yn myned yn ein herbyn mewn ffordd o gosbedigaeth. 2. Oni bydd cyffes o bechod ni's gall fod trugaredd; canys dyma yr addewid, "Yr hwn a gyfaddefo ei bechodau ac a'u gadawo a gaiff drugaredd." Diar. 28 13. 3. Po mwyaf y'n darostyngir dan ymsynied o bechod, mwyaf parod a fyddwn i dderbyn cymmwynasau Dwyfol â chalonau diolchgar, ac yn enwedig y drugaredd annrhaethol o faddeuant pechodau, Salm 32. 5, 6.

Pan fyddom yn cyffesu ein pechodau y mae yn gweddu i ni ystyried pa fodd y dylem eu cyffesu; canys nid yw pob rhyw gyffes o bechod yn gymmeradwy gyda Duw. 1. *Cyffesu pechod a'i garu*, nid yw yn gyffesu cywir ger bron Duw. Mae y

meddylrith o gyffes, yn arwyddocau cywilydd, a gofid a chasineb; a phan fyddo y pethau hyn yn dilyn ein cyffes, yn unig y gallwn goledd gobaith am faddeuant, Luc 18. 13. Job 34. 32. 2. *Nid yw cyffesu pechod a'u guddio*, yn gyffesu cywir. Gwneir hyn pan addefir rhai pechodau; ond nid pob pechod; pan y cyffesir rhai pechodau, ond nid yn eu holl ysgelerder; pan y cyffesir rhai pechodau, ond yr esgusodir pechodau eraill; neu pan y cyffesir rhai pechodau, ond y cyfiawnheir pechodau eraill, Diar. 28. 13. 3. *Nid yw cyffesu pechod trwy drais, yn anewyllysgar*, yn gyffesu cywir. Gall llawer o bethau ddygwydd i beri cyffesu pechod ar lawer achlysur; ond oni bydd cyffes yn berffaith rydd a gwirfoddol, ni's gellir ei gyfrif yn deillio o galon ddrylliog ac ysbryd gostyngedig.

Sylw 345.—*Rhaid i weddi gael ei hoffrymu gyda chydnabyddiaeth ddiolchgar o drugareddau Duw.*

Bod *diolchgarwch* yn angenrheidiol sydd eglur oddiwrth Phil. 4. 6. Salm 103, a 116. 17; ac aneirif ranau eraill o'r Ysgrythyr. Mae *trugaredd* yn golygu y truenus; ac fel y mae dyn wedi ei wneyd ei hun yn druenus, y mae yn wrthddrych trugaredd; a gelwir y bedithion angenrheidiol er ei wneyd yn happus, yn *drugareddau*. Gan hyny, gall pob rhodd a dderbynio dyn, alw i'w gof ei drueni. Gelwir y trugareddau a dderbyniwn yn *drugareddau Duw*, am eu bod yn dyfod oddiwrth Dduw, "Tad trugareddau," yr hwn a ragluniodd drefn trugaredd; ac y maent yn dyfod i ni fel rhad roddion, 1 Tim. 6. 17.

Mae y trugareddau y dylem ni fod yn ddiolchgar am danynt *o natur ysbrydol* neu *dymhorol*,—trugareddau yn dwyn perthynas a'r bywyd sydd yr awrhon, neu a'r hwn a fydd. *Trugareddau ysbrydol*, a gynnwysant bob peth cyssylltedig ag Iachawdwriaeth fawr, o'r rhoddiad gan Iesu Grist o hono ei hunan hyd y drugaredd leiaf o natur ysbrydol (ond nid oes drugaredd fechan) sydd yn dyfod i yn ffordd y cyfammod, Ephes. 1. 3.

*Trugareddau tymhorol*, ydynt y rhai a dderbyniasom ganddo o'r bru hyd yn awr, erddom ein hunain, ac er eraill, â'r rhai y dichon ein bod mewn cyssylltiad, trwy rwymau natur, gras, neu ddïolchgarwch. Dylem fod yn ddiolchgar am y rhai hyn oll. Ac er y dylem fod yn neillduol ddiolchgar am y trugareddau a dderbyniasom ein hunain, eto dylem ymuno ag eraill i foli Duw am drugareddau a dderbyniasant hwy, megys y dylent hwythau ymuno â ninnau, Salm 139. 14. Mae diolchgarwch i Dduw am ei drugareddau yn anhebgorol angenrheidiol, am y rhesymau canlynol;—1. Fel y byddo trugareddau

yn fendithion i ni yn yr arferiad o honynt; canys ni allwn ddysgwyl bendith i'w dilyn, tra fyddom ni heb galon i'w cydnabod. 2. Am fod hyny yn ddyledswydd arnom i Dduw, Hos. 14. 2. 3. Oblegid bod diffyg cydnabyddiaeth o drugareddau a dderbyniwyd, yn brif ffordd i'n hattal i dderbyn ychwaneg, Esa. 1. 15. Pan y mynem yn ddiolchus gydnabod y trugareddau aneirif ac anmhrisiadwy a dderbyniasom gan yr Arglwydd, dylai gael ei ddilyn a'r pethau canlynol:—1. A *synediyaeth*, fod y fath garedigrwydd yn cael ei ddangos at greaduriaid mor anheilwng, y rhai ydym lai na'r lleiaf o drugareddau yr Arglwydd. 2. Ag *ymostyngiad enaid* dirfawr, am fod y fath drugareddau wedi eu tynu o drysorau y nefoedd, a'u cyfrannu i ni, y rhai nid ydym deilwng o'r ffafr leiaf oddiwrth yr Arglwydd. 3. A *dymuniad gwresog*, i wneyd y defnydd gorau o honynt, trwy yr hyn y gogoneddir Duw, ac y gwneir lles i'n brodyr o ddynolryw.

Sylw 346.—*Mae gweddi yn gyffredin yn cael ei gwahaniaethu yn ddirgel, neillduol, a chyhoeddus.*

1. *Gweddi ddirgel* yw neillduaeth unigolion dros amser oddiwrth bob ymwneyd ag eraill, fel y caffont gyfleusdra yn rhyddach i dywallt eu calonau ger bron Duw, Math. 6. 6; a 14. 23; a 26. 37—39. Dan y rhyw yma y cynnwysir *saeth weddi*, sef dyrchafiad dirgel a disymwth ein deisyfiadau at Dduw, pan y dichon ein bod mewn rhyw amgylchiadau neillduol, o'r rhai y gallwn ni ein hunain farnu oreu. A gellir dweyd ein bod yn gweddio fel hyn, pan fyddom yn dyrchafu ein meddwl at Dduw yn unig, heb arfer unrhyw eiriau, neu trwy eiriau yn y meddwl, heb eu torri allan mewn llais, Neh. 2. 4. 1 Sam. 1. 13.

2. *Gweddi neillduol*, sydd weddi a wneir yn mysg rhai Cristionogion wedi cyfarfod er cyd adeiladaeth y naill y llall, a chydymarfer â gweddi. Dan y pen hwn y cynnwysir *gweddi deuluaidd*, yr hon a ddylai fod mewn ymarferiad gan bob teulu, Jer. 10. 25, lle y'n hysbysir o druenus gyflwr yr holl rai a esgeulusant y ddyledswydd hon. Dan y pen yma hefyd y cynnwysir *gweddi gymdeithasol*, wrth yr hyn y golygwn weddi rhwng ychydig bersonau perthynol i amryw deuluoedd, y rhai a gyd ymgyfarfyddant o bryd i bryd fel cymdeithas er adeiladaeth ysbrydol eu gilydd, trwy weddio ac ymddiddan am bethau ysbrydol. Tebygid fod hyn yn cael ei gymeradwyo yn Mal. 3. 16, 17.

3. *Gweddi gyhoeddus* sydd ran o addoliad cyhoeddus Duw, yn yr hwn yr ydym yn ymuno pan gyfarfyddom, yn ol gosod-

iad Dwyfol, yn gynnulleidfäol; a phan fyddo un wedi ei awdurdodi i bregethu yr efengyl, yn gweithredu fel genau y gynnulleidfa i offrymu dymuniadau y gynnulleidfa i Dduw, am bethau yn ol ei ewyllys ef. A phan fyddom yn ymuno fel hyn mewn gweddi gyhoeddus, y mae yr un peth a phe byddai bob un o honom yn bersonol yn offrymu ein deisyfiadau i Dduw; neu, fel pe byddai y deisyfiadau a ddeuant o enau y llafarwr yn cael eu hoffrymu genym ein hunain.

Sylw 347.—*Y mae modd i ni gael gwybod fod ein gweddiau yn cael eu gwrando a'u cymeradwyo.*

Pe byddai yn anmhossibl i ni ddod i wybod a ydyw ein gweddiau yn cael eu gwrandaw gan "Wrandawr gweddi," byddai yr ymarferiad yma yn ddiles i fesur mawr, ac ni's gallem dderbyn nemawr ddyddanwch oddiwrthi. Gall dau beth ein boddloni ar hyn, sef, os galluogwyd ni i fod yn daer mewn gweddiau ar Dduw am unrhyw beth, ac os ar yr un pryd y cyrhaeddasom ymostyngiad i ewyllys Duw mewn perthynas i'r peth hwnw; yna nyni a allwn benderfynu fod ein gweddi wedi cael gwrandawiad grasol, 2 Cron. 20. 12—19.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Fod gweddi yn ymarferiad cymhwys i bawb; ei bod yn ddyledswydd angenrheidiol, ac yn rhagorfraint fawr. 2. Oddiwrth bwy, a thrwy bwy y mae ein trugareddau yn dylifo. 3. Bod angen am ffydd mewn gweddi. 4. Nad yw pob gweddi yn gymeradwy, na llawer o weddiau byth yn cyrhaedd yr orsedd. 5. Y dylem ni fod yn neillduol ofalus am gyffesu ein camweddau. 6. Onid yw ein gweddi yn cael ei hatteb mai ein bai ein hunain yw yr achos. 7. Bod y sawl sydd yn esgeuluso y ddyledswydd hon yn gwrthwynebu gorchymyn eglur. 8. Bod perygl y sawl a esgeulusant weddi deuluaidd yn fawr, Jer. 10. 25; lle y'u cyd restrir a'r paganiaid; ac o ganlyniad ni's gallant fod yn Gristionogion ond mewn proffes yn unig. Yn wir, y maent yn waeth na phaganiaid, canys yr oeddynt hwy yn argyhoeddedig o'r angen am y ddyledswydd hon wrth oleuni natur; oblegid yr ydym yn darllen fod gan bob teulu eu duwiau teuluaidd, ar y rhai y gweddient hwy a'u plant. Ond gan fod gweddi deuluaidd yn rhan bwysig o grefydd deuluaidd, a bod lle i feddwl ei bod yn cael ei hesgeuluso yn fawr y dyddiau hyn gan rai a ymgyfenwant yn Gristionogion, nyni a ymhelaethwn ychydig ar y casgliad yma. Gan hyny, dywedwn am y rhai sydd esgeulus o'r ddyledswydd yma, nad ydynt yn credu fod yr ysgrythyrau

yn Air Duw; mae yn wir y gallant addef eu bod felly; ond nid ydynt yn credu yn ddiffuant mai Gair Duw ydynt. Er enghraifft, nid ydynt yn credu y rhan o'r ysgrythyr a ddyfynnodwyd eisoes, sef y bydd i Dduw dywallt ei lid ar y teuluoedd nid ydynt yn galw ar ei enw ef; canys pe y'u credent, nid esgeulusent y ddyledswydd hon. Ond y mae gwrthod rhan o'r ysgrythyrau, neu y rhanau hyny o honynt na byddont yn esmwyth i'n tueddiadau naturiol ni, yr un peth a gwrthod y cyfan. Mae y Cristion cywir yn credu fod yr holl ysgrythyr yn Air Duw, er fod llawer rhan o honynt yn gwrthwynebu ei dueddiadau naturiol ef; ac y mae yn ymdrechu drwy nerth Dwyfol ras i gyflawni pob dyledswydd a orchymynir; ac efe a ŵyr bod addoliad teuluaidd yn un. Ond, eto, y mae y sawl ydynt yn esgeuluso y ddyledswydd hon yn byw mewn trosedd parhaus o'r pummed a'r chweched gorchymyn o'r ddeddf foesol;—O'r Pummed, yr hwn sydd yn gofyn i rïeni hyfforddi eu plant yn athrawiaethau a dyledswyddau crefydd, a gweddïo gyda hwy a throstynt; ac o'r Chweched Gorchymyn, yr hwn sydd nid yn unig yn gwahardd i ni ddwyn ein bywyd naturiol ein hunain, neu yr eiddo eraill; ond, yn ol ei arwyddocaäd ysbrydol hefyd, yn gorchymyn i ni wneyd yr hyn a allom er meithrin bywyd ein heneidiau ein hunain a'r eiddo eraill. Gan hyny y mae yn amlwg y rhaid fod y rhïeni hyny na's gwnant eu goreu er achub eneidiau eu plant yn dra chalon galed; o herwydd mewn gwirionedd y maent yn gwneyd a allont i'w dystrywio; canys y mae yn hawdd i ni goelio, na bydd yr hwn sydd yn esgeulus o grefydd deuluaidd, a nemawr o ofal arno am gadw ei deulu rhag cydymffurfio ar byd hwn,—hyny yw, rhag dilyn ei opiniynau, ei ddefodau, ei bleserau, cariad at ba rai sydd mor annghyttun a chariad at Dduw;—"Na cherwch y byd, na'r pethau sydd yn y byd. O châr neb y byd, nid yw cariad y Tad ynddo ef,"—1 Ioan 2. 15. Gan hyny, y mae y sawl sydd yn esgeuluso y ddyledswydd o addoliad teuluaidd yn meddu prawf sicr ac anffaeledig nad yw yn meddu gwir ofal am iachawdwriaeth ei enaid ei hun na'r eiddo eneidiau ei deulu. Ond, yn mhellach, y mae y rhai a ymgyfenwant yn Gristionogion tra yn esgeulus o'r ddyledswydd hon yn euog o ragrith dirfawr. Maent yn cymeryd arnynt addoli Duw yn gyhoeddus, pan y mae llygaid eu cyd greaduriaid arnynt; ond, pan yn y dirgel, neu yngwydd Chwilliwr y calonau yn unig, maent yn esgeuluso crefydd yn hollol,—ni phlygant y glin i'r hwn a'u gwnaeth. Mae y cyfryw yn meddu enw eu bod yn fyw, ond marw ydynt,—marw ysbrydol; ac oni bydd iddynt ystyried eu ffordd, a dychwelyd at yr Arglwydd,

ac at eu dyledswydd, hwy a fyddant yn fuan yn farw dragywyddol. Gan hyny, bydded i'r rhai ydynt yn esgeuluso crefydd deuluaidd ddechreu ymafael yn y ddyledswydd hon, mewn gostyngedig ymddibyniad ar ras Duw, gan gofio yn wastadol, na's gall neb esgeulus o honi fod yn wir Gristionogion. Er nad oes un gorchymyn pendant am dani yn yr Ysgrythyr; eto ni a gawn ei bod yn cael ei hymarfer gan y saint, yr hyn sydd yn gyffelyb i orchymyn; ac yn ddiau fe ddylai y rhai a fynent fod yn Gristionogion ymdebygu i Grist, yr hwn nid esgeulusai y ddyledswydd hon, ond a weddïai gyd a'i ddysgyblion, y rhai oedd ei deulu ef; ac heblaw hyny, y mae hon fel y crybwyllwyd yn barod, yn ddyledswydd ag y mae rhwymedigaeth iddi yn eglur yn ngoleuni natur ei hunan.

## *Am y Rheol er cyfarwyddyd mewn gweddi.*

HOL. 90. PA REOL A RODDES DUW I'N CYFARWYDDO MEWN GWEDDI?

Mae holl air Duw yn ddefnyddiol i'n hyfforddi mewn gweddi; ond y rheol neillduol er cyfarwyddyd, yw y ffurf o weddi a ddysgodd Crist i'w ddysgyblion, a elwir yn gyffredin "Gweddi yr Arglwydd."

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Ein bod mewn angen am reol i'n cyfarwyddo mewn gweddi. Rhuf. 8. 26. "Canys ni wyddom ni beth a weddïom megis y dylem."

2. Bod holl Air Duw yn ddefnyddiol i'n cyfarwyddo mewn gweddi. 1 Ioan 5. 14. "Ei fod ef yn ein gwrando ni, os gofynwn ddim yn ol ei ewyllys ef." Gwel hefyd Ioan 15. 7.

3. Mai Gweddi yr Arglwydd yw y rheol neillduol a roddwyd i ni er ein hyfforddiad mewn gweddi. Mat. 6. 9. "Gweddïwch chwi fel hyn: "Ein Tad," &c.

### EGLURHAD.

Sylw 348 —*Mae arnom ni eisiau rheol i'n hyfforddi mewn gweddi.*

Bod arnom *eisiau ein cyfarwyddo* mewn gweddi a ymddengys yn amlwg pan ystyriom y pethau canlynol:—

1. Natur Duw. Fel y mae Duw yn mhell uwchlaw dirnadaeth creaduriaid, ac mai trwy y goleuni a gyfrenir ganddo ef ei hunan yn unig y gellir ei weled ef; felly y mae arnom eisiau

cyfarwyddyd dïogel mewn gweddi pan fynem alw ar ei enw ef. Iddo ef yn unig y dylem wneuthur ein deisyfiadau yn hysbys, eithr oni byddwn yn ei adnabod, ni's gallwn ei ogoneddu ef yn hyn o ran.

2. Natur dyn. Mae dyn yn droseddwr euog, collfarnol; ac o ganlyniad dylai nesau at Dduw yn wylaidd. Ond ni's gall wneuthur hyny yn brïodol heb reol i'w gyfarwyddo, gan ei fod mor anadnabyddus o hono ei hun.

3. Y gallwn ni gyfeiliorni yn ddirfawr am ddefnydd ein gweddïau, ac felly luddias eu llwyddiant. Pe na's meddem un cyfarwyddyd mewn gweddi, gallem fod yn barod i weddïo am yr hyn ni chynnwysir mewn gorchymyn nag addewid, ac felly ni byddai ein gweddïau yn gymeradwy.

4. Y gallwn ni gyfeiliorni yn fawr hefyd am y dull yn yr hwn y dylem weddïo. Heb reol, buasem yn sicr o edrych dros y peth rheitiaf er gwneuthur ein gweddïau yn wasanaeth cymeradwy; sef cyfryngdod Crist, trwy yr hwn yn unig y gall ein gweddïau fod yn gymeradwy, a chynnorthwy yr Ysbryd Glan, swydd yr hwn yw cynnorthwyo ein gwendid ni, a'n dysgu pa fodd y dylem weddïo.

5. Y perygl yr ydym ynddo i gael melldith yn lle bendith oni bydd ein gweddïau yn ol ewyllys Duw. Gan hyny y mae cyfarwyddyd mewn gweddi yn dra angenrheidiol; a dylem foliannu yr Arglwydd am roddi rheol i'n cyfarwyddo. Ond, y mae yn gweddu i ni gofio, mai cymhorth *allanol* yn unig yw y rheol hon er ein cyfarwyddyd, ac er ei bod yn ddigonol i'r perwyl hyny; y mae rhyw beth mwy yn anhebgorol cyn y gallwn ni weddïo yn gymeradwy. Pa gymhorth *allanol* bynnag a feddom, y mae yn rhaid i ni wrth gymhorth *tufewnol* yr Ysbryd Glan, heb yr hwn ni's gallwn weddïo fel y dylem. Rhuf. 8. 26. Rhodd Duw yw y cymhorth tufewnol yma hefyd, a bendith a addawodd efe i'w eglwys; ac y mae yr addewid yma yn cael ei chyflawni i holl had Jacob, y rhai ydynt yn gweddïo yn yr ysbryd, ac a wyddant na's gallant ddywedyd yr *Arglwydd* Iesu ond trwy yr Ysbryd Glan.

Sylw 349.—*Mae holl Air Duw yn ddefnyddiol i'n cyfarwyddo mewn gweddi.*

Wrth holl Air Duw yr ydym i ddeall yr holl ddatguddiad Dwyfol a gynnwysir yn Ysgrythyrau yr Hen Destament a'r Newydd, y rhai a roddes Duw i ni fel rheol gyffredinol o gyfarwyddyd mewn gweddi. Yn y Gair y'n hysbysir y dylem weddïo; yma y cawn bob peth angenrheidiol er ein cynnorthwyo mewn gweddi, bob amser, ar bob achlysur, drosom ein

hunain, a thros eraill; yn mha amgylchiad bynnag y gallwn ni neu hwy fod; oddiyma y cawn gyflawnder o bob defnydd angenrheidiol i weddi—i bob rhan o weddi, a hefyd â'r cyfarwyddiadau mwyaf angenrheidiol a chyfaddas am y dull yn yr hwn y dylid gweddïo; a thrwy Air Duw y llenwir ein geneuau a'r geiriau a ddylid eu defnyddio mewn gweddi; fel na raid ein bod yn fyr o ymadroddion prïodol i'w defnyddio pan yn nesau at orseddfainc y gras.

Sylw 350.—*Gweddi yr Arglwydd yw y rheol neillduol a roddwyd i ni er ein cyfarwyddyd mewn gweddi.*

Mae *y ffurf hono o weddi*, yr hon yw y *rheol neillduol* er ein cyfarwyddyd pan yn cyfarch gorsedd gras, yn cael ei galw *Gweddi yr Arglwydd*, oblegid ei bod wedi ei thraddodi gan yr Arglwydd Iesu Grist, mewn attebiad i'r deisyfiad canlynol o eiddo ei ddysgyblion, "Arglwydd dysg i ni weddïo, megys y dysgodd Ioan i'w ddysgyblion," Luc 11. 1. Ond, a llefaru yn fanol, nid *Gweddi yr Arglwydd* ydyw, gan na's gallasai efe ddefnyddio pob rhan o honi drosto ei hunan. Ni allasai efe ddefnyddio y pummed eirchiad, "Maddeu i ni ein dyledion;" canys nid oedd ganddo bechod i'w faddeu gan mai sanct Duw ydoedd, a'i fod yn sanctaidd, diddrwg, dihalog, a didoledig oddiwrth bechaduriaid.

Gellir profi na roddes ein Harglwydd y weddi hon i'w harfer gan ei bobl yn yr holl oesoedd dylynol fel *ffurf*, oddiwrth yr hon nid oeddynt i osgoi, ond yn unig fel *cynllun* o weddi, amryfal ranau yr hon a allent eu gwisgo yn iaith yr Ysgrythyr, neu mewn iaith gyfaddas i'r amgylchiadau neillduol y byddont ynddynt oddiwrth amryw ystyriaethau: 1. Nid yw y weddi hon yn cynnwys holl ranau gweddi yn *bendant;* er y gall fod felly trwy gasgliad. Nid oes un crybwylliad uniongyrchol o gyffes o bechod, a diolchus gydnabyddiaeth o drugareddau, nac o enw Crist fel cyfryngwr, ac o'i ddioddefiadau a'i angau, yr hyn sydd i'w ystyried fel y sail ar yr hon y gorphwys ein gweddïau, a thrwy yr hyn yn unig y byddant yn gymeradwy. 2. Ni's gellir defnyddio hon fel *ffurf*, oddiwrth yr hon ni's gellir osgoi, oblegid fod yr efengylwyr Matthew a Luc, y rhai a'i croniclant yn gwahaniaethu yn eu geiriad o honi, yr hyn ni's gwnaethent yn ddiau pe buasai wedi ei hamcanu gan Grist i fod fel *ffurf* yn unig. 3. Yr ydym yn cael amryw weddïau yn y Testament Newydd, y rhai a arferid wedi hyny gan Grist a'i apostolion; ond heb fod yr un o honynt wedi eu geirio yn iaith y weddi hon, nac yn cael eu diweddu a hi; yr hyn nid yw yn ddadl wan yn erbyn yr angenrheidrwydd o ddefnyddio

geiriau y weddi hon fel ffurf wastadol, Act. 1. 23; a 4. 24. Ephes. 1. 24. 1 Thes. 3. 11. Heb. 13. 20. Ioan 17. Ond er nad ydym yn rhwym i arfer y weddi hon fel ffurf osodedig oddiwrth yr hon ni's gallwn osgoi, nyni a allwn arfer ei geiriau fel gweddi ar Dduw megys rhanau eraill o'r Ysgrythyr, ond gwneuthur hyny â deall, ffydd, a pharch, a'r grasusau eraill ydynt angenrheidiol er cyflawniad prïodol a chymeradwy o'r ddyledswydd o weddio; ac y gellir ei defnyddio felly sydd amlwg, Luc 11. 2.

Mae y cynllun yma o weddi yn gynnwysedig o dair rhan, y rhagymadrodd, chwe eirchiad, a diweddglo. *Y rhagymadrodd* yw, "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd;" y *diweddglo*, "Canys eiddot ti yw y deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd;" a'r *eirchion* sydd yn gwneyd i fynu y gweddill o honi. Yn y tri eirchiad cyntaf yr ydym yn gweddïo am ffyniant anrhydedd Duw; ac yn y tri olaf yr ydym yn gweddïo am ein dedwyddwch ei hunain. Yr ydym i weddïo yn gyntaf am anrhydedd Duw, er dangos fod hyny i gael y blaen ar ein dedwyddwch ein hunain, ac yn ffynhonell o hono oll, 1 Cor. 10. 31. Ac nid oes ond un eirchiad am drugareddau tymhorol, sef y pedwerydd, i ddangos y dylem fod yn fwy dyfal wrth orsedd y gras am drugareddau ysbrydol nag am rai tymhorol.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Yr angenrheidrwydd am weddi. 2. Daioni Duw yn ein cyfarwyddo i weddio. 3. Y dylem drysori Gair Duw. 4. Pechod y rhai sydd yn esgeuluso gweddi, gan fod y fath gymhorth yn arlwyedig i ni. 5. Nad oes gan y rhai ydynt esgeulus o hyn un esgus.

## *Am y rhagymadrodd i weddi yr Arglwydd.*

HOL. 100. PA BETH Y MAE Y RHAGYMADRODD I WEDDI YR ARGLWYDD YN EI DDYSGU I NI?

Mae y rhagymadrodd i weddi yr Arglwydd (sef "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,") yn ein dysgu i nesau at Dduw gyda pharch a hyder sanctaidd, fel plant at dad galluog a pharod i'w cynnorthwyo: ac y dylem weddïo gydag eraill a throstynt.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai y rhagymadrodd i Weddi yr Arglwydd yw, "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd," Math. 6. 9.

2. Y dylem nesau at Dduw mewn gweddi gyda pharch sanctaidd, Heb. 12. 28. "Bydded genym ras, trwy yr hyn y gwasanaethom Dduw wrth ei fodd, gyda gwylder ac a pharchedig ofn." Gwel hefyd Salm 145. 19.

3. Y dylem nesau at Dduw mewn gweddi gyda hyder sanctaidd, Ephes. 3. 12, "Yn yr hwn y mae i ni hyfdra a dyfodfa mewn hyder."

4. Y dylem nesau at Dduw mewn gweddi fel ein Tad, Rhuf. 8. 15. "Derbyniasoch Ysbryd mabwysiad, trwy yr hwn yr ydym yn llefain Abba Dad."

5. Y dylem nesau mewn gweddi at Dduw fel un galluog i'n cynnorthwyo, Ephes. 3. 20, "I'r hwn a ddichon wneuthur yn dra rhagorol, y tu hwnt i bob peth yr ydym ni yn eu dymuno neu yn eu meddwl."

6. Y dylem nesau at Dduw mewn gweddi fel un ewyllysgar i'n cynnorthwyo, Math. 7. 11. "Pa faint mwy y rhydd eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd bethau da i'r rhai a ofynant iddo?"

7. Y dylem ni ymuno ag eraill mewn gweddi, Act. 12. 12. "Lle yr oedd llawer wedi ymgasglu, ac yn gweddïo."

8. Y dylem weddïo dros eraill, 1 Tim. 2. 1, "Cynghori yr ydwyf am hyny, yn mlaen pob peth, fod ymbiliau, gweddiau, deisyfiadau, a thalu dïolch dros bob dyn."

#### EGLURHAD.

Sylw 351.—*Trwy y rhagymadrodd i Weddi yr Arglwydd, "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd," fe'n dysgir y dylem nesau at Dduw gyda phob parch a hyder sanctaidd, fel plant at dad galluog ac ewyllysgar i'n cymhorth.*

Gall fod Duw yn cael ei alw yn *Dad*, ddangos i ni pa fodd y dylem gyfarch gwrthddrych pob addoliad crefyddol. Wrth weddio ar Dduw, dylem grybwyll rhyw rai o'i enwau, ei deitlau, ei brïodoliaethau, yn gyfaddas i natur ein neges ar y pryd. A phan wneler hyn mewn modd parchus, dylai ein hattal i ruthro i'w ŵydd yn anystyriol, ac amddifaid o synied teilwng am ei fawrhydi anfeidrol.

Mae Duw yn *Dad* pawb yn y golygiadau canlynol;—1. Mae yn Dad i bob dyn trwy greadigaeth a chenhedlaeth. Mal. 2. 10. Act. 17. 28. Num. 16. 22. 2. Gellir ei ystyried fel Tad aelodau eglwysig, trwy berthynas cyfammod allanol, pan y mae yn eu doniaw â datguddiad o'i ewyllys o'r nef, yn rhoddi ei enw yn eu mysg, ac yn ei gynnyg ei hun iddynt. Ac yn y goleu yma y gellir ein golygu ni fel cenedl. 3. Mae mewn modd neillduol yn Dad credinwyr trwy adgenhedliad a mab-

wysiad; ac am hyny y dywedir eu bod wedi eu geni o Dduw, a'u gwneyd yn gyfrannogion o'r duwiol anian, eu bod wedi derbyn ysbryd mabwysiad, a'u gwneyd yn gyfrannogion o ragorfreintiau ei blant. Pan fyddom yn galw Duw "Ein Tad," dynodir ein ffydd ynddo fel un yn dwyn y fath berthynas agos ac anwyl â ni. Ond nid yw hyn yn rhoi ar ddeall i ni fod yn rhaid i ni ddweyd *Ein* Tad bob amser pan yn gweddio yn y dirgel, ac na oddefir i ni ddweyd *Fy* Nhad; canys nyni a allwn honi perthynas bersonol â Duw, a dywedyd *Fy Nhad*; Jer. 3. 4, 19. Ps. 18. 1, 2. a 89. 26.

Oddiwrth yr ymadrodd "*Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd*," nid ydym i gasglu fod presenoldeb Duw yn gyfyngedig i'r *nef*; canys ni all nefoedd y nefoedd ei gynnwys ef. Y mae efe yn bresenol yn mhob man, ac yn llenwi nefoedd a daear. Ond, gellir dweyd ei fod yn y nefoedd, am ei fod yno mewn modd neillduol, a bod ei ogoniant yn cael ei amlygu yno gyflawnaf. Dylai yr ystyriaeth yma ein harwain i feddu meddyliau dyrchafedig am fawrhydi Duw, yr hwn er ei fod yn cael ei addoli gan holl luoedd y nefoedd, sydd yn ymostwng i sylwi arnom ni, bechadurus feibion dynion, sydd yn preswylio y ddaear, ei droedfainc ef, 1 Bren. 8. 27.

Mae y rhagymadrodd yma yn ein dysgu o'r angenrheidrwydd ein bod pan yn nesau at Dduw yn ymddwyn fel plant yn nesau at ein tad. 1. Trwy yr ymadrodd, "Yr hwn wyt yn y nefoedd," fe'n dysgir i nesau at Dduw *gyda phob parch sanctaidd*, o herwydd y pellder anfeidrol sydd rhyngddo ef a ni, gan mai nid ein tad daiarol ydyw, ond ein Tad yr hwn sydd yn y nefoedd. Preg. 5. 2. Trwy y gair "Ein Tad," fe'n dysgir i nesau at Dduw *gyda hyder* yn ei allu a'i barodrwydd i'n cynnorthwyo; a hefyd a'r teimladau mabaidd o ddymuniad, cariad, a hyfrydwch, fel plant at eu tad, Rhuf. 8. 15. Ephes. 3. 20. Math. 7. 11. Gan mai trwy Grist yn unig y gallwn ni nesau at Dduw, felly trwyddo ef yn unig y gallwn nesau yn hyderus, Ephes. 3. 12. Dylem feddu yr hyder yma yn y radd helaethaf; ond rhaid i ni ochel rhyfyg, yr hwn sydd ysbryd tra gwahanol i'r hyder hwnw y caniatteir i ni ei feddu wrth nesau mewn gweddi at ein Tad nefol. Mae gwir hyder yn gweithio y rhai a'i meddant i ymddiried yn drwyadl yn Nuw, fel un *galluog a pharod i'w cynnorthwyo*; yr hwn hyder sydd yn deillio o'i holl ddigonolrwydd, a'i haelioni annherfynol, fel y mae yn amlygedig i ni yn addewidion y cyfammod newydd, y rhai oll ydynt yn ie, ac amen yn Nghrist, Luc 11. 13. Ps. 84. 11. Phil. 4. 19.

Gallwn sylwi yn mhellach, fod ysbryd y rhagymadrodd

hwn yn ein harwain i gredu fod adnabyddiaeth achubol o Fab Duw, ac o'i Ysbryd ef yn anhebgorol angenrheidiol cyn y gallwn ddywedyd yn iawn, "Ein Tad yr hwn wyt yn y nefoedd." Ioan 1. 12. Eph. 2. 18. Gal. 4. 6. Rhuf. 8. 26. Mae yn ein dysgu hefyd, na's gall neb alw Duw yn *Dad* yn ystyr uchaf y gair, ond y rhai a adgenhedlwyd. Onid ydym yn blant Duw trwy adgenhedliad a mabwysiad, y mae yn anmhossibl i ni alw Duw yn "Dad," neu "Ein Tad yn y nefoedd," yn yr ystyr fanylaf; na bod genym hawl o ragorfreintiau ei deulu.

Ond gellir sylwi yma, er na's gall dynion diadgenhedledig alw Duw eu *Tad* yn ystyr fanylaf y gair, nad yw hyny yn un rheswm na ddylent hwy weddïo. Mae gweddi yn ddyledswydd rwymedig ar bawb; y mae yn un o ddyledswyddau crefydd natur, ac yn un y cospir y sawl a'i hesgeuluso yn ofnadwy, Jer. 10. 25. Ac er nad edrych yr Arglwydd ar weddi fel dyledswydd a gyflawnir gan y diadgenedledig; gan mai anmhossibl yw rhyngu bodd Duw heb ffydd, eto fe ddichon y bydd iddo edrych arni fel ei ordinhad ei hun, yr hyn yn ddiau sydd reswm digonol pa ham y dylai pawb geisio cyflawni y ddyledswydd hon. Y mae llwyr esgeuluso gweddi yn bechod mawr; mwy na phe y'i cyflawnid yn annrhefnus.

Sylw 252.—*Trwy y rhagymadrodd i weddi yr Arglwydd, "Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd," fe'n dysgir y dylem weddïo gydag eraill, a throstynt.*

Mae yr ymadrodd "Ein Tad," yn arwyddo na wiw i ni anghofio eraill pan fyddom yn gweddïo ar Dduw; ond ein bod i weddïo gyda hwy a throstynt. Gweddïo *gydag* eraill yw bod yn enau i eraill at Dduw, neu ymuno â hwy mewn addoliad teuluaidd neu gymdeithasol. A gweddïo *dros* eraill yw amlygu ein gofal am danynt, neu ein cydymdeimlad â hwy ger bron Duw, mor ddiffuant a chywir ag y buasem yn gwneyd drosom ein hunain pe buasem yn yr unrhyw amgylchiadau. Ps. 35. 13. Dylem ddatgan ein cydymdeimlad â hwy, fel rhai agored i'r cyffelyb brofedigaethau ag angenion a ninnau, fel plant yr un Tad, a chyfrannogion o'r un natur, ac fel rhai yn dysgwyl derbyn yr un etifeddiaeth.

Mae amryw ddosbarthiadau o ddynion dros y rhai y dylem weddïo. Rhaid i ni offrymu ein deisyfiadau.—1. Dros holl *Eglwys Crist* ar y ddaear, fel y byddont oll yn un ynddo ef, yr hwn yw pen gogoneddus Sïon; ac fel y cynnyddont iddo ef yn mhob peth, hyd oni ddelont oll yn undeb ffydd ac adnabyddiaeth o Fab Duw, yn wr perffaith, at fesur oedran cyflawnder Crist, Eph. 4. 13. 2. Dros *freninoedd a barnwyr*, neu

bawb mewn awdurdod arnom, 1 Tim. 2. 1—3. 3. Dros *weinidogion yr efengyl*, Rhuf. 15. 30. Dros ein *brodyr*, wrth y rhai yr ydym i ddeall aelodau yr Eglwys weledig, a'n holl gyd ddynion, 1 Ioan 4. 21. 5. Dros y *genedl* y perthynwn iddi, 6. Dros y *lle* y mae ein coelbren wedi disgyn ynddo. 7. Dros y *gynnulleidfa* yn yr hon yr ydym yn arfer addoli Duw, Jer. 29. 7. 8. Dros ein *ceraint* agos, neu ein cyfathrach, Job 1. 5. 2 Bren. 6. 17. Gen. 24. 12. 9. Dros ein *gelynion*, Matt. 5. 46. a 6. 12, 14, 15. 10. Dros y rhai a fyddant byw ar ein hol ni, Salm 102. 18, a Ioan 17. 20, lle y gweddiai Crist dros y rhai a gredent yn ei enw ef yn ol llaw.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Ddedwyddwch y rhai y mae Duw yn Dad iddynt. 2. Drueni yr holl rai ni's gallant alw Duw *eu* Tad. Na's gall fod gweddi gymeradwy heb ffydd. 4. Er hyny, mai dyledswydd pawb yw ufuddhau i Dduw yn hyn. 5. Ein bod yn rhwym o weddïo gydag eraill a throstynt. 6. Anrhydedd y saint. 7. Nad saint yw pawb a ymddangosant felly.

## *Ar yr Archiad Cyntaf yn Ngweddi yr Arglwydd.*

HOL. 101. AM BA BETH YR YDYM YN GWEDDIO YN YR ARCHIAD CYNTAF?

Yn yr Archiad Cyntaf, "Sancteiddier dy enw," yr ydym yn gweddïo ar i Dduw ein galluogi ni ag eraill i'w ogoneddu ef yn mhob peth y bu yn wiw ganddo ei amlygu ei hun ynddo; ac am iddo drefnu pob peth i'w ogoniant ei hun.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai yr eirchiad cyntaf yn Ngweddi yr Arglwydd yw, "Sancteiddier dy enw," Matt. 6. 9.

2. Ein bod yn analluog o honom ein hunain i ogoneddu Duw, 2 Cor. 3. 5, "Nid o herwydd ein bod yn ddigonol o honom ein hunain i feddwl dim megis o honom ein hunain; eithr ein digonedd ni sydd o Dduw."

3. Y dylem weddio ar i Dduw ein galluogi i'w ogoneddu, Salm 51. 15, "Arglwydd, agor fy ngwefusau, a'm genau a fynega dy foliant."

4. Y dylem weddio ar i Dduw alluogi eraill i'w ogoneddu,

**Salm 67. 3, "Molianned y bobl di, O Dduw; molianned yr holl bobl dydi."**

**5. Y dylem weddio ar i Dduw drefnu pob peth i'w ogoniant ei hun, Ioan 12. 28. "O Dad, gogonedda dy enw."**

EGLURHAD.

Sylw 353.—*Trwy yr eirchiad cyntaf yn Ngweddi yr Arglwydd, "Sancteiddier dy enw," fe'n dysgir i weddio ar i Dduw ein galluogi ni ac eraill i'w ogoneddu ef yn mhob peth trwy yr hyn y mae yn ei amlygu ei hun.*

Gallwn sylwi yma, fod yr eirchiad yma gyd a'r prïodoldeb mwyaf wedi eu gyfleu yn gyntaf, oblegid fod enw Duw a'r anrhydedd a'r gogoniant a berthyn iddo yn werthfawrocaf yn ei olwg, ac y dylai fod felly yn ein golwg ninnau. Onid ydyw ein hamcan penaf i sancteiddio enw Duw, ni's gallwn iawn ddefnyddio y weddi hon; ac ni's gallwn gydag unrhyw brïodoldeb gyflwyno yr eirchion eraill i Dduw.

Wrth *enw* Duw yr ydym i ddeall yma, bob peth trwy yr hyn yr amlygodd efe ei hun i'w greaduriaid; megis ei enwau, ei deitlau, ei brïodoliaethau, ei ordinhadau, ei air, a'i weithredoedd; ac yn fwy neillduol, wrth *enw* yr ydym i ddeall yma *Duw ei hunan;* canys nyni a gawn weithiau fod *personau* yn cael dynodi trwy *enwau*, Dat. 3. 4. Ac efallai mai y rheswm pa ham y mae *enw* yn cael ei roddi am Dduw ei hun yw, yr anmhossiblrwydd i gael gair yn cynnwys yr oll ag yw efe.

Wrth *sancteiddio* enw Duw yr ydym i ddeall ei ogoneddu, neu ei *sancteiddio*, Lef. 10. 3. "Mi a sancteiddir yn y rhai a nesânt attaf a cher bron yr holl bobl y'm gogoneddir." Felly y mae *sancteiddio* a *gogoneddu* yn ymadroddion o gyffelyb ystyr. Gan hyny, pan fyddom yn gweddio am i enw Duw gael ei *sancteiddio*, nid ydym i ddeall y gellir ei *wneyd yn sanctaidd*, canys y mae yn anfeidrol sanctaidd; ond meddwl yr eirchiad yw, bod i sancteiddrwydd ei enw gael *ei amlygu neu ei ddatgan yr hyn ydyw mewn gwirionedd*, yn anfeidrol sanctaidd; bod iddo amlygu hyn i'r byd fwy fwy, fel yr ymddangoso yn Dduw anfeidrol ogoneddus, er cyffroi y parch sydd wir deilwng iddo.

Mae yr eirchiad yma yn arwyddo fod enw Duw yn cael ei sancteiddio ganddo ef *ei hun*, a bod yn rhaid iddo gael ei sancteiddio trwy y creaduriaid a wnaeth efe.

1. Mae enw Duw yn cael ei sancteiddio ganddo ei hun yn ngwaith y greadigaeth a rhagluniaeth, ond yn neillduol yn ngwaith y prynedigaeth. Gogoneddai Duw ei hunan yn ei ddull o ymddwyn tuag at ein rhieni cyntaf, cyn rhoddi un am-

naid o'i drugaredd a'i ras yn yr addewid o Iesu Grist: yn yr addewid o Waredwr, yn yr hwn y bendithid holl deuluoedd y ddaear; yn etholiad Abraham a'i had, fel ei bobl neillduedig; yn ei waith yn peri i'r Gwaredwr ddisgyn o hono ef yn ol y cnawd; yn yr addewidion o'r Messiah a wnaed ganddo o bryd i bryd; yn ymddangosiad gweithredol Iesu Grist yn y byd hwn yn nghyflawnder yr amser, gan gyflawni y prophwydoliaethau o'r dechreuad; yn ei ddwyn trwy y gwaith caled o brynedigaeth dyn ar y ddaear, ac yn ei adgyfodiad a'i ddyrchafiad; yn anfoniad yr Ysbryd i ddwyn gwaith Crist yn mlaen ar y ddaear hyd ei ail ddyfodiad; ac yn y moddion a ddefnyddiodd efe i ledaenu yr efengyl trwy y byd. Ac y mae yn ymogoneddu eto, trwy ei gadw yn y byd er pob gwrthwynebiad a thrwy yr hyn y mae Crist ei hunan yn ei wneuthur ar ran ei bobl. Mewn gair, y mae Duw yn ymogoneddu yn mhob rhan o waith y prynedigaeth; yn mhob cam o iachawdwriaeth pob pechadur; yn null ei ddychweliad, ei oleuo, ei gyfiawnhau, a'i sancteiddio, mewn cynnydd gras, a pharäd hyd y diwedd, a gogonéddiad yn y diwedd; gan ei fod wedi ei brynu trwy waed yr Oen a laddwyd er seiliad y byd.

2. Rhaid i enw Duw gael ei sancteiddio gan ei greaduriaid. A gellir gwneyd hyn mewn amryfal ffyrdd:—(1.) Yr ydym yn gogoneddu enw Duw yn ei *enwau*, *teitlau*, a *phrïodoliaethau*, pan yn meddwl ac yn son am danynt gyda pharch prïodol; pan y cydnabyddom eu bod yn anamgyffredadwy ogoneddus; a phan y'u gosodom o'n blaen, gan ymroddi i weithredu ffydd arnynt, fel yr eiddom oll. (2.) Yr ydym yn gogoneddu enw Duw yn ei *ordinhadau*, pan fyddom yn dysgwyl yn ddyfal wrth Dduw ynddynt; pan fyddom yn hiraethu am gymmundeb ag ef ynddynt; a phan yn eu defnyddio er ein maeth ysbrydol, a'n cynnydd mewn gras. (3.) Yr ydym yn gogoneddu ei enw yn ei *Air*, pan yn credu mai tystiolaeth Duw yw yr Ysgrythyrau,—yr unig ddatguddiad o'i feddwl a'i ewyllys i ddynolryw, yn yr hwn y mae ffordd iachawdwriaeth yn cael ei mynegi? a phan y'i gwelom yn rhëol ein ffydd a'n hufudd-dod. (4.) Yr ydym yn gogoneddu enw Duw yn *ngwaith y greadigaeth*, pan yn ystyried y pethau a wnaed fel gwaith bod anfeidrol ddoeth a galluog, a phan y'n harweinir i gydnabod ei dragywyddol allu ef a'i Dduwdod yn amlygedig ynddynt. Rhuf. 1. 20. (5.) Yr ydym yn gogoneddu enw Duw yn *ngweithredoedd rhagluniaeth*, pan yn meddu y fath ystyriaeth o'i drugareddau, ag a gynnyrcho ein diolchgarwch a'n cariad? pan fyddom yn crynu rhag ei farnedigaethau; a phan yn ei gyfiawnhau ef yn ei holl ffyrdd tuag attom. Gen. 32. 10. Sal. 119. 120. (6.) Yr

ydym yn gogoneddu enw Duw yn ardderchog *drefn y prynedigaeth*, pan yn derbyn, ac yn ymorphwys ar Grist yn unig am iachawdwriaeth, fel y mae yn cael ei gynnyg i ni yn yr efengyl; pan yr ymwrthodom a'n holl gyfiawnder ein hunain; a phan fyddom yn ofalus i ymarfer gweithredoedd da, fel yr harddom athrawiaeth Duw ein Hiachawdwr yn mhob peth.

Yr ydym yn gweddïo am i *eraill* gael eu *nerthu i ogoneddu Duw* pan fyddom yn gweddïo am i anrhydedd ei enw gael ei ddal allan ganddynt; fel y byddo i'r holl genhedloedd gael eu troi oddiwrth ddrwg a gwagedd at wasanaeth y Duw byw, fel y llanwer y ddaear o wybodaeth yr Arglwydd, fel y mae y dyfroedd yn töi y môr; ac ar fod i Dduw anfon yr efengyl at y rhai ydynt eto heb glywed y newyddion da am iachawdwriaeth drwy Grist Iesu, a pheri ei bod yn fwy llwyddiannus lle y mae eisoes.

Y rheswm pa ham yr ydym yn gweddio am i ni ag eraill, gael ein *galluogi* i ogoneddu neu sancteiddio enw Duw, yw, am fod pawb wrth natur yn hollol analluog ac amddifaid o duedd at hyny, fel y mae yn rhaid i ni gael ein galluogi a'n tueddu i roddi i Dduw y gogoniant dyledus i'w enw.

Sylw 354.—*Trwy yr eirchiad cyntaf yn Ngweddi yr Arglwydd " Sancteiddier dy enw," fe'n dysgir i weddïo ar i Dduw drefnu pob peth, i'w ogoniant ei hun.*

Nid ydys yn cadw gwir ystyr yr eirchiad hwn mewn golwg oddieithr ein bod yn gweddïo ar i Dduw, i'r hwn nid oes dim yn anmhossibl, amlygu ei allu gogoneddus yn symudiad pob peth, trwy yr hyn y dianrhydeddir ei enw, neu yr attelir ei enw rhag cael ei sancteiddio fel y dylai; ac ar fod iddo *drefnu pob peth er ei ogoniant ei hun.*

Mae Duw yn gogoneddu ei enw yn ngoruchwyliaeth ei ragluniaeth tuag at y *cyfiawn* a'r *drygionus* yn y modd canlynol:—

1. Gyda golwg ar y *cyfiawn*, y mae Duw yn dwyn gogoniant iddo ei hun oddiwrth eu *cwympiadau* a'u *gwrthgiliadau*, pan yn eu goruwch lywodraethu yn y fath fodd ag i'w gwneuthur trwy hyny yn fwy gostyngedig a gwyliadwrus rhagllaw; megys y bu gyda Dafydd, a'r apostol Pedr. Fel hyn, ac mewn llawer ffordd o'r fath, y mae yr Arglwydd yn goruwch-lywodraethu amgylchiadau yn mywydau y saint, er ei ogoniant ei hun; tra ar yr un pryd y maent oll yn cydweithio er daioni y rhai a garant ei enw bendigedig.

2. Gyda golwg ar yr *annuwiol;* y mae Duw yn trefnu pob peth er ei ogoniant ei hun, pan y mae yn ffrwyno ei elynion, a gelynion ei saint; pan y mae yn amddiffyn ei saint rhag

gwaradwyddiadau yr annuwiol, ac yn eu nerthu i oddef y gwaradwyddiadau hyn er ei fwyn ef, trwy gyfrannu gras yn ol eu hangen iddynt; a phan y gwaredo ei eglwys oddiwrth ormes, ac erledigaeth hyd angau.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Y dylai gogoniant Duw fod yn nod genym i gyrchu atto yn wastadol. 2. Bod y priodoliaethau Dwyfol yn ddefnydd dyddanwch i'r saint. 3. Yr angenrheidrwydd o ogoneddu Duw yn ei enwau, teitlau, priodoliaethau, ordinhadau, Gair, a gweithredoedd. 4. Dedwyddwch y rhai sydd yn gwneuthur sancteiddiad enw Duw eu prif nôd. 5. Trueni yr holl rai nid ydynt yn adnabod enw Duw, ac o ganlyniad, nid ydynt yn ei ogoneddu, neu ei sancteiddio.

## *Am yr Ail eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd.*

HOL 102. AM BA BETH YR YDYM YN GWEDDIO YN YR AIL EIRCHIAD.

Yn yr ail eirchiad,—" Deled dy deyrnas," yr ydym yn gweddio ar i deyrnas Satan gael ei dystrywio; ac ar i deyrnas gras gael ei llwyddo, a bod i ni ein hunain ag eraill gael ein dwyn iddi, a'n cadw ynddi; ac ar i deyrnas gogoniant gael ei phrysuro.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai yr ail eirchiad yn ngweddi yr Arglwydd yw, "Deled dy deyrnas." Math. 6. 10.

2. Bod gan Satan deyrnas yn y byd hwn, Ioan 14. 30. " Y mae tywysog y byd hwn yn dyfod, ac nid oes iddo ddim ynof fi."

3. Y dylem weddio am ddystrywiad teyrnas Satan, Ps. 68.1. " Cyfoded Duw, gwasgarer ei elynion, a fföed ei gaseion o'i flaen ef."

4. Bod Duw yn Nghrist wedi sefydlu teyrnas gras yn byd, Luc 1. 33. " Efe a deyrnasa ar dŷ Jacob yn dragywydd, ac ar ei freniniaeth ni bydd diwedd."

5. Y dylem weddio am ffyniant teyrnas gras, Esaiah 62. 7. " Na adewch ddistawrwydd iddo, hyd oni sicrhäo, ac hyd oni osodo Jerusalem yn foliant ar y ddaear."

6. Y dylem weddio am gael ein dwyn ein hunain i deyrnas rasol Crist, Luc 23. 42. " Arglwydd cofia fi pan ddelych i'th deyrnas."

7. Y dylem weddio am i eraill gael eu dwyn i deyrnas ei ras, Rhuf. 10. 1. "O frodyr, gwir ewyllys fy nghalon, a'm gweddi ar Dduw dros yr Israel, sydd er iachawdwriaeth."

8. Y dylem weddio ar i Dduw ein cadw yn ei freniniaeth rasol, Salm 119. 117. "Cynnal fi, a dihangol fyddaf; ac ar dy ddeddfau yr edrychaf yn wastadol."

9. Y dylem weddio ar i Dduw gadw eraill yn nheyrnas ei ras, 1 Thes. 5. 23. "A chadwer eich ysbryd oll, a'ch enaid a'ch corph yn ddiargyhoedd yn nyfodiad ein Harglwydd Iesu Grist."

10. Bod teyrnas gogoniant yn nesau i bobl Dduw, Dat. 22. 5. "Ac ni bydd nos yno; ac nid rhaid iddynt wrth ganwyll na goleuni haul; oblegid y mae yr Arglwydd Dduw yn goleuo iddynt; a hwy a deyrnasant yn oes oesoedd."

11. Y dylem weddio am i deyrnas gogoniant gael ei phrysuro, Dat. 22. 20. "Yr hwn sydd yn tystiolaethu y pethau hyn sydd yn dywedyd, Yn wir yr wyf yn dyfod ar frys. Amen. Yn wir, tyred, Arglwydd Iesu.

### EGLURHAD.

Sylw 355.—*Trwy yr ail eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, "Deled dy deyrnas," y'n dysgir i weddio ar i Dduw amlygu fwy-fwy, ei allu a'i arglwyddiaeth drwyadl ar bob peth.*

Gellir sylwi yma, y gall *teyrnas Dduw* gael ei hystyried yn ddeuryw:—

1. Ei *deyrnas hanfodol*, neu *gyffredinol*; wrth yr hyn yr ydym i ddeall y gallu a'r arglwyddiaeth trwyadl a chyffredinol hwnw a weithredir ganddo yn y nefoedd, ar y ddaear, ac yn uffern, er ei ogoniant, Salm 103. 19. Y mae y deyrnas hon yn cynnwys pob peth a gynnelir ganddo, o'r goleuad gogoneddusaf yn y nefoedd, hyd y gronyn lleiaf a chwareua yn mhelydr yr haul, ac o'r ymlusgiad dystadlaf ar y llawr, hyd yr archangel goruchaf sydd yn sefyll ger bron Duw.

2. Ei *deyrnas neillduol*, wrth yr hyn yr ydym i ddeall yn gyffredinol y llywodraeth a'r gofal a weithredir ganddo yn, a thros ei Eglwys, a'i bobl, fel cymdeithas neillduedig oddiwrth y byd, Salm 59. 13. Gellir golygu y deyrnas neillduol hon eto yn ddeublyg; *teyrnas gras*, a *theyrnas gogoniant*. A'r deyrnas neillduol hon a olygir yn benaf yn yr ail eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd.

Nid oes ond un golygiad yn yr hwn y mae yn gweddu i ni weddio am ddyfodiad *teyrnas hanfodol* neu *gyffredinol Duw*, sef bod i Dduw wneyd amlygiad helaethach o'i allu a'i arglwyddiaeth trwyadl ar bob peth; a bod i blant dynion gael eu dwyn

i gydnabod mai yr Arglwydd, y Goruchaf, sydd yn llywodraethu ar yr holl ddaear, Ps. 83. 18. Dan. 4. 17. Yn yr ystyr yma yn unig y gallwn ei ddeall; canys ni's meddwn ni un hawl i weddio ar i Dduw weithredu ei arglwyddiaeth gyffredinol, yr hyn ni's gall lai na'i wneyd, gan mai efe yw Crëydd a Chynhalydd pob peth. Ni's gallwn weddio am i Dduw fod yn bennadur anfeidrol, yr hyn ni's gall lai na bod; ac ni's gallwn weddio am iddo weithredu yn unol a'i natur, yr hyn ni's gall lai na gwneyd.

Sylw 356.—*Trwy yr ail eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, "Deled dy deyrnas," fe'n dysgir i weddio am i deyrnas Satan gael ei dystrywio.*

Teyrnas Satan yw y rhwystr mawr yn ffordd dyfodiad teyrnas Crist. Gan hyny er ffyniant teyrnas gras, y mae yn angenrheidiol anhebgorol i ni weddio am *ddystrywiad teyrnas Satan.* Ac yr ydym yn gwneyd hyn pan ydym yn attolygu i Dduw ddiwreiddio eilunaddoliaeth, coelgrefydd, cyfeiliornad, twyll, ewyllys-grefydd, anwybodaeth, a phob ryw ffieidd-dra, oddiar y ddaear; ar fod i Grist ysigo pen y sarph; ar iddo waredu eneidiau dynion o'i gaethiwed; a bod i'r rhai nid ydynt yn credu gael eu dwyn i gydnabod y gwirionedd fel y mae yn yr Iesu, neu i ufudd dod yr efengyl.

Er dinystrio teyrnas Satan y mae yn angenrheidiol i ni weddio yn neillduol am y pethau canlynol;—Gweddio am ddinystr *yr Annghrist* a *Mahomet,* dau elyn mawr teyrnas Crist. Dylem weddio am i'r dyn pechod gael ei ddifa gan anadl yr Arglwydd a'i ddystrywio gan ddysglaerdeb ei ddyfodiad ef; a bod i'r gau brophwyd gael ei ddymchwelyd fel na chyfodo mwy. Rhaid i ni weddio hefyd am i'r Iuddewon gael eu troi, a'u cynnull at y Siloh, yr hwn sydd wedi dyfod, ac eiddo yr hwn yw y deyrnas, a'r gogoniant, ar i'w llygaid gael eu hagor pan yn darllen Moses a'r prophwydi, a bod i'r llèn sydd ar eu calonau gael eu thynu ymaith fel y gwelont ag y deallont gymmaint y mae yr efengyl neu yr oruchwyliaeth Gristionogol yn ei ragori ar yr un Foesenaidd mewn gogoniant. A dylem weddio hefyd am i ben gael ei roddi ar yr ymbleidiau a'r ymraniadau sydd yn mysg cyfeillion proffesedig brenhiniaeth Crist; canys tra byddo y pethau hyn yn ffynu, y mae yn anmhossibl i'w deyrnas ddyfod hyd yn nod lle yr enwir ei enw ef.

Sylw 357.—*Trwy yr ail eirchiad yn ngweddi yr Arglwydd, "Deled dy deyrnas," fe'n dysgir i weddio am ffyniant teyrnas gras trwy ein dygiad ni ag eraill iddi.*

*Teyrnas gras* yn ei golygiad helaethaf a gynnwys yr holl rai

hyny i'r rhai y pregethir yr efengyl, neu y rhai ydynt aelodau o'r Eglwys weledig. Ac, er nad yw y cyfryw rai oll yn Nghrist,—er fod efrau yn gymmysgedig a'r gwenith,—er fod y duwiol, a'r annuwiol yn cyd addoli; eto, y mae y cyfryw rai oll yn bobl a gawsant ffafr gan yr Arglwydd mewn cydmariaeth i'r holl rai na chawsant y rhagorfraint o bregethiad yr efengyl; ac y maent hwy oll yn proffesu ymostyngiad i Grist fel eu Brenin, Ps. 2. 9; Eph. 1. 22, 23. Ac er fod rhai wedi cymeryd arnynt eu bod yn meddu goruchafiaeth ar y deyrnas hon, neu arglwyddiaeth ar yr Eglwys weledig, nid ydynt ond treiswyr ffiaidd; canys ni fedd neb pa mor fawr a sanctaidd bynnag y byddont, hawl i ymhòni o'r uchafiaeth a berthyn yn unig i'r hwn a ddyrchafodd Duw a'i ddeheulaw. Ond, a llefaru yn fanol, nid yw *teyrnas gras* mor ehang a hynyna; canys nid oes neb yn wir ddeiliaid y deyrnas yma ond y rhai a gredasant yn Nghrist,—y rhai a gawsant ei bywhau i Dduw, a'r rhai mewn gwirionedd a ddygwyd o deyrnas Satan i deyrnas anwyl Fab Duw; y rhai ydynt yn ddeiliaid gras, rhai y mae teyrnas Duw o'u mewn, ac yn y rhai y mae gras yn teyrnasu o'r dechreu i'r diwedd, i fywyd tragywyddol.

Rhaid i ni weddio am i'r deyrnas rasol hon ffynu mwy fwy yn mysg dynion, fel y llanwer y ddaear a gwybodaeth yr Arglwydd, megis y töa y dyfroedd y môr; ar fod i lawer o hiliogaeth euog Adda gael eu troi trwy foddion gras; ar fod Crist yn cael ei wobrwyo trwy gyfiawnhad llawer wedi eu cipio fel pentywynion o'r tân; ar fod y Tad yn anrhydeddu y Mab fwy fwy, trwy yr Ysbryd yn gwneuthur gair ei ras yn effeithiol; a bod i'r addewidion am gynulliad y bobl at y Siloh gael eu chwblhau, fel y gwelo y Gwaredwr o lafur ei enaid ac y'i diwaller.

Gellir dyweyd fod teyrnas gras *yn dyfod, pan fyddom ni ag eraill yn cael ein dwyn iddi*, trwy allu yr Ysbryd Glan yn dilyn moddion iachawdwriaeth, ac *yn cael ei gadw* yn y moddion trwy gyfraniadau parhaus o ras o gyflawnder Crist, trwy yr hyn y mae yr egwyddor rasol a blanwyd yn y galon yn cael ei bywhau, ei nerthu, a'i chynnal, Ps. 110. 2, 3; Hos. 14. 5. Mae yn perthyn i oruchwyliaethau pwysig Duw gadw ei bobl yn y ffydd, cystal a'u gweithio ynddynt; eu cadw rhag marwolaeth cystal a phlannu bywyd ynddynt; eu cadw rhag cwympo cystal a'u cyfodi i fynu; a'u cynnal â'i allu trwy ffydd i iachawdwriaeth, cystal a'u dwyn i gyflwr cadwedig trwy y Gwaredwr.

Sylw 358.—*Trwy yr ail eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, "Deled dy deyrnas," fe'n dysgir i weddio am i deyrnas ei ogoniant gael ei phrysuro.*

*Teyrnas gogoniant* yw y cyflwr hwnw o ddedwyddwch annhraethol i'r hwn y derbynir y saint yn angeu; neu yn hytrach, yn yr adgyfodiad, pan y caiff yr enaid a'r corph fod yn wastadol gyd a'r Arglwydd. A gellir sylwi yma, nad yw teyrnas gras a theyrnas gogoniant, yn ddwy deyrnas wahaniaethol, ond yn hytrach gwahanol ansoddau ar yr un deyrnas, y naill yn arwain i'r llall. Y mae gwir ddeiliaid teyrnas gras, yn ddeiliaid hefyd o deyrnas gogoniant; ond, tra y maent yn y byd hwn, nid ydynt yn gyflawn barod i ogoniant, er eu bod beunydd yn cynnyddu mewn parodrwydd iddi trwy amryfal weithrediadau yr Ysbryd Glan.

Rhaid i ni weddio am brysuriad *y deyrnas hon o ogoniant;* yr hyn sydd yn arwyddocau,—1. Nad yw y deyrnas hon *wedi dyfod eto.* Ni welir Crist eto dan y goron a wisgir ganddo; ond y mae yr amser yn agosau pan lewyrcha ei ogoniant trwy bob attalfeydd, ac yr ymddengys mai gogoniant y Tad ydyw,—gogoniant fel ef ei hunan, annhraethadwy, ac anamgyffredadwy. 2. *Y daw;* mor sicr a bod Crist yn awr yn ogoneddus, efe a ddaw yr ail waith, i'w ogoneddu yn ei saint, ac i fod yn rhyfeddol yn yr holl rai a gredant. Mae y dystiolaeth yn rhy gadarn i oddef amheuaeth. Mae y Tad wedi dywedyd mai felly y bydd; y Mab wedi ymladd dros y deyrnas; a gwaith yr Ysbryd Glan ar enaid pob deiliaid o'r deyrnas hon yn profi y daw. 3. Dymuniadau gwresog y saint am i'r deyrnas hon ddyfod. Y maent hwy eu hunain yn teimlo dyddordeb neillduol ynddi; ond nid ar y cyfrif hwnw yn unig nag yn bennaf y maent hwy mor hiraethlawn eu dymuniadau am ei ddyfodiad, ond er ei fwyn ef, eiddo yr hwn yw y deyrnas a'r gogoniant.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Fod yr efengyl yn rhagorfraint fawr. 2. Nad yw pawb a ddoniwyd a'r ffafr hon, yn Nghrist. 3. Yr angenrheidrwydd o ymostwng i deyrnwialen Crist. 4. Dedwyddwch y rhai ydynt yn ddeiliaid o deyrnas ei ras. 5. Trueni y rhai nid ydynt yn ddeiliaid o deyrnas Crist. 6. Bod llawer o elynion i'r efengyl; ond y cymerir y cwbl o'r ffordd. 7. Bod gan Grist deyrnas ar y ddaear bob amser,—hâd a'i gwasanaetha ef. 8. Yr angenrheidrwydd o weddio am ddyfodiad teyrnas Crist.

## *Am y Trydydd Eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd.*

HOL. 103. AM BA BETH Y GWEDDIWN YN Y TRYDYDD EIRCHIAD?

Yn y Trydydd Eirchiad, (yr hwn yw, "Gwneler dy

ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd,") yr ydym yn gweddio am i Dduw trwy ei ras ein gwneyd yn alluog ewyllysgar i adnabod, ufuddhau ac ymostwng i'w ewyllys yn mhob peth, fel y mae yr angylion yn y nef.

### DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai y trydydd eirchiad yn ngweddi yr Arglwydd yw, "Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd." Math. 6. 10.

2. Ein bod yn analluog o honom ein hunain i adnabod ewyllys Duw ac ufuddhau iddo, 1 Cor. 2. 14. "Dyn anianol nid yw yn derbyn y pethau sydd o Ysbryd Duw; canys ffolineb ydynt ganddo ef; ac ni's gall eu gwybod, oblegid yn ysbrydol y bernir hwynt."

3. Mai Duw yn unig a all ein gwneyd yn alluog ac ewyllysgar i ufuddhau ac ymostwng i'w ewyllys ef, Phil. 2. 13. "Canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef."

4. Y dylem weddio am i ewyllys Duw gael ei adnabod, a'i gyflawni ar yr holl ddaear, Salm 67. 2. "Fel yr adwaener dy ffordd ar y ddaear, a'th iachawdwriaeth yn mhlith yr holl genhedloedd."

5. Y dylem weddio ar i Dduw ein gwneuthur ni yn alluog ac ewyllysgar i adnabod ei ewyllys, Ephes. 1. 18. "Wedi goleuo llygaid ein meddyliau; fel y gwypoch beth yw gobaith ei alwedigaeth ef, a pheth yw golud gogoniant ei etifeddiaeth ef yn y saint."

6. Y dylem weddio ar i Dduw ein gwneuthur ni yn abl ac ewyllysgar i ufuddhau i'w ewyllys, Salm 119. 35. "Gwna i mi gerdded yn llwybr dy orchymynion: canys ynddo y mae fy ewyllys."

7. Y dylem weddio ar i'r Arglwydd ein gwneyd yn alluog ac ewyllysgar i ymostwng i'w ewyllys, Act. 21. 14. "Ewyllys yr Arglwydd a wneler."

8. Y dylem ufuddhau i ewyllys Duw yn mhob peth, Salm 119. 5, 6. "O am gyfeirio fy ffyrdd i gadw dy ddeddfau! Yna ni'm gwaradwyddid pan edrychwn ar dy holl orchymynion."

9. Y dylem ymostwng i ewyllys Duw yn mhob peth, 1 Sam. 3. 18. "Yr Arglwydd yw efe: gwnaed a fyddo da yn ei olwg."

10. Y dylem ufuddhau ac ymostwng i ewyllys Duw, fel y mae yr angelion yn gwneuthur yn y nefoedd, Salm 103. 20.

"Bendithiwch yr Arglwydd ei angelion ef, cedyrn o nerth yn gwneuthur ei air ef, gan wrando ar leferydd ei air ef."

EGLURHAD.

Sylw 359.—*Trwy y Trydydd Eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, "Gwneler dy ewyllys, megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd," fe'n dysgir i weddio ar fod i Dduw trwy ei ras, ein gwneyd yn alluog ay ewyllysgar i adnabod ac ufuddhau i'w ewyllys datguddiedig yn mhob peth.*

*Ewyllys datguddiedig Duw*, yw yr hyn a gynnwysir yn Ysgrythyrau yr Hen Destament, a'r Newydd; ac y mae yn gynnwysedig mewn credu ac ufuddhau, neu mewn ffydd a sancteiddrwydd; yr hyn yw swm ei ewyllys, a'r drefn yn yr hon y mae yn rhaid ei wneuthur, Ioan 6. 29; 1 Thes. 4. 3; Heb. 11. 6, a 12. 14; 1 Ioan 3. 23. Gallwn sylwi yma, mai am gyflawniad ewyllys datguddiedig Duw ar y ddaear y dylem weddio yn bennaf; canys yr Arglwydd ei hun a gyflawna ei ewyllys dirgeledig, neu yr hyn oll a amcanodd efe.

Gyda golwg ar ewyllys datguddiedig Duw, rhaid i ni weddio ar i Dduw trwy ei ras ein gwneyd yn abl ag ewyllysgar *i'w adnabod ac ufuddhau iddo.* Ac yr ydym yn gwneuthur hyn, pan yn attolygu ar iddo drwy ei Ysbryd symmud ein dallineb anianol, ac agor ein deall, fel y deallom yr Ysgrythyrau; a'r iddo ein gogwyddo i gadw i fynu ymarferiad o bob dyledswydd orchymynedig, yn nerth y gras hwn a sicrheir yn yr addewid. "A gwnaf i chwi rodio yn fy neddfau, a chadw fy marnedigaethau a'u gwneuthur, Ezec. 36. 27; ar fod ufudd-dod i holl ewyllys Duw mor ehang a'r datguddiad o'r ewyllys hwn; ar iddo gael ei wneuthur lle nid yw yn cael ei wneuthur; ac mai yr unig derfynau iddo fyddo eithafoedd y ddaear. Ac y mae hyn yn rhoddi y pethau canlynol ar ddeall;—1. Nad yw ewyllys Duw yn cael ei wneuthur ar y ddaear megis y mae yn y nefoedd. 2. Addefiad o wendid, dallineb, a gwrthnysigrwydd calon; yr hyn sydd oll yn nghyd yn lluddias i ewyllys Duw gael ei wneuthur, Ephes. 1. 17, 18, a 3. 16; Matt. 26. 41; Jer. 31. 18, &c. 3. Y mae yn dynodi gofid calon am na's gwnelid ewyllys Duw ar y ddaear, genym ein hunain, neu gan eraill, Ps. 112. 136. 4. Dymuniad cryf ar i Dduw symmud o'r ffordd bob peth sydd yn rhwystro i'w ewyllys gael ei wneuthur ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd.

Nyni a ddylem weddio ar i Dduw ein gwneyd yn abl ac ewyllysgar i adnabod ei ewyllys ac ufuddhau iddo, oblegid ein bod wrth natur yn analluog ac anewyllysgar i adnabod ac ufuddhau i'w ewyllys datguddiedig, 1 Cor. 2. 14. Y mae

pawb yn dueddol i wrthryfela yn erbyn ei ewyllys ef, er ei fod yn sanctaidd, cyfiawn, a da. Ac am hyny mae yn ofynol i ni weddio am i Dduw ein gwneyd yn alluog ac ewyllysgar *trwy ei ras*; canys o'i gariad rhad, a'i ewyllys da penarglwyddiaethol, y mae yn gweithio ynom ewyllysio a gweithredu. Ofer yw i ddyn feddwl y gall ef wybod ewyllys Duw heb ddysgeidiaeth yr Ysbryd; neu y gall ei wneuthur heb y nerth a addewir oddi uchod.

Sylw 360.—*Trwy y trydydd eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, fe'n dysgir i weddio ar i Dduw trwy ei ras ein gwneyd yn ewyllysgar i ymostwng i'w ewyllys rhagluniaethol yn mhob peth.*

*Ewyllys rhagluniaethol ddirgelaidd Duw* yw rheol ei ymddygiad ei hunan; ag sydd mewn gweithrediad ar bob dyn, ac ar bob peth, o'r lleiaf hyd y mwyaf yn mhob amgylchiad dichonadwy y gallont fod ynddo, Matt 6. 25—34.

Gyda golwg ar yr ewyllys rhagluniaethol neu ddirgelaidd yma o eiddo Duw, neu fel y'i gelwir weithiau, ewyllys ei fwriad, nyni a ddylem weddio ar i Dduw trwy ei ras ein gwneyd yn *alluog ac ewyllysgar i ymostwng iddo.* Ac y mae hyn yn cynwys ymostyngiad cyflawn a thrwyadl i'w ewyllys Ddwyfol yn mhob goruchwyliaeth cystuddiol a all ein cyfarfod yn y byd hwn, gan eu bod oll yn dyfod oddiwrth Dduw, ac wedi eu trefnu oll ganddo er ein llesäad; a hefyd wneyd defnydd o drugareddau rhagluniaeth yn ol ei Air. Dylem weddio ar i Dduw ein gwneyd yn *abl* ac *ewyllysgar trwy ei ras*, i ymostwng a chydsynio a'i ewyllys dirgeledig pan y'i gwneir yn hysbys i ni, gan ein bod wrth natur yn analluog ac anewyllysgar i hyny, ac yn dueddol i gwerylu a'i ragluniaethau tuag attom, er eu bod oll yn gyfiawn a da, ac wedi eu hamcanu er ein llesäad ysbrydol a thragywyddol.

Sylw 361.—*Trwy y trydydd eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, fe'n dysgir i weddio ar i Dduw ein gwneyd yn alluog ac ewyllysgar i adnabod ei ewyllys, ac ufuddhau ac ymostwng iddo yn mhob peth, fel y gwna yr angelion yn y nef.*

Dylem weddio am i ewyllys yr Arglwydd gael ei wneuthur ar y ddaear, megis y mae yn y nefoedd. Gellir golygu yr ymadrodd yma naill a'i gyda golwg ar y nefoedd weledig, a gweithredoedd Duw, y rhai a welwn, neu gyda golwg ar yr ysbrydion dyrchafedig hyny, a elwir angelion, y rhai ydynt yn wastad yn cyflawni ei holl ewyllys ef.

1. Gyda golwg ar y *cyrph nefol.* Fel yr anfonir dyn yn aml

at fwystfilod y maes, at bysg y môr, ac at ehediaid yr awyr am addysg; a hefyd at lawer o weithredoedd Duw mewn natur fel y gwelo mor ufudd yw pob peth i'r *hwn* a roddes fod iddynt; felly nyni a allwn ei olygu yma megis wedi ei anfon i'r un perwyl at yr haul, y lloer, a'r sêr, ac at holl lu y nef, y rhai a gadwasant eu cylchoedd, yn ddi wyro dros agos i chwe mil o flynyddoedd, gan wasanaethu yr Arglwydd, a dwyn gogoniant i'w enw rhyfeddol; ac yn mysg y rhai, o'r mwyaf hyd y lleiaf, ac o'r agosaf hyd y pellaf, nid oes dim yn cymeryd lle ond a appwyntiwyd ganddo ef yr hwn a'u gwnaeth. Esiampl werthfawr, wedi ei rhoddi o'n blaen ni oll!—Ond,

2. Gyda golwg ar yr *angelion yn y nef;* yn yr hwn ystyr yn bennaf y golygir y testyn yn yr eglurhad uchod. Gan hyny, os mynem ni ein hunain wneuthur ewyllys Duw, ac os dymunem i eraill ei wneuthur, rhaid i ni weddio am i ni a hwythau gael ein galluogi i ymdebygu i'r angelion sanctaidd, y rhai ydynt yn cyflawni ewyllys y Goruchaf mewn gostyngeiddrwydd;—Esa. 6. 2. Mica 6. 8;—mewn llawenydd, Sal. 103. 20; a 100. 2;—mewn ffyddlondeb, Esa. 38. 3;—gyda diwydrwydd a sêl, Ps. 119. 4, 5, a 19. 5. Rhuf. 12. 11;—yn gyffredinol, Salm 103. 21. a 119. 6;—â'r parodrwydd mwyaf, Esa. 6. 2. Salm 119. 60;—yn ddianwadal, Salm 119. 112;—ac yn ddiffuant, Salm 119. 80.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Mai dyledswydd pawb yw astudio ewyllys datguddiedig Duw, ac ymostwng i'w ewyllys rhagluniaethol ef. 2. Y perygl o fod yn anufudd. 3. Yr angenrheidrwydd am ras Duw i'n galluogi i ddeall, a gwneuthur ei ewyllys datguddiedig, ac ymostwng i'w ewyllys rhagluniaethol ef. 4. Ei bod yn ddyledswydd ar bawb i anfon ewyllys datguddiedig Duw i'r rhai oll ydynt hyd yn hyn heb ei dderbyn; gan ei fod yn annghyson i ni i weddio am i'w ewyllys gael ei wneuthur, heb ymdrechu ar yr un pryd i'w wneyd yn hysbys i'r rhai ydynt anhysbys o hono.

## *Am y pedwerydd eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd.*

HOL. 104. AM BA BETH YR YDYM YN GWEDDIO YN Y PEDWERYDD EIRCHIAD?

Yn y Pedwerydd Eirchiad, sef, "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol," yr ydym yn gweddio ar i ni gael derbyn o rad rodd Duw, gyfran ddigonol o bethau y bywyd hwn, a mwynhau ei fendith gyda hwy.

nghylch yr hyn sydd ddyfodol. "Dyro i ni *heddyw* ein bara beunyddiol," Matt. 6. 34. Fe'n dysgir yma i fyned beunydd at Dduw mewn gweddi am yr hyn sydd angenrheidiol arnom, fel trwy ddefnyddio y moddion a appwyntiodd efe i ni, y gallom ddangos ein bod yn ymddibynu yn barhaus arno ef am yr hyn sydd angenrheidiol i'r corph.

7. Mai *rhodd Duw* yw ein bara—ein bara beunyddiol, cysuron a chyfleusderau einioes; ac mai atto ef y dylem edrych am y cwbl. "*Dyro* i ni heddyw ein bara beunyddiol." Ac er fod dynion yn ennill eu bara trwy lafur a diwydrwydd, eto, Duw sydd yn rhoddi gallu i ennill golud, ac yn bendithio llafur y dwylaw. Wedi colli hawl o fywyd, a phob mwynhad gyda hyny yn Adda, pa beth bynnag a fwynheir yn awr sydd o rad rodd y Goruchaf heb ei haeddu.

Nyni a allwn sylwi yma ar y gwahaniaeth rhwng gweddi am bethau *tymhorol*, a gweddi am bethau *ysbrydol*. Gyda golwg ar bethau *ysbrydol*, nid oes un cyfyngiad; ond gall dymuniadau y credadyn fod mor ehang ag y myno. Bydded iddynt fod mor ehang a chylch y cyfammod, nid yw hyny ond yr hyn sydd wedi ei addaw,—yr hyn y medd sail yw dysgwyl,—a'r hyn yn sicr a dderbynia. Ond, gyda golwg ar bethau o natur *tymhorol*, rhaid i ni gyfyngu ein dymuniadau, a gofyn yn unig am y pethau a fyddont er anrhydedd Duw a'n lles ninnau. Pa beth bynnag ofynom o natur dymhorol, rhaid ei ofyn gyda dymuniad ar fod Duw yn cael ei ogoneddu; neu, mewn geiriau eraill, rhaid gofyn am bethau tymhorol i ddybenion ysbrydol. Diar. 3. 7—9. 1 Sam. 1. 11. Iago 4. 3.

Sylw 363.—*Trwy y pedwerydd eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, fe'n dysgir i weddio am i ni gael mwynhau bendith Duw gyda phethau da y bywyd hwn.*

Fel y caffom ddefnydd dyddanus y pethau a fwynhawn, mae yn angenrheidiol i ni weddio am fendith Duw i'w canlyn. Heb hyn, bydd pryf wrth y gwreiddyn yn barhaus,—heb hyn, ni chyflawner ein gobeithion byth, pa beth bynnag a addawom i ni ein hunain,—a heb hyn ni's gall cysuron allanol atteb y dyben er yr hyn y'u hamcanwyd, ac y'u defnyddir.

Gallwn sylwi yma ar y gwahaniaeth rhwng y *modd* y mae y *cyfiawn* a'r *drygionus* yn meddu eu cysuron allanol. Nid yw yr *annuwiol* yn meddu ond hawl *gyffredin* yn unig i gysuron allanol, gan nad oes dim ynddo i ddangos eu bod yn eiddo yr Arglwydd; ond medda y credinwyr *hawl neillduol*, teitl wedi ei selio ar y cyfammod; hawl ysbrydol sydd ganddynt hwy i'w bara beunyddiol. Mae y drygionus yn cael rhan yn y

bywyd hwn; tra y mae duwioldeb yn meddu addewid, nid yn unig o'r bywyd sydd yr awr hon; ond o'r hwn a fydd hefyd. Ni's medd yr annuwiolion ddim ond eu cysuron allanol; y maent heb fendith yr Arglwydd ar eu cawell a'u toes; ond y mae y cyfiawn yn meddu ei fendith gyd a'r hyn a fwynhânt, ac y mae hyn yn gwneyd eu cysuron yn ddau mwy gwerthfawr.

CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Bod yr Arglwydd yn gofalu am bawb yn y bywyd hwn cystal a'r hwn a fydd. 2. Y dylem fod yn ddiolchgar am drugareddau presenol. 3. Na addawodd yr Arglwydd mo hono ei hun yn ddi dyst, gan roddi i ni wlaw o'r nefoedd, a thymhorau ffrwythlawn a llenwi ein calon a lluniaeth ac a llawenydd. 4. Y dylem ymwneyd ag ef yn y dirgel beunydd. 5. Y gall yr Arglwydd wneyd i fynu i'w bobl y diffyg o lawer yn y byd hwn. 6. Ein bod yn meddu mwy nag a haeddem. 7. Nad ydyw y rhai ydynt yn meddu llawer o dda y byd hwn, ac heb wneuthur yr hyn a allont er gogoneddu Duw yn y byd, trwy anfon "Bara y bywyd" i'r rhai sydd hebddo, yn eiddo ef.

## *Am y Pummed Eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd.*

HOL. 105. AM BA BETH YR YDYM NI YN GWEDDIO YN Y PUMMED EIRCHIAD?

Yn y Pummed Eirchiad, sef, "A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr," yr ydym yn gweddio ar i Dduw er mwyn Crist, faddeu yn rhad ein holl bechodau; yr hyn y'n calonogir yn fwy i'w ofyn, oblegyd ein bod ni trwy ei ras yn cael ein galluogi i faddeu o'r galon i eraill.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai y pummed eirchiad yn ngweddi yr Arglwydd yw, "A maddeu i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr." Math. 6. 12.

2. Y dylem weddio am faddeuant pechod, Hosea 14. 2. "Maddeu yr holl anwiredd, derbyn ni yn ddaionus." Gwel hefyd Ps. 51. 1.

3. Bod maddeuant pechod i'w ddysgwyl yn unig trwy Iesu Grist, Ephes. 1. "Yn yr hwn y mae i ni brynedigaeth trwy ei waed ef, sef maddeuant pechodau yn ol cyfoeth ei ras ef."

4. Bod yn rhaid i ni faddeu i eraill, Colos. 3. 13. "Gan gyd ddwyn a'ch gilydd, a maddeu i'ch gilydd."

5. Mai Duw yn unig a all ein galluogi i faddeu i eraill o'r galon, Gal. 5. 22, 23. "Ffrwyth yr Ysbryd yw, cariad, llawenydd, tangnefedd, hir ymaros, cymmwynasgarwch, daioni, ffydd, addfwynder, dirwest; yn erbyn y cyfryw, nid oes deddf."

6. Bod ein galluogiad ni i faddeu i eraill, yn ein calonogi ni i ofyn maddeuant i ni ein hunain, Luc 11. 4. "A maddeu i ni ein pechodau: canys yr ydym ninnau yn maddeu i bawb sydd yn ein dyled."

7. Oni faddeuwn i eraill, na bydd i ninnau gael maddeuant ein hunain, Math. 18. 35. "Ac felly y gwna fy Nhad nefol i chwithau, oni faddeuwch o'ch calonnau bob un i'w frawd eu camwedd." Gwel Math. 6. 14, 15.

EGLURHAD.

Sylw 364.—*Trwy y pummed eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd fe'n dysgir i weddio ar fod i Dduw er mwyn Crist, faddeu yn rhad i ni ein holl bechodau.*

Gallwn sylwi yma, bod yr eirchiad hwn yn gyssylltiedig a'r un blaenorol trwy y llythyren *a*, er dangos pa mor helaeth bynnag y gyfran a gaffom o gysuron a manteision y bywyd hwn, na's gall bara beunyddiol o hono ei hunan wneyd i fynu ein gwir les; ac mai pan fyddo y cyfryw gysuron allanol yn gyssylltiedig â maddeuant pechodau, yn unig y gellir eu cyfrif yn ddaioni gwir ddymunol.

Wrth *ddyledion* yma y deallwn *pechodau*, Luc 11. 4. Mae pob pechod yn ddyled, a phob pechadur yn ddyledwr. Yn awr gan hyny, os edrychwn ni ar bechod fel dyled, y mae yn gynnwysedig mewn attal oddiwrth Dduw yr hyn sydd wir ddyledus iddo, sef parch a chariad; am yr hyn yr ydym yn ddyledus o iawn am ein sarhad ar ei ogoniant. Gan hyny, os wrth *ddyledion* y golygwn *bechodau;* rhaid eu bod yn cynnwys pechod gwreiddiol a gweithredol;—pechodau o ommeddiad a chyflawniad, ar gyfrif y rhai yr ydym dan ddyled o iawn i gyfiawnder Duw; canys fel hyn y dywaid yr Ysgrythyr, "Cyflog pechod yw marwolaeth." Ond, yr ydym ni, nid yn unig dan ddyled o *iawn* fel troseddwyr, ond dan ddyled o ufudd-dod i'r ddeddf hefyd, fel cyfammod. Gan hyny y mae pob pechadur dan ddyled fwy nag a all efe dalu byth.

Gellir gweled natur y ddyled o bechod oddiwrth y pethau canlynol;—1. Mae pechod yn ddyled na's gall un dyn ei dalu. Mae pob pechadur, megis wedi boddi mewn dyled i ddeddf a chyfiawnder Duw; a buasai pawb yn ddiwahaniaeth, wedi

darfod am danynt mewn canlyniad i hyn, oni buasai i Fachnïydd gael ei ddarpar, cyfaddas yn mhob ystyr i gyfatteb i'r Gofynwr. 2. Y mae pechod yn ddyled yr ymdrecha pechadur mewn llawer ffordd i'w lleihau; nid drwy dalu yr hyn sydd ddyledus arno mae yn wir; ond drwy ei berswadio ei hunan nad yw ei ddyled yr hyn ydyw mewn gwirionedd. 3. Y mae pechod yn ddyled sydd yn cynnyddu yn barhaus; a pha foddion bynnag a all y pechadur ei ddefnyddio i leihau ei ddyled, efe a genfydd ei bod yn myned yn fwy hyd oni chaiff hi eu maddeu yn rhad er mwyn Crist;—hyd oni's dilëer trwy waed Crist. Felly yr ydym yn darllen am bechaduriaid yn "trysori iddynt eu hunain ddigofaint erbyn dydd digofaint." Rhuf. 2. 5. 4. Mae pechod yn ddyled sydd yn cyffroi casineb at Dduw. Nid yw pechaduriaid yn caru Duw, ac ni allant oddef y meddwl am gael eu dwyn i gyfrif. 5. Mae pechod yn ddyled a ofynir yn eithaf teg yn llyfr Duw, ac yn ddyled na's rhyddheir o'i herwydd hyd oni thaler yr hatling eithaf. 6. Mae pechod yn ddyled, o herwydd pa un y bydd Duw yn fuan yn erlyn y pechadur. Fel yr amlygodd Duw y fath gariad tuag at ei ddyledwyr methdaledig fel y darparai Fachniydd ei hunan; felly, oni bydd i bechaduriaid wneyd defnydd o'r Machnïydd yma er eu rhyddâu oddiwrth eu dyled, nid yw ond cyfiawn iddo eu herlyn a'u bwrw yn ngharchar; o'r lle ni's deuant hyd oni thalont yr hatling eithaf,—yr hyn ni fydd byth. Ac yn 7. Y mae pechod yn ddyled o'r fath waethaf gan na's meddwn ni ddim i dalu. Ni's gallwn roddi i Dduw yr hyn a ddygasom oddi arno, na'i gydwerth am dano. Ac am hyny nid ydym yn gweddio ar i ni allu talu ein dyledion; ond yr ydym yn gweddio ar gaffael o honynt *eu maddeu*.

Os wrth *ddyledion* yr ydym i ddeall *pechodau*, yna wrth *ein* dyledion (Maddeu i ni *ein* dyledion,") yr ydym i ddeall *ein pechodau*—yr holl bechodau a allant gael ei rhoddi yn ein herbyn mewn unrhyw ffordd. Pob pechod mewn meddwl, gair, a gweithred; pechod gwreiddiol a gweithredol; pechodau o ommeddiad ac o gyflawniad; pechodau dirgelaidd cystal a rhai a gyflawnir ganol dydd; pechodau o wendid cystal a phechodau gwirfoddol; pechodau mebyd ac ieuenctyd, cystal a phechodau a gyflawner mewn oedran aeddfedach; pechodau yn erbyn Duw, yn erbyn ein cymmydog, ac yn ein herbyn ein hunain; mewn gair, gellir golygu pob pechod y dichon i'r Arglwydd ei roddi yn ein herbyn, fel *ein dyledion*.

Y *maddeuant o'r dyledion* y'n dysgir yma i weddio am dano, yw *symmudiad euogrwydd*, trwy yr hyn y mae y pechadur yn rhwym i ddyoddef y gosb ddyledus i'w gamweddau. Neu,

*rhyddhad* oddiwrth euogrwydd, a chosb pechod, yr hyn sydd o angenrheidrwydd yn fendith annrhaethol werthfawr; ac y mae cael caniattäad i weddio am y drugaredd yma yn un o'r rhag-orfreintiau uchaf a feddwn, gan fod pawb dan y gollfarn, ac wrth naturiaeth yn blant digofaint.

Y ffynhonell yn Nuw, o'r hon y mae maddeuant pechod yn dylifo yw ei *natur raslawn*, a'i *ewyllys da penarglwyddiaethol ef ei hunan*, Exod. 33. 19. Ond y mae yn eglur oddiwrth y Datguddiad, mai *er mwyn Crist yn unig* y gellir maddeu i'r euog. A phan fyddom yn son am faddeuant "er mwyn Crist," y meddwl yw, fod Duw yn cyfrannu ei drugaredd a'i ras maddeuol yn unig trwy ufudd-dod ac iawn Crist, wedi ei dderbyn a'i ddefnyddio trwy ffydd, Rhuf. 3. 25. Ac ni's gellir maddeu pechodau heb olygu ei ufudd-dod a'i iawn ef; canys er fod Duw yn drugarog, trwy iawn yn unig y gall ei drugaredd gael ffordd i ddylifo at y pechadur. Rhaid i gyfiawnder gael ei foddloni, a heb ollwng gwaed nid oes maddeuant, Heb. 9. 22. Pa mor werthfawr ac angenrheidiol bynnag yw y fendith o faddeuant pechod, yn ofer y'i dysgwyliwn trwy unrhyw gyfrwng arall; a chanfyddir nad yw y rhai nid ydynt yn gweled mai trwy gyfiawnder Crist yn unig y mae Duw yn gyfiawn, ac yn cyfiawnhau y sawl a gredo yn yr Iesu, yn ddif-rifol iawn yn eu dymuniadau am faddeuant, Act. 5. 31.

Mae y drugaredd o faddeuant yn cyrhaedd *pob pechod*, Ps. 103. 3. Pa beth bynnag a fyddo ei natur, pa mor luosog bynnag a fyddont, pa mor ysgeler bynnag, y mae digon o drugaredd yn "Nuw yr heddwch," i faddeu y cyfan; ac y mae digon o deilyngdod yn Nghrist i gael maddeuant o'r cwbl,—effeithiolrwydd digonol yn ei waed i lanhau oddiwrth bob pechod, Salm 130. 4, 7, 8; 1 Ioan 1. 7.

Yr hyn sydd yn chwanegu yn fawr at y drugaredd o fadd-euant, yw ei *rhadlonrwydd*. Yr ydym yn attolygu i Dduw faddeu *yn rhad* ein holl anwireddau. Pe na byddai maddeu-ant pechod yn rhad, ni allem ni byth gael maddeuant; canys ni feddwn ni ddim a'r hwn y gallem bwrcasu ein rhyddhad. Gogoniant Duw yw *maddeu yn rhad* y ddyled fwyaf, ac efe a ffieiddiai y meddwl am dderbyn dim am dano. Mae maddeu-ant yn cael ei roddi yn rhad, a rhaid ei dderbyn yn rhad; canys oni dderbynir ef yn rhad, ni's derbynir o gwbl.

Ond, efallai y gofynir yma, Pa fodd y gellir dywedyd fod Duw yn maddeu *pob* pechod *yn rhad*, pan nad yw yn maddeu *un* pechod ond ar gyfrif y cyfiawnder a orphenwyd gan Iesu Grist? I'r hyn yr attebwn, er i Grist ennill maddeuant pechod *drwy ei haeddiant*, y mae yn dyfod i ni *yn rhad drwyddo ef*.

Y mae *o ddyled iddo ef*, ond *o ras i ni.* Pan dderbyniodd Duw Grist fel machnïydd y pechadur, yr oedd hyny yn weithred o rad, goludog, a phenarglwyddiaethol ras: a phan gymmeradwyodd ei waith a llafur ei gariad, neu y'i boddlonwyd er mwyn ei gyfiawnder ef, yr oedd hyny yn weithred o'r un natur, Ephes. 1. 7.

Sylw 365.—*Trwy y pummed eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd fe'n dysgir bod ein galluogiad ni trwy ras Duw i faddeu o'r galon i eraill, yn annogaeth i ni i ofyn am faddeuant i ni ein hunain.*

Y ddadl â'r hon y cefnogir yr eirchiad yma, yw, "*Fel yr ydym ninnau yn maddeu i'n dyledwyr;*" neu, fel y dywedir yn yr eglurhad ar y testyn, "Oblegid ein bod ni trwy ras Duw yn cael ein galluogi i faddeu o'r galon i eraill." Ond dylem gofio bob amser nad ydym ni i olygu ein gwaith yn maddeu i eraill pa mor galonog bynnag y byddo fel y *cymhelliad* i beri i Dduw faddeu i ni; canys nid dyma y sail ar yr hon yr ydym i ofyn maddeuant gan Dduw; ond dylem ei olygu yn unig fel *calondid* i ni gredu bod ein pechodau wedi eu maddeu, pan y caffom ynom ein hunain barodrwydd o'r galon i faddeu i eraill a wnaethant gam a ni, Math. 6. 14, 15.

Wrth ein *dyledwyr* yr ydym i ddeall pawb a'n melldithiasant, a'n casasant, a'n diystyrasant, neu a ddywedasant bob drwg yn ein herbyn yn gelwyddog; mewn gair, ein dyledwyr yw yr holl rai a bechasant yn ein herbyn, neu a wnaethant gam a ni mewn un modd, pa un bynnag ai ar air neu weithred, pa un bynnag ai yn ein cymeriad, ein teulu, ein perthynasau, neu ein meddiannau, Gwel Math. 5. 44, lle y'n hysbysir gan Grist, pwy yw ein dyledwyr.

Dyledswydd anhebgorol pawb a fynent faddeuant gan Dduw, *yw maddeu i'w dyledwyr.* A gellir dweyd ein bod yn gwneyd hyn, pan er pob peth a wnaethant hwy i ni, na byddom yn dangos ysbryd ymddïal; neu, na byddom yn coledd câs na malais yn eu herbyn; pan fyddom yn ymdrechu yn erbyn y meddwl am ymddïal, yr hyn a berthyn i Dduw yn unig; pan yr ymattaliom rhag niweidio ein gelynion mewn un modd, er bod ar ein llaw wneuthur hyny drwy amryw ffyrdd: pan fyddom yn eu caru, ac yn ewyllysio yn dda iddynt, ac yn barod i wneyd daioni iddynt bob amser, fel pe na buasent wedi gwneyd dim i'n herbyn; pan na byddom yn llawenhau, ond yn gofidio o herwydd eu hadwydd; a phan fyddom yn gweddio drostynt, ac yn dymuno cymmodi a hwy; gan gyfranu i'w cyfreidiau pan fyddo ar ein llaw wneyd felly. Mae hyn oll

yn ddïau yn gynnwysedig yn nghorchymyn ein Hiachawdwr, Math. 5. 44—48.

O ran y *dull*, yn yr hwn y dylem faddeu i'n dyledwyr, sylwn, bod yn rhaid i ni faddeu iddynt yr un modd ag y mae Duw yn maddeu i ni. Ac, 1. Y mae Duw yn maddeu i ni, *a'r ewyllys da penaf;* ac felly y rhaid i ninnau faddeu i'n dyledwyr. Nid gwiw i ni ddweyd ein bod yn maddeu, tra y mae gelyniaeth yn y galon at y rhai a wnaethant gam a ni. 2. Mae Duw yn maddeu *pob pechod;* ac os mynwn ninnau brofiad ynom ein hunain bod ein pechodau wedi eu maddeu, nid gwiw i ni faddeu rhai, a bod heb faddeu troseddau eraill a wnaed i'n herbyn: ond rhaid i ni wneyd i eraill fel y mynem i Dduw wneyd i ni. 3. Y mae Duw yn maddeu pechod yn *fynych*, ac felly y dylem ninnau wneyd i eraill. Dylem faddeu i'n brawd, nid yn unig hyd seithwaith, ond hyd ddengwaith a thriugain seithwaith; hyny yw, nifer annherfynol o amserau, neu bob amser, Math. 18. 21, 22.

Ond, ni's gallwn ni faddeu i eraill fel hyn *o honom ein hunain*. Ni chair y fath duedd mewn neb wrth natur; ac am hyny y'n hysbysir mai trwy *Ddwyfol ras* y'n galluogir o'r galon i faddeu i eraill. Mae yn mhob dyn duedd naturiol i goledd llid a malais ar gyfrif cam personol, ac i'w ddïal os gellir, a chan belled ag y gellir; ac o ganlyniad rhaid i'r maddeuant hwn, a ofynir genym ni ddyfod *o'r galon*. Ac yr ydym nid yn unig i'w maddeu mewn *ffordd nacäol*, hyny yw, trwy roddi o'r neilldu bob llid yn eu herbyn, ond dylem faddeu iddynt mewn *ffordd gadarnhäol*, hyny yw, trwy wneuthur iddynt bob caredigrwydd yn ein gallu, fel pe na buasent wedi ein niweidio erioed, mewn un modd. Mae yn amlwg, a chymeryd pob peth i ystyriaeth, bod hon yn un o'r gwersi ymarferol calettaf sydd i'w dysgu mewn Cristionogaeth. Mae natur ddynol yn gwrthdaro y gosodiad. Ond nid oes le i ymesgusodi, y mae awdurdod Ddwyfol yn ei dodi arnom, ac mewn nerth Dwyfol nyni a allwn wneyd pob peth.

Pan fyddom yn gweddio, "A maddeu i ni ein dyledion *fel* y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr," ni ddylem feddwl am osod math o gydmariaeth rhwng maddeuant Duw i ni, a'n maddeuant ni i eraill; canys nid yw hyn yn cael ei arwyddo ar un cyfrif yn y geiryn "*fel;*" o herwydd, nid oes un gydmariaeth rhwng y naill a'r llall; ond i'r gwrthwyneb annghydmariaeth anfeidrol. Nid yw y cam a wna, neu a eill eraill wneyd i ni, ond ychydig a bychain mewn cydmariaeth i'n camweddau annifeiriol ac ysgeler ni yn erbyn Duw, Math. 18. 24, &c. Gan hyny, meddwl y geiriau, " Fel y maddeuwn ninnau i'n dyled-

wyr," yw y dylem *ymgalonogi* i obeithio y bydd i Dduw faddeu i ni ein pechodau parhaus; oddiar yr hyder yma ynom ein hunain, ein bod yn cael ein galluogi o'r galon i faddeu i eraill eu camweddau, Math. 6. 14, 15.

Gellir crybwyll y pethau canlynol fel *cymhelliadau* i ni i faddeu i eraill:—1. Esampl Iesu Grist a ddylai ddylanwadu ei holl ddysgyblion i fod yn faddeugar, 1 Pedr 2. 23; Luc 23. 34. 2. Dylai esampl y saint gael dylanwad arnom i hyn, Gen. 1. 15—21; Exod. 15, a 17; 2 Bren. 6; Act. 7. 60. 3. Dylai perygl o fod o dymher annghymmodlawn ac annrhugarog ein dylanwadu i hyn. Mae tymher ddïalgar yn lluddias y rhai a'i coleddant i dderbyn lles yn moddion gras; canys hyd yn nod yn ngŵydd Duw bydd y cyfryw yn dyfeisio ffyrdd i ymddïal unol a'r cyfryw dymher. Mae gwasanaeth y cyfryw rai yn ffieidd-dra ger bron Duw; canys nid ydynt yn addoli Duw mewn heddwch â phob dyn, ac y maent yn amddifaid o'r cariad hwnw, yr hwn yw rhwymyn perffeithrwydd. 4. Trwy faddeu y gorchfygir gelyn orau. Rhuf. 12. 20, 21; Diar. 25. 21, 22; 1 Sam. 24. 16, 17. 5. Y mae Duw wedi cyssylltu ein maddeuant ni i eraill a'i faddeuant ef i ni. Math. 6. 14, 15. 6. Fel y mae ysbryd anfaddeugar yn profi bod un yn estron i wir dduwioldeb, y mae ysbryd maddeugar yn brawf cryf o fod cyfnewidiad grasol wedi ei weithredu yn y galon, er y gall fod rhai wrth naturiaeth o dymher mwy maddeugar nag eraill. 7. Nid oes neb tebyccach i'r diafol na'r dyn dïalgar. Dïal yw ei hyfrydwch ef, ac y mae y rhai sydd yn ymhyfrydu mewn dïal, yn ymhyfrydu ynddo ef. 8. Rhaid i'r sawl sydd o dymher chwerw ac ymddïalgar, naill a'i gadael y weddi hon heibio yn hollol, neu fod yn euog o'r rhyfyg mwyaf.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth hyn dysgwn,—1. Nad oes neb heb bechod; ac na all neb dalu y ddyled hon. 2. Yr angenrheidrwydd o ran yn Nghrist, yr hwn yw machnïydd y pechadur, a'r hwn a dalodd y ddyled a ofynai cyfraith a chyfiawnder Duw. 3. Yr angenrheidrwydd sydd am i ni gyfaddef ein pechodau a'u gadael. 4. Bod maddeuant yn fendith werthfawr. 5. Yr angenrheidrwydd i ochel pechod, yr hwn sydd ddyled na's gallwn ei thalu. 6. Perygl y rhai y mae eu pechod heb ei faddeu. 7. Annghyssondeb y rhai ydynt yn gweddio am faddeuant, ond yn aros heb faddeu. 8. Bod pawb dan rwymau i faddeu i eraill. 9. Bod ein gwaith ni yn maddeu i eraill, yn brawf o'n bod wedi derbyn maddeuant ein hunain.

yr hyn a welir pan ystyrir ei nodweddiad;—Ac yn 1. Y mae yn demtiwr o'r fath fwyaf *maleisus;* nid yw yn dymuno dim llai na dinystr tragywyddol dynolryw; ac am hyny y'i gelwir dinystrydd. 2. Y mae yn demtiwr mwyaf *diflino*, 1 Pedr 5. 8. Mae yn myned oddiamgylch yn barhaus trwy y ddaiar, fel llew rhuadwy, yn gwylio am ei ysglyfaeth; ac yn dyfeisio dychymygion aneirif fel y gallo faglu feibion dynion. 3. Y mae yn demtiwr mwyaf *galluog*. Gwelir hyn oddiwrth yr enwau dan ba rai y'i hadnabyddir; megis, y cryf arfog, duw y byd hwn, tywysog llywodraeth yr awyr, tywysog y byd hwn, y ddraig goch fawr. 4. Y mae yn demtiwr mwyaf *dichellgar* yr hyn a brofir trwy amrywiol ymadroddion a ddefnyddir yn yr Ysgrythyrau; megis picellau tanllyd y fall, cynllwynion diafol, Eph. 6. 11, 16; dichellion Satan, 2 Cor. 2. 11; a dyfnderoedd Satan, Dat. 2. 24.

Mae dichell Satan yn ei amlygu ei hun yn y pethau canlynol;—1. Yn newisiad *tymhorau i demtio*, a fyddant yn fwyaf cyfaddas i'w fwriad. Gwelir hyn yn hanes temtiad ein rhieni cyntaf, a'r eiddo Crist hefyd. Gen. 3; Matt. 4. 2. Yn newisiad yr *offerynau cymhwysaf* er dwyn ei demtasiynau yn mlaen; fel hyn efe a wnaeth ddefnydd o wraig Job i'w demtio ef, o Pedr i demtio yr Iesu, ac o Judas i'w fradychu. Mae hefyd yn gwneyd defnydd o ddynion drwg, o ddynion mawr, ac o ddynion talentawg yn offerynau ei demtasiynau. 3. Yn newisiad y personau cymhwysaf fel gwrthddrychau ei demtasiwn. Fel hyn y gweithreda yn rhwydd ar ddynion o dueddiadau pruddglwyfus, segur, neu falch, 2 Sam. 24. 2, a hanes Haman yn llyfr Esther. Mae yr anwybodus a'r di gred hefyd yn dyfod yn ysglyfaeth rwydd iddo ef. 4. Yn ei waith yn temtio dynion trwy yr hyn sydd ynddo ei hunan yn gyfreithlawn, ond a wneir yn fagl iddynt hwy. Ps. 69. 22. 5. Yn ei waith yn gadael gwrthddrychau ei demtasiwn am dymhor, wedi bod yn aflwyddiannus ar y cyntaf, Luc 4. 13, a 11. 24. 6. Yn y modd y darlunia efe Gristionogaeth, sef yn y goleu mwyaf anfanteisiol. Er mwyn cadw dynion rhag ei chofleidio, a llithio eraill a'i cofleidiasant i'w rhoddi i fynu, y mae yn ei darlunio fel y peth mwyaf athrist yn y byd. 7. Trwy annog dynion i ddysgu gau athrawiaethau, ag athrawiaethau cyd-unol a chnawd; a chymhell eraill i'w cofleidio yn lle gwirionedd, Jud. 4; 2 Pedr 2. 1. 8. Yn ei waith yn ymddangos megis *cyfaill*, pan fynai ddwyn ei amcanion maleisus yn mlaen; fel hyn yr ymddangosai fel cyfaill i Efa, ac i Grist, Gen. 3. 4, 5; Matt. 4. 2, 3. Yn ei waith yn temtio dynion i oedi edifeirwch; ac i gredu er iddynt bechu, y gallant dori

ymaith eu pechodau trwy edifeirwch. Dyma un o ddyfnderoedd Satan, ac un o'i ddichellion mwyaf peryglus. Mae hon yn demtasiwn â'r hon y mae dynion yn cydsynio yn rhwydd, ac at yr hon nid yw yn cael llawer o waith perswadio. Mae dïafol yn gweithredu ar yr egwyddor fod yn hawdd edifarhau, ac y gall y pechadur edifarhau os myn, a phan y myno. Ond, er y gall y pechadur ymadael a Duw, etto ni's gall ddychwelyd atto o hono ei hunan; canys *rhodd* Duw yw edifeirwch. 10. Yn ei ymgais i ddystrywio *ffydd*;—Y mae efe yn amcanu yn benaf at y gras hwn o eiddo yr Ysbryd yn y credinwyr, oblegid mai trwy ffydd y mae y credadyn yn sefyll, yn gwrthwynebu dïafol, ac yn gorchfygu yr un drwg; ac er na's gall ei hollol ddystrywio, efe a all ei siglo a'i gwanhau yn ddirfawr. 11. Yn ei waith yn bwrw rhwystr yn ffordd y saint, pan y mynent eu cael ar lwybr eu dyledswydd orchymynedig, 1 Thess. 2. 18, lle y'n hysbysir ddarfod i'r Apostol Paul, yr hwn a arfaethasai ymweled a'r Thessaloniaid, gael ei luddias gan Satan rhag cyflawni ei amcan, yr hwn a dorrasai waith iddo trwy godi cynhenau mewn lleoedd eraill. Y mae efe hefyd yn temtio dynion i esgeuluso hunan-ymholiad, myfyrdod ar Air Duw, a gweddi; yn nghyd ag amrywiol ddyledswyddau eraill. 12. Yn ei waith yn tynu meddyliau dynion rhag sylwi ar waith Duw yn ei ragluniaeth tuag attynt hwy eu hunain yn neillduol. Ac 13. Gellir chwanegu, fod dichell Satan yn ymddangos yn ei waith yn temtio dynion i ymladd ornest, ac i roddi dwylaw gwaedlyd arnynt eu hunain. Dyma rai o gynllwynion, dichellion, dyfnderoedd, a phicellau tanllyd y fall; oddiwrth yr hyn y gwelwn yr angenrheidrwydd am yr eirchiad hwn, "Nac arwain ni i brofedigaeth."

Ond, gellir gofyn yma, A ydyw Satan i'w feio am yr holl demtasiynau hyn? Onid yw yn ddichonadwy i ni briodoli iddo ef fwy nag a ddylem? Ac onid oes llawer o demtasiynau yn cyfodi o fynwes dyn ei hunan, y rhai ni's dylid eu rhoddi yn erbyn Satan? Y mae hyny yn amlwg. Ond nid yw yn hawdd gwahaniaethu rhwng y temtasiynau sydd yn dyfod oddiwrth Satan, a'r rhai sydd yn cyfodi o galon dyn ei hun. Er hyny gallwn sylwi,—1. Y gellir golygu y temtasiynau hyny ydynt yn cyfodi yn y galon yn ddisymwth, (am ba achos y'u gelwir *picellau tanllyd*) fel cynnyrchiad Satan; eithr am y rhai ydynt yn cyfodi yn nghalon dyn, nid ydynt yn tyfu mor ddisymwth, gan eu bod yn gofyn amser i'w hystyried, rhag i'r hyn a fyddo mewn golwg genym fyned yn aflwyddiannus. 2. Nad yw y tueddiadau at bechod a gyfodant yn nghalon dyn ddim yn peri cymaint o fraw, a'r rhai a ddelont oddiwrth Satan.

3. Bod y rhai a gyfodant yn y galon, yn cael eu magu a'u coledd, tra y mae y rhai a ddelont oddiwrth Satan yn cael eu casâu: am hyny y gelwir ei demtasiynau *picellau tanllyd.*

Ffynnonell arall o demtasiwn yn mhethau y *byd hwn;* ac y mae y rhai hyn yn cynnwys ei bethau *da* a *drwg.* 1. Pethau *da* y byd hwn, o'r rhai y cyfyd temtasiynau, ydynt y pethau hyny a gyfrifir yn dda gan *ddynion;* megis golud, anrhydedd, pleserau, dyrchafiadau, &c. Ond, pan fyddo y pethau hyn yn cael eu cam ddefnyddio trwy ymddiried iddynt, neu ymddigoni ynddynt; neu pan y'u gŵyr-dröir i gan ddybenion, y maent yn dyfod yn fagl a dinystr i'r enaid, 1 Tim. 6. 9; 2 Tim. 4. 10; Matt. 13. 22. 2. Pethau *drwg* y byd hwn, o'r rhai y tardd temtasiynau, ydynt yr holl drallodau a'r cystuddiau allanol sydd yn ein cyfarfod, ac i'r rhai y'n gwneir yn agored; megis tlodi, erledigaeth, gwaradwydd, cystudd, &c. Ac y mae y pethau hyn yn cael eu troi yn demtasiynau, naill ai pan y'i diystyrir, neu, pan fyddom yn diffygio dan y wialen. Heb. 12. 5.

Trydydd ffynnonell o'r hon y tardd temtasiynau, yw y *cnawd,* wrth yr hyn yr ydym i olygu ein natur lygredig ac aflan. Ac wrth ystyried, fe gair mai dyma y gelyn mwyaf peryglus y mae a wnelom ag ef, gan ei fod o *fewn;* ac y mae yn ffynnonell temtasiwn, yn gymmaint a'i fod yn llithio i bechod, ac yn agorfa i demtasiynau oddiwrth Satan ac oddiwrth y byd. Iago 1. 14.

Yn mha ystyr bynnag y deallwn ni yr ymadrodd, "Nac arwain ni i brofedigaeth," mae yn amlwg na's gall Duw fod yn awdwr pechod, os cymerir temtasiwn mewn ystyr dda am *brawf,* megis yn achos Abraham, gellir dywedyd ei fod ef yn ein harwain i demtasiwn, neu yn ein *profi,* ac ni's beiddiwn weddio yn bendant yn erbyn y cyfryw brawfiadau. Ond, os cymerir temtasiwn mewn ystyr wahanol, yna ni's gellir dweyd fod Duw yn *temtio* neb; "ond yna y temtir pob un, pan y'i tyner ag y'i llithier gan ei chwant ei hun," Iago 1. 14. Ond, gellir dweyd fod Duw *yn arwain i brofedigaeth,* pan yn goruchwyliaeth ei ragluniaeth y byddo dynion wedi eu cyfleu mewn rhyw amgylchiadau, oddiwrth y rhai y gall eu calonnau gymeryd achlysur i bechu, ac y mae y cyfryw amgylchiadau mor amrywiol fel na's gellir eu henwi. Gellir dywedyd ei fod *yn arwain i brofedigaeth* hefyd, pan fyddo yn goddef i'w bobl gwympo i bechod, neu pan y goddefo i Satan a'i weision eu temtio i bechu. Cymh. 2 Sam. 24. 1, a 1 Cron. 21. 1. Ond, er y dichon fod goruchwyliaeth Duw felly yn ei ragluniaeth; eto y mae ei sancteiddrwydd ef yn aros yn ddi-

frycheulyd, a'i gymeriad yn bur yn mhob golygiad; canys y mae yn hawdd iddo ef ddwyn gogoniant i'w enw, a daioni i'w bobl, allan o'r cyfryw demtasiynau. Fel hyn y rhoddid attalfa ar falchder brenin Hezecia, Esa. 39; a hunan hyder yr Apostol Pedr. Ond y mae yn addas i ni grybwyll yma, fod *arwain* yn iaith yr Ysgrythyr, yn fynych yn gyfystyr â *gadael*, *goddef*, *&c.*; ac felly gellid darllen yr eirchiad, "Na ollwng, neu Na âd ni i brofedigaeth." Nid yw y gair gwreiddiol weithiau yn arwyddo dim mwy na *goddef*, neu beidio attal. Mae y dull yma o lefaru yn cael ei arfer yn fynych yn yr Ysgrythyrau; felly yn Marc 5. 12, nid yw y gair *Danfon ni*, yn golygu dim mwy na *goddef i ni fyned*. Mae yr un arwyddocäad i'r gair yn y lleoedd canlynol, Gen. 24. 54, 56, 59. 2 Thess. 2. 11.

Sylw 367.—*Trwy y chweched eirchiad yn Ngweddi yr Arglwydd, "Ac nac arwain ni i brofedigaeth, eithr gwared ni rhag drwg," fe'n dysgir i weddio ar i Dduw ein cynnal a'n gwaredu pan y'n temtier.*

Wrth *ddrwg* yn yr eirchiad hwn, "Gwared ni rhag drwg," y gallwn ddeall,—1. *Y drwg o bechod;* yr hwn yn ddiau yw y drwg mwyaf a ellir ei enwi, neu feddwl am dano; gan ei fod yn achos o bob drwg arall y gallwn fyned i'w afael yn y byd hwn, neu yr hwn a ddaw; canys oni buasai bechod, ni buasai ddrwg mewn dim. 2. *Y drwg o demtasiwn;* yr hyn yw pob peth a duedda i lithio i bechod; ac oddiwrth yr hyn y gallwn weddïo am gael ein cadw, neu ein cynnal a'n gwaredu pan y'n temtier.

Ond nyni a allwn yma enwi rhai o'r *drygau neillduol*, oddiwrth y rhai y gallwn weddïo am gael ein gwaredu. Mae yn gyfreithlawn i ni ofyn i Dduw ein gwaredu, 1. Oddiwrth *ddrygau tymhorol*, câu belled ac y byddo hyny er gogoniant Duw, a'n gwir les ninnau yma ag yn y byd a ddaw. 2. Oddiwrth *ddrwg ein calon ein hunain*, yr hon a elwir "calon ddrwg annghrediniaeth," Heb. 3. 12, a'r hon yw ffynnonell yr holl bechod sydd yn y byd; canys, pe na buasai galon ddrwg oddifewn, ni allasai dïafol a byd oddiallan wneyd dim o'u hôl er niweid. 3. Oddiwrth *ddrwg Satan*, yr hwn a elwir *y drwg*, Matt. 13. 19, a gorchwyl gwastadol yr hwn yw ymrodio oddi amgylch ar hyd wyneb y ddaear, gan geisio y neb a allo ei lyncu. Ac, 4. Oddiwrth *ddrwg y byd*, yr hwn a elwir *y byd drwg*, Gal. 1. 4.

Nid yw yr eirchiad "gwared ni rhag drwg," yn arwyddocâu y bydd i'r saint ddïanc yn llwyr oddiar y drygau y maent

yn agored iddynt yn y fuchedd hon; canys er y gallant trwy ddaionus ragluniaeth Duw,gael eu gwaredu oddiwrth ddrygau peryglus, fel na chyflwyner achlysuron o bechod iddynt; eto ni's gallant ffoi oddiarnynt eu hunain,—oddiar y llygredigaeth sydd o'u mewn, ac yn anysgaredig oddiwrthynt yn y byd hwn. Ond nid oes dim annghyssondeb rhwng yr anmhossiblrwydd o lwyr ymwared oddiwrth ddrwg, a'u dymuniad am waredigaeth; canys y mae hyn yn llwyr gysson a'u hamgylchiadau yn rhagluniaeth. Ond, er nad yw y deisyfiad yma yn arwyddocâu rhyddhâd llwyr oddiwrth ddrwg, tra yn y fuchedd hon, eto yn ddïau y mae yn cynnwys rhyw beth y mae y saint yn dra hoff o hono, a thrwy yr hyn y'u calonogir i obeithio y caniattêir eithaf eu dymuniadau yn yr eirchiad hwn iddynt yn fuan. Gan hyny y mae ei wir arwyddocäad yn cael ei ddynodi yn gywir yn yr eglurhad a roddir yma ar y testyn, sef, "*Ar fod i Dduw ein cadw rhag cael ein temtio i bechod, neu ein cynnal a'n gwaredu pan y'n temtier.*" Trwy y dull hwn o ymadroddi, y mae y saint yn eu gadael eu hunain yn llaw eu Duw yn hollawl, i wneyd a hwy fel y byddo da yn ei olwg, oddiar wir argyhoeddiad y bydd i bob peth gyd weithio er eu lleshad yma ac ar ol hyn. Rhuf. 8. 28.

Y dyben mawr a ddylai fod mewn golwg genym wrth gyflwyno yr eirchiad hwn, yw, *perffeithiad ein sancteiddhad a'n iachawdwriaeth;* bod i Satan gael ei orchfygu, a bod i ni gael ein llwyr ryddhau oddiwrth bechod, a themtasiwn,a phob rhyw ddrwg. A rhaid bod y meddwl wedi ei ennill i gredu yn gadarn y gall Duw ein gwaredu oddiwrth bob drwg, ac mai efe yn unig a all wneyd hyny; canys heb ffydd y mae yn anmhossibl i'r eirchiad hwn, na'r un arall fod yn dderbyniol. Heb. 11.6.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Mai byd o berygl yw y byd hwn, i'r hwn yr ydym yn agored yn wastadol. 2. Y gall Duw ein profi er ei ogoniant ei hun, ac er ein lles ninnau. 3. Y ddyledswydd a'r angenrheidrwydd o hunan-adnabyddiaeth. 4. Yr angenrheidrwydd am ffydd i orchfygu y diafol. 5. Yr angenrheidrwydd am wyliadwriaeth a gweddi. 6. Y gall Duw yn gyfiawn ein harwain, neu ein goddef i fyned i brofedigaeth, am bechu i'w erbyn. 7. Bod profedigaeth yn y diwedd er lleshad i'r saint, Rhuf. 8. 28. 8. Ein bod ni o honom ein hunain yn llwyr analluog i wrthsefyll profedigaeth; ac o ganlyniad dan angen anhebgorol i ymddibynu ar Ysbryd Duw.

## *Am Ddiweddglo Gweddi yr Arglwydd.*

HOL. 107. PA BETH Y MAE DIWEDDGLO GWEDDI YR ARGLWYDD YN EI DDYSGU I NI?

Diweddglo Gweddi yr Arglwydd (yr hyn yw, "Canys eiddot ti yw y deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd, Amen,") sydd yn ein dysgu i gymeryd calon mewn gweddi oddiwrth Dduw yn unig; ac i'w foliannu ef yn ein holl weddiau, gan briodoli y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant iddo ef; ac er tystiolaeth o'n disgwyliad a'n hyder am wrandawiad, y dywedwn, Amen.

DOSRANIAD A PHROFION.

Fe'n dysgir yma,—

1. Mai diweddglo Gweddi yr Arglwydd yw, "Canys eiddot ti yw y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd, Amen." Matt. 6. 13.

2. Y dylem dynu ein calondid mewn gweddi oddiwrth Dduw yn unig, Dan. 6. 18. "Oblegid nid o herwydd ein cyfiawnderau ein hun yr ydym ni yn tywallt ein gweddiau ger dy fron, eithr o herwydd dy aml drugareddau di."

3. Y dylai fod diolchgarwch a mawl yn ein gweddiau. 1 Cron. 29. 10. "Yna y bendithiodd Dafydd yr Arglwydd yn ngŵydd yr holl dyrfa, a dywedodd Dafydd, Bendigedig wyt ti, Arglwydd Dduw Israel, ein tad ni, o dragywyddoldeb hyd dragywyddoldeb." Gwel hefyd Phil. 4. 6.

4. Y dylem yn ein gweddiau briodoli y deyrnas, neu arglwyddiaeth gyffredinol i Dduw. 1 Cron. 29. 11. "Y cwbl yn y nefoedd, ac yn y ddaear sydd eiddot ti; y deyrnas sydd eiddot ti, Arglwydd, yr hwn hefyd a ymddyrchefaist yn ben ar bob peth."

5. Y dylem yn ein gweddiau, briodoli pob gallu a gogoniant i Dduw, 1 Cron. 29. 11. "I ti, Arglwydd, y mae mawredd, a gallu, a gogoniant, a goruchafiaeth, a harddwch."

6. Y dylem mewn gweddi, ddymuno yn ddifrifol am i Dduw ein gwrando, Dan. 9. 19. "Clyw, Arglwydd; arbed, Arglwydd; ystyr O Arglwydd, a gwna; nac oeda er dy fwyn dy hun, O fy Nuw."

7. Y dylem weddio mewn gobaith, a hyder gostyngedig y bydd i Dduw ein gwrando, Heb. 10. 22. "Nesâwn a chalon gywir, mewn llawn hyder ffydd."

8. Y dylai ein gweddiau gael eu terfynu gydag "Amen." Ps. 106. 48, "A dyweded yr holl bobl, Amen."

EGLURHAD.

Sylw 368.—*Trwy ddiweddglo Gweddi yr Arglwydd fe'n dysgir y dylem dynu ein calondid mewn gweddi oddiwrth Dduw yn unig.*

Mae diweddglo Gweddi yr Arglwydd yn ein dysgu i gefnogi ein heirchion â rhesymau, Rhuf. 15. 30. Ac y mae y meddwl yma yn codi oddiar gydiad y diweddglo â'r eirchion trwy y geiryn *canys;* trwy yr hyn y dangosir y gellid defnyddio yr hyn a ganlyn fel rhesymau mewn gweddi ar Dduw, Fel pe dywedasid, "Dyro i ni heddyw ein bara beunyddiol—canys eiddot ti yw y deyrnas.—Maddeu i ni ein dyledion—canys eiddot ti yw y gallu a'r gogoniant," &c. Mae genym amryw esamplau yn yr Ysgrythyrau o saint yn cefnogi eu gweddiau â rhesymau, Gwel Exod. 32. 11—13, lle y dadleuai Moses resymau neillduol dros ei ddeisyfiad, Dan. 9. 4—19, lle mae Daniel yn cefnogi ei ddeisyfiadau â rhesymau mor gryfion, er nad yn gwbl o'r un natur, 2 Cron. 14. 11, y gwelwn fel y cefnogai Asa ei ddymuniad, Matt. 15. 22, fel yr oedd y wraig o Syrophenicia yn lluosogi ei rhesymau, fel y llwyddai, od oedd bossibl; gan ei bod yn benderfynol i gael ei gwrando; Job 23. 4, lle y dywedai Job y llanwai ei enau â rhesymau; ac amryw esamplau cyffelyb a gawn ni yn yr Ysgrythyrau. Mae gwir natur gweddi yn dangos, os cawn ni ei hysbryd priodol, y rhaid i ni fod yn daer, gan ddadleu a chefnogi ein heirchion â rhesymau cyfaddas; oblegid mai ymwneyd â Duw ydyw gweddi, yn nghylch pethau o dragywyddol bwys, â'r rhai y mae pawb yn dwyn y berthynas agosaf. Nid yw ffurf o ymadrodd oer a difywyd, ac adroddiad dïofol, claiar, o'n deisyfiadau ger ei fron yn debyg o ffynu gyda Duw; canys y mae efe yn ymhyfrydu nid mewn gwefus wasanaeth yn unig ond mewn difrifwch,gwresawgrwydd, a thaerni, a dymuniadau ehang tuag atto, fel pe na's mynem ddyfod oddiwrth ei orsedd heb wrandawiad ac attebiad.

Ond, er y dylem gefnogi ein heirchion â rhesymau, eto dylem gofio na all unrhyw resymau *gyffroi* Duw, ei *gymhell*, neu ei *berswadio* i gyfrannu i ni yr hyn y byddom yn ei ddymuno, neu y peth na's gwelo efe yn addas ei gyfrannu, er y gallwn ni ein hunain ei farnu yn angenrheidiol. Mae Duw yn gwybod yn berffaith pa fath yw ein hamgylchiadau; efe a wyr hefyd pa beth sydd yn angenrheidiol arnom; ac y mae efe wedi rhagarfaethu yn ei feddwl ei hun pa beth a gyfranna

efe i ni, ac ni all unrhyw resymau newid ei fwriad ef; canys gyd ag ef nid oes gyfnewidiad, na chysgod troedigaeth. Gan hyny, y dyben mawr o gefnogi ein heirchion â rhesymau, ydyw, nid er *effeithio* ar Dduw, ond er *effeithio arnom ein hunain;* er adfywio ein ffydd, a chryfhau ein gobaith, fel y derbyniom yr hyn sydd angenrheidiol arnom o gyflawnder y y cyfammod, yn amser a ffordd Duw, Dan. 9. 18. Mae yn ddiau ei bod yn ddyledus arnom ymwneyd a'r hyn sydd angenrheidiol er meithrin ein ffydd, a'n gwresawgrwydd mewn gweddi, ac y mae pa beth bynnag a dueddo i hyny, yn wir angenrheidiol. Gan hyny y mae effaith pob rheswm yn gorphwys gyda *ni ein hunain,* ac nid gyda Duw; er fod hyn yn ol trefn y cyfammod yn cael ei alw "llwyddo mewn gweddi," pan fyddom yn llenwi ein geneuau a rhesymau, a phan fyddo ein gweddiau yn cael eu hatteb; am ba achos y dywedir, "Llawer a ddichon taer weddi y cyfiawn," Iago 5. 16.

Rhaid i bob rheswm a ddefnyddir mewn gweddi, fod wedi ei gymeryd *oddiwrth Dduw yn unig;* canys, os Duw yw unig wrthddrych gweddi, ac os oddiwrtho ef y rhaid i bob atteb ddyfod, y mae yn weddus i ni gymeryd pob annogaeth i weddi oddiwrtho ef yn unig. Ofer yw i neb ddadleu eu teilyngdod eu hunain, neu deilyngdod unrhyw greadur arall, Dan. 9. 19, lle y mae Daniel yn tynu ei resymau am wrandawiad oddiwrth ei Dduw yn unig. Ac yn ddiau y mae yn Nuw ddigon am bob peth angenrheidiol yn y golygiad yma, am hyny nid rhaid i ni geisio rhesymau o ddim heblaw efe er cefnogi ein deisyfiadau.

Trachefn, rhaid i bob dadl a dynir oddiwith Dduw, neu bob calondid mewn gweddi, gael ei thynu o'r amlygiad a wneir o ogoniant ei briodoliaethau mewn iachawdwriaeth berffaith, Ps. 85. 10; lle y gwelwn fod holl briodoliaethau a godidawgrwydd y natur Ddwyfol yn cyd ddysgleirio yn nghyfranniad pob bendith addawedig i bechaduriaid o ddynolryw, ar gyfrif ufudd-dod ac iawn teilwng Crist wedi ei gyfrif iddynt, a'i dderbyn trwy ffydd yn unig. Gwel hefyd 1 Cor. 3. 21—23; lle y mae Duw yn cael ei ddatguddio mewn cynnifer o ffyrdd graslawn, fel y mae pob un o honynt yn ddefnydd dadl gymhwys mewn gweddi, yn ol ein gwahanol amgylchiadau. A phan y mae y cwbl yn eiddo y credadyn, y mae yn dyfod yn ffynnonell anhysbyddawl o ddadl, yr hon sydd raid ei bod yn wir gymeradwy gan Dduw, pan y'i tynir o hono ei hunan,— o'r nodweddiad y mae yn ei ddwyn fel y'i dadguddir yn ei Fab, yn yr hwn yn unig y mae efe yn "Wrandawr gweddi."

Ond, efallai y gofynir yma, Onid ydym yn cael y saint, megis Dafydd, Ps. 25. 11, yn defnyddio yn ddadl mewn gweddi

ger bron Duw *fawredd eu pechodau!* I hyn yr attebwn yn gadarnhäol; ond, y mae grym y ddadl yn gorwedd gyda Duw ei hunan, enw yr hwn a fawrygir trwy faddeuant pechod mawr. Yn yr adnod grybwylledig, gweddi Dafydd yw, "Maddeu fy anwiredd, canys mawr yw; ond y ddadl yw, "Er mwyn dy enw Arglwydd." Yr un a phe dywedasai, "O Arglwydd, maddeu fy anwiredd, fel y mawryger dy enw." Trwy y gyffes hon yr oedd Dafydd yn dwyn ei feddwl ei hun i deimlo mwy, yr hyn sydd beth mawr i'w ennill mewn gweddi. Gan hyny, gellir dadleu mawredd ein trueni, nifer ein pechodau, a'n hangen mewn gweddi; ond dylai fod ein llygaid ar Dduw ei hunan yn wastadol, a'n bod yn cadw ei briodoliaethau gogoneddus mewn golwg, y rhai a ogoneddir mewn gwrandawiad ac attebiad gweddi trwy Iesu Grist, yn yr hwn y'i llwyr foddlonwyd.

Sylw 369.—*Trwy ddiweddglo Gweddi yr Arglwydd fe'n dysgir y dylem yn ein gweddiau foliannu Duw, trwy briodoli y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant iddo ef.*

Mae diweddglo gweddi yr Arglwydd yn ein dysgu i foliannu Duw yn ein gweddiau. A gallwn sylwi yma, fod y ffurf, neu y cynllun hwn o weddi, yn dechreu ac yn diweddu gyda mawl; ac felly y dylai fod yn ein holl weddiau ninnau. Pan fyddom yn dechreu gweddio, dylem feddu meddyliau dyrchedig am Dduw, yr hyn sydd fawl iddo; a phan fyddom yn terfynu, dylem feddu meddyliau dyrchafedig am dano, fel pan fyddom yn gadael gorsedd gras am yspaid, y gallwn ddwyn gyda ni feddyliau teilwng am y mawrhydi Dwyfol. Trwy y cyntaf, fe'n cynnorthwyir i'w addoli yn barchus, a thrwy yr olaf, byddwn yn fwy gwyliadwrus yn erbyn pechod. Yn y ffyrdd hyn yr ydym yn moliannu Duw; ac yn mhob rhan o addoliad yr ydym yn ei foli ef, a hyny yn arbenig mewn gweddi, pan yn ymarfer y gras o *ffydd;* canys y mae efe yn ei ystyried ei hun yn cael ei anrhydeddu trwy bob ymarferiad o'r gras hwn. Heb. 11.

Dylem foliannu Duw yn ein gweddiau, *trwy briodoli y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant iddo ef.* Wrth hyn yr ydym i ddeall,—1. Ei *dragywyddol arglwyddiaeth* yn nheyrnas natur, a theyrnas gras; yn mhob un o ba rai y medd gyfleusdra i amlygu ei dragywyddol arglwyddiaeth. 2. Ei *hollalluogrwydd,* wrth yr hyn yr ydym i ddeall, nid yn unig yr *awdurdod* trwy yr hyn y gall efe wneyd yr hyn a fyno yn ei deyrnas; ond hefyd y *nerth* trwy yr hwn y *gall* ei wneuthur. Ac wrth ystyried natur, ac ehangder teyrnas Dduw, y mae yn rhaid fod gallu yn perthyn iddo ef; canys heb hyn, ni's gellid cynnal ei

arglwyddiaeth, ni's gellid llywodraethu ei deyrnas. 3. Ei *ardderchawgrwydd gogoneddus;* yr hyn yw y dyben a roddes efe iddo ei hun yn llywodraethiad ei deyrnas, ac yn yr ymarferiad o'i allu. Ac o ganlyniad, pa beth bynnag a wna, pa beth bynnag a wnaeth, a pha beth bynnag a ewyllysia, sydd er ei foddlonrwydd ei hun, ac a ddychweli i'w ogoniant, Esa. 48. 11.

*Priodolwn y deyrnas i Dduw*, pan y'i golygwn yn dal y deyrnwialen dros anian oll, yn cyfeirio llyw rhagluniaeth, ac yn hwylio ei bobl i borthladd tragywyddol orphwysfa yn ei amser a'i ffordd ei hun; yn ymostwng yn mhob peth perthynol i ni ein hunain ac eraill, pan y cydnabyddom bod i'r hwn a'n gwnaeth hawl i'n llywodraethu, ac i ofyn ufudd-dod a gwasanaeth genym; pan fyddom yn ymdrechu i roddi iddo ef ogoniant ei enw; pan y cyffesom fod pob peth yn ei ddwylaw ef, ac y gall efe wneuthur fel y myno a'i greaduriaid oll; pan y byddom yn priodoli uniondeb a chyfiawnder iddo ef yn ei holl ffyrdd, ac yn dal na's gall efe wneuthur cam a neb; pan y priodolwn iddo ef y gallu mwyaf annherfynol, ac y credom mai efe yn unig a ddylai deyrnasu fel brenin cyffredinol.

*Priodolwn y gallu i Dduw*, pan y priodolwn iddo ef bob gallu yn y nef ac ar y ddaear; pan addefom y gall gyflawni ei holl fwriadau, na's gall neb wrthdroi ei amcanion; ac y gall efe gyfrannu neu attal yr hyn a fyddo da yn ei olwg ef; pan addefom y gall efe wneuthur ei air yn effeithiol, pa mor wrthwyneb bynnag y byddo i ewyllys y creaduriaid; pan y cyffesom nad oes dim yn anhawdd iddo ef—a bod yr hyn a ymddangosa yn anmhossibl i ddynion ac angelion, yn hawdd i Dduw; a phan y cydnabyddom fod yn mhob man o'i arglwyddiaethau ehang, olion ei nerth anfeidrol, yr hyn sydd angenrheidiol i lywodraethu y creaduriaid a wnaeth efe, a holl drefn y cyfan-fyd.

*Priodolwn y gogoniant i Dduw*, pan yr addefwn ei fod yn feddiannol ar bob ardderchawgrwydd a all ei wneuthur yn ogoneddus yn ngolwg angelion a dynion; pan y cyffesom fod mawl ac anrhydedd pob peth sydd fawr ac ardderchog, neu sydd a thuedd i gynnyrchu ein bri a'n parch, yn ddyledus iddo ef; pan addefom nad oes neb mor deilwng a'r Arglwydd; a phan y cydnabyddom mai efe yn unig a ddylai gael ei foliannu gan ddynion ac angelion. Gellir sylwi yma, fod *gogoniant* yn y fan hon, yn dwyn perthynas arbenig a'r hyn a wna efe yn ei deyrnas, ac a'r gweinyddiad o'i allu ynddi; oddiwrth yr hyn y mae gogoniant yn deillio i Dduw, ac i ddychwelyd iddo drwy holl oesoedd di ddiwedd tragywyddoldeb. Nyni a allwn dynu calondid mewn gweddi oddiwrth deyrnas, gallu, a gogoniant Duw, yn y golygiadau canlynol:—1. Gallwn gymeryd y

calondid yma mewn gweddi oddiwrth *deyrnas* Dduw, na chaiff fod arnom eisiau dim daioni, fel ei greaduriaid, neu fel ei blant, Mat. 7. 11. 2. Oddiwrth *allu* Duw gallwn gymeryd y calondid canlynol mewn gweddi, na all unrhyw anhawsder luddias cyflawniad ei addewidion, Rhuf. 4. 21; Eph. 3. 20. 3. Oddiwrth *ogoniant* Duw, gallwn dynu y calondid yma mewn gweddi, y bydd i gwblhad ei amcanion gogoneddus, a chyflawniad ei addewidion graslawn, weinyddu i'w fawl a'i ogoniant ef, Ps. 14. 7.

Fel y byddo y calondid yma mor fawr ag y mae yn bossibl, y mae *tragywyddoldeb* yn cael ei briodoli i deyrnas, a gallu, a gogoniant Duw:—"Canys eiddot ti yw y deyrnas, a'r gallu a'r gogoniant, *yn oes oesoedd.*" Rhaid i ni briodoli y pethau hyn i Dduw dros byth; ac yn y golygiad yma y mae Duw yn gwahaniaethu oddiwrth bob breninoedd a llywodraethwyr daearol. Pa mor faith bynnag y gall fod parhad eu teyrnas, eu gallu, a'u gogoniant hwy, nid yw ond megis diddim o'i gydmaru a'i barhad *ef*, yr hwn y mae ei deyrnas yn deyrnas dragywyddol, yr hwn y mae ei allu yn oes oosoedd, ac yr amlygir ei ogoniant i dragywyddoldeb.

Sylw 370.—*Trwy yr ychwanegiad o "Amen" at ddiweddylo Gweddi yr Arglwydd, fe'n dysgir y dylem chwanegu Amen at ein gweddiau, er tystiolaeth o'n dymuniad a'n sicrhad o wrandawiad.*

*Amen* sydd air Hebraeg; yn yr hon iaith y mae yn arwyddocâu *gwirioneddol, ffrwythlawn, sicr.* Yn mysg yr Iuddewon fe'i defnyddid i gadarnhau rhyw beth; ao yn y Testament Newydd nyni a gawn ein Iachawdwr yn gwneyd defnydd mynych o hono. Pan y'i defnyddid ganddo ef, y mae wedi ei gyfieithu yn gyffredin, "*Yn wir,*" Ioan 3. 3, 5. Dywedir fod addewidion y cyfammod yn *Amen* yn Nghrist,—hyny yw, y maent oll yn sicr, yn eirwir, ac i gael eu cyflawni, 2 Cor. 1. 20. A gelwir Iesu Grist ei hunan, *Amen*, y tyst ffyddlawn a chywir. Dat. 3. 14. Ar ddiwedd cyffes ffydd, y mae yn arwyddo *felly y mae*, ac yn dynodi crediniaeth o'r athrawiaethau a gynnwysir yno; ac ar ddiwedd gweddi, y mae yn arwyddo, *felly bydded*, neu *felly y bydd.*

Fe'n hysbysir yma y dylem ddibenu ein gweddiau ag Amen, *er tystiolaeth o'n dymuniad am wrandawiad, a'n hyder y'n gwrandewir.*

1. Yr ydym yn diweddu ein gweddiau ag Amen, *er tystiolaeth o'n dymuniad am gael ein gwrandaw*, pan drwy ffydd y'n galluogir i ddadleu a Duw, am atteb o hono ein gweddiau, a

chyflawni ein dymuniadau. Ac yn y golygiad yma y mae yn arwyddocâu *felly y byddo*, 2 Cron. 20. 6, 11. Dat. 22. 20.

2. Yr ydym yn diweddu ein gweddiau ag Amen *er tystiolaeth o'n hyder y'n gwrandewir*, pan drwy ffydd y'n galluogir i ymorphwys ar Dduw, ac i ymddiried ynddo ef, y bydd iddo yn ddïau atteb ein gweddiau, a chyflawni ein dymuniadau. Ac yn y golygiad yma y mae yn arwyddocâu, *felly y bydd*, 2 Cron. 14. 11.

Mae *Amen* yma i'w olygu yn y ddau ystyr uchod; canys y mae yn ddïau fod y Cristion cywir yn ei ddyfodfa at Dduw, yn dymuno cael ei wrandaw; ac mewn ffydd yn sicrhau ei hunan y'i gwrandewir yn amser a ffordd yr Arglwydd ei hunan. Ni all fod dymuniad am unrhyw fendith addawedig, mewn ffydd, heb fod gradd o sicrwydd y cyfrenir y fendith hono pan welo yr Arglwydd yn dda. Rhaid fod hyder i raddau mwy neu lai yn natur ffydd; canys ymorphwysiad ar *eirwiredd* Duw ydyw; a "ffyddlon yw yr hwn a addawodd." Mae hon yn sicr yn sail ddisigl i ffydd pob credadyn yn yr Arglwydd Iesu Grist.

### CASGLIADAU.

Oddiwrth y testyn hwn dysgwn,—1. Y dylem gefnogi ein gweddiau â rhesymau, gan ein bod ynddynt yn ymwneyd â Duw am bethau o dragywyddol bwys. 2. Y dylid defnyddio rhesymau mewn gweddi, nid fel y gallom gyffroi, cymhell, neu berswadio Duw, ond fel yr effeithier arnom ni ein hunain. 3. Bod yn rhaid tynu pob rheswm a ddefnyddir mewn gweddi, oddiwrth Dduw yn unig. 4. Bod yn rhaid tynu pob calondid mewn gweddi o'r amlygiad o ogoniant y priodoliaethau Dwyfol yn ngwaith y prynedigaeth. 5. Y dylem foliannu Duw mewn gweddi trwy briodoli y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant iddo ef. 6. Y dylem chwanegu Amen at ein gweddiau, nid fel arwydd fod ein gweddiau ar ben (fel y tybia llawer sydd yn ddieithr i arwyddocäad y gair) ond er tystiolaeth o'n dymuniad am wrandawiad gan "Wrandawr gweddi," a hefyd er tystiolaeth o'n hyder y'n gwrandewir yn amser a ffordd yr Arglwydd ei hun.

# MYNEGAI.


Adda, holl ddynolryw wedi pechu ynddo, 67.
Addoliad Duw, 200, 201.
Anniweirdeb yn cael ei wahardd, 254.
Arfaethau Duw, neu ei fwriadau, 43; eu priodoliaethau amrywiol, 44; eu gwrthddrych, 45; er gogoniant Duw, 45; yr athrawiaeth am arfaeth Duw wedi ei bwriadu er daioni i ni, 46; nad ei arfaeth yw rhëol ein hymddygiad, 46; eu cyflawni mewn creadigaeth a rhagluniaeth, 47.
Atheistiaeth yn cael ei wahardd, 190.

Bedydd, ei natur, 338, 341; pa fodd y mae i gael ei weinyddu, 342; ei ddybenion, 342; ei effeithiolrwydd, 344; yr angenrheidrwydd i'w gyflawni, 345; dyledswyddau Cristionogion mewn perthynas iddo, 345; i bwy ni ddylid gweinyddu bedydd, 347; hawl plant credinwyr, 348-351; nad yw i'w gweinyddu fwy nag unwaith, 352; nad yw enwi plentyn yn un ran o fedydd, 352; na's medd neb ond rhieni y plentyn ei hunan hawl i gyflwyno y plentyn i'w fedyddio, 352.
Byd, y, wedi ei greu o ddim, 48; trwy air nerth Duw, 49; mewn chwe' diwrnod, 49; yn dda iawn, 50; er gogoniant Duw, 50.

Celwydd, yn cael ei wahardd, 265-268.
Crist, yr unig Waredwr, 85; tragywyddol Fab Duw, 86; wedi dyfod yn ddyn, 86; yn Dduw a dyn, 86; y bydd e felly byth, 87; wedi cymeryd gwir gorph, ac enaid rhesymol, 89; wedi ei genhedlu trwy nerth yr Ysbryd Glan, 89; ei eni o'r wyryf Fair, 90; ei eni heb bechod, 90; yn broffwyd, offeiriad, a brenin, 91-93; rhaid ei dderbyn trwy ffydd yn ei holl swyddau, 93; yn datguddio ewyllys Duw trwy ei Air a'i Ysbryd, 95; ac er iachawdwriaeth ei bobl, 95; yr unig offeiriad a all dynu ymaith bechod, 96; wedi ei offrymu ei hun yn aberth i Dduw, 98; a hyny ddim ond unwaith, 98; dros yr etholedigion yn unig, 99; er gwneuthur iawn i gyfiawnder dwyfol, 100; er cymmodi pechaduriaid â Duw, 100; y mae yn eiriol yn barhaus, 101; ei fod ef yn frenin, 104; yn meddu dwy deyrnas, 104; ei deyrnas gyfryngol, 105; ei weithredoedd fel brenin, 106; ddarfod iddo ei ddarostwng ei hunan, 108; efe a ymostyngodd i angau, ac a gladdwyd, ac arhodd dros dymhor dan arglwyddiaeth angau, 109; a ddyrchafwyd drwy ei adgyfodiad a'i esgyniad, 110 114; a farna y byd, 115; ei fod wedi pwrcasu iachawdwriaeth i'w bobl, 118; ei fod i'w dderbyn yn ol y cynnygiad efengylaidd o hono, 295; credinwyr yn cael eu gwneyd yn gyfrannogion o hono yn y sacrament, 360.
—— ei gyfiawnder cyfrifol ef yn cael ei dderbyn trwy ffydd, 136; yn adchwelyd gogoniant i Dduw, 139.
Cybydd dod yn cael ei wahardd, 273, 274.
Cyfiawnhad a sancteiddhad, y gwahaniaeth rhyngddynt, 132.
———— yn weithred o ras Duw yn unig, 133; cyfiawnder Crist yn cael ei gyfrif i'r credadyn yn y, 134; pechodau credinwyr yn cael eu maddeu yn y, 135; seiliau cymeradwyaeth yn y, 135.

Deddf Duw, diffyg cydffurfiad â hi, 62; trosedd o honi, 63.
Deddfau Duw, naturiol a phennodol, 167.
Diweirdeb yn cael ei ofyn, 243.
Duw, gogoneddu a mwynhau, 15; cyfarwyddyd i hyny, 17; ei fod ef, 23; ei enwau, 23; mai ysbryd yw, 24; ei briodoliaethau, 25; yn anfeidrol, 26; yn dragywyddol, 28; yn annewidiol, 28; yn anfeidrol ddoeth, 28; galluog, 29; sanctaidd, 30; cyfiawn, 31; daionus a thrugarog, 32; geirwir a ffyddlawn, 32; nad oes ond un Duw, 35; y gwir a'r bywiol Dduw, 35; pa fodd i ddianc rhag ei ddigofaint a'i felldith, 287.
Duwdod, personau yn y, 37; dim ond tri pherson, 38; eu priodoliaethau annghyfrannogol, 40.
Dyn, dyben ei greadigaeth gyda golwg ar Dduw, 11; arno ei hunan, 13; yn wrryw a banyw, 51; ar ddelw Duw, 52; yn meddu arglwyddiaeth ar y creaduriaid, 52; ei gwymp, 60; trwy fwytta y ffrwyth gwaharddedig, 64; yr achlysur o hyny, 65; pa beth a gynnwysai y camwedd hwnw, 65; ei ysgelerder, 66; ei ganlyniadau, 69-72.
Edifeirwch, pa fodd y'i gwahaniaethir, 309; pa fodd y gweithredir gwir, 311; ei ffynhonau, 312; o ba beth y mae yn gynnwysedig, 313.
Eilunaddoliaeth yn cael ei warafun, 191.
Etholedigaeth, 77; ei bwriad o dragywyddoldeb, 77; ei tharddiad o ewyllys da Duw, 78.
Ewyllys rydd, ein rhieni cyntaf wedi eu creu ag, 60; i ddaioni wedi ei golli trwy y cwymp, 61; yn cael ei adnewyddu trwy alwedigaeth effeithiol, 126.
Farn olaf, prawfion o'r, 115; Crist yn barnu, 115; credinwyr yn cael eu harddelwi yn gyhoeddus ynddi, 162; cyflwr y digred yn y farn, 163.
Foesol, y Ddeddf, y gyntaf a roddwyd i ddyn, 168; ei natur, 168; pa beth na's gellir ei gael trwyddi, 169; ei golygu dan dair ffurf, 169; i bwy y mae yn wasanaethgar, 172; pa ddeddfau eraill a roddwyd gynt heblaw hon, 173.
Ffydd, yn sylfaen ufudd-dod, 21; yn uno y credadyn a Christ, 121; darnodiad o ffydd, 290; ei dyben, 293; rhodd Duw ydyw, 298; y ffordd i adnabod gwir ffydd, 300; cydwybodolrwydd y prif brawf o honi, 302; prawfion eraill, 306.
Gair Duw, ei ddarllen a'i bregethu, 319; pa fodd y mae yn dyfod yn effeithiol er iachawdwriaeth, 322; defnyddiad priodol o hono, 324.
Galwedigaeth effeithiol, y credinwyr yn cael eu huno a Christ trwy hyny, 120; yn waith yr Ysbryd Glan, 123; yr Ysbryd yn argyhoeddi o bechod a thrueni trwy, 125; yn goleuo y meddwl, 126; yn adnewyddu yr ewyllys, 126; yn perswadio ac yn galluogi yr enaid i gofleidio Crist, 127.
Gorchymynion Duw, neb er y cwymp yn abl i'w cadw yn berffaith, 276; yn cael eu troseddu yn feunyddiol, 278.
Gorchymynion, y Deg, pa fodd y'u rhoddwyd, 175; crynodeb o'u cynnwys, 176; rheolau angenrheidiol er eu hiawn ddeall, 177; eu testyn cyntaf a phenaf, 180; eu hail destyn, 181; rhesymau dros eu cadw 183, 184.

Gras y Cyfammod, 77; y pleidiau ynddo, 80; ei ammod, 81; yr addewidion a wnaed ynddo, 82; y gweinyddiad o hono, wedi ei ymddiried i Grist, 82; ei amcan, 83.
Greadigaeth, y 48.
Gweddi, ei natur, 376; am ba bethau y dylid gweddio, 377; yn enw pwy, 378; i'w dilyn â chyffes o'n pechod, 379; â diolchus gydnabyddiaeth o drugareddau Duw, 380; amryw fath o, 381; rhëol er cyfarwyddyd mewn, 384; holl Air Duw yn ddefnyddiol i hyny, 385; gweddi yr Arglwydd yn rhëol neillduol, 386.
Gweddiau, y dichon i ni wybod eu bod yn cael eu hatteb, 382.
Gweddi yr Arglwydd, ei rhagymadrodd yn ein dysgu pa fodd y dylem nesâu at Dduw, 388; y dylem weddio gydag eraill a throstynt, 390.
——— yr Eirchiad Cyntaf ynddi a'n dysg i weddio am i bawb allu gogoneddu yr Arglwydd, 391, 392; ar i Dduw wneyd pob peth er ei ogoniant ei hun, 394.
——— yr Ail Eirchiad ynddi a'n dysg i ofyn am i Dduw amlygu ei allu fwyfwy, &c., 396; ar i deyrnas Satan gael ei dystrywio, 397; ar i deyrnas gras ffynu, 397; ar i freniniaeth gogoniant gael ei phrysuro, 398
——— y Trydydd Eirchiad ynddi a'n dysg i weddio am i Dduw ein galluogi i adnabod ei ewyllys a'i gyflawni, 399, 401; i ymostwng i'w ewyllys rhagluniaethol, 402; fel y mae angelion y nef yn gwneyd, 402.
——— y Pedwerydd Eirchiad sydd yn ein dysgu i weddio am gyfran gymhwys o bethau daionus y bywyd hwn, 403, 404; ac ar allu o honom fwynhau bendith Duw i'w canlyn, 406.
——— y Pummed Eirchiad ynddi a'n dysg i weddio ar i Dduw er mwyn Crist, faddeu yn rhad ein holl bechodau, 407, 408; bod ein galluogiad ni i faddeu i eraill, yn galondid i ni ofyn am faddeuant ein hunain, 411, 412.
——— y Chweched Eirchiad ynddi a'n dysg i weddio am i Dduw ein cadw rhag cael ein temtio i bechod, 414-418; ar fod iddo ein cynnal a'n gwaredu pan y'n temtier, 419, 420.
——— ei Therfyniad sydd yn ein dysgu i dynu ein holl galondid mewn gweddi oddiwrth Dduw yn unig, 421, 422; bod i ni briodoli y deyrnas, y gallu, a'r gogoniant iddo ef, 424, 425; y dylem chwanegu "Amen" at ein gweddiau, 426.
Gweinidogion a phobl, eu dyledswyddau, 245.
Gweithredoedd, y Cyfammod, 56; y pleidiau ynddo, 57; ei ammod, 57; y gwobrwy addawedig ynddo, 58; y gosb fygythiedig ynddo, 59; wedi ei wneyd âg Adda a'i hâd, 67.
Gwyr a Gwragedd, eu dyledswyddau, 235.
Halogrwydd ar enw Duw, yn cael ei wahardd, 211.
Iachawdwriaeth, trwy Grist yn unig; tuedd yr athrawiaeth o, 139; y modd y'i gwneir yn eiddo pechadur, 288, 289; cynnygiad ac addewid yr efengyl o honi, 297.
Iawn, gan bwy y'i gwnaed, 99; dros bwy, 100; ei effeithiau, 101.
Lladrad, yn cael ei wahardd, 260.
Llwon, y cyfreithlondeb o honynt, 205, 206.
Llywodraethwyr a deiliaid, eu dyledswyddau, 239, 240.

Llofruddiaeth yn cael ei wahardd, 249.

Mab, Duwdod y, 41.

Mabwysiad, ei natur, 141; ei effeithiau, 142, 143.

Marwolaeth, wedi dyfod trwy y cwymp, 73; sefyllfa credinwyr yn angau, 160; wedi eu marwolaeth, 160, 161; cyflwr y rhai digred.

Meistri a gweision, eu dyledswyddau; 239, 240.

Moddion gras, allanol a chyffredinol, 239; neillduol, 317; i bwy y'u gwneir yn effeithiol, 317.

Parhad, y saint, 158.

Pechod gwreiddiol, 71; yn mha beth y mae yn gynnwysedig, 72; ei natur, 72; pa beth a haedda pob pechod, 283.

Pechodau, rhai yn fwy ysgeler ynddynt eu hunain nag eraill, 280.

Prynedigaeth, trwy Grist, 119; rhaid ei chymhwyso at y credinwyr, 119; ei bod yn cael ei chymhwyso yn effeithiol gan yr Ysbryd Glan, 120; a hyny trwy weithio ffydd ynddynt, 121; doniau y prynedigaeth yn y fuchedd hon, 129; doniau ychwanegol, 148; ei donian yn angau, 157; wedi angau, 158; yn yr adgyfodiad, 160; pa fodd y cyfrennir doniau y, 289, 318.

Rhagluniaeth Duw, 53; ei gwrthddrychau, 54; ei nodweddiad, 55; y modd y'i gwahaniaethir, 55.

Rhieni a phlant, eu dyledswyddau, 236, 244.

——— cyntaf, wedi eu gadael i ryddid eu hewyllys, 60, eu cwymp, 61.

Sabbath, ordeiniad y, 214; ei newidiad, 220, 222; pa fodd y dylid ei sancteiddio, 223; pa fodd i'w dreulio, 225.

Sacramentau, natur y, 327; o ba beth y maent yn gynnwysedig, 329. eu dyben, 330; i ba beth y maent yn foddion effeithiol, 331, eu rhinwedd, 332; pa fodd y'u gwneir yn effeithiol, 333; sacramentau yr Hen Destament, 334-336; y Testament Newydd, 337; na ordeiniwyd ond dau gan Grist, 337.

Sancteiddhad yn waith rhad ras, 145; ei effeithiau, 146, 147.

Sicrwydd Ffydd, profion o, 302, 306.

Swpper yr Arglwydd, amrywiol enwau arno, 354; yr elfenau a ddefnyddir ynddo, 356; gweithrediadau sacramentawl, 357; ei amcan, 358; derbynwyr teilwng, 360; y canlyniadau o gyfrannogi yn deilwng, 362; nad yw yr ordinhad hon yn aberth dros bechod, 363; hunan-ymholiad yn ofynol cyn cyfrannogi, 364; am eu gwybodaeth 366; am eu ffydd, 367; am eu hedifeirwch, 369; am eu cariad, 370; am eu hufudd-dod newydd, 372; y perygl o esgeuluso hunan ymholiad, 373; pa fath agwedd meddwl a ddylai fod ar grefyddwyr pan wrth fwrdd yr Arglwydd, 373; hunan ymholiad yn ofynol wedi cyfrannogi o'r ordinhad hon, 374.

Trindod, cred yn yr athrawiaeth yn angenrheidiol er iachawdwriaeth, 42.

Tad, Duw yw y, 41.

Ufudd-dod, gofynedig gan Dduw oddiwrth ddyn, 167, 168; ei rëol 168; ei natur, 169.

Ufudd-dod diffuant, nad yw yn gymeradwy yn lle ufudd-dod perffaith, 138.

Uffern, ei phoenau, 72; yn dragywyddol, 72.

Undeb Crist a'r credinwyr, yn wirioneddol, 122.
Uwch raddolion, is-raddolion, a chydraddolion, eu dyledswyddau, 233, 234.
Y Gorchymyn Cyntaf, pa beth a ofynir ynddo, 186-188; pa beth a waherddir ynddo, 189-191; pa beth a feddylir wrth yr ymadrodd "Ger fy mron I," 192.
Yr Ail Orchymyn, pa beth a ofynir ynddo, 194-196; pa beth a waherddir ynddo, 197-199; y rhesymau a gyssylltir, 200-202.
Y Trydydd Gorchymyn, y dyledswyddau a ofynir, 202-207; y pechodau a waherddir, 208-210; y rheswm a gyssylltir, 211-213.
Y Pedwerydd Gorchymyn, 214; y dyledswyddau a orchymynir ynddo, 214-219; yn rhwymedig ar holl ddynolryw yn mhob oes, 220-222; pa fodd y dylid sancteiddio y Sabbath, 223-226; y pechodau a waherddir yn y gorchymyn hwn, 226-229; y rhesymau a gyssylltir, 229-231.
Y Pummed Gorchymyn, pa beth a ofynir ynddo, 232-240; y pechodau a waherddir, 241-246.
Y Chweched Gorchymyn, pa beth a ofynir ynddo, 246-248; y pechodau a waherddir, 249-251.
Y Seithfed Gorchymyn, y dyledswyddau a ofynir, 252, 253; pa beth a waherddir, 254, 255.
Yr Wythfed Gorchymyn, dyledswyddau a ofynir, 256-258; pechodau a waherddir, 259-262.
Y Nawfed Gorchymyn, dyledswyddau gofynol, 263, 264; y pechodau a waherddir, 265-268;
Y Degfed Gorchymyn, dyledswyddau gofynol, 269-271; y pechodau gwaharddedig, 272-275.
Ysbryd Glan, yr, yn Dduw, 41; ei ddylanwadau, 124-128; pechod yn ei erbyn, 128.
Ysgrythyrau, yr, yn Air Duw, 15; yn unig rëol, 17; a digonol, 18; wedi eu hysgrifenu ar y dechreu yn Hebraeg a Groeg, 19; yn dysgu yn benaf pa beth i'w gredu am Dduw, 18; a pha ddyledswyddau a ofyna Duw gan ddyn, 20.

DIWEDD.

ARGRAFFWYD GAN HUGH JONES, WYDDGRUG.